# Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Asesiad Anghenion Fferyllol

**Medi 2021**

Mae’r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg/ This document is available in English

## Cynnwys

Crynodeb weithredol .......... 4
1 Cyflwyniad .......... 10
2 Trosolwg o Ogledd Cymru .......... 34
3 Anghenion Iechyd Cyffredinol Gogledd Cymru .......... 58
4 Grwpiau cleifion a nodwyd – materion iechyd penodol .......... 73
5 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol .......... 88
6 Gwasanaethau eraill y GIG .......... 104
7 Anghenion iechyd y gall gwasanaethau fferyllol eu cwrdd .......... 111
8 Ardal Môn .......... 117
9 Ardal Arfon .......... 142
10 Ardal Dwyfor .......... 166
11 Ardal Meirionnydd .......... 190
12 Ardal Gorllewin Conwy .......... 215
13 Ardal Dwyrain Conwy .......... 243
14 Ardal Gogledd Sir Ddinbych .......... 267
15 Ardal Canol a De Sir Ddinbych .......... 291
16 Ardal Gogledd Orllewin Sir y Fflint .......... 317
17 Ardal Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint .......... 341
18 Ardal De Sir y Fflint .......... 365
19 Ardal Gogledd Orllewin Wrecsam .......... 390
20 Ardal Canol Wrecsam .......... 415
21 Ardal De Wrecsam .......... 437
22 Casgliadau at ddibenion atodlen 1 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 .......... 460
Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir .......... 473
Atodiad B – gwasanaethau hanfodol .......... 477
Atodiad C – gwasanaethau uwch .......... 480
Atodiad D – gwasanaethau gwell .......... 483
Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr cyfarpar fferyllol .......... 486
Atodiad F – aelodaeth grŵp llywio asesu anghenion fferyllol .......... 489
Atodiad G – arolwg cleifion a'r cyhoedd .......... 490

Atodiad H - canlyniadau llawn yr holiadur cleifion a'r cyhoedd ................................ 501
Atodiad I – holiadur contractwyr fferyllol .................................................................. 565
Atodiad J – holiadur arferion dosbarthu ..................................................................... 568
Atodiad K – adroddiad ymgynghori ........................................................................... 571
Atodiad L – oriau agor ................................................................................................ 621

## Crynodeb weithredol

O fis Hydref 1 2021 ymlaen, mae gan y bwrdd iechyd gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi a chadw'n gyfoes ddatganiad o'r anghenion am wasanaethau fferyllol i'r boblogaeth yn eu hardal, a elwir yn 'asesiad anghenion fferyllol'. Dyma asesiad anghenion fferyllol cyntaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a goruchwyliwyd ei ddatblygiad gan grŵp llywio oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r bwrdd iechyd, Fferyllfa Gymunedol Cymru, Pwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru a Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

Bydd yr asesiad anghenion fferyllol yn:

- Gosod allan anghenion iechyd cyfredol y boblogaeth a sut y byddant yn newid dros bum mlynedd o einioes y ddogfen (1 Hydref 2021 tan 30 Medi 2026),
- Disgrifio'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol gan fferyllfeydd, contractwyr dosbarthu teclynnau a meddygon sy'n dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd a thu hwnt,
- Ystyried y newidiadau hysbys a gyfyd yn ystod einioes y ddogfen megis newidiadau demograffig, datblygiadau tai, prosiectau adfywio a newidiadau i leoliad darparwyr gwasanaethau eraill y GIG, a
- Nodi unrhyw fylchau presennol yn y gwasanaethau a ddarperir ac unrhyw rai fydd yn codi yn ystod einioes y ddogfen.

O 1 Hydref 2021 caiff yr asesiad anghenion fferyllol ei ddefnyddio gan y bwrdd iechyd wrth ystyried a ddylid caniatáu ceisiadau i ymuno â'u rhestr fferyllol neu restr meddygon dosbarthu ai peidio dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Gellir apelio am benderfyniadau ar y cyfryw geisiadau at Weinidogion Cymru a fydd wedyn yn cyfeirio at y ddogfen wrth wrando ar unrhyw apêl o'r fath. Fe'i defnyddir hefyd fel sail o wybodaeth i benderfyniadau ar geisiadau am adleoli fferyllfeydd presennol ac adeiladau meddygon sy'n dosbarthu, ceisiadau i newid oriau agor craidd fferyllfeydd, ac yng nghyswllt comisiynu gwasanaethau newydd o fferyllfeydd.

Mae ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhannu ffin ag ôl troed ardaloedd yr awdurdodau lleol canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,
- Cyngor Sir Ddinbych,
- Cyngor Sir y Fflint,
- Cyngor Gwynedd,
- Cyngor Sir Ynys Môn, a
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Ffin ardal y bwrdd iechyd yw Môr Iwerddon i'r gogledd a'r gorllewin, Ceredigion a Phowys i'r de, a Lloegr yn y dwyrain. Diffinnir y rhanbarth gan arfordiroedd, ardaloedd gwledig yn enwedig yn y gorllewin, ac ardaloedd mwy trefol yn y dwyrain, yn bennaf yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a'r cyffiniau, Mae'r prif aneddfannau ar

hyd yr arfordir, gan gynnwys trefi glan môr poblogaidd fel y Rhyl, Llandudno, Pwllheli, Prestatyn a Thywyn. Mae'n ardal fynyddig, ac yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, ac y mae'r gymysgedd o nodweddion naturiol yn atyniad cryf i dwristiaid ac ymwelwyr.

Mae ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig yn yr ardal, ac yma y mae'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae poblogaeth y gogledd yn cynyddu ac yn heneiddio. Rhagwelir y bydd gostyngiad yng nghyfran y bobl 64 oed a hŷn yn ystod einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn (a than 2036) a chynnydd yng nghyfran y bobl 65 oed a hŷn, yn enwedig o rai 85 oed a hŷn (cynnydd o 90%).

Mae Pennod 1 yn gosod allan y fframwaith rheolaethol ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol sydd, at ddibenion y ddogfen hon, yn cynnwys y gwasanaethau hynny a ddarperir gan fferyllfeydd a chontractwyr dosbarthu teclynnau (a elwir yn wasanaethau hanfodol, uwch a gwell) a'r gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan ambell bractis meddyg teulu i gleifion cymwys. Mae hefyd yn cynnwys barn 536 o drigolion ardal y bwrdd iechyd am eu defnydd o fferyllfeydd a meddygon dosbarthu a gafwyd o holiadur ar-lein ac sy'n dangos:

- Defnyddir fferyllfeydd yn bennaf i ddosbarthu presgripsiynau, i brynu meddyginiaethau neu i gael cyngor.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymweld â fferyllfa yn fisol.
- I'r rhai sydd â dewis o ran yr amser maent yn ymweld â fferyllfa, 09.00 i 12.00 a 15.00 i 18.00 yw'r adegau mwyaf poblogaidd, ac yna 12.00 i 15.00.
- O ran dewis ddiwrnod o'r wythnos i ymweld â fferyllfa, nid oedd gan 43.5% o ymatebwyr ddewis, dywedodd 28.0% ddyddiau'r wythnos yn gyffredinol, a dywedodd 6.4% Sadyrnau.
- Y dylanwadau mwyaf cyffredin ar ddewis o ba fferyllfa i'w defnyddio yw agosrwydd at gyfeiriad cartref neu bractis y meddyg teulu, lleoliad sy'n hawdd ei gyrraedd, ymddiried yn y staff, perthynas â'r staff, bod fel arfer â'r eitemau sydd eu hangen mewn stoc, a rhwyddineb parcio.
- Mae 67% o ymatebwyr yn gyrru i fferyllfa a 25% yn cerdded.
- Gall 90.7% o ymatebwyr deithio i fferyllfa ymhen 20 munud. Dewisodd 3.9% beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan gontractwyr nad oedd modd ei gael yn genedlaethol:

- Gellir cyrraedd 88% o fferyllfeydd ar gadair olwyn,
- Mae gan yr holl fferyllfeydd ardal ymgynghori, ac eithrio am dair sydd â threfniadau eraill ar gyfer trafodaethau cyfrinachol,
- Dywedodd 81.6% o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ateb cynnydd yn y galw,
- Dywedodd 13.2% nad oedd ganddynt ddigon o allu ond y gallasent wneud addasiadau er mwyn gwneud hynny, a

- Dywedodd 5.3% nad oedd ganddynt ddigon o allu ac y buasent yn ei chael yn anodd ymdopi a chynnydd yn y galw.

Yn dilyn trosolwg o nodweddion demograffig trigolion ardal y bwrdd iechyd ym mhennod 2, mae pennod 3 yn canolbwyntio ar eu hanghenion iechyd.

Er mwyn sicrhau y gall y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a grwpiau eraill o gleifion gyrchu gwasanaethau fferyllol, mae pennod 4 yn nodi'r grwpiau penodol sy'n bresennol yn ardal y bwrdd iechyd a'u hanghenion iechyd tebygol.

Mae pennod 5 yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd a'r darparwyr hynny sydd y tu allan i'r ardal ond sydd yn darparu gwasanaethau i bobl sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd. Fel ar Awst 2021 mae 152 o fferyllfeydd ar restr fferyllol y bwrdd iechyd, yn cael eu rhedeg gan 42 o wahanol gontractwyr. Nid oes contractwyr dosbarthu teclynnau yn ardal y bwrdd iechyd. O'r 98 practis meddyg teulu, mae 37 yn dosbarthu i'w cleifion cymwys o 46 safle. Mae'r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch ac amddifadedd.

Mae mwyafrif y boblogaeth o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa. Mae'r ardaloedd hynny nad ydynt o fewn pellter gyrru 20 munud naill ai heb boblogaeth yn byw yno neu ond â rhai tai gwasgaredig, ffermydd, a safleoedd gwersylla a charafanau. Fodd bynnag, y mae rhai mân bentrefi yng Ngorllewin Conwy nad ydynt o fewn pellter gyrru 20 munud.

Mae mwyafrif helaeth (88.1%) yr eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu wedi eu dosbarthu gan un o'r 152 fferyllfa yn 2019/20, gyda 10.2% arall yn cael eu dosbarthu neu eu gweinyddu'n bersonol gan bractis meddyg teulu. Dosbarthwyd yr 1.7% oedd weddill yn bennaf yn Lloegr gan 1,508 o wahanol fferyllfeydd/ contractwyr dosbarthu teclynnau (yn bennaf oherwydd bod fferyllfeydd fymryn dros y ffin yng Nghaer a Chroesoswallt), er i ganran bychan iawn gael ei ddosbarthu gan 150 o wahanol fferyllfeydd mewn mannau eraill yng Nghymru.

Yn 2020/21, dosbarhwyd llai o eitemau wedi'u rhagnodi gan feddygfeydd MT gan un o'r fferyllfeydd (84.7%) gyda chynydd cyfatebol yn y nifer a ddosbarthwyd neu a roddwyd yn bersonol gan feddygfeydd MT (14.0%). Dosbarthwyd llai o eitemau yn Lloegr (1.3%) gan 1,364 o fferyllfeydd/contractwyr offer dosbarthu. Dosbarthwyd canran bychan iawn o eitemau yn rhywle arall yng Nghymru gan 193 o wahanol fferyllfeydd.

Mae gwasanaethau sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol naill ai trwy gynyddu neu leihau'r galw am wasanaeth neu wasanaethau penodol yn cael eu nodi ym mhennod 6. Ymysg gwasanaethau o'r fath mae'r ysbytai, gweinyddu eitemau yn bersonol gan bractis meddygon teulu, y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau, Helpa Fi i Stopio, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, clinigau iechyd rhywiol a gwasanaethau cymunedol eraill.

Wedi ystyried anghenion iechyd cyffredinol y boblogaeth, mae pennod 7 yn canolbwyntio ar y rhai y gellir eu hateb gan fferyllfeydd, contractwyr dosbarthu teclynnau a'r gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan ambell bractis meddyg teulu.

Rhannodd y bwrdd iechyd ei ardal yn 14 ardal at ddibenion y ddogfen hon, ar sail clystyrau meddygon teulu. Mae’r clystyrau yn dwyn ynghyd wasanaethau lleol sy’n rhan o ddarparu iechyd a gofal, ar draws ardal ddaearyddol sydd fel arfer yn gwasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau fod gofal yn cael ei gydgordio’n well i hyrwyddo lles unigolion a chymunedau. Maent felly yn ôl troed naturiol i’r ardaloedd yn yr asesiad anghenion fferyllol hwn.

Mae gan bob ardal bennod unswydd sy’n edrych ar anghenion y boblogaeth, yn ystyried a yw’r gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd yn ateb anghenion y trigolion hynny. Mae pob pennod yn mynd ymlaen i ystyried a oes unrhyw fylchau yng nghyflwyno’r gwasanaeth a all godi yn ystod einioes yr asesiad anghenion fferyllol.

Mae pennod 22 yn gosod allan yr anghenion cyfredol a rhai’r dyfodol a nodwyd gan y bwrdd iechyd. Pennodd y bwrdd iechyd y gwasanaethau canlynol fel rhai angenrheidiol i ateb yr angen am wasanaethau fferyllol yn eu hardal:

- Gwasanaethau hanfodol, uwch a gwell a ddarperir ym mhob adeilad sydd ar restr fferyllol, a
- Gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan y practis meddygon teulu sydd ar restr meddygon dosbarthu.

Er mwyn asesu a oes dosbarthiad daearyddol da o fferyllfeydd, mabwysiadodd y bwrdd iechyd amser teithio o 20 munud mewn car i fferyllfa. Nododd y bwrdd iechyd fod mwyafrif helaeth eu poblogaeth o fewn taith 20 munud o fferyllfa. Dengys Google Maps nad oes gan yr ardaloedd hynny sydd heb boblogaeth yn byw neu ddim ond tai gwasgaredig, ffermydd, a safleoedd gwersylla a charafanau. Fodd bynnag, y mae rhai mân bentrefi yng Ngorllewin Conwy nad ydynt o fewn taith 20 munud mewn car, ac y mae trigolion yn debyg o gael eu meddyginiaethau gan bractis eu meddyg teulu.

Mae’r asesiad anghenion fferyllol wedi nodi angen cyfredol am fferyllfa ym Metws y Coed sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos ac yn Nhowyn sydd ar agor chwe diwrnod yr wythnos gydag isafswm o dri o oriau agor craidd ar naill ai ddydd Sadwrn neu ddydd Sul.

Ni nodwyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt darparu gwasanaethau uwch.

Nododd yr asesiad anghenion fferyllol anghenion cyfredol yng nghyswllt darparu rhai gwell gwasanaethau yn yr ardaloedd canlynol:

- Betws-y-Coed
    - Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
    - Gwasanaeth cyflyrau cyffredin, a
    - Gwasanaeth cyflenwad meddyginiaeth mewn argyfwng
- Towyn
    - Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
    - Gwasanaeth cyflyrau cyffredin, a
    - Gwasanaeth cyflenwad meddyginiaeth mewn argyfwng

- Rhoi’r gorau i smygu lefel 2, a
- Helpa fi stopio @ fferyllfa

Ni nodwyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu.

Edrychodd y bwrdd iechyd hefyd ar newidiadau a ragwelir yn ystod einioes y ddogfen, er enghraifft, y twf a ragwelwyd mewn poblogaeth. Hefyd, mae wedi ystyried ‘Fferyllfa; Cyflwyno Cymru Iachach’ sy’n gosod allan nod tymor-hir am drawsnewid y gwasanaeth er mwyn sicrhau’r enillion iechyd gorau o feddyginiaethau a ragnodwyd. O ganlyniad, nododd yr asesiad anghenion fferyllol nifer o anghenion yn y dyfodol am wasanaethau hanfodol a gwell, er mae’n well gan y bwrdd iechyd petai’r bylchau yn narpariaeth y gwasanaethau hyn yn cael eu bodloni gan y fferyllfeydd presennol. Ni nodwyd unrhyw anghenion at y dyfodol o ran darparu gwasanaethau uwch.

Nododd yr asesiad anghenion fferyllol, petai unrhyw oriau agor ategol yn gostwng yn unrhyw ardal ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 ymlaen sy’n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol am ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair awr agor craidd ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle digwyddodd y gostyngiad, rhwng 09.00 a 17.00.

Mae’r asesiad anghenion fferyllol hefyd wedi canfod petai practis meddyg teulu’n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i’r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i’r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac sy’n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o’r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi’r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch gyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

Nododd yr asesiad anghenion fferyllol, os collir gwasanaethau hanfodol oherwydd i fferyllfa y tu allan i drefi/pentrefi penodol gael eu tynnu oddi ar restr fferyllol, y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref fydd yn darparu gwasanaethau hanfodol, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa a gaeodd.

Oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y tymor gwyliau, nododd yr asesiad anghenion fferyllol angen yn y dyfodol am ddarparu rhai gwell gwasanaethau penodo ar Sadyrnau mewn rhai ardaloedd o 1 Ebrill 2023 ymlaen rhwng Ebrill a Hydref.

Nododd yr asesiad anghenion fferyllol, os collir y ddarpariaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, a'r gwell gwasanaethau cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng mewn tref /pentref sydd y tu allan i drefi penodol, y bydd angen yn y dyfodol am ddarparu'r gwell gwasanaethau hyn yn yr un dref/pentref fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi peidio â'u darparu.

O ran y gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan ambell bractis meddyg teulu, nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu ar gyfer ardal lle mae caniatâd amlinellol y bydd angen yn y dyfodol am naill ai:

- i'r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch gyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

Cynhaliwyd 60 diwrnod o ymgynghori am ganfyddiadau'r fersiwn ymgynghorol o'r asesiad anghenion fferyllol, yn ôl gofynion y rheoliadau, ac mae'r ddogfen wedi'i hadolygu yng ngoleuni'r ymatebion.. Mae adroddiad am yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnwys fel atodiad i'r fersiwn hon, ac mae manylion o'r newidiadau a wnaed i'r asesiad anghenion fferyllfol wedi'u amlinellu yn yr adroddiad hwnnw.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas asesiad anghenion fferyllol

Pwrpas asesiad anghenion fferyllol yw asesu a gosod allan sut y gall darparu gwasanaethau fferyllol ateb anghenion iechyd poblogaeth ardal y bwrdd iechyd am gyfnod o hyd at bum mlynedd, gan gysylltu'n agos ag asesiad poblogaeth gogledd Cymru 2017. Tra bod yr asesiad poblogaeth yn canolbwyntio ar anghenion iechyd cyffredinol poblogaeth ardal y bwrdd iechyd, mae'r asesiad anghenion fferyllol yn edrych ar y modd y gellir ateb yr anghenion iechyd hyn gan wasanaethau fferyllol a gomisiynir gan y bwrdd iechyd.

Os bydd rhywun (fferyllfa neu gontractwr dosbarthu teclynnau) eisiau darparu gwasanaethau fferyllol, mae gofyn gwneud cais i'r bwrdd iechyd lle bydd yr eiddo wedi ei leoli, i'w cynnwys yn eu rhestr fferyllol. Yn gyffredinol, rhaid i'r cais gynnig cwrdd ag angen a osodir allan yn asesiad anghenion fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw. Serch hynny, y mae dau eithriad i hyn, ceisiadau newid perchenogaeth, ac adleoliadau ar gyfer pwrpasau busnes.

Os bydd meddyg teulu am ddosbarthu o ardal newydd neu o eiddo newydd neu ychwanegol, mae gofyn iddi/o hefyd wneud cais i'r bwrdd iechyd i gael ei g/chynnwys ar eu rhestr meddyg dosbarthu neu am i ardal newydd neu eiddo newydd neu ychwanegol gael eu rhestru mewn perthynas ag ef/hi. Yn gyffredinol, rhaid i'r cais hefyd gynnig cwrdd ag angen a osodir allan yn asesiad anghenion fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw.

Yn ogystal â gweld a oes angen am eiddo ychwanegol, bydd yr asesiad anghenion fferyllol hefyd yn nodi a oes angen am wasanaeth neu wasanaethau ychwanegol. Gallai anghenion a nodwyd naill ai fod yn gyfredol neu yn codi ymhen oes pum mlynedd yr asesiad anghenion fferyllol.

## 1.2 Dyletswyddau'r bwrdd iechyd yng nghyswllt yr asesiad anghenion fferyllol

Mae mwy o wybodaeth am ddyletswyddau penodol y bwrdd iechyd yng nghyswllt asesiadau anghenion fferyllol a'r cefndir polisi i asesiadau anghenion fferyllol yn atodiad A; i grynhoi, fodd bynnag, rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Cyhoeddi ei asesiad anghenion fferyllol cyntaf erbyn 1 Hydref 2021;
- Cyhoeddi datganiadau diwygiedig (h.y., asesiadau anghenion fferyllol dilynol), bob pum mlynedd, sy'n cydymffurfio a'r gofynion rheolaethol;
- Cyhoeddi asesiad anghenion fferyllol dilynol yn gynt pan fydd yn nodi newidiadau i'r angen am wasanaethau fferyllol sydd yn sylweddol, oni fyddai gwneud hynny yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny; a
- Cynhyrchu datganiadau ategol sy'n esbonio newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol dan rai amgylchiadau.

### 1.3 Gwasanaethau fferyllol

Mae'r gwasanaethau y mae'n rhaid i asesiad anghenion fferyllol eu cynnwys wedi eu diffinio yn Neddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Rheoliadau (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) y GIG 2020.

Gall gwasanaethau fferyllol gael eu darparu gan yr isod:

- Contractwr fferyllfa sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr fferyllol i ardal y bwrdd iechyd;
- Contractwr dosbarthu teclynnau sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr fferyllol a ddelir ar gyfer ardal y bwrdd iechyd; a
- Meddyg neu bractis meddyg teulu sydd ar restr meddygon dosbarthu a ddelir ar gyfer ardal y bwrdd iechyd.

Mae pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am baratoi, cynnal a chyhoeddi ei restri. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mae 152 fferyllfa a 37 practis sy'n dosbarthu.

Gall contractwyr weithredu naill ai fel unig fasnachwr, partneriaeth neu gorff corfforaethol. Mae Deddf Meddyginiaethau 1968 yn llywodraethu pwy all fod yn gontractwr fferyllfa, ond does dim cyfyngiad ar bwy all weithredu fel contractwr dosbarthu teclynnau.

#### 1.3.1 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr fferyllfa

Yn wahanol i feddygon teulu, deintyddion ac optometryddion, nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dal contractau gyda'r contractwyr fferyllfa yn ei ardal. Yn hytrach, maent yn darparu gwasanaethau dan fframwaith contractaidd, a elwir weithiau yn fframwaith contractaidd fferyllfeydd cymunedol. Y mae manylion y rhain (telerau gwasanaeth) yn atodlen 5 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, y Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch a Gwell) (Cymru) 2005, a Chyfarwyddiadau'r Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Teclynnau) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr fferyllol yn darparu tri math o wasanaeth sy'n dod dan y diffiniad o wasanaethau fferyllol a'r fframwaith contractaidd fferyllfeydd cymunedol. Dyma hwy:

- Gwasanaethau hanfodol – rhaid i bob fferyllfa ddarparu'r gwasanaethau hyn
    - Dosbarthu presgripsiynau, gan gynnwys cyflenwi cyffur neu declyn mewn argyfwng heb bresgripsiwn
    - Dosbarthu presgripsiynau ailadroddadwy
    - Gwaredu cyffuriau nad oes mo'u hangen
    - Hyrwyddo dulliau iach o fyw
    - Cyfeirio, a
    - Cefnogi hunanofal

- Gwasanaethau uwch – gall fferyllfeydd ddewis darparu'r gwasanaethau hyn neu beidio. Os byddant yn dewis darparu un neu fwy o'r gwasanaethau uwch,

rhaid iddynt ateb rhai gofynion a rhaid iddynt hefyd gydymffurfio'n llawn â gofynion gwasanaethau hanfodol a llywodraethiant clinigol.
    - Adolygiad defnydd o feddyginiaethau a gwasanaethau ymyriad presgripsiynau (a elwir fel arfer yn adolygiad defnydd o feddyginiaethau)
    - Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau
    - Addasu teclynnau stoma
    - Adolygiad o ddefnydd teclynnau

- Gwell gwasanaethau - mae manylebion gwasanaeth ar gyfer y math hwn o wasanaeth yn cael eu datblygu gan y bwrdd iechyd ac yna'u comisiynu i gwrdd ag anghenion iechyd penodol. Dyma restr o well gwasanaethau y gellir eu comisiynu:
    - Monitro gwrthgeulyddion
    - Gwasanaeth cartrefi gofal
    - Gwasanaeth rheoli meddyginiaethau penodol i glefydau
    - Gwasanaeth cyflenwi bwyd rhydd o glwten
    - Gwasanaeth cludo i'r cartref
    - Gwasanaeth mynediad at iaith
    - Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau
    - Gwasanaeth asesu meddyginiaethau a chefnogaeth i gydymffurfio
    - Cynllun mân anhwylderau
    - Cyfnewid nodwyddau
    - Gwasanaeth argaeledd cyffuriau arbenigol ar alwad
    - Gwasanaeth tu allan i oriau
    - Gwasanaeth cyfeirio grwpiau cleifion
    - Gwasanaeth cefnogi rhagnodwyr
    - Gwasanaeth i ysgolion
    - Gwasanaeth sgrinio
    - Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu
    - Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth
    - Gwasanaeth rhagnodi
    - Gwasanaeth casglu gwrth-feirol
    - Gwasanaeth cyflenwi mewn argyfwng

Mae gwybodaeth bellach am ofynion y gwasanaethau hanfodol, uwch a gwell yn atodiadau B, C a D.

Sail darparu'r holl wasanaethau hyn yw'r gofyniad ar bob contractwr fferyllfa i gymryd rhan mewn system o lywodraethiant clinigol. Mae'r system wedi ei gosod allan yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac y mae'n cynnwys:

- Rhaglen o ymwneud cleifion a'r cyhoedd
- Rhaglen archwilio clinigol
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithlonrwydd clinigol
- Rhaglen staffio a rheoli staff
- Rhaglen llywodraethiant gwybodaeth, a
- Rhaglen safonau eiddo.

Mae gofyn i fferyllfeydd fod ar agor am o leiaf 40 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd, ond mae llawer yn dewis aros ar agor yn hwy, a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor ategol. Dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 mae'n bosib i gontractwyr fferyllfeydd wneud cais llwyddiannus i agor fferyllfa gyda mwy o oriau agor craidd er mwyn ateb angen a nodwyd mewn asesiad anghenion fferyllol. Os dymuna fferyllfa ostwng ei horiau agor craidd i lai na 40 awr yr wythnos, rhaid iddynt yn gyntaf wneud cais i'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, does dim rheidrwydd ar y bwrdd iechyd i gytuno i gais o'r fath.

Mae oriau agor arfaethedig pob fferyllfa wedi eu gosod allan yn y cais cychwynnol, ac os caniateir y cais a bod y fferyllfa wedyn yn agor, dyna fydd oriau agor y fferyllfa dan y contract. Gall y contractwr wedyn wneud cais i newid ei oriau agor craidd a bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei hardal fel y'u gwelir yn yr asesiad anghenion fferyllol er mwyn penderfynu a ddylai gytuno i newid yr oriau agor craidd neu beidio. Os bydd contractwr fferyllfa eisiau newid ei oriau agor ategol, y cyfan mae'n rhaid gwneud yw hysbysu'r bwrdd iechyd am y newid, gan roi o leiaf dri mis o rybudd.

### 1.3.2 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr dosbarthu teclynnau

Fel gyda chontractwyr fferyllfeydd, nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dal contractau gyda chontractwyr dosbarthu teclynnau. Mae telerau eu gwasanaeth wedi eu gosod allan yn atodlen 6 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 a Chyfarwyddiadau'r Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch (Teclynnau) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr dosbarthu teclynnau yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer teclynnau (nid cyffuriau), er enghraifft cathetrau a bagiau colostomi, sy'n dod o dan y diffiniad o wasanaethau fferyllol:

- Dosbarthu presgripsiynau (electronig a heb fod yn electronig), gan gynnwys cyflenwi mewn argyfwng heb bresgripsiwn
- Dosbarthu presgripsiynau ailadroddadwy
- Gwasanaeth cludo rhai eitemau i gartrefi
- Cyflenwi eitemau ategol priodol (e.e. weips gwaredadwy a bagiau gwaredu)
- Darparu cyngor clinigol arbenigol am y teclynnau, a
- Cyfeirio

Gallant hefyd ddewis darparu gwasanaethau uwch. Os byddant yn dewis eu darparu, yna rhaid iddynt gwrdd â rhai gofynion a rhaid iddynt hefyd gydymffurfio'n llawn â thelerau eu gwasanaeth a'r gofynion llywodraethiant clinigol. Y ddau wasanaeth uwch y gallant ddarparu yw:

- Addasu teclynnau stoma
- Adolygiadau defnydd o declynnau

Fel gyda fferyllfeydd, mae gofyn i gontractwyr dosbarthu teclynnau gymryd rhan mewn system o lywodraethiant clinigol. Mae’r system hon wedi ei gosod allan yn Rheoliadau’r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac y mae’n cynnwys:

- Rhaglen o ymwneud cleifion a’r cyhoedd
- Rhaglen archwilio clinigol
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithlonrwydd clinigol
- Rhaglen staffio a staff,
- Rhaglen llywodraethiant gwybodaeth, a
- Rhaglen safonau eiddo.

Mae mwy o wybodaeth am y gofynion i’r gwasanaethau hyn yn atodiad E.

Mae gofyn i gontractwyr dosbarthu teclynnau fod ar agor am o leiaf 30 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd. Gallant ddewis aros ar agor yn hwy, a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor ategol. Dan Reoliadau’r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 mae’n bosib i gontractwyr dosbarthu teclynnau wneud cais llwyddiannus i agor eiddo gyda mwy o oriau agor craidd er mwyn ateb angen a nodwyd mewn asesiad anghenion fferyllol.

Mae oriau agor arfaethedig pob contractwr dosbarthu teclynnau wedi eu gosod allan yn y cais cychwynnol, ac os caniateir y cais a bod y contractwr dosbarthu teclynnau wedyn yn agor, dyna fydd oriau agor y contractwr dosbarthu teclynnau dan y contract. Gall y contractwr wedyn wneud cais i newid ei oriau agor craidd a bydd y bwrdd iechyd yn asesu’r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei hardal fel y’u gwelir yn yr asesiad anghenion fferyllol er mwyn penderfynu a ddylai gytuno i newid yr oriau agor craidd neu beidio.

### 1.3.3 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan feddygon

Mae Rheoliadau’r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn caniatáu i feddygon ddosbarthu i gleifion cymwys dan rai amgylchiadau. Mae’r rheoliadau yn gymhleth yn hyn o beth, ond i grynhoi:

- Rhaid i gleifion fyw mewn ‘ardal reoledig’ (ardal a bennwyd gan y bwrdd iechyd neu sefydliad a’i rhagflaenodd fel un wledig ei naws, neu ar apêl gan Weinidogion Cymru), fwy nag 1.6km (wedi’i fesur mewn llinell syth) o fferyllfa, a
- Rhaid i’r practis fod â chaniatâd eiddo a chaniatâd amlinellol i ddosbarthu i’r ardal honno.

Mae rhai eithriadau i hyn: er enghraifft, cleifion sydd wedi bodloni’r bwrdd iechyd y buasent yn ei chael yn anodd dros ben cyrchu fferyllfa oherwydd pellter neu ddulliau cyfathrebu annigonol.

## 1.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae gwasanaethau eraill a gomisiynir neu a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac sy’n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol hefyd wedi eu cynnwys yn yr asesiad anghenion fferyllol.

## 1.5 Sut y cynhaliwyd yr asesiad

### 1.5.1 Grŵp llywio asesiad anghenion fferyllol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyhoeddi’r asesiad anghenion fferyllol, a’r cyfarwyddwr gweithredol gofal cychwynnol a gwasanaethau cymunedol sy’n gyfrifol am ei ddatblygu. Sefydlodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr grŵp llywio asesiad anghenion fferyllol: diben y grŵp hwn oedd sicrhau datblygiad asesiad anghenion fferyllol cadarn sy’n cydymffurfio â Rheoliadau’r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac sydd yn ateb anghenion y boblogaeth leol. Yr oedd aelodaeth y grŵp llywio yn sicrhau bod cynrychiolaeth o’r holl brif randdeiliaid, a gellir ei weld yn atodiad F.

### 1.5.2 Ardaloedd asesiad anghenion fferyllol

Mae’r ardaloedd a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad anghenion fferyllol yn cyfateb i ffiniau’r clystyrau meddygon teulu, sef:

- Môn
- Arfon
- Dwyfor
- Meirionnydd
- Gorllewin Conwy
- Dwyrain Conwy
- Gogledd Sir Ddinbych
- Canol a De Sir Ddinbych
- Gogledd Orllewin Sir y Fflint
- Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint
- De Sir y Fflint
- Gogledd Orllewin Wrecsam
- Canol Wrecsam
- De Wrecsam


Mae’r clystyrau yn dwyn ynghyd wasanaethau lleol sy’n ymwneud â darparu iechyd a gofal, ar draws ardal ddaearyddol sydd yn nodweddiadol yn gwasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal wedi ei gydgordio’n well i hyrwyddo lles unigolion a chymunedau. Maent felly yn ôl troed naturiol i’r ardaloedd o fewn yr asesiad anghenion fferyllol hwn.

### 1.5.3 Ymwneud cleifion a'r cyhoedd

Er mwyn cael barn cleifion a'r cyhoedd am wasanaethau fferyllol, datblygwyd holiadur a'i wneud ar gael ar-lein o 17 Tachwedd 2020 tan 11 Ionawr 2021. Oherwydd pandemig Covid-19, ni fu modd ymwneud â'r boblogaeth wyneb yn wyneb; fodd bynnag, yr oedd yr holiadur ar-lein wedi'i gefnogi gan gyfarfodydd rhithiol ac fe'i hyrwyddwyd trwy gyfrwng posteri gyda chodau QR mewn fferyllfeydd a meddygfeydd. Hefyd, cafodd fferyllfeydd gyflenwad o daflenni i'w cynnwys mewn bagiau o feddyginiaeth oedd yn cael eu dosbarthu. Yr oedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac y mae copi, sy'n dangos y cwestiynau a ofynnwyd, yn atodiad G. Mae'r canlyniadau llawn yn atodiad H

Llenwodd dau o bobl yr holiadur yn Gymraeg a 534 yn Saesneg. Mae'r map gwres isod yn dangos lleoliad y sawl a atebodd ar sail yr ardal cod post lle maent yn byw. Ni ddylid nodi nad yw'r ardaloedd cod post yn cyfateb i ffiniau ardal y bwrdd iechyd ac na dderbyniwyd ymatebion gan bob ardal cod post.

**Map 1 - map yn dangos ardaloedd cod post y sawl a ymatebodd i'r holiadur i gleifion a'r cyhoedd**




© Hawlfraint yr Arolwg Ordnans trwydded 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Pan ofynnwyd a oedd eu presgripsiynau yn cael eu dosbarthu gan bractis eu meddyg teulu:


- Dywedodd 56.7% o ymatebwyr na,
- Oedd meddai 39.4%,
- Doedd 1.7% ddim yn gwybod neu
- Dewisodd 2.2% beidio ag ateb y cwestiwn; er hynny, y mae eu hymatebion wedi hynny yn awgrymu mai fferyllfa sy'n eu dosbarthu.

O ran eu dewis iaith wrth gyrchu gwasanaethau yn y fferyllfa neu bractis meddyg teulu:

- Dywedodd 88.1% o ymatebwyr Saesneg,
- Cymraeg ddywedodd 10.8%,
- Dewisodd 0.9% beidio ag ateb y cwestiwn, a
- Dywedodd 0.2% naill ai Gymraeg neu Saesneg.

Disgrifiodd 71.1% o ymatebwyr eu hunaniaeth rhywedd fel benyw, 25.2% fel gwryw, roedd yn well gan 2.1% beidio â dweud a dewisodd 1.3% beidio ag ateb y cwestiwn hwn. Dengys y ffigwr isod ddadansoddiad oedran yr ymatebwyr.

**Ffigwr 1 – faint yw eich oed?**





Pan ofynnwyd pam eu bod fel arfer yn ymweld â fferyllfa, dyma oedd yr ymatebion mwyaf cyffredin:

- I gael presgripsiwn i rywun arall – 286 o bobl
- I brynu meddyginiaeth i mi fy hun – 197 o bobl
- I gael presgripsiwn i mi fy hun – 188 o bobl
- I gael cyngor i mi fy hun – 150 o bobl
- I brynu meddyginiaeth i rywun arall – 106 o bobl
- I gael cyngor i rywun arall – 68 o bobl.

Yr oedd modd rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn.


Dengys y ffigwr isod pa mor aml mae ymatebwyr yn ymweld â fferyllfa. Fel y gellid disgwyl, bob mis y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymweld, sy'n adlewyrchu hyd presgripsiwn.

**Ffigwr 2 – Pa mor aml y byddwch yn ymweld â fferyllfa?**





Er nad oedd gan 32.1% o ymatebwyr amser oedd fwyaf cyfleus iddynt, i'r rhai a wnaeth ymateb, yr amser mwyaf cyfleus oedd 09.00 i 12.00 (24.6% o ymatebion), ac yna 15.00 i 18.00 (17.2% o ymatebion) wedyn 12.00 i 15.00 (14.2%). Dewisodd 0.9% beidio ag ateb y cwestiwn.

**Ffigwr 3 – Pa amser sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?**



Yna, dadansoddwyd yr amser mwyaf cyfleus i fynd i fferyllfa yn ôl oedran i nodi unrhyw wahaniaethau y gall hyn gael o ran yr adegau y defnyddir fferyllfeydd

**Ffigwr 4 – Oedran ac amser mwyaf poblogaidd i ymweld â fferyllfa**




Pan ofynnwyd pa un oedd y diwrnod mwyaf cyfleus i fynd i fferyllfa:

- Dywedodd 43.5% nad oedd gwahaniaeth ganddynt,
- Dywedodd 28.0% ddyddiau'r wythnos yn gyffredinol,
- Dydd Sadwrn oedd dewis 6.4%,
- Dywedodd 5.8% benwythnosau yn gyffredinol,
- Dewisodd 1.1% beidio ag ateb y cwestiwn, ac
- Yr oedd y 15.2% oedd weddill wedi eu gwasgaru'n gyfartal rhwng dyddiau penodol o'r wythnos.

Dywedodd 122 o bobl y bu amser yn ddiweddar pan nad oeddent wedi medru defnyddio eu fferyllfa arferol. Pan ofynnwyd beth wnaethon nhw yn lle hynny:

- Aeth 59 o bobl i fferyllfa arall,
- Arhosodd 25 o bobl iddi agor,
- Gwnaeth 16 o bobl fwy nag un peth, e.e., aros nes i'r fferyllfa ail-agor a mynd at eu meddyg teulu; aros nes bod y fferyllfa ar agor a phrynu paracetamol o siop.
- Aeth tri at eu meddyg teulu,
- Aeth un i'r ysbyty, ac
- Aeth un i uned mân anafiadau.

Lle dewiswyd ‘arall’, rhoddwyd y wybodaeth isod:

- Mynd heb y feddyginiaeth
- Dibynnu ar gyfeillion neu deulu i gasglu’r feddyginiaeth am eu bod yn cysgodi neu am reswm arall
- Cludodd y fferyllfa y feddyginiaeth atynt
- Ddim yn mynd allan o gwbl oherwydd Covid
- Aros nes bod dim ciw
- Ei adael tan rywbryd eto.

Holodd yr holiadur bobl am eu dewis o fferyllfa. Dywedodd 82.6% eu bod o hyd yn defnyddio’r un fferyllfa, 12.9% eu bod yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond bod yn well ganddynt ymweld ag un yn fwyaf aml, prin y mae 1.3% yn defnyddio fferyllfa, doedd 0.7% byth yn defnyddio fferyllfa, ac y mae 0.9% yn wastad yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol, a dewisodd 1.5% beidio ag ateb y cwestiwn.

Mae’r tabl isod yn dangos y 12 prif beth sy’n dylanwadu ar ddewis fferyllfa.

**Tabl 1 – beth sy’n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa?**

| **Rheswm** | **Nifer ymatebwyr** |
|---|---|
| Nes at fy nghartref | 341 |
| Nes at fy meddyg | 245 |
| Mae’r fferyllfa yn hawdd mynd iddi | 236 |
| Rwy’n ymddiried yn y staff sy’n gweithio yno | 190 |
| Mae’r staff yn f’adnabod ac yn edrych ar f’ôl | 159 |
| Fel arfer mae ganddynt yr hyn mae arnaf ei angen | 159 |
| Mae’n hawdd parcio yn y fferyllfa | 157 |
| Y gwasanaeth i gwsmeriaid | 152 |
| Mae gan y fferyllfa oriau agor da | 145 |
| Mae’r fferyllfa yn rhoi cyngor a gwybodaeth dda | 142 |
| Mae yna fan preifat os bydd angen i mi siarad â’r fferyllydd | 141 |
| Mae’r gwasanaeth yn gyflym | 130 |

Pan ofynnwyd a oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydynt yn ei defnyddio, dywedodd 158 (29.5%) oes a rhoddwyd y rhesymau isod.

**Tabl 2 – rhesymau dros beidio â defnyddio fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach**


| Rheswm | Nifer ymatebion |
|---|---|
| Cefais brofiad gwael yn y gorffennol | 26 |
| Mae'r gwasanaeth yn rhy araf | 24 |
| Nid yw'n hawdd parcio wrth y fferyllfa | 23 |
| Does ganddyn nhw ddim yr hyn sydd arna'i ei angen mewn stoc | 10 |
| Nid yw'r fferyllfa yn cludo meddyginiaethau | 5 |
| Nid yw ar agor pan fydda'i angen | 5 |
| Does dim digon o breifatrwydd | 4 |
| Dyw'r staff ddim yn f'adnabod | 3 |

Lle rhoddwyd 'arall' fel un o'r prif themâu, dyma'r wybodaeth ychwanegol a roddwyd:

- Ansawdd a lefel y gwasanaeth
- Well gen i'r un sydd ymhellach i ffwrdd
- Dewisodd y feddygfa y fferyllfa
- Ddim yn gysylltiedig â phractis y meddyg teulu neu yn yr un pentref â'r practis
- Pryderon am sut i newid ac a fydd hyn yn achosi oedi cyn cael meddyginiaethau.

Yna edrychodd yr holiadur ar sut y mae pobl yn teithio i fferyllfeydd.

**Ffigwr 5 – os byddwch yn mynd i'r fferyllfa sut byddwch chi'n mynd yno fel arfer?**





I'r rhai a ddewisodd 'arall':

- Cyfaill neu aelod o'r teulu yn casglu'r feddyginiaeth – tri o bobl,
- Mewn cadair olwyn - un person,

- Meddyginiaethau'n cael eu cludo gan y fferyllfa – un person,
- Cyfaill neu aelod o'r teulu yn rhoi lifft – un person
- Car neu ar droed yn dibynnu ar y tywydd – un person.

I fwyafrif yr ymatebwyr, mae'r siwrne yn cymryd llai na 15 munud (80.2%), gyda 90.7% o fewn 20 munud i fferyllfa. Dewisodd 3.9% o bobl beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

**Ffigwr 6 – faint o amser mae'n gymryd fel arfer i gyrraedd y fferyllfa?**




I'r rhai y mae eu taith yn cymryd mwy na 20 munud:

- 14 o bobl yn mynd mewn car,
- Wyth yn cerdded,
- Tri yn mynd ar y bws,
- Un yn cael meddyginiaeth wedi'i gludo,
- Un yn mynd ar feic, ac
- Ni roddodd un person wybodaeth am y dull o deithio.

Pan ofynnwyd a fuasent yn dweud eu bod yn cael anhawster cyrraedd fferyllfa, dywedodd 83.2% na, a dewisodd 4.7% beidio ag ateb y cwestiwn. O ran y 64 ymatebwr a ddywedodd eu bod yn cael anhawster, rhoddwyd y wybodaeth isod:

- Problemau iechyd a symudedd – 26 o bobl
- Oriau agor y fferyllfa yn anghyfleus – chwech o bobl
- Problemau parcio - chwech o bobl
- Byddwn yn cael anhawster petae'n rhaid cerdded/dim car/methu cael lifft – pump o bobl
- Ddim yn gyrru/ddim ar lwybr bws – tri o bobl
- Hunan-ynysu/cysgodi – tri o bobl
- Heneiddio /ddim yn mynd allan os yw'r tywydd yn wael – dau o bobl
- Angen bob adref oherwydd cyfrifoldebau gofal – dau o bobl
- Ciwiau – dau o bobl

Yr oedd adran nesaf yr holiadur yn canolbwyntio ar y gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan ambell bractis meddyg teulu. Dywedodd 210 o bobl fod y cyfan neu'r rhan fwyaf o'u meddyginiaethau yn cael eu dosbarthu gan bractis eu meddyg teulu; fodd bynnag, atebwyd y cwestiynau yn yr adran hon hefyd gan 31 o bobl a ddywedodd nad oedd practis eu meddyg teulu yn dosbarthu eu meddyginiaeth a dewisodd un person beidio ag ateb y cwestiwn. Mae atebion i rai o'r cwestiynau cynharach yn awgrymu nad yw pobl yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng fferyllfa a fferyllfa practis meddyg teulu. Mae'n bosib felly nad oes a wnelo rhai o'r atebion i'r cwestiynau yn yr adran hon â fferyllfa practis meddyg teulu.

Dywedodd 110 o bobl eu bod yn teithio at bractis eu meddyg teulu mewn car, 32 ar droed, pedwar mewn bws, un ar feic ac un mewn tacsi. Dewisodd 24 o bobl 'arall', naill ai heb esbonio ymhellach neu gadarnhau, o'u hymatebion, nad yw eu practis yn rhoi'r meddyginiaethau a'u bod wedi camddeall y cwestiwn.

Pan ofynnwyd faint o amser a gymer iddynt deithio i'r fferyllfa ym mhractis eu meddyg teulu:

- Llai na phum munud – 37 o bobl
- Rhwng pump a 15 munud – 90 o bobl
- Mwy na 15 munud ond llai na 20 munud – 25 o bobl
- Mwy na 20 munud – 13 o bobl.

Dywedodd 28 o bobl eu bod yn cael anhawster cyrraedd fferyllfa practis eu meddyg teulu am y rhesymau isod:

- Problemau symudedd – pump o bobl
- Amodau tywydd gwael – dau o bobl
- Cael anhawster pe na bawn yn gyrru neu'n methu cael lifft – dau o bobl
- Prysur iawn /cymryd gormod o amser i brosesu presgripsiwn ailadroddadwy– dau o bobl
- Anhawster parcio – dau o bobl
- Gorfod cymryd y car allan a gyrru – dau o bobl
- Methu gyrru a chyflwr meddygol /cyfyngiadau Covid /pethau yn aml ddim yno felly gorfod mynd yn ôl yno /ddim yn byw yn agos at y practis /lleoliad/dim gwybodaeth am fferyllfa yn y practis /cangen y feddygfa ar gau /dim llwybr bws uniongyrchol a methu gyrru os wyf yn sâl – un person yr un

Chwilio ar y rhyngrwyd oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o ddarganfod gwybodaeth am fferyllfa, er enghraifft, oriau agor a gwasanaethau a gynigir (157 ymatebydd) ac yna edrych yn y ffenestr (122 ymatebydd), taro i mewn a gofyn (113 ymatebydd), defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (54 ymatebydd) a holi ffrind (42 ymatebydd). Roedd modd rhoi mwy nag un dewis i'r cwestiwn hwn.

Pan ofynnwyd a oeddent yn medru trafod rhywbeth yn breifat gyda fferyllydd, atebodd y mwyafrif naill ai oeddent (54.9%) neu na fu'n rhaid iddynt wneud hynny (25.2%). Fodd bynnag, dywedodd 14.2% o ymatebwyr na, sydd yn achos pryder yn

arbennig oherwydd i'r holl fferyllfeydd gadarnhau naill ai fod ganddynt fan ymgynghori neu drefniadau eraill ar gyfer trafodaethau cyfrinachol.

Tra bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn defnyddio fferyllfa er mwyn cael presgripsiwn, y mae fferyllfeydd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau clinigol. Rhestrodd yr holiadur nifer o wasanaethau a ddarperir gan y cyfan neu fwyafrif y fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd a gofyn a oedd ymatebwyr yn ymwybodol ohonynt. Mae'r tabl isod yn dangos eu hymatebion.

**Tabl 3 - ydych chi'n ymwybodol y medrwch gael y gwasanaethau canlynol o fferyllfeydd fel rhan o'r GIG?**

| Gwasanaeth | Nifer o bobl sy'n ymwybodol o'r gwasanaeth |
|---|---|
| Brechiadau ffliw | 432 |
| Cynllun anhwylderau cyffredin | 388 |
| Gwasanaeth adolygu defnydd o feddyginiaethau | 272 |
| Help i roi'r gorau i smygu | 214 |
| Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, y cyfeirir ato hefyd fel 'pilsen y bore wedyn' | 188 |
| Gwasanaeth adolygiad meddyginiaethau rhyddhau | 107 |
| Gwasanaeth adolygu defnydd o declynnau | 56 |

Yr oedd gan 255 o bobl fwy o sylwadau i'w gwneud am wasanaethau'r fferyllfa a'r feddygfa. Yr oedd 104 o sylwadau cadarnhaol, 117 negyddol, 17 oedd yn gadarnhaol a negyddol, 15 o arsylwadau a thri sylw am bractis meddyg teulu yn unig.

Ymysg themâu o'r sylwadau cadarnhaol yr oedd:

- Safon ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir
- Gallu i ofyn i'r fferyllydd am gyngor
- Yn barod i fynd ymhellach
- Staff cyfeillgar, cymwynasgar a hawdd mynd atynt

Ymysg enghreifftiau o sylwadau cadarnhaol mae:

- "Fferyllfa wych – fferyllydd proffesiynol a staff cwrtais."
- "Maent yn gweithio'n wirioneddol galed a rhaid i bethau fod yn anodd iawn iddynt yn ystod y cyfnod cloi."
- "Mor gymwynasgar"
- "Staff sy'n gweithio'n galed a gwasanaeth gwych i gwsmeriaid."
- "Cynnig gwasanaeth gwych a chyfeillgar. Dim byd yn ormod o drafferth."

- “Yr holl staff yn gwrtais a chyfeillgar. Yn wastad yn mynd allan o’i ffordd i helpu.”
- “Does dim byd yn ormod o drafferth, tu hwnt o gymwynasgar, fedra’i mo’u canmol yn ddigon, mae ganddyn nhw o hyd yr hyn sydd arna’i ei angen.”
- “Mae tîm ein fferyllfa leol wedi gweithio’n ddiflino ers Mawrth 2020 i gynnig gwasanaeth rhagorol yn ein pentref [enw] ac y mae fy nheulu’n hynod ddiolchgar iddynt am hyn.”
- “Rwy’n defnyddio’r fferyllfa yn [lleoliad] oherwydd mae ganddyn nhw yr hyn sydd arna’i ei angen, yn argymell dewisiadau eraill pan fydd prinder cenedlaethol, e.e. [therapi amnewid hormonau] ac y maent yn groesawgar dros ben. Maent yn wirioneddol hyfryd yno ac os oes cyfle i chi gyfleu hyn, cofiwch wneud. Eu gwasanaeth i gwsmeriaid yw’r gorau y deuthum ar ei draws mewn fferyllfa.”

O ran sylwadau negyddol, dyma oedd y prif themâu:

- Amser mae’n gymryd i bresgripsiynau gael eu dosbarthu, yn enwedig pan maent yn cael eu hanfon i ganolfan ddosbarthu
- Newidiadau i ffyrdd o weithio oherwydd y pandemig – er enghraifft, gorfod ciwio y tu allan ym mhob tywydd a’r amser a dreulir yn aros
- Cyfathrebu gwael gyda chleifion, a rhwng fferyllfeydd a phractis meddyg teulu, gyda’r naill yn beio’r llall, sy’n golygu fod pobl yn gorfod teithio rhwng y ddau i ddatrys materion megis presgripsiynau coll
- Diffyg stoc neu eitemau heb gael eu cynnwys, sy’n golygu gorfod ymweld eto
- Methu mynd drwodd ar y ffôn
- Gwasanaeth gwael i gwsmeriaid
- Camgymeriadau yn cael eu gwneud
- Oriau agor anghyfleus, neu newidiadau iddynt.

Ymysg sylwadau negyddol mae:

- “O roi’r sgript i mewn, mae’n cymryd bron i 10 diwrnod i eitemau fod ar gael i’w casglu. Rwyf wedi bod yno deirgwaith i gasglu’r eitemau presgripsiwn diweddaraf, ond tydyn nhw byth yno. Pam na fedran nhw yrru tecst syml i ddweud wrthych fod yr eitemau’n barod i’w casglu, fel nad oes rhaid teithio’n ddiangen? Maen nhw’n dweud wrthych am beidio â ffonio am eu bod nhw’n rhy brysur i ddefnyddio’r ffôn.”
- “Mae yna giw mawr o hyd ac mae’n cymryd oesoedd iddyn nhw ddod o hyd i’r presgripsiwn ailadroddadwy – rwy’n aml yn gorfod cysylltu â phractis y meddyg teulu”
- “Mi fydda’i yn casglu fy nhabledi i a’m gŵr bob mis. Mae yna lawer achlysur wedi bod pan nad oedd y tabledi’n barod, er i mi ganiatáu 7 diwrnod gwaith, o roi’r presgripsiwn yn y bocs yn y fferyllfa, a chodi’r tabledi. Un tro, bu’n rhaid i ‘ngŵr wneud heb ei dabledi pwysedd gwaed a’i bigiadau am diabetes am ddyddiau lawer, nes iddyn nhw drefnu presgripsiwn newydd a’i yrru i’r fferyllfa. Ar y pryd, roedd y fferyllfa’n beio’r feddygfa, a’r feddygfa’n beio’r fferyllfa, oedd ddim help o gwbl i sefyllfa fy ngŵr.”

- “Weithiau’n gorfod aros am hir y tu allan i gasglu presgripsiynau sydd ddim yn braf iawn yn yr oerfel neu pan mae’n bwrw. Nunlle i eistedd ac aros ar hyn o bryd. Ddim yn beth da i bobl sâl ac oedrannus. Weithiau, fydd y meddyginiaethau ddim ar gael”
- “Mae’r oriau agor wedi newid yn y fferyllfa y bydda’i yn ei defnyddio fel arfer – ddim yn addas bellach i bobl sydd â swyddi llawn-amser. Mae’r gwasanaeth yn arbennig o wael y dyddiau yma, anaml iawn mae’r presgripsiwn yn barod, ac yr ydw i wedi gorfod mynd heb feddyginiaeth oherwydd hyn. Mae mynd i gasglu fy mhresgripsiwn wedi dod yn boendod, ac mi fuaswn yn newid fferyllfeydd ond does ganddyn nhw ddim oriau agor call chwaith.”
- “Mae gwasanaethau dosbarthu’r meddyg teulu yn medru bod yn wael iawn. Bron bob mis, mae yna eitemau ar goll o sgriptiau ailadroddadwy. Maen nhw’n trin hyn fel rhywbeth derbyniol ac yn disgwyl i chi fedru dod yn ôl yn rhwydd, ond tydi hyn ddim yn bosib os ydych chi’n byw yn bell i ffwrdd, heb fawr o incwm i dalu am deithio, neu angen y feddyginiaeth am nad oes dim ar ôl. Bron bob mis, mae’n rhaid i mi sefyll yn y dderbynfa gyhoeddus i drafod fy meddyginiaeth breifat efo nhw. Mae eu gwasanaeth i gwsmeriaid yn wael iawn, fel petawn i ar fai am nad ydi’r sgript yn barod. Yn aml, maen nhw wedi methu â chael rhyw feddyginiaeth, ond eto, mae’r fferyllfa yn yr un pentref yn medru ei gael heb unrhyw drafferth. Yn aml, mae fferyllfa’r meddyg yn tynnu eitemau oddi ar y sgript heb roi gwybod i chi ymlaen llaw. Mae hyn wedyn yn achosi straen a phryder, ac mae’n cymryd amser i roi trefn ar bethau.”
- “Ciwiau ofnadwy, dim digon o staff. Colli presgripsiwn ailadroddadwy. Staff anghwrtais.”
- “Gorfod aros 7 diwrnod am bresgripsiwn ailadroddadwy am ei fod yn cael ei ddosbarthu o ddepo canolog, sy’n amlwg ddim yn gweithio, oherwydd pan fydda’i yn ei dderbyn, mi fydda’i yn casglu 2 fag o feddyginiaeth, ac 1 wedi ei bostio i’r fferyllfa leol. Angen mynd yn ôl i’r hen system.”
- “Rydym ni wedi cael oedi wrth dderbyn presgripsiynau lawer gwaith am resymau fel bod yn rhaid i’r meddyg wneud adolygiad, yna mi anghofiodd y meddyg gofnodi’r adolygiad felly ar ôl trio lawer gwaith i gasglu’r presgripsiwn, mi ffoniais y meddyg yn y diwedd (sy’n cymryd amser i fynd drwodd efo negeseuon ffôn) roedd y meddyg wedi anghofio cofnodi’r adolygiad, felly roedd yn rhaid gwneud yr adolygiad eto. Dro arall, roedd y meddyg wedi gwneud yr adolygiad, ond mi anghofiodd argraffu’r presgripsiynau; unwaith eto, yr unig ffordd i ni sylweddoli hyn oedd pan aethom i gasglu’r presgripsiynau ac yna gorfod ffonio’r meddygon i weld beth oedd wedi digwydd. Mae’r presgripsiynau hefyd wedi eu gyrru at y fferyllfa anghywir - unwaith eto, hyn ond yn dod i’r amlwg ar ôl ciwio am beth amser yn y fferyllfa, ac mi ddywedwyd wrthym am fynd i’r fferyllfa arall. Ar ôl ciwio eto, doedd o ddim yno chwaith, felly roedd yn rhaid i ni ffonio’r meddyg a gweld nad oedd wedi ei argraffu. Mae wedi mynd i’r fferyllfa anghywir gwpl o weithiau. Hefyd, mae’r fferyllfa heb fod â’r eitemau mewn stoc felly bu’n rhaid i ni giwio eto y diwrnod wedyn. Ambell waith hefyd rydan ni wedi ffonio’r meddygon i ofyn iddynt argraffu’r presgripsiynau, wedyn ar ôl mynd i’w nôl, doedd yna ddim cofnod fy mod i wedi ffonio a gofyn am ei argraffu. Mae’r fferyllfa hefyd yn eu gyrru i ffwrdd i gael eu prosesu, felly mae yna oedi cyn casglu’r presgripsiynau ar ôl gofyn am iddynt gael eu hargraffu.”

Yna gofynnodd yr holiadur a oes unrhyw rwystrau i gyrchu gwasanaethau naill ai yn y fferyllfa neu fferyllfa'r meddyg nad ydynt wedi eu crybwyll eisoes. Prif themâu'r 60 ymateb a dderbyniwyd oedd:

- Oriau agor,
- Faint o amser sy'n cael ei dreulio yn ciwio ac yn aros,
- Agweddau'r staff,
- Staff yn brysur iawn.

Gan gydnabod fod pandemig Covid wedi cael cryn effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau ledled y GIG, gofynnodd yr holiadur wedyn am brofiadau pobl o gael eu meddyginiaethau yn ystod y pandemig.

Gofynnwyd i 95 o ymatebwyr gysgodi yn ystod y pandemig, ac o'r rhain, dywedodd 78 eu bod yn cael eu meddyginiaethau o fferyllfa ac 17 gan bractis eu meddyg teulu. Dywedodd 28 o ymatebwyr na chawsant unrhyw broblemau. Dywedodd 16 iddynt gael problemau, ac mai'r pennaf ymysg y rhain oedd amser ciwio, gorfod ailadrodd siwrneiau am nad oedd pob eitem ar gael, ac anhawster cywiro camgymeriadau. Yr oedd meddyginiaethau'n cael eu casglu naill ai gan gyfeillion, teulu neu wirfoddolwyr, neu roedd y fferyllfa'n eu cludo. Dywedodd dau o bobl fod y gwasanaeth wedi gwella wrth i'r pandemig fynd rhagddo.

I'r rhai na ofynnwyd iddynt gysgodi, soniodd 153 nad oedd ganddynt broblemau nac anawsterau. Soniodd 80 o bobl am giwio yn yr adeiladu a thu allan (yn enwedig mewn tywydd gwael), a soniodd 29 o bobl am amseroedd prosesu arafach. Dywedodd 26 o bobl fod ffrindiau neu deulu yn casglu eu meddyginiaethau iddynt, neu eu bod yn cael eu cludo. Dywedodd 11 o bobl y bu gwelliant ers y cyfnod cloi cyntaf ym mis Mawrth.

Ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2020, cynhaliodd tîm Ymwneud y bwrdd iechyd arolwg canfyddiadau'r cyhoedd mi gael adborth am wasanaethau iechyd a roddwyd ar waith ar gychwyn y pandemig Covid-19. Daliodd rhan o'r arolwg adborth pobl am y defnydd o fferyllfeydd. Llenwodd cyfanswm o 497 o bobl yr arolwg yn llawn.

Dywedodd 385 o bobl (77.5%) eu bod wedi defnyddio fferyllfa yn ystod misoedd cyntaf y pandemig. Dywedodd 80.3% o bobl na chawsant unrhyw anhawster cael unrhyw rai o'r meddyginiaethau oedd arnynt eu hangen, a dywedodd 87.4% o bobl eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a gawsant. Dywedodd 32.5% o bobl eu bod wedi defnyddio fferyllfa yn lle ymweld â phractis eu meddyg teulu.

Ymysg y sylwadau cadarnhaol yr oedd:

- "Ceisio cyngor am ben-glin oedd wedi chwyddo"
- "Roedd ceisio mynd i'r feddygfa yn erchyll, felly mi ddefnyddiais fferyllfa leol, a roddodd lawer o help."
- "Roedd hunan-ynysu oherwydd fy mhroblemau iechyd gwaelodol yn golygu nad oedd ymweld i gasglu meddyginiaethau gen i neu 'ngwraig... heb risg. Trefnodd y fferyllfa i'n meddyginiaethau cael eu cludo gan wirfoddolwr, ac yr

ydw i'n ddiolchgar iawn am hyn. Fedra'i ddim canmol digon ar y bobl am eu cefnogaeth hael."
- "Angen gwybodaeth am haint ar y llygad, ac fe'i cefais – eli o'r fferyllfa"
- "Gwasanaeth rhagorol gan y fferyllfa. Ebostiodd y meddyg y presgripsiwn atynt ac yr oedd popeth wedi ei drefnu ac yn barod yn eitha sydyn."

Yr oedd y sylwadau negyddol yn dueddol o ymwneud a faint o amser y bu'n rhaid i bobl giwio a phrinder meddyginiaethau:

- "Bu'n rhaid i mi giwio y tu allan i'r siop am 2 awr cyn cael y presgripsiwn"
- "Ciwiau, sefyll am ddwy awr y tu allan yn y glaw. Pellter dwy fetr o'r person o 'mlaen i. Y staff dan straen."
- "Dywedodd y feddygfa wrtha'i yn y bore i nôl fy meddyginiaeth ar adeg benodol o'r feddygfa yn y prynhawn. Mi aeth fy nghymar yno, dim ond i gael ar ddeall nad oedan nhw'n medru cael y feddyginiaeth ….."

### 1.5.4 Ymwneud contractwyr

Cynhaliwyd holiadur ar-lein i fferyllfeydd trwy ymarferiad dilysu Cronfa Ddata Fferyllfa Cymru Gyfan, a phenderfynwyd gofyn i gontractwyr yn unig am wybodaeth and oedd modd ei gael yn unman arall.

Mae copi o'r holiadur yn atodiad I.

Yr oedd yr holiadur ar agor o 18 Tachwedd tan 20 Rhagfyr 2020 a cheir crynodeb o'r canlyniadau isod. Ymatebodd yr holl fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd yn ddiolchgar am gefnogaeth Fferyllfa Gymunedol Cymru yn cytuno i ymgorffori'r cwestiynau yn ymarferiad dilysu Cronfa Ddata Fferyllfa Cymru Gyfan a dwyn yr ymarferiad ymlaen.

Cadarnhaodd 134 o'r fferyllfeydd fod modd mynd i'w hadeiladau mewn cadair olwyn. Cadarnhaodd 149 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ardal ymgynghori, ac y gellir mynd i 114 ohonynt mewn cadair olwyn. Cadarnhaodd y tair fferyllfa sydd heb ardal ymgynghori fod trefniadau eraill ar gael i gynnal trafodaethau cyfrinachol.

Mae bod ag ardal ymgynghori sy'n ateb pedwar o ofynion penodol yn un o'r rhagofynion ar gyfer medru darparu'r gwasanaethau uwch. Dyma hwy:

1. mae'r ardal ymgynghori yn ystafell gaeedig,
2. mae'r ardal ymgynghori yn ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i alwr gyda'i gilydd,
3. gall y claf a'r fferyllydd siarad mewn tôn normal heb i staff nag ymwelwyr â'r fferyllfa eu clywed, ac
4. ei bod wedi ei dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Ar sail ymatebion y fferyllfeydd:

- roedd 148 ardal ymgynghori yn ateb gofynion un a dau,

- roedd 144 yn ateb gofyniad tri, a
- 146 yn ateb gofyniad pedwar.

Yr oedd 81 o'r fferyllfeydd yn rhoi gwybodaeth am ieithoedd ar wahân i Saesneg a siaredir gan y staff:

- Cymraeg – 63 o fferyllfeydd (cadarnhaodd fferyllfa arall y siaredir peth Cymraeg)
- Pwyleg – 15 o fferyllfeydd
- Punjabi – pedair fferyllfa
- Sbaeneg – pedair fferyllfa
- Urdu – tair o fferyllfeydd
- Hindi – dwy o fferyllfeydd
- Eidaleg – dwy o fferyllfeydd
- Iaith arwyddo Brydeinig – un fferyllfa
- Cantoneëg – un fferyllfa
- Hebraeg – un fferyllfa
- Lithwaneg – un fferyllfa
- Portiwgaleg – un fferyllfa
- Romaneg – un fferyllfa
- Yoruba – un fferyllfa
- Mandarin (weithiau) – un fferyllfa

Tra bod gofyn i fferyllfeydd ddosbarthu presgripsiynau dilys y GIG am gyffuriau, gallant ddewis pa declynnau maent yn eu cyflenwi "wrth gynnal busnes arferol". Cadarnhaodd 146 o fferyllfeydd eu bod yn dosbarthu'r holl declynnau, tri eu bod yn dosbarthu gorchuddion clwyfau ac nid yw un yn dosbarthu teclynnau anymataledd. Cadarnhaodd un fferyllfa fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu ar eu rhan gan gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i'r ardal.

Mae 149 o'r fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddyg teulu fel gwasanaeth preifat am ddim.

Mae 85 o fferyllfeydd yn cludo eitemau i gleifion fel gwasanaeth preifat am ddim, ac y mae 19 yn ei ddarparu fel gwasanaeth preifat y codir tâl amdano.

Mae 62 o fferyllfeydd yn cyfyngu'r gwasanaeth i rai grwpiau o gleifion:

- cleifion anabl,
- cleifion caeth i'w tai,
- cleifion caeth i'w tai a bregus,
- cleifion bregus,
- cleifion oedrannus,
- trigolion cartrefi gofal,
- cleifion sy'n hunan-ynysu neu'n cysgodi, a
- phobl ag anghenion clinigol neu broblemau symudedd.

Mae 21 o fferyllfeydd yn cyfyngu'r gwasanaeth cludo i ardaloedd penodol.

Er mwyn helpu i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwell gwasanaethau cyfredol, gofynnwyd i fferyllfeydd gadarnhau a oes gofyniad ai peidio am well gwasanaeth presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal, a rhoi tystiolaeth i gefnogi hyn. Awgrymodd 30 o fferyllfeydd wasanaethau, a dyma'r rhai mwyaf cyffredin:

- y gwasanaeth profi am ddolur gwddf a'i drin sydd wedi ei atal ar hyn o bryd (wyth fferyllfa), a
- gwasanaeth rhagnodwr annibynnol (saith fferyllfa).

Ymysg gwasanaethau eraill a awgrymir mae:

- Gwasanaeth cyflyrau aciwt i helpu triage cleifion ar y cyd â'r practis meddyg teulu lleol
- Byddai cynnwys cyflenwad gwrthfiotigau i heintiadau'r llwybr wrinol yn y gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn ddefnyddiol gan y byddai o les i gleifion ac yn ysgafnhau'r pwysau ar bractis meddygon teulu
- Monitro pwysedd gwaed
- Mae un fferyllfa yn ystyried darparu brechiadau ffliw y flwyddyn nesaf
- Gwasanaeth anhwylderau cyffredin i gynnwys y llindag i ddynion ac nid menywod yn unig
- Gwasanaeth atal cenhedlu oherwydd bod practis meddygon teulu lleol yn cael trafferth ateb y galw am adolygiadau atal cenhedlu (gwirio'r bilsen). Potensial am well gwasanaeth i ragnodwyr annibynnol adolygu dulliau atal cenhedlu geneuol ac i ragnodi parhad o'r driniaeth i gychwyn, gyda golwg ar gychwyn triniaeth
- Byddai meicrosugno clustiau yn lliniaru'r pwysau ar bractis meddygon teulu
- Gwasanaeth brechu rhag niwmonia.
- Ymestyn y gwasanaeth meddyginiaethau brys trwy gydol yr wythnos i ysgafnhau pwysau ar bractis meddygon teulu ac arbed amser i staff yn y fferyllfa
- Rheoli'r dŵr poeth/dolur cylla
- Gwasanaeth adolygu / mewnanadlyddion/techneg mewnanadlyddion i wella dealltwriaeth o fewnanadlyddion a'r dechneg
- Gwasanaeth meddyginiaethau achub resbiradol.
- Rheoli meddyginiaethau a chefnogaeth i gydymffurfio
- Lefel 3 smygu (Varenicline)
- Darparu gwasanaeth adolygu defnydd o feddyginiaethau
- Profion diabetes a cholesterol

Pan ofynnwyd a oes gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, awgrymwyd y canlynol:

- Darparu bocsys dosau/systemau dosau wedi'u monitro
- Gwasanaeth meicrosugno clustiau
- Cwnsela am gamddefnyddio alcohol, a cholli pwysau
- Monitro pwysedd gwaed

- Gofal yr henoed, ymweld â chartrefi cleifion sydd angen meddyginiaethau lluosog/â chyd-forbidrwydd uchel gyda rhagnodydd annibynnol a allai adolygu ac o bosib symleiddio trefniadau meddyginiaeth
- Gwasanaeth atal cenhedlu - cychwyn a pharhau atal cenhedlu rheolaidd gan fferyllydd annibynnol sy'n rhagnodydd
- Gwasanaeth profi a thrin am lid y bledren (dan gyfarwyddyd grŵp cleifion) gan fferyllwyr hyfforddedig yn enwedig ar benwythnosau a gwyliau banc er mwyn lleihau'r galw ar y gwasanaeth tu allan i oriau
- Gwasanaethau rhagnodi annibynnol
- Gwasanaeth meddyginiaethau newydd
- Cysoni meddyginiaeth ailadroddadwy i gleifion fel y gallant gasglu eu meddyginiaethau rheolaidd unwaith y mis
- Profi a thrin heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol
- Brechu oedolion, er enghraifft, niwmonia, yr eryr a hepatitis B
- Profi a thrin heintiadau'r llwybr wrinol
- Rheoli pwysau
- Gwasanaeth mân afiechydon.

Gan gydnabod mai cynyddu y mae'r galw am wasanaethau fferyllol am nifer o resymau gan gynnwys y cynnydd cyson yn nifer yr eitemau sy'n cael eu rhagnodi, a thwf mewn poblogaeth, roedd y fferyllfeydd yn holi a oes modd iddynt ateb y cynnydd hwn. Dywedodd124 o fferyllfeydd fod digon o allu ganddynt yn ei hadeiladau presennol a lefelau staffio i ateb y galw cynyddol, a dywedodd 20 o fferyllfeydd nad oedd ganddynt y gallu, ond y byddai modd iddynt wneud addasiadau er mwyn gwneud hynny. Dywedodd wyth o fferyllfeydd nad oes ganddynt ddigon o allu ac y buasent yn ei chael yn anodd rheoli cynnydd yn y galw.

Mae gan nifer o'r fferyllfeydd gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaeth maent yn ddarparu:

- Mae gan 21 o fferyllfeydd gynlluniau i gyflwyno gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol neu i ehangu gwasanaethau o'r fath lle maent eisoes yn cael eu darparu
- Dechrau darparu gwasanaethau newydd megis y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, brechiadau Covid, rhoi'r gorau i smygu, profi a thrin dolur gwddf, gwasanaeth colli pwysau,
- Cynyddu darpariaeth y gwasanaethau presennol,
- Cyflwyno awtomeiddio,
- Cyflogi gyrrwr cludo arall,
- Darparu mwy o wasanaethau preifat gan gynnwys monitro pwysedd gwaed a brechiadau teithio, a
- Treialu gwasanaeth negeseuon testun.

Mae gan 13 o fferyllfeydd gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu hadeiladau sydd yn cynnwys:

- cynlluniau i ail-drefnu neu adnewyddu eu hadeiladau presennol,
- creu ystafelloedd ymgynghori newydd neu ychwanegol,

- estyn y fferyllfa bresennol, a
- symud i adeiladau newydd.

Cynhaliwyd holiadur ar-lein i bob practis oedd yn dosbarthu, a bu ar agor o 14 Hydref tan 11 Tachwedd 2020. Fel gyda fferyllfeydd, gofynnwyd i gontractwyr yn unig am wybodaeth nad oedd modd ei gael yn unman arall.

Mae copi o'r holiadur yn atodiad J.

O'r 37 practis oedd yn dosbarthu, ymatebodd 22, cyfradd ymateb o 56%. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ddiolchgar am gefnogaeth LMC Gogledd Cymru i annog contractwyr i lenwi'r holiadur.

Mae oriau agor y mannau dosbarthu yn y prif adeiladau yn amrywio o un practis i'r llall:

- maent oll yn agor naill ai am 08.00, 08.30 neu 09.00,
- mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 16.30 a 18.30
- bydd 15 ar agor drwy'r dydd, gan gau rhwng 16.30 a 18.30.
- Mae'r rhai sy'n cau dros ginio yn gwneud hynny am rhwng un a dwy awr.
- Mae un yn agor ar ddydd Llun a Mercher rhwng 08.00 a 13.00, gydag oriau agor fymryn yn hwy ar ddyddiau eraill yr wythnos.

Mae oriau agor y mannau dosbarthu yn yr adeiladau eilaidd ar y cyfan yn llai nac yn y prif adeiladau ac yn amrywio o ddydd i ddydd.

O ran dosbarthu teclynnau:

- Mae 16 practis yn dosbarthu pob math o declyn,
- Mae un practis heb fod yn dosbarthu teclynnau anymataledd,
- Mae un practis heb fod yn dosbarthu teclynnau stoma ac anymataledd,
- Mae un practis heb fod yn dosbarthu teclynnau stoma, ac
- Y mae tri phractis yn dosbarthu gorchuddion clwyfau yn unig.

O ran gwasanaethau cludo:

- Mae pedwar practis yn darparu gwasanaeth cludo am ddim.
- Mae pum practis yn cludo i rai grwpiau o gleifion yn unig. Mae'r grwpiau hyn yn amrywio o un practis i'r llall, ond yn gyffredinol maent yn rhai sydd/oedd yn cysgodi, cleifion caeth i'w cartrefi, yr henoed, cleifion bregus, cleifion heb deuluoedd/cyfeillion i gasglu drostynt, a chleifion gyda salwch cronig. Mae un practis yn cludo yn ôl doethineb y meddygon teulu.
- Mae un practis yn cludo i bedair siop mewn ardaloedd gwledig. Mae'n cludo i gleifion sy'n cysgodi yn ystod y pandemig.
- Mae un practis yn darparu gwasanaeth cludo, yn bennaf i gleifion oedrannus a chaeth i'w cartrefi sydd yn byw yn ardal y practis.
- Mae un practis yn darparu gwasanaeth cludo i'r sawl sy'n byw yn ardal y practis.

Cadarnhaodd 19 practis fod staff y feddygfa yn siarad Cymraeg. Ar wahân i Saesneg, ni chrybwyllwyd unrhyw ieithoedd eraill a siaredir.

Mae gan 12 practis ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw am y gwasanaeth dosbarthu. Dywedodd nawr nad oes digon o allu ganddynt ond y byddai modd iddynt wneud addasiadau i ddod i ben â chynnydd yn y galw. Dywedodd un nad oes ganddynt mo'r gallu ac y buasent yn ei chael yn anodd ymdopi â chynnydd yn y galw.

Mae'r gwasanaethau canlynol cysylltiedig â dosbarthu hefyd yn cael eu darparu:

- Derbyn a gwaredu nodwyddau gan gleifion – 12 practis
- Pecynnau jest rhag ofn – nawr practis
- Pecynnau achub – dau bractis.

O ran newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth dosbarthu o ganlyniad i'r pandemig Covid fydd yn parhau ar ei ôl mae:

- Mwy o ddefnydd o archebu ar-lein,
- Negeseuon testun i roi gwybod pryd y bydd meddyginiaethau ar gael i'w casglu
- Gwasanaeth cludo, a
- Mesurau ymbellhau cymdeithasol a llai o fynediad i'r eiddo.

### 1.5.5 Ffynonellau eraill o wybodaeth

Defnyddiwyd y dogfennau a'r gwefannau canlynol fel ffynonellau gwybodaeth am anghenion iechyd y boblogaeth:

- Asesiad poblogaeth gogledd Cymru 2017
- Gwefan Mapiau Iechyd Cymru Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Contract meddygon teulu, gwefan cronfa ddata a QOF
- Gwefan Nomis
- Gwefan Ystadegau Cymru
- Gwefan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gwefan Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019
- Gwefan uned Gwybodaeth a Gwyliadwriaeth Canser Cymru
- Cynlluniau Datblygu Lleol y chwe awdurdod lleol

### 1.5.6 Ymgynghori

Bydd adroddiad am yr ymgynghoriad gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r asesiad anghenion fferyllol yn cael ei gynnwys yn atodiad K.

## 2 Trosolwg o Ogledd Cymru

### 2.1 Cyflwyniad

Mae gan ogledd Cymru boblogaeth o 699,500 o bobl, yn byw ar hyd ardal o ryw 2,500 milltir sgwâr. Ei ffin yw Môr Iwerddon i'r gogledd a'r gorllewin, Ceredigion a Phowys i'r de, a Lloegr yn y dwyrain. Diffinnir y rhanbarth gan arfordiroedd, ardaloedd gwledig yn enwedig yn y gorllewin, ac ardaloedd mwy trefol yn y dwyrain, yn bennaf yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a'r cyffiniau, Mae'r prif aneddfannau ar hyd yr arfordir, gan gynnwys trefi glan môr poblogaidd fel y Rhyl, Llandudno, Pwllheli, Prestatyn a Thywyn. Mae'n ardal fynyddig, ac yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, ac y mae'r gymysgedd o nodweddion naturiol yn atyniad cryf i dwristiaid ac ymwelwyr.

Mae ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig yn yr ardal, ac yma y mae'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae llawer o ardaloedd gwledig wedi gweld patrymau allfudo sydd wedi arwain at boblogaeth sy'n heneiddio gyda mwy o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Mae darparu gwasanaethau i boblogaethau gwasgaredig ac unig yn her arbennig.

Mae chwe awdurdod unedol yn gwasanaethu'r gogledd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,
- Cyngor Sir Ddinbych,
- Cyngor Sir y Fflint,
- Cyngor Gwynedd,
- Cyngor Sir Ynys Môn, a
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Dengys y map isod ardal pob cyngor.

**Map 2 – map o'r ardal ddaearyddol am bob awdurdod unedol yng ngogledd Cymru**



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cychwynnol, cymunedol, iechyd meddwl ac ysbytai aciwt i boblogaeth gogledd Cymru.

## 2.2 Poblogaeth

Fel y gellir gweld o'r ffigwr isod, gan Sir y Fflint y mae'r boblogaeth fwyaf (156,100) yna Wrecsam (135,957). Ynys Môn sydd â'r boblogaeth leiaf, 70,043.


**Ffigwr 7 – amcangyfrifon poblogaeth, pob unigolyn, fesur grŵp oedran ac awdurdod unedol, 2019**[1]




Fel y gwelir yn y ffigwr isod, mae dwysedd poblogaeth ar ei uchaf yn y dwyrain, gyda Wrecsam a Sir y Fflint a dwysedd poblogaeth uwch fesul kilometr sgwâr (270.2 a 355.6) na chyfartaledd Cymru (151.4).


[1] STATS Cymru, amcangyfrifon poblogaeth fesul awdurdod lleol ac oedran, 2019

**Ffigwr 8 – dwysedd poblogaeth (pobl fesur kilometr sgwâr) ar lefel awdurdod lleol a Chymru, 2019**




Mae'r map isod yn adlewyrchu natur gyffredinol wledig ochr orllewinol ardal y bwrdd iechyd, o gymharu â'r ochr ddwyreiniol fwy trefol.

**Map 3 – dosbarthiad gwledig trefol (2011) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr[2]**





Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae gan Sir y Fflint a Wrecsam hefyd boblogaeth iau, gyda 19% o'r boblogaeth yn 15 oed a hŷn, a chan Ynys Môn a Chonwy y mae poblogaeth hŷn gyda 26 a 28% yn 65 oed a hŷn. Mae gan Gonwy hefyd y ganran uchaf o bobl 85 oed a hŷn, sef 4% o'r boblogaeth.

[2] Mapiau Iechyd Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

**Ffigwr 9 – canrannau poblogaeth, pob unigolyn, fesul grŵp oedran, ac awdurdod unedol, 2019[3]**




Mae poblogaeth y gogledd yn cynyddu ac yn heneiddio, a gwelir hyn yn y ffigwr isod. Fel y gellir gweld, rhagwelir y bydd gostyngiad yng nghyfran y bobl 64 oed ac iau yn ystod oes yr asesiad anghenion fferyllol hwn (a than 2036) a chynnydd yng nghyfran y bobl 65 oed a hŷn, yn enwedig y rhai 85 oed a hŷn (cynnydd o 90%).

**Ffigwr 10 – rhagamcanion poblogaeth fesul grŵp oedran a chanran newid ers 2021, 2021-2036[4]**

| Oedran | | 2021 | 2026 | 2031 | 2036 |
|---|---|---|---|---|---|
| **0 i 15 oed** | **Amcangyfrif poblogaeth** | 128,300 | 125,900 | 121,900 | 118,300 |
| | **Canran newid ers 2021** | | -1.9% | -5.0% | -7.8% |
| **16 i 64 oed** | **Amcangyfrif poblogaeth** | 416,100 | 415,100 | 410,200 | 406,200 |
| | **Canran newid ers 2021** | | 0.2% | -1.4% | -2.4% |
| **65 i 84 oed** | **Amcangyfrif poblogaeth** | 144,300 | 152,400 | 160,300 | 163,000 |
| | **Canran newid ers 2021** | | 5.6% | 11.1% | 13.0% |
| **85 oed a hŷn** | **Amcangyfrif poblogaeth** | 24,900 | 30,100 | 37,800 | 47,300 |
| | **Canran newid ers 2021** | | 20.9% | 51.8% | 90.0% |
| **Cyfanswm** | | 713,600 | 723,500 | 730,200 | 734,800 |

[3] STATS Cymru, amcangyfrifon poblogaeth fesul awdurdod lleol ac oedran, 2019
[4] Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio rhagamcanion poblogaeth 2011. Gweithiwyd y niferoedd allan heb eu talgrynnu i'r 100 agosaf.

## 2.3 Trigolion dros dro

### 2.3.1 Trigolion tymor-hir mewn carafanau

Mae nifer uchel iawn o safleoedd carafanau ar hyd arfordir y gogledd, yn bennaf o gwmpas Bae Cinmel a Thywyn.

Mae'n debyg y bydd niferoedd sylweddol o bobl sy'n byw mewn carafanau am dymor hir yn y gogledd fydd yn mynd at wasanaethau iechyd lleol. Fodd bynnag, canfu ymchwil o Swydd Lincoln[5] fod y Cyfrifiad, y gofrestr etholwyr a'r gofrestr treth cyngor oll yn tan-gofnodi'r boblogaeth hon yn sylweddol. Mae gadael pobl allan o'r Cyfrifiad yn arbennig o bwysig oherwydd mae data'r Cyfrifiad (a'r amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn sy'n seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad) yn chwarae rhan ganolog yn fformiwlâu cyllido'r sector cyhoeddus.

Ymysg canfyddiadau allweddol ar ddemograffeg poblogaeth carafanau yn Swydd Lincoln mae:

- bron i dri chwarter dros 55, a mwy na 40 y cant dros 65;o
- dros 60% yn disgrifio eu hunain fel 'wedi ymddeol';
- llai na chwarter sydd â swydd - ac y mae'r ffigwr isel hwn yn cynnwys nifer o weithwyr safle yr oedd y garafán yn dod gyda'r swydd.

Roedd yr aelwydydd yn yr arolwg yn treulio cyfran fawr o'r flwyddyn yn byw mewn carafán:

- 85% yn byw ar y safle am o leiaf dri mis o'r flwyddyn;
- dros 40% yn byw ar y safle am o leiaf naw mis o'r flwyddyn;
- 43% heb fod yn dychwelyd i gartref arall yn rhywle arall am ran o'r flwyddyn;
- 39% yn ystyried eu carafán neu gaban fel eu prif gartref; a
- 39% wedi cofrestru'n barhaol gyda meddyg teulu yng nghyfeiriad y garafán.

Gall y canfyddiadau hyn fod yn gymwys hefyd i ogledd Cymru.

### 2.3.2 Twristiaid

Mae gogledd Cymru yn gyrchfan o bwys i dwristiaid, yn bennaf i ymwelwyr o Ogledd Orllewin Lloegr/Glannau Merswy (Lerpwl a Manceinion), sy'n aros mewn trefi glan môr fel Llandudno, y Rhyl a Phrestatyn. Gall y cynnydd mawr hwn yn nifer yr ymwelwyr, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, roi mwy o bwysau ar adnoddau iechyd.

Yn ôl Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2019, rhwng 2017 a 2019, bu ar gyfartaledd 4.25 miliwn o deithiau (gan gynnwys teithiau gan blant) y flwyddyn i'r gogledd gan drigolion Prydain. Yr oedd nifer y nosweithiau (gan gynnwys nosweithiau gan blant)

---

[5] Beatty, C., Fothergill, S., Powell, R., 2012. Centre for Regional Economic and Social Research, Sheffield Hallam University. Living in Seaside Caravans. People, Place & Policy Online

a dreuliwyd i ffwrdd o gartref ar y teithiau hyn ar gyfartaledd yn 14.7 miliwn y flwyddyn. Yr oedd gwerth yr hyn a wariwyd ar y teithiau hyn yn £768 miliwn y flwyddyn.

Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys teithiau dydd, yr ymdrinnir â hwy yn Arolwg teithiau Dydd Prydain. Er hynny, mae teithiau dydd yn arwyddocaol, a dywed yr arolwg hwn wrthym y gwnaed 23 miliwn o deithiau dydd yn 2019 o gartref i gyrchfannau yn y gogledd, a bod cyfanswm y gwariant tua £588 miliwn.

Ymdrinnir ar wahân â thwristiaid o dramor yn Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2019. O gymharu â Phrydain, mae'r swm yn gymharol fychan, gyda 279,870 o deithiau rhyngwladol i ogledd Cymru yn 2019, gyda chyfanswm gwariant o £90.50 miliwn.

Yn gyffredinol, golyga hyn fod twristiaid/ymwelwyr yn dod â rhyw £1.4 biliwn y flwyddyn i economi'r gogledd.

#### 2.3.3 Ail gartrefi

Mae'r data a gesglir am anheddau treth Cyngor (CT1) a gynhelir gan Lywodraeth Cymru yn rhoi data am nifer yr anheddau cymwys am dreth cyngor ym mhob awdurdod lleol. Mae rhan o hyn yn cynnwys nifer yr ail gartrefi y gellir codi tâl amdanynt yn ardal pob awdurdod lleol.

Fel y gellir gweld o'r ffigwr isod, yn 2020/21 gan Wynedd yr oedd nifer uchaf yr ail gartrefi (a'r nifer uchaf yng Nghymru hefyd), ac nid oedd dim yn Wrecsam.

**Ffigwr 11 - nifer ail gartrefi y gellir codi tâl amdanynt yng ngogledd Cymru, 2020/21**

| Awdurdod lleol | Nifer ail gartrefi y gellir codi tâl arnynt |
|---|---:|
| **Conwy** | 1,181 |
| **Sir Ddinbych** | 393 |
| **Sir y Fflint** | 280 |
| **Gwynedd** | 5,098 |
| **Ynys Môn** | 2,139 |
| **Wrecsam** | 0 |

### 2.4 Ethnigrwydd

Yng ngogledd Cymru, 2.6% o'r boblogaeth sy'n Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig o gymharu â 5.5% o boblogaeth Cymru. Fel y gellir gweld o'r ffigwr isod, mae canran y boblogaeth o gefndir heb fod yn wyn yn amrywio o 2.6% yn Wrecsam i 3.4% yn Sir Ddinbych.

**Ffigwr 12 – ethnigrwydd fesul awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 31 Mawrth 2020**[6]

| | Gwyn | Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig | Canran pobl sy'n Ddu, Asiaidd a lleiafrifol ethnig |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 2,949,400 | 172,200 | 5.5% |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | 680,400 | 18,200 | 2.6% |
| **Conwy** | 111,700 | 3,100 | 2.7% |
| **Sir Ddinbych** | 92,000 | 3,200 | 3.4% |
| **Sir y Fflint** | 152,100 | 4,300 | 2.7% |
| **Gwynedd** | 119,300 | 4,000 | 3.2% |
| **Ynys Môn** | 69,500 | * | * |
| **Wrecsam** | 135,800 | 3,600 | 2.6% |


* Nid yw'r data ar gyfer Ynys Môn ar gael.

## 2.5 Iaith yr aelwyd

15,571 oedd nifer y trigolion yn ardal y bwrdd iechyd nad oedd y Gymraeg na'r Saesneg yn brif iaith iddynt yng Nghyfrifiad 2011, gyda 3,075 neu 19.7% heb fedru siarad Saesneg yn dda a 639 neu 4.1% heb fedru siarad Saesneg o gwbl[7]. Fel y gellir gweld o'r ffigwr isod mae'r gallu i siarad Saesneg uchaf ymysg plant o oedran ysgol, o gymharu â'r sawl yn eu 20au i 50au sydd leiaf rhugl.

[6] StatsCymru, ethnigrwydd yn ôl ardal a grwp ethnig
[7] Nomis DC2105EW – rhuglder mewn Saesneg yn ôl oedran

**Ffigwr 13 – Rhuglder mewn Saesneg yn ôl oedran**




Yn ôl Cyfrifiad2011, Cymraeg neu Saesneg oedd prif iaith trigolion ardal y bwrdd iechyd ar sail y cyfuniad o oedolion a phlant tair oed a hŷn (97.7%)[8]. Y naw iaith nesaf fwyaf cyffredin oedd:

- Eidaleg – 0.5%
- Pwyleg a Slofaceg – 0.4% yr un
- ‘Pob Tsieinëeg arall’ - 0.2%
- Arabeg, Tsieinëeg Mandarin, Sbaeneg ac Urdu - 0.1% yr un

Mae peth amrywiaeth ar lefel awdurdod lleol gyda llai o bobl â Saesneg fel eu prif iaith yn Wrecsam (95.9%) o gymharu ag ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill (uwch na 97% ym mhob un).

## 2.6 Sgiliau iaith Gymraeg[9]

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran hon, mae gogledd Cymru yn gartref i ganran uwch o siaradwyr Cymraeg nac unman arall yng Nghymru. Fodd bynnag, mae amrywiaeth ar draws y rhanbarth, o ganran isel o 10.7% o oedolion 16 a hŷn sy’n siarad Cymraeg yn Sir y Fflint i ganran uchel o 65.95% yng Ngwynedd. Mae’r ffigyrau hyn yn cymharu â chyfartaledd o 18.1% ar gyfer Cymru gyfan.

---

[8] Nomis QS204EW prif iaith

[9] StatsCymru, canran oedolion sy’n siarad Cymraeg (gan gynnwys y canran na fedr siarad Cymraeg ac sydd â pheth Cymraeg) fesul awdurdod lleol

**Tabl 4 – Gallu i siarad Cymraeg fesul awdurdod lleol a Chymru 2018-2019**

| | Canran oedolion (16+) fedr siarad Cymraeg | Canran oedolion (16+) na fedr siarad Cymraeg | Canran oedolion (16+) all siarad peth Cymraeg |
|---|---|---|---|
| **Conwy** | 37.05 | 49.57 | 13.38 |
| **Sir Ddinbych** | 30.17 | 57.89 | 11.95 |
| **Sir y Fflint** | 10.74 | 74.73 | 14.53 |
| **Gwynedd** | 65.95 | 21.25 | 12.80 |
| **Ynys Môn** | 52.91 | 32.97 | 14.12 |
| **Wrecsam** | 13.63 | 72.82 | 13.55 |
| **Cymru** | 18.10 | 67.34 | 14.56 |

## 2.7 Crefydd

Yn 2011, yr oedd 60.3% o boblogaeth y gogledd yn dweud eu bod yn dilyn un o'r chwe phrif grefydd, a dywedodd 32.1% nad oeddent yn dilyn unrhyw grefydd.

Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiaeth rhwng lefelau awdurdodau lleol ac yn cymharu'r rhain â chyfartaleddau Cymru gyfan.

**Tabl 5 – crefydd ar lefel awdurdod lleol a Chymru[10]**

| Ardal | Cristion | Bwdist | Hindŵ | Iddewig | Mwslim | Sîc | Crefydd arall | Dim crefydd | Heb nodi crefydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Conwy** | 64.7% | 0.3% | 0.2% | 0.1% | 0.5% | 0.0% | 0.4% | 26.1% | 7.8% |
| **Sir Ddinbych** | 64.1% | 0.3% | 0.2% | 0.0% | 0.5% | 0.0% | 0.4% | 26.8% | 7.7% |
| **Sir y Fflint** | 66.4% | 0.2% | 0.1% | 0.0% | 0.3% | 0.0% | 0.2% | 25.4% | 7.2% |
| **Gwynedd** | 59.5% | 0.3% | 0.2% | 0.0% | 1.1% | 0.0% | 0.5% | 29.7% | 8.6% |
| **Ynys Môn** | 65.1% | 0.2% | 0.1% | 0.1% | 0.4% | 0.1% | 0.4% | 25.5% | 8.2% |
| **Wrecsam** | 63.5% | 0.3% | 0.4% | 0.0% | 0.6% | 0.1% | 0.2% | 27.4% | 7.5% |
| **Cymru** | 57.6% | 0.3% | 0.3% | 0.1% | 1.5% | 0.1% | 0.4% | 32.1% | 7.6% |


## 2.8 Mynegai aml-amddifadedd Cymru[11]

Mynegai aml-amddifadedd Cymru 2019 yw mesur swyddogol amddifadedd ar gyfer ardaloedd daearyddol bychain a elwir yn ardaloedd cynnyrch ehangach haen is, o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig).

[10] Nomis KS209EW - Crefydd
[11] Llywodraeth Cymru, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019

Seilir y mynegai ar wyth parth, ar sail amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol, sydd â phwysiad ac yn cael eu cyfuno i fynegi cyffredinol o aml-amddifadedd. Y pwysiad yw addasu cyfraniad mynegeion y parthau i wneud y mynegai cyffredinol o'u cyfuno. Mae'r ffigwr isod yn dangos pob parth a'u pwysiad.

**Ffigwr 14 – wyth parth Mynegai Aml-amddifadedd Cymru a'u pwysiad cymharol**





Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae'n bwysig nodi nad yw amddifadedd isel yn cyfateb i gyfoeth ac nad yw pawb sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig yn ddifreintiedig ac nad yw'r holl bobl ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig. Nid ardal ei hun sy'n ddifreintiedig: amgylchiadau'r bobl sy'n byw yno sy'n effeithio ar ei lleoliad yn nhrefn amddifadedd.

Mae'r map isod yn dangos pob ardal cynnyrch ehangach haen yn y gogledd a'i leoliad yn y mynegai.

**Map 4 – Map Mynegai aml-amddifadedd Cymru fesul ardal cynnyrch ehangach haen is**




Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2019. Arolwg Ordnans 100017916

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Gan ogledd Cymru y mae rhai o'r ardaloedd â mwyaf o amddifadedd yng Nghymru, yn enwedig ar hyd arfordir y gogledd. Gorllewin y Rhyl 2 a Gorllewin y Rhyl 1 yw'r ddwy ardal cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r ffigwr isod yn dangos nifer yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn ardal pob awdurdod lleol, a'r canran sy'n disgyn yn y 10%, 20%, 30%, 40% a 50% mwyaf difreintiedig. Fel y gellir gweld:

- Gan Sir Ddinbych y mae'r gyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% mwyaf difreintiedig,
- Gan Ynys Môn y mae'r gyfran isaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% mwyaf difreintiedig, a
- Gan Sir y Fflint y mae'r gyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 50% mwyaf difreintiedig.

**Ffigwr 15 – canran ardaloedd cynnyrch ehangach haen is fesul un rhan o bump o amddifadedd yn ôl awdurdod lleol, 2019**

| | Nifer ardaloedd cynnyrch ehangach haen is | Mwyaf difreintiedig 10% | Mwyaf difreintiedig 20% | Mwyaf difreintiedig 30% | Mwyaf difreintiedig 50% |
|---|---|---|---|---|---|
| **Conwy** | 71 | 4.3% | 9.8% | 15.2% | 31.5% |
| **Sir Ddinbych** | 58 | 9.6% | 12.3% | 17.8% | 37.0% |
| **Sir y Fflint** | 92 | 6.8% | 22.7% | 40.9% | 65.9% |
| **Gwynedd** | 73 | 3.4% | 6.9% | 10.3% | 43.1% |
| **Ynys Môn** | 44 | 1.4% | 8.5% | 11.3% | 23.9% |
| **Wrecsam** | 85 | 7.1% | 11.8% | 28.2% | 41.2% |

Mae parth 'mynediad at wasanaethau' mynegai aml-amddifadedd Cymru yn mesur amddifadedd sy'n deillio o aelwyd yn methu cyrchu amred o wasanaethau gan gynnwys fferyllfa, meddyg teulu, siop fwyd, swyddfa'r post, ysgol a chyfleusterau hamdden. Ar sail y mesur hwn, gan Wynedd y mae'r gyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% mwyaf difreintiedig (27%) a chan Sir y Fflint y mae'r isaf (3%).

Yn 2018 Ynys Môn oedd â'r enillion wythnosol cyfartalog gros isaf ledled y gogledd a Sir y Fflint oedd â'r uchaf (£447 a £553 o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o £509).

## 2.9 Cyfradd ffrwythlondeb cyffredinol[12]

Ers 1955 (ac eithrio ym 1976) bu nifer y genedigaethau yn y DU yn uwch na nifer y marwolaethau. Arweiniodd y newid naturiol hwn at dwf mewn poblogaeth. Yn y DU, amrywio wnaeth nifer y genedigaethau byw bob blwyddyn dros y 60 mlynedd diwethaf. Mwyaf nodedig yw'r cynnydd yn nifer y babanod a anwyd yn y 1960au, yr 'eco' wrth i'r rhain yn eu tro gael plant, ac yn fwy diweddar, genedigaethau yn cynyddu eto yn y DU yn 2012.

[12] StatsCymru, Cyfanswm Cyfradd Ffrwythlondeb a Chyfradd Ffrwythlondeb Gyffredinol fesul ardal

Mae'r tabl isod yn dangos y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol (nifer y genedigaethau byw fesul 1,000 o fenywod 15-44 oed) ar lefel awdurdod lleol rhwng 2011 a 2015, a sut y mae'n cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan.

Fel y gellir gweld, mae'r gyfradd ar gyfer y gogledd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae amrywiaethau ar lefel awdurdod lleol gyda'r gyfradd isaf yng Ngwynedd (53.1) a'r uchaf yn Sir Ddinbych (69.0). Ac eithrio am Sir Ddinbych, gwelodd pob awdurdod lleol ostyngiad yn y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol rhwng 2011 a 2015.

**Tabl 6 – cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol yng ngogledd Cymru a Chymru, 2011-2015**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Conwy** | 64.9 | 64.9 | 59.6 | 62.1 | 64.1 |
| **Sir Ddinbych** | 68.1 | 65.9 | 64.6 | 71.7 | 69.0 |
| **Sir y Fflint** | 60.5 | 60.9 | 60.1 | 59.5 | 58.7 |
| **Gwynedd** | 59.5 | 60.0 | 56.3 | 54.4 | 53.1 |
| **Ynys Môn** | 67.0 | 73.3 | 67.6 | 67.6 | 63.4 |
| **Wrecsam** | 67.1 | 68.8 | 64.2 | 64.5 | 61.1 |
| **Cymru** | 61.4 | 61.2 | 58.9 | 59.1 | 59.1 |

## 2.10 Disgwyliad einioes[13]

Disgwyliad einioes yw'r ffordd o fesur pa mor hir, ar gyfartaledd, y gall pobl ddisgwyl byw gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth a'r niferoedd adeg marwolaeth. Cynyddodd disgwyliad einioes adeg genedigaeth i wrywod ledled y gogledd o 2006-08 tan 2011-2013 ond aros yn wastad wedyn tan 2015-17 pryd y cododd fymryn i 78.9 mlynedd. Cynyddu wnaeth disgwyliad einioes adeg genedigaeth i fenywod tan 2011-2013 ond bu'n anwadal ers hynny, ar ryw 82.5 mlynedd. Rhwng 2006-08 a 2015-17 bu disgwyliad einioes gwrywod a menywod yn uwch na'r cyfartaledd am Gymru.

Fel y gellir gweld o'r tabl isod, ar lefel awdurdod lleol mae disgwyliad einioes gwrywod ar ei uchaf yng Nghonwy a Sir y Fflint ar 79.3 mlynedd ac ar ei isaf yn Sir Ddinbych (77.8 mlynedd) ar sail ffigyrau 2015-2017. I fenywod, mae disgwyliad einioes ar ei uchaf yng Ngwynedd (83.3 mlynedd) ac ar ei isaf yn Wrecsam (81.4 mlynedd. Mae'r tabl hefyd yn dangos ym mha drefn y mae pob awdurdod lleol o gymharu â'r holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, lle mae un yn cynrychioli'r awdurdod lleol gyda'r disgwyliad einioes uchaf a 22 y lleiaf.

[13] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Deilliannau Iechyd Cyhoeddus

**Tabl 7 – disgwyliad einioes adeg genedigaeth i wrywod a benywod 2015-2017 fesul awdurdod lleol**

| | Blynyddoedd oes | | Trefn yng Nghymru | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwrywod** | **Benywod** | **Gwrywod** | **Benywod** |
| **Conwy** | 79.3 | 82.8 | 4 | 8 |
| **Sir Ddinbych** | 77.8 | 81.8 | 16 | 14 |
| **Sir y Fflint** | 79.3 | 82.4 | 5 | 10 |
| **Gwynedd** | 78.9 | 83.3 | 7 | 5 |
| **Ynys Môn** | 79.1 | 82.9 | 6 | 7 |
| **Wrecsam** | 78.4 | 81.4 | 11 | 16 |

O ran disgwyliad einioes iach adeg genedigaeth, h.y., nifer y blynyddoedd y gall pobl ddisgwyl eu treulio mewn iechyd cyffredinol da iawn neu dda, yng Ngwynedd y mae'r uchaf i wrywod a menywod, ar 65.8 a 66.5 mlynedd. Wrecsam sydd â'r disgwyliad einioes iach isaf adeg genedigaeth i wrywod (62.5) ac Ynys Môn sydd â'r disgwyliad einioes iach isaf adeg genedigaeth i fenywod ar 63.0. Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiad ar lefel awdurdod lleol o ran disgwyliad einioes iach a hefyd ym mha drefn y mae pob awdurdod lleol o gymharu â'r holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, lle mae un yn cynrychioli'r awdurdod lleol gyda'r nifer fwyaf o fywydau iach a 22 y lleiaf.

**Tabl 8 – disgwyliad einioes iach i wrywod a menywod 2015-2017 fesul awdurdod lleol**

| | Blynyddoedd oes | | Trefn yng Nghymru | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwrywod** | **Benywod** | **Gwrywod** | **Benywod** |
| **Conwy** | 64.9 | 66.2 | 5 | 3 |
| **Sir Ddinbych** | 63.4 | 65.0 | 8 | 5 |
| **Sir y Fflint** | 63.9 | 64.4 | 7 | 6 |
| **Gwynedd** | 65.8 | 66.5 | 3 | 2 |
| **Ynys Môn** | 64.9 | 63.0 | 6 | 11 |
| **Wrecsam** | 62.5 | 63.4 | 11 | 9 |

## 2.11 Marwolaethau

Un o'r rhesymau dros y cynnydd mewn poblogaeth yw bod pobl yn byw'n hwy, gyda chynnydd yn y boblogaeth hŷn a mwy o bobl bellach yn byw i'w 90au. Mae hyn yn aml yn arwain at ofynion gofal a chefnogaeth hwy a mwy cymhleth. Er enghraifft, yn y DU ymhen 50 mlynedd, rhagamcanwyd y bydd 8.2 miliwn yn fwy o bobl 65 a hŷn - poblogaeth sydd yn fras tua'r un faint â Llundain heddiw.

Prif achosion marwolaethau cynamserol yw clefydau'r cylchrediad a chanser. Byddai lleihau marwolaethau cyffredinol oherwydd clefydau'r cylchrediad i lefelau a welir yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru yn cynyddu disgwyliad einioes yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o 1.5 mlynedd ymysg gwrywod a 1.3 mlynedd ymysg menywod.

Gellid gwneud enillion tebyg pe gostyngid cyfraddau marwolaethau o ganser i'r un lefel (1.3 mlynedd ymysg gwrywod, 1.2 mewn menywod). Mae cyfran helaeth o glefydau'r cylchrediad a rhai mathau o ganser i'w briodoli i ymddygiad iechyd afiach (diet, diffyg ymarfer corff a smygu). I lawer math o ganser, cysylltir deilliannau mwy cadarnhaol â chanfod a diagnosis cynnar. Mae hyn yn dibynnu ar wasanaethau iechyd, ond hefyd ar ymwybyddiaeth y claf o arwyddion a symptomau canser, ac a ydynt yn mynd am driniaeth mewn da bryd.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y marwolaethau oherwydd clefydau allweddol anhrosglwyddadwy, 2016 i 2018, fesul 100,000 o bobl 30 i 70 oed, yn ôl awdurdod lleol. Y diffiniad o glefydau anhrosglwyddadwy yw:

- Clefydau'r system gylchredol,
- Diabetes, a
- Clefydau'r system anadlu (ac eithrio am glefydau heintus).


Mae hefyd yn dangos lle mae pob awdurdod lleol o ran trefn yng Nghymru, lle mae un yn golygu'r gyfradd uchaf. Fel y gellir gweld gan Sir Ddinbych y mae'r gyfradd drydydd uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru.

**Tabl 9 – marwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy, 2016-2018 fesul awdurdod lleol[14]**

| | Cyfradd | Trefn |
|---|---|---|
| **Conwy** | 296.4 | 17 |
| **Sir Ddinbych** | 351.4 | 3 |
| **Sir y Fflint** | 304.5 | 15 |
| **Gwynedd** | 284.1 | 18 |
| **Ynys Môn** | 312.0 | 12 |
| **Wrecsam** | 331.9 | 10 |

Gellir priodoli datblygiad canran fawr o glefydau cardiofasgwlaidd, mathau o ganser a chlefydau resbiradol cronig i ffactorau risg y mae modd eu hatal, gan gynnwys smygu, diet afiach a diffyg ymarfer corff, fel y gellir gweld o'r ffigwr isod.

**Ffigwr 16 - canran cyfraniad ffactorau risg i dri phrif fath o salwch**




[14] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Deilliannau Iechyd Cyhoeddus

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

## 2.12 Pobl ag anableddau

Yn gyffredinol, mae poblogaeth gogledd Cymru yn cymharu'n dda â gweddill Cymru o ran statws iechyd cyffredinol a chael eu cyfyngu gan gyflwr neu nam iechyd. Fel y gellir gweld o'r ffigwr isod, ac eithrio am Sir Ddinbych mae cyfran is o oedolion 16 oed a hŷn yn dweud bod eu statws iechyd cyffredinol yn weddol neu'n wael, o gymharu â chyfartaledd Cymru (71.68%).

Dywed cyfran is o oedolion yn y gogledd y cyfyngir arnynt gan salwch tymor-hir na chyfartaledd Cymru, a dywed cyfran is o oedolion y cyfyngir llawer arnynt gan salwch tymor-hir na chyfartaledd Cymru.


**Ffigwr 17 – canran oedolion (16 oed a hŷn) a gyfyngir gan broblem iechyd/anabledd ar lefel awdurdod lleol a Chymru 2018-19 a 2019-2020[15]**

| | Iechyd yn gyffredinol - da neu dda iawn | Iechyd yn gyffredinol – gweddol, drwg neu ddrwg iawn | Cyfyngir o gwbl gan salwch tymor-hir | Cyfyngir llawer gan salwch tymor-hir |
|---|---|---|---|---|
| **Conwy** | 76.35 | 23.65 | 29.49 | 13.21 |
| **Sir Ddinbych** | 69.91 | 30.09 | 32.16 | 18.42 |
| **Sir y Fflint** | 76.22 | 23.78 | 29.79 | 13.63 |
| **Gwynedd** | 75.45 | 24.55 | 31.94 | 17.17 |
| **Ynys Môn** | 75.90 | 24.10 | 30.44 | 13.79 |
| **Wrecsam** | 73.93 | 26.07 | 30.41 | 14.26 |
| **Cymru** | 71.68 | 28.32 | 34.10 | 18.42 |

Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda salwch tymor-hir sy'n cyfyngu arnynt yn cynyddu o bron i 22% o'r cyfnod 20 mlynedd hyd at 2035 fel y gellir gweld o'r ffigwr isod. Bydd llawer o'r cynnydd i'w briodoli i bobl yn byw yn hŷn.

[15] StatsCymru, Iechyd a salwch cyffredinol fesul awdurdod lleol a bwrdd iechyd

**Ffigwr 18 – Rhagamcan nifer o bobl 18 oed a hŷn gyda salwch tymor-hir fydd yn eu cyfyngu, 2014 i 2035**[16]




Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

## 2.13 Aelwydydd[17]

O ran cyfansoddiad yr aelwydydd yn y gogledd, o Gyfrifiad 2011:

- Yr oedd 13.7% yn aelwydydd un person (47.4% ohonynt yn bobl 65 oed a hŷn),
- Yr oedd 77.3% yn deuluoedd sengl,
- Mathau eraill o aelwydydd oedd 9.0% (gan gynnwys aelwydydd cymhleth nad oedd yn cynnwys dim ond un person neu deulu sengl. Er enghraifft, mae'r gwahaniaeth oedran rhwng y person hynaf a'r ieuengaf yn fwy na 50 mlynedd. Mae hyn yn awgrymu bod mwy na dwy genhedlaeth o'r teulu yn bresennol).

Ar lefel awdurdod lleol, gan Wynedd y mae'r ganran uchaf o aelwydydd un person, sef 15.7% o bob aelwyd gyda Sir y Fflint â'r isaf ar 11.5%. Fodd bynnag mae gan Gonwy y ganran uchaf o aelwydydd un person lle mae rhywun 65 oed neu hŷn yn byw, sef 7.8%.

## 2.14 Perchenogaeth ceir[18]

Yn ôl data Cyfrifiad 2011:


---

16 Asesiad poblogaeth gogledd Cymru 2017
17 Nomis DC1109EW – Cyfansoddiad aelwydydd yn ôl oedran a rhyw
18 Nomis KS404EW – Argaeledd car neu fan

- Yr oedd gan 22.9% o aelwydydd y gogledd heb gar na fan
- Roedd gan 43.0% un car neu fan
- Roedd gan 25.8% ddau gar neu fan
- Roedd gan 6.1% dri char neu fan ac
- Roedd gan 2.2% bedwar neu fwy o geir neu faniau.

Mae'r ffigwr isod yn dangos yr amrywiad ar lefel awdurdod lleol a Chymru. Fel y gellir gweld, yn gyffredinol yr oedd perchenogaeth ceir yn gyffredinol yn uwch yn Sir y Fflint nac yn ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill, gyda mwy o aelwydydd â dau neu fwy o geir neu faniau (41.1%) o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer gogledd Cymru (36.8%) a Chymru gyfan (34.1%). Gan Wrecsam yr oedd y gyfran uchaf o aelwydydd heb gar (22.2%).

**Ffigwr 19 – perchenogaeth ceir ar lefel awdurdod lleol**




## 2.15 Gweithgaredd economaidd

Ar sail ymatebion i Gyfrifiad 2011, yr oedd 67.3% o'r boblogaeth yn economaidd weithredol (h.y., cyflogedig, hunangyflogedig neu yn ddi-waith ond yn chwilio am waith ac yn medru cychwyn ymhen pythefnos, myfyriwr amser-llawn) gyda'r gweddill yn economaidd anweithredol (naill ai wedi ymddeol, yn fyfyriwr, yn gofalu am y cartref neu'r teulu, a salwch neu anabledd tymor-hir, neu'n ddi-waith).

O ran y boblogaeth gyfan:

- Yr oedd 60.2% mewn gwaith (uchaf yn Sir y Fflint ar 63.7% ac isaf yng Ngwynedd ar 57.4%). O'r rhain:
    - mae 59.7% yn gweithio'n rhan-amser,
    - 24.2% yn gweithio'n rhan-amser, a
    - 16.2% yn hunangyflogedig

- Yr oedd 6.7% yn ddi-waith neu'n chwilio am waith
- Yr oedd 3.0% yn fyfyrwyr ac yn economaidd weithredol (uchaf yng Ngwynedd ar 4.2% ac isaf yn Ynys Môn ar 2.4%)
- Yr oedd 17.4% wedi ymddeol (uchaf yng Nghonwy ar 19.8% ac isaf yn Wrecsam at 15.2%)
- Yr oedd 5.1% yn fyfyrwyr ond heb fod yn economaidd weithredol (uchaf yng Ngwynedd ar 8.8% ac isaf yn Sir y Fflint ar 3.8%)
- Yr oedd 3.5% yn gofalu am gartref neu deulu (uchaf yn Wrecsam ar 3.8% ac isaf yng Nghonwy ar 3.3%)
- Yr oedd 5.0% a salwch neu anabledd tymor-hir ac yn economaidd anweithredol (uchaf yn Sir Ddinbych ar 6.0% ac isaf yn Sir y Fflint a Gwynedd ar 4.3%).

## 2.16 Cyfeiriadedd rhywiol

Mae "cyfeiriadedd rhywiol" yn derm ambarél sy'n cwmpasu hunaniaeth, atyniad ac ymddygiad rhywiol. Mae'n farn oddrychol ohonoch eich hun a gall newid dros amser ac mewn gwahanol gyd-destunau.

Yn 2018, yn ôl yr Arolwg Blynyddol Poblogaeth, yr oedd 2.4% o boblogaeth Cymru yn galw eu hunain yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, yn uwch nac yn Lloegr (2.3%), yr Alban (2.0%) a Gogledd Iwerddon (1.2%). Gwelodd pob gwlad arall ond Gogledd Iwerddon gynnydd o ffigyrau 2014.

Ar draws y DU:

- yr oedd dynion yn fwy tebygol na menywod o alw eu hunain yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol
- pobl iau (16 i 24 oed) oedd fwyaf tebygol o alw eu hunain yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol
- yr oedd mwy na dwy ran o dair (68.7%) o bobl oedd yn galw eu hunain yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol yn sengl (erioed wedi priodi nac mewn partneriaeth sifil).

Ar sail amcangyfrif poblogaeth o 699,500 amcangyfrifir bod 16,788 o boblogaeth gogledd Cymru yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.

Nid yw data am ailbennu rhywedd yn cael ei gasglu fel mater o drefn, ac ar hyn o bryd, mae anghysonderau mawr mewn amcangyfrifon poblogaeth o bobl drawsryweddol a'r gymuned drawsryweddol nad yw wedi ei diffinio mor glir.

Amcangyfrifwyd, ar sail ymchwil o'r Iseldiroedd a'r Alban, fod rhwng 1,300 a 2,000 o bobl drawsryweddol gwryw i fenyw a rhwng 250 a 400 benyw i wryw yn y DU. Fodd bynnag, mae *Press for Change* yn amcangyfrif bod y ffigurau tua 5,000 o bobl drawsryweddol a gafodd driniaeth. Ymhellach, mae gwefan y *Gender Identity Research and Education Society (GIRES)* yn honni bod 6,200 o bobl wedi trosi i rôl

ryweddol newydd trwy ymyriad meddygol a rhoddwyd tua 2,335 o Dystysgrifau Cydnabod Rhywedd llawn hyd at fis Chwefror 2009.[19]

## 2.17 Gofalwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gofalwr fel "unrhyw un o unrhyw oed, sy'n darparu gofal a chefnogaeth ddi-dâl i berthynas, cyfaill neu gymydog sy'n anabl, yn gorfforol neu feddyliol sâl, neu y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt". Gall gofalwyr wneud ystod eang o dasgau ymarferol, corfforol, personol a gweinyddol. Ymysg enghreifftiau mae: coginio; gwaith tŷ; codi; golchi a gwisgo'r person sy'n derbyn y gofal; helpu gydag anghenion toiledu; gweinyddu meddyginiaeth; a rhoi cefnogaeth emosiynol.

Yn 2018 yr oedd 370,000 o ofalwyr yng Nghymru, y ffigwr cymharol uchaf o holl wledydd y DU. Dal i godi y mae nifer y gofalwyr ac amcangyfrifir, erbyn 2037 y bydd dros hanner miliwn o ofalwyr yng Nghymru, cynnydd o 40%[20].

Ar sail Cyfrifiad 2011 yr oedd 78,512 o bobl yn byw yn y gogledd oedd yn darparu gofal di-dâl (11.4% o'r boblogaeth). O gyfanswm y boblogaeth:

- yr oedd 6.9% yn darparu gofal di-dâl am un i 19 awr yr wythnos,
- 1.8% yn darparu gofal di-dâl am 20 i 49 awr yr wythnos, a
- 3.4% yn darparu gofal di-dâl am 50 neu fwy o oriau'r wythnos.

Yr oedd cyfran uchaf y gofalwyr di-dâl yn Sir Ddinbych (12.4%) a'r isaf yng Ngwynedd (10.2%).

## 2.18 Cymunedau teithwyr a sipsiwn

Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod y bobl isod yn galw eu hunain yn Sipsiwn /Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig (nid yw hyn yn cynnwys Roma):

- Conwy - 65
- Sir Ddinbych - 34
- Sir y Fflint - 95
- Gwynedd – 153
- Ynys Môn - 65
- Wrecsam – 104

Mae'r ffigyrau hyn yn cymharu â chyfanswm o 2,785 ar draws Cymru gyfan neu 0.1% o'r holl boblogaeth.

Fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai llawer o aelwydydd wedi llenwi'r cyfrifiad – am eu bod yn byw ar 'safleoedd neu wersylloedd heb awdurdod' ac o'r herwydd heb

---

[19] Swyddfa Ystadegau Genedlaethol, papur sefyllfa data trawsrywedd, Mai 2009
[20] Cydffederasiwn GIG Cymru, y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gofalwyr yng Nghymru

fod yn ymddangos ar gofnodion swyddogol neu oherwydd eu bod yn amheus am bwrpas y cyfrifiad. Lle gwnaeth pobl dderbyn ffurflenni, gall lefelau llythrennedd oedd yn bosib yn is na'r cyfartaledd fod wedi golygu na lenwodd rhai aelwydydd hwy, a lle cawsant eu llenwi, gallai rhai aelwydydd fod wedi dewis peidio â galw eu hunain yn Sipsiwn/Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig.

Yn ôl y cyfrif carafanau Sipsiwn a Theithwyr ym mis Ionawr 2020[21] yr oedd 1,092o garafanau Sipsiwn a Theithwyr a 136 o safleoedd yng Nghymru, cynnydd ers yr un mis yn y blynyddoedd blaenorol (4% a 10%).

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y carafanau a safleoedd ar hyd a lled y gogledd.


**Tabl 10 – nifer carafanau fesul awdurdodi ac awdurdod lleol**

| | Nifer carafanau | | |
|---|---|---|---|
| | **Safleoedd awdurdodedig (gyda chaniatâd cynllunio)** | **Safleoedd heb awdurdod (heb ganiatâd cynllunio)** | **Cyfanswm** |
| **Conwy** | 4 | 0 | 4 |
| **Sir Ddinbych** | 0 | 4 | 4 |
| **Sir y Fflint** | 133 | 10 | 143 |
| **Gwynedd** | 15 | 4 | 19 |
| **Ynys Môn** | 0 | 1 | 1 |
| **Wrecsam** | 41 | 2 | 43 |

Mae proffil oedran y gymuned yng ngogledd Cymru yn dangos maint problem disgwyliad einioes i deithwyr. O gymharu â'r proffil cyffredinol, mae'r strwythur oedran wedi canolbwyntio'n drwm yn y bandiau oedran is, gan eu bod yn gyffredinol yn uwch na'r ffigyrau cyfrannol am ogledd Cymru tan 50 oed; wedi hynny, mae'n disgyn yn is, yn enwedig o 60 oed ymlaen. Tra bod gan ffactorau diwylliannol ran sylweddol yn eu hiechyd gwael, gall hyn fod yn rhannol yn ymwneud â gwasanaethau a pha mor agos yw safleoedd at wasanaethau gofal iechyd.

[21] Cyfrif carafanau sipsiwn a theithwyr, Ionawr 2020

**Ffigwr 20 – Proffil oedran am boblogaeth y bwrdd iechyd a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr 2011**[22]




## 2.19 Troseddwyr[23]

Mae poblogaeth y sawl a ddynodir fel troseddwyr yn cynnwys dau grŵp penodol.

Y cyntaf yw poblogaeth HMP Berwyn, y carchar i ddynion yn Wrecsam, sy'n dal tua 2,100 o ddynion

Yr ail grŵp o droseddwyr yw'r rhai nad ydynt bellach yn y carchar; gall hyn gynnwys y sawl sydd ar ddedfrydau gohiriedig, pobl ar brawf, a'r rhai sy'n byw mewn llety diogel.

Mae eiddo trwyddedig yn elfen bendant, heb fod yn garchardai, o stad y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr sydd yn darparu llety gyda lefel uwch o oruchwyliaeth; maent yno er mwyn darparu llety dan oruchwyliaeth o droseddwyr 'risg uchel a risg uchel iawn neu niwed' a ryddhawyd o'r carchar ar drwydded.

Mae dau eiddo trwyddedig yng ngogledd Cymru i oedolion o ddynion - Plas y Wern yn Wrecsam a Thŷ Newydd yng Ngwynedd. Nid oes rhai i fenywod.

Mae llety mechnïaeth yn dal pobl sydd ar fechnïaeth a Chyrffyw Cyfyngu i'r Cartref - oedolion yw'r rhain sydd angen cyfeiriad addas, neu beth cefnogaeth, fel y gallant

[22] Nomis DC2101EW Grŵp ethnig yn ôl rhyw ac oedran
[23] Asesiad poblogaeth gogledd Cymru, 2017

gael eu rhyddhau. Mae dau yn y gogledd, yn Wrecsam. Mae gan un le i dair o fenywod a chan y llall le i dri o ddynion.

Does dim darpariaethau diogel lleol yn y gogledd i bobl ifanc sy'n cael eu cadw ar remand i Lety Cadw Ieuenctid neu a ddedfrydwyd gan y llysoedd i garchar (Gorchmynion Cadw a Hyfforddi neu ddedfrydau Adran 90-92 o Lysoedd y Goron). Mae hyn yn gryn broblem, gan gynnwys rhai yn ymwneud â'r Gymraeg, ac ni ragwelir y bydd hyn yn newid.

## 2.20 Y digartref a chysgwyr allan

Ers cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, cynyddu wnaeth y galw ar wasanaethau tai y cynghorau. Nodwyd y prif resymau dros ddigartrefedd fel:

- colli llety rhent neu lety clwm,
- rhieni a pherthnasau heb fod bellach yn barod i'w lletya,
- tor-perthynas,
- cam-drin domestig, a
- gadael carchar.

Yn 2015/16, yr oedd 1,269 aelwyd dan fygythiad o ddigartrefedd ymhen 56 diwrnod. Yn 2019/20 yr oedd y ffigwr hwn wedi codi i 1,419. Ar sail cyfradd yr aelwydydd oedd dan fygythiad o ddigartrefedd fesul 10,000 aelwyd, yr oedd y gyfradd uchaf yn 2019/20 yn 67.33 fesul 10,000 aelwyd yn Sir y Fflint. Yr oedd y gyfradd isaf yng Ngwynedd (20.51)[24].

Bob blwyddyn, cyfrifir nifer y cysgwyr allan i roi darlun o bethau ar un noson. Seilir yr amcangyfrif ar ddata a gasglwyd dros gyfnod o bythefnos gyda chymorth y sector wirfoddol, grwpiau ffydd, busnesau/trigolion lleol, asiantaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau, a'r heddlu. Mae'r ffigwr isod yn dangos number y cysgwyr allan ar gyfrif un noson yn 2019, ac amcangyfrif o nifer y cysgwyr allan dros gyfnod o amser yn ystod y cyfrif.

**Ffigwr 21 – cyfrif cysgwyr allan[25]**

| | Cyfanswm cyfrif cysgwyr allan | Amcangyfrif nifer cysgwyr allan |
|---|---|---|
| Conwy | 4 | 21 |
| Sir Ddinbych | 2 | 4 |
| Sir y Fflint | 4 | 10 |
| Gwynedd | 0 | 22 |
| Ynys Môn | 1 | 5 |
| Wrecsam | 21 | 31 |

24 StatsCymru, Atal Digartrefedd fesul Ardal a Mesur (Adran 66)
25 Llywodraeth Cymru, Cyfrif cenedlaethol cysgwyr allan: Tachwedd 2019

# 3 Anghenion Iechyd Cyffredinol Gogledd Cymru

## 3.1 Canser[26]

Canser yw un o brif achosion afiechyd, ac yn ôl Cancer Research UK, bydd un o bob dau o bobl yn y DU yn cael canser yn ystod eu hoes. Mae'n grŵp o 200 o glefydau sydd, gyda'i gilydd, yn gosod baich trwm o afiechyd. Yng ngogledd Cymru, canser oedd prif achos marwolaeth yn 2018.

Yn y gogledd, fel yng Nghymru gyfan, canser y prostad, y fron a'r ysgyfaint a chanser colorefrol yw'r mathau mwyaf cyffredin o ganser i bawb (2013-2017). I ddynion yng ngogledd Cymru, y pedwar prif fath o ganser yw'r prostad, colorefrol, ysgyfaint a'r colon, ac i fenywod, y fron, ysgyfaint, colorefrol a'r colon ydynt.

Mae amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar risg unigolyn o ddatblygu canser yn ystod ei oes. Does dim modd addasu rhai o'r ffactorau hyn am eu bod yn ymwneud â phethau fel oedran, rhyw a ffurfiant genetig. Fodd bynnag, mae modd newid rhai pethau, megis:

- Peidio â smygu,
- Cynnal pwysau iach,
- Bwyta ac yfed yn iach,
- Yfed llai o alcohol,
- Bod yn fwy bywiog, a
- Mwynhau'r haul yn ddiogel.

Amcangyfrifwyd bod a wnelo rhyw 40% o fathau o ganser yn uniongyrchol â'r mathau hyn o ymddygiad a dulliau o fyw y mae modd eu newid.

Ar draws y gogledd, mae anghydraddoldeb mewn cyfraddau goroesi rhai mathau o ganser, gyda'r sawl sy'n byw mewn mwy o amddifadedd cydmeithasol-economaidd yn fwy tebygol o gael canser o'r newydd, ond yn llai tebygol o oroesi na'r rhai gwell eu byd.

O ran pob llid (heb gynnwys canser y croen heb fod yn melanoma) am y cyfnod 2013 to 2017, Wrecsam oedd â'r Gyfradd Ewropeaidd Safonedig am Oedran am bob 100,000 o'r boblogaeth am bawb (653.3) gyda Sir y Fflint yn ail uchaf (648.2). Mae'r ffigyrau hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymreig o 630.6. Gan Ynys Môn y mae'r gyfradd isaf yng ngogledd Cymru, gyda 599.8.

## 3.2 Clefyd cardiofasgwlaidd

Mae clefydau cardiofasgwlaidd yn effeithio ar gyflenwad y gwaed i'r galon ac organau hanfodol eraill, ac y maent yn cynnwys:

- Clefyd cynenedigol y galon,

[26] Uned Gwybodaeth a Gwyliadwraeth Canser, nifer achosion canser yng Nghymru, 2001-2017

- Clefyd coronaidd y galon,
- Diffyg y galon,
- Ffibriliad atriol
- Adferiad cardiaidd.
- Strôc, a
- Chlefyd fasgwlar perifferol


Fel gyda chanser, bydd cymryd camau i addasu dull o fyw yn help i leihau risg clefyd cardiofasgwlaidd. Mae naw prif ffactor risg:

- Pwysedd gwaed uchel,
- Lefelau uchel o golesterol,
- Smygu, a
- Gordewdra.

Ymysg ffactorau risg nad oes modd eu haddasu, mae oedran, rhywedd gwryw, ethnigrwydd, a hanes teuluol o glefyd cardiofasgwlaidd cynamserol.

Mae'r graff isod yn dangos sut y mae cyfradd y marwolaethau oherwydd clefyd cardiofasgwlaidd fesul pob 100,000 o'r boblogaeth yn amrywio ar draws ardaloedd awdurdod lleol a sut y maent yn cymharu â'r gyfradd am Gymru yn 2017. Fel y gellir gweld, gan Sir Ddinbych y mae'r gyfradd uchaf a Chonwy yr isaf.

**Ffigwr 22 - cyfradd marwolaethau oherwydd clefydau cardiofasgwlaidd fesul pob 100,000 o'r boblogaeth fesul awdurdod lleol a Chymru, 2017**




## 3.3 Diabetes

Mae dau brif fath o, math 1 a math 2: yr olaf hwn sydd yn fwy cyffredin o lawer. Gellir ei ragflaenu gan gyflwr cyn-ddiabetig lle mae lefelau siwgr yn y gwaed yn codi, ond

nad ydynt eto'n ddigon uchel i roi diagnosis o diabetes. Mae gan bobl â diabetes math 2 gyfraddau uwch o glefyd coronaidd y galon ac o strôc. Ymhlith cymhlethdodau eraill diabetes mae methiant yr arennau, clefydau'r llygaid, a phroblemau cylchrediad a niwrolegol yn y traed a'r coesau. Mae diabetes yn fwy cyffredin mewn cymunedau sy'n gymdeithasol-economaidd ddifreintiedig ac ymysg pobl Ddu ac Asiaidd.

Yn ôl Diabetes UK, yng Nghymru y mae diabetes yn fwyaf cyffredin o holl wledydd y DU, gyda mwy na 209,000 o bobl, neu 8% o'r boblogaeth, yn byw gyda diabetes. Cynyddu y mae'r niferoedd bob blwyddyn, gydag 10,695 yn ychwanegol o bobl wedi cael diagnosis yn 2020. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 65,501 yn ychwanegol o bobl gyda math 2 nad ydynt eto wedi derbyn diagnosis, ac y gallai 580,000 arall o bobl fod mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2.

Mae'r clefyd yn costio rhyw £500m bob blwyddyn i'r GIG, a thua 80% o hyn yn cael ei wario ar reoli cymhlethdodau, y mae modd atal y rhan fwyaf ohonynt. Y ddwy ffactor risg fwyaf y gellid eu haddasu yw gordewdra a diffyg ymarfer corff.


Gogledd Cymru sydd â'r gyfradd farwolaethau isaf (wedi'i safoni yn ôl oedran) (2015-2017) sef 10.3 am bob 100,000 o'r boblogaeth, o gymharu â 11.0 am bob 100,000 o'r boblogaeth i Gymru gyfan.

Dan y Fframwaith Ansawdd a Deilliannau, mae pob practis meddyg teulu yn sefydlu ac yn cynnal cofrestr o'r holl gleifion 17 neu hŷn sydd â diabetes. Dengys ffigyrau am 2019 fod diabetes ymysg 6.1% o'r boblogaeth a gofrestrwyd gyda meddyg teulu yn y gogledd[27]. Dengys y ffigwr isod yr amrywiad ym mynychder diabetes ar lefel lleoliad ar sail y cofrestri a gedwir gan y meddygon teulu yn y lleoliad hwnnw o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Fel y gellir gweld, mae'r gyfradd ar ei uchaf yn lleoliadau Dwyrain Conwy a Gogledd Sir Ddinbych (7.1%) ac ar ei hisaf yn ardal Arfon (4.7%).

[27] Cronfa ddata FfAD Meddygon Teulu, data Cymru 2019

**Ffigwr 23 – Mynychder diabetes ar lefel ardal a Chymru ar sail cofrestri meddygon teulu, 2019.**




## 3.4 Lles meddyliol

Dyma'r negeseuon allweddol am iechyd meddwl oedolion yng ngogledd Cymru yn asesiad poblogaeth y gogledd yn 2017[28]:


- Yr oedd pobl yn y gogledd yn crybwyll iechyd meddwl oedd fymryn yn well nag yng Nghymru yn gyffredinol
- Mae nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu
- Y clefydau meddwl mwyaf cyffredin yr adroddir amdanynt yw pryder ac iselder
- Awgryma ymchwil fod niferoedd uchel o bobl â phroblemau iechyd meddwl heb fod yn ceisio help
- Gostwng y mae nifer y rhai a dderbynnir i gyfleusterau iechyd meddwl
- Mae nifer y bobl ag anghenion mwy cymhleth yn cynyddu
- Mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod ag iechyd corfforol gwael.

Dan y Fframwaith Ansawdd a Deilliannau, mae pob practis meddyg teulu yn gorfod cadw cofrestr o gleifion â sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegwn a mathau eraill o seicosis, a chleifion eraill ar therapi lithium. Dengys i ffigwr isod ganran y bobl sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu yn y gogledd. Fodd bynnag, dylid nodi bod y ffigyrau'n debygol o danamcangyfrif y gwir nifer am eu bod yn dibynnu ar gael

[28] Asesiad poblogaeth gogledd Cymru 2017

claf yn dod at feddyg teulu am driniaeth, derbyn diagnosis, a chael ei roi ar gofrestr y clefyd. Bydd llawer o gleifion yn y gymuned gyda symptomau anhwylder seicolegol nad ydynt yn gweld eu meddyg teulu, felly mae'n bwysig bod yn wyliadwrus wrth ddehongli'r amcangyfrifon hyn.


**Ffigwr 24– canran cleifion a gofrestrwyd fel rhai a chyflwr iechyd meddwl gyda phractis meddyg teulu ar lefel lleoliad a Chymru, 2019[29]**




Mae sgoriau cyfartalog lles meddyliol yn amrywio ar draws y gogledd. Mae sgoriau yn amrywio o 14 i 70 ac y mae sgôr uwch yn awgrymu lles meddyliol cryfach. Fel y gellir gweld o'r ffigwr isod, mae'r sawl sy'n byw yn Sir y Fflint, Conwy a Gwynedd sy'n 16 neu'n hŷn yn fwy tebygol o fod â lles meddyliol cryfach na'r rhai sy'n byw yn Wrecsam (y mae eu sgôr hwy hefyd yn is na chyfartaledd Cymru).

[29] Cronfa ddata FfAD Meddygon Teulu, data Cymru 2019

**Ffigwr 25 – lles meddyliol ymysg oedolion, cyfartaledd wedi'i safonai yn ôl oedran ar lefel awdurdod lleol a Chymru, 2018/19[30]**





Mae boddhad â bywyd ymysg oedolion o oedran gwaith (a ddiffinnir fel rhai 16 i 64 oed sy'n graddio eu boddhad â'u bywydau fel saith allan o ddeg neu'n uwch) ar ei uchaf yn Sir y Fflint (85.6%) ac ar ei isaf yn Ynys Môn (80.9%) a Sir Ddinbych (80.8%), ac y mae'r naill a'r llall yn is na'r cyfartaledd i Gymru gyfan.

Fodd bynnag, y mae boddhad â bywyd ymysg pobl hŷn (a ddiffinnir fel rhai 65 oed a hŷn sy'n graddio eu boddhad â'u bywydau fel saith allan o ddeg neu'n uwch) ar ei uchaf yn Ynys Môn (88.6%) ac ar ei isaf yn Sir y Fflint (85.7%), er bod boddhad ar draws pob awdurdod lleol ymysg pobl hŷn yn uwch na chyfartaledd Cymru (84.7%). Dengys i ffigwr isod yr amrywiad ar gyfer y ddau ddangosydd ar lefel awdurdod lleol a Chymru.

[30] echyd Cyhoeddus Cymru, fframwaith deilliannau iechyd cyhoeddus

**Ffigwr 26 - boddhad â bywyd ymysg oedolion o oedran gwaith, canran ar lefel awdurdod lleol a Chymru, 2017/18 - 2018/19**





Dengys y ffigwr isod ganran y bobl sydd yn:

- adrodd am fod ag ymdeimlad o gymuned,
- gwirfoddoli, a
- theimlo'n unig.

Fel y gellir gweld, ac eithrio am Wrecsam, mae'r rhai 16 a hyn sy'n byw yn y gogledd yn crybwyll ymdeimlad uwch o gymuned na chyfartaledd Cymru. Mae lefelau gwirfoddoli gan y rhai 16 a hŷn fel rheol yn is na'r cyfartaledd am Gymru ac eithrio yng Ngwynedd ac Ynys Môn, lle maent yn uwch. Mae canran y trigolion yn Wrecsam 16 oed a hŷn sy'n teimlo'n unig yn uwch nag yn unman arall yn y gogledd, tra bod teimladau o unigrwydd ar eu hisaf yn Sir y Fflint.

**Ffigwr 27 – canran y boblogaeth sy’n adrodd am ymdeimlad o gymuned, sy’n gwirfoddoli ac yn teimlo’n unig ar lefel awdurdod lleol a Chymru, 2017/18-2018/19**




## 3.5 Dementia

Term ambarél yw dementia a ddefnyddir i ddisgrifio ystod o anhwylderau niwrolegol cynyddol, h.y., cyflyrau sy’n effeithio ar yr ymennydd. Mae dros 200 is-fath o ddementia, ond y pump mwyaf cyffredin yw:

- Clefyd Alzheimer,
- dementia fasgwlaidd,
- dementia gyda chyrff Lewy,
- dementia blaen-dalcennol, a
- dementia cymysg.


Gall rhai pobl fod â chyfuniad o wahanol fathau o ddementia, a dementia cymysg yw’r enw cyffredin ar y rhain.

Mae dementia yn difrodi celloedd y nerfau yn yr ymennydd fel nad yw negeseuon yn cael eu hanfon yn effeithiol yn ôl ac ymlaen i’r ymennydd, sydd yn atal y corff rhag gweithio’n normal.

Dywed Cymdeithas Alzheimer (2014) fod dros 850,000 o bobl yn byw gyda dementia yn y DU heddiw. O’r rhain, mae tua 42,000 yn bobl gyda dementia sy’n cychwyn yn ifanc, sy’n effeithio ar bobl dan 65 oed. Wrth i oedran unigolyn gynyddu, felly hefyd y mae’r risg o ddatblygu dementia. Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sy’n byw gyda dementia yn y DU erbyn 2025 yn codi i dros filiwn. Mae cyfraddau diagnosis yn gwella, ond tybir bod llawer o bobl â dementia heb ddiagnosis o hyd.

Mae Daffodil Cymru yn rhagweld y bydd nifer y bobl 65 a hŷn gyda dementia yn y gogledd yn cynyddu o 25% rhwng 2020 a 2030. Dengys y ffigwr isod y cynnydd ar lefel awdurdod lleol. Fel y gwelir, rhagfynegir mai yng Nghonwy y bydd y nifer uchaf o bobl 65 a hŷn gyda dementia yn 2030 (3,091), a'r rhagfynegiad hefyd yw mai yma y bydd y cynnydd mwyaf, sef 32%.

**Ffigwr 28 - rhagfynegiad o nifer y bobl 65 a hŷn gyda dementia, fesul awdurdod lleol, 2020-2030**




## 3.6 Clefydau resbiradol

Clefydau'r llwybrau anadlu a strwythurau eraill yr ysgyfaint yw clefydau resbiradol. Ymysg y rhai mwyaf cyffredin y mae clefyd ysgyfeiniol rhwystrol cronig, asthma, clefydau galwedigaethol yr ysgyfaint megis clefyd y llwch ymysg glowyr a chwarelwyr, niwmonia a gorbwysedd ysgyfeiniol. Yng ngogledd Cymru, hwy oedd trydydd prif achos marwolaeth yn 2018.

Tybaco yw prif achos canser yr ysgyfaint yn y DU, ac yn y 1950au, dangoswyd am y tro cyntaf fod pobl oedd yn smygu yn fwy tebygol o ddatblygu canser yr ysgyfaint o gymharu â'r sawl nad oedd yn smygu. Mae hefyd yn cynyddu'r risg o ganser mewn rhannau eraill o'r corff, er enghraifft y geg, gwefusau, y trwyn a'r sinysau, oesoffagws, stumog, iau, y bledren a'r colon/rectwm.

Er y gall clefyd ysgyfeiniol rhwystrol cronig fod yn ganlyniad i fod yn agored i beryglon galwedigaethol a llygredd aer, fe'i hachosir yn bennaf gan fod yn agored i fwg tybaco yn uniongyrchol ac yn ail law. Mae mathau eraill o dybaco fel sigârs a phibelli dŵr hefyd yn cynyddu risg y clefyd hwn.


Gellir dal niwmonia naill ai yn y gymuned neu mewn ysbyty/lleoliad gofal iechyd a gall effeithio ar bobl o unrhyw oed. Yn y DU, mae niwmonia yn effeithio ar tua 0.5 i

1% o oedolion bob blwyddyn, ac y mae mwy ohono yn yr hydref a'r gaeaf. Mae smygu ac wynebu mwg tybaco yn ffactorau risg o ran cael niwmonia sy'n cael ei ddal yn y gymuned.

Asthma yw clefyd cronig mwyaf cyffredin plentyndod a phrif achos marwolaeth mewn plentyndod o glefydau cronig fel sy'n cael ei fesur gan absenoldeb o'r ysgol, ymweliad ag adrannau brys, a threulio amser yn yr ysbyty. Mae'n effeithio ar bob oedran, hil ac ethnigrwydd. Gall wynebu mwg sigaréts danio datblygiad yr asthma a gwaethygu symptomau.

Fel y gellir gweld o'r ffigwr isod, yr oedd y gyfradd farwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth am bob clefyd resbiradol yn 2017 yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mewn cymhariaeth, gan Wynedd oedd y gyfradd isaf.

**Ffigwr 29 - cyfraddau marwolaethau oherwydd pob clefyd respiradol (wedi'u safoni yn ôl oedran) fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl ardal a Chymru, 2017**




Rhoi'r gorau i smygu yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal clefydau respiradol a thrin pobl gyda chlefyd respiradol.

## 3.7 Iechyd rhywiol

Iechyd rhywiol yw'r gallu a'r rhyddid i fwynhau a mynegi rhywioldeb heb ecsploetio, gorthrwm na niwed emosiynol. Ymysg problemau iechyd rhywiol mae:

- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gan gynnwys heintio â feirws diffyg imiwnedd dynol,
- Beichiogrwydd heb ei gynllunio,


- Erthyliad,
- Problemau ffrwythlondeb, a
- Analllu rhywiol.

Mae beichiogrwydd yn yr arddegau yn achos posib ac yn ganlyniad i dlodi plant, a all wneud anghydraddoldeb iechyd yn fwy tebygol. Mae bod yn fam yn yr arddegau neu yn blentyn i fam yn ei harddegau yn cynyddu'r risg o broblemau iechyd a phroblemau eraill, i'r fam a'r plentyn. Cysylltir cyfraddau beichiogrwydd uwch yn yr arddegau ag ardaloedd o amddifadedd uwch ac ardaloedd o ddiweithdra uwch.

Yn 2017, yr oedd y gyfradd o feichiogrwydd yn yr arddegau fesul 1,000 o ferched dan 18 oed yng Nghymru oedd 20.2. Gan Wynedd yr oedd y gyfradd isaf (19.5) o holl awdurdodau lleol y gogledd, a'r unig un y mae ei chyfradd yn is na'r cyfartaledd i Gymru. Gan Sir Ddinbych yr oedd y gyfradd uchaf, 26.9, a Wrecsam yn dynn ar ei sodlau (26.6).

Fel y gellir gweld o'r ffigwr isod, mae cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau ledled y gogledd wedi cwympo ers 2006, er eu bod wedi dechrau codi yn Sir y Fflint ac Ynys Môn.

**Ffigwr 30 – cyfradd beichiogrwydd yn yr arddegau fesul 1,000 o fenywod dan 18, 2006-08 i 2016-17 fesul awdurdod lleol a Chymru[31]**




[31] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Deilliannau Iechyd Cyhoeddus

### 3.8 Alcohol[32]

Mae alcohol yn un o brif achosion marwolaeth a salwch yng Nghymru gyda rhyw 1,500 marwolaeth wedi eu priodoli i alcohol bob blwyddyn (1 mewn 20 o bob marwolaeth). Ar hyd a lled Cymru, mae swm yr alcohol a yfir wedi lleihau fymryn, ac y mae oedolion dan 45 yn awr yn yfed llai. Er bod y gostyngiad hwn yn newyddion da, mae'n cuddio yfed cyson neu fwy ymhlith pobl dros 45 oed.


Ar hyd y gogledd, dywedodd 24.4% o ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol Cymru nad oeddent yn yfed, 57.7% eu bod yn yfwyr cymedrol, 15.2% yn yfwyr peryglus, a 2.74% yn yfwyr niweidiol. Fodd bynnag, y mae amrywiaeth ar lefel awdurdod lleol:

- Yr oedd canran y rhai heb fod yn yfwyr uchaf yng Ngwynedd (27.0%) ac isaf yn Wrecsam (21.2%),
- Yr oedd canran yr yfwyr cymedrol (a ddiffinnir fel yfed hyd at ac yn cynnwys 14 uned yr wythnos) ar ei uchaf yn Ynys Môn ar 60.4% ac ar ei isaf yng Ngwynedd ar 52.8%,
- Yr oedd canran yr yfwyr peryglus (a ddiffinnir fel mwy na 14 a hyd at 50 uned yr wythnos i ddynion a mwy na 14 a hyd at 35 uned yr wythnos i ferched) ar ei uchaf yn Wrecsam ar 17.6% ac ar ei isaf yn Ynys Môn ar 13.3%, ac
- Yr oedd canran yr yfwyr niweidiol (mwy na 50 neu 35 uned yr wythnos i ddynion ac i ferched) ar ei uchaf yng Ngwynedd ar 3.6% ac ar ei isaf yn Sir Ddinbych ar 2.1%.

Mae'r ffigwr isod yn crynhoi'r data hwn.

[32] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Alcohol yng Nghymru

**Ffigwr 31 – Canran yfed wythnosol fesul lefel yfed 2016/17-2017/18**




## 3.9 Gordewdra

Bod ag indecs uchel màs y corff (h.y., bod dros bwysau neu yn ordew) a diffyg ymarfer corff yw trydydd a phedwerydd prif achos afiechyd yn y DU. O'u cymryd gyda'i gilydd, gellir dadlau mai hwy sy'n cyfrannu fwyaf ar ddiffyg lles mewn cymunedau heddiw. Mae gordewdra mewn plentyndod yn arwain at ordewdra fel oedolion ac yn ei waethygu, a hyn yn ei dro yn achosi neu yn gwaethygu'r cyflyrau afiechyd tymor-hir mwyaf cyffredin sy'n cyfyngu ar fywydau pobl. Mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol fod gordewdra mewn oedolion yn arwain at ddisgwyliad einioes llai iach a disgwyliad einioes byrrach.

Mae diet iach a chytbwys yn elfen hanfodol o fyw yn iach. Mae diet cytbwys ynghyd ag ymarfer corff yn helpu i reoli pwysau'r corff ac yn cyfrannu at iechyd da. Mae cynnal pwysau corff iach hefyd yn lleihau'r risg o broblemau iechyd fel diabetes, clefyd cornaidd y galon, strôc a rhai mathau o ganser. Mae ymarfer corff rheolaidd yn rhan hanfodol o fyw'n iach. Mae diffyg ymarfer corff ymysg un o brif achosion salwch y gellir ei osgoi a marwolaeth gynamserol.

Cyngor y llywodraeth yw y dylai pawb gael o leiaf bum cyfran o amrywiaeth o ffrwythau a llysiau bob dydd. 80g yw cyfran i oedolyn o ffrwythau neu lysiau. Yn ôl y canlyniadau mwyaf diweddar ar gyfer gogledd Cymru o Arolwg Cenedlaethol Cymru (Gorffennaf 2020):

- Yr oedd 7.3% o ymatebwyr heb fwyta dim ffrwythau na llysiau y diwrnod blaenorol,
- Yr oedd 66.9% wedi bwyta peth, ond llai na phum cyfran, ac

- Yr oedd 25.7% wedi bwyta o leiaf bum cyfran.

Mae amrywiaeth ar lefel awdurdod lleol lle mae trigolion Sir y Fflint a Gwynedd yn fwyaf tebygol o fod wedi bwyta pum cyfran y diwrnod blaenorol (31.4 a 31.1%) a thrigolion Sir Ddinbych oedd leiaf tebygol likely (17.5%).

Mae canllawiau ymarfer corff i oedolion 19 i 64 oed yn cynnwys o leiaf 150 munud o weithgaredd cymedrol ddwys yr wythnos neu 75 munud o weithgaredd dwys egnïol yr wythnos. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae 55.2% o drigolion gogledd Cymru yn ateb y targed hwn, o gymharu â 53.2% ar gyfer Cymru. Oedolion yn Wrecsam oedd yn crybwyll y lefelau ymarfer corff isaf gyda dim ond 49.2% wedi ymarfer am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol, o gymharu â'r ffigwr uchaf o 62.7% yng Nghonwy.

Yng Nghymru, yr oedd 59.9% o oedolion dros eu pwysau neu yn ordew. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, 55.4% yw'r ffigwr am y gogledd. Mae amrywiaeth ar draws y gogledd, gyda 58.2% dros eu pwysau neu yn ordew yn Wrecsam a 49.9% yng Nghonwy.


### 3.10 Smygu[33]

Smygu yw un o brif achosion marwolaeth gynamserol yng Nghymru o hyd. Fel y crybwyllwyd yn adrannau cynharach y bennod hon, cysylltwyd smygu a smygu goddefol ag ystod o salwch difrifol gan gynnwys canser a chlefyd y galon.

Ar hyd a lled Cymru, ar gyfartaledd yr oedd 17.4% o bobl 16 oed a hŷn yn dweud mai eu statws smygu oedd 'smygwr dyddiol' neu 'smygwr achlysurol' yn y data diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru (Gorffennaf 2020). 17.6% yw'r cyfartaledd am ogledd Cymru, ond y mae'n amrywio yn ôl awdurdod lleol. Fel y gellir gweld o'r ffigwr isod, mae canran y bobl 16 a hŷn sy'n smygu ar ei isaf yng Ngwynedd (10.8%) ac ar ei uchaf yng Nghonwy (25.0%).

[33] YstadegauCymru, Dulliau byw oedolion fesul awdurdod lleol a bwrdd iechyd

**Ffigwr 32 – pobl 16 oed a hŷn fesul statws smygu (canran)**



# 4 Grwpiau cleifion a nodwyd – materion iechyd penodol

Nodwyd y grwpiau canlynol o gleifion fel rhai sy'n byw yng ngogledd Cymru, neu sy'n ymweld:

- Y sawl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,
  - Oedran
  - Anabledd, a ddiffinnir fel nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a thymor-hir ar allu unigolyn i wneud gweithgareddau beunyddiol normal
  - Beichiogrwydd a mamolaeth
  - Hil, sydd yn cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol
  - Crefydd (gan gynnwys diffyg crefydd) neu gred (unrhyw gred grefyddol neu athronyddol)
  - Rhyw
  - Cyfeiriadedd rhywiol
  - Ail-bennu rhywedd
  - Priodas a phartneriaeth sifil.
- Myfyrwyr prifysgol
- Troseddwyr
- Y digartref a chysgwyr allan
- Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Cyn-aelodau o'r lluoedd arfog
- Ymwelwyr â chyfleusterau chwaraeon a hamdden a pherchenogion ail gartrefi

Er y cyfeirir at rai o'r grwpiau hyn mewn rhannau eraill o'r asesiad anghenion fferyllol, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eu problemau iechyd penodol.

## 4.1 Oedran

Mae problemau iechyd yn debyg o fod yn amlycach ymysg y rhai ifanc iawn a'r rhai mewn gwth o oedran. Fodd bynnag, er ei bod yn glir fod nifer a chyfran y bobl 65 oed a hŷn ar gynnydd a bod bron i bob cyflwr cronig a thymor-hir yn fwy cyffredin wrth i bobl heneiddio, mae'n bwysig cydnabod fod y boblogaeth hŷn yn amrywiol iawn ei natur, gyda llawer o bobl yn parhau yn ffit a bywiog. Er ei bod yn wir y bydd poblogaeth gynyddol hŷn yn arwain at nifer cynyddol o bobl yn byw gydag anghenion iechyd a gofal cymhleth, bydd mwy hefyd ar draws pob grŵp oedran yn byw heb unrhyw angen sylweddol am gefnogaeth.

Ymhellach, nid yw bod â chyflwr iechyd neu anabledd o raid yn gyfystyr â lefelau uwch o alw am wasanaethau iechyd a gofal. Bydd gan lawer o bobl 75 oed a hŷn un neu fwy o gyflyrau iechyd ond efallai na fyddant yn ystyried bod eu cyflwr neu gyflyrau iechyd yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau.

Hefyd, mae pobl hŷn hefyd yn neilltuo cryn dipyn o amser a'u hegni i ofalu am eraill.

I bobl hŷn:

- Mae smygu sigaréts wedi ei gynnwys yn wyth o'r pedwar ar ddeg o brif achosion marwolaeth i bobl 65 oed neu hŷn. Mae smygu yn achosi clefydau sy'n creu anabledd ac yn lladd, gan gynnwys canser yr ysgyfaint a mathau eraill o ganser, clefydau'r galon a chylchrediad, a chlefydau resbiradol megis emffysema. Mae hefyd yn cynyddu cyfradd dirywiad dwysedd esgyrn wrth i bobl heneiddio. Yn 70 oed, mae gan smygwyr esgyrn llai dwys a risg uwch o dorasgwrn na phobl nad ydynt yn smygu. Mae gan ferched sy'n smygu fwy o risg o osteoporosis wedi'r menopos. Mae hanner y smygwyr tymor-hir yn marw o salwch cysylltiedig â thybaco, llawer ohonynt yn gynamserol, a bydd llawer yn dioddef amrywiaeth o gyflyrau cronig sy'n gysylltiedig â smygu.
- Gall hyd yn oed defnydd cymedrol o alcohol mewn hen oed fod yn niweidiol fel elfen sy'n cyfrannu at godwm, nam ar y cof, methu rheoli meddyginiaethau, diet annigonol a chyfyngiadau ar fyw annibynnol.
- Mae atal codwm yn fater allweddol o ran gwella iechyd a lles ymysg pobl hŷn. Mae cwympo yn un o brif achosion anabledd a marwolaeth ymysg pobl hŷn yng Nghymru, ac y mae'n arwain at gostau dynol sylweddol o ran poen, colli hyder ac annibyniaeth. Amcangyfrifir bod rhwng 230,000 a 460,000 o bobl dros 60 yn cwympo yng Nghymru bob blwyddyn. Bydd rhwng 11,500 a 45,900 o'r rhain yn dioddef anafiadau difrifol: torri esgyrn, anafiadau i'r pen, neu rwygiadau difrifol.
- Gall unigrwydd gael effaith arwyddocaol tymor-hir ar iechyd. Mae'n gysylltiedig â phwysedd gwaed uwch ac iselder, ac y mae'n arwain at gyfraddau uwch o farwolaeth, sydd i'w cymharu yn wir â'r rhai sy'n gysylltiedig â smygu ac yfed alcohol. Mae cyswllt rhyngddo hefyd â mwy o achosion o ddementia, gydag un astudiaeth yn crybwyll bod y risg o glefyd Alzheimer yn dyblu. Mae pobl unig yn tueddu i wneud mwy o ddefnydd ôl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn fwy tebygol o gael eu derbyn yn gynt i ofal preswyl neu nyrsio.
- Iselder yw'r angen iechyd meddwl mwyaf cyffredin ymysg pobl hŷn, ac y mae'n mynd yn fwy cyffredin wrth i bobl heneiddio. Mae menywod yn cael diagnosis o iselder yn amlach na dynion. Ar unrhyw un adeg, bydd tua 10-15% o'r boblogaeth dros 65 oed yn genedlaethol yn dioddef iselder a bydd 25% yn dangos symptomau iselder. Mae iselder yn gyffredin mewn 29% o bobl hŷn mewn ysbytai i achosion llym, ac ymysg y sawl sy'n byw mewn cartrefi preswyl, mae'n 40%. Mae iselder mwy difrifol yn llai cyffredin, ac yn effeithio ar 3-5% o bobl hŷn.
- Gall pobl gydag anghenion iechyd meddwl geisio cyngor a chefnogaeth gan eu meddyg teulu. Fodd bynnag, mae dwy ran o dair o bobl hŷn gydag iselder byth yn ei drafod gyda'u meddyg teulu, ac o'r traean sydd yn ei drafod, dim ond hanner sy'n cael diagnosis a thriniaeth. Mae hyn yn golygu, o'r sawl sydd ag iselder, dim ond 15 y cant, neu un o bob saith, sy'n cael diagnosis a derbyn unrhyw fath o driniaeth. Hyd yn oed pan gânt ddiagnosis, mae pobl hŷn yn llai tebygol o gael cynnig triniaeth na phobl 16 i 64 oed.
- Mae dementia yn gyflwr cyffredin sy'n effeithio ar ryw 800,000 o bobl yn y DU. Mae'r risg o ddatblygu dementia yn cynyddu wrth i chi heneiddio, ac y mae'r cyflwr fel arfer yn digwydd mewn pobl dros 65 oed. Dementia yw'r ail broblem

iechyd meddwl fwyaf cyffredin mewn pobl hŷn ac y mae gan 20% o bobl dros 85, a 5% dros 65, ddementia. Yn 2013 amcangyfrifwyd bod 45,529 o bobl yn byw gyda dementia yng Nghymru, ac o'r rheiny, dim ond 17,661 oedd wedi derbyn diagnosis ffurfiol. Erbyn 2021 amcangyfrifir y bydd gan dros 55,000 o bobl yng Nghymru ddementia.
- Oedran yw'r ffactor unigol fwyaf sy'n gysylltiedig â bod â chyflwr tymor hir, ac effeithir ar 60% o bobl 65 a hŷn, ond amcangyfrifir bod ffactorau dull o fyw megis smygu, yfed gormod o alcohol, diet afiach a diffyg ymarfer corff yn achosi oddeutu 50% o gyflyrau tymor hir.

I bobl ifanc:

- Hyd yn oed cyn ei eni, mae ffactorau a all effeithio ar ddisgwyliad einioes iach a chyfleoedd baban mewn bywyd eisoes ar waith. Ar hyn o bryd, mae plant a enir mewn tlodi yn fwy tebygol o fod yn oedolion gwael eu hiechyd na'r rhai a enir i gyfoeth. Mae baban a enir i fam sy'n ordew ac yn smygu trwy gydol ei beichiogrwydd mewn mwy o risg o ddatblygu dulliau afiach o fyw yn y dyfodol, sydd yn ei dro yn creu mwy o risg o gyflyrau cronig difrifol a fydd yn cael effaith ar ansawdd bywyd a disgwyliad einioes. Mae effaith profiadau plentyndod ac ymddygiad iechyd unigolyn yn parhau i gael effaith ac i gronni trwy gydol plentyndod ac ymlaen i fywyd fel oedolyn.
- Mae tystiolaeth gref i awgrymu fod ffyrdd o fyw sy'n cael effaith ar ddeilliannau iechyd a gofal cymdeithasol tymor hwy mewn oedolion a chysylltiad agos â dulliau o fyw yn ystod llencyndod. Bydd dylanwadau er lles ar ddulliau pobl yn eu harddegau o fyw yn cael effaith ar ddeilliannau iechyd pobl ifanc ac ar y galw yn y dyfodol am amrywiaeth eang o wasanaethau gan oedolion.
- Mae digon o dystiolaeth yn dweud fod bwydo o'r fron yn rhoi manteision iechyd i'r fam a'r baban ac yn hyrwyddo ymlyniad. Fodd bynnag, mae mamau ifanc ymysg y grwpiau lleiaf tebygol o fwydo o'r fron.
- Yr oedd dros wyth o bob deg o oedolion fu'n smygu'n rheolaidd wedi cychwyn cyn eu bod yn 19 oed.
- Mae wyth o bob deg o bobl sy'n ordew yn eu harddegau yn mynd ymlaen i fod yn oedolion gordew
- O beidio â'u trin, gall heintiau a drosglwyddir yn rhywiol effeithio yn y tymor hwy ar iechyd a ffrwythlondeb. Gall ymddygiad rhywiol pobl ifanc hefyd arwain at feichiogrwydd heb ei gynllunio, sydd â risgiau iechyd sylweddol ac sy'n niweidio cyfleoedd iechyd a bywyd y fam a'i phlentyn yn nes ymlaen.

## 4.2 Anabledd

Dangosodd astudiaeth yn 2010 gan yr Arsyllfa Gwella Iechyd a Bywydau Anableddau Dysgu fod pobl ag anableddau dysgu iechyd gwaelach na'u cymheiriaid heb anableddau; gwahaniaethau mewn statws iechyd y mae modd, i raddau eu hosgoi. Nododd hefyd fod anghydraddoldebau iechyd a wynebir gan bobl ag anabledd dysgu wedi cychwyn mewn plentyndod, a'u bod yn aml yn cael eu hachosi o ganlyniad i ddiffyg mynediad at ofal iechyd amserol, priodol ac effeithiol.

Mae'r deilliannau i oedolion ag anableddau o gymharu â'r boblogaeth yn ehangach yn waelach ar bron bob cyfrif. Mae gan bobl ag anableddau dysgu ddisgwyliad

einioes byrrach a mwy o risg o farwolaeth gynnar o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol.

Fodd bynnag, mae pobl ag anableddau dysgu yn byw yn hwy nag yn y gorffennol, ac o ganlyniad, cynyddu y mae nifer y bobl hŷn ag anabledd dysgu. Mae hyn ar waetha'r ffaith fod pobl ag anableddau dysgu 58 gwaith yn fwy tebygol o farw cyn 50 oed na gweddill y boblogaeth. Mae pobl hŷn ag anabledd dysgu angen mwy o gefnogaeth i heneiddio'n dda, i aros yn fywiog ac iach cyhyd ag sydd modd. Canfu ymchwil gan y Comisiwn Hawliau Anabledd yn 2006 fod pobl ag anabledd dysgu ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o fod â phroblemau iechyd na gweddill y gymuned.

- Mae gan oddeutu 1.5 miliwn o bobl yn y DU anabledd dysgu. Mae gan dros 1 filiwn o oedolion 20 oed a hŷn, a thros 410,000 o blant hyd at 19 oed anabledd dysgu.
- Mae 29,000 o oedolion gydag anabledd dysgu yn byw gyda rhieni 70 oed neu hŷn, a llawer ohonynt yn rhy hen a llesg i barhau i ofalu. Mewn 25% yn unig o'r achosion hyn y mae Awdurdod Lleol wedi cynllunio math llety arall iddynt.
- Mae llai na 20% o bobl ag anabledd dysgu yn gweithio, ond y mae o leiaf 65% o bobl ag anabledd dysgu eisiau gweithio. O'r bobl hynny ag anabledd dysgu sydd yn gweithio, gweithio yn rhan amser y mae'r rhan fwyaf ohonynt ac y mae eu cyflogau'n isel.
- Mae pobl ag anabledd dysgu 58 gwaith yn fwy tebygol o farw dan 50 oed na phobl eraill. Ac y mae pedair gwaith gymaint o bobl ag anabledd dysgu yn marw o achosion y gellid eu hatal o gymharu â phobl yn y boblogaeth yn gyffredinol.
- Mae pobl ag anabledd dysgu ddeg gwaith yn fwy tebygol o fod â phroblemau difrifol gyda'u llygaid, ac y mae'n rhaid i chwech o bob deg o bobl ag anabledd dysgu wisgo sbectol.

Dangosodd astudiaethau fod unigolion ag anableddau yn fwy tebygol na phobl heb anableddau i adrodd am y canlynol:

- Iechyd cyffredinol gwaeth.
- Llai o fynediad at ofal iechyd digonol.
- Smygu a diffyg ymarfer corff.

## 4.3 Beichiogrwydd a mamolaeth

Mae llawer o broblemau iechyd cyffredin sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. Dyma rai o'r rhai mwyaf cyffredin:

- Gwneud dŵr yn aml
- Poen yn y pelfis
- Clwyf y marchogion
- Newidiadau i'r croen a'r gwallt
- Diffyg cwsg
- Marciau ymestyn

- Chwyddo yn y migyrnau, traed a’r bysedd
- Deintgig yn chwyddo ac yn boenus, a gallant waedu
- Blinder
- Rhedlif o’r fagina
- Gwaedu o’r fagina
- Gwythiennau faricos.

### 4.4 Hil

Canfu Iechyd Cyhoeddus Cymru fod ethnigrwydd yn bwnc pwysig oherwydd, yn ogystal â bod ag anghenion penodol yn ymwneud ag iaith a diwylliant, mae pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o ddod o deuluoedd ar incwm isel, dioddef o amodau byw gwaeth a meddu ar lefelau is o gymwysterau addysgol.

Hefyd, mae gan rai grwpiau ethnig gyfraddau uwch o ambell gyflwr iechyd. Er enghraifft, mae poblogaethau sy’n tarddu o Dde Asia a’r Caribî â risg sylweddol uwch o diabetes; mae pobl o dras Bangladeshi yn fwy tebygol o osgoi alcohol ond i smygu, ac y mae anaemia cryman-gell yn anhwylder etifeddol ar y gwaed, sy’n effeithio yn bennaf ar bobl o dras Affricanaidd neu Garibïaidd.

Nod Codi’r Safon: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil i Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yw hyrwyddo cydraddoldeb hil wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn lleihau’r anghydraddoldeb iechyd a ddaw i ran rhai grwpiau ethnig.

- Mae gwahaniaethau ethnig mewn iechyd yn amlycaf ym meysydd lles meddyliol, canser, clefyd y galon, feirws diffyg imiwnedd dynol, y diciâu a diabetes
- Mae cynnydd yn nifer y bobl dduon a lleiafrifol ethnig hŷn yn debygol o arwain at fwy o angen am ddarparu gofal cymdeithasol a gofal lliniarol diwylliannol sensitif
- Gall poblogaethau duon a lleiafrifol ethnig wynebu camwahaniaethu ac aflonyddu ac fe allant fod yn dargedau posib i droseddau casineb.

### 4.5 Crefydd neu gred

Ni ddylid fyth rhagdybio y bydd unigolyn sy’n perthyn i grŵp crefyddol penodol o raid yn cydymffurfio nac yn glynu’n gaeth wrth holl safbwyntiau ac arferion y grŵp hwnnw. Gall adweithiau cleifion unigol i sefyllfa glinigol benodol ddod dan ddylanwad nifer o ffactorau, gan gynnwys pa gangen o grefydd neu gred y maent yn perthyn iddi, a pha mor gryf yw eu credoau crefyddol (er enghraifft, uniongred neu ddiwygiedig, cymedrol neu ffwndamentalaidd). Oherwydd hyn, dylid trin pawb fel unigolion.

- Cysylltiad posib â ‘thrais seiliedig ar anrhydedd’, sef math o drais domestig a symbylwyd gan syniadau o anrhydedd, ac sy’n digwydd yn y cymunedau hynny lle cysylltir y cysyniad o anrhydedd â’r ymddygiad a ddisgwylir o deuluoedd ac unigolion

- Mae anffurfio organau cenhedlu menywod yn gysylltiedig â ffactorau diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol mewn teuluoedd a chymunedau er nad oes unrhyw gyswllt uniongyrchol ag unrhyw grefydd na ffydd. Mae'n arfer anghyfreithlon sy'n codi pryderon iechyd difrifol.
- Mae posibilrwydd o drosedd casineb cysylltiedig â chrefydd a chred.

## 4.6 Rhyw

Mae problemau iechyd yn debyg o fod yn amlycach ymysg y rhai ifanc iawn a'r rhai mewn gwth o oedran. Fodd bynnag, er ei bod yn glir fod nifer a chyfran y bobl 65 oed a hŷn ar gynnydd a bod bron i bob cyflwr cronig a thymor-hir yn fwy cyffredin wrth i bobl heneiddio, mae'n bwysig cydnabod fod y boblogaeth hŷn yn amrywiol iawn ei natur, gyda llawer o bobl yn parhau yn ffit a bywiog. Er ei bod yn wir y bydd poblogaeth gynyddol hŷn yn arwain at nifer cynyddol o bobl yn byw gydag anghenion iechyd a gofal cymhleth, bydd mwy hefyd ar draws pob grŵp oedran yn byw heb unrhyw angen sylweddol am gefnogaeth.

Ymhellach, nid yw bod â chyflwr iechyd neu anabledd o raid yn gyfystyr â lefelau uwch o alw am wasanaethau iechyd a gofal. Bydd gan lawer o bobl 75 oed a hŷn un neu fwy o gyflyrau iechyd ond efallai na fyddant yn ystyried bod eu cyflwr neu gyflyrau iechyd yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau.

Hefyd, mae pobl hŷn hefyd yn neilltuo cryn dipyn o amser a'u hegni i ofalu am eraill.

I bobl hŷn:

- Mae smygu sigaréts wedi ei gynnwys yn wyth o'r pedwar ar ddeg o brif achosion marwolaeth i bobl 65 oed neu hŷn. Mae smygu yn achosi clefydau sy'n creu anabledd ac yn lladd, gan gynnwys canser yr ysgyfaint a mathau eraill o ganser, clefydau'r galon a chylchrediad, a chlefydau resbiradol megis emffysema. Mae hefyd yn cynyddu cyfradd dirywiad dwysedd esgyrn wrth i bobl heneiddio. Yn 70 oed, mae gan smygwyr esgyrn llai dwys a risg uwch o dorasgwrn na phobl nad ydynt yn smygu. Mae gan ferched sy'n smygu fwy o risg o osteoporosis wedi'r menopos. Mae hanner y smygwyr tymor-hir yn marw o salwch cysylltiedig â thybaco, llawer ohonynt yn gynamserol, a bydd llawer yn dioddef amrywiaeth o gyflyrau cronig sy'n gysylltiedig â smygu.
- Gall hyd yn oed defnydd cymedrol o alcohol mewn hen oed fod yn niweidiol fel elfen sy'n cyfrannu at godwm, nam ar y cof, methu rheoli meddyginiaethau, deiet annigonol a chyfyngiadau ar fyw annibynnol.
- Mae atal codwm yn fater allweddol o ran gwella iechyd a lles ymysg pobl hŷn. Mae cwympo yn un o brif achosion anabledd a marwolaeth ymysg pobl hŷn yng Nghymru, ac y mae'n arwain at gostau dynol sylweddol o ran poen, colli hyder ac annibyniaeth. Amcangyfrifir bod rhwng 230,000 a 460,000 o bobl dros 60 yn cwympo yng Nghymru bob blwyddyn. Bydd rhwng 11,500 a 45,900 o'r rhain yn dioddef anafiadau difrifol: torri esgyrn, anafiadau i'r pen, neu rwygiadau difrifol.
- Gall unigrwydd gael effaith arwyddocaol tymor-hir ar iechyd. Mae'n gysylltiedig â phwysedd gwaed uwch ac iselder, ac y mae'n arwain at gyfraddau uwch o farwolaeth, sydd i'w cymharu yn wir â'r rhai sy'n gysylltiedig

â smygu ac yfed alcohol. Mae cyswllt rhyngddo hefyd â mwy o achosion o ddementia, gydag un astudiaeth yn crybwyll bod y risg o glefyd Alzheimer yn dyblu. Mae pobl unig yn tueddu i wneud mwy o ddefnydd ôl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn fwy tebygol o gael eu derbyn yn gynt i ofal preswyl neu nyrsio.

- Iselder yw'r angen iechyd meddwl mwyaf cyffredin ymysg pobl hŷn, ac y mae'n mynd yn fwy cyffredin wrth i bobl heneiddio. Mae menywod yn cael diagnosis o iselder yn amlach na dynion. Ar unrhyw un adeg, bydd tua 10-15% o'r boblogaeth dros 65 oed yn genedlaethol yn dioddef iselder a bydd 25% yn dangos symptomau iselder. Mae iselder yn gyffredin mewn 29% o bobl hŷn mewn ysbytai i achosion llym, ac ymysg y sawl sy'n byw mewn cartrefi preswyl, mae'n 40%. Mae iselder mwy difrifol yn llai cyffredin, ac yn effeithio ar 3-5% o bobl hŷn.
- Gall pobl gydag anghenion iechyd meddwl geisio cyngor a chefnogaeth gan eu meddyg teulu. Fodd bynnag, mae dwy ran o dair o bobl hŷn gydag iselder byth yn ei drafod gyda'u meddyg teulu, ac o'r traean sydd yn ei drafod, dim ond hanner sy'n cael diagnosis a thriniaeth. Mae hyn yn golygu, o'r sawl sydd ag iselder, dim ond 15 y cant, neu un o bob saith, sy'n cael diagnosis a derbyn unrhyw fath o driniaeth. Hyd yn oed pan gânt ddiagnosis, mae pobl hŷn yn llai tebygol o gael cynnig triniaeth na phobl 16 i 64 oed.
- Mae dementia yn gyflwr cyffredin sy'n effeithio ar ryw 800,000 o bobl yn y DU. Mae'r risg o ddatblygu dementia yn cynyddu wrth i chi heneiddio, ac y mae'r cyflwr fel arfer yn digwydd mewn pobl dros 65 oed. Dementia yw'r ail broblem iechyd meddwl fwyaf cyffredin mewn pobl hŷn ac y mae gan 20% o bobl dros 85, a 5% dros 65, ddementia. Yn 2013 amcangyfrifwyd bod 45,529 o bobl yn byw gyda dementia yng Nghymru, ac o'r rheiny, dim ond 17,661 oedd wedi derbyn diagnosis ffurfiol. Erbyn 2021 amcangyfrifir y bydd gan dros 55,000 o bobl yng Nghymru ddementia.
- Oedran yw'r ffactor unigol fwyaf sy'n gysylltiedig â bod â chyflwr tymor hir, ac effeithir ar 60% o bobl 65 a hŷn, ond amcangyfrifir bod ffactorau dull o fyw megis smygu, yfed gormod o alcohol, deiet afiach a diffyg ymarfer corff yn achosi oddeutu 50% o gyflyrau tymor hir.

I bobl ifanc:

- Hyd yn oed cyn ei eni, mae ffactorau a all effeithio ar ddisgwyliad einioes iach a chyfleoedd baban mewn bywyd eisoes ar waith. Ar hyn o bryd, mae plant a enir mewn tlodi yn fwy tebygol o fod yn oedolion gwael eu hiechyd na'r rhai a enir i gyfoeth. Mae baban a enir i fam sy'n ordew ac yn smygu trwy gydol ei beichiogrwydd mewn mwy o risg o ddatblygu dulliau afiach o fyw yn y dyfodol, sydd yn ei dro yn creu mwy o risg o gyflyrau cronig difrifol a fydd yn cael effaith ar ansawdd bywyd a disgwyliad einioes. Mae effaith profiadau plentyndod ac ymddygiad iechyd unigolyn yn parhau i gael effaith ac i gronni trwy gydol plentyndod ac ymlaen i fywyd fel oedolyn.
- Mae tystiolaeth gref i awgrymu fod ffyrdd o fyw sy'n cael effaith ar ddeilliannau iechyd a gofal cymdeithasol tymor hwy mewn oedolion a chysylltiad agos â dulliau o fyw yn ystod llencyndod. Bydd dylanwadau er lles ar ddulliau pobl yn eu harddegau o fyw yn cael effaith ar ddeilliannau iechyd pobl ifanc ac ar y galw yn y dyfodol am amrywiaeth eang o wasanaethau gan oedolion.

- Mae digon o dystiolaeth yn dweud fod bwydo o'r fron yn rhoi manteision iechyd i'r fam a'r baban ac yn hyrwyddo ymlyniad. Fodd bynnag, mae mamau ifanc ymysg y grwpiau lleiaf tebygol o fwydo o'r fron.
- Yr oedd dros wyth o bob deg o oedolion fu'n smygu'n rheolaidd wedi cychwyn cyn eu bod yn 19 oed.
- Mae wyth o bob deg o bobl sy'n ordew yn eu harddegau yn mynd ymlaen i fod yn oedolion gordew
- O beidio â'u trin, gall heintiau a drosglwyddir yn rhywiol effeithio yn y tymor hwy ar iechyd a ffrwythlondeb. Gall ymddygiad rhywiol pobl ifanc hefyd arwain at feichiogrwydd heb ei gynllunio, sydd â risgiau iechyd sylweddol ac sy'n niweidio cyfleoedd iechyd a bywyd y fam a'i phlentyn yn nes ymlaen.

### 4.7 Cyfeiriadedd rhywiol

Nododd y papur gwyn iechyd cyhoeddus 'Healthy Lives, Healthy People' iechyd meddwl gwael, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, defnydd problemus o gyffuriau ac alcohol a smygu fel y prif faterion iechyd cyhoeddus sy'n wynebu'r DU.

Mae'r rhain oll yn effeithio'n anghymesur ar boblogaethau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT):

- Mae defnydd anghyfreithlon o gyffuriau ymysg pobl LGBT o leiaf wyth gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol
- Nododd rhyw 25% o bobl LGBT lefel o ddibyniaeth ar alcohol
- Mae bron i hanner unigolion LGBT yn smygu, o gymharu â charter eu cyfoedion heterorywiol
- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol â risg uwch o anhwylder meddyliol, ystyried hunanladdiad, camddefnyddio sylweddau a hunan-niweidio bwriadol
- Soniodd 41% o bobl drawsryweddol eu bod wedi ceisio lladd eu hunan o gymharu â 1.6% o'r boblogaeth yn gyffredinol

### 4.8 Ail-bennu rhywedd[34]

- Mae cyffuriau ac alcohol yn cael eu prosesu gan yr iau; felly hefyd hormonau traws-ryw. Gall defnydd trwm o alcohol a/neu gyffuriau tra'n cymryd hormonau gynyddu'r risg o wenwyno a difrodi'r iau
- Gall alcohol, cyffuriau a thybaco a defnyddio therapi hormonau oll gynyddu risg gardiofasgwlaidd. O'u cymryd gyda'i gilydd, gallant hefyd gynyddu'r risg sydd yno eisoes oherwydd therapi hormonau
- Gall smygu effeithio ar lefelau oestrogen, gan gynyddu'r risg o osteoporosis a lleihau effeithiau benyweiddio meddyginaeth oestrogen
- Mae pobl drawsryweddol yn wynebu nifer o rwystrau a all eu hatal rhag ymarfer yn rheolaidd. Mae gan lawer o bobl drawsryweddol drafferthion gyda delwedd eu cyrff ac o'r herwydd gallant fod yn amharod i ymgymryd ag ymarfer corff

---

[34] Gender Identity Research and Education Society Trans Health Factsheets

- Anesmwythyd rhywedd yw'r term meddygol a ddefnyddir i ddisgrifio'r anghysur hwn. Mae pobl drawsryweddol yn debyg o ddioddef o afiechyd meddwl fel adwaith i'r anghysur maent yn deimlo. Mae hyn yn cael ei sbarduno yn bennaf gan ymdeimlad o wahaniaeth a pheidio cael eu derbyn gan gymdeithas. Os yw unigolyn trawsryweddol eisiau trosi a byw yn rôl y rhywedd y maent yn uniaethu â hi, gallant boeni hefyd am niweidio eu perthynas, colli eu swydd, dioddef trosedd casineb, a chamwahaniaethu yn eu herbyn. Gall ofni'r cyfryw ragfarn a chamwahaniaethu, boed wirioneddol neu ddychmygol, achosi loes seicolegol difrifol

## 4.9 Myfyrwyr prifysgol

Mae dwy brifysgol yng ngogledd Cymru: Prifysgol Bangor yng Ngwynedd (tua 10,000 o fyfyrwyr) a Phrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam (tua 5,900 o fyfyrwyr). Ymysg eu hanghenion iechyd mae:

- Sgrinio ar gyfer clefydau a drosglwyddir yn rhywiol, a'u trin
- Rhoi'r gorau i smygu
- Brechu rhag meningitis
- Atal cenhedlu, gan gynnwys darparu atal cenhedlu hormonaidd brys
- Mae problemau iechyd meddwl yn cynyddu ymysg myfyrwyr, a phrofodd 94% o brifysgolion yn y DU gynnydd sydyn y nifer y bobl sy'n ceisio cael gwasanaethau cefnogi, a gwelodd rhai o'r sefydliadau deirgwaith yn fwy o gynnydd.
- Yn ôl adroddiad Insight Unite Students 2019, cynyddu wnaeth canran y myfyrwyr sy'n ystyried bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl, ac y mae yn awr yn 17%. Cododd hyn o 12% yn 2016 pan ofynnwyd y cwestiwn gyntaf. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, pryder ac iselder - y ddau, yn aml - oedd y cyflyrau a grybwyllwyd amlaf.
- Mae nifer y myfyrwyr sy'n gadael y brifysgol yn gynnar gyda phroblemau with iechyd meddwl wedi mwy na threblu dros y blynyddoedd diwethaf.

## 4.10 Troseddwyr

Mae HMP Berwyn yn garchar i ddynion yn Wrecsam, sy'n dal tua 2,100 o ddynion, a dyma'r carchar mwyaf yn y DU. Does dim cyfleusterau carchar i ferched yng Nghymru, ac y mae llawer o ferched o ogledd Cymru yn treulio eu dedfrydau yn HMP Styal yn Swydd Caer, sy'n garchar categori caeedig.

Adroddodd Asesiad Anghenion Iechyd Carchardai Gogledd Cymru gan iechyd Cyhoeddus Cymru[35] fod gan garcharorion fel rheol:

- Iefelau sylweddol o iechyd meddwl gwael ac anhwylderau personoliaeth;
- mwy o risg o hunan-niweidio a hunanladdiad o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol;

[35] Asesiad Anghenion Iechyd Carchardai Gogledd Cymru, Mai 2015, Iechyd Cyhoeddus Cymru

- lefelau sylweddol o gamddefnyddio sylweddau, camddefnyddio alcohol a defnyddio tybaco;
- lefelau uchel o gyflyrau cronig lluosog ymysg carcharorion hŷn;
- lefelau sylweddol o heneiddio cynamserol, 'wedi ei gyflymu' a lefelau sylweddol o salwch ac anabledd y gellir eu hatal;
- lefelau uchel o feirysau a gludir yn y gwaed;
- fawr ddim tystiolaeth i awgrymu fod modd mynd fel mater o drefn at wasanaethau cychwynnol ac ataliol eilaidd ac ymyriadau cyn eu carcharu; a
- lefelau isel o lythrennedd a rhifedd.

### 4.11 Y digartref a chysgwyr allan

Mae cysgu allan yn beryglus ac yn hynod niweidiol i iechyd corfforol a meddyliol pobl. Mae pobl sy'n cysgu allan 17 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais na'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae mwy nac un o bob tri o bobl oedd yn cysgu allan wedi cael eu taro neu eu cicio'n fwriadol neu wedi profi rhyw fath arall o drais tra buont yn ddigartref. Mae pobl ddigartref yn fwy na naw gwaith yn fwy tebygol o gymryd eu bywydau eu hunain na'r boblogaeth yn gyffredinol.

Yr oedran cymedrig adeg marwolaeth i rywun sy'n ddigartref yng Nghymru a Lloegr yw 44 i ddynion a 42 i fenywod o gymharu â'r oedran cymedrig adeg marwolaeth i boblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr, sef 76 a 81 (2017). Mae hyd yn oed y bobl hynny sy'n cysgu allan am rai misoedd yn unig yn debygol o farw'n iau na phe na baent erioed wedi cysgu allan.

Y tri achos mwyaf cyffredin o farwolaeth ymysg pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr yn 2017 oedd:

- damweiniau (40%)
- clefyd yr iau (9%)
- hunanladdiad (9%).

Yn ôl adroddiad gan Centrepoint, pobl ifanc ddigartref yw rhai o'r rhai dan fwyaf o anfantais mewn cymdeithas. Dangosodd ymchwil blaenorol fod gan lawer broblemau cymhleth gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd corfforol a meddyliol, ac y maent wedi dioddef camdriniaeth neu wedi cael profiad o ddigwyddiadau trawmatig. Mae gan 42% o bobl ifanc ddigartref ddiagnosis o broblem iechyd meddwl neu'n crybwyll symptomau o iechyd meddwl gwael, fod 18% wedi ceisio lladd eu hunain, 31% a phroblem iechyd corfforol (megis problemau gyda'u hanadlu, cymalau a chyhyrau, neu gur pen aml), mae gan 21% hanes o hunan-niweidio, 52% yn crybwyll problemau gyda'u cwsg, 55% yn smygu, a 50% yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon.

### 4.12 Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Mae gan Sipsiwn a Theithwyr ddeilliannau iechyd arwyddocaol waeth o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, ac y maent yn aml yn dioddef difenwi hiliol a

chamwahaniaethu[36]. Ganddynt hwy y mae'r disgwyliad einioes isaf o unrhyw grŵp ethnig yn y DU ac y maent yn profi:

- cyfraddau uchel o farwolaethau babanod,
- cyfraddau uchel o farwolaeth mamau,
- lefelau isel o frechu plant; a
- chyfraddau uchel o broblemau iechyd meddwl gan gynnwys hunanladdiad, camddefnyddio sylweddau a diabetes, yn ogystal â chyfraddau uchel o glefyd y galon ac afiachusrwydd a marwolaeth gynamserol.

Mae gan Sipsiwn a Theithwyr lefelau uchel o anghenion deintyddol nad ydynt yn cael eu hateb, cyfraddau isel o gofrestru gyda deintydd a fawr ddim o ddefnydd o wasanaethau ataliol.

Er bod eu hiechyd yn waeth a bod ganddynt gryn anghenion iechyd, mae teithwyr yn llai tebygol o dderbyn gofal iechyd effeithiol a pharhaus. Ymysg rhwystrau i gyrchu gofal iechyd a nodwyd[37] mae:

- anghydraddoldeb wrth gofrestru gyda meddygon teulu (oherwydd camwahaniaethu, cam-gyfatebiaeth mewn disgwyliadau, y canfyddiad y byddant yn "gleifion drud", ac amharodrwydd meddygon teulu i ymweld â safleoedd),
- llythrennedd gwael, a
- diffyg "ymwybyddiaeth/medr diwylliannol" ymysg darparwyr gwasanaeth.

Mae'r un rhwystrau'n bod pan ddaw'n fater o gyrchu gwasanaethau deintyddol.

Ymysg ffactorau sy'n cyfrannu at y gyfradd uchel o farwolaeth gynamserol mae colli cyfleoedd am ofal iechyd ataliol, yn enwedig ymysg dynion o Sipsiwn a Theithwyr, a thriniaeth effeithiol i gyflyrau sy'n bod eisoes.

### 4.13 Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Mae pobl sy'n mudo i Gymru yn gwneud hynny am amrywiaeth o resymau, ac o'r herwydd maent yn grŵp amrywiol. Yn aml, byddant wedi wynebu caledi yn ystod eu taith, a fydd yn arwain at anghenion gwasanaeth cymhleth.
Mae a wnelo problemau iechyd mewnfudwyr bregus yn aml ag amddifadedd a diffyg mynediad at wasanaethau, yn hytrach nag afiechyd cymhleth neu dymor hir[38].

Efallai bod gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches lefelau uchel o afiechyd seicolegol. Mae goroeswyr arteithio a masnachu mewn pobl yn aml wedi dioddef amgylchiadau

---

[36] Matthews Z. The health of Gypsies and Travellers in the UK. Better Health Briefing Paper 12. Sefydliad Cydraddoldeb Hil. 2008.
[37] Cemlyn S et al. Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. 2009
[38] Fitzpatrick S et al. Multiple exclusion homelessness amongst migrants in the UK. Eur J Homelessness 2012;6(1):31-58

eithafol lle buont yn agored i ddigwyddiadau annisgwyl heb ddim rheolaeth drostynt, a all arwain at anhwylderau trawma difrifol yn y tymor hwy[39].

Gall methu â chyfathrebu yn Saesneg achosi problemau pan ddaw'n fater o gael hanes meddygol, esbonio dewisiadau triniaeth a cheisio cydsyniad.

## 4.14 Cyn-aelodau o'r lluoedd arfog

Diffinnir cyn-aelod o'r lluoedd arfog fel "unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf ddiwrnod yn y Lluoedd Arfog (Rheolaidd neu Wrth Gefn), yn ogystal â morwyr y Llynges Fasnachol a physgotwyr sydd wedi gwasanaethu mewn llestr a redwyd i hwyluso gweithrediadau milwrol gan y Lluoedd Arfog." Nid oes unrhyw ffynhonnell arferol o wybodaeth am gyn-filwyr yng Nghymru, felly ni wyddom faint sy'n byw yng Nghymru. Dywed astudiaethau bod y rhan fwyaf o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn gyffredinol yn gweld eu hamser yn y Fyddin fel profiad cadarnhaol ac nid ydynt yn dioddef effeithiau iechyd andwyol o ganlyniad i'w hamser yn y lluoedd.

Fodd bynnag, i leiafrif, gall canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol andwyol fod yn sylweddol a gellir eu gwaethygu gan ffactorau eraill - megis problemau ariannol a lles. Mae a wnelo materion iechyd allweddol sy'n wynebu'r boblogaeth fu yn y lluoedd arfog â phroblemau iechyd meddwl cyffredin (ond maent hefyd yn cynnwys anhwylder straen wedi trawma) a chamddefnyddio sylweddau - gan gynnwys yfed gormod o alcohol ac i raddau llai o lawer - defnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Yn ychwanegol, nodwyd fod cysylltiad ag amser yn y Lluoedd ag anhwylderau cyhyrysgerbydol i rai cyn-filwyr.

Ymysg materion eraill a nodwyd gan astudiaethau fel rhai pwysig i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog mae:

- Cyrchu tai addas ac atal digartrefedd.
- Cefnogi cyn-filwyr i mewn i waith.
- Cyrchu cyngor a gwybodaeth ariannol briodol am fudd-daliadau perthnasol.
- Cyrchu gwasanaethau iechyd a chefnogol.
- Cefnogi cyn-aelodau o'r lluoedd arfog fu yn y system cyfiawnder troseddol.
- Unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Mynediad rhwydd at wasanaethau er mwyn sicrhau nodi a thrin yn gynnar (iechyd corfforol a meddyliol).
- Cefnogi teulu ehangach cyn-filwyr.

Awgryma ymchwil nad yw'r rhan fwyaf o bobl 'yn dioddef anawsterau iechyd meddwl hyd yn oed ar ôl gwasanaethu mewn amgylcheddau heriol iawn'. Fodd bynnag, mae rhai cyn-aelodau yn wynebu problemau iechyd meddwl difrifol.

Dyma'r problemau mwyaf cyffredin a ddaw i ran cyn-aelodau o'r lluoedd arfog 9a chan y boblogaeth yn gyffredinol):

[39] Borland R ac Zimmerman C. Caring for trafficked persons: Guidance for health providers. Geneva, International Organization for Migration. 2012

- iselder
- pryder
- camddefnyddio alcohol.

Mae'n debyg fod anhwylder straen wedi trawma yn effeithio ar ryw 4% o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Bob blwyddyn, mae rhyw 0.1% o bawb sy'n gadael y lluoedd rheolaidd yn gorfod gadael am resymau iechyd meddwl. Penododd pob bwrdd iechyd yng Nghymru weithiwr clinigol profiadol fel therapydd i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog gyda diddordeb neu brofiad o broblemau iechyd milwrol (meddyliol). Bydd y therapydd yn derbyn cyfeiriadau gan staff gofal iechyd, meddygon teulu, elusennau cyn-filwyr a hunan-gyfeiriadau gan gyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Prif nod Cyn-Filwyr GIG Cymru yw gwella iechyd meddwl a lles cyn-aelodau o'r lluoedd sydd â phroblem iechyd meddwl cysylltiedig â'u gwasanaeth. Yr ail nod yw llwyddo i wneud hyn trwy ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy, hygyrch ac effeithiol sy'n ateb anghenion cyn-aelodau o'r lluoedd arfog gydag anawsterau iechyd meddwl a lles sy'n byw yng Nghymru. Mae adroddiad o 2016 gan 'Forces in Mind' yn rhoi canfyddiadau o adolygiad o anghenion meddyliol ac iechyd cysylltiedig cyn-aelodau o'r lluoedd arfog ac aelodau o'u teuluoedd yng Nghymru.

Sylwodd yr adroddiad fod llawer o waith da wedi ei ddatblygu yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf i ateb anghenion iechyd ac eraill cyn-aelodau o'r lluoedd a'u teuluoedd. Fodd bynnag nododd yr adroddiad hefyd feysydd lle teimlwyd bod angen gwneud gwaith ychwanegol i gwrdd ag anghenion cyn-filwyr. Yr oedd y rhain yn cynnwys:

- Angen am ffocws strategol a chydgordio o ran cynllunio/comisiynu gwasanaethau i gyn-filwyr – yn gyffredinol ac arbenigol – ar draws sectorau a rhanbarthau.
- Angen i sicrhau cysondeb a gweithredu Fforymau a Phencampwyr y Lluoedd Arfog ledled Cymru.
- Angen sicrhau cynaliadwyedd/gallu mewn gwasanaethau dros y tymor hir.
- Angen sefydlu partneriaethau amlasiantaethol lleol effeithiol i wella asesu a llwybrau cyfeirio.
- Cwrdd ag anghenion cyn-filwyr ag anghenion hynod gymhleth, yn enwedig y rhai â diagnosis deublyg (iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau) a'r sawl sydd yn y system cyfiawnder troseddol.
- Cwrdd ag anghenion nad ydynt yn cael eu hateb ymysg cyn-filwyr a'u teuluoedd, gyda mwy o atal, adnabod ac ymyriad cynnar mewn gwasanaethau cyffredinol/prif-ffrwd i atal pwysau ar wasanaethau argyfwng.
- Cydnabod anghenion cefnogi ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol teuluoedd cyn-filwyr gyda phroblemau iechyd meddwl, a gofalu amdanynt yn briodol gan gynnwys materion diogelu ynghylch trais domestig a lles plant yn y tymor hir.

Nododd adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn 2014 'Gwella Mynediad at Driniaeth Camddefnyddio Sylweddau i Gyn-filwyr' y dylai Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau arwain ar gynllunio, comisiynu a chyflwyno gwasanaethau yn lleol a chydweithredol er mwyn sicrhau yr atebir anghenion cyn-

filwyr. Cafwyd adroddiad yn 2011 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar asesu anghenion gofal iechyd cyn-filwyr am wasanaethau adsefydlu arbenigol yng Nghymru. Yr oedd gan hwn gyfres o argymhellion am gefnogi cyn-filwyr o ran eu hiechyd corfforol ac anabledd yng nghyswllt darparu gwasanaethau adsefydlu arbenigol.

### 4.15 Ymwelwyr â chyfleusterau chwaraeon a hamdden a pherchenogion ail gartrefi

Ni ragwelir bod anghenion iechyd y grŵp hwn o gleifion yn debyg o fod yn wahanol iawn i rai poblogaeth gyffredinol gogledd Cymru. Oherwydd eu bod yn debygol o fod yn yr ardal am ddiwrnod neu ddau yn unig, mae eu hanghenion iechyd yn debyg o fod fel a ganlyn:

- Trin cyflwr llym sydd angen presgripsiwn
- Angen am feddyginiaetha gymerir yn rheolaidd
- Cefnogaeth i hunan-ofalu, neu
- Cyfeirio at wasanaethau iechyd eraill megis meddyg teulu neu ddeintydd.

Canfu adroddiad gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru ar effaith twristiaeth ar iechyd[40] y canlynol:

- Nid oes fawr o ymchwil wedi ei wneud ar effeithiau twristiaeth yn y DU ar iechyd;
- Mae gan bobl ar eu gwyliau batrymau gwahanol o ymgynghori mewn gofal cychwynnol na'r boblogaeth gynhenid, gan ymgynghori yn amlach am gyflyrau resbiradol a gastroberfeddol, mân heintiau a phroblemau'r croen;
- Gall baich gwaith meddygon teulu mewn cyrchfannau gwyliau poblogaidd gynyddu ym misoedd yr haf;
- Yn aml iawn, nid yw pobl ar eu gwyliau wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer eu taith, gan anghofio meddyginiaeth hanfodol a theithio ar ôl salwch a llawdriniaethau mawr. Gallai cwnsela cynhwysfawr cyn teithio gan weithwyr iechyd proffesiynol yn yr ardaloedd o lle maent yn dod, yn enwedig i bobl â chyflyrau cronig, ysgafnhau'r baich ar wasanaethau iechyd yn yr ardaloedd sy'n 'derbyn';
- Yr oedd trigolion lleol yn fwy tebygol o fynd i adrannau brys oherwydd salwch, a thwristiaid yn fwy tebygol o fynd i adrannau brys oherwydd damweiniau, yn un cyrchfan glan môr yn Awstralia;
- Yn aml, nid oes gan dwristiaid fawr ddim gwybodaeth am amodau lleol, sy'n golygu eu bod yn wynebu mwy o risg o ddamweiniau, yn enwedig o ran yr amgylchedd naturiol;
- Os bydd data cynhwysfawr yn cael ei gasglu am episodau iechyd twristiaid, a chyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn digwydd rhwng gwasanaethau iechyd, y diwydiant ymwelwyr a llywodraeth leol, bydd hyn yn helpu i gynllunio am effeithiau twristiaeth ar iechyd;

---

[40] Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, 2005. Effeithiau iechyd newidiadau demograffig tymhorol mewn ardaloedd a lefelau uchel o dwristiaeth yn y DU – Canfyddiadau allweddol o'r llenyddiaeth.

- Mae ymddygiad peryglus o ran defnyddio alcohol, defnyddio cyffuriau ac ymddygiad rhywiol yn cynyddu pan fydd pobl ar wyliau;
- Gall awyrgylch hwyliog, diflanedig cyrchfannau gwyliau glan môr yn y DU, ac ymdeimlad o ‘garnifal’, ynghyd â rhwyddineb cael alcohol, gyfrannu at gymryd risgiau yn ymddygiad rhywiol, pobl ifanc. Mae pobl ifanc yn aml yn cael eu tynnu i mewn i’r diwydiant hamdden ac adloniant sydd wedi ei gyfeirio tuag at oedolion, a gall hyn eu gadael yn agored i gael eu hecsploetio.

# 5 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol


## 5.1 Darpariaeth bresennol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yr oedd 152 o fferyllfeydd ar y rhestr fferyllol i ardal y bwrdd iechyd ar Awst 2021, sy'n cael eu rhedeg gan 42 o gontractwyr gwahanol. Mae hyn yn ostyngiad ers 2018/19 (155 o fferyllfeydd) a 2019/20 (154 o fferyllfeydd).

Mae chwech o fferyllfeydd yn gweithredu dan y 'cynllun fferyllfeydd bach hanfodol', un yr un ym Môn, Canol a De Sir Ddinbych, Dwyfor a De Wrecsam, a dau ym Meirionydd. Mae bod yn 'fferyllfa fach hanfodol' yn golygu bod y fferyllfa yn derbyn taliad ychwanegol sicrhau ei bod yn derbyn isafswm lefel o incwm i ddarparu gwasanaethau hanfodol, ac felly y mae'n hyfyw.

O'r 98 practis meddygon teulu yn ardal y bwrdd iechyd, mae 37 yn dosbarthu i gleifion cymwys o 46 safle yn ardal y bwrdd iechyd. Dengys y map isod lle mae'r rhain.

**Map 5 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau eiddo sy'n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae’r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau eiddo sy’n dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd o gymharu â dwysedd poblogaeth. Oherwydd maint ardal y bwrdd iechyd, nid yw pob eiddo’n cael ei ddangos yn unigol; fodd bynnag, mae mapiau manylach yn y penodau am ardaloedd lleol.

Fel y gellir gweld, mae mwy o ddwysedd fferyllfeydd ar hyd arfordir y gogledd ac yn nwyrain ardal y bwrdd iechyd lle mae’r dwysedd y boblogaeth yn fwy. Mae eiddo meddygfeydd sy’n dosbarthu yn fwy tebygol o fod mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is.

**Map 6 - lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae’r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau eiddo sy’n dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd o gymharu â lefelau amddifadedd. Fel y gellir gweld, mae llai o gydberthynas rhwng lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu a lefelau o amddifadedd.

**Map 7 - lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu o gymharu â lefelau amddifadedd, fesul ardal is o allbwn ar Fynegai Aml-Amddifadedd Cymru 2019**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.


Yn 2019/20, cafodd 88.1% o eitemau a ragnodwyd gan bob practis meddyg teulu yn ardal y bwrdd iechyd eu dosbarthu gan fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd a dosbarthwyd neu gweinyddwyd 10.2% yn bersonol gan y practis meddyg teulu. Yn 2020/21, cafodd 84.7% eu dosbarthu gan fferyllfeydd a dosbarthwyd neu gweinyddwyd 14.0% yn bersonol gan y practis meddyg teulu.

### 5.1.1 Mynediad at adeiladau

Dewisodd y bwrdd iechyd amser teithio o 20 munud mewn car fel safon mynediad priodol. Er mwyn asesu a all trigolion gyrchu fferyllfa yn unol â'r safon hwn, dadansoddwyd amseroedd teithio gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Fel y gellir gweld, mae nifer o ardaloedd nad ydynt o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa; fodd bynnag, dengys dadansoddiad o'r rhain naill ai nad oes poblogaeth breswyl neu dim ond tai gwasgaredig, ffermydd, safleoedd gwersyllfa a charafanau. Er hynny, y mae rhai pentrefi bychain yng Ngorllewin Conwy nad ydynt o fewn taith 20 munud.

**Map 8 – Amser a gymerir i gyrraedd fferyllfa mewn car**




© Crown Copyright Ordnance Survey Mapping License 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae ymatebion i holiadur i'r cyhoedd a chleifion yn rhoi'r mewnwelediad canlynol i gyrchu fferyllfeydd:

- Mae 66.8% o ymatebwyr yn gyrru i fferyllfa,
- Mae 25.0% yn cerdded
- I 90.3% o ymatebwyr, mae amser eu taith yn llai na 20 munud. I 80.2% mae amser eu taith yn 15 munud neu lai.

### 5.1.2 Mynediad at wasanaethau hanfodol

Er y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymweld â fferyllfa yn ystod y cyfnod 8.30am i 6.30pm o ddydd Llun tan ddydd Gwener, yn dilyn ymweliad â'u meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall, fe fydd adegau pan fydd pobl angen, neu yn dewis, mynd i fferyllfa y tu allan i'r adegau hynny. Efallai y bydd hyn er mwyn cael presgripsiwn ar ôl cael eu gweld gan y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau, neu i gasglu eitemau a ddosbarthwyd ar eu ffordd yn ôl neu ymlaen o'r gwaith, neu efallai y byddant yn gwneud hyn i gyrchu un o'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan fferyllfa y tu allan i oriau gwaith arferol rhywun. Dangosodd yr holiadur i ddwyn i mewn gleifion a'r cyhoedd yr isod:

- Nid oedd gan 31.7% o ymatebwyr ddewis amser i ymweld â fferyllfa,
- Yr oedd yn well gan 24.6% 9.00 tan hanner dydd,
- 14.2% hanner dydd tan 15.00, a
- 17.2% 15.00 tan 18.00.

O ran eu dewis ddiwrnod i fynd i fferyllfa:

- Nid oedd gan 43.5% ddewis o ddiwrnod,
- Dywedodd 27.8% ddyddiau'r wythnos yn gyffredinol, a
- Dywedodd 5.8% benwythnosau yn gyffredinol.

Mae Atodiad L yn rhoi gwybodaeth am oriau agor y fferyllfeydd ar Awst 2021 a bryd hynny, yr oedd:

- 17 fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- 41 fferyllfa ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn
- 71 fferyllfa ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a dydd Sadwrn hyd at 14.00
- 23 fferyllfa ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener.

Mae cynllun agor ar benwythnosau yn gweithredu ar 2020/21 sy'n darparu'r canlynol:

- Mae pedair fferyllfa ym Môn yn aros ar agor am 30 munud yn ychwanegol o ddydd Llun tan ddydd Mawrth.
- Mae un fferyllfa yn Arfon yn aros ar agor am awr yn ychwanegol o ddydd Llun tan ddydd Gwener.
- Mae dwy fferyllfa yng Nghanol a De Sir Ddinbych yn aros ar agor bob yn ail wythnos ar ddydd Llun i ddydd Gwener, un am awr yn ychwanegol a'r llall am 30 munud yn ychwanegol.
- Mae un fferyllfa yng Ngorllewin Conwy yn aros ar agor am awr yn ychwanegol, tan 18.30 o ddydd Llun tan ddydd Gwener.
- Mae tair fferyllfa yn Nwyfor yn aros ar agor am 30 munud yn ychwanegol o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Mae dwy fferyllfa ym Meirionnydd yn aros ar agor am awr ychwanegol bob yn ail wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae pob practis meddyg teulu dan gontract i ddarparu gwasanaethau rhwng 8.00am a 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio am wyliau banc a gwyliau cyhoeddus. Bydd fferyllfeydd meddygon teulu fel arfer ar agor ar yr un pryd â'r practis, gan ddosbarthu presgripsiynau a roddwyd fel rhan o ymgynghoriad yn ystod yr amser hwn yn ogystal â dosbarthu presgripsiynau ailadroddadwy.

Yn 2020/21, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig. Petai hyn yn newid yn ystod oes yr asesiad anghenion fferyllol, yna mae gan y bwrdd iechyd y gallu i gyfarwyddo fferyllfeydd presennol i aros am oriau hwy os bydd angen.

Mae un practis meddyg teulu yn Rhuthun, sy'n dosbarthu i ryw hanner o'i gleifion cofrestredig, ar fin symud i adeiladau newydd ym mis Hydref 2021. Ni ragwelir y bydd hyn yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.


Ar Awst 2021 ni wyddom am unrhyw gynlluniau i uno nac adleoli unrhyw bractis meddyg teulu, er y rhagwelir y gall rhai ddigwydd yn ystod einioes y ddogfen.

### 5.1.3 Mynediad at y gwasanaeth adolygu defnydd o feddyginiaeth

Yn 2018/19 darparwyd cyfanswm o 47,895 o adolygiadau defnydd o feddyginiaeth gan 149 o'r fferyllfeydd. Darparodd 78 fferyllfa'r uchafswm - 400.

Yn 2019/20 darparwyd cyfanswm o 44,714 o adolygiadau defnydd o feddyginiaeth gan 153 fferyllfa, gyda 38 fferyllfa yn darparu'r uchafswm. Dengys y graff isod gyfanswm y nifer a hawliwyd gan bob fferyllfa.

**Ffigwr 33 – nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau a hawliwyd gan bob fferyllfa yn 2019/20**



Gellir darparu hyd at 400 o adolygiadau defnydd o feddyginiaeth ym mhob fferyllfa y flwyddyn, gan roi uchafswm posib o 60,800 y flwyddyn ar sail y 152 fferyllfa bresennol.

Ar Awst 2021, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod wedi'i ohirio oherwydd y pandemig Covid.

Mae'r tabl isod yn crynhoi darpariaeth y gwasanaeth yn 2018/19 a 2019/20. Ar sail hyn, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu mwy o adolygiadau defnydd o feddyginiaeth pan fydd y gwasanaeth yn ail-gychwyn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

**Tabl 11 – crynodeb o ddarpariaeth adolygiadau defnydd o feddyginiaeth 2018/19 a 2019/20**


| | Ystod o gyfanswm y nifer a ddarperir | Nifer fferyllfeydd sy'n darparu'r uchafswm | Nifer sy'n darparu llai na 200 |
|---|---|---|---|
| **2018/19** | 5 to 400 | 78 | 25 |
| **2019/20** | 1 to 400 | 38 | 35 |

### 5.1.4 Mynediad at y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19, yr oedd 110 fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn ac yn hawlio am gyfanswm o 2,512 adolygiad.

Yn 2019/20, darparodd 116 fferyllfa y gwasanaeth gan hawlio cyfanswm o 2,248 adolygiad. Dengys y ffigwr isod nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth a nifer yr adolygiadau a hawliwyd yn y ddwy flynedd. Fel y gellir gweld, tra bod mwy o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2019/20, cynhaliwyd llai o adolygiadau yn gyffredinol.

**Ffigwr 34– nifer yr adolygiadau o feddyginiaethau rhyddhau a hawliwyd gan bob fferyllfa yn 2018/19 a 2019/20**




Yn 2020/21 darparodd 120 fferyllfa y gwasanaeth, gan hawlio am gyfanswm o 2,354 adolygiad.

Hyd at Fawrth 31 2021 gallai pob fferyllfa ddarparu hyd at 140 o adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau y flwyddyn. Fodd bynnag, gwnaed i ffwrdd â'r cap o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Ar sail lefel y ddarpariaeth yn 2018/19 mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu mwy o adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau.

O'r data sydd ar gael am 2019/20 a 2020/21 does dim tystiolaeth i gefnogi casgliad gwahanol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

### 5.1.5 Mynediad at adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oedd yr un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, 2019/20 na 2020/21 er bod 146 o fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o declyn. Fodd bynnag, oherwydd bod contractwyr sy'n dosbarthu teclynnau yn darparu gwasanaethau ledled Cymru, ni fydd y cyfan o'r rhain wedi eu darparu i drigolion ardal y bwrdd iechyd. Oherwydd y ffordd mae'r data'n cael ei hel ynghyd a'i gyhoeddi, ni wyddom faint o'r rhain a ddarparwyd i drigolion y bwrdd iechyd.

### 5.1.6 Mynediad at addasiadau teclynnau stoma

Roedd tair fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, dwy yn 2019/20 a dwy yn 2020/2 er bod 146 fferyllfa yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn. Fodd bynnag, oherwydd bod contractwyr sy'n dosbarthu teclynnau yn darparu gwasanaethau ledled Cymru, ni fydd y cyfan o'r rhain wedi eu darparu i drigolion ardal y bwrdd iechyd. Oherwydd y ffordd mae'r data'n cael ei hel ynghyd a'i gyhoeddi, ni wyddom faint o'r rhain a ddarparwyd i drigolion y bwrdd iechyd.

### 5.1.7 Mynediad at y gwasanaeth gwell atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Dan y gwasanaeth hwn, comisiynir fferyllfeydd i roi cyngor a chyflenwadau atal cenhedlu, gan ategu gwasanaethau gofal cychwynnol eraill a chynyddu mynediad, ac ar yr un pryd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb lle na all menyw dalu am atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng.

Comisiynwyd 138 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21. Mae hyn wedi cynyddu i 141 fferyllfa yn 2020/21.

Oherwydd bod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

### 5.1.8 Mynediad at y gwasanaeth gwell rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Mae'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2 yn cysylltu gyda'r gwasanaeth cefnogi ymddygiad dwys a ddarperir gan Helpa fi i Stopio. Dan y trefniant hwn, mae contractwyr fferyllfa yn cyflenwi therapi amnewid nicotin i smygwyr sy'n derbyn cefnogaeth i ymddygiad rhoi'r gorau i smygu gan Helpa fi i Stopio, mewn ymateb i lythyr cyfeirio neu gerdyn apwyntiad sy'n nodi dibyniaeth y cleient ar nicotin. Mae'r gwasanaeth Helpa fi i Stopio yn rhoi rhaglen chwech-wythnos o gefnogaeth, ac yn ystod y cyfnod hwn, rhoddir llythyr cyfeirio am bob cyflenwad gan fferyllfa o therapi amnewid nicotin. Wedi cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, bydd Helpa fi i Stopio yn rhoi llythyr cyfeirio rhyddhau i fferyllfa am gyflenwad chwech-wythnos pellach o therapi amnewid nicotin i'w roi bob pythefnos.

Comisiynwyd 126 contractwr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, gan gynyddu i 135 yn 2020/21.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

### 5.1.9 Mynediad at wasanaeth gwell Helpa fi i Stopio @ fferyllfa

Y gwasanaeth gwell rhoi'r gorau i smygu lefel 3 oedd yr hen enw am y gwasanaeth hwn, a ail-ddyluniwyd yn 2020/21. Bwriad y gwasanaeth newydd yw rhoi cefnogaeth

a thriniaeth gynhwysfawr i’w helpu i roi’r gorau i smygu dros raglen 12 wythnos, gydag wyth sesiwn ymgynghori. Bydd hefyd yn cynnwys darparu Varenicline dan gyfarwyddwyd grŵp o gleifion.

Ar Awst 2021, comisiynwyd 134 o gontractwyr i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

Mae’r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu’r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

### 5.1.10 Mynediad at y gwasanaeth gwell brechu rhag y ffliw

Mae’r gwasanaeth hwn yn caniatáu i fferyllfeydd ddarparu imiwneiddio rhag y ffliw i’r cleifion hynny sydd mewn grwpiau risg y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a lleol. Mae’n cefnogi darparu imiwneiddio rhag y ffliw yn ehangach, gyda’r nod o gynyddu cyfran yr unigolion mewn perygl sy’n derbyn imiwneiddiad, a thrwy hynny helpu i ostwng afiachusrwydd a marwolaethau.

Yn 2018/19 darparodd 117 o’r fferyllfeydd gyfanswm o 11,711 brechiad dros dymor y ffliw. Yn 2019/20 darparodd 128 o’r fferyllfeydd gyfanswm o 14,397 brechiad yn ystod tymor y ffliw.

Yn 2020/21, comisiynwyd 137 o fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth a darparwyd cyfanswm o 20,727 brechiad. Ar Awst 2021, comisiynir 137 fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth.

Oherwydd bod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn, mae’r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu’r gwasanaeth hwn ar sail y gweithgaredd yn 2018/19, 2019/20 a 2020/21. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

### 5.1.11 Mynediad at y gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae’r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn rhoi cyngor a thriniaeth am amrywiaeth o gyflyrau penodol fel acne, brech yr ieir, llid yr amrant, llau pen, dolur gwddf /tonsilitis a ferwcau. Bydd cleifion yn cofrestru gyda fferyllfa ac yn derbyn ymgynghoriad gyda fferyllydd a chael cyngor ar reoli a thrin os bydd gofyn, neu gyfeirio os bydd angen, ac fe’i rhoddir fel dewis yn lle apwyntiad gyda meddyg teulu.

Yn 2020/21, comisiynwyd 147 o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac y mae 144 wedi ei ddarparu. Yn 2021/22, mae 148 o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth.

Oherwydd bod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn, mae’r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu’r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

### 5.1.12 Mynediad at y gwasanaeth gwell o gyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Comisiynwyd y gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng i alluogi cleifion i gael cyflenwadau o feddyginiaeth mewn argyfwng trwy fferyllfeydd cymunedol, gyda'r GIG yn talu cost y cyflenwad. Pwrpas y gwasanaeth hwn yw ysgafnhau'r baich ar y gwasanaethau Tu Allan i Oriau, Gofal Brys a Meddygon Teulu o ran rheoli ceisiadau cleifion am gyflenwadau brys o feddyginiaeth y tu allan i oriau gwaith arferol meddygon teulu.

Deddf Meddyginiaethau Dynol 2012 yw'r brif ddeddfwriaeth o hyd sydd yn llywodraethu cyflenwadau brys o feddyginiaeth ar gais claf, a rhaid cyflenwi pob meddyginiaeth yn unol â'r rheoliadau hyn.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2019/20.

Yn 2020/21, comisiynwyd 149 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac mae 128 wedi ei ddarparu

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

### 5.1.13 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Dan y gwasanaeth hwn, yn ychwanegol at gyflenwi'r feddyginiaeth, bydd y fferyllydd yn arsylwi'r cleient yn defnyddio'r feddyginiaeth er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cymryd y ddos lawn, gan leihau'r risg o ddargyfeirio, a thrwy gyswllt dyddiol/aml gyda gweithiwr iechyd proffesiynol, sy'n cadw mwy o bobl yn y gwasanaeth. Fferyllfeydd sy'n cyflenwi therapi amnewidiol trwy'r geg, ac yn enwedig y rhai sy'n darparu goruchwyliaeth, sydd yn dod i gysylltiad amlaf â phobl sy'n derbyn triniaeth am fod yn gaeth i opioidau, ac y mae hyn yn rhoi cyfle i wella iechyd ehangach y defnyddiwr gwasanaeth

Yn 2020/21, comisiynwyd 131 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth, gan gynyddu i 134 yn 2021/22.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

### 5.1.14 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae rhaglenni cyfnewid nodwyddau yn rhoi i bobl sy'n chwistrellu cyffuriau gyfarpar chwistrellu glân a di-haint, priodol i'r cyffuriau maent yn ddefnyddio, ac yn derbyn hen gyfarpar i'w waredu'n ddiogel. Mae hwn yn wasanaeth pwysig i leihau niwed, yn golygu bod llai yn rhannu cyfarpar chwistrellu, sy'n gysylltiedig â lledaenu feirws

diffyg imiwnedd dynol a hepatitis, yn ogystal â lleihau'r risg o anafiadau chwistrellu trwy ddefnyddio cyfarpar sy'n hen neu'n anaddas. Mae'r risgiau hyn yn bresennol ar draws pob grŵp o bobl sy'n chwistrellu cyffuriau, gan gynnwys opioidau, symbylyddion a chyffuriau gwella perfformiad a delwedd megis steroidau anabolig androgenig.

Yn 2020/21, comisiynwyd 78 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth, gan gynyddu i 82 yn 2021/22.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal, a chynhelir mwy o ddadansoddiad yn y penodau am yr ardaloedd.

### 5.1.15 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Mae'r rhan fwyaf o fferyllfeydd yn cadw stoc fechan o feddyginiaethau gofal diwedd oes, a'r fferyllfa leol yw'r lle gorau i gael presgripsiwn ar gyfer y rhain. Fodd bynnag, pan fydd angen mwy ohonynt neu feddyginiaethau nas defnyddir mor aml, neu fod stociau'r fferyllfa leol yn brin, sefydlwyd unarddeg o ganolfannau meddyginiaethau gofal diwedd oes mewn fferyllfeydd ar hyd gogledd Cymru. Mae'r fferyllfeydd hyn ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, gyda llawer hefyd ar agor ar y Sul a chyda'r nos. I bob preswylydd, bron, bydd un neu fwy o'r canolfannau hyn o fewn taith 30 munud mewn car o'u cartrefi, gan allu cyrchu meddyginiaethau allweddol yn sydyn.

Yn 2020/21, comisiynwyd 11 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth, gan sicrhau bod 95% o boblogaeth Gogledd Cymru o fewn taith 30 munud mewn car o fferyllfa sy'n rhoi'r gwasanaeth. Mae 11 fferyllfa wedi'u comisiynu i'w ddarparu yn 2021/22.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o allu gan y contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

### 5.1.16 Gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol

I ategu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin, mae'r gwasanaeth gwell hwn yn caniatáu fferyllwyr sy'n rhagnodi yn annibynnol i reoli amrywiaeth o gyflyrau aciwt, er enghraifft, anhwylderau resbiradol, gan gynnwys clefyd ysgyfeiniol rhwystrol cronig a gwaethygiad asthma, amheuaeth o heintiadau'r llwybr anadlu uchaf, dolur gwddf, a sinusitis.

Yn 2020/21, comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth, ac mae 12 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

Mae ail wasanaeth rhagnodwyr annibynnol yn canoli ar atal cenhedlu ac yn galluogi cleifion i ymweld â fferyllfa a chael cyngor a thriniaeth effeithiol am atal cenhedlu, wedi'i ddarparu gan fferyllydd sy'n rhagnodydd annibynnol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn galluogi cleifion i gael gwybodaeth am ba mor gyffredin yw heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol, y risgiau sy'n gysylltiedig â heintiadau o'r fath, a sut i amddiffyn eu hunain rhagddynt.

Yn 2020/21, comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth, ac mae dwy wedi’u comisiynu yn 2021/22.

Mae cyflymder cyflwyno’r gwasanaethau hyn yn dibynnu ar nifer y fferyllwyr sy’n cwblhau’r hyfforddiant angenrheidiol.

### 5.1.17 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Mae gan bobl sy’n rhoi pigiadau iddynt eu hunain yn eu cartrefi, megis pobl â diabetes neu arthritis rhiwmatoid, wastraff miniog y mae’n rhaid ei waredu’n ddiogel. Yn hanesyddol, arferid dychwelyd y rhain i glinigau cleifion allanol a chlinigau eraill, ond yr oedd hyn yn aml yn anghyfleus i gleifion, ac yn golygu eu bod yn storio nifer o focsys o nodwyddau ac offer miniog yn eu cartrefi rhwng ymweliadau â’r ysbyty, sy’n risg iddynt hwy a’u teuluoedd. Hefyd, gallai trin nodwyddau yn y clinigau fod yn broblem, a rhaid i gleifion gofio dod â’u bocs nodwyddau llawn gyda hwy, yn ogystal â chael bocs nodwyddau newydd, naill ai trwy’r clinig neu gan eu meddyg teulu, pan fydd yr hen un yn llawn.

I ymateb i hyn, comisiynodd y bwrdd iechyd wasanaeth nodwyddau newydd i gleifion o fferyllfeydd. I ddechrau, roedd hyn yn caniatáu i fferyllfeydd gyflenwi biniau nodwyddau un litr gyda chaeadau melyn, a chymryd biniau llawn yn ôl gan bobl gyda gwastraff miniog heb fod yn cytotocsig. Mewn ymateb i broblemau a gafodd cleifion wrth geisio cael biniau nodwyddau o’r maint priodol, ac i gynnwys cefnogaeth i bobl sy’n chwistrellu meddyginiaethau cytotocsig, o Ebrill 2019 ymlaen, ymestynnwyd y gwasanaeth hwn i ganiatáu i fferyllfeydd ddosbarthu a derbyn biniau gyda chaeadau piws a melyn mewn amrywiaeth o feintiau, hyd at bum litr.

Yn 2020/21, comisiynwyd 144 o fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth nodwyddau, gan roi mynediad cyfleus at y gwasanaeth amddiffyn iechyd pwysig hwn. Mae hyn wedi cynyddu i 145 yn 2021/22.

### 5.1.18 Gwasanaeth gwell i gefnogi cartrefi gofal a gwneud y mwyaf o feddyginiaethau

Mewn ymateb i wahanol bolisïau cenedlaethol sy’n hyrwyddo’r arferion gorau a rhai pryderon a godwyd ynghylch lefel y gofal a thrin meddyginiaethau mewn cartrefi gofal, comisiynwyd gwell gwasanaeth fferyllfa i gefnogi cartrefi gofal yn 2017. Mae tair lefel o’r gwasanaeth:

- Mae Lefel 1 yn golygu bod y fferyllfa’n gweithio gydag un neu fwy o gartrefi gofal i asesu eu harferion cyfredol o ran archebu, storio, gweinyddu a gwaredu meddyginiaethau, a nodi meysydd lle gellid gwella. Wedi’r asesiad cychwynnol, bydd y fferyllfa wedyn yn cefnogi’r cartref gofal i ddatblygu prosesau a gweithdrefnau i fod mor ddiogel ac effeithlon ag sydd modd, gan leihau gwastraff a’r risg o niwed.
- Mae Lefel 2 yn golygu bod y fferyllydd cymunedol yn ymweld â’r cartref gofal ac yn cynnal adolygiad o Ddangosyddion Diogelwch Meddyginiaethau Deilliannau Cleifion a chysoni meddyginiaethau. Bydd yr adolygiad yn adnabod rhagnodi sy’n gysylltiedig â risg uwch i’r claf ac y gwyddys sy’n

digwydd yn aml mewn cartrefi gofal. Unwaith i hyn gael ei nodi, byddai cleifion sydd â phresgripsiynau risg uchel yn cael eu hadolygu gan y fferyllydd, a lle bo hynny'n briodol, byddid yn dod i gysylltiad â meddyg teulu'r claf i ofyn am adolygiad o'r claf a/neu newid yn y feddyginiaeth.

- Mae Lefel 3 yn golygu adolygiad llawn o feddyginiaethau, gan y fferyllydd cymunedol ar y cyd â meddyg teulu'r claf. Fodd bynnag, nid yw'r bwrdd iechyd wedi comisiynu hynny ar hyn o bryd.

Adeg ysgrifennu hyn, mae'r gwasanaeth wedi ei atal oherwydd y pandemig Covid.

### 5.1.19 Prawf a thriniaeth am ddolur gwddf

Nod cyffredinol y gwasanaeth hwn yw gofalu y gall cleifion gael asesiad a chyngor priodol i reoli dolur gwddf a, lle bo hynny'n briodol, cael gwrthfiotigau neu driniaethau addas eraill ar draul y GIG i drin eu cyflwr. Mae hyn yn rhoi lleoliad arall lle gall cleifion fynd am gyngor a thriniaeth, yn hytrach na cheisio triniaeth trwy bresgripsiwn gan eu meddyg teulu neu ddarparwr tu allan i oriau, canolfan galw heibio neu adran frys yr ysbyty. Wedi ymgynghoriad ac asesiad gan fferyllydd, gall meddyginiaeth gael ei roi gan ddefnyddio'r fformiwlari cenedlaethol am anhwylderau cyffredin. Hefyd, i gleifion sydd angen gwrthfiotigau, gall y rhain gael eu cyflenwi yn unol â'r canllaw cenedlaethol ar gyfer rhagnodi gwrthfiotigau.

Adeg ysgrifennu hyn, mae'r gwasanaeth wedi ei atal oherwydd y pandemig Covid, er bod rhai fferyllfeydd yn cynnal cynllun peilot.

### 5.1.20 Gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan ambell bractis meddyg teulu

Bydd meddygfeydd yn cyflwyno'r gwasanaeth dosbarthu yn ystod eu horiau craidd, sef 8.00 tan 18.30 o ddydd Llun tan ddydd Gwener ac eithrio am wyliau cyhoeddus a gwyliau banc. Gall y gwasanaeth gael ei roi hefyd yn ystod unrhyw oriau agor estynedig a ddarperir gan y practis. O'r 103 practis yn ardal y bwrdd iechyd, mae 37 yn dosbarthu i'w cleifion cymwys o 46 eiddo.

Fel arfer, pan fo claf angen meddyginiaeth, bydd y meddyg teulu yn rhoi presgripsiwn, sydd wedyn yn cael ei ddosbarthu gan fferyllfa neu gontractwr sy'n dosbarthu teclynnau.
Fodd bynnag, dan rai amgylchiadau, gall y practis roi'r feddyginiaeth ar eiddo'r practis. Mae'r rheoliadau ynghylch darparu'r gwasanaeth hwn yn gymhleth, ond i grynhoi, gall meddyg teulu roi meddyginiaeth i glaf lle:

- mae'r claf yn byw mewn ardal a bennwyd fel "ardal reoledig", h.y., ardal wledig ei natur;
- mae'r claf yn byw dros 1.6km (a fesurir mewn llinell syth) o fferyllfa;
- y cafodd y practis ganiatâd i ddosbarthu i'r ardal lle mae'r claf yn byw; a
- bod gan y practis "ganiatâd eiddo" i'r adeilad lle gwneir y dosbarthu.

O fis Mai 2021 ymlaen, dosbarthwyd 92,510 presgripsiwn gan feddygfeydd i'w cleifion cofrestredig (39.4% o gyfanswm maint y rhestr ar gyfer pob practis). Yr oedd

canran y cleifion y dosbarthwyd iddynt ar lefel y practis yn amrywio rhwng 6.6 a 95.2% o gleifion cofrestredig.

### 5.1.21 Mynediad at wasanaethau fferyllol ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc

Mae gan y bwrdd iechyd ddyletswydd i sicrhau y gall trigolion eu hardal gyrchu gwasanaethau fferyllol bob dydd. Nid oes rheidrwydd ar fferyllwyr na chontractwyr dosbarthu teclynnau i agor ar wyliau cyhoeddus na gwyliau banc, nac ar Sul y Pasg, er bod rhai yn dewis gwneud. Cyn y dyddiau hyn, bydd y bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd gadarnhau a fyddant ar agor a phryd. Mae'r wybodaeth wedyn yn cael ei gasglu ynghyd ac os oes unrhyw fylchau, caiff fferyllfeydd eu comisiynu i agor open.

## 5.2 Darpariaeth gyfredol y tu allan i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

### 5.2.1 Mynediad at wasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyfatebol contractwyr sy'n dosbarthu teclynnau

Gall cleifion ddewis lle maent yn cael gwasanaethau fferyllol; gall hyn fod yn agos at bractis eu meddyg teulu, eu cartref, eu man gwaith neu lle maent yn mynd i siopa, am resymau hamdden neu eraill. O'r herwydd, nid yw'r holl bresgripsiynau a ysgrifennir i drigolion ardal y bwrdd iechyd yn cael eu dosbarthu yn yr un ardal, er, fel y nodwyd yn yr ardal flaenorol, mae hyn yn wir am fwyafrif helaeth yr eitemau. Yn 2019/20, cafodd 1.6% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddyg teulu eu dosbarthu y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, yn bennaf yn Lloegr:

- Dosbarthwyd 132,141 eitem gan fferyllfa,
- Dosbarthwyd 79,748 gan gontractwr dosbarthu teclynnau,
- Dosbarthwyd 13,176 gan eiddo gwerthu o bell (a adwaenir hefyd fel fferyllfa rhyngrwyd), a
- Dosbarthwyd 39 gan feddyg.

Yn 2020/21, dosbarthwyd ychydig llai o bresgripsiynau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd (1.3%), yn bennaf yn Lloegr.

- Dosbarthwyd 144,099 o eitemau gan 1,281 fferyllfa,
- Dosbarthwyd 68,650 gan 51 contractwyr dosbarthu teclynnau
- 13,040 gan 15 eiddo gwerthu o bell a
- Dosbarthwyd 477 gan saith meddygfa

Nododd y bwrdd iechyd fod yr ardal i'r dwyrain o ardal De Wrecsam i'r de o Bronington nad yw o fewn pellter teithio 20 munud mewn car o fferyllfa yn yr ardal o fewn taith 10 munud o fferyllfa yn Lloegr.

### 5.2.2 Mynediad at wasanaethau uwch

Nid oes gwybodaeth ar gael am y math o wasanaethau uwch a ddarperir gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w drigolion. Wrth hawlio am wasanaethau uwch, y cyfan mae contractwyr yn wneud yw hawlio am y cyfanswm a

ddarperir ar gyfer pob gwasanaeth. Yr eithriad i hyn yw'r gwasanaeth addasu teclynnau stoma, lle gwneir y taliad ar sail y wybodaeth ar y presgripsiwn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r gwasanaeth hwn, dim ond cyfanswm nifer y teclynnau perthnasol sy'n cael ei nodi at ddibenion talu.

Gellir rhagdybio, fodd bynnag, y bydd trigolion o ardal y bwrdd iechyd yn cyrchu'r gwasanaethau gan gontractwyr o'r tu allan i'r ardal.

### 5.2.3 Mynediad at well gwasanaethau

Fel gyda gwasanaethau uwch, nid oes gwybodaeth ar gael am ddarparu gwell gwasanaethau gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w trigolion. Gellir rhagdybio, fodd bynnag, y bydd trigolion o ardal y bwrdd iechyd yn cyrchu'r gwasanaethau gan gontractwyr o'r tu allan i'r ardal.

### 5.2.4 Gwasanaeth a ddarperir gan ambell bractis meddyg teulu

Bydd rhai trigolion o ardal y bwrdd iechyd yn dewis cofrestru gyda phractis meddyg teulu o'r tu allan i'r ardal ac yn cael y gwasanaeth dosbarthu a gynigir gan eu practis.

## 5.3 Dewis o ran mynd at wasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 5.1 a 5.2, mae trigolion ardal y bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn dewis i raddau helaeth lle i fynd at wasanaethau fferyllol. Yn ardal y bwrdd iechyd mae ganddynt ddewis o 152 fferyllfa, wedi eu rhedeg gan 42 o wahanol gontractwyr. Y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, dewisodd trigolion gyrchu 151 o fferyllfeydd eraill mewn mannau eraill yng Nghymru yn 2019/20, er nad oes llawer o'r rhain yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Yn 2020/21, dewisodd presylwyr gael mynediad at 193 fferyllfa yn rhywle arall yng Nghymru.

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn dylanwadu ar eu dewis o fferyllfa, dyma'r pedwar ymateb mwyaf cyffredin yn yr holiadur i gleifion a'r cyhoedd:

- Agos at adref,
- Agos at bractis y meddyg teulu,
- Y lleoliad yn hawdd ei gyrraedd, ac
- Ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno.

## 6 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae'r bwrdd iechyd yn tybio fod gwasanaethau canlynol y GIG yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol yn eu hardal:

- Fferyllfeydd neu adrannau ysbytai – lleihau'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol gan fod meddyginiaeth sydd ei angen gan gleifion mewnol yn cael ei roi gan wasanaeth fferylliaeth yr ysbyty, ond ei gynyddu hefyd trwy roi presgripsiynau sy'n cael eu dosbarthu fel rhan o wasanaethau fferyllol.
- Gweinyddu eitemau yn bersonol gan feddygon teulu – tebyg i fferyllfeydd ysbytai, mae hyn hefyd yn lleihau'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol. Mae eitemau gan feddygon teulu a gweithwyr clinigol yn y practis, ac yn cael eu gweinyddu'n bersonol ganddynt, fel nad oes raid i gleifion fynd â phresgripsiwn am frechlyn, er enghraifft, i fferyllfa a gorfod dychwelyd wedyn i'r practis gyda'r brechlyn iddo gael ei roi.
- Gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau – bydd a fydd claf yn cael cwrs llawn neu rannol o driniaeth ar ôl cael ei weld gan y gwasanaeth y tu allan i oriau neu beidio yn dibynnu ar natur ei g/chyflwr. Bydd y gwasanaeth hwn felly yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, yn benodol gwasanaeth hanfodol dosbarthu.
- Unedau man anafiadau - gallant leihau'r angen am gefnogaeth i wasanaeth hunanofal hanfodol.
- Gwasanaeth fferyllfa HMP Berwyn - lleihau'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol oherwydd bod presgripsiynau a ysgrifennir yn HMP Berwyn yn cael eu rhoi allan gan y fferyllfa fewnol.
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau – cynyddu'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol oherwydd bod presgripsiynau a ysgrifennir dan y gwasanaeth yn cael eu rhoi gan fferyllfeydd.
- Helpa fi i Stopio - bydd y gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu a ddarperir mewn mannau ar wahân i fferyllfeydd yn lleihau'r angen am y gwasanaethau gwell rhoi'r gorau i smygu.
- Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu dan eu contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – bydd rhai gwasanaethau a ddarperir gan y meddygfeydd yn lleihau'r angen am ddarparu gwasanaethau fferyllol, yn benodol y gwasanaethau gwell
- Cynllun triniaeth amgen – cynyddu'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol oherwydd bod presgripsiynau a ysgrifennir dan y gwasanaeth hwn yn cael eu dosbarthu gan y gwasanaethau fferyllol.
- Hosbisau – cynyddu'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol oherwydd bod un hosbis yn rhoi presgripsiynau a ddosberthir dan y gwasanaethau fferyllol.
- Gwasanaethau cymunedol eraill – cynyddu'r galw am y gwasanaeth dosbarthu hanfodol oherwydd bod presgripsiynau yn cael eu rhoi a'u dosbarthu dan wasanaethau fferyllol.
- Clinigau iechyd rhywiol

## 6.1 Fferyllfeydd neu adrannau ysbytai

Mae gan yr ysbytai dosbarth cyffredinol isod yng ngogledd Cymru fferyllfeydd sy'n dosbarthu meddyginiaeth i gleifion mewnol:

- Ysbyty Gwynedd, Bangor,
- Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan,
- Ysbyty Wrecsam Maelor, ac
- Ysbyty Cyffredinol Llandudno.

Mae presgripsiynau a roddir i gleifion allanol yn cael eu dosbarthu naill ai gan yr ysbyty neu dan wasanaethau fferyllol gan fferyllfeydd.

Hefyd, mae 16 o ysbytai cymunedol ac y mae presgripsiynau a ysgrifennir ynddynt hwy yn cael eu dosbarthu dan wasanaethau fferyllol gan fferyllfeydd.

Mae'r ysbytai felly yn gostwng (trwy ddosbarthu meddyginiaethau i gleifion mewnol) ac yn cynyddu (trwy roi presgripsiynau a ddosberthir gan fferyllfeydd) y galw am wasanaethau fferyllol.

## 6.2 Meddygon teulu yn gweinyddu eitemau yn bersonol

Dan eu contract gwasanaethau meddygol sylfaenol gyda'r bwrdd iechyd, fe fydd adegau pan fydd meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall mewn practis yn bersonol yn gweinyddu eitem i glaf.

Yn gyffredinol, pan fo claf angen meddyginiaeth neu declyn, bydd y meddyg teulu yn rhoi presgripsiwn iddo a roddir gan ei ddewis fferyllfa neu gontractwr sy'n dosbarthu teclynnau. Weithiau, fodd bynnag, bydd y meddyg teulu neu nyrs y practis yn cyflenwi'r eitem yn erbyn presgripsiwn a gelwir hyn yn weinyddu personol, gan y bydd yr eitem a gyflenwir wedyn yn cael ei roi i'r claf gan y meddyg teulu neu'r nyrs. Mae hyn yn wahanol i ddosbarthu presgripsiynau ac y mae'n gymwys yn unig i rai eitemau penodol, er enghraifft, brechlynnau, anaesthetigion chwistrelliadau, dyfeisiadau atal cenhedlu mewngroth a phwythau.

Ar gyfer yr eitemau hyn, bydd y practis yn cynhyrchu presgripsiwn; fodd bynnag, nid oes rhaid i'r claf fynd ag ef i'r fferyllfa, ei gael wedi ei ddosbarthu ac yn dychwelyd i'r practis i'w gael. Yn hytrach, bydd y practis yn cadw'r presgripsiwn a'i gyflwyno i gael ei ad-dalu i Bartneriaeth Cyd-wasanaethau GIG Cymru ar ddiwedd y mis.

Nid oes modd mesur cyfanswm nifer yr eitemau a weinyddwyd yn bersonol gan bob practis meddyg teulu yng Nghymru oherwydd bod y ffigyrau a gyhoeddwyd yn cynnwys eitemau sydd naill ai wedi eu gweinyddu'n bersonol neu eu dosbarthu gan bractis sy'n dosbarthu. Fodd bynnag, fel isafswm yn 2019/20 cafodd 178,682 eitem eu gweinyddu'n bersonol gan bractis nad ydynt hefyd yn dosbarthu.

## 6.3 Gwasanaeth tu allan i oriau meddyg teulu

Mae gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau yng ngogledd Cymru yn darparu gofal iechyd i broblemau meddygol brys y tu allan i oriau arferol y feddygfa (h.y., rhwng 18.30 ac 08.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a 18.30 o ddydd Gwener i 08.00 ar ddydd Llun, ac ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc). Mae galwadau yn cael eu cymryd a'u cofnodi, a bydd nyrs triage yn ffonio'r claf yn ôl ac yn ei asesu. Os bydd angen, gall drefnu i weithiwr clinigol alw neu weld y claf, neu ymweld ag ef.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ganolfannau yn:

- Ysbyty Cymunedol Glannau Dyfrdwy,
- Ysbyty Wrecsam Maelor,
- Ysbyty Glan Clwyd,
- Ysbyty Gwynedd, ac
- Ysbyty Alltwen.

Rhagnodwyd 22,814 o eitemau gan y gwasanaeth yn 2019/2020, gyda 97.7% yn cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd yng ngogledd Cymru, 2.2% gan gontractwyr yn Lloegr, a'r 0.1% oedd weddill o fannau eraill yng Nghymru. Rhagnodwyd ychydig mwy o eitemau yn 2020/21 (26,373) gydag ychydig mwy yn cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru (98.9%), ac ychydig llai yn Lloegr (1%) gyda'r gweddill yn cael eu dosbarthu yn rhywle arall yng Nghymru.

## 6.4 Unedau mân anafiadau

Mae unedau man anafiadau yn cael eu harwain gan nyrsys ac yn trin anafiadau sydd heb fod yn gritigol nac yn peryglu bywyd. Maent fel arfer yn cynnig amseroedd aros byrrach o lawer o gymharu â gwasanaethau eraill sy'n gorfod rhoi blaenoriaeth i gleifion ag anafiadau difrifol sydd angen gofal brys.

Ymysg anafiadau mae:

- Mân anafiadau i oedolion
- Mân anafiadau i blant
- Brathiadau gan bobl/anifeiliaid
- Mân losgiadau
- Mân anafiadau i'r pen/toriadau i groen y pen
- Corffynnau estron yn y glust/trwyn
- Anafiadau i aelodau
- Mân anafiadau i'r llygad, a
- Phigo gan bryfed.

Mae naw uned mân anafiadau ledled y gogledd:

- Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi
- Ysbyty Dolgellau ac Abermaw
- Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli

- Ysbyty Alltwen, Tremadog
- Ysbyty Tywyn
- Ysbyty Cyffredinol Llandudno
- Ysbyty Cymunedol Dinbych
- Ysbyty Cymunedol Treffynnon, ac
- Ysbyty Cymunedol yr Wyddgrug.

Nid yw'r unedau mân anafiadau yn rhoi presgripsiynau, ac fe allant leihau'r angen am gefnogaeth i'r gwasanaeth hanfodol hunanofal.

## 6.5 HMP Berwyn

Mae'r fferyllfa fewnol yn dosbarthu'r meddyginiaethau sydd eu hangen gan y rhai sydd yn y carchar. Mae'r gwasanaeth hwn felly yn lleihau'r angen am wasanaethau fferyllol gan ei fod yn golygu nad oes presgripsiynau yn cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd.

Gall presgripsiynau gael eu rhoi i'r sawl sy'n gadael y carchar ar derfyn eu dedfryd, a'r rheiny wedyn yn cael eu rhoi fan fferyllfa. Yn 2019/20 a 2020/21 dosbarthwyd tair eitem dan wasanaethau fferyllol.

## 6.6 Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau

Mae'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn darparu cefnogaeth gyfrinachol, broffesiynol a hygyrch nad yw'n beirniadu, gyda'r nod o leihau'r niwed a achosir gan gyffuriau ac alcohol i unigolion, teuluoedd a'r gymuned leol. Mae chwe chlinig cymunedol yn gweithredu ar hyd y gogledd, un ym mhob ardal awdurdod lleol.

Yn 2019/20, rhagnodwyd 13,424 o eitemau gan y gwasanaeth; dosbarthwyd 99.5% o'r rhain gan 104 fferyllfa yng ngogledd Cymru, gyda'r 0.5% oedd weddill yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr yn Lloegr. Rhagnodwyd mwy o eitemau yn 2020/21 (16,486), fodd bynnag roedd y patrwm dosbarthu yn debyg iawn.


## 6.7 Helpa fi i Stopio

Helpa fi i Stopio yw'r brand ar gyfer gwasanaethau'r GIG am stopio smygu yng Nghymru. Mae'n darparu'r isod:

- Cefnogaeth gyfrinachol heb feirniadaeth gan arbenigwr cyfeillgar mewn rhoi'r gorau i smygu
- Cefnogaeth naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn
- Cefnogaeth naill ai'n unigol neu gyfarfod gyda smygwyr eraill
- Sesiynau wythnosol wedi eu teilwrio i ateb anghenion yr unigolyn
- Monitro cynnydd
- Mynediad at feddyginiaeth stopio smygu am ddim trwy 'slip binc' a roddir gan fferyllfeydd.

Mae gwasanaethau yn cael eu darparu mewn nifer o fannau ledled y gogledd, gan gynnwys practis meddygon teulu, ysbytai cymunedol, ysbytai dosbarth cyffredinol a mannau eraill megis llyfrgelloedd a chanolfannau teulu, yn ychwanegol at fferyllfeydd. Mae'r map isod yn dangos lleoliad gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu ar Medi 2021.

**Ffigwr 35 – lleoliad gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, gogledd Cymru 2021[41]**




Data'r map ©2021 Google

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

## 6.8 Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu dan gontract eu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Mae practis meddygon teulu yng ngogledd Cymru yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n lleihau'r angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu cyngor a rhoi presgripsiynau am atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thriniaeth am anhwylderau cyffredin
- Gwaredu nodwyddau, pecynnau jest rhag ofn, a phecynnau achub.

[41] Helpa fi i Stopio

## 6.9 Cynllun triniaeth amgen

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion a symudwyd o bractis eu meddyg teulu. Mae'n cael ei roi mewn pum lleoliad:

- Ynys Môn
- Canol Wrecsam
- Gogledd Sir Ddinbych – dau leoliad
- Gogledd-Ddwyrain Sir y Fflint

Yn 2019/20, cafodd 395 eitem eu rhagnodi gan y gwasanaeth, a'r cyfan yn cael eu dosbarthu gan 17 fferyllfa yn y gogledd, fel a ganlyn:

- 92.9% gan fferyllfeydd ym Môn,
- 4.3% yng Nghanol Wrecsam,
- 2.5% yn Arfon, a
- 0.3% yng Ngorllewin Conwy.

Rhagnodwyd mwy o eitemau gan y gwasanaeth yn 2020/21 (836), gyda phob un wedi'u dosbarthu gan 24 fferyllfa yng Ngogledd Cymru fel a ganlyn:

- 94.6% gan fferyllfeydd ar Ynys Môn
- 20% yn Arfon
- 1.3% yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 0.8% yn Ne Sir y Fflint, a
- 0.6% yr un yn Nwyrain Conwy a Gogledd Orllewin Sir y Fflint.

## 6.10 Hosbisau

Mae pedair hosbis yng ngogledd Cymru, ac un ohonynt yn rhoi presgripsiynau sydd wedyn yn cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd.

Yn 2019/20, rhagnodwyd 415 eitem gan y gwasanaeth a'u dosbarthu fel a ganlyn:

- 51.6% gan fferyllfeydd yng Nghanol Wrecsam
- 21.4% yn Arfon
- 12.3% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 5.5% yn Ne Sir y Fflint
- 1.9% yr un yn Nwyfor a Gogledd a Gorllewin Wrecsam,
- 1.4% yr un yn Ngogledd-Ddwyrain Sir y Fflint, De Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a
- 1.0% yng Ngorllewin Conwy.

Rhagnodwyd mwy o eitemau yn 2020/21 (560) ac fe'u dosbarthwyd fel a ganlyn:

- 65.3% gan fferyllfeydd yn Arfon,
- 25.1% yng Nghanol Wrecsam
- 4.2% yn Ne Sir y Fflint,

- 2.6% yn Ne Wrecsam
- 1.4% yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 0.9% yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam, a
- 0.5% yng Ngogledd Orllewin Sir y Fflint

### 6.11 Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned

Mae amrywiaeth o wasanaethau cymunedol eraill sy'n cyhoeddi presgripsiynau sydd wedyn yn cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau deintyddol, meddygon teulu gyda diddordebau arbennig, gwasanaeth i Sipsiwn a Theithwyr, nyrsys cymunedol a deintyddiaeth gymunedol. Yn 2019/20 fe wnaethant ragnodi 1,177 eitem oedd yn cael eu dosbarthu yn bennaf gan fferyllfeydd yng ngogledd Cymru. Rhagnodwyd nifer tebyg o eitemau yn 2020/21.

### 6.12 Clinigau iechyd rhywiol

Mae clinigau iechyd rhywiol yn cael eu rhedeg o amrywiaeth o leoliadau ysbyty a chymunedol ledled y gogledd ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyfrinachol am ddim gan gynnwys:

- profion am heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol,
- profion am feirws diffyg imiwnedd dynol,
- atal cenhedlu gan gynnwys atal cenhedlu mewn argyfwng,
- condomau am ddim,
- profion beichiogrwydd,
- sgrinio am feirysau a gludir mewn gwaed (hepatitis B ac C),
- brechu rhag hepatitis B ac HPV,
- proffylacsis cyn ac wedi bod yn agored i risgiau, a hyrwyddo iechyd rhywiol.

Maent yn lleihau'r galw am y gwasanaeth gwell atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng a ddarperir gan y fferyllfeydd.

## 7 Anghenion iechyd y gall gwasanaethau fferyllol eu cwrdd

Mae pob ymweliad sy'n ymwneud ag iechyd â fferyllfa yn gyfle gwerthfawr i gefnogi newid ymddygiad trwy beri bod pob un o'r cysylltiadau hyn yn cyfrif. Gallai gwneud dewisiadau iach megis rhoi'r gorau i smygu, gwella'r diet a maethiad, cynyddu ymarfer corff, colli pwysau ac yfed llai o alcohol wneud cyfraniad arwyddocaol i leihau'r risg o glefydau, gwella deilliannau iechyd i bobl â chyflyrau tymor-hir, gostwng marwolaethau cynamserol a gwella lles meddyliol. Mae fferyllfeydd mewn sefyllfa ddelfrydol i annog a chefnogi pobl i wneud y dewisiadau iach hyn fel rhan o ddarparu gwasanaethau fferyllol.

### 7.1 Yr angen am gyffuriau a theclynnau

Ar ryw adeg, bydd angen i bawb angen cael presgripsiwn, os ydynt yn un o'r grwpiau a nodwyd yn adran pedwar neu beidio. Gall hyn fod ar gyfer un cwrs o wrthfiotigau neu am feddyginiaeth y bydd yn rhaid ei gymryd, neu declyn y bydd angen ei ddefnyddio, am weddill eu bywydau er mwyn rheoli cyflwr tymor-hir. Yr unig ffordd i ateb yr angen iechyd hwn mewn gofal cychwynnol yw trwy ddarparu gwasanaethau fferyllol, boed hynny gan fferyllfeydd, contractwyr dosbarthau teclynnau neu feddygon sy'n dosbarthu.

Ochr yn ochr â hyn mae casglu a gwaredu cyffuriau a ddosbarthwyd sy'n ddiangen neu wedi dyddio, a gwneud hynny'n ddiogel. Mae dyletswydd ar y bwrdd iechyd a'r fferyllfeydd i wneud yn siŵr y gall pobl sy'n byw gartref neu mewn cartref gofal preswyl (h.y., sefydliad sy'n bodoli yn gyfan gwbl neu yn rhannol i ddarparu llety preswyl ynghyd â llety a gofal personol, ond nid gofal nyrsio) ddychwelyd cyffuriau a ddosbarthwyd sy'n ddiangen neu wedi dyddio er mwyn iddynt gael eu gwaredu'n ddiogel.

Mae mynediad at feddyginiaethau gofal lliniarol arbenigol yn hanfodol er mwyn cefnogi gofal diwedd oes yng nghartref unigolyn. Fodd bynnag, oherwydd natur arbenigol y meddyginiaethau, efallai nad yw fferyllfa yn cadw'r rhain mewn stoc. Gall gwasanaeth gwell sicrhau bod fferyllfeydd sy'n cymryd rhan yn stocio ystod y cytunir arni o feddyginiaethau arbenigol ac ymrwymo i wneud yn siwr y gall defnyddwyr fynd at y meddyginiaethau hynny yn fuan yn ystod oriau agor craidd ac ategol.

Bydd darparu therapi amnewid nicotin i bobl sy'n derbyn cefnogaeth ymddygiadol trwy wasanaeth rhoi'r gorau i smygu yn helpu i wella mynediad at y therapi hwn i'r sawl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu, a chyfrannu hefyd at wella cyfraddau llwyddiant.

Fe all achlysur godi pan fo pobl yn dod i ben eu cyflenwad o feddyginiaethau rheolaidd ar benwythnosau neu ar ŵyl banc neu wyliau cyhoeddus pan fydd practis eu meddyg teulu ar gau a hwythau'n methu cael presgripsiwn am gyflenwad pellach. Dewis arall yn lle ffonio gwasanaeth tu allan i oriau y meddyg teulu yw cael fferyllfeydd i ddarparu cyflenwad brys o feddyginiaeth a ragnodir fel arfer i unigolyn dan y GIG, yn hytrach nac yn breifat dan Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012. Bydd gwasanaeth o'r fath felly yn lleihau'r galw ar wasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ac yn rhoi gwasanaeth mwy effeithiol i bobl.

I drin rhai cyflyrau, bydd angen i bobl hunan-chwistrellu, ac o'r herwydd bydd ganddynt nodwyddau y bydd angen eu gwaredu'n ddiogel. Bydd gwasanaeth gwell sydd â lle i bobl ddychwelyd bocsys nodwyddau i fferyllfa yn sicrhau gwaredu'n ddiogel fel hyn, ac yn lleihau'r risg o'u gwaredu trwy wasanaethau casglu gwastraff o'r cartref.

Nodwyd pryderon ynghylch trin meddyginiaethau mewn cartrefi gofal. Gall gwell gwasanaeth i gartrefi gofal gysylltu fferyllfeydd a chartrefi gofal er mwyn asesu eu gweithdrefnau o archebu, storio a gweinyddu meddyginiaethau, gyda'r bwriad o nodi meysydd lle mae angen gwella. Gall adolygu'r meddyginiaethau a gymerir gan drigolion cartrefi gofal hefyd arwain at welliannau mewn rhagnodi.

## 7.2 Defnyddio sylweddau

Gall darparu gwasanaeth defnyddio gwell dan oruchwyliaeth gan fferyllwyr:

- Helpu gweithwyr clinigol sy'n rhagnodi wrth ddarparu rhagnodi seiliedig yn y gymuned;
- Gofalu bod y claf yn cymryd y dosau cywir o feddyginiaeth yn ôl y presgripsiwn;
- Atal meddyginiaeth a ragnodwyd rhan cael ei gyfeirio i'r farchnad anghyfreithlon;
- Lleihau'r posibilrwydd o wenwyno damweiniol, plant yn enwedig; a
- Lleihau digwyddiadau o farwolaethau damweiniol trwy orddos.

Bydd gwell gwasanaeth cyfnewid nodwyddau yn helpu i leihau rhannu nodwyddau (a chyfarpar) a all arwain at drosglwyddo feirysau a gludir yn y gwaed a heintiau eraill (megis Feirws Diffyg Imiwnedd Dynol (HIV), hepatitis B ac C). Gallai hyn yn ei dro arwain at ostyngiad yn amlder feirysau a gludir yn y gwaed, a fydd felly o les i gymdeithas yn ehangach.

Hefyd, mae elfennau o ddarparu gwasanaethau hanfodol fydd o help i ymdrin â'r angen iechyd hwn:

- Mae gofyn i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwech o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus ym mhob blwyddyn galendr trwy hybu negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Y bwrdd iechyd sy'n dewis y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn a gallant gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Gallai ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus gynnwys codi ymwybyddiaeth o beryglon yfed mwy o alcohol na'r hyn a argymhellir, arddangos posteri a dosbarthu taflenni, cardiau crafu a deunyddiau perthnasol eraill
- Lle nad yw'r fferyllfa yn darparu gwasanaethau cyfnewid nodwyddau a defnyddio meddyginiaethau camddefnyddio sylweddau dan oruchwyliaeth, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at eraill sy'n darparu'r gwasanaethau.
- Cyfeirio pobl a all fod yn ddibynnol ar alcohol at ddarparwyr triniaeth alcohol arbenigol

- Defnyddio’r cyfle a gyflwynir gan adolygiadau defnydd o feddyginiaeth, e.e., ar gyfer meddyginiaethau gwrth-orbwysedd a meddyginiaethau i drin diabetes, i drafod risgiau yfed alcohol ac yn arbennig, yn ystod ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus neu mewn trafodaethau gyda chwsmeriaid sy’n gofyn am feddyginiaethau dros-y-cownter penodol, i godi ymwybyddiaeth o gamddefnyddio alcohol
- Rhoi cyngor ar fyw’n iach yn ystod ymgynghoriadau ar adolygiadau o ddefnydd meddyginiaethau.

## 7.3 Canser

Yn ychwanegol at ddosbarthu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o’r materion iechyd cyhoeddus sy’n ymwneud â gofal canser fel rhan o’r gwasanaethau hanfodol maent yn eu darparu:

- Gwaredu cyffuriau diangen, gan gynnwys cyffuriau rheoledig
- Mae gofyn i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwech o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus ym mhob blwyddyn galendr trwy hybu negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Y bwrdd iechyd sy’n dewis y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn a gallant gynnwys ymwybyddiaeth o ganser a/neu sgrinio.
- Rhoi cyngor priodol i bobl sy’n defnyddio’r fferyllfa ac sy’n ymddangos eu bod yn smygu neu’n ordew gyda’r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y bobl hynny o’r materion iechyd perthnasol i’w hamgylchiadau personol.
- Cyfeirio pobl sy’n defnyddio’r fferyllfa at ddarparwyr eraill gwasanaethau neu gefnogaeth.

Cefnogaeth i bobl sydd am roi’r gorau i smygu, boed hynny dan y gwasanaethau lefel 2 neu 3, a fydd hefyd yn helpu i leihau digwyddiadau o rai mathau o ganser.

## 7.4 Cyflyrau tymor-hir

Yn ychwanegol at ddosbarthu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o’r materion iechyd cyhoeddus sy’n ymwneud â chyflyrau tymor hir fel rhan o’r gwasanaethau hanfodol maent yn eu darparu:

- Lle bo unigolyn yn cyflwyno presgripsiwn, a’i bod yn ymddangos fod ganddi/i diabetes, bod mewn perygl o glefyd y galon (yn enwedig pobl â phwysedd gwaed uchel), yn smygu neu yn ordew, mae gofyn i’r fferyllfa roi cyngor priodol gyda’r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y bobl hynny o’r materion iechyd perthnasol i’w hamgylchiadau personol.
- Mae gofyn i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwech o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus ym mhob blwyddyn galendr trwy hybu negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Y bwrdd iechyd sy’n dewis y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn a gallant gynnwys cyflyrau tymor hir.
- Cyfeirio pobl sy’n defnyddio’r fferyllfa at ddarparwyr eraill gwasanaethau neu gefnogaeth.
- Rhoi cyngor ar fyw’n iach yn ystod ymgynghoriadau ar adolygiadau o ddefnydd meddyginiaethau.

Ymysg gwasanaethau fydd yn helpu pobl i reoli eu cyflyrau tymor-hir mae darparu adolygiadau o ddefnydd meddyginiaethau, adolygiadau o ddefnydd teclynnau, addasu teclyn stoma ac adolygu meddyginiaethau adeg gadael ysbyty, a'r brechiad ffliw; dychwelyd a chyflenwi biniau nodwyddau a'r gwasanaethau gwell i roi meddyginiaethau brys. Bydd hyn yn gwneud y mwyaf o ansawdd eu bywydau.

Cefnogaeth i bobl sydd am roi'r gorau i smygu, boed hynny dan y gwasanaethau lefel 2 neu 3, a fydd hefyd yn helpu i leihau digwyddiadau o glefydau'r cylchrediad a chlefydau cardiofasgwlaidd.

Mae rheoliadau yn caniatáu i fferyllwyr ragnodi'n annibynnol ar gyfer unrhyw gyflwr o fewn eu cymhwysedd clinigol. Maent felly yn caniatáu i fferyllwyr helpu i ddarparu gofal brys a heb ei drefnu, fydd yn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau eraill. Mae gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol yn aml yn cynnwys anhwylderau respiradol (er enghraifft, clefyd rhwystrol ysgyfeiniol cronig a gwaethygiad asthma), heintiadau bacteriol a ffwngaidd y croen, ac amheuaeth o heintiadau'r llwybr wrinol.

## 7.5 Gordewdra

Bydd pedair elfen o'r gwasanaethau hanfodol yn ymdrin â'r angen iechyd hwn:

- Lle bo unigolyn yn cyflwyno presgripsiwn, a'i fod yn ordew, mae gofyn i'r fferyllfa roi cyngor priodol gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y person o'r materion iechyd perthnasol i'w amgylchiadau personol.
- Mae gofyn i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwech o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus ym mhob blwyddyn galendr trwy hybu negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Y bwrdd iechyd sy'n dewis y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn a gallant gynnwys gordewdra
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill gwasanaethau neu gefnogaeth.
- Rhoi cyngor ar fyw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ar adolygiadau o ddefnydd meddyginiaethau.

## 7.6 Iechyd rhywiol

Ochr yn ochr â'r gwasanaeth gwell o atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, mae elfennau o ddarparu gwasanaeth hanfodol fydd yn helpu i ymdrin â'r angen iechyd hwn:

- Mae gofyn i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwech o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus ym mhob blwyddyn galendr trwy hybu negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Y bwrdd iechyd sy'n dewis y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn a gallant gynnwys heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol ac HIV
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau sgrinio am heintiadau a drosglwyddir yn rhywiol
- Rhoi cyngor ar fyw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ar adolygiadau o ddefnydd meddyginiaethau.

Gallai rhagnodwyr annibynnol roi gwasanaeth atal cenhedlu llawn i ehangu mwy ar y gwasanaeth a ddarperir gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.

### 7.7 Beichiogrwydd yn yr arddegau

Bydd gwasanaeth gwell o atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng ynghyd ag elfennau o ddarparu gwasanaeth hanfodol yn helpu i ymdrin â'r angen iechyd hwn:

- Mae gofyn i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwech o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus ym mhob blwyddyn galendr trwy hybu negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Y bwrdd iechyd sy'n dewis y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn a gallant gynnwys beichiogrwydd yn yr arddegau
- Lle nad yw'r fferyllfa yn darparu gwasanaeth gwell o atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gellir cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at eraill sy'n darparu'r gwasanaeth.

### 7.8 Smygu

Yn ychwanegol at y gwasanaethau gwell i roi'r gorau i smygu, mae elfennau o ddarparu gwasanaeth hanfodol yn helpu i ymdrin â'r angen iechyd hwn:

- Lle bo unigolyn yn cyflwyno presgripsiwn, a'i bod yn ymddangos fod ganddi/i diabetes, bod mewn perygl o glefyd y galon (yn enwedig pobl â phwysedd gwaed uchel), yn smygu neu yn ordew, mae gofyn i'r fferyllfa roi cyngor priodol gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y person o'r materion iechyd perthnasol i'w amgylchiadau personol.
- Mae gofyn i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwech o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus ym mhob blwyddyn galendr trwy hybu negeseuon iechyd cyhoeddus i ddefnyddwyr. Y bwrdd iechyd sy'n dewis y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn a gallant gynnwys smygu
- Lle nad yw'r fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth gwell, signposting people using the fferyllfa to other providers of the gwasanaeth
- Routinely discussing stopping smoking when selling relevant over the counter meddyginiaethau
- Rhoi cyngor ar fyw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ar adolygiadau o ddefnydd meddyginiaethau.

### 7.9 Cefnogaeth i hunanofal

Mae cefnogaeth i hunanofal yn wasanaeth hanfodol ac yn wasanaeth gwell: gwasanaeth anhwylderau cyffredin yw'r enw ar hwn. Cynllun yw'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin lle'r anogir cleifion i ymgynghori â fferyllfa sy'n cymryd rhan, yn hytrach na'u meddyg teulu, am restr diffiniedig o anhwylderau cyffredin. Bydd y fferyllydd yn cyflenwi meddyginiaeth o fformiwlari cyffredin, rhoi cyngor neu gyfeirio'r claf at y meddyg teulu os bydd angen. Cyflenwir meddyginiaethau am ddim, sy'n gwneud i ffwrdd â'r rhwystr tâl, a all atal cleifion rhag gweld fferyllydd yn lle'u meddyg. Ymysg anhwylderau y mae'r gwasanaeth gwell yn ymdrin â hwy mae:

- Acne
- Briwiau yn y geg
- Clefyd crafu
- Clwyf y marchogion
- Colig
- Croen sych
- Diffyg treuliad ac adlif
- Dolur gwddf
- Dolur rhydd
- Ferwca
- Intertrigo/ darwden
- Llau pen
- Llid clytiau baban
- Llid yr amrant
- Llindag y fagina
- Llindag y geg
- Llygaid sych
- Llyngyr
- Poen cefn
- Rhwymedd
- Tarwden y traed
- Torri dannedd
- Twymyn y gwair

Mae modd comisiynu gwasanaethau gwell hefyd i ymdrin ag anhwylderau neu salwch cyffredin, gan leihau'r galw am apwyntiadau meddyg teulu, er enghraifft, gwasanaeth prawf am ddolur gwddf a'i drin.

Mae rheoliadau yn caniatáu i fferyllwyr ragnodi'n annibynnol ar gyfer unrhyw gyflwr o fewn eu cymhwysedd clinigol. Maent felly yn caniatáu i fferyllwyr helpu i ddarparu gofal brys a heb ei drefnu, fydd yn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau eraill. Mae gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol yn aml yn cynnwys anhwylderau respiradol (er enghraifft, clefyd rhwystrol ysgyfeiniol cronig a gwaethygiad asthma), heintiadau bacteriol a ffwngaidd y croen, ac amheuaeth o heintiadau'r llwybr wrinol.

## 7.10 Brechiadau

Mae fferyllfeydd wedi darparu brechiadau rhag y ffliw ers nifer o flynyddoedd, gan wella'r gwasanaeth a ddarperir gan feddygfeydd trwy gynyddu nifer y lleoliadau, a'r amseroedd a'r dyddiau pryd y gellir rhoi brechiadau. Gellir eu comisiynu i roi brechiadau eraill a fyddai, oherwydd bod eu horiau agor yn aml yn hwy, yn gwneud mynediad yn fwy hwylus i gleifion.

# 8 Ardal Môn

## 8.1 Ffeithiau allweddol

- Y boblogaeth leiaf o'r chwe awdurdod lleol, sef 70,043
- 26% o'r boblogaeth yn 65 neu'n hŷn
- 99.2% o'r boblogaeth yn wyn
- 18% o aelwydydd heb gar na fan (canran ail isaf)
- Cyfran isaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y 10% mwyaf difreintiedig
- Enillion wythnosol gros cyfartalog isaf
- Disgwyliadau einioes ail uchaf i wrywod a menywod, ond y disgwyliad einioes iach isaf i fenywod
- Cyfran Ewropeaidd Safonedig am oedran isaf fesul 100,000 o'r boblogaeth am bawb yng nghyswllt pob clefyd tyfiant niweidiol (ac eithrio am fathau o ganser y croen heb fod yn melanoma) am y cyfnod 2013 i 2017
- Lefel isaf o foddhad â bywyd ymysg oedolion o oedran gwaith (16 i 64 oed)
- Cyfradd uchaf o foddhad â bywyd ymysg pobl hŷn (65 oed a hŷn)
- Lefel uwch o wirfoddoli o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Cynyddodd cyfraddau beichiogrwydd ymysg yr arddegau rhwng 2014-16 a 2015-17
- Canran uchaf o yfwyr cymedrol
- Canran isaf o yfwyr peryglus
- Nododd Cynllun datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd 2011 – 2026[42] y bydd unedau tai ychwanegol yn cael eu codi yn:
    - Amlwch – 373 uned
    - Caergybi – 430 uned
    - Llangefni – 485 uned
- Mae ail adroddiad monitro blynyddol ar y cynllun datblygu lleol am y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 yn nodi bod nifer yr unedau gafodd eu cwblhau y flwyddyn yn is na'r gofyniad cyfartalog blynyddol o 479 uned. Mae'n debygol felly y codir y rhan fwyaf o'r tai hyn yn ystod oes yr asesiad anghenion fferyllol hwn.
- Datblygu safle parhaol newydd i Sipsiwn a Theithwyr ym Mhenhesgyn, Penmynydd (cais cynllunio heb ei gyflwyno fel ar 31 Mawrth 2020) a safleoedd dros dro yng Nghanol Môn a Chaergybi (ni nodwyd safle fel ar 31 Mawrth 2020).

## 8.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae 13 fferyllfa yn yr ardal yn cael eu rhedeg gan bum contractwr annibynnol. Mae un o'r fferyllfeydd yn dod dan y cynllun fferyllfeydd bychain hanfodol. O'r 10 practis meddyg teulu, mae saith yn dosbarthu o gyfanswm o 12 eiddo. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 22.2% i 84.1% o boblogaethau pob practis a gofrestrwyd.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y

[42] Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Môn a Gwynedd 2011 – 2026

diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 9 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o’r map isod, mae’r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, tra bod adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 10 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod llai o gydberthynas rhwng lleoliad y fferyllfeydd a meddygfeydd sydd yn dosbarthu a lefelau amddifadedd.

**Map 11 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 72.4% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, a phob practis dosbarthu yn dosbarthu neu yn gweinyddu'n bersonol 25.8% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosberthir a'r rhai a weinyddir yn bersonol, ar sail y lefel gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio mai 2% o'r eitemau a weinyddwyd yn bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Mae chwe ardal nad ydynt o fewn pellter gyrru 20 munud o fferyllfa neu adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu wedi ei dangos mewn cylch coch. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

Mae'r ardal yn y gogledd orllewin yn ardal o harddwch naturiol eithriadol Môn, a dengys Google maps nad oes pobl yn byw yno.

Dengys Google maps ambell i annedd gwasgaredig yn y cylch nesaf i lawr, ond gwledig yn bennaf yw'r ardal.

Dengys Google maps hefyd nad oes pobl yn byw yn y gornel dde-orllewinol.

**Map 12 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Pharmacy

Dispensing

Drivetime (mins)

5

10

15

20

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae dau yn agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Tri ar agor o ddydd Lun tan ddydd Gwener, ac am ran o ddydd Sadwrn,
- Saith ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, ac
- Un yn agor o ddydd Llun tan ddydd Sul yng Nghaergybi.

O ran yr amseroedd pan mae’r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae 11 yn agor am 09.00, ac un yn agor am 09.00 ar ddydd Llun a dydd Iau a 09.30 ar ddyddiau eraill yr wythnos,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.00 ac 18.00 gydag un fferyllfa yng Nghaergybi ar agor tan 19.00. Mae un fferyllfa yn cau am 13.00 ar ddydd Mercher ac un arall ar ddydd Iau.

Comisiynwyd pedair fferyllfa i aros ar agor am 30 munud yn ychwanegol yn ystod yr wythnos.

Mae 12 fferyllfa yn cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 12.30 a 14.00. Mae’r fferyllfa arall ar agor drwy’r dydd.

Ar Sadyrnau, mae’r 11 fferyllfa sy’n agor yn gwneud hynny am 09.00. Mae’r wyth fferyllfa sydd ar agor drwy’r dydd yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 12.30 a 14.00.

Mae fferyllfa yng Nghaergybi ar agor rhwng 10.00 a 16.00, gan gau am ginio ar y Sul.

Mae’r bwrdd iechyd yn gofyn i’r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a’r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai’n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i’r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o’r ymatebion hynny.

Mae 11 o’r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, a chanddynt ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae’r 13 ardal ymgynghori yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a’r fferyllydd eistedd gyda’i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi’n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd 12 fferyllfa fod y staff yn siarad Cymraeg, a chadarnhaodd un y siaredir Pwyleg hefyd.

Mae 12 o’r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o declyn, gyda’r drydedd ar ddeg yn defnyddio contractwr dosbarthu teclynnau ar gyfer gorchuddion clwyfau, teclynnau anymataledd a stoma.

Mae’r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddyg teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae pump yn darparu cludo am ddim ar gais, gydag un yn cyfyngu’r gwasanaeth i ardaloedd penodol,

- mae wyth yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion, yn bennaf y rhai sydd yn fregus, yn gaeth i'w cartrefi neu'n hunan-ynysu (rhagdybir fod y tair fferyllfa a ddywedodd nad ydynt yn darparu gwasanaeth cludo, naill ai am ddim neu am ffi, ond a roddodd wybodaeth am y sawl y darperir y gwasanaeth iddynt mewn gwirionedd yn darparu gwasanaeth cludo).

Ymysg awgrymiadau gan fferyllfeydd am wasanaethau cyfredol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd mae:

- fformiwlari rhagnodydd annibynnol
- byddai rhagnodi mewn salwch aciwt yn llesol i'r trigolion hynny na fedr fynd i bractis eu meddyg teulu a hefyd yn yr haf i'r rhai sydd yn yr ardal dros dro (a thrwy hynny ysgafnhau'r galw ar bractis y meddyg teulu)
- profi a thrin dolur gwddf – pum fferyllfa
- cefnogaeth i gartrefi gofal a gwneud y gorau o feddyginiaeth
- gwasanaeth rhagnodi annibynnol ar gyfer mân gyflyrau aciwt i leihau pwysau ar bractis y meddygon teulu.

Yr oedd un fferyllfa o'r farn fod gofyniad am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, sef rhagnodi annibynnol ar gyfer atal cenhedlu.

Cadarnhaodd 12 fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn ei hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu, a dywedodd un nad oes ganddynt ac na fedrent wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw. Serch hynny, y mae fferyllfa arall yn agos iawn sydd â digon o allu.

Mae gan ddwy fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu darpariaeth gwasanaeth:

- Mae gan un fferyllydd sydd ar hyn o bryd yn astudio'r modiwl mân salwch ac a fydd yn cychwyn ar y cwrs rhagnodi annibynnol ym mis Ionawr 2021.
- Rhagnodi annibynnol ar gyfer cyflyrau aciwt.

Ymatebodd pump o'r saith fferyllfa oedd yn dosbarthu i'r holiadur i feddygon dosbarthu a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny. Maent yn darparu gwasanaethau o ddeg adeilad.

Mae oriau agor y meddygfeydd yn amrywio trwy'r wythnos. Mae saith meddygfa ar agor drwy'r dydd, gyda'r amseroedd agor rhwng 08.00 a 09.00 a'r amseroedd cau rhwng 17.00 a 18.30. Mae dau yn cau dros ginio. Mae amseroedd agor y tair meddygfa ddosbarthu arall yn amrywio o ddydd i ddydd.

O ran dosbarthu presgripsiynau ar gyfer teclynnau:

- Mae tri phractis yn dosbarthu pob math o declyn,
- Mae un practis heb fod yn dosbarthu teclynnau stoma, ac
- Un yn dosbarthu gorchuddion clwyfau yn unig

Mae dau bractis yn cludo meddyginiaethau a ragnodwyd, un i gleifion sy'n cysgodi a'r llall i gleifion caeth i'w cartrefi sy'n byw yn yr ardal y gall y feddygfa ddosbarthu iddi.

Mae gan y pum practis staff a fedr siarad Cymraeg.

Mae gan ddau bractis ddigon o allu i ymdopi â'r cynnydd mewn galw yn ei hardal, ac nid yw hyn yn wir am y tri arall ond fe allant wneud addasiadau i wneud hynny.

O ran gwasanaethau cysylltiedig â dosbarthu a ddarperir:

- Mae tri yn gwaredu nodwyddau cleifion ac un yn gwaredu meddyginiaethau cleifion,
- Mae dau yn darparu systemau monitro dosau, ac
- Un yn darparu pecynnau achub i gleifion â chlefyd ysgyfeiniol rhwystrol cronig

Dywedodd pob practis y buasent yn gwneud y newidiadau isod i'w gwasanaeth dosbarthu fydd yn ystyried y "normal newydd":

- Cynyddu'r defnydd a wnaiff cleifion o archebu trwy My Health Online,
- Parhau i gludo i gleifion sy'n cysgodi,
- Anfon negeseuon testun at gleifion pan fydd eu meddyginiaethau'n barod i'w casglu, a
- Parhau gydag ymbellhau cymdeithasol a chyfarpar gwarchod personol

### 8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd yr holl fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gyda naw yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19 a chwech yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 13 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 8.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 a 2019/20, yr oedd naw o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn gyda dim un yn darparu’r uchafswm o 140 adolygiad. Cynyddodd hyn i ddeg fferyllfa yn 2019/20, eto gyda dim un yn darparu’r uchafswm.

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 14 –lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, yr oedd 12 o'r fferyllfeydd yn darparu cyfanswm o 277 o adolygiadau.

### 8.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 8.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 8.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 15 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae'r holl fferyllfeydd wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn a darparodd 12 hyn yn 2020/21. Mae pob un wedi'u comisiynu i'w ddarparu yn 2021/22.

### 8.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 16 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 12 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae 12 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 8.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 17 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae 11 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 8.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 18 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 12 o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Ar Awst 2021 nid yw’r un fferyllfa wedi arwyddo i ddarparu’r gwasanaeth, fodd bynnag disgwylir hyn i newid ac y bydd y nifer o fferyllfeydd sy’n darparu’r gwasanaeth yn 2021/22 yr un fath, neu yn uwch na’r llynedd.

### 8.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 19 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Yn 2021/22, mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i’w ddarparu.

### 8.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 20 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Yn 2021/22, mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i’w ddarparu.

### 8.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd y 13 fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Mae hyn wedi gostwng i 12 fferyllfa yn 2021/22.

### 8.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd naw o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Yn 2021/22, mae 12 fferyllfa wedi’u comisiynu i’w ddarparu.

### 8.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae un wedi’i gomisiynu yn 2021/22.

### 8.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth hwn ar Awst 2021.

### 8.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd 12 o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac y mae pedair wedi ei ddarparu yn 2020/21.

## 8.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i’r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i’r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy’n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu’n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan feddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill ai gan y 13 fferyllfa yn yr ardal neu’r saith practis oedd yn dosbarthu, dosbarthwyd 0.7% o’r tu allan i’r ardal yn bennaf yn Lloegr ond hefyd gan 32 fferyllfa yn ardaloedd byrddau iechyd eraill.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i’r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o’r data a gofnodwyd.

## 8.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu’r gwasanaethau isod sy’n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin
- Mae tri yn gwaredu nodwyddau cleifion ac un yn gwaredu meddyginiaethau cleifion.

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu’n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 8.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 8.2 a 8.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd 130 o gontractwyr a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd 13 yn yr ardal,
- 82 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 32 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 8.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 8.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi eu gwasgaru ar draws yr ardal ac mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth ddwysaf ac amddifadedd yn uwch. O ran pob practis sy'n dosbarthu, yn gyffredinol maent mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is.
- Mae rhai rhannau o'r ardal heb fod o fewn 20 munud o amser gyrru i fferyllfa; fodd bynnag, naill ai does neb yn byw yn yr ardaloedd hynny neu nid oes ond ychydig dai gwasgaredig.
- Gwyddom am dri datblygiad tai sydd i fod i ddigwydd yn ystod einioes y ddogfen hon, fydd yn rhoi hyd at 1,288 o dai newydd.

- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu ar hyn o bryd unrhyw oriau agor estynedig; fodd bynnag, un fferyllfa yn unig sydd ar agor wedi 18.30 ar nosweithiau'r wythnos.
- Mae poblogaeth yr ardal yn cynyddu yn ystod y tymor gwyliau oherwydd dyfodiad ymwelwyr a thwristiaid.

Nododd y bwrdd iechyd, petai gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli oherwydd cael gwared â fferyllfa o restr fferyllol mewn tref/pentref y tu allan i Gaergybi a Llangefni y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref a fydd yn darparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi cau.

Nododd y bwrdd iechyd, os collir oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 ymlaen sy'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol ddarparu gwasanaethau hanfodol am dri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle bu'r gostyngiad mewn oriau agor ategol, rhwng 09.00 a 17.00.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi petai practis MT angen rhoi'r gorau i ragnodi i ardal ar gyfer yr hyn y mae ganddo gydsyniad amlinellol, yna bydd angen yn y dyfodol ar gyfer naill ai:

- Gwasanaeth rhagnodi MT i gael ei ddarparu i'r ardal honno tra mae'n parhau i fod yn ardal reoledig a'i bod yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- Fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm i ddarparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - dull atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth anhwylderau cyffredin, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth ategol cyflenwau meddyginiaethau brys.

### 8.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn atal y gwasanaeth hwn, roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd naw fferyllfa yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Yr oedd chwech yn gwneud hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Fod nifer y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd diwethaf wedi amrywio. Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau a, declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd 12 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae’r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y tymor gwyliau, nododd y bwrdd iechyd angen yn y dyfodol am i’r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ar y Suliau yn y mannau canlyno, gan ddod i rym o 1 Ebrill 2023 rhwng Ebrill a Hydref:

- Amlwch,
- Benllech,
- Llangefni a
- Rhosneigr.

Nododd y bwrdd iechyd, os collir darpariaeth y gwasanaeth gwell atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng gan fferyllfa mewn tref/pentref y tu allan i Gaergybi a Llangefni y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref a fydd yn darparu’r gwell gwasanaeth hwn yn yr un dref/pentref fel isafswm yn ystod yr oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa a roddodd y gorau i’w darparu.

### 8.6.7 Lefel 2 rhoi’r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi’r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd 12 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae’r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw am y gwasanaeth gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y tymor gwyliau, nododd y bwrdd iechyd y bydd angen yn y dyfodol am ddarparu'r gwasanaeth hwn ar y Sul yn yr ardaloedd a ganlyn o 1 Ebrill 2023 ymlaen rhwng Ebrill a Hydref:

- Amlwch,
- Benllech,
- Llangefni a
- Rhosneigr.

Nododd y bwrdd iechyd pe na fyddai'r gwell gwasanaeth mân anhwylderau yn cael ei ddarparu gan fferyllfa mewn tref/pentref sydd y tu allan i Gaergybi a Llangefni y bydd angen yn y dyfodol am i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 8.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y tymor gwyliau, nododd y bwrdd iechyd y bydd angen yn y dyfodol am ddarparu'r gwasanaeth hwn ar y Sul yn yr ardaloedd a ganlyn o 1 Ebrill 2023 ymlaen rhwng Ebrill a Hydref:

- Amlwch,
- Benllech,
- Llangefni a
- Rhosneigr.

Nododd y bwrdd iechyd pe na fyddai'r gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng yn cael ei ddarparu gan fferyllfa mewn tref/pentref sydd y tu allan i Gaergybi a Llangefni y bydd angen yn y dyfodol am i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 8.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth, gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siŵr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy'n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Ar hyn o bryd, ni chomisiynwyd yr un o'r fferyllfeydd; fodd bynnag, y mae fferyllwyr yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o'r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â'r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 8.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 12 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 12 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae'r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 8.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion presennol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu naill ai:

- gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i'r ardal honno tra'r erys yn ardal reoledig a'i bod dros 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- Fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm i ddarparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - dull atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth anhwylderau cyffredin, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth ategol cyflenwau meddyginiaethau brys.

# 9 Ardal Arfon

## 9.1 Ffeithiau allweddol

Gwynedd sydd â'r:

- canran uchaf o oedolion all siarad Cymraeg
- cyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y 10% mwyaf difreintiedig (27%)
- cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol isaf
- disgwyliad einioes uchaf i fenywod
- disgwyliad einioes iach uchaf i wrywod a menywod
- cyfradd isaf o farwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy 2016-2018
- canran uchaf o aelwydydd un person, sef 15.7% o'r hol aelwydydd
- 21.4% o aelwydydd heb allu defnyddio car neu fan
- lefel isaf o gyflogaeth ar 57.4%
- gyda Sir y Fflint, y canran isaf o bobl sydd â salwch neu anabledd tymor-hir ac sy'n economaidd anweithredol
- cyfran isaf o ofalwyr (10.25)
- nifer uchaf o bobl oedd yn galw eu hunain yn Sipsiwn/Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig yng Nghyfrifiad 2011
- y nifer ail uchaf a amcangyfrifwyd o gysgwyr allan yng nghyfrif 2019
- cyfradd marwolaethau safonedig am oedran isaf fesul 100,000 o'r boblogaeth am bob clefyd resbiradol yn 2017
- cyfradd beichiogrwydd yn yr arddegau isaf yn 2017
- canran uchaf o'r sawl nad ydynt yn yfed ond y ganran uchaf o yfwyr niweidiol
- canran uchaf o bobl sydd fwyaf tebygol o fod wedi bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol
- canran isaf o bobl 16 oed a hŷn sy'n smygu.
- Yn Arfon y mae'r gyfradd isaf o diabetes– 4.7%
- Nododd Cynllun datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd 2011 – 2026[43] y bydd 393 o unedau tai ychwanegol yn cael eu codi ym Mangor. Nodir fod ail adroddiad monitro blynyddol y cynllun datblygu lleol am y cyfnod 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020 yn dweud fod nifer yr unedau gafodd eu cwblhau y flwyddyn yn is na'r gofyniad cyfartalog blynyddol o 479 uned. Mae'n debygol felly y codir y rhan fwyaf o'r tai hyn yn ystod oes yr asesiad anghenion fferyllol hwn.

## 9.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae deg fferyllfa yn yr ardal yn cael eu rhedeg gan bum contractwr annibynnol. O'r wyth practis meddyg teulu, mae pump yn dosbarthu o gyfanswm o wyth adeilad. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 18.7% i 84.9% o boblogaethau pob practis a gofrestrwyd.

43

Mae’r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a’r meddygfeydd sy’n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a’r meddygfeydd sy’n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 21 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o’r map isod, mae’r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, tra bod adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 22 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae’r map isod yn dangos fod fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd difreintiedig.

**Map 23 - lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 60.7% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, a phob practis dosbarthu yn dosbarthu neu yn gweinyddu'n bersonol 31.7% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosberthir a'r rhai a weinyddir yn bersonol, ar sail y lefel gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio mai 2% o'r eitemau a weinyddwyd yn bersonol.


Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Mae chwe ardal nad ydynt o fewn pellter gyrru 20 munud o fferyllfa neu adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu wedi ei dangos mewn cylch coch. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

Mae'r ardal yn y gorllewin i'r gogledd o faes awyr Caernarfon a dengys Google maps nad oes pobl yn byw yno.

Mae'r tair man yn ne'r ardal ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ac yn cynnwys copa'r Wyddfa ei hun. Dengys Google maps nad oes pobl yn byw yno.

Mae'r ardal i'r dwyrain o Ddinorwig hefyd yn ardal lle nad oes pobl yn byw, ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Yn olaf, nid oes poblogaeth yn byw ar y ffin ddwyreiniol, yn ôl Google maps.

**Map 24 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae un ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Pedwar yn agor o ddydd Lun tan ddydd Gwener, ac am ran o ddydd Sadwrn,
- Dau ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, a
- Tri ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sul ym Mangor.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae un yn agor am 08.00, un yn agor am 08.45 a’r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30 (er bod un yn cau am 16.30 ar ddydd Iau) gydag un fferyllfa ym Mangor yn aros ar agor tan 20.00.

Comisiynwyd un fferyllfa ym Mhenygroes i aros ar agor am awr yn ychwanegol ar ddydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener.

Mae saith fferyllfa yn cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 12.30 a 14.00. Mae’r fferyllfeydd sydd weddill ar agor drwy’r dydd.

Ar Sadyrnau, mae un fferyllfa yn agor am 08.00, saith am 09.00 ac un am 09.30. O’r pum fferyllfa sy’n agor drwy’r dydd, mae dau yn cau dros ginio rhwng 13.00 a 14.00. Maent yn cau rhwng 17.30 a 20.00.

Mae’r tair fferyllfa sy’n agor ar y Sul ym Mangor a rhyngddynt maent yno rhwng 10.00 a 16.30.

Mae’r bwrdd iechyd yn gofyn i’r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a’r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai’n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i’r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o’r ymatebion hynny.

Mae naw o’r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac o’r rhain, mae gan wyth ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae’r deg ardal ymgynghori yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a’r fferyllydd eistedd gyda’i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi’n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd naw o’r fferyllfeydd fod y staff yn siarad Cymraeg. Mae gan yr un fferyllfa sydd heb staff sy’n siarad Cymraeg staff sy’n siarad Pwyleg. Cadarnhaodd un fferyllfa fod y staff hefyd yn siarad Pwyleg, ac un arall Romaneg.

Mae naw o’r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o declyn, gyda’r degfed yn dosbarthu popeth ond teclynnau anymataledd.

Mae’r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddyg teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae dau yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais, a dau yn codi ffi am y gwasanaeth,
- mae un fferyllfa yn cyfyngu’r gwasanaeth i ardaloedd penodol, ac

- er mai dim ond pedwar ddywedodd eu bod yn darparu gwasanaeth cludo, dywedodd pump eu bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (cysgodi/hunan-ynysu, pobl fregus, caeth i'w cartrefi, yr henoed a'r anabl).

Cafwyd awgrym am wasanaeth nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal, sef y gwasanaeth profi a thrin dolur gwddf.

Yr oedd dwy fferyllfa o'r farn fod gofyn am wasanaeth gwell newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd:

- cofnodi pwysedd gwaed – bu galw enfawr am y gwasanaeth hwn nad yw ar gael o bractis meddygon teulu ac y mae'n rhywbeth y mae'r fferyllfa ar hyn o bryd yn ddarparu am ddim,
- gwasanaeth meddyginiaethau newydd.

Cadarnhaodd wyth o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn ei hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu, a dywedodd dau nad ydynt yn gwneud hyn ond y gallant wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw.

Mae gan ddwy fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu darpariaeth gwasanaeth:

- Gwasanaeth rhagnodydd annibynnol,
- Ailwampio'r fferyllfa,
- Posibilrwydd o symud i ganolfan iechyd newydd.

Ymatebodd dwy o'r pum fferyllfa oedd yn dosbarthu i'r holiadur i feddygon dosbarthu a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny. Maent yn darparu gwasanaethau o dri adeilad.

Mae oriau agor y meddygfeydd yn amrywio trwy'r wythnos. Mae un yn agor o 08.00 tan 18.30 (16.00 ar ddydd Gwener), un arall yn agor 08.00-13.00 a 14.00 i 18.30, a'r trydydd yn agor am oriau gwahanol bob diwrnod o'r wythnos.

O ran dosbarthu presgripsiynau ar gyfer teclynnau:

- Mae un practis yn dosbarthu pob math o declyn, ac
- Un yn dosbarthu gorchuddion clwyfau yn unig.

Mae un practis yn cludo meddyginiaethau am ddim yn bennaf i gleifion oedrannus a rhai caeth i'w cartrefi.

Mae gan y naill bractis a'r llall staff fedr siarad Cymraeg.

Mae gan un practis ddigon o allu i ymdopi â'r cynnydd mewn galw yn ei hardal, ac nid yw hyn yn wir am y llall ond fe allai wneud addasiadau i wneud hynny.

Dywedodd pob practis y buasent yn gwneud y newidiadau isod i'w gwasanaeth dosbarthu fydd yn ystyried y "normal newydd":

- Caniatáu un person yn unig i'r feddygfa ar y pryd, mynd â meddyginiaethau i geir pobl, hyrwyddo My Health Online i archebu presgripsiynau; a
- Casglu meddyginiaethau o'r drws yn hytrach nac o'r feddygfa, a chynyddu'r defnydd o My Health Online i archebu presgripsiynau.

### 9.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd yr holl fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gyda phedwar yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19 a dau yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 25 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 9.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 a 2019/20, yr oedd naw o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn gyda dim un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 26 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd saith fferyllfa gyfanswm o 198 adolygiad.

### 9.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 9.2.4 Addasu teclynnau stoma

Yr oedd un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ond nid yw hon na'r un o'r fferyllfeydd eraill wedi ei ddarparu er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 9.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 27 - lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Comisiynir pob un i ddarparu'r gwasanaeth yn 2021/22.

### 9.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 28 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Comisiynir pob un i'w ddarparu yn 2021/2022.

### 9.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 29 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth lefel 3 rhoi’r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd naw o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, a chaiff naw eu comisiynu yn 2021/22.

### 9.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 30 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Ym mis Awst 2021 roedd un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth, ond disgwylir i hyn newid a bydd nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth yn 2021/22 yr un fath â'r llynedd, neu'n uwch na'r llynedd.

### 9.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 31 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Comisiynir pob un i'w ddarparu yn 2021/22.

### 9.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 32 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Caiff pob un ei gomisiynu yn 2021/22.

### 9.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, a chomisiynir naw yn 2021/22.

### 9.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Comisiynir saith yn 2021/22.

### 9.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, a chomisiynir un yn 2021/22

### 9.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn adeg drafftio'r ddogfen hon.

### 9.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, gan gynyddu i bob fferyllfa yn 2021/22

## 9.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan feddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill ai gan y deg fferyllfa yn yr ardal neu'r pum practis oedd yn dosbarthu, dosbarthwyd 7.1% y tu allan i'r ardal:

- 6.2% gan fferyllfeydd ym Môn,
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr, a
- 0.4% gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Conwy.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 9.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 9.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 9.2 a 9.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd 150 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd deg yn yr ardal,
- 86 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 53 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 9.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 9.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi eu gwasgaru ar draws yr ardal ac mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth ddwysaf ac amddifadedd yn uwch. O ran pob practis sy'n dosbarthu, yn gyffredinol maent mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is.
- Mae rhai rhannau o'r ardal heb fod o fewn 20 munud o amser gyrru i fferyllfa; fodd bynnag, does neb yn byw yn yr ardaloedd hynny.
- Mae un datblygiad tai hysbys ar y gweill yn ystod einioes y ddogfen hon fydd yn golygu codi hyd at 393 o dai newydd.

- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig ar hyn o bryd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am wasanaethau hanfodol yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa oddi ar y rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Fangor a Chaernarfon y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref yn darparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid unrhyw oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 ymlaen sy'n arwain at ddarparu llai na thair awr o wasanaethau fferyllol mewn tref/pentref y bydd angen yn y dyfodol am dair o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y tref/pentref neu drefi/pentrefi i lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 a 17.00.

### 9.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn atal y gwasanaeth hwn, fe'i darparwyd gan yr holl fferyllfeydd.
- Yr oedd pedwar o fferyllfeydd yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth dwy hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Nododd y bwrdd iechyd, petai meddygfa yn rhoi gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo gydsyniad amlinellol, bydd angen y naill neu'r llall yn y dyfodol:

- Gwasanaeth dosbarthu Meddyg Teulu i'w ddarparu i'r ardal honno tra ei fod yn parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- Fferyllfa sy'n agored o Ddydd Llun i Ddydd Gwener o leiaf yn darparu:
    - Yr holl wasanaethau hanfodol, ac
    - Meddygaeth atal cenhedlu hormonaidd brys, y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, Helpa Fi i Stopio yn y Fferyllfa, a gwasanaeth darparu meddygaeth frys gwell.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Darparodd chwech o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae cynnydd yn y galw am y gwasanaeth ar ddechrau a diwedd tymhorau'r brifysgol.
- Mae canolbwyntio cynyddol ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Fangor a Chaernarfon y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 9.6.7 Lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i Fangor a Chaernarfon y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 9.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Fangor a Chaernarfon y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 9.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siŵr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy'n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Nid oes yr un o'r fferyllfeydd wedi eu comisiynu ar hyn o bryd; fodd bynnag y mae fferyllwyr yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o'r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â'r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 9.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allasent wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 9.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Nododd y bwrdd iechyd, petai meddygfa yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo gydsyniad amlinellol, bydd angen y naill neu'r llall yn y dyfodol:

- Gwasanaeth dosbarthu Meddyg Teulu i'w ddarparu i'r ardal honno tra ei fod yn parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- Fferyllfa sy'n agored o Ddydd Llun i Ddydd Gwener o leiaf yn darparu:
    - Yr holl wasanaethau hanfodol, ac

- Meddygaeth atal cenhedlu hormonaidd brys, y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, rhoi’r gorau i ysmygu lefel 2, Helpa Fi i Stopio yn y Fferyllfa, a gwasanaeth darparu meddygaeth frys gwell.

# 10 Ardal Dwyfor

## 10.1 Ffeithiau allweddol

Gwynedd sydd â'r:

- canran uchaf o oedolion all siarad Cymraeg
- cyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y 10% mwyaf difreintiedig (27%)
- cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol isaf
- disgwyliad einioes uchaf i fenywod
- disgwyliad einioes iach uchaf i wrywod a menywod
- cyfradd isaf o farwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy 2016-2018
- canran uchaf o aelwydydd un person, sef 15.7% o'r hol aelwydydd
- 21.4% o aelwydydd heb allu defnyddio car neu fan
- lefel isaf o gyflogaeth ar 57.4%
- gyda Sir y Fflint, y canran isaf o bobl sydd â salwch neu anabledd tymor-hir ac sy'n economaidd anweithredol
- cyfran isaf o ofalwyr (10.25)
- nifer uchaf o bobl oedd yn galw eu hunain yn Sipsiwn/Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig yng Nghyfrifiad 2011
- y nifer ail uchaf a amcangyfrifwyd o gysgwyr allan yng nghyfrif 2019
- cyfradd marwolaethau safonedig am oedran isaf fesul 100,000 o'r boblogaeth am bob clefyd resbiradol yn 2017
- cyfradd beichiogrwydd yn yr arddegau isaf yn 2017
- canran uchaf o'r sawl nad ydynt yn yfed ond y ganran uchaf o yfwyr niweidiol
- canran uchaf o bobl sydd fwyaf tebygol o fod wedi bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol
- canran isaf o bobl 16 oed a hŷn sy'n smygu.

## 10.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae naw fferyllfa yn yr ardal yn cael eu rhedeg gan dri chontractwr gwahanol. Mae un o'r fferyllfeydd yn dod dan y cynllun fferyllfa fach hanfodol. O'r pedwar practis meddyg teulu, mae tri yn dosbarthu o gyfanswm o bedwar adeilad. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 34.2% i 67.4% o boblogaethau pob practis a gofrestrwyd.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan y cylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 33 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o'r map isod, mae'r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, tra bod adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 34 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae'r map isod yn dangos bod llai o gydberthynas rhwng lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau'r meddygfeydd sy'n dosbarthu a lefelau amddifadedd.

**Map 35 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 67.4% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, a phob practis dosbarthu yn dosbarthu neu yn gweinyddu'n bersonol 20.8% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosberthir a'r rhai a weinyddir yn bersonol, ar sail y lefel gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio mai 2% o'r eitemau a weinyddwyd yn bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser mae'n cymryd i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Mae saith ardal nad ydynt o fewn pellter gyrru 20 munud o fferyllfa neu adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu wedi ei dangos mewn cylch coch. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 36 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn y fan i'r de-orllewin o'r ardal yn cynnwys tai gwasgaredig, fferm, a safleoedd carafanau a gwersylla. Er mai bychan yw'r boblogaeth, bydd y niferoedd yn cynyddu yn ystod yr haf. Yr un yw'r sefyllfa i'r ardal fechan i'r gogledd o Penllech.

Dengys Google maps nad oes trigolion yn byw yn yr ardal i'r de-orllewin o Drefor.

O ran y pedair ardal o gwmpas Pen-sarn, mae Google maps yn datgelu nifer o dai/ffermydd gwasgaredig a safle gwersylla.

Dengys Google maps nad oes trigolion yn byw yn yr ardaloedd i’r gorllewin a’r dwyrain o Feddgelert.

O ran yr amseroedd pan mae’r fferyllfeydd ar agor:

- Mae un ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Tri ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, ac am ran o ddydd Sadwrn, a
- Pump yn agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn,

O ran yr amseroedd pan mae’r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae un yn agor am 08.30 a’r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae’r amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.00 a 18.30.

Comisiynwyd tair fferyllfa i aros ar agor am 30 munud yn ychwanegol o ddydd Llun tan ddydd Gwener.

Mae chwe fferyllfa yn cau dros ginio ar adegau amrywiol rhwng 13.00 a 14.00. Mae’r fferyllfeydd sydd weddill ar agor drwy’r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae un fferyllfa yn agor am 08.30 a saith am 09.00. O’r pum fferyllfa sydd ar agor drwy’r dydd, mae dau yn cau am ginio rhwng 13.20 a 13.40. Maent yn cau rhwng 16.00 a 17.30.

Does yr un fferyllfa ar agor ar y Sul.

Mae’r bwrdd iechyd yn gofyn i’r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a’r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai’n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i’r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o’r ymatebion hynny.

Mae chwech o’r fferyllfeydd yn hygyrch mewn cadair olwyn, ac y mae gan y chwe ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae’r naw ardal ymgynghori yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a’r fferyllydd eistedd gyda’i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi’n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod y staff yn siarad Cymraeg. Ni chrybwyllwyd unrhyw iaith arall oedd yn cael ei siarad.

Mae’r naw fferyllfa yn dosbarthu presgripsiynau i bob math o declyn.

Mae'r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddyg teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae saith yn rhoi gwasanaeth cludo am ddim o wneud cais,
- mae un fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a
- dywedodd chwech eu bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (cartrefi gofal, anabl, pobl fregus a'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi).

Yr oedd pedair fferyllfa o'r farn fod gofyn am wasanaeth gwell presennol nad yw ar gael ar hyn o bryd yn yr ardal:

- byddai gwasanaeth adolygu mewnanadlyddion/gwasanaeth techneg mewnanadlyddion o les,
- gwasanaeth meddyginiaethau achub resbiradol,
- gwasanaethau atal cenhedlu (dwy fferyllfa), a
- gwasanaethau rhagnodydd annibynnol ar gyfer atal cenhedlu a mân salwch.

Yr oedd tair fferyllfa o'r farn fod gofyn am wasanaeth gwell newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd yn yr ardal:

- gwasanaeth sgrinio a thrin am lid y bledren (dan PGD) i fferyllwyr hyfforddedig. Byddai hyn yn llesol yn enwedig ar benwythnosau a gwyliau banc i ryddhau'r gwasanaeth tu allan i oriau,
- gofal am yr henoed, ymweliadau â chartrefi cleifion sydd angen llawer o feddyginiaethau/â chyd-forbidrwydd uchel gyda rhagnodydd annibynnol a allai adolygu ac o bosib symleiddio trefniadau meddyginiaethau, a
- gwasanaeth mân salwch

Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn ei hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Hoffai un fferyllfa ystyried ehangu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol o bosib i gynnwys gwasanaethau atal cenhedlu ac ymweliadau rhagnodydd annibynnol â chartrefi yn unol ag agenda gofal yr henoed y clwstwr meddygon teulu.

Ymatebodd dau bedwar practis meddygfa oedd yn dosbarthu i'r holiadur i feddygon dosbarthu a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny. Maent yn darparu gwasanaethau o ddau adeilad.

Mae'r ddwy feddygfa ddosbarthu yn agor drwy'r dydd, gydag un yn agor am 08.30 a'r llall am 09.00. Mae'r ddau yn cau am 18.00 er bod un yn cau am 16.00 ar ddydd Gwener.

O ran dosbarthu presgripsiynau ar gyfer teclynnau:

- Mae un practis yn dosbarthu pob math o declyn, ac
- Un heb fod yn dosbarthu cynhyrchion stoma ac anymataledd.

Mae un practis yn cludo meddyginiaethau am ddim.

Mae gan y ddau bractis staff sy’n medru siarad Cymraeg.

Mae gan y ddau bractis ddigon o allu i ymdopi a’r cynnydd mewn galw yn eu hardal.

Mae’r ddau bractis yn gwaredu nodwyddau cleifion.

Soniodd y naill bractis a’r llall am wneud y newidiadau a ganlyn i’w gwasanaeth dosbarthu pan fydd y “normal newydd” yn digwydd:

- Cludo i gleifion sy’n gaeth i’w tai os bydd angen, a
- Cyfeiriad e-bost penodol i archebu presgripsiynau, presgripsiynau wedi eu hôl-ddyddio dri mis, a staff yn gwisgo cyfarpar gwarchod personol.

### 10.2.1 Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd yr holl fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn, gydag un yn darparu’r uchafswm o 400 yn 2018/19 a 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae’r map isod yn dangos lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 37 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 10.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 a 2019/20, yr oedd chwech o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn gan godi i saith yn 2019/20 a dim un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 38 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, gwnaeth saith o'r fferyllfeydd ddarparu 113 o adolygiadau.

### 10.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 10.2.4 Addasu teclynnau stoma

Yr oedd un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ond nid yw'r un o'r fferyllfeydd eraill wedi ei ddarparu er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 10.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 39 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Cafodd yr holl fferyllfeydd eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Cafodd pob un eu comisiynu i'w ddarparu yn 2021/22.

### 10.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 40 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd wyth o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae wyth wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 10.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 41 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, gan ostwng i chwech yn 2021/22.

### 10.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 42 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd pob un o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. O fis Awst 2021, roedd tair o’r fferyllfeydd wedi ymrwymo i ddarparu’r gwasanaeth, ond disgwylir i hyn newid a bydd nifer y fferyllfeydd sy’n darparu’r gwasanaeth yn 2021/22 yr un peth ag y llynedd.

### 10.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 43 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn a gwnaethant ei ddarparu yn 2020/21. Cafodd pob un eu comisiynu yn 2021/22.

### 9.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 44 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn a gwnaethant ei ddarparu yn 2020/21. Mae pob un wedi’u comisiynu yn 2021/22.

### 10.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd wyth o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae wyth wedi’u comisiynu yn 2021/22.

### 10.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae saith wedi’u comisiynu yn 2021/22.

### 10.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae un wedi’i gomisiynu yn 2021/22.

### 10.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth cyflyrau aciwt yn 2020/21, ac yn 2021/22.

### 10.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd pob un o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae pob un wedi'u comisiynu yn 2021/22.

## 10.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan feddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill ai gan y naw fferyllfa yn yr ardal neu'r tri phractis sy'n dosbarthu, dosbarthwyd 11.5% y tu allan i'r ardal:

- 10.2% gan fferyllfeydd yn Arfon,
- 0.6% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.5% gan fferyllfeydd ym Môn,
- 0.1% gan fferyllfeydd ym Meirionnydd, a
- 0.1% yn rhywle arall yng Nghymru.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 10.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin
- Mae dau bractis practices yn gwaredu nodwyddau cleifion.

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 10.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 10.2 a 10.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 100 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd naw yn yr ardal,
- 63 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 53 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 10.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 10.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi eu gwasgaru ar draws yr ardal ac mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth ddwysaf. O ran pob practis sy'n dosbarthu, maent mewn ardaloedd o amddifadedd is.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa; fodd bynnag, naill ai nid oes neb yn byw yn yr ardaloedd hynny, neu nid oes yno ond rhai tai gwasgaredig a meysydd gwersylla.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig ar hyn o bryd; fodd bynnag, un fferyllfa yn unig sydd ar agor ar ôl 18.30 gyda'r nos ar ddyddiau'r wythnos
- Nid oes yr un fferyllfa ar agor ar y Sul.

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion cyfredol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid unrhyw oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol mewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol am dri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa mewn tref/pentref wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol sydd y tu allan i Borthmadog a Phwllheli y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu'n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i'r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac sy'n fwy na 1,6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

### 10.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Dim ond un fferyllfa oedd yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19 a 2019/20.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd chwech o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Oherwydd y cynnydd mewn poblogaeth yn ystod y tymor gwyliau, nododd y bwrdd iechyd angen yn y dyfodol am i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ar y Sul mewn tref tua phen pellaf y penrhyn i ddod i rym ar 1 Ebrill 2023 rhwng Ebrill a Hydref.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Borthmadog a Phwllheli y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 10.6.7 Lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd wyth o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Oherwydd y cynnydd mewn poblogaeth yn ystod y tymor gwyliau, nododd y bwrdd iechyd angen yn y dyfodol am i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ar y Sul mewn tref tua phen pellaf y penrhyn i ddod i rym ar 1 Ebrill 2023 rhwng Ebrill a Hydref.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i Borthmadog a Phwllheli y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 10.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Oherwydd y cynnydd mewn poblogaeth yn ystod y tymor gwyliau, nododd y bwrdd iechyd angen yn y dyfodol am i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ar y Sul mewn tref tua phen pellaf y penrhyn i ddod i rym ar 1 Ebrill 2022 rhwng Ebrill a Hydref.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Borthmadog a Phwllheli y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 10.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd wyth o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy’n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Ar hyn o bryd, comisiynir tair fferyllfa i ddarparu gwasanaeth.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o’r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â’r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd y naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai’r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 10.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 12 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae’r un heb ddigon o allu yn agos iawn at fferyllfa arall.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 10.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Mae’r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu’n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i’r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i’r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac sy’n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:

- pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
- y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

# 11 Ardal Meirionnydd

## 11.1 Ffeithiau allweddol

Gwynedd sydd â'r:

- canran uchaf o oedolion all siarad Cymraeg
- cyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y 10% mwyaf difreintiedig (27%)
- cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol isaf
- disgwyliad einioes uchaf i fenywod
- disgwyliad einioes iach uchaf i wrywod a menywod
- cyfradd isaf o farwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy 2016-2018
- canran uchaf o aelwydydd un person, sef 15.7% o'r hol aelwydydd
- 21.4% o aelwydydd heb allu defnyddio car neu fan
- lefel isaf o gyflogaeth ar 57.4%
- gyda Sir y Fflint, y canran isaf o bobl sydd â salwch neu anabledd tymor-hir ac sy'n economaidd anweithredol
- cyfran isaf o ofalwyr (10.25)
- nifer uchaf o bobl oedd yn galw eu hunain yn Sipsiwn/Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig yng Nghyfrifiad 2011
- y nifer ail uchaf a amcangyfrifwyd o gysgwyr allan yng nghyfrif 2019
- cyfradd marwolaethau safonedig am oedran isaf fesul 100,000 o'r boblogaeth am bob clefyd resbiradol yn 2017
- cyfradd beichiogrwydd yn yr arddegau isaf yn 2017
- canran uchaf o'r sawl nad ydynt yn yfed ond y ganran uchaf o yfwyr niweidiol
- canran uchaf o bobl sydd fwyaf tebygol o fod wedi bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol
- canran isaf o bobl 16 oed a hŷn sy'n smygu.
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 yn gosod gofyniad am gyfanswm o 750 i 852 uned tai, ar gyfartaledd o 50 i 55 y flwyddyn. Yn ystod oes yr asesiad anghenion fferyllol hwn, mae hynny'n cyfateb i gyfanswm o ryw 250 i 275 uned. Mae tua thraean o'r rhain yng nghanolfannau lleol/gwasanaeth allweddol Dolgellau a'r Bala, 10 i 14% yn aneddfannau gwasanaeth Harlech, Aberdyfi, Betws y Coed, Trawsfynydd a Llanberis (sydd ond yn rhannol o fewn ffiniau'r Parc), a dim mwy na 47% mewn aneddfannau eilaidd.

## 11.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae 11 fferyllfa yn yr ardal, yn cael eu rhedeg gan bedwar contractwr gwahanol. Daw dwy o'r fferyllfeydd gan y cynllun fferyllfa fechan hanfodol. O'r chwe phractis meddyg teulu, mae dau yn dosbarthu o ddau adeilad. Lefel y dosbarthu yw 24.7% o boblogaeth gofrestredig un practis, a 52.4% o boblogaeth gofrestredig y practis arall.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 45 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o'r map isod, mae'r fferyllfeydd a'r meddygfeydd dosbarthu fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 46 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae'r map isod yn dangos bod llai o gydberthynas rhwng lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd dosbarthu a lefelau amddifadedd.

**Map 47 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 82.3% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, a phob practis dosbarthu yn dosbarthu neu yn gweinyddu'n bersonol 11.4% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosberthir a'r rhai a weinyddir yn bersonol, ar sail y lefel gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio mai 2% o'r eitemau a weinyddwyd yn bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Mae'r ardaloedd hynny nad ydynt o fewn taith 20 munud o fferyllfa yn gyffredinol yn ardaloedd heb boblogaeth gan eu bod ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac yn fynyddoedd. Serch hynny, y mae yno dai a ffermydd gwasgaredig, a safleoedd gwersylla a charafanau gerllaw ffyrdd sy'n croesi'r ardal.

**Map 48 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae dau ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Pedwar ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, ac am ran o ddydd Sadwrn, a
- Pump ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sul.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae deg yn agor am 09.00 a'r unfed ar ddeg yn agor am 08.30,
- Mae un fferyllfa yn cau am 15.00 bob dydd o'r wythnos (ar wahân i ddydd Mawrth pan mae'n cau am 13.00), pump yn cau am 17.30 (gydag un yn cau am 13.30 ar ddydd Iau), pedwar yn cau am 18.00 (er bod un o'r rhain yn cau am 17.00 ac un arall yn cau am 13.00 ar ddydd Mercher), ac un yn cau am 18.30 (17.30 ar ddydd Iau).

Mae'r ddwy fferyllfa ym Mlaenau Ffestiniog wedi eu comisiynu fel bod un ohonynt yn agor am awr yn ychwanegol ar ddyddiau Llun, Mawrth, Mercher a Gwener.

Mae wyth fferyllfa yn cau dros ginio ar wahanol adegau rhwng 13.00 a 14.00. Mae'r fferyllfeydd sydd weddill ar agor drwy'r dydd.

Ar ddydd Sadwrn, mae un fferyllfa yn agor am 08.30 a'r gweddill yn agor am 09.00. Mae dwy o'r fferyllfeydd sy'n agor drwy'r dydd yn cau dros ginio rhwng 13.00 a 13.20.

Does yr un fferyllfa ar agor ar y Sul.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a'r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i'r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny.

Mae naw o'r fferyllfeydd yn hygyrch mewn cadair olwyn, ac y mae ganddynt oll ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae'r deg o'r ardaloedd ymgynghori yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Nid ystafell gaeedig yw'r unfed ar ddeg, ond y mae'n ateb y ddau ofyniad arall.

Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod y staff yn siarad Cymraeg, a dywedodd yr unfed ar ddeg fod y staff yn siarad peth Cymraeg. Gall staff yn y fferyllfa hon hefyd siarad Yoruba.

Mae'r holl fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn.

Mae'r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddyg teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd, mae wyth yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais, ac un yn darparu'r gwasanaeth am ffi. Does yr un yn cyfyngu'r gwasanaeth i unrhyw ardal na grŵp arbennig o gleifion.

Cafwyd pedwar awgrym am wasanaethau presennol na ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal:

- gwasanaethau rhagnodydd annibynnol,
- meicrosugno clustiau er mwyn ysgafnhau pwysau ar bractis meddygon teulu,
- gwasanaeth brechu rhag niwmonia, a
- gwasanaeth prawf a thrin dolur gwddf.

Yr oedd dwy fferyllfa o'r farn fod gofyn am wasanaethau gwell newydd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd:

- gwasanaeth atal cenhedlu i gynnwys cychwyn a pharhau ag atal cenhedlu rheolaidd gan ragnodydd annibynnol,
- gwasanaeth sy'n cael ei gyllido ar gyfer cleifion a dosau/system ddosau sy'n cael ei monitro; a
- meicrosugno clustiau

Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn ei hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu; dywedodd dau nad oes ganddynt ond y byddai modd iddynt wneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw, a dywedodd un nad oedd ganddynt ac y byddai'n cael trafferth rheoli cynnydd.

Mae gan dair fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu darpariaeth gwasanaeth:

- dod yn rhagnodydd annibynnol,
- darparu gwasanaeth atal cenhedlu (fel yr amlinellir uchod) os cânt eu comisiynu gan y bwrdd iechyd,
- ychwanegu mân anhwylderau yn y flwyddyn i ddod yn ychwanegol at wasanaethau brechu cyn teithio.

Dywedodd tair arall y buasent yn hapus i ddarparu gwasanaethau ychwanegol wedi eu comisiynu.

Ymatebodd un o'r ddau bractis sy'n dosbarthu i'r holiadur i feddygon dosbarthu a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny. Maent yn darparu gwasanaethau mewn un adeilad.

Mae’r feddygfa ddosbarthu ar agor o 08.30 tan 12.30 a 13.30 tan 17.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae’r practis yn:

- dosbarthu pob math o declynnau;
- cludo i gleifion yn ardal y practis;
- heb staff yn y feddygfa sy’n siarad Cymraeg;
- meddu ar ddigon o allu i reoli cynnydd yn y galw;
- gwaredu nodwyddau cleifion; a
- bydd yn parhau gyda’i gwasanaeth cludo ddwywaith yr wythnos.

### 11.2.1 Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd yr holl fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn, gydag un yn darparu’r uchafswm o 400 yn y ddwy flwyddyn. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae’r map isod yn dangos lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 49 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 11.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yr oedd naw o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan godi i ddeg yn 2019/20 a dim un yn darparu’r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 50 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd wyth o’r fferyllfeydd gyfanswm o 146 adolygiad.

### 11.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 11.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 11.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 51 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae pob un wedi'u comisiynu i'w ddarparu yn 2021/22.

### 11.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 52 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn 2020/21, gan gynyddu i ddeg yn 2021/22

### 11.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 53 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd wyth o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac wyth yn 2021/22.

### 11.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 54 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. O Awst 2021 roedd un o'r fferyllfeydd wedi arwyddo i ddarparu'r gwasanaeth, fodd bynnag

disgwylir i hyn newid ac y bydd y nifer o fferyllfeydd a fydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2021/22 yr un fath â llynedd.

### 11.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 55 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae pob un wedi’u comisiynu yn 2021/22.

### 11.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 56 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21 ac mae pob un wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 11.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth 2020/21 ac maent hefyd wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 11.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd chwech o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn 2020/21, a bydd chwech hefyd yn 2021/22

### 11.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae pedair wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 11.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth cyflyrau llym yn 2020/21 ac mae hefyd wedi'i chomisiynu yn 2021/22.

### 11.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn 2020/21 a hefyd wedi'u comisiynu yn 2021/22.

## 11.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan feddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill ai gan yr 11 fferyllfa yn yr ardal neu'r ddau bractis sy'n dosbarthu, dosbarthwyd 4.8% y tu allan i'r ardal:

- 4.1% gan fferyllfeydd yn Nwyfor, a
- 0.7% gan gontractwyr yn Lloegr.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 11.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin
- Mae dau bractis practices yn gwaredu nodwyddau cleifion.

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 11.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 11.2 a 11.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 115 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd 11 yn yr ardal,
- 67 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 34 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 11.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 11.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd a phob practis sy'n dosbarthu ar draws yr ardal ac yn gyffredinol maent mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth ddwysaf ac amddifadedd yn uwch.
- Mae rhai rhannau o'r ardal heb fod o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa. Fodd bynnag, ardaloedd ydynt fel rheol heb boblogaeth yn byw yno am eu bod ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac yn fynyddoedd. Serch hynny, y mae rhai tai a ffermydd gwasgaredig, a safleoedd gwersylla a charafanau yn agos at ffyrdd sy'n croesi'r ardal.
- Mae'r cynllun datblygu lleol yn gosod gofyniad o 50 i 55 o dai y flwyddyn tan 2031.
- Cadarnhaodd wyth o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo'r gallu ac na allai wneud addasiadau.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu ar hyn o bryd unrhyw oriau agor estynedig.
- Mae poblogaeth yr ardal yn cynyddu yn ystod y tymor gwyliau oherwydd ymwelwyr a thwristiaid.
- Nid oes yr un fferyllfa ar agor ar y Sul.

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi adnabod unrhyw anghenion cyfredol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref.pentref, y bydd angen yn y dyfodol am ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol o dri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu naill ai:

- gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i'r ardal honno tra'r erys yn ardal reoledig a'i bod dros 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- Fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm i ddarparu:
  - yr holl wasanaethau hanfodol, a
  - dull atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth anhwylderau cyffredin, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth ategol cyflenwau meddyginiaethau brys.

### 11.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd tair fferyllfa yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19 a 2019/20.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo'r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd saith o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo'r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo'r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfeydd presennol mewn perthynas â diffyg y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng ar brynhawniau Sul yn Nolgellau. Fodd bynnag, os nad eir i'r afael â'r bwlch hwn, o 1 Ebrill 2023, bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ar brynhawniau Sul yn Nolgellau.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Ddolgellau a Blaenau Ffestiniog y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 11.6.7 Lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi’r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo’r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd wyth o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio’r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi’r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo’r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu’r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo’r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu’r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.

- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo’r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi adnabod unrhyw anghenion cyfredol mewn perthynas â darparu’r gwasanaeth hwn yn yr ardal leol hon.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfeydd presennol mewn perthynas â diffyg fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth ategol anhwylderau cyffredin yn Nolgellau. Fodd bynnag, os nad eir i’r afael â’r bwlch hwn, o 1 Ebrill 2023, bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ar brynhawniau Sul yn Nolgellau.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i Ddolgellau a Blaenau Ffestiniog y bydd angen yn y dyfodol i’r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w ddarparu.

#### 11.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo’r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi adnabod unrhyw anghenion cyfredol mewn perthynas â darparu’r gwasanaeth hwn yn yr ardal leol hon.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfeydd presennol mewn perthynas â diffyg fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth ategol cyflenwad meddyginiaethau mewn argyfwng yn Nolgellau. Fodd bynnag, os nad eir i’r afael â’r bwlch hwn, o 1 Ebrill 2023, bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ar brynhawniau Sul yn Nolgellau.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Ddolgellau a Blaenau Ffestiniog y bydd angen yn y dyfodol i’r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

#### 11.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.

- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo'r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd chwech o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo'r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Comisiynwyd pedair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo'r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy’n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Ar hyn o bryd, comisiynir un fferyllfa i ddarparu gwasanaeth.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o’r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â’r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo’r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai’r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 11.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt, ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd un fferyllfa nad oes ganddi mo’r gallu ac na allai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 11.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Mae’r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu’n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i’r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i’r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol reoledig ac sy’n fwy na 1,6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o’r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi’r gorau i ysmygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

# 12 Ardal Gorllewin Conwy

## 12.1 Ffeithiau allweddol

Conwy sydd â'r:

- boblogaeth hŷn gyda 28% o'r boblogaeth yn 65 neu'n hŷn
- canran uchaf o bobl 85 oed a hŷn, sef 4% o'r boblogaeth
- 37% o oedolion yn y boblogaeth yn siarad Cymraeg
- cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol ail uchaf
- gyda Sir y Fflint, gan Gonwy y mae'r disgwyliad einioes uchaf i wrywod, sef 79.3 oed (a'r pedwerydd awdurdod uchaf yng Nghymru)
- yr ail ddisgwyliad einioes iach i wrywod, sef 64.9 oed
- cyfradd ail isaf o farwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy
- caran uchaf o oedolion yn dweud bod eu hiechyd yn gyffredinol dda neu yn dda iawn – 76.35%
- caran uchaf o aelwydydd un person lle mae rhywun 65 oed neu hŷn yn byw – 7.8%
- caran ail uchaf o aelwydydd heb gar neu fan – 21.7%
- caran uchaf o'r boblogaeth sydd wedi ymddeol – 19.8%
- cyfradd isaf o farwolaethau oherwydd clefydau cardiofasgwlaidd fesul 100,000
- y nifer uchaf a ragamcanwyd o bobl 65 a hŷn gyda dementia yn 2030 a hefyd y cynnydd canrannol uchaf
- y gyfran uchaf o bobl oedd yn fywiog am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol - 62.7%
- canran isaf o oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew – 49.9%
- caran uchaf o oedolion sy'n smygu – 25.0%
- mae nifer y parciau carafán ar hyd y rhan sydd yng Nghonwy o arfordir y gogledd, yn enwedig yn Nwyrain Conwy, yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth yn ystod yr haf
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy yn nodi'r angen am 4,300 o gartrefi rhwng 2018 a 2033 ar gyfradd flynyddol o 290. Mae rhai o'r datblygiadau a nodwyd yn dod o fewn einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn:
  - Llanfairfechan – 400 uned rhwng 2021 a 2029
  - Llanrhos – 250 uned rhwng 2024 a 2031
  - Llanrwst – 200 uned rhwng 2021 a 2026.

## 12.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae 15 fferyllfa yn yr ardal yn cael eu rhedeg gan saith contractwr gwahanol. O'r 12 practis meddyg teulu, mae tri yn dosbarthu o dri adeilad. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 41.7% i 94.5% o boblogaethau pob practis a gofrestrwyd.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 57 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o’r map isod, mae’r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, tra bod adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 58 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Mae’r map isod yn dangos fod fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd mwy difreintiedig, a bod adeiladau pob practis sy’n dosbarthu mewn ardaloedd llai difreintiedig.

**Map 59 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 86.0% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, a phob practis dosbarthu yn dosbarthu neu yn gweinyddu'n bersonol 7.9% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosberthir a'r rhai a weinyddir yn bersonol, ar sail y lefel gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio mai llai na 2% o'r eitemau a weinyddwyd yn bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Fel y gellir gweld mae rhai rhannau o'r ardal nad ydynt o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa neu bractis sy'n dosbarthu. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.


Ardaloedd mynyddig sydd i'r gorllewin o Ddolgarrog a Betws y Coed a datgela Google maps nad oes neb yn byw yno.

Mae llawer o dde'r ardal bellter taith mwy nag 20 munud mewn car o fferyllfa neu feddygfa sy'n dosbarthu. Er bod y rhan fwyaf o'r ardal yn fynyddig, y mae yno nifer o bentrefi bychain lle mae pobl yn byw, er enghraifft Cwm Penmachno, Ysbyty Ifan (yn ôl Wikipedia, y boblogaeth ail isaf o unrhyw gymuned Gymreig - Ganllwyd yng Ngwynedd yw'r isaf) a Phentre-llyn-cymmer.

**Map 60 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829




Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae un ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Mae pump ar agor o ddydd llun tan ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn,
- Mae chwech ar agor o ddydd llun tan ddydd Sul, a
- Thri ar agor o ddydd llun tan ddydd Sul, a'r rhain i gyd yn Llandudno.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae un yn agor am 08.00, un yn agor am 08.30, dau yn agor am 08.45 (er bod un yn agor am 09.00 ar ddydd Mawrth) a'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30 gydag un fferyllfa yn Llandudno yn aros ar agor tan 22.00.

Comisiynir un fferyllfa ym Mhenmaenmawr i agor rhwng 17.30 a 18.30 ar ddyddiau'r wythnos.

Mae 11 fferyllfa yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 13.00 a 15.00. Mae gweddill y fferyllfeydd yn aros ar agor trwy'r dydd.

Ar Sadyrnau, mae un fferyllfa yn agor am 08.00 ac un arall am 08.45. Mae'r 12 fferyllfa arall yn agor am 09.00. O'r chwe fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae pedwar yn cau am ginio rhwng 13.00 a 15.00. Maent yn cau rhwng 16.00 a 21.00.

Mae'r tair fferyllfa sydd ar agor ar y Sul rhyngddynt ar agor rhwng 10.00 a 17.00.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i'r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny.

Mae 14 o'r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac o'r rhain, mae gan ddeg ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae'r 15 ardal ymgynghori yn:

- stafelloedd caeedig,

- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod y staff yn siarad Cymraeg, ac y mae gan ddwy ohonynt hefyd staff sy'n siarad Pwyleg. Mae gan un fferyllfa staff sy'n siarad Portwgeeg a Sbaeneg, ac un arall â staff sy'n siarad Punjabi.

Mae 14 o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn, ac un yn dosbarthu gorchuddion clwyfau yn unig.

Mae 14 o'r fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddyg teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae saith yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais, pedair yn darparu'r gwasanaeth am ffi, a thair yn darparu gwasanaeth am ddim ac am ffi,
- mae dwy fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a
- thair yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (pobl fregus, caeth i'w cartrefi, pobl dros 70, rhai sy'n hunan-ynysu, rhai ag anghenion/anabl).

Cafwyd dau awgrym am wasanaeth presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal:

- gwasanaeth rhagnodydd annibynnol ar gyfer cyflyrau aciwt oherwydd bod y feddygfa wedi cau, a
- gwasanaeth anhwylderau cyffredin i ymdrin â llindag mewn dynion.

Yr oedd dwy fferyllfa o'r farn fod gofyn am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd:

- pecynnau swigod/systemau monitro dos ar gyfer cleifion oedrannus, a
- cysoni meddyginiaeth ailadroddadwy cleifion fel na fyddai'n rhaid i gleifion eu casglu unwaith y mis. Byddai'n arbed amser meddygon teulu a fferyllwyr.

Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu; dywedodd tair nad ydynt yn gwneud hyn ond y gallant wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw, a dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon o allu ac y buasent yn cael anhawster ymdopi â chynnydd yn y galw.

Mae gan bedair fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau maent yn ddarparu:

- mae'r fferyllydd rheolaidd ar fin cychwyn hyfforddiant rhagnodydd annibynnol a chwrs mân anhwylderau yn y gobaith o fedru rhagnodi'n annibynnol ar gyfer cyflyrau aciwt.
- Lefel 3 rhoi'r gorau i smygu. Helpa Fi i Stopio (Varenicline)
- gobeithio ehangu maint y fferyllfa toc

- hoffai wneud hynny ond methu gwneud hynny oherwydd y baich gwaith presennol a phwysau ar y system fel y mae

Atebodd un practis sy'n dosbarthu i'r holiadur i feddygon sy'n dosbarthu:

- mae'r feddygfa ar agor o 08.00 i 18.00
- dosberthir pob math o declyn
- mae gwasanaeth cludo'n cael ei ddarparu am ddim
- mae staff y feddygfa'n siarad Cymraeg
- nid oes gan y practis ddigon o adeiladau na gallu ar hyn o bryd, ond byddai modd gwneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw
- yn ychwanegol at y gwasanaeth dosbarthu, mae'r practis yn gwaredu nodwyddau cleifion
- rhoddwyd drws allanol newydd ar ffurf 'drws stabal' gan greu agoriad gweini fel nad oes raid i gleifion ddod i mewn i'r adeilad.

### 12.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd yr holl fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gydag wyth yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19 a dwy yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 61 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 12.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 a 2019/20, yr oedd 12 o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn gyda dim un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 62 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd 13 o’r fferyllfeydd gyfanswm o 323 adolygiad.

### 12.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 12.2.4 Addasu teclynnau stoma

Yr oedd un fferyllfa yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ond nid yw hon na’r un o’r fferyllfeydd eraill wedi ei ddarparu er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 12.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 63 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn a darparodd 14 ef yn 2020/21. Mae pob un wedi'u comisiynud i'w ddarparu yn 2021/22.

### 12.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 64 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 13 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae 13 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 12.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 65 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 13 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae 13 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 12.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 66 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 14 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Ar Awst 2021, roedd pedair fferyllfa wedi arwyddo i ddarparu'r gwasanaeth, fodd bynnag disgwylir hyn i newid a bydd y nifer o fferyllfeydd fydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2021/22 yr un fath, neu'n uwch nag y llynedd.

### 12.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 67 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae pob un wedi'u comisiynud yn 2021/22.

## 12.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 68 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae pob un wedi’u comisiynu yn 2021/22.

### 12.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd 13 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21, ac mae 13 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 12.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21 ac mae saith wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 12.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 nac yn 2021/22.

### 12.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 nac yn 2021/22.

### 12.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac maent wedi'u comisiynu yn 2021/22.

## 12.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan feddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill ai gan y 15 fferyllfa yn yr ardal neu'r pum practis sy'n dosbarthu, dosbarthwyd 4.6% y tu allan i'r ardal:

- 3.7% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy,
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr, a
- 0.1% gan fferyllfeydd yr un yn Arfon, Canol a De Sir Ddinbych, Meirionnydd a Gogledd Sir Ddinbych.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 12.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin
- Mae un practis yn gwaredu nodwyddau cleifion.

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 12.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 12.2 a 12.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd 150 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd 15 yn yr ardal,
- yr oedd 105 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- yr oedd 25 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 12.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 12.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi eu gwasgaru ar draws yr ardal ac mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth ddwysaf ac amddifadedd yn uwch. O ran pob practis sy'n dosbarthu, yn gyffredinol maent mewn ardaloedd lle mae amddifadedd yn is.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa. Er bod rhai mannau yn fynyddig a heb bobl yn byw yno, yn rhan ddeheuol yr ardal y mae nifer o bentrefi bychain lle mae pobl yn byw, er enghraifft Cwm Penmachno, Ysbyty Ifan (yn ôl Wikipedia, y boblogaeth ail isaf o unrhyw gymuned Gymreig - Ganllwyd yng Ngwynedd yw'r isaf) a Phentre-llyn-cymmer.
- Mae tri datblygiad tai hysbys ar y gweill yn ystod einioes y ddogfen hon, fydd yn golygu codi hyd at 850 o dai newydd erbyn 2033.
- Cadarnhaodd deg fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo'r gallu ac na allent wneud addasiadau.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu ar hyn o bryd unrhyw oriau agor estynedig.
- Mae poblogaeth yr ardal yn cynyddu oherwydd nifer yr ymwelwyr sy'n dod i'r ardal drwy'r flwyddyn, yn enwedig i ganol yr ardal.
- Bu ceisiadau i agor fferyllfa ym Metws y Coed a gyflwynwyd dan y rheoliadau blaenorol yn aflwyddiannus.

Ar sail yr uchod, nododd y bwrdd iechyd fod angen cyfredol am fferyllfa ym Metws y Coed sydd, fel isafswm, ag oriau agor craidd o:

- 09.00 i 17.00 o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Chwe awr ar y Sadyrnau, a
- Chwe awr ar y Sul.

Mae angen presennol i'r fferyllfa hon ddarparu'r gwasanaethau a ganlyn o'r pwynt iddi gael ei chynnwys ar y rhestyr fferyllol:

- Pob gwasanaeth hanfodol,
- Y gwasanaethau gwell, sef atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, y gwasanaeth anhwylderau cyffredin a'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa yn ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Gonwy a Llandudno y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid unrhyw oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref y bydd angen yn y dyfodol am ddarparu gwasanaethau hanfodol o dri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu naill ai:

- gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i'r ardal honno tra'r erys yn ardal reoledig a'i bod dros 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- Fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm i ddarparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - dull atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth anhwylderau cyffredin, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth ategol cyflenwau meddyginiaethau brys.

### 12.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Darparodd wyth fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth dwy hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo'r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. 13 o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.

- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo'r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y

gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo'r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ac eithrio yng nghyswllt Betws y Coed (gweler adran 12.6.1 uchod).

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Gonwy a Llandudno y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 12.6.7 Lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 13 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo'r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisynir 13 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo'r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 14 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.

- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo'r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo'r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ac eithrio yng nghyswllt Betws y Coed (gweler adran 12.6.1 uchod).

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i Gonwy a Llandudno y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 12.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo'r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ac eithrio yng nghyswllt Betws y Coed (gweler adran 12.6.1 uchod).

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darparaieth y gwell gwasnaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Gonwy a Llandudno y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 12.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 13 o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo’r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu’r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu’r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i’w ddarparu.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo’r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol neu yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy’n darparu’r gwasanaeth.
- Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw’r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo’r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy’n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi eu comisiynu ar hyn o bryd; fodd bynnag y mae fferyllwyr yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o’r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â’r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo’r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai’r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 12.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd deg o fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau, a dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt mo’r gallu ac na allent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 12.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi’r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu naill ai:

- gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i’r ardal honno tra’r erys yn ardal reoledig a’i bod dros 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa,

neu

- Fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm i ddarparu:
  - yr holl wasanaethau hanfodol, a

- dull atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth anhwylderau cyffredin, rhoi’r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth ategol cyflenwau meddyginiaethau brys.

# 13 Ardal Dwyrain Conwy

## 13.1 Ffeithiau allweddol

Conwy sydd â'r:

- boblogaeth hŷn gyda 28% o'r boblogaeth yn 65 neu'n hŷn
- canran uchaf o bobl 85 oed a hŷn, sef 4% o'r boblogaeth
- 37% o oedolion yn y boblogaeth yn siarad Cymraeg
- cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol ail uchaf
- gyda Sir y Fflint, gan Gonwy y mae'r disgwyliad einioes uchaf i wrywod, sef 79.3 oed (a'r pedwerydd awdurdod uchaf yng Nghymru)
- yr ail ddisgwyliad einioes iach i wrywod, sef 64.9 oed
- cyfradd ail isaf o farwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy
- caran uchaf o oedolion yn dweud bod eu hiechyd yn gyffredinol dda neu yn dda iawn – 76.35%
- caran uchaf o aelwydydd un person lle mae rhywun 65 oed neu hŷn yn byw – 7.8%
- caran ail uchaf o aelwydydd heb gar neu fan – 21.7%
- caran uchaf o'r boblogaeth sydd wedi ymddeol – 19.8%
- cyfradd isaf o farwolaethau oherwydd clefydau cardiofasgwlaidd fesul 100,000
- y nifer uchaf a ragamcanwyd o bobl 65 a hŷn gyda dementia yn 2030 a hefyd y cynnydd canrannol uchaf
- y gyfran uchaf o bobl oedd yn fywiog am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol - 62.7%
- canran isaf o oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew – 49.9%
- caran uchaf o oedolion sy'n smygu – 25.0%
- mae nifer y parciau carafán ar hyd y rhan sydd yng Nghonwy o arfordir y gogledd, yn enwedig yn Nwyrain Conwy, yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth yn ystod yr haf
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy yn nodi'r angen am 4,300 o gartrefi rhwng 2018 a 2033 ar gyfradd flynyddol o 290. Mae un o'r datblygiadau a nodwyd yn dod o fewn einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn:
    - Hen Golwyn – 450 uned rhwng 2024 a 2033

## 13.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae 12 fferyllfa yn yr ardal yn cael eu rhedeg gan chwe chontractwr gwahanol. O'r pum practis meddyg teulu, mae un yn dosbarthu i 10.0% o'i boblogaeth gofrestredig o un adeilad.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 69 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o’r map isod, mae’r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, tra bod adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 70 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod llai o gydberthynas rhwng lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau pob practis sy’n dosbarthu a lefelau amddifadedd.

**Map 71 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 88.7% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, a phob practis dosbarthu yn dosbarthu neu yn gweinyddu'n bersonol 3.7% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosberthir a'r rhai a weinyddir yn bersonol, ar sail y lefel gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio mai llai na 2% o'r eitemau a weinyddwyd yn bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

Mae rhan ddeheuol yr ardal nad yw o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa neu feddygfa sy'n dosbarthu yn rhostir mynyddig gydag ond ychydig dai a ffermydd gwasgaredig.

**Map 72 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae un ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Mae chwech ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn,
- Mae pedwar ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, ac
- Un yn agor o ddydd Llun tan ddydd Sul, ym Mae Colwyn.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae pedair yn agor am 08.30 a'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30 gydag un fferyllfa ym Mae Colwyn yn aros ar agor tan 20.00.

Mae chwe fferyllfa yn cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 12.30 a 14.00. Mae gweddill y fferyllfeydd yn aros ar agor drwy'r dydd.

Ar Sadyrnau, mae un fferyllfa yn agor am 08.30 a'r gweddill am 09.00. O'r pum fferyllfa sy'n aros ar agor drwy'r dydd, mae tair yn cau am ginio ar wahanol amseroedd rhwng 13.00 a 14.00. Maent yn cau rhwng 17.00 a 18.00.

Mae'r fferyllfa sy'n agor ar y Sul yn agor rhwng 10.00 a 16.00.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Mae'r atebion yn cael eu casglu at ei gilydd a bydd y bwrdd iechyd yn edrych i weld a oes unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth ai peidio. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i'r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny.

Mae 11 o'r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac y mae ganddynt ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae'r 12 ardal ymgynghori yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd tair fferyllfa fod y staff yn siarad Cymraeg. Mae gan un o'r fferyllfeydd hyn hefyd staff all siarad Eidaleg.

Mae'r holl fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn.

Mae'r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddyg teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae deg yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais a dwy yn darparu'r gwasanaeth am ffi,
- mae dwy fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a
- dywedodd un ei bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i gleifion caeth i'w tai a'r rheiny sydd mewn cartrefi gofal.

Awgrymodd dwy fferyllfa wasanaethau presennol nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yn yr ardal:

- profion diabetes a cholesterol,
- darparu'r gwasanaeth rhagnodwr annibynnol i gyflyrau aciwt unwaith i'r hyfforddiant gael ei gwblhau, gan weithio gyda phob practis yn lleol, a
- gwasanaethau am heintiau wrinol a heintiau'r gwddf.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau am well gwasanaethau newydd nad ydynt ar gael ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd wyth o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu; dywedodd dwy nad ydynt yn gwneud hyn ond y gallant wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw, a dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon o allu ac y buasent yn cael anhawster ymdopi â chynnydd yn y galw.

Mae gan bedair fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau maent yn ddarparu:

- clinigau colli pwysau
- darparu'r gwasanaeth profi a thrin dolur gwddf unwaith iddo gael ei gomisiynu,
- ceisio caniatâd cynllunio i ddatblygu'r adeiladau,
- fferyllydd i ymgymryd â'r gwasanaeth rhagnodwr annibynnol, ac
- ail-drefnu'r fferyllfa ac ehangu'r adeiladau gyda'r posibilrwydd o gael dwy ystafell ymgynghori.

Atebodd y practis sy'n dosbarthu yr holiadur i feddygon sy'n dosbarthu:

- mae'r feddygfa ar agor o 08.30 tan 18.00 bob dydd o'r wythnos ac eithrio am ddydd Mercher pan fydd yn cau am 13.00
- o ran teclynnau, mae'n dosbarthu gorchuddion clwyfau yn unig
- mae staff y feddygfa'n siarad Cymraeg
- mae ganddi ddigon o allu yn yr adeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw.

### 13.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd yr holl fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gyda saith yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19 a dwy yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd

bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 73 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 13.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 yr oedd naw o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gan gynyddu i 11 yn 2019/20 gyda dim un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 74 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, yr oedd 11 o’r fferyllfeydd wedi darparu cyfanswm o 232 o adolygiadau.

### 13.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 13.2.4 Addasu teclynnau stoma

Yr oedd un fferyllfa yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, 2019/20 a 2020/21. Ni ddarparodd yr un fferyllfa arall mo’r gwasanaeth er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 13.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 75 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae pob un wedi’u comisiynu yn 2021/2022.

### 13.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi’r gorau i smygu

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 76 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae pob un wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 13.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 77 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae 11 wedi'i comisiynu yn 2021/22.

### 13.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 78 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd deg o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Yn Awst 2021 roedd pump o'r fferyllfeydd wedi arwyddo i ddarparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, disgwylir i hyn newid a bydd nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth yn 2021/22 un ai yr un fath neu'n fwy, na'r llynedd.

### 13.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 79 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Maent i gyd wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 13.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 80 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Maent i gyd wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 13.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd deg o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, a deg yn 2021/22.

### 13.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd wyth o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21, ac wyth yn 2021/22.

### 13.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae un wedi ei gomisiynu yn 2021/22.

### 13.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac nid oes yr un wedi ei gomisiynu yn 2021/22.

### 13.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac maent i gyd wedi eu comisiynu yn 2020/21.

## 13.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan feddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill ai gan y deg fferyllfa yn yr ardal neu'r pum practis sy'n dosbarthu, dosbarthwyd 6.9% y tu allan i'r ardal:

- 3.8% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Sir Ddinbych,
- 2.6% gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Conwy, a
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 13.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin
- Mae un practis yn gwaredu nodwyddau cleifion.

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 13.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 13.2 a 13.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 120 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd 12 yn yr ardal,
- yr oedd 93 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- yr oedd 10 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 13.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 13.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar hyd yr arfordir, mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth ar ei ddwysaf ac yn gyffredinol, lle mae amddifadedd yn uwch.
- Nid yw man yng nghornel dde-orllewinol yr ardal o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa; fodd bynnag, ardal o rosdiredd gwledig yw hon, gyda dim ond ychydig o dai/ffermydd gwasgaredig.
- Mae un datblygiad tai hysbys ar y gweill yn ystod einioes y ddogfen hon a fydd yn golygu codi hyd at 450 o dai newydd erbyn 2033.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru

ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu unrhyw oriau agor estynedig ar hyn o bryd.
- Mae poblogaeth yr ardal yn cynyddu yn ystod tymor y gwyliau oherwydd mewnlifiad o ymwelwyr a thwristiaid.

Ar sail yr uchod, nododd y bwrdd iechyd fod angen cyfredol am i fferyllfa yn Nhywyn fod ar agor am chwe diwrnod yr wythnos gydag isafswm o dair o oriau agor craidd naill ai ar Sadyrnau neu ar y Sul.

Mae angen presennol i'r fferyllfa hon ddarparu'r gwasanaethau a ganlyn o'r pwynt iddi gael ei chynnwys ar y rhestyr fferyllol:

- Pob gwasanaeth hanfodol,
- Y gwell gwasanaethau, sef atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, y gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu a helpa fi i stopio @ fferyllfa.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd i'r fferyllfa Llandrillo yn Rhos dynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn Llandrillo yn Rhos sy'n darparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy'n golygu bod llai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaeth fferyllol o fewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol ddarpariaeth am wasanaethau hanfodol am dri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y tref/pentref neu drefi/pentrefi lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol un ai:

- y gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i'w ddarparu i'r ardal honno tra'r erys yn ardal reoledig a'i bod dros 1. 6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel lleiafswm, yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - a'r gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth mân anhwylderau, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi i stopio @fferyllfa, a gwasanaeth estynedig brys cyflenwi meddyginiaethau

### 13.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd saith fferyllfa yn darparu'r uchafswm nifer o adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth dwy hyn yn 2019/20.

- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 13.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd naw o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 13.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 13.6.5 Addasu teclynnau stoma

Darparodd un fferyllfa y gwasanaeth hwn dros y tair blynedd ddiwethaf. Nododd y bwrdd iechyd noted fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu’r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 13.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd 8 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ac eithrio yng nghyswllt Tywyn (gweler adran 13.6.1 uchod).

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng oherwydd i’r fferyllfa Llandrillo yn Rhos gau y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy’n darparu’r gwell gwasanaeth hwn yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa a gaeodd.

### 13.6.7 Lefel 2 rhoi’r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi’r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd 8 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru

ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ac eithrio yng nghyswllt Tywyn (gweler adran 13.6.1 uchod).

### 13.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ac eithrio yng nghyswllt Tywyn (gweler adran 13.6.1 uchod).

### 13.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd deg o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 13.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant

wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ac eithrio yng nghyswllt Tywyn (gweler adran 13.6.1 uchod).

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin oherwydd i fferyllfa Llandrillo yn Rhos gau y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu'r gwell gwasanaeth hwn yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 13.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnahodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ac eithrio yng nghyswllt Tywyn (gweler adran 13.6.1 uchod).

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng oherwydd i fferyllfa Llandrillo yn Rhos gau y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref sy'n darparu'r gwell gwasanaeth hwn yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 13.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd deg o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 13.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd wyth o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd od ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 13.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 13.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy'n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Nid oes yr un o'r fferyllfeydd wedi eu comisiynu ar hyn o bryd; fodd bynnag y mae fferyllwyr yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o'r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â'r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes

y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.

- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 13.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 8 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai un heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw; fodd bynnag, mae dwy fferyllfa arall yn agos iawn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 13.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol un ai:

- y gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i'w ddarparu i'r ardal honno tra'r erys yn ardal reoledig a'i bod dros 1. 6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel lleiafswm, yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - a'r gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth mân anhwylderau, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi i stopio@fferyllfa, a gwasanaeth estynedig brys cyflenwi meddyginiaethau

# 14 Ardal Gogledd Sir Ddinbych

## 14.1 Ffeithiau allweddol


- Y gyfran uchaf o'r boblogaeth o gefndir heb fod yn Wyn, sef 3.4%
- Y gyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y 10% mwyaf difreintiedig,
- Cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol uchaf
- Disgwyliad eisoes isaf i wrywod, sef 77.8 oed
- Disgwyliad einioes ail isaf i fenywod, sef 81.8 oed
- Disgwyliadau einioes ail isaf i wrywod a menywod, sef 63.4 a 81.8 oed
- Cyfradd uchaf o farwolaethau cynamserol o glefydau anhrosglwyddadwy allweddol, a'r gyfradd drydedd uchaf yng Nghymru
- 21.0% o aelwydydd heb allu defnyddio car neu fan
- Canran isaf o oedolion 16 neu hŷn sy'n dweud fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn
- Canran uchaf o rai sydd â salwch tymor-hir neu'n anabl ac economaidd anweithredol, 6.0%
- Y gyfran uchaf o ofalwyr di-dâl, sef 12.4%
- Cyfradd uchaf o farwolaethau oherwydd clefydau cardiofasgwlaidd
- Yng Ngogledd Sir Ddinbych y mae'r mwyaf o ddiabetes, ynghyd â Dwyrain Conwy (7.1%)
- Cyfradd isaf o foddhad gyda bywyd ymysg oedolion o oedran gwaith, 80.8%
- Cyfradd ail uchaf o farwolaethau oherwydd clefydau resbiradol, wedi Wrecsam
- Cyfradd uchaf o feichiogrwydd ymysg yr arddegau
- Canran isaf o yfwyr niweidiol
- Canran isaf o drigolion sydd debygol o fod wedi bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, sef 17.5%
- Mae nifer y parciau carafanau ar hyd y rhan o arfordir y gogledd sydd yng Ngogledd Sir Ddinbych yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth yn ystod yr haf
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych[44] yn nodi'r angen am 3,775 o uned tai rhwng 2018 a 2033. Yn ôl Adroddiad Monitro Blynyddol 2020, mae 2,708 eto i'w codi. Rhagwelir mai ym Modelwyddan y bydd 45% o'r 3,775. Mae hyn yn cyfateb i gryn ehangu ar y pentref, ac yn ogystal â thai, bydd yn cynnwys cartref gofal gyda hyd at 80 o welyau, 50 fflat gofal agos, gwesty, ysgol gynradd newydd, gwaith a dwy ganolfan leol. Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2020 yn rhagweld y bydd y tai yn cael eu codi o 2026 ymlaen.

## 14.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae 15 o fferyllfeydd yn yr ardal yn cael eu rhedeg gan naw contractwr gwahanol. Nid oes yr un o'r chwe phractis yn dosbarthu. Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau pob practis sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

[44] Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ac Adroddiadau Monitro Blynyddol

**Map 81 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o’r map isod, mae’r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 82 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod mwy o gydberthynas rhwng lleoliad y fferyllfeydd a lefelau amddifadedd.

**Map 83 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 95.0% % o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Fel y gellir gweld, mae'r ardal gyfan o fewn taith ddeng munud o fferyllfa.

**Map 84 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae tair ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Saith ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, ac am ran o ddydd Sadwrn,
- Tair ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, a
- Dwy ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sul, un ym Modelwyddan ac un ym Mhrestatyn.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae tair yn agor am 08.30, un yn agor am 08.45 a'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.00 gydag un fferyllfa ym Mhrestatyn yn aros ar agor tan 20.00 a'r un ym Modelwyddan tan 22.00. Mae un fferyllfa yn cau am 13.00 ar ddydd Mercher.

Mae 12 fferyllfa yn cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 12.45 a 14.15. Mae gweddill y fferyllfeydd yn aros ar agor drwy'r dydd.

Ar Sadyrnau, mae un fferyllfa yn agor am 08.30, un am 08.45 a deg am 09.00. O'r pump fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae tair yn cau am ginio rhwng 12.45 a 14.00.Mae un fferyllfa yn cau am 17.00, dwy am 17.30, un am 19.00 ac un am 22.00.

Mae'r ddwy fferyllfa sydd ar agor ar y Sul rhyngddynt yn agor rhwng 08.45 a 22.00.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a'r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i'r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny.

Mae 14 o'r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac o'r rhain mae gan naw ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae gan 14 fferyllfa ardaloedd ymgynghori sydd yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Mae un fferyllfa heb ardal ymgynghori, ond cadarnhaodd fod ganddynt drefniadau amgen ar gyfer trafodaethau cyfrinachol.

Cadarnhaodd pum fferyllfa fod y staff yn siarad Cymraeg. Mae gan un hefyd staff sy'n siarad Pwyleg a Hebraeg. Mae gan fferyllfeydd eraill staff all siarad:

- Cantoneg,

- Mandarin ar adegau, a
- Pwyleg.

Mae 14 o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn, a'r bymthegfed yn dosbarthu popeth ond teclynnau anymataledd.

Mae'r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddyg teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae saith yn darparu gwasanaeth cludo am ddim o wneud cais, a phedair yn darparu'r gwasanaeth am ffi,
- mae chwe fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a
- dywedodd wyth eu bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (yr henoed, anabl, pobl â phroblemau teithio, pobl fregus neu rai sy'n hunan-ynysu, yn ôl doethineb y fferyllfa, y sawl nad oes ganddynt neb i gasglu drostynt, y rhai caeth i'w tai neu dan amgylchiadau anarferol ac mewn argyfyngau).

Cafwyd awgrymiadau am wasanaeth presennol nad yw ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu yn yr ardal:

- Rheoli meddyginiaethau a chefnogaeth gyda chydymffurfio
- Lefel 3 rhoi'r gorau i smygu (Varenicline)
- Byddai ychwanegiad i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin i gyflenwi gwrthfiotigau ar gyfer heintiau'r llwybr wrinol - fel sydd ar gael yn Lloegr - yn ddefnyddiol gan y byddai o les i gleifion ac yn ysgafnhau'r pwysau ar feddygfeydd.

Yr oedd dwy fferyllfa o'r farn fod gofyn am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd:

- Camddefnyddio alcohol,
- Cwnsela ar golli pwysau,
- Profi a thrin heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, a
- Brechu oedolion, yn benodol niwmonia, yr eryr a hepatitis B.

Cadarnhaodd deg fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu, a dywedodd tair nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw. Dywedodd dwy fferyllfa nad oes ganddynt ddigon o staff na lle yn yr adeiladau, ac y buasent yn cael anhawster ymdopi â chynnydd yn y galw.

Mae gan chwe fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau maent yn ddarparu:

- Trafodaethau ar y gweill i symud i adeiladau newydd a mwy
- Ystafell ymgynghori newydd a mwy.
- Ystyried ail ystafell ymgynghori
- Y fferyllydd yn ymgymryd â'r cwrs rhagnodi


- Brechu rhag Covid pan ddaw ar gael
- Gall gynnwys gwasanaeth dolur gwddf yn y dyfodol ar ôl hyfforddiant.

### 14.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 and 2019/20 yr oedd 14 o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gyda saith yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19 ac un yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 85 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 14.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 a 2019/20, yr oedd deg fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn, a dim un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 86 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, yr oedd deg o'r fferyllfeydd wedi darparu 193 adolygiad.

### 14.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

#### 14.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

#### 14.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 87 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 12 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac mae 12 wedi'u comisiynu ar gyfer 2021/22.

### 14.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 88 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 12 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae tair ar ddeg wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 14.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 89 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 13 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae 13 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 14.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 90 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 14 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Ar Awst 2021 roedd pedair fferyllfa wedi arwyddo i ddarparu'r gwasanaeth, fodd bynnag disgwylir hyn i newid a bydd y nifer o'r fferyllfeydd fydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2021/22 yr un fath, neu yn uwch na'r llynedd.

### 14.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 91 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 14 o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21, ac mae 14 wedi’u comisiynu yn 2021/22.

### 14.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 92 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn 2020/21, a byddent yn parhau i wneud hynny yn 2021/22.

### 14.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd 12 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae 12 wedi'u comisiynu yn 2021/22..

### 14.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd pump o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi hawlio am y gwasanaeth yn 2020/21. Mae pump wedi'u comisiynu yn 2021/22.

#### 14.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae un wedi'i chomisiynu yn 2021/22.

#### 14.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth cyflyrau llym, a chomisiynwyd dwy ohonynt hefyd i ddarparu'r gwasanaeth atal cenhedlu yn 2020/21. Mae'r un niferoedd wedi'u comisiynu yn 2021/22.

#### 14.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn 2020/21, a byddant yn parhau i'w ddarparu yn 2021/22.

### 14.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan feddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu gan y 15 fferyllfa yn yr ardal, dosbarthwyd 3.9% y tu allan i'r ardal:

- 2.3% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy,
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.5% gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Conwy,
- 0.3% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Orllewin Sir y Fflint,
- 0.1% yng Nghanol a De Sir Ddinbych, a
- 0.1% yn rhywle arall yng Nghymru.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

### 14.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 14.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 14.2 a 14.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 130 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd 15 yn yr ardal,
- 102 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 14 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 14.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 14.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal ac y maent mewn mannau lle mae dwysedd y boblogaeth fwyaf ac amddifadedd ar ei uchaf.
- Mae'r ardal gyfan o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa.
- Bydd ehangu Bodelwyddan yn cychwyn yn 2026, gyda rhyw 1,700 o dai wedi eu codi unwaith i'r datgblygiad gael ei gwblhau.

- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu unrhyw oriau agor estynedig ar hyn o bryd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa yn ôl o restr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i'r Rhyl a Phrestatyn (ar wahân i Fodelwyddan) y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd, petae'r fferyllfa ym Modelwyddan yn tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol, y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn y dref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod yr oriau agor craidd fel a ganlyn:

- O leiaf deg o oriau agor craidd y dydd o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Chwech o oriau agor craidd ar Sadyrnau, a
- Chwech o oriau agor craidd ar y Sul.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid unrhyw oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy'n arwain at lai na tair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref y bydd angen yn y dyfodol am ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol ar gyfer tri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

### 14.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal yr oedd yn cael ei ddarparu gan 14 o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd saith fferyllfa yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth un hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 14.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Nine o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 14.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 14.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 14.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ond nid oes yr un yn ei ddarparu yng nghornel dde-orllewinol yr ardal.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y ddarpariaeth o wasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Ar sail yr uchod, nododd y bwrdd iechyd fod bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth hwn ym Modelwyddan. Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn cysylltiad â'r diffyg o ran y gwasanaethau uwch. Fodd bynnag, pe na fydd y bwlch yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2023 fe fydd angen yn y dyfodol am ddarparu'r gwasanaeth hwn ym Modelwyddan, saith diwrnod yr wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- chwe awr ar Sadyrnau i gynnwys 13.00 i 15.00, a
- thair awr ar y Sul ar ôl hanner dydd.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i'r Rhyl a Phrestatyn y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 14.6.7 Lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ond nid oes yr un wedi ei ddarparu yng nghornel dde-orllewinol yr ardal. Mae hyn wedi newid yn dilyn hyn yn 2021/22.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol neu yn y dyfodol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

### 14.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir 13 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 14.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 14 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ond nid oes yr un yn ei ddarparu yng nghornel dde-orllewinol yr ardal.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nododd y bwrdd iechyd fod bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth hwn yn Modelwyddan. Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn cysylltiad â diffyg y gwasanaethau uwch hyn. Fodd bynnag pe na bai'r bwlch yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2023 fe fydd angen yn y dyfodol am ddarparu'r gwasanaeth hwn ym Modelwyddan, saith diwrnod yr wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- chwe awr ar Sadyrnau i gynnwys 13.00 i 15.00, a
- thair awr ar y Sul ar ôl hanner dydd.

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion yn y dyfodol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

### 14.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 14 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ond nid oes yr un yn ei ddarparu yng nghornel dde-orllewinol yr ardal.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol o ran darpariaeth y gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Ar sail yr uchod, nododd y bwrdd iechyd fod bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth hwn yn Modelwyddan. Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn cysylltiad â diffyg y gwasanaethau uwch hyn. Fodd bynnag pe na bai'r bwlch yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2023 fe fydd angen yn y dyfodol am ddarparu'r gwasanaeth hwn ym Modelwyddan, saith diwrnod yr wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- chwe awr ar Sadyrnau i gynnwys 13.00 i 15.00, a
- thair awr ar y Sul ar ôl hanner dydd.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i'r Rhyl a Phrestatyn y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 14.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i'r Rhyl a Phrestatyn y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 14.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 12 fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 14.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd pum fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 14.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 14.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy'n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Comisiynwyd tair fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth cyflyrau aciwt, a chomisiynwyd dwy o'r rhain hefyd i ddarparu'r gwasanaeth atal cenhedlu yn 2020/21.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o'r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â'r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 14.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 10 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae tair heb ddigon o allu ond fe allant wneud addasiadau i ymdopi â chynnydd yn y galw, a byddai dwy heb fedru ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

# 15 Ardal Canol a De Sir Ddinbych

## 15.1 Ffeithiau allweddol

- Y gyfran uchaf o'r boblogaeth o gefndir heb fod yn Wyn, sef 3.4%
- Y gyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y 10% mwyaf difreintiedig,
- Cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol uchaf
- Disgwyliad eisoes isaf i wrywod, sef 77.8 oed
- Disgwyliad einioes ail isaf i fenywod, sef 81.8 oed
- Disgwyliadau einioes ail isaf i wrywod a menywod, sef 63.4 a 81.8 oed
- Cyfradd uchaf o farwolaethau cynamserol o glefydau anhrosglwyddadwy allweddol, a'r gyfradd drydedd uchaf yng Nghymru
- Canran isaf o oedolion 16 neu hŷn sy'n dweud fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn
- Canran uchaf o rai sydd â salwch tymor-hir neu'n anabl ac economaidd anweithredol, 6.0%
- Y gyfran uchaf o ofalwyr di-dâl, sef 12.4%
- Cyfradd uchaf o farwolaethau oherwydd clefydau cardiofasgwlaidd
- 21.0% o aelwydydd heb allu defnyddio car neu fan
- Cyfradd isaf o foddhad gyda bywyd ymysg oedolion o oedran gwaith, 80.8%
- Cyfradd ail uchaf o farwolaethau oherwydd clefydau resbiradol, wedi Wrecsam
- Cyfradd uchaf o feichiogrwydd ymysg yr arddegau
- Canran isaf o yfwyr niweidiol
- Canran isaf o drigolion sydd debygol o fod wedi bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, sef 17.5%
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych[45] yn nodi angen am 3,775 o unedau tai rhwng 2018 a 2033. Yn ôl Adroddiad Monitro Blynyddol 2020, mae 2,708 eto i'w codi. Bydd mwyafrif yr unedau hyn yn cael eu hadeiladu yng Ngogledd Sir Ddinbych.


## 15.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae saith fferyllfa yn yr ardal, yn cael eu rhedeg gan bedwar contractwr gwahanol. O'r wyth practis meddyg teulu, mae chwech yn dosbarthu o gyfanswm o chwe adeilad. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 38.4% i 52.7% o boblogaethau cofrestredig pob practis.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau pob practis sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

[45] Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ac Adroddiadau Monitro Blynyddol

**Map 93 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu**




Pharmacies


Dispensing practice premises

© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o'r map isod, mae'r fferyllfeydd ac adeiladau'r meddygfeydd sy'n dosbarthu wedi eu lleoli, gydag un eithriad, yn yr ardaloedd lle mae'r boblogaeth ddwysaf. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 94 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod llai o gydberthynas rhwng lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu a lefelau amddifadedd.

**Map 95 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 55.7% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal, ac yr oedd pob practis dosbarthu wedi dosbarthu neu weinyddu'n bersonol 35.8% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac a weinyddwyd yn bersonol, ar sail lefel y gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio mai llai na 2% o eitemau a weinyddwyd yn bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Dylid nodi lle mae adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

Datgela Google maps fod yr ardaloedd o gwmpas Nilig ac i'r de o Ben-y-Stryt yn wledig eu natur, gyda rhai tai/ffermydd gwasgaredig a safleoedd gwersylla. Nid oes


poblogaeth yn byw yn yr ardal i’r de o Lyndyfrdwy nac yn yr ardal i’r dwyrain o Landrillo.

Mae’r ardal i’r dwyrain o’r Sarnau yn cynnwys rhai tai/ffermydd gwasgaredig; felly hefyd yr ardal i’r de-ddwyrain o Landrillo.

**Map 96 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829




Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae’r fferyllfeydd ar agor:

- Mae un ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Pedair ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, ac am ran o ddydd Sadwrn, a
- Dwy ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn.

O ran yr amseroedd pan mae’r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- maent oll yn agor am 09.00,
  mae amseroedd cau naill ai yn 17.30 neu 18.00.

Comisiynir y ddwy fferyllfa yn Rhuthun i aros ar agor yn hwy ar ddydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener bob yn ail wythnos.

Mae pob un fferyllfa yn cau am ginio ar amrywiol adegau rhwng 12.30 a 14.00.

Ar Sadyrnau, mae’r chwech fferyllfa yn agor am 09.00. Mae’r ddwy fferyllfa sydd ar agor drwy’r dydd yn cau am ginio, a’r ddwy yn cau am 17.30.

Does yr un fferyllfa ar agor ar y Sul.

Mae’r bwrdd iechyd yn gofyn i’r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a’r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai’n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i’r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o’r ymatebion hynny.

Mae saith o’r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac o’r rhain, mae gan bump ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae’r saith ardal ymgynghori hyn yn:

- stafelloedd caeedig,

- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Mae un fferyllfa heb ardal ymgynghori, ond mae ganddi drefniadau amgen ar gyfer trafodaethau cyfrinachol.

Cadarnhaodd pedair fferyllfa fod y staff yn siarad Cymraeg, a chan un hefyd staff sy'n medru iaith arwyddo. Mae gan un fferyllfa staff sy'n siarad Pwyleg.

Mae'r holl fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o declynnau.

Mae'r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddygon teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae saith yn darparu gwasanaeth cludo am ddim o wneud cais,
- mae un fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a
- dywedodd dwy eu bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (y bregus a'r rhai caeth i'w tai).

Ni chafwyd awgrymiadau am wasanaeth presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal, ac nid oes galw am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd saith fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu, a dywedodd un nad oes ganddynt y gallu, ond y byddai modd iddynt wneud addasiadau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw.

Mae gan un fferyllfa gynlluniau i dyfu ei gwasanaeth gofal rhagnodydd annibynnol.

Ymatebodd pedwar o'r chwe phractis sy'n dosbarthu i'r holiadur meddygon dosbarthu, a chymerir y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hyn. Maent yn darparu gwasanaethau dros bum adeilad.

Mae'r pedair meddygfa sy'n dosbarthu ar agor drwy'r dydd, gan agor naill ai am 08.00 neu 08.30 ac yn cau naill ai am 18.00 neu 18.30.

O ran dosbarthu presgripsiynau am declynnau, maent oll yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn.

Mae pedwar yn darparu gwasanaeth cludo. Mae un yn darparu'r gwasanaeth i'r henoed, y sawl sy'n cysgodi a chleifion bregus (gall hyn barhau ar ôl y pandemig); un arall yn darparu'r gwasanaeth yn ôl doethineb y meddyg teulu. Mae practis arall yn cludo i bedair siop mewn ardaloedd gwledig ac yn cludo i gleifion sydd yn cysgodi.

Mae gan y pedwar practis staff fedr siarad Cymraeg.

Mae gan y pedwar practis ddigon o allu i reoli'r cynnydd yn y galw yn eu hardal.

Dywedasant y byddant yn gwneud y newidiadau isod i'w gwasanaeth dosbarthu a fydd yn ystyried y "normal newydd":

- Darparu gwasanaeth cludo,
- Mwy o archebu meddyginiaethau ar-lein gan gleifion, a
- Llwyfannau ar-lein i gyfathrebu gyda chleifion.

### 15.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 yr oedd saith o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gyda thair yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19. Yr oedd chwech yn ei ddarparu yn 2019/20 gydag un yn darparu'r uchafswm. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; fodd bynnag, rhagwelir, unwaith yr adferir y gwasanaeth, y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 97 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 15.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 a 2019/20, yr oedd pump o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, a dim un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 98 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd pob un o’r fferyllfeydd y gwasanaeth gan ddarparu 167 adolygiad.

### 15.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 15.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 15.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 99 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**



© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd chwech o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae chwech wedi’u comisiynu yn 2021/22.

### 15.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi’r gorau i smygu

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 100 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi’r gorau i smygu yn 2019/20**



© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd chwech o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae chwech wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 15.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 101 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**



© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Mae pump wedi’u comisiynu yn 2021/22.

**15.2.8 Brechu rhag y ffliw**

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 102 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Yn Awst 2021 roedd dau o'r fferyllfeydd wedi arwyddo i ddarparu'r gwasanaeth, fodd bynnag disgwylir i hyn newid a bydd y nifer o fferyllfeydd fydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2021/22 yr un fath â'r llynedd.

### 15.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 103 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd pob un o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae pob un wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 15.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 104 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829
Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21 a byddant yn parhau i wneud hynny yn 2021/22.

### 15.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 a byddant yn parhau i wneud hynny yn 2021/22.

### 15.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd tair o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae tair wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 15.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, a dyma'r achos hefyd ar gyfer 2021/22.

### 15.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth cyflyrau llym yn 2020/21, a bydd yn parhau i wneud hynny yn 2021/22

### 15.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 a byddant yn parhau i wneud hynny yn 2021/22.

## 15.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan feddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill ai gan y deg fferyllfa yn yr ardal neu'r chwe phractis sy'n dosbarthu, dosbarthwyd 8.2% y tu allan i'r ardal:

- 5.0% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Sir Ddinbych,
- 1.4% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 1.0% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy,
- 0.6% gan fferyllfeydd yn ne Sir y Fflint, a
- 0.1% gan fferyllfeydd yn rhywle arall yng Nghymru.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 15.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin
- Mae dau bractis yn gwaredu nodwyddau cleifion.

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Mae un practis meddyg teulu yn Rhuthun, sy'n dosbarthu i ryw hanner ei gleifion cofrestredig, i fod i symud i adeiladau newydd ym mis Hydref 2021. Ni ragwelir y bydd hyn yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 15.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 15.2 a 15.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 140 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd wyth yn yr ardal,

- 112 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 19 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 15.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 15.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae’r fferyllfeydd wedi’u gwasgaru ar hyd yr ardal ac wedi eu lleoli yn y mannau lle mae’r boblogaeth ddwysaf ac amddifadedd yn uwch.
- Mae rhai rhannau o’r ardal heb fod o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa; fodd bynnag, naill ai nid oes neb yn byw yno, neu nad oes ond ychydig o dai gwasgaredig yn y mannau hynny.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu unrhyw oriau agor estynedig ar hyn o bryd

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa yn ôl o restr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Ddinbych a Rhuthun y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy’n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasnaethau fferyllol o fewn tref/pentref y bydd angen yn y dyfodol am ddarparu gwasanaethau hanfodol am dri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y tref/pentref neu drefi/pentrefi lle lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

Mae’r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu’n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i’r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i’r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol reoledig ac sy’n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o’r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi’r gorau i smygu, helpa fi i stopio @

fferyllfa, a gwasanaeth uwch gyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

### 15.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan chwech o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd tair fferyllfa yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth un hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd saith o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does yr un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth yng ngogledd yr ardal.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn yr ardal leol.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn perthynas â'r diffyg hwn yn Llanelwy. Fodd bynnag, pe na bai'r bwlch hwn yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2023, fe fydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau hyn cael eu darparu yn Llanelwy o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Ddinbych a Rhuthun y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 15.6.7 Lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd chwe ffferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does yr un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth yng ngogledd yr ardal.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn perthynas â'r diffyg hwn yn Llanelwy. Fodd bynnag, pe na bai'r bwlch hwn yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2023, fe fydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau hyn cael eu darparu yn Llanelwy o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm.

### 15.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu; fodd bynnag, nid oes practis yng Nghaerwys.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu; fodd bynnag, nid oes practis yng Nghaerwys.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn yr ardal leol.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i Ddinbych a Rhuthun y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 15.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn yr ardal leol.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Ddinbych a Rhuthun y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 15.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd tair o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu’r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu’r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i’w ddarparu.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy’n darparu’r gwasanaeth.
- Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw’r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy’n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Comisiynir un fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth cyflyrau aciwt.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o’r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â’r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y

gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 15.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 12 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 15.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu'n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i'r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch gyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

# 16 Ardal Gogledd Orllewin Sir y Fflint

## 16.1 Ffeithiau allweddol

- Gan Sir y Fflint y mae'r boblogaeth fwyaf o'r holl awdurdodau lleol, sef 156,100
- Y dwysedd poblogaeth fwyaf fesul kilometr sgwâr, sef 355.6 o bobl
- Mae 19% o'r boblogaeth yn 15 oed neu'n iau (y gyfran fwyaf gyda Wrecsam)
- Cyfran isaf o oedolion sy'n siarad Cymraeg, 10.74%
- Y gyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y 50% mwyaf difreintiedig, ond y gyfran isaf o ran y parth 'mynediad at wasanaethau'
- Enillion wythnosol gros cyfartalog uchaf, sef £553 sydd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol ail isaf
- Gyda Chonwy, gan Sir y Fflint y mae'r disgwyliad einioes uchaf i wrywod, sef 79.3 mlynedd (a'r awdurdod lleol pedwerydd uchaf yng Nghymru)
- Y gyfran ail uchaf o oedolion sy'n dweud fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn
- Y ganran isaf o aelwydydd gydag un person, sef 11.5%
- Y gyfran isaf o aelwydydd heb gar neu fan, 17.0%, ond y gyfran uchaf hefyd o aelwydydd gyda dau neu fwy o geir (41.1% sydd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Y ganran uchaf o bobl mewn gwaith, 63.7%
- Gyda Gwynedd, y ganran isaf o bobl sydd â salwch tymor-hir neu sy'n anabl ac yn economaidd anweithredol
- Y nifer uchaf o safleoedd carafanau awdurdodedig a heb awdurdod
- Y gyfradd uchaf o bobl sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref
- Y gyfradd ail uchaf o glefydau llidus fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Y gyfradd uchaf o foddhad â bywyd ymysg oedolion o oedran gwaith ar 85.6% ond y gyfradd isaf o foddhad ymysg pobl hŷn, sef 85.7%
- Cyfran isaf o bobl sy'n teimlo'n unig
- Y gyfradd ail uchaf o farwolaethau oherwydd clefydau resbiradol fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Y ganran uchaf o bobl sydd debygol o fod wedi bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, sef (31.4%)
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn nodi'r angen am 6,950 o gartrefi yn ystod ei einioes (2015 i 2030) gyda chyfartaledd o 463 uned y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 2,315 uned yn ystod einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn. Nodwyd dau safle strategol allweddol a fydd yn cyflwyno 1,625 o unedau tai, 23% o gyfanswm y cynllun. Mae'r naill a'r llall o fewn Ogledd Ddwyrain Sir y Fflint - safle ddatblygu defnydd cymysg Porth y Gogledd (1,325 uned) a safle ddatblygu defnydd cymysg Warren Hall (300 uned).

## 16.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae naw o fferyllfeydd yn yr ardal, yn cael eu rhedeg gan chwe chontractwr gwahanol. Mae un o'r fferyllfeydd yn rhan o'r cynllun fferyllfa fach hanfodol. O'r saith

practis meddyg teulu, mae tri yn dosbarthu o gyfanswm o dri adeilad. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 28.0% i 51.4% o boblogaethau cofrestredig pob practis.

Mae’r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau pob practis sy’n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a’r meddygfeydd sy’n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 105 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o’r map isod, mae’r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, tra bod adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 106 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod fferyllfeydd hefyd wedi eu lleoli fel rheol mewn ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd.

**Map 107 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 70.8% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, ac yr oedd pob practis dosbarthu wedi dosbarthu neu weinyddu yn bersonol 23.1% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac a weinyddwyd yn bersonol, ar sail lefel y gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio bod llai na 2% o eitemau wedi eu gweinyddu'n bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Fel y gellir gweld, mae'r ardal gyfan o fewn taith 20 munud o fferyllfa neu adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu.

**Map 108 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae un ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Mae pump ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, ac am ran o ddydd Sadwrn,
- Tair ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Maent oll yn agor am 09.00,
- Mae pedwar yn cau am 17.30 (un yn cau am 13.00 ar ddyddiau Mercher) a'r gweddill am 18.00 (un yn cau am 17.30 ar ddyddiau Iau).

Mae chwe fferyllfa yn cau am ginio ar wahanol amseroedd rhwng 13.00 a 14.00. Mae gweddill y fferyllfeydd ar agor drwy'r dydd.

Ar Sadyrnau, mae wyth fferyllfa yn agor am 09.00. O'r tair fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae dwy yn cau dros ginio. Maent yn cau rhwng 16.30 a 17.30.

Does yr un fferyllfa yn agor ar y Sul.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a'r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i'r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny.

Mae'r holl fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac y mae gan bump hefyd ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae gan yr wyth ardaloedd ymgynghori sydd yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd un fferyllfa fod y staff yn siarad Cymraeg. Cadarnhaodd fferyllfa arall fod y staff yn siarad Urdu, ac un arall fod y staff yn siarad Urdu, Punjabi a Hindi.

Mae'r holl fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn.

Mae saith o'r fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o feddygfa'r meddygon teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae chwech yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais, ac un yn darparu'r gwasanaeth am ffi,
- mae dwy fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a

- dwy yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (caeth i'w tai a bregus).

Cafwyd un awgrym am wasanaeth presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal, sef y gwasanaeth profi a thrin dolur gwddf.

Yr oedd un fferyllfa o'r farn fod angen am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, sef gwasanaeth rheoli pwysau.

Cadarnhaodd saith fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu, a dywedodd un nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Mae ailwampio un fferyllfa ar y gweill ar gyfer 2021/22.

Ymatebodd un practis sy'n dosbarthu i'r holiadur i feddygon dosbarthu a chymerir y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny.

- Mae gan y practis un fan dosbarthu sydd ar agor o 08.00 tan 18.00 ar ddyddiau'r wythnos;
- Mae'n dosbarthu presgripsiynau am bob teclyn;
- Mae staff y feddygfa yn siarad Cymraeg; ac
- Nid oes ganddi ddigon o adeiladau a gallu staffio ar hyn o bryd, ond gallai wneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw.

### 16.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd saith o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gyda phedair yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19 a thair yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 109 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 16.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 yr oedd pump o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn, gan ostwng i dair yn 2019/20, a dim un yn darparu’r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 110 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd chwe o’r fferyllfeydd gyfanswm o 86 o adolygiadau.

### 16.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 16.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 16.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 111 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd pump o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae chwech wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 16.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 112 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd chwech fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae pump wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 16.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 113 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth lefel 3 rhoi’r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd pump o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae pump wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 16.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 114 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Yn Awst 2021, nid oedd yr un fferyllfa wedi arwyddo i ddarparu’r gwasanaeth. Fodd bynnag, disgwylir i hyn newid a bydd y nifer o fferyllfeydd sydd yn darparu’r gwasanaeth yn 2021/22 un ai yr un fath neu’n fwy, na’r llynedd.

### 16.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 115 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae wyth wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 16.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 116 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd wyth fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae wyth wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 16.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, a saith yn 2021/22.

### 16.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd pump o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae pump wedi eu comisiynu yn 2021/22.

#### 16.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Ni chomisiynir yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.

#### 16.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Nid oes yr un wedi eu comisiynu yn 2021/22.

#### 16.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd wyth fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae wyth wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 16.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan y meddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill gan yr wyth fferyllfa yn yr ardal neu'r tri phractis sy'n dosbarthu, dosbarthwyd 5.6% y tu allan i'r ardal:

- 1.4% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Conwy,
- 1.3% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint,
- 1.1% gan fferyllfeydd yng Nghanol a De Sir Ddinbych,
- 0.7% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint, a
- 0.5% gan gontractwyr yn Lloegr ac yng Ngogledd Sir Ddinbych.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

### 16.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy’n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy’n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 16.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 16.2 a 16.3, , mae’r sawl sy’n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o’r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae’r rhai sy’n edrych y tu allan i’r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 100 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O’r rhain:

- yr oedd naw yn yr ardal,
- 83 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- Pump yn rhywle arall yng Nghymru, a
- dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 16.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 16.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae’r fferyllfeydd yn gyffredinol mewn mannau lle mae’r boblogaeth ddwysaf ac amddifadedd yn uwch.
- Mae’r ardal gyfan o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu unrhyw oriau agor estynedig ar hyn o bryd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r gofrestr fferyllfeydd mewn tref/pentref sydd y tu allan i Dreffynnon a'r Fflint y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sydd yn golygu y bydd llai na tair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol am dri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y tref/pentref neu trefi/bentrefi lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol un ai:

- y gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i'w ddarparu i'r ardal honno tra'r erys yn ardal reoledig a'i bod dros 1. 6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel lleiafswm, yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - a'r gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth mân anhwylderau, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi i stopio@fferyllfa, a gwasanaeth estynedig brys cyflenwi meddyginiaethau.

### 16.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan saith o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd pedair fferyllfa yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth tair hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 16.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd pump o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 16.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 16.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 16.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd pump o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Dreffynnon a’r Fflint y bydd angen yn y dyfodol i’r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg o ran y gwasanaeth estynedig hwn yn Caerwys. Fodd bynnag, pe byddai’r bwlch hwn ddim yn cael ei lenwi yna o 1 Ebrill 2023 bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn Caerwys o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm.

### 16.6.7 Lefel 2 rhoi’r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd chwech o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi’r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg o ran y gwasanaeth estynedig hwn yn Caerwys. Fodd bynnag, pe byddai’r bwlch hwn ddim yn cael ei lenwi yna o 1 Ebrill 2023 bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn Caerwys o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm.

### 16.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir pump o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio’r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi’r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg o ran y gwasanaeth estynedig hwn yn Caerwys. Fodd bynnag, pe byddai’r bwlch hwn ddim yn cael ei lenwi yna o 1 Ebrill 2023 bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn Caerwys o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm.

### 16.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu’r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg o ran y gwasanaeth estynedig hwn yn Caerwys. Fodd bynnag, pe byddai’r bwlch hwn ddim yn cael ei lenwi yna o 1 Ebrill 2023 bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn Caerwys o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm.

### 8.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu’r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i Dreffynnon a'r Fflint y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg o ran y gwasanaeth estynedig hwn yn Caerwys. Fodd bynnag, pe byddai'r bwlch hwn ddim yn cael ei lenwi yna o 1 Ebrill 2023 bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn Caerwys o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm.

### 16.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Dreffynnon a'r Fflint y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg o ran y gwasanaeth estynedig hwn yn Caerwys. Fodd bynnag, pe byddai'r bwlch hwn ddim yn cael ei lenwi yna o 1 Ebrill 2023 bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn Caerwys o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm.

### 16.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 16.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd pump o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 16.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 16.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy'n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Nid oes yr un o'r fferyllfeydd wedi eu comisiynu ar hyn o bryd; fodd bynnag y mae fferyllwyr yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o'r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â'r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 16.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 16.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol i un ai:

- y gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i'w ddarparu i'r ardal honno tra'r erys yn ardal reoledig a'i bod dros 1. 6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel lleiafswm, yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - a'r gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth mân anhwylderau, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi i stopio@fferyllfa, a gwasanaeth estynedig brys cyflenwi meddyginiaethau.

# 17 Ardal Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint

## 17.1 Ffeithiau allweddol

- Gan Sir y Fflint y mae'r boblogaeth fwyaf o'r holl awdurdodau lleol, sef 156,100
- Y dwysedd poblogaeth fwyaf fesul kilometr sgwâr, sef 355.6 o bobl
- Mae 19% o'r boblogaeth yn 15 oed neu'n iau (y gyfran fwyaf gyda Wrecsam)
- Cyfran isaf o oedolion sy'n siarad Cymraeg, 10.74%
- Y gyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y 50% mwyaf difreintiedig, ond y gyfran isaf o ran y parth 'mynediad at wasanaethau'
- Enillion wythnosol gros cyfartalog uchaf, sef £553 sydd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol ail isaf
- Gyda Chonwy, gan Sir y Fflint y mae'r disgwyliad einioes uchaf i wrywod, sef 79.3 mlynedd (a'r awdurdod lleol pedwerydd uchaf yng Nghymru)
- Y gyfran ail uchaf o oedolion sy'n dweud fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn
- Y ganran isaf o aelwydydd gydag un person, sef 11.5%
- Y gyfran isaf o aelwydydd heb gar neu fan, 17.0%, ond y gyfran uchaf hefyd o aelwydydd gyda dau neu fwy o geir (41.1% sydd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Y ganran uchaf o bobl mewn gwaith, 63.7%
- Gyda Gwynedd, y ganran isaf o bobl sydd â salwch tymor-hir neu sy'n anabl ac yn economaidd anweithredol
- Y nifer uchaf o safleoedd carafanau awdurdodedig a heb awdurdod
- Y gyfradd uchaf o bobl sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref
- Y gyfradd ail uchaf o glefydau llidus fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Y gyfradd uchaf o foddhad â bywyd ymysg oedolion o oedran gwaith ar 85.6% ond y gyfradd isaf o foddhad ymysg pobl hŷn, sef 85.7%
- Cyfran isaf o bobl sy'n teimlo'n unig
- Y gyfradd ail uchaf o farwolaethau oherwydd clefydau resbiradol fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Y ganran uchaf o bobl sydd debygol o fod wedi bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, sef (31.4%)
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn nodi'r angen am 6,950 o gartrefi yn ystod ei einioes (2015 i 2030) gyda chyfartaledd o 463 uned y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 2,315 uned yn ystod einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn. Nodwyd dau safle strategol allweddol a fydd yn cyflwyno 1,625 o unedau tai, 23% o gyfanswm y cynllun. Mae'r naill a'r llall o fewn Ogledd Ddwyrain Sir y Fflint - safle ddatblygu defnydd cymysg Porth y Gogledd (1,325 uned) a safle ddatblygu defnydd cymysg Warren Hall (300 uned).
- Mae safle defnydd cymysg Porth y Gogledd[46] yn nwylo dau endid masnachol. Mae dogfen fframwaith y cynllun meistr yn rhoi ffigwr dangosol o 50 annedd y flwyddyn i'w codi gan y ddau berchennog dros gyfnod o 12 i 13 mlynedd.

---

[46] Porth y Gogledd, dogfen fframwaith cynllun meistr Glannau Dyfrdwy, Medi 2012

## 17.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae 12 fferyllfa yn yr ardal, yn cael eu rhedeg gan ddeg contractwr gwahanol. Nid oes yr un o'r saith practis yn darparu gwasanaeth dosbarthu.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau pob practis sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 117 – lleoliad fferyllfeydd**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o'r map isod, mae'r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 118 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod fferyllfeydd hefyd wedi eu lleoli fel rheol mewn ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd.

**Map 119 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 79.9% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Fel y gellir gweld, mae'r ardal gyfan o fewn taith 15 munud o fferyllfa.

**Map 120 – mynediad at fferyllfeydd yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae wyth yn agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, ac am ran o ddydd Sadwrn,

- Un yn agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, a
- Thair yn agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn yn Bretton, Cei Cona a Saltney.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae pump yn agor am 08.30 a'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30 gydag un yn cau am at 19.00, un arall am 20.00 a thrydydd am 22.30.

Mae wyth fferyllfa yn cau am ginio ar adegau amrywiol rhwng 13.00 a 14.00. Mae gweddill y fferyllfeydd yn aros ar agor drwy'r dydd.

Ar Sadyrnau, mae dwy fferyllfa yn agor am 08.30 a deg am 09.00. O'r pedair fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd, mae dwy yn cau am ginio rhwng 13.00 a 14.00. Maent yn cau rhwng 17.00 a 22.30.

Mae'r tair fferyllfa sy'n agor ar y Sul yn ymdrin â 10.00 i 17.00 o'r gloch.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a'r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i'r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny.

Mae'r holl fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac y mae ganddynt ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd un fferyllfa fod y staff yn siarad Cymraeg, ynghyd â Hindi a Punjabi. Mae gan fferyllfa arall staff sy'n siarad Eidaleg a Lithwaneg.

Mae'r holl fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn.

Mae 11 o'r fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddygon teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae saith yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais,
- mae un fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a
- dywedodd pump eu bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (anabl, y rhai ag angen symudedd, cleifion sy'n hunan-ynysu neu sydd â risg glinigol hynod uchel, a chleifion caeth i'w tai a rhai nad ydynt yn medru symud llawer).

Cafwyd dau awgrym am wasanaeth presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal:

- Rhagnodi annibynnol – galw enfawr, yn enwedig ar benwythnosau
- Profi a thrin dolur gwddf

Yr oedd tair fferyllfa o'r farn fod gofyn am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, sef gwasanaeth profi a thrin heintiadau'r llwybr wrinol, neu ychwanegu'r cynllun anhwylderau cyffredin atynt.

Cadarnhaodd deg fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu, a dywedodd dwy nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Mae gan dair fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau maent yn eu darparu:

- posibilrwydd o gael gyrrwr cludo arall i gwrdd â'r galw gan gleifion
- rhagnodi annibynnol am fân salwch ac ailwampio'r fferyllfa
- ailwampio ac ymestyn adeiladau presennol y fferyllfa

### 17.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd yr holl fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gyda naw yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19 a saith yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 121 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 17.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19, yr oedd saith o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad. Darparodd wyth y gwasanaeth yn 2019/20, ac eto, dim un yn darparu'r uchafswm.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 122 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd naw o'r fferyllfeydd gyfanswm o 77 adolygiad.

### 17.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 17.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 17.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 123 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn a darparodd 11 ohonynt ef yn 2020/21. Comisiynwyd pob un yn 2021/22.

### 17.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi’r gorau i smygu

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 124 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi’r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd 11 o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21, gydag 11 wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 17.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 125 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, gan gynyddu i ddeg yn 2021/22.

### 17.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 126 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd wyth o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Yn Awst 2021, nid oedd yr un fferyllfa wedi arwyddo i ddarparu’r gwasanaeth. Fodd bynnag, disgwylir i hyn newid a bydd y nifer o fferyllfeydd sydd yn darparu’r gwasanaeth yn 2021/22 un ai yr un fath neu’n fwy, na’r llynedd.

### 17.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 127 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, gan barhau felly yn 2021/22.

### 17.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 128 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, gan barhau felly yn 2021/22.

### 17.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae 11 wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 17.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd pedair o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae pedwar wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 17.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac nid oes yr un wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 17.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac nid oes yr un wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 17.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae 11 wedi eu comisiynu yn 2021/22.

## 17.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan y meddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu gan y 12 fferyllfa, dosbarthwyd 18.3% y tu allan i'r ardal:

- 16.6% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint,
- 1.2% gan gontractwyr yn Lloegr, a
- 0.4% yn rhywle arall yn Lloegr.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 17.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin

Cafodd 1.8% o'r eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn 2029/20 eu gweinyddu gan bob practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 17.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 17.2 a 17.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.


Yn 2019/20 dosbarthodd dros 150 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd 12 yn yr ardal,
- 109 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 27 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- Dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 17.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Er nad ydynt yn darparu gwasanaethau fferyllol na gwasanaethau eraill y GIG yn ôl diffiniad y rheoliadau, y mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y fferyllfeydd sydd dros y ffin yn Lloegr. Dengys y map isod yr amseroedd teithio i'r fferyllfeydd hynny.

**Map 129 – amseroedd teithio i fferyllfeydd yn Lloegr**




© Hawlfraint y goron a hawliau cronfeydd data 2021 **Arolwg Ordnans** 100016969 | **parallel** | **Mapbox** | **OpenStreetMap** cyfranwyr



Amser teithio mewn munudau

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 17.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal ac fel rheol maent mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth fwyaf ac amddifadedd yn uwch.
- Mae'r ardal gyfan o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa yng Nghymru ac yn Lloegr.
- Mae dau ddatblygiad tai hysbys ar y gweill yn ystod einioes y ddogfen hon a fydd yn golygu codi hyd at 1,625 o dai newydd – safle ddatblygu defnydd cymysg Porth y Gogledd (1,325 uned) a safle ddatblygu defnydd cymysg Warren Hall (300 uned).
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu unrhyw oriau agor estynedig ar hyn o bryd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferylliaeth yn Garden City y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sydd yn golygu tair awr neu lai o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref, y bydd angen yn y dyfodol ddarpariaeth o wasanaethau hanfodol am dri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y tref/pentref neu'r trefi/pentrefi lle lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

### 17.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd naw fferyllfa yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth saith hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd chwech o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o

ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o’r ysbyty.
- Cadarnhaodd deg o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo’r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Mae’r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai’r hyn sy’n achosi’r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy’n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu’r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu’r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnahodd deg o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo’r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa yn Garden City y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 17.6.7 Lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd wyth o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa yn Garden City y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 17.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd deg fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa yn Garden City y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 17.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd pedair o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 17.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy'n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Nid oes yr un o'r fferyllfeydd wedi eu comisiynu ar hyn o bryd; fodd bynnag y mae fferyllwyr yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o'r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â'r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y

gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 17.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd deg o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Nid oes gan ddwy mo'r gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

# 18 Ardal De Sir y Fflint

## 18.1 Ffeithiau allweddol

- Gan Sir y Fflint y mae'r boblogaeth fwyaf o'r holl awdurdodau lleol, sef 156,100
- Y dwysedd poblogaeth fwyaf fesul kilometr sgwâr, sef 355.6 o bobl
- Mae 19% o'r boblogaeth yn 15 oed neu'n iau (y gyfran fwyaf gyda Wrecsam)
- Cyfran isaf o oedolion sy'n siarad Cymraeg, 10.74%
- Y gyfran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y 50% mwyaf difreintiedig, ond y gyfran isaf o ran y parth 'mynediad at wasanaethau'
- Enillion wythnosol gros cyfartalog uchaf, sef £553 sydd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol ail isaf
- Gyda Chonwy, gan Sir y Fflint y mae'r disgwyliad einioes uchaf i wrywod, sef 79.3 mlynedd (a'r awdurdod lleol pedwerydd uchaf yng Nghymru)
- Y gyfran ail uchaf o oedolion sy'n dweud fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn
- Y ganran isaf o aelwydydd gydag un person, sef 11.5%
- Y gyfran isaf o aelwydydd heb gar neu fan, 17.0%, ond y gyfran uchaf hefyd o aelwydydd gyda dau neu fwy o geir (41.1% sydd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Y ganran uchaf o bobl mewn gwaith, 63.7%
- Gyda Gwynedd, y ganran isaf o bobl sydd â salwch tymor-hir neu sy'n anabl ac yn economaidd anweithredol
- Y nifer uchaf o safleoedd carafanau awdurdodedig a heb awdurdod
- Y gyfradd uchaf o bobl sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref
- Y gyfradd ail uchaf o glefydau llidus fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Y gyfradd uchaf o foddhad â bywyd ymysg oedolion o oedran gwaith ar 85.6% ond y gyfradd isaf o foddhad ymysg pobl hŷn, sef 85.7%
- Cyfran isaf o bobl sy'n teimlo'n unig
- Y gyfradd ail uchaf o farwolaethau oherwydd clefydau resbiradol fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Y ganran uchaf o bobl sydd debygol o fod wedi bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, sef (31.4%)
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn nodi'r angen am 6,950 o gartrefi yn ystod ei einioes (2015 i 2030) gyda chyfartaledd o 463 uned y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 2,315 uned yn ystod einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn. Nodwyd dau safle strategol allweddol a fydd yn cyflwyno 1,625 o unedau tai, 23% o gyfanswm y cynllun. Mae'r naill a'r llall o fewn Ogledd Ddwyrain Sir y Fflint - safle ddatblygu defnydd cymysg Porth y Gogledd (1,325 uned) a safle ddatblygu defnydd cymysg Warren Hall (300 uned).


## 18.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae wyth fferyllfa yn yr ardal, yn cael eu rhedeg gan wyth contractwr gwahanol. O'r chwe phractis meddyg teulu, mae pedwar yn dosbarthu o gyfanswm o bedwar

adeilad. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 6.6% i 95.2% o boblogaethau cofrestredig pob practis.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau pob practis sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 130 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o'r map isod, mae'r fferyllfeydd mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth ddwysaf tra bod adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 131 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod llai o gydberthynas rhwng lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu a lefelau amddifadedd.

**Map 132 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 77.5% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, ac yr oedd pob practis dosbarthu wedi dosbarthu neu weinyddu yn bersonol 16.5% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac a weinyddwyd yn bersonol, ar sail lefel y gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio bod llai na 2% o eitemau wedi eu gweinyddu'n bersonol.


Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

Mae tair ardal yn y goglgedd-orllewin nad ydynt o fewn taith 20 munud o fferyllfa neu adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu:

- mae'r ardal i'r gogledd-orllewin o Gadole yn Barc Gwledig Loggerheads a dengys Google maps nad oes poblogaeth yno;
- ardal wledig o fryniau sydd nesaf ati yn y gorllewin, lle mae Moel Famau. Dengys Google maps nad oes poblogaeth yn byw yno; ac

- ardal wledig o fryniau yw’r un olaf a dengys Google maps nad oes poblogaeth yn byw yno.

**Map 133 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae’r fferyllfeydd ar agor:

- Mae un ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,

- Tair ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn,
- Dwy ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, a
- Dwy ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sul yn yr Wyddgrug.

O ran yr amseroedd pan mae’r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae un yn agor am 08.30 a’r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30 gyda’r fferyllfa yn yr Wyddgrug yn aros ar agor tan 20.00.

Mae tair fferyllfa yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 13.00 a 14.00. Mae gweddill y fferyllfeydd yn aros ar agor drwy’r dydd.

Ar Sadyrnau, mae saith fferyllfa yn agor am 09.00. O’r tair fferyllfa sydd ar agor drwy’r dydd, does yr un yn cau dros ginio. Maent yn cau rhwng 17.00 a 20.00.

Mae’r fferyllfeydd sydd ar agor ar y Sul yn gwneud hynny rhwng 10.00 a 16.00.

Mae’r bwrdd iechyd yn gofyn i’r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a’r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai’n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i’r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o’r ymatebion hynny.

Mae’r holl fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac y mae ganddynt ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae’r holl ardaloedd ymgynghori yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a’r fferyllydd eistedd gyda’i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi’n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod y staff yn siarad Cymraeg, ac y mae gan un hefyd staff sy’n siarad Sbaeneg.

Mae’r holl fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn.

Mae’r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractis meddygon teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae chwech yn darparu gwasanaeth cludo am ddim o wneud cais, ac un yn darparu’r gwasanaeth am ffi,
- mae dwy fferyllfa yn cyfyngu’r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a
- dywedodd tair eu bod yn cyfyngu’r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (anabl, caeth i’w tai a’r sawl sy’n hunan-ynysu).

Cafwyd pedwar awgrym am wasanaeth presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal:

- bu ymestyn y gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng trwy gydol yr wythnos yn help enfawr adeg COVID. Byddai parhau â hyn yn ysgafnhau'r pwysau ar bractis meddygon teulu gyda llai o alwadau ffôn a byddai hefyd yn arbed amser staff y fferyllfeydd,
- monitro pwysedd gwaed,
- rheoli dŵr poeth/diffyg treuliad; a
- rheoli heintiadau'r llwybr wrinol.

Yr oedd un fferyllfa o'r farn fod angen am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, sef gwasanaeth rheoli pwysau.

Cadarnhaodd saith fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu, a dywedodd un nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Mae gan ddwy fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaeth maent yn ddarparu:

- Hoffai un gynyddu amser eu fferyllydd rhagnodi i bob diwrnod o'r wythnos
- Gwasanaethau rhagnodi annibynnol a gwasanaethau'r GIG a phreifat gan gynnwys monitro pwysedd gwaed a brechiadau teithio os na chomisiynir mwy o wasanaethau'r GIG

Ymatebodd pedwar practis sy'n dosbarthu i'r holiadur i feddygon dosbarthu a chymerir y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny. Maent yn darparu gwasanaethau o bum adeilad.

Mae oriau agor y meddygfeydd dosbarthu yn amrywio trwy gydol yr wythnos, gydag un yn dosbarthu trwy'r dydd, bob dydd (08.30 tan 18.00). Mae gwasanaethau dosbarthu un practis yn agor naill ai am 09.00 neu 09.30 ac yn cau am 16.00 neu 16.30. Mae dwy ar agor am 08.00 i 13.00 a 15.00 i 18.00 ar wahân i ddydd Mercher pan nad ydynt ar agor yn y prynhawniau.

O ran dosbarthu presgripsiynau am declynnau:

- Mae tri phractis yn dosbarthu pob math o declyn, ac
- Un yn dosbarthu popeth ond teclynnau anymataledd.

Mae tri phractis yn darparu gwasanaeth cludo i grwpiau penodol o gleifion (y rhai sy'n gaeth i'w tai, yr henoed neu fregus a rhai na fedr gasglu, cleifion heb deulu/cyfeillion i gasglu drostynt, a chleifion â salwch cronig).

Mae gan ddau bractis staff fedr siarad Cymraeg.

Mae gan un practis ddigon o allu i reoli'r cynnydd yn y galw yn eu hardal, ac nid oes gan y tri arall y gallu ond gallant wneud addasiadau i ymdopi â'r cynnydd yn y galw.

O ran gwasanaethau sy’n ymwneud â dosbarthu a ddarperir, mae un yn gwaredu nodwyddau cleifion.

Adroddodd pob practis am wneud y newidiadau canlynol i’w gwasanaeth dosbarthu fydd yn digwydd pan ddaw’r “normal newydd”:


- ymbellhau cymdeithasol a defnyddio diheintydd, a
- llai o oriau agor a denfyddio My Health Online i archebu presgripsiynau ailadroddadwy.

### 18.2.1 Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd saith o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn, gyda phedair yn darparu’r uchafswm o 400 yn 2018/19 a dim yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 134 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 18.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19, yr oedd chwe fferyllfa yn darparu’r gwasanaeth hwn, gan gynyddu i saith yn 2019/20, ac nid oedd yr un yn darparu’r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 135 –lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd pump o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn, gyda 209 o adolygiadau.

### 18.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.


### 18.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 18.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 136 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac fe'i ddarparwyd yn 2020/21. Mae saith wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 18.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 137 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd chwech o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Mae saith wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 18.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 138 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd pump o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae pump wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 18.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 139 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Yn Awst 2021 nid oess yr un fferyllfa wedi arwyddo i ddarparu’r gwasanaeth. Fodd bynnag, disgwylir i hyn newid a bydd nifer y fferyllfeydd sy’n darparu’r gwasanaeth yn 2021/22 yr un fath â’r llynedd.

### 18.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 140 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Mae'r holl fferyllfeydd wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 18.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 141 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac yr oedd pump wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae'r holl feryllfeydd wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 18.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd chwech o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae chwech wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 18.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd pedair o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Mae pedair wedi eu comisiynu yn 2021/22.

### 18.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae un wedi ei chomisiynu yn 2021/22.

### 18.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth cyflyrau aciwt yn 2020/21, ac mae dwy wedi ei chomisiynu yn 2021/22.

### 18.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae saith wedi eu comisiynu yn 2021/22.

## 18.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan y meddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill gan yr wyth fferyllfa yn yr ardal neu'r pedwar practis sy'n dosbarthu, dosbarthwyd 5.1% y tu allan i'r ardal:

- 2.6% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 1.1% gan fferyllfeydd yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam,
- 1.0% gan gontractwyr yn Lloegr, a
- 0.2% gan fferyllfeydd yng Nghanol Wrecsam.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 18.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin
- Mae un practis yn gwaredu nodwyddau cleifion.

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 18.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 18.2 a 18.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 125 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd wyth yn yr ardal,
- 97 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 19 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 18.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 18.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn mannau llae mae'r boblogaeth ddwysaf ac amddifadedd yn gyffredinol uwch.
- Mae rhai rhannau o'r ardal heb fod o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa; fodd bynnag, nid oes pobl yn byw yn y mannau hynny.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y

gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu unrhyw oriau agor estynedig ar hyn o bryd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa yn tynnu'n ôl o'r rhestr fferylliaeth mewn tref/pentref sydd y tu allan i'r Wyddgrug a Bwcle y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref providing gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sydd yn golygu bod llai na tair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferylliaeth mewn tref/pentref y bydd angen yn y dyfodol am ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol am dri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y tref/pentref neu trefi/pentrefi lle lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol un ai:

- y gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i'w ddarparu i'r ardal honno tra'r erys yn ardal reoledig a'i bod dros 1. 6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel lleiafswm, yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - a'r gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth mân anhwylderau, rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi i stopio@fferyllfa, a gwasanaeth estynedig brys cyflenwi meddyginiaethau.

### 18.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd pedair fferyllfa yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Ni wnaeth yr un yn 2019/20.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 18.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd pump o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 18.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 18.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 18.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i’r Wyddgrug a Bwcle, y bydd angen yn y dyfodol i’r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 18.6.7 Lefel 2 rhoi’r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd chwech o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi’r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 18.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir pump o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio’r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi’r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd saith o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 18.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 18.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i'r Wyddgrug a Bwcle y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 18.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i'r Wyddgrug a Bwcle y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

**18.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth**

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd chwech o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

**18.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau**

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd pedair o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol nag anghenion yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

**18.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes**

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 18.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy'n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Comisiynir dwy o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth cyflyrau aciwt.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o'r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â'r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 18.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 18.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Nododd y bwrdd iechyd, petai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal lle mae ganddo ganiatâd amlinellol, y bydd angen yn y dyfodol un ai:

- y gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd i'w ddarparu i'r ardal honno tra'r erys yn ardal reoledig a'i bod dros 1. 6km mewn llinell syth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel lleiafswm, yn darparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a

- a’r gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth mân anhwylderau, rhoi’r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi i stopio@fferyllfa, a gwasanaeth estynedig brys cyflenwi meddyginiaethau.

# 19 Ardal Gogledd Orllewin Wrecsam

## 19.1 Ffeithiau allweddol

- Y boblogaeth ail uchaf, sef 135,957
- Dwysedd poblogaeth ail fwyaf, sef 270.2 o bobl y kilometr sgwâr
- 19% o'r boblogaeth yn 15 neu'n iau
- Canran ail isaf o oedolion sy'n siarad Cymraeg, 13.63%
- Cyfran ail uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y rhai mwyaf difreintiedig (7.1%)
- Disgwyliad einioes isaf i fenywod, sef 81.4 mlynedd
- Disgwyliad einioes iach isaf adeg genedigaeth i wrywod, sef 62.5 mlynedd
- Cyfradd ail uchaf o farwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy
- Cyfran uchaf o aelwydydd heb gar neu fan, sef 22.2%
- Cyfran isaf o'r boblogaeth wedi ymddeol, 15.2%
- Nifer uchaf o gysgwyr allan
- Cyfradd uchaf o glefydau llidus fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Sgôr gyfartalog lles meddyliol isaf (ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Cyfran uchaf o'r rhai 16 a hyn sy'n teimlo'n unig (ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Cyfradd uchaf o farwolaethau oherwydd pob clefyd resbiradol fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Cyfradd ail uchaf o feichiogrwydd ymysg yr arddegau, wedi Sir Ddinbych
- Canran isaf o bobl nad ydynt yn yfed, sef 21.2%
- Canran uchaf o yfwyr peryglus, 17.6%
- Canran isaf o oedolion sy'n adrodd eu bod yn ymarfer corff am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos flaenorol (49.2%)
- Canran uchaf o bobl sydd dros eu pwysau neu'n ordew, sef 58.2%

Mae Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028[47] yn nodi angen am 8,525 o unedau tai, sy'n cyfateb i 568 o dai y flwyddyn neu 2,840 yn ystod einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn. Ar sail Adroddiad Monitro Blynyddol 2019, cwblhawyd 1,561 o'r rhain. Rhennir y tai fel a ganlyn:

- Bydd 64% o'r cyfanswm yn nhref Wrecsam,
- 22% yn y canolfannau gwasanaeth (Acrefair/Cefn Mawr, y Waun, Coedopeth, Gresffordd/Marford, Gwersyllt, Llai, Rhiwabon a Rhosllannerchrugog),
- 11% mewn canolfannau gwasanaeth lleol (Bangor, Brychdyn, Brymbo, Glyn Ceiriog, Holt, Owrtyn, Llannerch Banna, Penycae, Rhostyllen a'r Orsedd), a
- 3% mewn mân bentrefi, gyda 2% yn Rhosrobin oherwydd ei fod yn agos ac yn hygyrch i dref Wrecsam.

## 19.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal


Mae wyth fferyllfa yn yr ardal, yn cael eu rhedeg gan bum contractwr gwahanol. O'r pum practis meddyg teulu, mae un yn dosbarthu i 6.6% o'i boblogaeth gofrestredig.

---

[47] Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau pob practis sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 142 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o'r map isod, mae'r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 143 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu hefyd wedi eu lleoli fel rheol mewn ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd.

**Map 144 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 79.0% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, ac yr oedd pob practis dosbarthu wedi dosbarthu neu weinyddu yn bersonol 2.3% o'r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac a weinyddwyd yn bersonol, ar sail lefel y gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio bod llai na 2% o eitemau wedi eu gweinyddu'n bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Fel y gellir gweld, mae'r ardal gyfan o fewn taith 20 munud o fferyllfa neu adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 145 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae’r fferyllfeydd ar agor:

- Mae dwy ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a
- Chwech ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn.

O ran yr amseroedd pan mae’r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae dwy yn agor am 08.30 a’r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.30.

Mae saith fferyllfa yn cau am ginio ar wahanol amseroedd rhwng 13.00 a 14.00. Mae’r fferyllfa sy’n weddill ar agor drwy’r dydd.

Ar Sadyrnau, mae chwe fferyllfa yn agor am 09.00 ac y maent oll yn cau am 13.00.

Does yr un fferyllfa ar agor ar y Sul.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a'r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i'r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny.

Mae pum fferyllfa yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac o'r rhain mae gan bedair ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae gan y saith ardaloedd ymgynghori sydd yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd y fferyllfa heb ardal ymgynghori fod ganddynt drefniadau amgen ar gyfer trafodaethau cyfrinachol.

Nid oes gan yr un fferyllfa staff sy'n medru siarad Cymraeg, er bod gan un fferyllfa staff fedr siarad Urdu a Punjabi.

Mae'r holl fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn.

Mae'r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o feddygfa'r meddygon teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae dwy yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais,
- mae dwy fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, ac
- er mai dim ond dwy ddywedodd eu bod yn darparu gwasanaeth cludo, dywedodd pedair eu bod yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (yr henoed, anabl, y sawl sy'n cysgodi, pobl ag angen clinigol neu symudedd, pobl sy'n gaeth i'w tai ac yn fregus).

Ni chafwyd unrhyw awgrymiadau am wasanaeth presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal.

Yr oedd un fferyllfa o'r farn fod gofyn am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, sef gwasanaeth rheoli pwysau.

Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn

ddarparu, a dywedodd dwy nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Mae gan bedair fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau maent yn ddarparu:

- Mae estyniad ar y gweill, a gwasanaethau newydd, GIG a phreifat, yn cael eu hystyried at y dyfodol agos. Mae awtomeiddio hefyd yn cael ei ystyried.
- Cynllun i ddarparu'r gwasanaeth rhagnodydd annibynnol.
- Mae'r fferyllydd yn dilyn yr hyfforddiant rhagnodydd annibynnol gyda golwg ar gynnig gwasanaeth gofal aciwt.
- Cynyddu darpariaeth y gwasanaethau anhwylderau cyffredin, rhoi'r gorau i smygu, atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng ac adolygu meddyginiaethau rhyddhau yn dilyn penodi fferyllydd rheolaidd.


Ni atebodd y practis dosbarthu i'r holiadur i feddygon dosbarthu.

### 19.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd saith o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gyda phedair yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19 ac un yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 146 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 19.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 yr oedd chwech yn darparu'r gwasanaeth hwn, gan ostwng i bump yn 2019/20, a dim un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 147 –lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd chwech o’r fferyllfeydd cyfanswm o 96 adolygiad.

### 19.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.


### 19.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu’r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 19.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 148 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae saith wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 19.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 149 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae saith wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 19.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 150 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth lefel 3 rhoi’r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd chwech o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae chwech wedi’u comisiynu yn 2021/22.

### 19.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 151 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. . O Awst 2021 nid oedd yr un fferyllfa wedi arwyddo i ddarparu'r gwasanaeth, fodd bynnag disgwylir i hyn newid a bydd y nifer o fferyllfeydd fydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2021/22 yr un fath, neu yr uwch na'r llynedd.

### 19.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 152 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae saith wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 19.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 153 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae saith wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 19.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae saith wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 19.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae un wedi'i gomisiynu yn 2021/22.

### 19.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, nac yn 2021/22.

### 19.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth cyflyrau llym yn 2020/21, a byddant yn parhau i wneud hynny yn 2021/22.

### 19.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 a byddant yn parhau i wneud hynny yn 2021/22.

## 19.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan y meddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill gan yr wyth fferyllfa yn yr ardal neu'r practis meddygon teulu sy'n dosbarthu, dosbarthwyd 17.6% y tu allan i'r ardal:

- 9.4% gan fferyllfeydd yn Ne Wrecsam,
- 4.8% gan fferyllfeydd yng Nghanol Wrecsam,
- 1.6% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 1.2% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Dwyrain Sir y Fflint, a
- 0.5% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 19.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin

Mae llai na 2.0% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu yn debygol o fod wedi eu gweinyddu'n bersonol gan y practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,

- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 19.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 19.2 a 19.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.


Yn 2019/20 dosbarthodd dros 110 o gontractwyr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd wyth yn yr ardal,
- 90 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 17 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

## 19.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Er nad ydynt yn darparu gwasanaethau fferyllol na gwasanaethau eraill y GIG yn ôl diffiniad y rheoliadau, y mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y fferyllfeydd sydd dros y ffin yn Lloegr. Dengys y map isod yr amseroedd teithio i'r fferyllfeydd hynny.

**Map 154 – amseroedd teithio i fferyllfeydd yn Lloegr**




© C Hawlfraint y goron a hawliau cronfeydd data 2021 Arolwg Ordnans 100016969 | parallel | Mapbox | OpenStreetMap cyfranwyr



Amser teithio mewn munudau

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 19.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd ar hyd a lled yr ardal ac yn gyffredinol, fe'u lleolir mewn mannau lle ame'r boblogaeth ddwysaf ac amddifadedd yn uwch. Mae'r practis sy'n dosbarthu mewn ardal lle mae dwysedd y boblogaeth yn is.
- Mae'r ardal gyfan o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Two don't ond y gallasent wneud addasiadau i ymdopi.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu unrhyw oriau agor estynedig ar hyn o bryd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa yn ôl o restr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Goedpoeth y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref providing gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref y bydd angen yn y dyfodol am ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol ar gyertri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu'n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i'r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol reoledig ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch gyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

### 19.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal yr oedd yn cael ei ddarparu gan saith o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd pedair fferyllfa yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth un hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu hwn, ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd dwy o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.

- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag analluu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does dim darpariaeth yng nghornel ogledd-orllewinol yr ardal ac nid yw'r

gangen o’r feddygfa meddygon teulu ar agor drwy’r dydd bob dydd o’r wythnos.
- Mae’r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd chwech o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol am ddarparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Ar sail yr uchod, nododd y bwrdd iechyd fod bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth hwn yn yr Orsedd. Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfa bresennol mewn perthynas â’r diffyg hwn mewn darpariaeth gwasanaeth yn yr Orsedd. Fodd bynnag, pe na bai’r bwlch yn cael ei gau yna o 1 Ebrill 2023 fe fydd angen yn y dyfodol am ddarparu’r gwasanaeth hwn yn yr Orsedd, chwe diwrnod yr wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a
- tair awr ar Sadyrnau.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Goedpoeth y bydd angen yn y dyfodol i’r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 19.6.7 Lefel 2 rhoi’r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does dim darpariaeth yng nghornel ogledd-orllewinol yr ardal.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi’r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd chwech o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol am ddarparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Ar sail yr uchod, nododd y bwrdd iechyd fod bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth hwn yn yr Orsedd. Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfa bresennol mewn perthynas â’r diffyg hwn mewn darpariaeth gwasanaeth yn yr Orsedd. Fodd bynnag, pe na bai’r bwlch yn cael ei gau yna o 1 Ebrill 2023 fe fydd angen yn y dyfodol am ddarparu’r gwasanaeth hwn yn yr Orsedd, chwe diwrnod yr wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a

- tair awr ar Sadyrnau.

### 19.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd chwech o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does dim darpariaeth yng nghornel ogledd-orllewinol yr ardal ac nid yw'r gangen o'r feddygfa meddygon teulu ar agor drwy'r dydd bob dydd o'r wythnos.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol am ddarparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Ar sail yr uchod, nododd y bwrdd iechyd fod bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth hwn yn yr Orsedd. Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn

perthynas â'r diffyg hwn mewn darpariaeth gwasanaeth yn yr Orsedd. Fodd bynnag, pe na bai'r bwlch yn cael ei gau yna o 1 Ebrill 2023 fe fydd angen yn y dyfodol am ddarparu'r gwasanaeth hwn yn yr Orsedd, chwe diwrnod yr wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a
- tair awr ar Sadyrnau.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i Goedpoeth y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 19.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does dim darpariaeth yng nghornel ogledd-orllewinol yr ardal ac nid yw'r gangen o'r feddygfa meddygon teulu ar agor drwy'r dydd bob dydd o'r wythnos.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol am ddarparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal hon.

Ar sail yr uchod, nododd y bwrdd iechyd fod bwlch yn narpariaeth y gwasanaeth hwn yn yr Orsedd. Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn perthynas â'r diffyg hwn mewn darpariaeth gwasanaeth yn yr Orsedd. Fodd bynnag, pe na bai'r bwlch yn cael ei gau yna o 1 Ebrill 2023 fe fydd angen yn y dyfodol am ddarparu'r gwasanaeth hwn yn yr Orsedd, chwe diwrnod yr wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a
- tair awr ar Sadyrnau.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Goedpoeth y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 19.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y

gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd un o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu’r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu’r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i’w ddarparu.
- Cadarnhaodd chwech o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy’n darparu’r gwasanaeth.
- Ni chomisiynwyd yr un o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw’r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd chwech o’r fferyllfeydd confirmed fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy’n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Comisiynwyd dwy fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth cyflyrau aciwt yn 2020/21.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o’r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â’r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes

y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 19.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd chwech o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae dwy heb y gallu ond gallasent wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 19.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu'n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i'r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol reoledig ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch gyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

# 20 Ardal Canol Wrecsam

## 20.1 Ffeithiau allweddol

- Y boblogaeth ail uchaf, sef 135,957
- Dwysedd poblogaeth ail fwyaf, sef 270.2 o bobl y kilometr sgwâr
- 19% o'r boblogaeth yn 15 neu'n iau
- Canran ail isaf o oedolion sy'n siarad Cymraeg, 13.63%
- Cyfran ail uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y rhai mwyaf difreintiedig (7.1%)
- Disgwyliad einioes isaf i fenywod, sef 81.4 mlynedd
- Disgwyliad einioes iach isaf adeg genedigaeth i wrywod, sef 62.5 mlynedd
- Cyfradd ail uchaf o farwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy
- Cyfran uchaf o aelwydydd heb gar neu fan, sef 22.2%
- Cyfran isaf o'r boblogaeth wedi ymddeol, 15.2%
- Nifer uchaf o gysgwyr allan
- Cyfradd uchaf o glefydau llidus fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Sgôr gyfartalog lles meddyliol isaf (ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Cyfran uchaf o'r rhai 16 a hyn sy'n teimlo'n unig (ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Cyfradd uchaf o farwolaethau oherwydd pob clefyd resbiradol fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Cyfradd ail uchaf o feichiogrwydd ymysg yr arddegau, wedi Sir Ddinbych
- Canran isaf o bobl nad ydynt yn yfed, sef 21.2%
- Canran uchaf o yfwyr peryglus, 17.6%
- Canran isaf o oedolion sy'n adrodd eu bod yn ymarfer corff am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos flaenorol (49.2%)
- Canran uchaf o bobl sydd dros eu pwysau neu'n ordew, sef 58.2%

Mae Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028 yn nodi angen am 8,525 o unedau tai, sy'n cyfateb i 568 o dai y flwyddyn neu 2,840 yn ystod einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn. Ar sail Adroddiad Monitro Blynyddol 2019, cwblhawyd 1,561 o'r rhain. Rhennir y tai fel a ganlyn:

- Bydd 64% o'r cyfanswm yn nhref Wrecsam,
- 22% yn y canolfannau gwasanaeth (Acrefair/Cefn Mawr, y Waun, Coedopeth, Gresffordd/Marford, Gwersyllt, Llai, Rhiwabon a Rhosllannerchrugog),
- 11% mewn canolfannau gwasanaeth lleol (Bangor, Brychdyn, Brymbo, Glyn Ceiriog, Holt, Owrtyn, Llannerch Banna, Penycae, Rhostyllen a'r Orsedd), a
- 3% mewn mân bentrefi, gyda 2% yn Rhosrobin oherwydd ei fod yn agos ac yn hygyrch i dref Wrecsam.

Nodwyd dau safle strategol yn y cynllun datblygu lleol yn nhref Wrecsam:

- Fferm Berse Isaf, Ffordd Rhuthun, Wrecsam - cynllun defnydd cymysg wedi'i arwain gan dai gydag isafswm o 1,500 o gartrefi newydd ac ysgol gynradd gyda lle i 420. Oherwydd yr angen i uwchraddio cyffordd 4 yr A483, rhagwelir


y cyflenwir 200 o unedau tai rhwng 2026 a 2028. Nid yw'n debygol felly y cyflwynir llawer o dai yn ystod einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn.

- Tir i'r dwyrain o Ffordd Cefn, Wrecsam – cynllun defnydd cymysg wedi'i arwain gan dai gydag isafswm o 1,680 o gartrefi newydd, gyda 1,580 yn cael eu cyflwyno erbyn 2028.

## 20.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae 12 fferyllfa yn yr ardal, yn cael eu rhedeg gan bum contractwr gwahanol. Does yr un o'r chwe phractis meddyg teulu yn dosbarthu. Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 155 - lleoliad fferyllfeydd**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o'r map isod, mae'r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 156 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod y fferyllfeydd yn gyffredinol wedi eu lleoli mewn ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd.

**Map 157 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 88.9% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno.

Mae'r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i'r fferyllfeydd: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw'r daith. Fel y gellir gweld, mae'r ardal gyfan o fewn taith 20 munud o fferyllfa. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 158 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae tair ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Chwech ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn
- Mae un ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, a
- Dau ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sul.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd hyn rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae tair yn agor am 08.30, un yn agor am 08.45 a'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.30 a 18.15 gydag un fferyllfa yn aros ar agor tan 19.00 ar ddydd Iau a dydd Gwener, ac un arall tan 20.00.

Mae 11 o'r fferyllfeydd yn cau am ginio ar adegau gwahanol rhwng 13.00 a 14.00.

Ar Sadyrnau, mae un fferyllfa yn agor am 08.30 ac wyth am 09.00. O’r tair fferyllfa sy’n aros ar agor drwy’r dydd, mae dwy yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 13.00 a 14.00. Maent yn cau rhwng 17.30 a 20.00.

Mae’r ddwy fferyllfa sydd ar agor ar y Sul rhyngddynt yn ymdrin â’r amser o 10.00 i 16.00.

Mae’r bwrdd iechyd yn gofyn i’r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a’r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai’n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i’r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o’r ymatebion hynny.

Mae 11 o’r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac o’r rhain mae gan wyth ardaloedd ymgynghori sydd yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a’r fferyllydd eistedd gyda’i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi’n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd un fferyllfa fod y staff yn siarad Cymraeg a Phwyleg.

Mae’r holl fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn.

Mae’r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o feddygfa’r meddygon teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae pump yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais ac un yn darparu’r gwasanaeth am ffi,
- mae tair fferyllfa yn cyfyngu’r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a
- dywedodd naw eu bod yn cyfyngu’r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (y sawl sy’n cysgodi, yn fregus ac yn gaeth i’w tai, ac anabl).

Cafwyd un awgrym am wasanaeth presennol nad yw’n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal, sef y gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau.

Nid oedd yr un fferyllfa o’r farn fod gofyn am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu, a dywedodd un nad oes ganddynt ond y gallasent wneud addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Mae gan naw fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau maent yn ddarparu:


- treialu'r defnydd o wasanaeth negeseuon testun
- dechrau darparu'r gwasanaeth atal cenhedlu mewn argyfwng
- dechrau darparu'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu (tair fferyllfa)
- dechrau darparu gwasanaeth rhagnodydd annibynnol cyflyrau aciwt (tair fferyllfa)
- fferyllydd i gwblhau'r cwrs rhagnodydd annibynnol.

### 20.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 yr oedd 11 o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, gan gynyddu i'r 12 yn 2019/30. Yr oedd saith yn darparu'r uchafswm o 400 yn 2018/19, gan ostwng i bedair yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 159 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 20.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19 a 2019/20, yr oedd naw o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, ac nid oedd un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 160 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd 11 o'r fferyllfeydd gyfanswm o 153 adolygiad.

### 20.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.


### 20.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 20.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 161 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd deg o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae 11 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 20.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 162 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Mae hyn wedi cynyddu i naw fferyllfa yn 2021/22.

### 20.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 163 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd deg o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae deg wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 20.2.8 Brechu rhag y ffliw

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 164 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. O Awst 2021 nid oedd yr un fferyllfa wedi arwyddo i ddarparu’r gwasanaeth, fodd bynnag disgwylir i hyn newid a bydd y nifer o fferyllfeydd fydd yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22 yr un fath â’r llynedd.

### 20.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 165 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae pob un wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 20.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 166 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn a darparodd deg ohonynt ef yn 2020/21. Mae pob un wedi'u comisiynu i'w ddarparu yn 2021/22.

### 20.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae 11 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 20.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd wyth o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae wyth wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 20.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae un wedi'i gomisiynu yn 2021/22.

### 20.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

### 20.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd 11 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae 11 wedi'u comisiynu yn 2021/22.

## 20.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan y meddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu gan y deuddeg fferyllfa yn yr ardal, dosbarthwyd 9.7% y tu allan i'r ardal:

- 4.2% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 2.3% gan fferyllfeydd yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam,
- 1.7% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint,
- 1.1% gan fferyllfeydd yng Nghanol Wrecsam, a
- 0.4% gan fferyllfeydd yn Ne Sir y Fflint.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 20.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin

Yr oedd 1.4% o eitemau a ragnodwyd gan bractis meddygon teulu wedi eu gweinyddu'n bersonol gan bob practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,

- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 20.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 20.2 a 20.3, mae'r sawl sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o'r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 90 contractwr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O'r rhain:

- yr oedd 12 yn yr ardal,
- 70 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- yr oedd naw yn rhywle arall yng Nghymru, a
- dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.

Nododd y bwrdd iechyd fod fferyllfa breifat ym Mharc Manwerthu Plas Coch. Er nad yw'n darparu gwasanaethau fferyllol, fe all ddarparu cefnogaeth i hunanofal a gwerthu meddyginiaethau i'r sawl sy'n chwilio am gyngor. Mae gan y fferyllfa ystafell ymgynghori ac yn darparu amrywiaeth o wasanaethau preifat gan gynnwys brechiadau (arferol ac ar gyfer teithio), atal cenhedlu mewn argyfwng, ac archebu presgripsiynau'r GIG.

## 20.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

### 20.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd yn ochr orllewinol yr ardal, yn gyffredinol mewn mannau lle mae'r boblogaeth ddwysaf a lle mae amddifadedd yn uwch.
- Mae'r ardal gyfan o fewn taith 20 munud o fferyllfa mewn car.
- Bydd 64% o'r amcangyfrif o 2,840 o dai sydd i'w codi yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael eu codi yn nhref Wrecsam.
- Cadarnhaodd 11 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu unrhyw oriau agor estynedig ar hyn o bryd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hyn o fewn yr ardal leol.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa yn ôl o'r rhestr fferyllol yn Garden Village, Borras, Parc Caia neu Rostyllen y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref y bydd angen yn y dyfodol am ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol ar gyfer tri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

### 20.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Yr oedd saith fferyllfa yn darparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth pedair hyn yn 2019/20.
- Cadarnhaodd 11 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd deg o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.

- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- 11 o'r fferyllfeydd confirmed fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag analllu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd deg o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnahodd 11 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng o fferyllfa yn Garden Village, Borras, Parc Caia neu Rostyllen y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 20.6.7 Lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd 11 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir deg o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd 11 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 11 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu’r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd 11 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa yn Garden Village, Borras, Parc Caia neu Rostyllen y bydd angen yn y dyfodol i’r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 20.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd yr holl fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 11 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaethy gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa yn Garden Village, Borras, Parc Caia neu Rostyllen y bydd angen yn y dyfodol i’r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 20.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 11 o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnahodd11 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd wyth o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd 11 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Comisiynwyd un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd 11 o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 20.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy'n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Nid oes yr un o'r fferyllfeydd wedi eu comisiynu ar hyn o bryd; fodd bynnag y mae fferyllwyr yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o'r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â'r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.

- Cadarnhaodd 11 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai’r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 20.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd 11 o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd 11 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu. Mae un heb ddigon o allu, ond gall wneud addasiadau i ymdopi.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

# 21 Ardal De Wrecsam

## 21.1 Ffeithiau allweddol

- Y boblogaeth ail uchaf, sef 135,957
- Dwysedd poblogaeth ail fwyaf, sef 270.2 o bobl y kilometr sgwâr
- 19% o'r boblogaeth yn 15 neu'n iau
- Canran ail isaf o oedolion sy'n siarad Cymraeg, 13.63%
- Cyfran ail uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen isaf yn y rhai mwyaf difreintiedig (7.1%)
- Disgwyliad einioes isaf i fenywod, sef 81.4 mlynedd
- Disgwyliad einioes iach isaf adeg genedigaeth i wrywod, sef 62.5 mlynedd
- Cyfradd ail uchaf o farwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy
- Cyfran uchaf o aelwydydd heb gar neu fan, sef 22.2%
- Cyfran isaf o'r boblogaeth wedi ymddeol, 15.2%
- Nifer uchaf o gysgwyr allan
- Cyfradd uchaf o glefydau llidus fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Sgôr gyfartalog lles meddyliol isaf (ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Cyfran uchaf o'r rhai 16 a hyn sy'n teimlo'n unig (ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Cyfradd uchaf o farwolaethau oherwydd pob clefyd resbiradol fesul 100,000 o'r boblogaeth
- Cyfradd ail uchaf o feichiogrwydd ymysg yr arddegau, wedi Sir Ddinbych
- Canran isaf o bobl nad ydynt yn yfed, sef 21.2%
- Canran uchaf o yfwyr peryglus, 17.6%
- Canran isaf o oedolion sy'n adrodd eu bod yn ymarfer corff am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos flaenorol (49.2%)
- Canran uchaf o bobl sydd dros eu pwysau neu'n ordew, sef 58.2%

Mae Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028[48] yn nodi angen am 8,525 o unedau tai, sy'n cyfateb i 568 o dai y flwyddyn neu 2,840 yn ystod einioes yr asesiad anghenion fferyllol hwn. Ar sail Adroddiad Monitro Blynyddol 2019, cwblhawyd 1,561 o'r rhain. Rhennir y tai fel a ganlyn:

- Bydd 64% o'r cyfanswm yn nhref Wrecsam,
- 22% yn y canolfannau gwasanaeth (Acrefair/Cefn Mawr, y Waun, Coedopeth, Gresffordd/Marford, Gwersyllt, Llai, Rhiwabon a Rhosllannerchrugog),
- 11% mewn canolfannau gwasanaeth lleol (Bangor, Brychdyn, Brymbo, Glyn Ceiriog, Holt, Owrtyn, Llannerch Banna, Penycae, Rhostyllen a'r Orsedd), a
- 3% mewn mân bentrefi, gyda 2% yn Rhosrobin oherwydd ei fod yn agos ac yn hygyrch i dref Wrecsam.

## 21.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal


Mae 11 fferyllfa yn yr ardal, yn cael eu rhedeg gan bedwar contractwr gwahanol. Daw un o'r fferyllfeydd dan y cynllun fferyllfa fechan hanfodol. O'r wyth practis

[48] Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2013 i 2028

meddyg teulu, mae dau yn dosbarthu o gyfanswm o ddau adeilad. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 64.0% i 87.4% o boblogaethau cofrestredig pob practis.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac adeiladau pob practis sy'n dosbarthu. Cynrychiolir y fferyllfeydd gan gylchoedd piws a'r meddygfeydd sy'n dosbarthu gan y diemwntau melyn. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 167 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy'n dosbarthu**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld o'r map isod, mae'r fferyllfeydd fel rheol mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, tra bod adeiladau'r meddygfeydd sy'n dosbarthu mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn is. Dylid nodi, lle mae'r adeiladau yn agos at ei gilydd, y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

**Map 168 – lleoliad fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu o gymharu â dwysedd poblogaeth, fesul ardal cynnyrch ehangach haen isaf**





© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Dengys y map isod fod y fferyllfeydd yn gyffredinol mewn ardaloedd mwy difreintiedig, a bod y meddygfeydd sy'n dosbarthu mewn ardaloedd â llai o amddifadedd.

**Map 169 – lleoliad fferyllfeydd o gymharu â lefel amddifadedd, Mynegai Aml-amddifadedd Cymru 2019**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2019/20, cafodd 73.6% % o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractis meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal honno, ac yr oedd pob practis dosbarthu wedi dosbarthu neu weinyddu yn bersonol 8.1% o’r eitemau a ragnodwyd. Er nad yw’r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac a weinyddwyd yn bersonol, ar sail lefel y gweinyddu personol mewn mannau eraill yng Nghymru, gellir rhagdybio bod llai na 2% o eitemau wedi eu gweinyddu’n bersonol.

Mae’r map isod yn dangos yr amser a gymer i yrru i’r fferyllfeydd ac adeiladau meddygfeydd sy’n dosbarthu: po dywyllaf y gwyrdd, byrraf yw’r daith. Fel y gellir gweld, mae ardaloedd yn y gorllewin a’r dwyrain nad ydynt o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa nac adeilad meddyg sy’n dosbarthu. Dylid nodi, lle mae’r adeiladau yn agos at ei gilydd y bydd y symbolau yn gorgyffwrdd.

Cefn gwlad bryniog yw’r ardal yn y gorllewin, gydag ychydig o dai/ffermydd gwasgaredig. Mae’r ardal yn y dwyrain sydd i’r de o Bronington yn bennaf yn Warchodfa Natur Mwsoglau Fenn, Whixall a Bettisfield, er bod tua 150 o dai ym mhentref Bettisfield.

**Map 170 – mynediad at fferyllfeydd a meddygfeydd dosbarthu yn yr ardal**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae pedair ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, a
- Saith ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener ac ar fore Sadwrn.

O ran yr amseroedd pan mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae pump yn agor am 08.30 a'r gweddill yn agor am 09.00.
- Mae amseroedd cau yn amrywio rhwng 17.00 a 18.30, er bod un fferyllfa yn cau am 12.30 ar ddydd Mercher.

Mae pob un ond un yn cau am ginio ar wahanol adegau rhwng 12.00 a 14.00.

Ar Sadyrnau, mae saith fferyllfa yn agor am 09.00, gydag un yn cau am 12.00 a'r gweddill am 13.00.

Does yr un fferyllfa ar agor ar y Sul.

Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn i'r fferyllfeydd a fyddant ar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc ac ar Sul y Pasg. Bydd yr atebion yn cael eu casglu, a'r bwrdd iechyd yn gweld a oes bylchau daearyddol o gwbl yn y ddarpariaeth. Lle mae bwlch, bydd fferyllfa naill ai'n cael ei chomisiynu neu ei chyfarwyddo i agor.

Atebodd yr holl fferyllfeydd i'r holiadur i gontractwyr fferyllfa, a chymerwyd y wybodaeth a ganlyn o'r ymatebion hynny.

Mae naw o'r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac o'r rhain, mae gan wyth ardal ymgynghori y gellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Mae'r 11 ardal ymgynghori yn:

- stafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad mewn tôn llais arferol heb i eraill eu clywed, ac
- wedi eu dynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghori cyfrinachol ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Does gan yr un fferyllfa staff sy'n siarad Cymraeg. Mae dan ddwy staff sy'n siarad Pwyleg, ac un staff sy'n siarad Sbaeneg.

Mae deg o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau am bob math o declyn, a';r unfed ar ddeg yn dosbarthu gorchuddion clwyfau yn unig.

Mae'r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o feddygfa'r meddygon teulu. O ran cludo eitemau a ddosbarthwyd:

- mae tair yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gais,
- un fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol, a
- chwech yn cyfyngu'r gwasanaeth i grwpiau penodol o gleifion (y rhai â phroblemau clinigol neu symudedd, y sawl sy'n gaeth i'w tai, a phobl fregus).

Nid oedd awgrymiadau am wasanaeth presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal. Nid oedd awgrymiadau chwaith am well gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Mae gan bedair fferyllfa gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau maent yn eu darparu:

- ailwampio i ymestyn yr adeilad dosbarthu

- yn y pen draw, ychwanegu mân anafiadau, o bosib rhoi’r gorau i smygu ac atal cenhedlu mewn argyfwng
- lansio’r gwasanaeth gofal aciwt gan ragnodydd annibynnol
- dechrau darparu’r gwasanaeth rhoi’r gorau i smygu.

Ymatebodd un o’r ddau bractis sy’n dosbarthu i’r holiadur i feddygon sy’n dosbarthu, a chymerir y wybodaeth a ganlyn o’r ymatebion hynny. Maent yn darparu gwasanaethau o un adeilad:

- mae’r adeilad dosbarthu ar agor o 08.30 i 13.00 a 14.30 i 18.30 ar ddydd Llun, Mawrth a Gwener. Ar ddydd Mercher a dydd Iau, mae’n agor am 08.30 i 13.00;
- dosberthir presgripsiynau am bob math o declyn;
- darperir gwasanaeth cludo;
- mae un aelod o staff yn siarad peth Cymraeg;
- nid oes digon o adeiladau na gallu staffio a buasent yn cael anhawster ymdopi a chynnydd yn y galw;
- mae eitemau a ddosberthir yn cael eu rhoi i gleifion wrth ddrws allanol. Mae cynlluniau ar y gweill i greu mwy o le yn yr adeilad.

### 21.2.1 Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau

Yn 2018/19 a 2019/20 yr oedd deg o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn i’r 11 yn 2019/20, gyda saith yn darparu’r uchafswm o 400 yn 2018/19 a phedair yn 2019/20. Adeg ysgrifennu hyn, ataliwyd y gwasanaeth oherwydd y pandemig Covid; rhagwelir, fodd bynnag, unwaith yr adferir y gwasanaeth y bydd y fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu.

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 171 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20**



© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 21.2.2 Adolygiad meddyginiaethau rhyddhau

Yn 2018/19, yr oedd saith o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn , gan gynyddu i naw yn 2019/20, ac nid oedd un yn darparu'r uchafswm o 140 adolygiad.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gall y trionglau pinc sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 172 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Yn 2020/21, darparodd naw o'r fferyllfeydd gyfanswm o 133 adolygiad.

### 21.2.3 Adolygiadau defnydd o declynnau

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 21.2.4 Addasu teclynnau stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau am declynnau.

### 21.2.5 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 173 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac fe'i darparwyd yn 2020/21.

### 21.2.6 Gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd gall y sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 174 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac y maent wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae hyn wedi cynyddu i ddeg yn 2021/22.

### 21.2.7 Helpa Fi i Stopio @Fferyllfa

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y sgwariau browngoch sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 175 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i smygu yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio'r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae naw wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 21.2.8 Brechu rhag y ffliw

Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. O Awst 2021 nid oedd yr un fferyllfa wedi arwyddo i ddarparu'r gwasanaeth hwn, fodd bynnag disgwylir i hyn newid a bydd y nifer o fferyllfeydd fydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2021/22 yr un fath, neu yn uwch na'r llynedd.

Mae'r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 176 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau ffliw yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

### 21.2.9 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau gwyrdd sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 177 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829


Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd naw o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae hyn wedi cynyddu i ddeg yn 2021/22.

### 21.2.10 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Mae’r map isod yn dangos y lleoliadau lle darparwyd y gwasanaeth yn 2019/20. Dylid nodi lle bo’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd y gall y diemwntau glas sy’n eu cynrychioli orgyffwrdd.

**Map 178 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu’r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng yn 2019/20**




© Hawlfraint y Goron Trwydded Mapio’r Arolwg Ordnans 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Comisiynwyd deg o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth yn 2020/21, ac mae deg wedi’u comisiynu yn 2021/22

### 21.2.11 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Mae hyn wedi cynyddu i ddeg yn 2021/22.

### 21.2.12 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Comisiynwyd pump o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn ac wedi ei ddarparu yn 2020/21. Mae pump wedi’u comisiynu yn 2021/22.

### 21.2.13 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Nid yw'r un fferyllfa wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 21.2.14 Gwasanaeth rhagnodwr annibynnol

Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. . Nid yw'r un fferyllfa wedi'u comisiynu yn 2021/22.

### 21.2.15 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae naw wedi'u comisiynu yn 2021/22.

## 21.3 Darpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai trigolion yn dewis mynd at gontractwyr y tu allan i'r ardal ac i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- sy'n cael eu cynnig gan gontractwyr dosbarthu teclynnau
- sydd wedi eu lleoli yn agos i lle maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan y meddygon teulu yn 2019/20 wedi eu dosbarthu naill ai gan yr 11 fferyllfa yn yr ardal neu'r pedwar practis sy'n dosbarthu, dosbarthwyd 6.1% y tu allan i'r ardal, yn bennaf gan gontractwyr yn Lloegr.

Hefyd, gall trigolion fod wedi mynd at un neu fwy o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal ac ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oes modd mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

## 21.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae practis meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau isod sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng
- Brechiadau ffliw
- Cyngor a thrin anhwylderau cyffredin

Mae llai na 2.0% o'r eitemau a ragnodwyd gan bractis y meddygon teulu yn debygol o fod wedi cael eu gweinyddu'n bersonol gan bob practis.

Adeg drafftio hyn, nid oes gan yr un practis meddyg teulu oriau agor estynedig.

Bydd trigolion yn cyrchu gwasanaethau eraill y GIG yn yr ardal hon neu yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau,
- Helpa Fi i Stopio,
- Cynllun triniaeth amgen,
- Clinigau iechyd rhywiol, a
- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn y gymuned.

Mae manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Ni nodwyd unrhyw wasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal ac sy’n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

## 21.5 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gellir gweld o adrannau 21.2 a 21.3, mae’r sawl sy’n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu fel arfer yn dewis cyrchu un o’r fferyllfeydd yn yr ardal er mwyn cael eu presgripsiynau wedi eu dosbarthu, neu os yn gymwys eu dosbarthu gan y practis. Mae’r rhai sy’n edrych y tu allan i’r ardal fel arfer yn gwneud hynny naill ai i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu teclynnau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.


Yn 2019/20 dosbarthodd dros 125 contractwr eitemau a ysgrifennwyd gan bractis meddyg teulu yn yr ardal hon. O’r rhain:

- yr oedd 11 yn yr ardal,
- 84 yn rhywle arall yn ardal y bwrdd iechyd,
- 29 yn rhywle arall yng Nghymru, a
- dosbarthwyd nifer o bresgripsiynau yn Lloegr.


## 21.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

Er nad ydynt yn darparu gwasanaethau fferyllol na gwasanaethau eraill y GIG yn ôl diffiniad y rheoliadau, y mae’r bwrdd iechyd wedi ystyried y fferyllfeydd sydd dros y ffin yn Lloegr. Dengys y map isod yr amseroedd teithio i’r fferyllfeydd hynny.

**Map 179 – amseroedd teithio i fferyllfeydd yn Lloegr**




© Hawlfraint y goron a hawliau cronfeydd data 2021 **[Arolwg Ordnans](#)** 100016969 | **[parallel](#)** | **[Mapbox](#)** | **[OpenStreetMap](#)** cyfranwyr



Amser teithio mewn munudau

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael.

Fel y gellir gweld, wrth ystyried y fferyllfeydd yn Lloegr, mae'r ardal yn y dwyrain, i'r de o Bronington nad yw o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa yn yr ardal o fewn taith deng munud mewn car o dair fferyllfa yn Lloegr.

### 21.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd ar hyd a lled yr ardal, ac mewn mannau lle mae'r boblogaeth ddwysaf ac amddifadedd yn uwch. Mae pob practis sy'n dosbarthu yn gyffredinol mewn mannau lle mae amddifadedd yn is.
- Nid yw rhai rhannau o'r ardal o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa; fodd bynnag, ar wahân i bentref Bettisfield naill ai nid oes pobl yn byw yno neu ychydig o dai gwasgaredig sydd yn yr ardaloedd hynny. O ystyried y fferyllfa

dros y ffin yn Lloegr yn Whitchurch, mae'r mannau yn y dwyrain o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa yn Lloegr.
- Derbyniwyd cwynion yn y gorffennol am fynediad at wasanaethau gan drigolion Acrefair oherwydd lefelau isel o berchenogaeth ceir a chludiant cyhoeddus prin. Dim ond un o'r fferyllfeydd yn yr ardal sydd ar agor ar benwythnosau, ar foreau Sadwrn.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.
- Nid oes gan yr un practis meddyg teulu unrhyw oriau agor estynedig ar hyn o bryd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaethau hyn.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd tynnu fferyllfa yn ôl o restr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Rosllannerchrugog y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy'n arwain at lai na thair awr yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn tref/pentref y bydd angen yn y dyfodol am ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol ar gyfer tri o oriau agor craidd ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle gostyngwyd yr oriau agor ategol, rhwng 09.00 and 17.00.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu'n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i'r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol reoledig ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch gyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

### 21.6.2 Gwasanaethau adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Cyn i'r gwasanaeth hwn gael ei atal roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Comisiynwyd saith fferyllfa i ddarparu uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth pedair hyn yn 2019/20.

- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 21.6.3 Adolygu meddyginiaethau rhyddhau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Yr amrywiaeth yn niferoedd y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn dros y tair blynedd a aeth heibio. Yr oedd chwech o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn in 2020/21, adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen gan fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath â'r rhai ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn medru darparu'r gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r systemau TG yn yr ysbytai ar hyn o bryd yn medru trosglwyddo gwybodaeth am ryddhau o ysbytai i'r systemau TG yn y fferyllfeydd bob tro. Felly os na fydd claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, efallai na fydd y fferyllydd yn medru gweld ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn destun ymchwiliad, a gall y sefyllfa wella yn ystod einioes y ddogfen hon.
- Oherwydd bod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig at bractis y meddyg teulu, nid oes cymaint o risg o wneud camgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Hefyd, gall practis meddygon teulu gysoni meddyginiaethau wedi i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon felly mai'r hyn sy'n achosi'r lefel gymharol isel o ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n dod i fferyllfa yn hytrach nag anallu neu amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 21.6.4 Adolygiadau defnydd o declynnau

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 21.6.5 Addasu teclynnau stoma

Er nad oes yr un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn nododd y bwrdd iechyd fod presgripsiynau am declynnau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Nododd hefyd fod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 21.6.6 Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does yr un yn darparu'r gwasanaeth yng ngorllewin yr ardal ac er bod practis meddyg teulu yng Nglyn Ceiriog, ar brynhawniau Mercher yn unig y mae ar agor.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractis meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae mwy o ganolbwynt ar atal cenhedlu tymor-hir gwrthdroadwy i fenywod cymwys.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn o fewn yr ardal leol.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol yng Nglyn Ceiriog mewn perthynas â'r diffyg hwn. Fodd bynnag, pe na bai'r bwlch hwn yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2023, fe fydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau hyn cael eu darparu o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm yng Nglyn Ceiriog.

### 21.6.7 Lefel 2 rhoi'r gorau i smygu

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does yr un yn darparu'r gwasanaeth yng Nglyn Ceiriog.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol yng Nglyn Ceiriog mewn perthynas â'r diffyg hwn. Fodd bynnag, pe na bai'r bwlch hwn yn cael ei gau, yna o 1

Ebrill 2023, fe fydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau hyn cael eu darparu o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm yng Nglyn Ceiriog.

### 21.6.8 Helpa Fi i Stopio @ fferyllfa

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 adeg drafftio'r ddogfen hon.
- Does neb yn darparu'r gwasanaeth yng ngorllewin yr ardal.
- Pennir y galw gan bobl sydd eisiau rhoi'r gorau i smygu.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol yng Nglyn Ceiriog mewn perthynas â'r diffyg hwn. Fodd bynnag, pe na bai'r bwlch hwn yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2023, fe fydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau hyn cael eu darparu o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm yng Nglyn Ceiriog.

### 21.6.9 Brechu rhag y ffliw

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 21.6.10 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does yr un yn darparu'r gwasanaeth yng ngorllewin yr ardal ac er bod practis meddyg teulu yng Nglyn Ceiriog, ar brynhawniau Mercher yn unig y mae ar agor.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, practis meddygon teulu.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfa bresennol yng Nglyn Ceiriog mewn perthynas â’r diffyg hwn. Fodd bynnag, pe na bai’r bwlch hwn yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2023, fe fydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaethau hyn cael eu darparu o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm yng Nglyn Ceiriog.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth anhwylderau cyffredin o fferyllfa sydd y tu allan i Rosllannerchrugog y bydd angen yn y dyfodol i’r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 21.6.11 Cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd deg o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Does yr un yn darparu’r gwasanaeth yng ngorllewin yr ardal ac er bod practis meddyg teulu yng Nglyn Ceiriog, ar brynhawniau Mercher yn unig y mae ar agor.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfa bresennol yng Nglyn Ceiriog mewn perthynas â’r diffyg hwn. Fodd bynnag, pe na bai’r bwlch hwn yn cael ei gau, yna o 1 Ebrill 2023, fe fydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaethau hyn cael eu darparu o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm yng Nglyn Ceiriog.

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid darpariaeth y gwell gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng o fferyllfa sydd y tu allan i Rosllannerchrugog y bydd angen yn y dyfodol i’r gwell gwasanaeth hwn gael ei ddarparu yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 21.6.12 Gwasanaeth defnyddio dan oruchwyliaeth

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd saith o’r fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a’u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw’r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 21.6.13 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd pump o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae eraill yn darparu'r gwasanaeth.
- Os gofynnir i fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth gallant fynd at y bwrdd iechyd a gofyn am gael eu comisiynu i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion cyfredol nac yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 21.6.14 Meddyginiaethau gofal diwedd oes

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth ar sail gogledd Cymru er mwyn gwneud yn siwr fod y boblogaeth o fewn taith 30 munud o fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth.
- Ni chomisiynwyd yr un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg fel un wrth gefn fel, os nad yw fferyllfa arferol yr unigolyn ar agor neu os nad yw'r eitemau angenrheidiol mewn stoc, fod modd eu cael er hynny yn weddol fuan.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 21.6.15 Gwasanaethau rhagnodydd annibynnol

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Egin-wasanaeth yw hwn sy'n dibynnu ar fod cyrsiau hyfforddi ar gael, a bod y fferyllwyr yn medru eu cwblhau.
- Nid oes yr un o'r fferyllfeydd wedi eu comisiynu ar hyn o bryd; fodd bynnag y mae fferyllwyr yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- Gall gymryd hyd at ddwy flynedd o'r amser pan fydd fferyllydd yn penderfynu ymgymryd â'r hyfforddiant hyd at ei gwblhau. Rhagwelir felly, yn ystod einioes y ddogfen hon, y bydd y bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau rhagnodydd annibynnol gan y fferyllfeydd yn yr ardal.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol â rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol am y gwasanaethau hyn yn yr ardal.

### 21.6.16 Dychwelyd bocsys nodwyddau cleifion

Nododd y bwrdd iechyd y pwyntiau canlynol:

- Comisiynwyd naw o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Cadarnhaodd yr holl fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o allu yn eu hadeiladau presennol a'u lefelau staffio i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau maent yn ddarparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol na rhai yn y dyfodol am y gwasanaeth hwn yn yr ardal.

### 21.6.17 Gwasanaeth dosbarthu o feddygfeydd

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion cyfredol yng nghyswllt y gwasanaeth hwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu'n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i'r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
    - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch gyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

## 22 Casgliadau at ddibenion atodlen 1 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Mae'r asesiad anghenion fferyllol wedi ystyried y gwasanaethau fferyllol a ddarperir ar hyn o bryd ar draws ardal y bwrdd iechyd ynghyd â demograffeg ac anghenion iechyd y boblogaeth. Mae wedi dadansoddi a yw'r ddarpariaeth bresennol yn ateb anghenion y boblogaeth ac a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol naill ai ar hyn o bryd neu yn ystod einioes y ddogfen hon.

Mae'r bwrdd iechyd am weld gwasanaeth cyson yn cael ei gynnig gan fferyllfeydd ar draws eu hardal fel y gall trigolion gyrchu gwasanaethau mewn mannau cyfleus. I gyflwyno'r weledigaeth honno, nododd y bwrdd iechyd nifer o fylchau yn narpariaeth y gwasanaethau hyn, a mynegir y rhain fel anghenion presennol a'r dyfodol yn adrannau dilynol y bennod hon.

### 22.1 Darpariaeth bresennol

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y gwasanaethau a ganlyn fel rhai sy'n angenrheidiol i ateb yr angen am wasanaethau fferyllol yn eu hardal:

- Gwasanaethau hanfodol, uwch a gwell a ddarperir ym mhob adeilad sydd ar y rhestri fferyllol
- Y gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan bractis meddygon teulu sydd ar restr y meddygon dosbarthu.

Mae adrannau blaenorol y ddogfen hon wedi gosod allan lle y darperir y gwasanaethau hyn ym mhob ardal.

Mae hefyd wedi nodi fod y gwasanaethau uchod yn cael eu darparu gan gontractwyr y tu allan i'w hardal, boed hynny yng Nghymru neu yn Lloegr, fel rhai sy'n cyfrannu at ateb yr angen am wasanaethau fferyllol yn eu hardal.

### 22.2 Gwasanaethau eraill y GIG

Wrth gynnal yr asesiad anghenion fferyllol hwn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn tybio fod gwasanaethau eraill y GIG a welir isod yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, ac wedi eu hystyried:

- Gwasanaethau ysbytai
- Gweinyddu eitemau yn bersonol gan feddygon teulu
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau
- Unedau mân anafiadau
- Gwasanaeth fferyllfa HMP Berwyn
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau
- Helpa Fi i Stopio
- Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu dan eu contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Y cynllun triniaethau amgen
- Hosbisau

- Gwasanaethau cymunedol eraill megis deintyddiaeth gymunedol, rhagnodwyr optometreg annibynnol, y gwasanaeth i Sipsiwn a Theithwyr, nyrsys cymunedol a gwasanaethau deintyddol, a
- Clinigau iechyd rhywiol

## 22.3 Bylchau presennol yn y ddarpariaeth

### 22.3.1 Mynediad presennol at wasanaethau hanfodol

Er mwyn asesu darpariaeth gwasanaethau hanfodol yn erbyn anghenion y boblogaeth, mae'r bwrdd iechyd yn ystyried mai mynediad (amseroedd teithio ac oriau agor) yw'r ffactor pwysicaf o ran pennu i ba raddau y mae'r ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol presennol yn ateb anghenion y boblogaeth.

Cytunwyd ar amser teithio o 20 munud mewn car a mapiwyd amseroedd teithio i'r boblogaeth at fferyllfa yn erbyn y safon honno. Nododd y bwrdd iechyd fod mwyafrif helaeth eu poblogaeth o fewn taith 20 munud i fferyllfa.

Nododd y bwrdd iechyd yr anghenion presennol a ganlyn o ran darparu gwasanaethau hanfodol.

#### 22.3.1.1 Môn

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

#### 22.3.1.2 Arfon

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

#### 22.3.1.3 Dwyfor

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

#### 22.3.1.4 Meirionnydd

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

#### 22.3.1.5 Gorllewin Conwy

Nododd y bwrdd iechyd fod angen cyfredol am fferyllfa ym Metws y Coed, sydd ag isafswm o oriau agor craidd fel a ganlyn:

- 09.00 i 17.00 o ddydd Llun tan ddydd Gwener,
- Chwe awr ar Sadyrnau, a
- Chwe awr ar Suliau.

Rhaid i’r fferyllfa ddarparu pob gwasanaeth hanfodol.

### 22.3.1.6 Dwyrain Conwy

Nododd y bwrdd iechyd fod angen cyfredol am i fferyllfa yn Nhowyn fod ar agor chwe diwrnod yr wythnos gydag isafswm o dair o oriau agor craidd naill ai ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul.

Mae’n rhaid i’r fferyllfa ddarparu’r holl wasanaethau hanfodol.

### 22.3.1.7 Gogledd Sir Ddinbych

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.1.8 Canol a De Sir Ddinbych

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.1.9 Gogledd-orllewin Sir y Fflint

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.1.10 Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.1.11 De Sir y Fflint

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.1.12 Gogledd-orllewin Wrecsam

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.1.13 Canol Wrecsam

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.1.14 De Wrecsam

Nid yw’r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.2 Mynediad presennol at wasanaethau uwch

O fis Medi 2021, mae'r gwasanaeth adolygu defnydd o feddyginiaethau wedi ei atal.

Darparwyd y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau gan 120 o'r fferyllfeydd yn 2020/21. Dylid nodi bod nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf, a gosododd y bwrdd iechyd eu canfyddiadau am y rhesymau dros hyn yn y penodau ar ardaloedd.

Nododd y bwrdd iechyd mai un o'r rhesymau pam fod presgripsiynau yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr y tu allan i'w hardal yw am eu bod yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr dosbarthu teclynnau, naill ai yn rhywle arall yng Nghymru, neu yn Lloegr. Mae'r contractwyr hyn yn darparu'r ddau wasanaeth uwch am declynnau, a bydd nyrsys stoma ac anymataledd yn darparu gwasanaethau cyfatebol.

Ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion presennol am unrhyw rai o'r pedwar gwasanaeth uwch.

### 22.3.3 Mynediad presennol at well gwasanaethau

#### 22.3.3.1 Môn

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

#### 22.3.3.2 Arfon

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

#### 22.3.3.3 Dwyfor

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

#### 22.3.3.4 Meirionnydd

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

#### 22.3.3.5 Gorllewin Conwy

Nododd y bwrdd iechyd fod angen cyfredol am fferyllfa ym Metws y Coed sy'n darparu'r gwasanaethau gwell canlynol o'r pwynt pan fydd yn cael ei gynnwys ar y rhestr fferyllol:

- atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng,
- gwasanaeth mân anhwylderau, a
- gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

### 22.3.3.6 Dwyrain Conwy

Nododd y bwrdd iechyd fod angen cyfredol am fferyllfa yn Nhowyn sy'n darparu'r gwasanaethau gwell canlynol o'r pwynt pan fydd yn cael ei gynnwys ar y rhestr fferyllol:

- atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng,
- gwasanaeth mân anhwylderau,
- gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng,
- lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, a
- helpa fi i stopio @ fferyllfa.

### 22.3.3.7 Gogledd Sir Ddinbych

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.3.8 Canol a De Sir Ddinbych

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.3.9 Gogledd-orllewin Sir y Fflint

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.3.10 Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.3.11 De Sir y Fflint

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.3.12 Gogledd-orllewin Wrecsam

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.3.13 Canol Wrecsam

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.3.14 De Wrecsam

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi canfod unrhyw anghenion ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol yn yr ardal leol hon.

### 22.3.4 Mynediad presennol at wasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu

Nododd y bwrdd iechyd y gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan 37 o'r practis meddygon teulu i gleifion cymwys ac nid yw wedi nodi unrhyw anghenion presennol o ran darparu'r gwasanaeth hwn.

## 22.4 Bylchau yn y dyfodol yn y ddarpariaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau hysbys isod fydd yn digwydd yn y dyfodol:

- Y rhagamcan am dwf mewn poblogaeth a phoblogaeth sy'n heneiddio,
- Datblygiadau tai, ac
- Adleoli practis meddygon teulu.

Maent hefyd wedi ystyried Fferylliaeth: Cyflwyno Cymru Iachach sydd yn gosod allan y nod tymor-hir o drawsnewid y gwasanaeth er mwyn sicrhau'r enillion iechyd mwyaf o feddyginiaethau a ragnodir.

### 22.4.1 Mynediad yn y dyfodol at wasanaethau hanfodol

Nododd y bwrdd iechyd, pe collid unrhyw oriau agor ategol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 sy'n arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth o ran gwasanaethau fferyllol mewn tref/pentref y bydd angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol am dair o oriau agor ategol ar Sadyrnau yn y dref/pentref neu drefi/pentrefi lle bu'r gostyngiad mewn oriau agor ategol, rhwng 09.00 a 17.00.

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod pe bai practis meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu ar gyfer ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, bydd angen yn y dyfodol am naill ai:

- y gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu i'w ddarparu ar gyfer yr ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol a leolir ac sy'n fwy na 1.6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun hyd at ddydd Gwener fel gofyniad, gan ddarparu:
    - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, ac
    - atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaethau uwch cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

### 22.4.1.1 Môn

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Gaergybi a

Llangefni y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

#### 22.4.1.2 Arfon

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Fangor a Chaernarfon y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

#### 22.4.1.3 Dwyfor

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Borthmadog a Phwllheli y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

#### 22.4.1.4 Meirionnydd

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Ddolgellau a Blaenau Ffestiniog y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

#### 22.4.1.5 Gorllewin Conwy

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Gonwy a Llandudno y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

#### 22.4.1.6 Dwyrain Conwy

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol yn Llandrillo yn Rhos y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

#### 22.4.1.7 Gogledd Sir Ddinbych

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i 'r Rhyl a Phrestatyn (ac eithrio am Fodelwyddan) y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

Nododd y bwrdd iechyd, petai'r fferyllfa ym Modelwyddan yn tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol, y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn y dref i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol yn ystod yr oriau agor craidd canlynol:

- O leiaf ddeg o oriau agor craidd y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- Chwech o oriau agor craidd ar Sadyrnau, a
- Chwech o oriau agor craidd ar y Sul.

### 22.4.1.8 Canol a De Sir Ddinbych

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Ddinbych a Rhuthun y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

### 22.4.1.9 Gogledd-orllewin Sir y Fflint

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Dreffynnon a'r Fflint y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

### 22.4.1.10 Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol yn Garden City y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

### 22.4.1.11 De Sir y Fflint

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i'r Wyddgrug a Bwcle y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

### 22.4.1.12 Gogledd-orllewin Wrecsam

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Goedpoeth y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

#### 22.4.1.13 Canol Wrecsam

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol yn Garden Village, Borras, Parc Caia neu Rostyllen y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

#### 22.4.1.14 De Wrecsam

Nododd y bwrdd iechyd pe collid gwasanaethau hanfodol oherwydd bod fferyllfa wedi tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol mewn tref/pentref sydd y tu allan i Rosllannerchrugog y bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref/pentref i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa a gaeodd.

### 22.4.2 Mynediad yn y dyfodol at wasanaethau uwch

Gan ystyried eu canfyddiadau o ran darpariaeth bresennol y pedwar gwasanaeth uwch, ni nododd y bwrdd iechyd unrhyw anghenion at y dyfodol mewn perthynas â hwy.

### 22.4.3 Mynediad yn y dyfodol at well gwasanaethau

Nododd y bwrdd iechyd yr anghenion canlynol at y dyfodol o ran darparu gwell gwasanaethau.

#### 22.4.3.1 Môn

Oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y tymor gwyliau, nododd y bwrdd iechyd angen yn y dyfodol am ddarparu rhai o'r gwell gwasanaethau ar y Sul yn y mannau canlynol, i ddod i rym o 1 Ebrill 2023 rhwng Ebrill a Hydref:

- Amlwch,
- Benllech,
- Llangefni a
- Rhosneigr.

Dyma'r gwasanaethau:

- Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng,
- Gwasanaeth anhwylderau cyffredin, a
- Cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa mewn tref/pentref sydd y tu allan i Gaergybi a Llangefni y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu yn yr un dref/pentref yn ystod, fel isafswm, yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 22.4.3.2 Arfon

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i Fangor a Chaernarfon y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 22.4.3.3 Dwyfor

Oherwydd y cynnydd mewn poblogaeth yn ystod y tymor gwyliau, nododd y bwrdd iechyd angen yn y dyfodol am y gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, mân anhwylderau a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng i'w darparu ar y Sul mewn tref tua phen draw'r penrhyn i ddod i rym o 1 Ebrill 2023 rhwng Ebrill a Hydref.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i Borthmadog a Phwllheli y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 22.4.3.4 Meirionnydd

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfeydd presennol mewn perthynas â diffyg fferylla gan ddarparu gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a gwasanaethau uwch cyflenwi medydginiaethau mewn argyfwng ar brynhawniau Sul yn Nolgellau. Fodd bynnag, os nad eir i'r afael â'r bwlch hwn, o 1 Ebrill 2023, bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau hyn gael eu darparu ar brynhawniau Sul yn Nolgellau.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i Ddolgellau a Blaenau Ffestiniog y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 22.4.3.5 Gorllewin Conwy

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i Gonwy a Llandudno y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 22.4.3.6 Dwyrain Conwy

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa mewn ardal oherwydd cau'r fferyllfa yn Llandrillo yn Rhos y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 22.4.3.7 Gogledd Sir Ddinbych

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, brechu rhag y ffliw a gwasanaethau uwch ar gyfer mân anhwylderau ym Modelwyddan. Fodd bynnag, os nad eir i'r afael â'r bwlch hwn, o 1 Ebrill 2023, bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau hyn gael eu darparu ym Modelwyddan saith niwrnod o'r wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- chwe awr ar ddydd Sadwrn i gynnwys o 13.00 hyd a 15.00, a
- thair awr ar ddydd Sul ar gyfer 12 canol dydd.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i'r Rhyl a Phrestatyn y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 22.4.3.8 Canol a De Sir Ddinbych

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng a gwasanaethau uwch lefel 2 rhoi'r gorau i smygu yn Llanelwy. Fodd bynnag, os nad eir i'r afael â'r bwlch hwn, o 1 Ebrill 2023, bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau hyn gael eu darparu yn Llanelwy o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i Ddinbych a Rhuthun y bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 22.4.3.9 Gogledd-orllewin Sir y Fflint

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, gwasanaeth mân anhwylderau, brechu rhag y ffliw, a gwasanaethau uwch cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng yng Nghaerwys. Fodd bynnag, os nad eir i'r afael â'r bwlch hwn, o 1 Ebrill 2023, bydd angen yn y

dyfodol i’r gwasanaethau hyn gael eu darparu yng Nghaerwys o ddydd Llun i ddydd Gwener fel lleiafswm.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i Dreffynnon a’r Fflint y bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 22.4.3.10 Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa yn Garden City y bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 22.4.3.11 De Sir y Fflint

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i’r Wyddgrug a Bwcle y bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 22.4.3.12 Gogledd-orllewin Wrecsam

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, lefel 2 rhoi’r gorau i smygu, gwasanaeth mân anhwylderau, a gwasanaethau uwch meddyginiaethau mewn argyfwng yn Yr Orsedd. Fodd bynnag, os nad eir i’r afael â’r bwlch hwn, o 1 Ebrill 2023, bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaethau hyn gael eu darparu yn Yr Orsedd, chwe niwrnod o’r wythnos am:

- wyth awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, a
- thair awr ar ddydd Sadwrn.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i Goedpoeth y bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â’r fferyllfa sydd wedi rhoi’r gorau i’w darparu.

### 22.4.3.13 Canol Wrecsam

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa yn Garden Village, Borras, Parc Caia neu Rostyllen y bydd angen yn y dyfodol i’r gwasanaethau gwell hyn gael eu

darparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w darparu.

### 22.4.3.14 De Wrecsam

Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa bresennol mewn perthynas â diffyg gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, gwasanaeth mân anhwylderau, a gwasanaethau uwch cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng yng Nglyn Ceiriog. Fodd bynnag, os nad eir i'r afael â'r bwlch hwn, o 1 Ebrill 2023, bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau hyn gael eu darparu o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm yng Nglyn Ceiriog.

Nododd y bwrdd iechyd pe collid y ddarpariaeth gwell gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, a chyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng gan fferyllfa sydd y tu allan i Rosllannerchrugog y bydd angen yn y dyfodol i'r gwell gwasanaeth hwn gael e ddarparu, fel isafswm, yn ystod yr un oriau agor craidd ac ategol â'r fferyllfa sydd wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu.

### 22.4.4 Mynediad yn y dyfodol at wasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu

Mae'r bwrdd iechyd wedi canfod petai practis meddyg teulu'n rhoi gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, y bydd angen yn y dyfodol naill ai am:

- i'r gwasanaeth dosbarthu gan feddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal leol a reolir ac sy'n fwy na 1,6km mewn llinell unionsyth o fferyllfa, neu
- fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm, gan ddarparu:
  - pob un o'r gwasanaethau hanfodol, a
  - y gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, gwasanaeth mân anhwylderau, lefel 2 rhoi'r gorau i smygu, helpa fi i stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth uwch cyflenwi meddyginiaethau mewn argyfwng.

## Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol, contractwyr cyfarpar fferyllol a meddygon fferyllol yn gweithredu ynddo drwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi. O fewn y fframwaith, mae'r cyfrifoldeb am gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol wedi'i freinio mewn byrddau iechyd y mae'n rhaid iddynt gynllunio gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaethau preswyl. Mae hyn yn cynnwys pennu nifer a lleoliad fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar fferyllol yn eu hardaloedd.

Rhoddir y ddyletswydd gyffredinol i sicrhau y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu, fel gydag agweddau eraill ar wasanaethau gofal sylfaenol y GIG, yn uniongyrchol i fyrddau iechyd o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 (Deddf 2006). Mae byrddau iechyd yn rheoli rhestrau lleol o ddarparwyr cymeradwy, y cyfeirir atynt fel rhestrau fferyllol, ac mae cynnwys safleoedd contractwyr fferyllol a chontractwyr cyfarpar fferyllol ar restrau fferyllol yn rhoi hawl i gontractwyr ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn y safleoedd hynny.

Mae'r trefniadau hyn yn rheoli'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol ac nid yr hawl i agor a chynnal busnes fferyllol yng Nghymru. Ymdrinnir â hynny o dan ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer y DU gyfan, Deddf Meddyginiaethau 1968.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a dyletswyddau helaeth i wneud rheoliadau ac i roi cyfarwyddiadau i fyrddau iechyd, sy'n rheoli manylion y system gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pennu telerau gwasanaeth fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar fferyllol a chymhwyso'r prawf rheoli mynediad, sef y prawf y bu'n rhaid ei fodloni hyd at 1 Hydref 2021 cyn y byddai bwrdd iechyd yn caniatáu cais am fynediad, neu'n diwygio cofnod, ar y rhestr fferyllol.

O dan Reoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (Rheoliadau 2013), a'r rheoliadau blaenorol, cyflwynodd y personau hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol gais i'r bwrdd iechyd yn unol â Rheoliadau 2013. Yna penderfynodd y bwrdd iechyd p’un a oedd y cais yn bodloni'r prawf perthnasol ai peidio. Roedd Rheoliadau 2013 yn caniatáu i benderfyniad y bwrdd iechyd gael ei herio drwy gyflwyno apêl gyda Gweinidogion Cymru.

Felly, roedd y system flaenorol o ddarparu gwasanaethau fferyllol yn cael ei llywio gan y rhai a oedd yn dymuno darparu gwasanaethau fferyllol. Nhw oedd yn penderfynu pa wasanaethau yr oeddent am eu darparu ac o ba leoliad.

Roedd hynny'n golygu bod y system yn adweithiol i geisiadau ac nad oedd byrddau iechyd yn gallu cynllunio lle'r oedd fferyllfeydd neu gontractwyr cyfarpar fferyllol wedi'u lleoli na chyfarwyddo pa wasanaethau yr oedd rhaid eu darparu o'r lleoliadau hynny.

### Sail resymegol dros newid

Yn 2010 sefydlodd y Gweinidog Iechyd bryd hynny a’r Gwasanaethau Cymdeithasol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r fframwaith rheoleiddio, i ystyried polisi Llywodraeth Cymru ar reoli mynediad a darparu gwasanaethau fferyllol gan

broffesiynau iechyd ar wahân i fferyllwyr (e.e. meddygon) ac i wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth, os yw'n briodol, i gyflwyno system hirdymor, cost-effeithiol a chynaliadwy a fyddai'n rhoi mynediad priodol i gleifion at wasanaethau fferyllol.

Yn 2011 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar argymhellion y grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd yr ymgynghoriad "Cynigion i ddiwygio a moderneiddio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992" yn ceisio barn ar gynigion i ddarparu dull newydd o benderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol yng Nghymru yn seiliedig ar asesiad o anghenion lleol gan fyrddau iechyd. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gwneud newid o'r fath yn gofyn am greu a chynnwys pwerau priodol yn Neddf 2006.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth Rheoliadau 2013 i rym ar 10 Mai 2013 ond nid oeddent yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno asesiadau o angen fferyllol (AauAFf).

Mewnosododd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Deddf 2017) adran 82A yn Neddf 2006 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswydd newydd i fyrddau iechyd yng Nghymru baratoi a chyhoeddi asesiad o angen am wasanaethau fferyllol. Rhoddodd adran 82A bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi'r gofynion ar gyfer AauAFf yng Nghymru.

**Effaith a fwriedir a chanlyniadau buddiol**

Yr effaith a fwriedir o gyflwyno AauAFf yw gwella'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol drwy sicrhau bod y byrddau iechyd yn ystyried anghenion fferyllol eu poblogaethau'n gadarn ac yn alinio gwasanaethau'n agosach â hwy. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gymryd dull mwy integredig o nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad pob darparwr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon fferyllol). Bydd byrddau iechyd yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi lle mae angen safleoedd ychwanegol, lle mae darparwyr presennol yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion fferyllol, a lle mae angen gwasanaethau ychwanegol o safleoedd presennol.

Bydd y newid yn rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr, gan leihau risg busnes a chaniatáu iddynt fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau ehangach nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Yn bwysig, bydd fferyllfeydd yn arbennig hefyd yn dod yn fwy ymatebol i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn darparu gwasanaethau'n effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion fferyllol a nodwyd.

**Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoliadau**

Mae adran 80 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau fferyllol a nodir yn isadrannau 80(3)(a) i (d). Gwasanaethau gweinyddu yw'r gwasanaethau fferyllol craidd hyn yn y bôn. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd y mae byrddau iechyd yn gwneud y trefniadau hyn.

Mae adran 81 o Ddeddf 2006 yn nodi'r trefniadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol. Diffinnir 'gwasanaethau

fferyllol ychwanegol' fel gwasanaethau o'r fath nad ydynt yn dod dan adran 80 h.y. gwasanaethau uwch a gwell. Mae adran 81 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i fwrdd iechyd:

(i) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo drefnu i ddarparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol, neu
(ii) awdurdodi'r bwrdd iechyd i drefnu i ddarparu gwasanaethau fferyllol os yw'n dymuno.

Mae adran 83 o Ddeddf 2006 yn cynnwys craidd pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau fferyllol ac, ymhlith pethau eraill, yn nodi'r gofyniad i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i fwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi rhestr fferyllol, ac yn nodi'r profion y mae'n rhaid i'r personau hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol eu pasio er mwyn gwneud hynny (a elwir yn 'prawf rheoli mynediad').

Mae adran 84 yn nodi gofyniad i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer hawliau apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan fyrddau iechyd drwy arfer pwerau a roddwyd iddynt gan reoliadau a wneir o dan adran 83.

Gwnaeth Rhan 7 o Ddeddf 2017 ddarpariaeth i ddiwygio Deddf 2006 mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol. Mewnosododd adran 111 o Ddeddf 2017 adran 82A newydd yn Neddf 2006 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag AauAFf. Daeth Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019 â Rhan 7 o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2019. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru bellach wedi gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gofynion ar gyfer AauAFf yng Nghymru.

Cafodd Rheoliadau 2013 eu dirymu a'u disodli gan Reoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae Rhan 2 o Reoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn gosod y gofynion cyfreithiol ar fyrddau iechyd i gwblhau AauAFf.

Daeth Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 i rym ar 1 Hydref 2020 ac mae gan fyrddau iechyd tan 1 Hydref 2021 i gyhoeddi eu hasesiad o angen fferyllol (AAFf) cyntaf.

I grynhoi, mae Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn nodi:

- Gwasanaethau sydd i'w cynnwys gan yr AAFf
- Gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr AAFf (dylid nodi bod byrddau iechyd yn rhydd i gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol yn eu barn nhw)
- Y dyddiad y mae'n rhaid i fyrddau iechyd gyhoeddi eu AAFf cyntaf
- Gofyniad ar fyrddau iechyd i gyhoeddi AauAFf pellach bob pum mlynedd
- Gofyniad i gyhoeddi asesiad diwygiedig yn gynt na bob pum mlynedd mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i gyhoeddi datganiadau atodol mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i ymgynghori â rhai pobl a sefydliadau o leiaf unwaith wrth gynhyrchu'r AAFf, am o leiaf 60 diwrnod; a
- Materion y mae'r bwrdd iechyd i roi sylw iddynt wrth gynhyrchu ei AAFf.

Unwaith y bydd bwrdd iechyd wedi cyhoeddi ei AAFf cyntaf, mae'n ofynnol iddo gynhyrchu AAFf diwygiedig o fewn pum mlynedd neu'n gynt os yw'n nodi newidiadau helaeth i'r angen am wasanaethau fferyllol. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo'r bwrdd iechyd yn fodlon y byddai cynhyrchu AAFf diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny.

Yn ogystal, caiff bwrdd iechyd gyhoeddi datganiad atodol pan fo'n nodi newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol sy'n berthnasol i ganiatáu ceisiadau y cyfeirir atynt yn Adran 83 o Ddeddf 2006, a

- Mae'n fodlon y byddai gwneud asesiad diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny, neu
- Mae'n rhan o wneud asesiad diwygiedig ac mae'n fodlon bod addasu ei AAFf ar unwaith yn hanfodol er mwyn atal niwed i ddarparu gwasanaethau fferyllol yn ei ardal.

**Datblygu'r gofynion manwl**

Sefydlwyd gweithgor ym mis Tachwedd 2015 i ddatblygu'r gofynion manwl ar gyfer cynnal AAFf ac adolygu a diwygio'r profion a'r gweithdrefnau fel y maent yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Roedd y grŵp, a wnaeth gyfarfod ar sawl achlysur, yn cynnwys arweinwyr fferyllfeydd byrddau iechyd gyda gwybodaeth am reolaeth flaenorol y system mynediad ac arbenigedd mewn fferyllfeydd cymunedol, arweinwyr (fferyllfeydd) gofal sylfaenol Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir y GIG, sydd ag arbenigedd yn y broses o benderfynu ar reolaeth dros geisiadau mynediad, a staff Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ar AauAFf, gan gynnwys y cynigion dilynol yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

# Atodiad B – gwasanaethau hanfodol

## 1. Dosbarthu presgripsiynau

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyflenwi meddyginiaethau a chyfarpar a archebwyd ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor, i alluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn derbyn meddyginiaethau a chyfarpar a archebwyd yn ddiogel ac yn briodol gan y fferyllfa:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cael systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Cael systemau ar waith i sicrhau cywirdeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl feddyginiaethau a chyfarpar a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gofal cleifion yn y dyfodol
- Cadw cofnod o'r cyngor a roddir, ac ymyriadau ac atgyfeiriadau a wneir, lle mae'r fferyllydd o'r farn ei fod yn glinigol briodol.

Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu meddyginiaethau a'u cyfarpar yn effeithiol gan staff fferyllol:

- Rhoi gwybodaeth a chyngor i'r claf neu ei gynrychiolydd ar ddefnyddio ei feddyginiaeth neu ei gyfarpar yn ddiogel
- Darparu cyngor ehangach i'r claf ar y feddyginiaeth pan fo'n briodol, er enghraifft ei sgil-effeithiau posibl a'r ffordd y mae'n rhyngweithio â sylweddau eraill.

## 2. Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy'r GIG ar gyfer meddyginiaethau a chyfarpar mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer dosbarthu, fel bod y fferyllydd yn canfod angen y claf am ailgyflenwad ac yn cyfleu unrhyw faterion sy'n glinigol arwyddocaol i'r rhagnodwr.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu meddyginiaethau a'u cyfarpar presgripsiwn rheolaidd yn uniongyrchol o fferyllfa gymunedol am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodwr.

- Lleihau gwastraff drwy leihau nifer y meddyginiaethau a'r cyfarpar a ddosberthir nad yw'n ofynnol gan y claf
- Lleihau llwyth gwaith practisau meddygol cyffredinol, drwy ostwng y baich o reoli presgripsiynau amlroddadwy.

## 3. Gwaredu cyffuriau diangen

### Disgrifiad o’r gwasanaeth

Fferyllfeydd cymunedol yn derbyn meddyginiaethau diangen y mae angen eu gwaredu'n ddiogel gan aelwydydd preifat a phobl sy'n byw mewn cartref gofal preswyl. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd drefnu i gasglu a gwaredu meddyginiaethau gwastraff o fferyllfeydd.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Sicrhau bod gan y cyhoedd ddull hawdd o gael gwared ar feddyginiaethau diangen yn ddiogel
- Lleihau nifer y meddyginiaethau diangen a gedwir yng nghartrefi pobl drwy ddarparu llwybr i'w waredu gan leihau'r risg o wenwyn damweiniol yn y cartref a rhoi meddyginiaethau i bobl eraill nad ydynt wedi'u hawdurdodi i'w cael
- Lleihau'r risg o ddatgelu'r cyhoedd i feddyginiaethau diangen a waredwyd drwy ddulliau anniogel
- Lleihau difrod amgylcheddol a achosir gan y dulliau gwaredu amhriodol ar gyfer meddyginiaethau diangen.

## 4. Hyrwyddo ffordd o fyw iach

### Disgrifiad o’r gwasanaeth

Darparu ffordd iach o fyw iach oportiwnistaidd a chyngor iechyd y cyhoedd i gleifion sy'n derbyn presgripsiynau sy'n ymddangos fel pe bai’r canlynol yn wir amdanynt:

- mae ganddynt ddiabetes; neu
- maent mewn perygl o gael clefyd coronaidd y galon, yn enwedig y rhai â phwysedd gwaed uchel; neu
- maen nhw’n ysmygu; neu
- maen nhw dros bwysau,

a chyfranogiad rhagweithiol mewn ymgyrchoedd cenedlaethol/lleol, i hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ymwelwyr fferyllfeydd cyffredinol yn ystod cyfnodau ymgyrchu targedig penodol

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth cleifion a'r cyhoedd o negeseuon allweddol am ffordd o fyw iach ac iechyd y cyhoedd fel eu bod yn cael eu grymuso i gymryd camau a fydd yn gwella eu hiechyd.

- Er mwyn targedu'r sectorau ‘anodd eu cyrraedd’ o'r boblogaeth nad ydynt yn aml yn cael eu hamlygu i weithgareddau hybu iechyd mewn rhannau eraill o'r sector iechyd neu ofal cymdeithasol.

## 5. Atgyfeirio

### Disgrifiad o’r gwasanaeth

Darparu gwybodaeth i bobl sy'n ymweld â'r fferyllfa, y mae angen cymorth, cyngor neu driniaeth bellach arnynt na all y fferyllfa ei ddarparu, ond sydd ar gael gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill neu sefydliadau cymorth a allai gynorthwyo'r person. Lle bo'n briodol, gall hyn fod ar ffurf atgyfeiriad.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Hysbysu neu gynghori pobl sydd angen cymorth, na ellir ei ddarparu gan y fferyllfa, darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol priodol eraill neu sefydliadau cymorth
- Galluogi pobl i gysylltu a/neu gael gafael ar ofal a chymorth pellach sy'n briodol i'w hanghenion
- Lleihau'r defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## 6. Cymorth ar gyfer hunanofal

### Disgrifiad o’r gwasanaeth

Cyngor a chymorth gan staff fferyllol i alluogi pobl i gael y budd mwyaf posibl o ofalu amdanynt eu hunain neu eu teuluoedd.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Gwella mynediad a dewis i bobl sy'n dymuno gofalu amdanynt eu hunain neu eu teuluoedd
- Mae pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael cyngor priodol i'w helpu i hunanreoli cyflwr hunangyfyngol neu hirdymor, gan gynnwys cyngor ar ddethol a defnyddio unrhyw feddyginiaethau priodol
- Mae pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael cyngor hybu iechyd oportiwnistaidd pan fo'n briodol, yn unol â'r cyngor a ddarperir mewn gwasanaeth hanfodol – hyrwyddo gwasanaeth ffordd o fyw iach
- Mae pobl, gan gynnwys gofalwyr, mewn sefyllfa well i ofalu amdanynt eu hunain neu reoli cyflwr ar y pryd ac yn y dyfodol, drwy fod yn fwy gwybodus am yr opsiynau triniaeth sydd ganddynt, gan gynnwys rhai nad ydynt yn rhai ffarmacolegol
- Lleihau'r defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

# Atodiad C – gwasanaethau uwch

## 1. Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau ac ymyrraeth o ran presgripsiynau

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys adolygiadau o'r defnydd o feddyginiaethau a gynhelir o bryd i'w gilydd, yn ogystal â'r rheiny sy'n codi mewn ymateb i'r angen i wneud ymyrraeth sylweddol o ran presgripsiynau yn ystod y broses ddosbarthu. Mae adolygiad o'r defnydd o feddyginiaethau yn ymwneud â helpu cleifion i ddefnyddio eu meddyginiaethau'n fwy effeithiol.

Gall argymhellion a wneir i ragnodwyr hefyd ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol neu gost triniaeth.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Gwella gwybodaeth am gleifion a'r defnydd o feddyginiaethau drwy:

- Sefydlu defnydd, dealltwriaeth a phrofiad gwirioneddol y claf o gymryd ei feddyginiaethau;
- Nodi, trafod a chynorthwyo i ddatrys defnydd gwael neu aneffeithiol o'u meddyginiaethau;
- Nodi sgil-effeithiau a rhyngweithiadau cyffuriau a allai effeithio ar gydymffurfiaeth cleifion;
- Gwella effeithiolrwydd clinigol a chost meddyginiaethau presgripsiwn a thrwy hynny leihau gwastraff meddyginiaeth.

Ym mis Tachwedd 2020, cafodd y gwasanaeth hwn ei atal hyd nes y rhoddir gwybod yn wahanol.

## 2. Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau i gleifion a ryddhawyd

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Bydd y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau i gleifion a ryddhawyd yn rhoi cymorth i gleifion a ryddhawyd yn ddiweddar rhwng lleoliadau gofal drwy sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wneir mewn un lleoliad gofal (e.e. yn ystod arhosiad yn yr ysbyty) yn cael eu gweithredu fel a fwriadwyd yn y gymuned gan helpu i leihau'r risg o broblemau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir eu hatal a chefnogi cydymffurfiaeth â meddyginiaethau newydd. Bydd y gwasanaeth, sy'n adeiladu ar y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau i gleifion a ryddhawyd presennol, yn rhoi cyfle i gefnogi cleifion i wella eu gwybodaeth a'u defnydd o gyffuriau.

**Nodau a chanlyniadau a fwriedir**

Diben sylfaenol y gwasanaeth hwn, gyda chytundeb y claf, yw cyfrannu at leihau'r risg o gamgymeriadau gyda meddyginiaethau a digwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau drwy, yn benodol –

- Cynyddu argaeledd gwybodaeth gywir am feddyginiaethau claf,
- Gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal cleifion, a chleifion a'u gofalwyr,
- Cynyddu cyfranogiad cleifion yn eu gofal eu hunain drwy eu helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'u meddyginiaethau, a
- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd presgripsiynau diangen neu ddyblyg yn cael eu dosbarthu a thrwy hynny leihau gwastraff meddyginiaethau.

Gall contractwyr fferyllol hawlio uchafswm o 140 o adolygiadau o feddyginiaethau i gleifion a ryddhawyd fesul fferyllfa am y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth o unrhyw flwyddyn ariannol.

## 3. Addasu offer Stoma

**Disgrifiad o’r gwasanaeth**

Mae addasu offer Stoma yn golygu addasu mwy nag un offeryn stoma, lle:

- Rhestrir yr offeryn stoma sydd i'w addasu yn Rhan IXC o'r Tariff Cyffuriau
- Mae'r addasu'n golygu addasu i'r un fanyleb o rannau unfath lluosog i'w defnyddio gydag offeryn; a
- Mae'r addasiad yn seiliedig ar fesur neu gofnod y claf o'r mesuriadau hynny ac, os yw'n berthnasol, templed.

**Nodau a chanlyniadau a fwriedir**

Diben pennaf y gwasanaeth yw:

- Sicrhau bod y claf yn gallu defnyddio’r offer stoma yn briodol a chyffyrddus; a
- Gwella hyd y defnydd o'r offer, a thrwy hynny leihau gwastraff offer o'r fath.

## 4. Adolygiad o'r defnydd o gyfarpar

**Disgrifiad o’r gwasanaeth**

Mae adolygiad o'r defnydd o gyfarpar yn ymwneud â helpu cleifion i ddefnyddio eu cyfarpar yn fwy effeithiol. Gall argymhellion a wneir i ragnodwyr hefyd ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol neu gost triniaeth.

**Nodau a chanlyniadau a fwriedir**

Diben pennaf y gwasanaeth, gyda chytundeb y claf, yw gwella gwybodaeth a defnydd y claf o unrhyw gyfarpar penodedig drwy, yn benodol:

- Sefydlu'r ffordd y mae'r claf yn defnyddio'r cyfarpar penodedig a phrofiad y claf o ddefnydd o'r fath
- Nodi, trafod a chynorthwyo i ddatrys defnydd gwael neu aneffeithiol o'r cyfarpar penodedig gan y claf
- Cynghori'r claf ar storio'r cyfarpar penodedig yn ddiogel ac yn briodol
- Cynghori'r claf ar waredu'r cyfarpar penodedig sydd wedi'u defnyddio neu nad oes eu hangen mwyach mewn modd diogel a phriodol.

Mae cyfanswm nifer yr adolygiadau defnydd o gyfarpar y caiff contractwr cyfarpar neu fferyllfa hawlio ffioedd ar eu cyfer wedi'i gyfyngu i un ar gyfer pob 35 eitem bresgripsiwn Rhan IXA (eitemau cymwys), Rhan IXB a Rhan IXC a ddosberthir am y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn.

## Atodiad D – gwasanaethau gwell

1. Gwasanaeth monitro gwrthgeulo, sy’n galluogi’r contractwr fferyllol i brofi amser ceulo gwaed y claf, adolygu'r canlyniadau ac addasu (neu argymell addasu i) y dos gwrthgeulo yn unol â hynny.

2. Gwasanaeth cartref gofal, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i roi cyngor a chymorth i breswylwyr a staff mewn cartref gofal sy'n ymwneud â’r canlynol —

    - Archebu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol er budd preswylwyr yn y cartref gofal
    - Y defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
    - Gweinyddu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol yn y cartref gofal
    - Storio a thrin cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol, a
    - Cofnodi cyffuriau a chyfarpar sy’n cael eu harchebu, trin, gweinyddu, storio neu eu gwaredu.

3. Gwasanaeth rheoli clefyd penodol, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i gynghori ar driniaeth cleifion â chyflyrau penodedig, a'u cefnogi a'u monitro, a lle bo'n briodol, cyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

4. Gwasanaeth cyflenwi bwyd heb glwten, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i gyflenwi bwydydd heb glwten i gleifion.

5. Gwasanaeth danfon i’r cartref, sy’n galluogi’r contractwr fferyllol i ddarparu cyffuriau a chyfarpar (ac eithrio 'offer penodedig') i gleifion yn eu cartref.

6. Gwasanaeth mynediad iaith, sy’n galluogi’r contractwr fferyllol i ddarparu, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, gyngor a chymorth i gleifion mewn iaith y maen nhw’n ei deall mewn perthynas â'r canlynol—

    - Cyffuriau y maent yn eu defnyddio
    - Eu hiechyd, a
    - Materion iechyd cyffredinol sy'n berthnasol iddynt,

    a lle bo'n briodol, cyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

7. Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

    - Cynnal adolygiad o'r cyffuriau a ddefnyddir gan glaf ar sail gwybodaeth a chanlyniadau profion sydd wedi'u cynnwys yng nghofnod gofal y claf, gyda'r nod o ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd parhaus y cyffuriau i'r claf,
    - Cynghori a chefnogi'r claf ynglŷn â'i ddefnydd o gyffuriau, gan gynnwys annog y claf i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'i ddefnydd o gyffuriau, a
    - Lle bo'n briodol, cyfeirio’r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

8. Gwasanaeth asesu meddyginiaethau a chefnogi cydymffurfiaeth, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Asesu gwybodaeth cleifion sy'n agored i niwed a chleifion ag anghenion arbennig am gyffuriau, eu cydymffurfiaeth â hwy a'u defnydd ohonynt, a
- Cynnig cyngor, cefnogaeth a chymorth i gleifion sy'n agored i niwed a chleifion ag anghenion arbennig ynghylch defnyddio cyffuriau gyda'r nod o wella eu gwybodaeth am gyffuriau o'r fath, eu cydymffurfiaeth â hwy a'u defnydd ohonynt.

9. Cynllun mân anhwylderau, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i roi cyngor a chymorth i gleifion cymwys sy'n cwyno am fân anhwylder, a lle bo'n briodol i gyflenwi cyffuriau i'r claf ar gyfer trin y mân anhwylderau.

10. Gwasanaeth cyfnewid chwistrellau, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Darparu nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig di-haint i’r rheiny sy’n camddefnyddio cyffuriau
- Derbyn nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig wedi’u defnyddio gan y rheiny sy’n camddefnyddio cyffuriau
- Cynnig cyngor i’r rheiny sy’n camddefnyddio cyffuriau a lle bo'n briodol atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall neu ganolfan trin cyffuriau arbenigol.

11. Gwasanaeth cyffuriau arbenigol sydd ar gael yn ôl y galw, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i sicrhau bod cleifion neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael mynediad prydlon at gyffuriau arbenigol.

12. Gwasanaethau y tu allan i oriau, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i ddosbarthu cyffuriau a chyfarpar yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau (p'un ai am y cyfnod y tu allan i oriau cyfan ai peidio).

13. Gwasanaeth cyfarwyddyd grŵp cleifion, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i ddarparu meddyginiaeth presgripsiwn yn unig i glaf o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion.

14. Gwasanaeth cymorth rhagnodwyr, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhagnodi cyffuriau, ac yn benodol i gynnig cyngor ar—

- Y defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
- Polisïau a chanllawiau rhagnodi, ac
- Ailadrodd rhagnodi.

15. Gwasanaeth ysgolion, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i roi cyngor a chymorth i blant a staff mewn ysgolion sy'n ymwneud â’r canlynol —

- Y defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau yn yr ysgol

- Gweinyddu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol yn yr ysgol
- Storio a thrin cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol, a
- Cofnodi cyffuriau a chyfarpar sy’n cael eu harchebu, trin, gweinyddu, storio neu eu gwaredu.

16. Gwasanaeth sgrinio, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Nodi cleifion sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd neu gyflwr penodedig
- Cynnig cyngor ynghylch cael prawf am glefyd neu gyflwr penodol
- Cynnal prawf o'r fath gyda chydsyniad y claf, a
- Cynnig cyngor yn dilyn prawf a chyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall fel y bo'n briodol.

17. Gwasanaeth rhoi’r gorau i ‘smygu, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Cynghori a chefnogi cleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ‘smygu, a
- Lle bo'n briodol, cyflenwi cyffuriau a chymhorthion priodol.

18. Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i oruchwylio'r gwaith o roi meddyginiaethau presgripsiwn yn eu safle.

19. Gwasanaeth rhagnodi atodol, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i ragnodi meddyginiaethau mewn amgylchiadau a bennir gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

20. Gwasanaeth casglu gwrthfeirysol, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd gyflenwi meddyginiaethau gwrthfeirysol, yn unol â rheoliad 247 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Esemptiad i'w gyflenwi os bydd y nachos, neu ymlaen llaw, o glefyd Pandemig), i gleifion am driniaeth neu proffylacsis.

21. Gwasanaeth cyflenwi brys, a'i ddiben sylfaenol yw sicrhau bod cleifion, ar frys, ar eu cais, yn cael mynediad prydlon at gyffuriau neu gyfarpar –

- sydd wedi'u rhagnodi ar eu cyfer o'r blaen mewn presgripsiwn GIG ond nad oes ganddynt bresgripsiwn GIG ar eu cyfer, a
- os bodlonir gofynion rheoliad 225(1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (gwerthu brys ayyb. gan Fferyllydd: ar gais y claf) yn achos meddyginiaethau presgripsiwn yn unig.

## Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr cyfarpar fferyllol

### 1. Dosbarthu presgripsiynau

#### Disgrifiad o’r gwasanaeth

Cyflenwi cyfarpar a archebwyd ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor a threfniadau atgyfeirio priodol pe na ellid gwneud cyflenwadau, i alluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

#### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn derbyn cyfarpar a archebwyd yn ddiogel ac yn briodol gan y contractwr cyfarpar fferyllol:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cael systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Cael systemau ar waith i sicrhau cywirdeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl gyfarpar a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gofal cleifion yn y dyfodol
- Cadw cofnod o'r cyngor a roddir, ac ymyriadau ac atgyfeiriadau a wneir, lle mae'r contractwr cyfarpar fferyllol o'r farn ei fod yn glinigol briodol.
- Darparu'r eitemau ychwanegol priodol fel bagiau a chlytiau tafladwy
- Darparu'r eitemau priodol os oes angen gwneud hynny mewn modd amserol ac mewn deunydd pacio addas disylw.

Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu cyfarpar yn effeithiol gyda staff yn rhoi gwybodaeth a chyngor i'r claf neu'r gofalwr ar ddefnyddio eu cyfarpar yn ddiogel.

### 2. Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy

#### Disgrifiad o’r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu cyfarpar presgripsiwn amlroddadwy’r GIG mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer dosbarthu, fel bod y contractwr cyfarpar fferyllol yn canfod angen y claf am amlgyflenwad ac yn cyfleu unrhyw faterion sy'n glinigol arwyddocaol i'r rhagnodwr.

#### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu cyfarpar presgripsiwn rheolaidd yn uniongyrchol gan gontractwr cyfarpar fferyllol am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodwr.
- Lleihau gwastraff drwy leihau swm y cyfarpar a ddosberthir nad yw'n ofynnol gan y claf

- Lleihau llwyth gwaith practisau meddygon teulu, drwy ostwng y baich o reoli presgripsiynau amlroddadwy.

## 3. Gwasanaeth danfon i'r cartref

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu gwasanaeth danfon i'r cartref mewn perthynas â chyfarpar penodol.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Cadw urddas cleifion drwy sicrhau bod cyfarpar penodol yn cael eu darparu:

- Yn brydlon, ar adeg y cytunir arno gyda'r claf
- Mewn pecyn heb unrhyw ysgrifen na marciau eraill a allai ddangos ei gynnwys; a
- Mewn ffordd nad yw'n bosibl nodi'r math o gyfarpar sy'n cael ei ddanfon.

## 4. Cyflenwi eitemau atodol priodol

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu eitemau ychwanegol fel clytiau tafladwy a bagiau gwaredu yn gysylltiedig â chyfarpar penodol.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod gan gleifion gyflenwad digonol o glytiau i'w defnyddio gyda'u cyfarpar, a'u bod yn gallu eu gwaredu mewn ffordd ddiogel a hylan.

## 5. Darparu cyngor clinigol arbenigol ynglŷn â'r cyfarpar

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor clinigol arbenigol gan berson sydd wedi'i hyfforddi'n briodol sydd â phrofiad perthnasol mewn perthynas â chyfarpar penodol.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn gallu gofyn am gyngor priodol ar eu cyfarpar i gynyddu eu hyder wrth ddewis cyfarpar sy'n addas i'w hanghenion yn ogystal â magu hyder i addasu i'r newidiadau yn eu bywyd a dysgu rheoli cyfarpar.

## 6. Pan ddarperir llinell gofal ffôn, yn ystod y cyfnod pan fo'r contractwr cyfarpar fferyllol ar gau, dylid rhoi cyngor naill ai drwy'r llinell ofal neu dylid cyfeirio galwyr at Galw Iechyd Cymru

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor ar gyfarpar penodol drwy linell gofal ffôn y tu allan i oriau agor y contractwr cyfarpar fferyllol a gontractiwyd. Nid yw'n ofynnol i'r contractwr cyfarpar fferyllol staffio'r llinell ofal drwy'r dydd, bob dydd, ond pan nad yw'n cael ei staffio rhaid rhoi rhif ffôn neu fanylion cyswllt gwefan i Galw Iechyd Cymru y gellir cysylltu â hwy am gyngor.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Gall galwyr i'r llinell gofal ffôn gael cyngor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar gyfarpar penodol er mwyn rheoli eu cyfarpar.

## 7. Atgyfeirio

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

Pan fo claf yn cyflwyno presgripsiwn am gyfarpar nad yw'r contractwr cyfarpar fferyllol yn ei gyflenwi, mae'r presgripsiwn naill ai:

- Gyda chydsyniad y claf, yn cael ei anfon at ddarparwr cyfarpar arall, neu
- Os nad yw'r claf yn cydsynio, rhoddir manylion cyswllt iddo ar gyfer o leiaf ddau gontractwr arall sy'n gallu ei ddosbarthu.

### Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu presgripsiwn.

## Atodiad F – aelodaeth grŵp llywio asesu anghenion fferyllol

| Rôl | Mudiad |
|---|---|
| Cyfarwyddwr gweithredol gofal cychwynnol a chymunedol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Cyfarwyddwr cynorthwyol gofal cychwynnol gorllewin | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Cyfarwyddwr cynorthwyol – strategaeth iechyd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Pennaeth ymgysylltu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Prif swyddog cyllid – ardal y dwyrain | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Cyfarwyddwr cynorthwyol contractio gofal cychwynnol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Fferyllydd, gofal cychwynnol a gofal cymunedol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Cyfarwyddwr cynorthwyol cyfathrebu ac ymwneud | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Uwch gydgysylltydd clwstwr | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Cofrestrydd arbenigol mewn iechyd y cyhoedd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cyfarwyddwr gwasanaethau contractwyr | Fferyllfa Gymunedol Cymru |
| | Pwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru |
| Dirprwy brif swyddog | Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru |
| Meddyg teulu dosbarthu | |
| Nyrs arweiniol interim | Gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau gogledd Cymru |
| Ymgynghorydd | CIC Comisiynu Gofal Sylfaenol |

## Atodiad G – arolwg cleifion a'r cyhoedd

**Arolwg Cleifion a'r Cyhoedd er mwyn asesu anghenion fferyllol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Rydym yn eich gwahodd i ddweud wrthym am wasanaethau fferyllol yn eich ardal.

Mae'r gwasanaethau dan sylw yn cynnwys y gwasanaethau lleol rydych chi'n eu derbyn gan fferyllfeydd. I wneud pethau'n iawn, mae angen inni adolygu'n rheolaidd pa wasanaethau sydd gennym, yr hyn sydd ei angen ar ein pobl leol, a sut y gallai pethau newid yn y dyfodol. Gelwir y broses hon yn 'asesu anghenion fferyllol' (pharmaceutical needs assessment) ac rydym yn cynnal yr asesiad cyntaf ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chymorth cwmni o'r enw *Primary Care Commissioning Community Interest Company (PCC)* sy'n arbenigo yn y math hwn o waith. Bydd yr adborth a roddwch yn cael ei rannu gyda PCC ond dim ond at ddiben yr arolwg hwn a datblygu ein anghenion fferyllol y bydd yn cael ei ddefnyddio. Bydd unrhyw ddata personol a ddarperir gennych yn cael ei gadw yn unol â'n polisi preifatrwydd.

Mae llawer o bobl yn eu galw'n 'siop chemist' ond yn yr arolwg hwn defnyddiwn y gair 'fferyllfa'. 'Fferyllfa' yw'r man a ddefnyddiwch i gael presgripsiwn neu brynu meddyginiaethau na allwch ond eu prynu gan fferyllfa neu lle y gallwch siarad â fferyllydd i gael cyngor am salwch a allai fod gennych neu feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd. Nid ydym yn golygu'r fferyllfa mewn ysbyty na'r rhan o fferyllfa lle rydych chi'n prynu cynhyrchion harddwch neu unrhyw siopau cyffredinol lle gallwch brynu meddyginiaethau dros y cownter.

Mae eich barn yn bwysig inni felly gofynnwn ichi dreulio ychydig o amser yn llenwi'r holiadur hwn. Mae 29 cwestiwn i gyd am eich profiad o fferyllfeydd a'r gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan rai meddygfeydd, ond ni fydd angen i chi ateb pob un ohonynt gan na fydd rhai o'r cwestiynnau'n berthnasol i chi. Mae hefyd nifer o gwestiynau amdanoch chi. Rydym yn rhagweld y bydd yn cymryd tua 5 i 20 munud ichi gwblhau'r holiadur, yn dibynnu ar faint o wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei roi inni.

Rydym yn awyddus dros ben i glywed eich barn, ond os nad ydych am gymryd rhan, anwybyddwch yr holiadur hwn ac ni fydd eich penderfyniad yn effeithio ar y gofal a gewch gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) na'ch fferyllfa mewn unrhyw ffordd.

Mae'r holiadur yn anhysbys; does dim rhaid i chi roi eich enw na'ch cyfeiriad. Ni fydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn gallu cael ei gysylltu gyda chi.

Cyhoeddir canlyniadau ein holiadur yn yr asesiad anghenion fferyllol drafft a chynhelir ymgynghoriad 60 diwrnod ar y ddogfen honno yng Ngwanwyn flwyddyn nesaf. Cadwch lygad ar ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol am fanylion pellach.

Sylweddolwn y gallech fod wedi profi anawsterau wrth fynd i fferyllfa dros y misoedd diwethaf, a bod oedi y tu hwnt i reolaeth staff y fferyllfa wrth ddosbarthu eich presgripsiynau. Covid-19 oedd y rheswm am hynny, ynghyd â phrinder cyffuriau

cenedlaethol sydd wedi dod yn fwy o broblem dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Hoffem glywed am, a deall, eich profiad o fynd i fferyllfa cyn ac yn ystod y pandemig fel y gallwn gynllunio yn y ffordd orau posibl ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol.

Bydd yr holiadur ar agor tan 09.00 ddydd Mawrth 15 Rhagfyr.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am yr holiadur neu os oes gennych gwestiynau ynghylch sut i'w gwblhau, e-bostiwch BCU.GetInvolved@wales.nhs.uk gan nodi “Holiadur Asesu Anghenion Fferyllol – PNA questionnaire” ym mhennawd yr e-bost
**Amdanoch chi**

**Nodwch eich cod post os gwelwch yn dda**

Trwy ddarparu'ch cod post inni, rydych yn cydsynio inni ddefnyddio'r wybodaeth i ddeall ym mha ran o Ogledd Cymru rydych chi'n byw**.** Dim ond at ddibenion yr arolwg hwn y defnyddir y wybodaeth yma fel y gallwn nodi a ydym wedi derbyn ymatebion o bob rhan o Ogledd Cymru neu o ardaloedd penodol. Peidiwch â darparu'ch cod post llawn i ni.

Er enghraifft, os yw eich cod post yn LL17 0JG, teipiwch LL17 yn y blwch isod.

---

**Mae rhai pobl yn cael pob un neu'r rhan fwyaf o'u meddyginiaethau yn unionyrchol gan eu practis meddyg teulu. Ai dyma eich sefyllfa chi?**

- Ie
- Na
- Dydw i ddim yn gwybod

Os ydych wedi ateb ie, cwblhewch yr holiadur hwn gan ein bod hefyd eisiau canfod eich barn am y gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan rai meddygfeydd.

**Eich iaith ddewisol**

Mae Safonau’r Iaith Gymraeg yn pennu gofynion statudol ar y Bwrdd Iechyd. Mae cyfrifoldebau clir arnom i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i gleifion a'r cyhoedd. A allech chi felly ddweud wrthym beth yw eich iaith ddewisol pan fyddwch chi'n derbyn gwasanaethau mewn fferyllfa neu feddygfa?

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall [xxxxxx]

**Sut ydych chi'n defnyddio'ch fferyllfa - naill ai'n bersonol neu trwy gael rhywun arall i fynd yno ar eich rhan**

**1. Pam ydych chi fel arfer yn mynd i’r fferyllfa? Ticiwch bob ateb sy’n berthnasol.**

- Cael presgripsiwn i mi fy hun

- Prynu meddyginiaethau i mi fy hun
- Cael cyngor i mi fy hun
- Cael presgripsiwn i rywun arall
- Prynu meddyginiaethau i rywun arall
- Cael cyngor i rywun arall
- Nid wyf yn ymweld â fferyllfa gan fy mod yn defnyddio fferyllfa ar-lein / rhyngrwyd
- Nid wyf yn mynd i fferyllfa ac mae rhywun yn mynd yno ar fy rhan
- Arall [xxxxxx]

**2. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio fferyllfa?**

- Bob dydd
- Bob wythnos
- Bob pythefnos
- Bob mis
- Bob tri mis
- Dwi ddim yn defnyddio fferyllfa
- Arall [xxxxx]

**3.Pa amser sy'n fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?**

- Cyn 7 am
- 7am i 9am
- 9am i hanner dydd
- Hanner dydd i 3pm
- 3pm i 6pm
- 6pm i 9pm
- 9pm i hanner nos
- Dwi ddim yn meindio

**4. Pa ddiwrnod sydd yn fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?**

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener
- Dydd Sadwrn
- Dydd Sul
- Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol
- Penwythnosau yn gyffredinol
- Dwi ddim yn meindio

**5. Ydych chi wedi methu defnyddio eich fferyllfa arferol yn ddiweddar?**

- Do
- Naddo
- Ddim yn berthnasol

**6. Os gwnaethoch chi ateb 'do' i gwestiwn 5, a allwch chi ddweud wrthym beth wnaethoch chi? Ticiwch bob ateb sy'n berthnasol.**

- Es i fferyllfa arall
- Arhosais nes bod y fferyllfa ar agor
- Es at fy meddyg teulu
- Es i'r ysbyty cyffredinol
- Es i uned mân anafiadau
- Cysylltais â'r Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau
- Ffoniais Galw Iechyd Cymru neu GIG 111 Cymru
- Arall [xxxxx]

**Eich dewis o fferyllfa**

**7. A ydych chi yn:**

- Defnyddio'r un fferyllfa bob amser?
- Defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond mae'n well gennych ymweld ag un fferyllfa benodol fel rheol?
- Defnyddio gwahanol fferyllfeydd bob amser?
- Yn anaml yn defnyddio fferyllfa?
- Byth yn defnyddio fferyllfa ?

**8. Hoffem wybod beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa. Dywedwch wrthym pam eich bod chi'n defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch bob ateb sy'n berthnasol i chi.**

- Yn agos at fy nghartref
- Yn agos at y gwaith
- Yn agos at fy meddygfa
- Yn agos at ysgol neu feithrinfa’r plant
- Yn agos at siopau eraill
- Mae'r fferyllfa'n danfon fy meddyginiaethau
- Mae'n hawdd cyrraedd lleoliad y fferyllfa
- Mae'n hawdd parcio ger y fferyllfa
- Rwy'n hoffi'r fferyllfa
- Gallaf siarad â'r staff yn fy iaith ddewisol
- Rwy’n ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno
- Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf
- Nid yw'r staff yn fy adnabod
- Rwyf wedi defnyddio'r fferyllfa hon erioed
- Mae'r gwasanaeth yn gyflym
- Fel rheol mae ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arna i mewn stoc
- Mae gan y fferyllfa oriau agor da
- Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn danfon fy meddyginiaethau
- Argymhellwyd y fferyllfa i mi
- Mae'r fferyllfa'n darparu cyngor a gwybodaeth dda
- Safon y gwasanaeth i gwsmeriaid

- Mae’n hawdd mynd i mewn, ee gyda chadair olwyn / bygi plant
- Mae'n rhan o un o’r cadwyni fferyllfeydd adnabyddus
- Nid yw'n rhan o un o’r cadwynni fferyllfeydd adnabyddus
- Mae ardal breifat yno os bydd angen i mi siarad â'r fferyllydd
- Mae'n fferyllfa ar-lein / rhyngrwyd
- Nid yw'n fferyllfa ar-lein / rhyngrwyd ac felly gallaf ymweld â hi a siarad â'r staff wyneb yn wyneb
- Gallaf archebu fy meddyginiaethau rheolaidd gan ddefnyddio eu ap
- Arall [xxxxx]

**9.A oes fferyllfa fwy cyfleus a / neu agosach nad ydych yn ei defnyddio?**

- Oes
- Nagoes
- Dydw i ddim yn gwybod

**10. ... ac os ydych chi wedi ateb oes i gwestiwn 9, a allech chi ddweud wrthym pam nad ydych chi'n defnyddio'r fferyllfa honno?**

- Nid yw'n hawdd parcio yn y fferyllfa honno
- Rwyf wedi cael profiad gwael yno yn y gorffennol
- Mae'r gwasanaeth yn rhy araf
- Mae'r staff bob amser yn newid
- Nid yw'r staff yn fy adnabod
- Rwy'n adnabod y staff a byddai'n well gennyf pe na baent yn gwybod pa feddyginiaethau yr wyf yn eu cymryd
- Nid oes ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arna i mewn stoc
- Nid yw’r fferyllfa yn danfon meddyginiaethau
- Nid oes digon o breifatrwydd
- Nid yw'n agored pan fydd ei angen arnaf
- Nid yw'n gyfeillgar i gadeiriau olwyn / bygi plant
- Arall [xxxxx]

**Teithio i fferyllfa**

**11.Os ewch chi i'r fferyllfa ar eich pen eich hun neu gyda rhywun, sut ydych chi fel arfer yn mynd yno?**

- Ar droed
- Ar fws
- Yn y car
- Ar feic
- Mewn tacsi
- Arall [xxxxx]

**12. ... a pha mor hir mae'n ei gymryd fel arfer ichi gyrraedd yno?**

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud

- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- Mwy nag 20 munud

**13. Ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa?**

- Ydw
- Nac ydw

**14. Os ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa, dywedwch pam.**

[xxxxx]

**Teithio i'ch meddygfa (GP Practice) i gael eich meddyginiaeth**

**15. Os yw'ch meddygfa’n dosbarthu'ch meddyginiaeth i chi, sut ydych chi fel arfer yn cyrraedd eich practis i nôl eich meddyginiaethau ?**

- Cerdded
- Ar fws
- Yn y car
- Ar feic
- Mewn tacsi
- Arall [xxxxx]

**16. ... a pha mor hir mae'n ei gymryd fel arfer i gyrraedd yno?**

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- Mwy nag 20 munud

**17. Ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa eich meddyg teulu, h.y. yr ardal yn adeilad eich meddygfa lle mae meddyginiaethau'n cael eu dosbarthu ?**

- Ydw
- Na

**18. Os ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa eich meddyg teulu, dywedwch pam.**

[xxxxx]

**Teithio i'ch meddygfa (GP Practice) i gael eich meddyginiaeth**

**15. Os yw'ch meddygfa’n dosbarthu'ch meddyginiaeth i chi, sut ydych chi fel arfer yn cyrraedd eich practis i nôl eich meddyginiaethau ?**

- Cerdded
- Ar fws
- Yn y car

- Ar feic
- Mewn tacsi
- Arall [xxxxx]

**16. ... a pha mor hir mae'n ei gymryd fel arfer i gyrraedd yno?**

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- Mwy nag 20 munud

**17. Ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa eich meddyg teulu, h.y. yr ardal yn adeilad eich meddygfa lle mae meddyginiaethau'n cael eu dosbarthu ?**

- Ydw
- Na

**18. Os ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa eich meddyg teulu, dywedwch pam.**

[xxxxx]

**Gwasanaethau fferyllol yn gyffredinol**

**19. Hoffem wybod sut rydych chi'n cael gwybodaeth am eich fferyllfa er enghraifft amseroedd agor neu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yno. Ticiwch bob ateb sy'n berthnasol.**

- Eu ffonio
- Ffonio Galw Iechyd Cymru neu GIG 111 Cymru
- Defnyddio gwefan GIG111 Cymru
- Chwilio ar y rhyngrwyd
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Gofyn i ffrind
- Galw heibio a gofyn iddyn nhw
- Edrych yn y ffenestr
- Trwy ddarllen papur newydd neu gylchgrawn lleol
- Ddim yn berthnasol
- Arall [xxxxx]

**20.Ydych chi'n teimlo y gallwch chi drafod rhywbeth preifat gyda'ch fferyllydd?**

- Ydw
- Na
- Erioed wedi bod angen
- Ddim yn gwybod

**21. A ydych yn ymwybodol fod modd cael y gwasanaethau canlynol mewn fferyllfeydd fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd? Nodwch pa rai o’r gwasanaethau canlynol y gwyddoch fod hynny’n bosibl.**

- Brechiadau ffliw (ar gyfer y rhai sydd yn un o'r grwpiau bregus)
- Gwasanaeth adolygu eich defnydd o feddyginiaethau - mae hwn yn gyfle i chi eistedd i lawr gyda'r fferyllydd a thrafod yr holl feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd er mwyn eich helpu i gael y budd mwyaf ohonynt.
- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau - gwasanaeth i bobl y mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad yn yr ysbyty, i'w helpu i ddeall y newidiadau a wnaed ac i sicrhau bod presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir
- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o offer- mae hwn yn gyfle i drafod offer fel y rhai ar gyfer stomas a colostomau gyda fferyllydd neu nyrs arbenigol i sicrhau bod eich offer yn gwneud yr hyn sydd ei angen arnoch.
- Atal cenhedlu hormonaidd brys, neu'r 'bilsen bore wedyn'
- Help i roi'r gorau i ysmygu
- Cynllun anhwylderau cyffredin - gall fferyllwyr roi cyngor a thriniaeth am ddim i chi ar gyfer mân afiechydon ac anhwylderau fel nad oes angen i chi weld meddyg teulu.

**22. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am eich profiad o ddefnyddio eich fferyllfa leol neu wasanaeth dosbarthu eich meddyg teulu?**

[xxxxx]

**23. A oes unrhyw rwystrau yn eich atal rhag cael rhai gwasanaethau yn eich fferyllfa neu fferyllfa eich meddyg teulu nad ydych wedi sôn amdanynt?**

[xxxxx]

**Gwasanaethau yn ystod Covid-19**

**24. Ydych chi wedi derbyn llythyr yn eich cynghori i gysgodi (shield)?**

- Do
- Naddo (symudwch i gwestiwn 27)

**25. Os mai 'do' oedd eich ateb i gwestiwn 24, o ble y cawsoch chi eich meddyginiaethau (neu ffrind, aelod o'r teulu neu wirfoddolwr ar eich rhan)?**

- Fferyllfa
- Fy meddygfa

**26. Os mai 'do' oedd eich ateb i gwestiwn 24, dywedwch wrthym am eich profiad o gael eich meddyginiaethau tra roeddech yn cysgodi?**

**27. Os nad oeddech chi'n glaf oedd yn cysgodi, dywedwch wrthym am eich profiad o gael eich meddyginiaethau yn ystod y Cyfnod Clo oherwydd pandemig COVID 19?**

| |
|---|
| |

**Monitro Cydraddoldeb**

Er mwyn monitro effeithiolrwydd a gweithrediad ein Polisi Cydraddoldeb ac er mwyn sicrhau fod ein gwasanaethau'n cael eu darparu mewn dull sy'n deg i bawb a heb ragfarn, hoffem pe baech yn darparu'r wybodaeth isod (yn gwbl wirfoddol). Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn anhysbys, a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Bydd yn cael ei drin ar wahân i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir gennych a bydd yn cael ei ddinistrio'n ddiogel ar ôl inni gofnodi'r wybodaeth.

**Oedran:**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodwch eich oedran trwy dicio'r blwch perthnasol: | 0 - 15 oed | ☐ | 16 - 24 oed | ☐ | 25 - 34 oed | ☐ |
| | 35 - 44 oed | ☐ | 45 - 54 oed | ☐ | 55 - 64 oed | ☐ |
| | 65 - 74 oed | ☐ | 75 ac uwch | ☐ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhyw:** | Gwryw | ☐ | Arall | ☐ |
| | Benyw | ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐ |

**Grŵp Ethnig:**

Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio'ch grŵp ethnig neu gefndir orau.

| **Gwyn** | | **Du / Du Prydeinig** | | **Asiaidd / Prydeinig Asiaidd** | |
|---|---|---|---|---|---|
| O Brydain | ☐ | Caribïaidd | ☐ | Indiaidd | ☐ |
| O Loegr | ☐ | Affricanaidd | ☐ | Bangladeshaidd | ☐ |
| O Ogledd Iwerddon | ☐ | Unrhyw gefndir Du arall | ☐ | Pacistanaidd | ☐ |
| O'r Alban | ☐ | | | Tseineaidd | ☐ |
| O Gymru | ☐ | | | Asiaidd arall | ☐ |
| O Iwerddon | ☐ | | | | |
| Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | ☐ | | | | |
| Arall | ☐ | | | | |
| **Cymysg / Prydeinig Cymysg** | | **Arall / Prydeinig Arall** | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Caribïaidd Gwyn / Du | ☐ | Arabaidd | ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐ |
| | Gwyn / Du Affricanaidd | ☐ | Arall (nodwch os oes angen) | ☐ | ________________ | |
| | Gwyn / Asiaidd | ☐ | | | | |
| | Unrhyw gefndir Cymysg arall | ☐ | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhywioldeb:** | Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun? | | | |
| | Heterorywiol | ☐ | Deurywiol | ☐ |
| | Dyn Hoyw | ☐ | Arall (nodwch os dymunir) ________________ | ☐ |
| | Dynes Hoyw / Lesbiaidd | ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **Statws priodasol:** | | |
| Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil gyda pherson o'r un rhyw? | Ydw | ☐ |
| | Na | ☐ |
| | Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐ |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred:** | Beth yw eich crefydd? | | | | | | | |
| | Cristion (pob enwad) | | | | | ☐ | Dim crefydd | ☐ |
| | Bwdhaidd | ☐ | Mwslim | ☐ | Iddewig | ☐ | Arall (noder os dymunwch) ________________ | ☐ |
| | Hindw | ☐ | Sikh | ☐ | Anffyddiwr | ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐ |

**Anabledd:** Mae adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan berson anabledd:

a) Os oes gan y person hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a
b) Os yw'r nam yn cael effaith andwyol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol dydd i ddydd

| | | |
|---|---|---|
| Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl? | Ydw | ☐ |
| | Na | ☐ |
| | Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hunaniaeth Rhyw:** | A yw eich hunaniaeth rhyw wedi newid o'r hyn a briodolwyd pan gawsoch eich geni? | Ydi | ☐ |
| | | Nac ydi | ☐ |
| | | Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐ |

| | |
|---|---|
| **Cyfrifoldebau Gofalu:** | Ydych chi'n gofalu am neu'n rhoi help neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd naill ai: |

| | | |
|---|---|---|
| • Afiechyd / anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir; neu<br>• Problemau yn ymwneud â henaint | Ydw<br>Na<br>Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐<br>☐<br>☐ |

Wrth gyflwyno'r ffurflen hon, rwyf drwy hynny’n cydnabod ac yn rhoi caniatâd penodol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddefnyddio fy nata personol, gan gynnwys yr holl **ddata cydraddoldeb sensitif** (ee rhywioldeb / ailbennu rhyw) a ddarperir gennyf at ddibenion monitro ac adrodd yn gyfreithlon er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.

## Atodiad H - canlyniadau llawn yr holiadur cleifion a'r cyhoedd

Noder fod yr holl ymatebion air am air ac na chawsant eu golygu heblaw i wneud fferyllfeydd, meddygfeydd a meddygon teulu yn anhysbys.

Nodwch eich cod post.

| Cod post | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| CH4 | 7 |
| CH5 | 18 |
| CH6 | 7 |
| CH7 | 36 |
| CH8 | 12 |
| LL11 | 40 |
| LL2 | 1 |
| LL12 | 19 |
| LL13 | 12 |
| LL14 | 18 |
| LL15 | 13 |
| LL16 | 7 |
| LL17 | 6 |
| LL18 | 28 |
| LL19 | 22 |
| LL20 | 3 |
| LL21 | 6 |
| LL20 | 18 |
| LL24 | 2 |
| LL26 | 4 |
| LL27 | 1 |
| LL28 | 10 |
| LL29 | 22 |
| LL30 | 17 |
| LL31 | 7 |
| LL32 | 15 |
| LL33 | 4 |
| LL34 | 5 |
| LL35 | 1 |
| LL36 | 1 |
| LL37 | 1 |
| LL38 | 1 |
| LL40 | 3 |
| LL41 | 6 |
| LL42 | 1 |
| LL43 | 1 |

| | |
|---|---|
| LL44 | 1 |
| LL46 | 6 |
| LL48 | 2 |
| LL49 | 1 |
| LL53 | 6 |
| LL54 | 5 |
| LL55 | 30 |
| LL57 | 18 |
| LL58 | 6 |
| LL59 | 6 |
| LL60 | 4 |
| LL61 | 12 |
| LL63 | 1 |
| LL64 | 2 |
| LL65 | 31 |
| LL68 | 7 |
| LL71 | 2 |
| LL72 | 1 |
| LL74 | 2 |
| LL75 | 1 |
| LL77 | 10 |
| SY10 | 1 |
| SY13 | 1 |
| Dewis peidio â darparu | 5 |

**Mae rhai pobl yn cael eu meddyginiaethau i gyd neu'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u dosbarthu gan eu practis meddyg teulu. A yw hyn yn berthnasol i chi?**

| | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Ydi | 211 |
| Nac ydi | 304 |
| Dydw i ddim yn gwybod | 9 |
| Dewis peidio ag ateb | 12 |

**Yr iaith a ffefrir**

Casgliad o ofynion statudol yw Safonau Iaith Gymraeg, sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd. Maent yn nodi'n glir beth yw ein cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i gleifion a'r cyhoedd. A allech chi felly ddweud wrthym beth yw’r iaith a ffefrir gennych pan fyddwch chi'n cael gwasanaethau mewn fferyllfa neu feddygfa?

| **Yr iaith a ffefrir** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Saesneg | 472 |
| Cymraeg | 58 |

| | |
|---|---|
| Arall | 1 |
| Dewis peidio ag ateb | 5 |

Lle dewiswyd 'arall', cadarnhaodd y person ei fod yn hapus i gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**C1. Pam ydych chi'n ymweld â fferyllfa fel arfer?**

| | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| I gael presgripsiwn i rywun arall | 284 |
| I brynu meddyginiaethau imi fy hun | 196 |
| I gael presgripsiwn imi fy hun | 186 |
| I gael cyngor imi fy hun | 149 |
| Prynu meddyginiaethau i rywun arall | 105 |
| I gael cyngor i rywun arall | 67 |
| Nid wyf yn mynd i fferyllfa; mae rhywun yn mynd ar fy rhan | 30 |
| Arall | 19 |
| Nid wyf yn ymweld â fferyllfa. Rwy'n defnyddio fferyllfa ar-lein / rhyngrwyd | 7 |
| Dewis peidio ag ateb | 7 |

Lle dewiswyd 'Arall' darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol.

| |
|---|
| I dderbyn cyngor, prynu meddyginiaeth dros y cownter |
| I gael gwasanaethau yn hytrach nag ymweld â'm meddyg teulu |
| Hefyd i'm gwraig |
| Yn anaml yn ymweld, dim ond ar gyfer ee plasteri |
| Rwy'n mynd i nôl presgripsiwn rheolaidd fy ngŵr. Es i am fy mrechiad Covid. Rwy'n mynd am gyngor, ac i brynu nwyddau. |
| Oherwydd Covid ystyrir fi’n fregus; mae fy merch yn casglu fy mhresgripsiwn ar fy rhan |
| Mae gan fy fferyllfa gyfleusterau [eraill] yr wyf yn eu defnyddio. |
| Mae’r fferyllfa hefyd yn [gwasanaeth arall]. Mae ganddynt bethau ymolchi ac eitemau defnyddiol eraill. Rwy'n defnyddio eu gwasanaethau ar-lein hefyd. |
| I brynu anrhegion gan eu bod yn stocio pethau neis a phethau fel bandiau gwallt. |
| Mae fy meddyginiaethau yn cael ei ddosbarthu ond gall hyn gymryd wythnos neu hyd yn oed yn hirach, felly os ydw i angen rhywbeth ar frys, rydw i'n mynd i'r fferyllfa leol |
| Brechiad ffliw |
| Rwy'n prynu pethau fel diheintydd alcohol. Weithiau byddaf yn prynu nwyddau eraill y gallai fferyllfa leol eu gwerthu. Er enghraifft, sleidiau gwallt, brwsys dannedd neu wahanyddion bysedd traed. |
| Heb gael achos i ymweld - mae fy chwaer yng nghyfraith yn helpu os oes angen. |
| I gael brechiadau + i gael prawf COVID |

| |
|---|
| Mae fy fferyllfa leol yn trin fy mhresgripsiynau ailadroddus ac yn eu danfon imi. Rydw i hefyd yn mynd i brynu hufenau corff, colur ac ati. |
| Mae fy mhresgripsiynau yn cael eu danfon i'm cartref |

**C2. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio fferyllfa?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Yn ddyddiol | 1 |
| Wythnosol | 34 |
| Bob pythefnos | 54 |
| Yn fisol | 392 |
| Chwarterol | 30 |
| Nid wyf yn defnyddio fferyllfa | 4 |
| Arall | 15 |
| Dewis peidio ag ateb | 6 |

Lle dewiswyd 'Arall' darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

| |
|---|
| 2 fis |
| Yn ôl yr angen |
| Bob dau fis |
| Ad hoc |
| Bob 4 wythnos gan fod eitemau presgripsiwn yn cael eu dosbarthu mewn pecynnau o 28 yn unig |
| Ar sail ad hoc pryd bynnag y bo angen |
| Tua bob 6 - 8 wythnos. |
| Yn flynyddol |
| Rwy'n defnyddio'r fferyllfa ym meddygfa fy meddyg teulu ar gyfer presgripsiynau ond yn defnyddio fferyllfa leol ar gyfer eitemau a chyngor heb bresgripsiwn, neu i ddefnyddio'r cynllun anhwylderau cyffredin. |
| Yn ôl yr angen |
| 2 fis |
| Yn ôl yr angen ar gyfer rhiant / rhieni |

**C3. Faint o'r gloch yw'r mwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cyn 7am | 2 |
| 7am i 9am | 18 |
| 9am i hanner dydd | 132 |
| 12 hanner dydd i 3pm | 76 |
| 3pm i 6pm | 92 |
| 6pm i 9pm | 39 |
| 9pm i hanner nos | 0 |
| Does dim ots gen i | 172 |
| Dewis peidio ag ateb | 5 |

**C4. Pa ddiwrnod yw'r mwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Dydd Llun | 18 |
| Dydd Mawrth | 14 |
| Dydd Mercher | 15 |
| Dydd Iau | 18 |
| Dydd Gwener | 14 |
| Dydd Sadwrn | 34 |
| Dydd Sul | 1 |
| Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol | 149 |
| Penwythnosau yn gyffredinol | 31 |
| Does dim ots gen i | 233 |
| Dewis peidio ag ateb | 9 |

**C5. A fu amser yn ddiweddar pan nad oeddech yn gallu defnyddio'ch fferyllfa arferol?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Do | 123 |
| Naddo | 386 |
| Ddim yn berthnasol | 21 |
| Dewis peidio ag ateb | 6 |

**C6. Os gwnaethoch chi ateb 'do' i gwestiwn 5, a allwch chi ddweud wrthym beth wnaethoch chi?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Es i i fferyllfa arall | 59 |
| Arhosais nes bod y fferyllfa ar agor | 30 |
| Es i at fy meddyg teulu | 5 |
| Es i i'r ysbyty cyffredinol | 2 |
| Es i i uned mân anafiadau | 1 |
| Cysylltais â'r gwasanaeth Meddygon Allan o Oriau (OOH) | 1 |
| Fe ffoniais NHS Direct Wales neu NHS 111 Cymru | 0 |
| Dewis peidio ag ateb | 4 |
| Arall | 34 |

Lle dewiswyd 'Arall' darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

| |
|---|
| Roeddwn yn cysgodi yn ystod cyfnod Covid, ond fe wnaethant ddosbarthu fy meddyginiaeth imi |

| |
|---|
| Es i heb gael unrhyw beth a dioddef, rwy'n gweithio'n llawn amser ac nid oeddwn yn gallu cyrraedd fferyllfa arall a oedd ar agor. |
| Nid oedd presgripsiwn yn barod mewn modd amserol, felly bu rhaid imi deithio 20 milltir i gael y stoc oedd ar gael |
| Bu'n rhaid imi roi'r gorau i ymweld oherwydd COVID-19 (cysgodi) |
| Aros nes nad oedd ciw |
| Roedd yn rhaid imi anfon ffrind i godi fy mhresgripsiwn gan fod ciwiau hir ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf ac ni allaf sefyll am amser hir |
| Ni allwn ddefnyddio’r fferyllfa oherwydd y ciwiau y tu allan felly roedd yn rhaid aros nes y gallwn gael gwarchodwr plant ar gyfer fy mhlentyn er mwyn imi allu mynd y peth cyntaf yn y bore a chiwio |
| Prynu paracetamol o'r siop leol |
| Gofyn i rywun gasglu ar fy rhan |
| Roedd yn rhy brysur felly roedd yn rhaid aros a mynd ar ddiwrnod arall |
| Nid oedd gan ddau o fy fferyllwyr agosaf rwymynnau mawr mewn stoc i orchuddio clwyf mawr, felly roedd yn rhaid imi brynu o siop yn lle. |
| Roedd y ciw yn rhy hir ac roedd hi'n bwrw glaw yn drwm ac mae gen i anabledd hefyd |
| Roeddwn i angen presgripsiwn brys a cheisiodd meddyg teulu y tu allan i oriau ei ffacsio i'm fferyllfa leol a'i e-bostio. Arhosais awr ond ni ddaeth drwodd ac yna caeodd y fferyllfa a gorfodwyd imi adael. Ffoniodd y gwasanaeth y tu allan i oriau'r meddyg teulu i sicrhau fy mod wedi ei dderbyn gan eu bod wedi ffacsio 4 gwaith a chan nad oeddwn wedi cael y feddyginiaeth cefais fy anfon i'r fferyllfa ar alwad yn [lleoliad] a chefais fy mhresgripsiwn |
| Es yn ôl pan oedd ar agor. Yn wreiddiol, roedd wedi cau am ginio. |
| Roeddwn yn hunan-ynysu ac felly gofynnais iddyn nhw ddanfon eitemau |
| Caeodd [fferyllfa] ein fferyllfa lai yn [lleoliad]. Nid oedd trosglwyddo cofnodion presgripsiwn mor gyflym nac effeithlon ag sy'n ofynnol ac roedd yn ystod y cyfnod clo COVID cyntaf. |
| Roeddwn mewn grŵp oedd yn cysgodi ac yn [fferyllfa], felly gofynnais i aelod o'r teulu ei gael. |
| Gorfod casglu o fferyllfa’r ysbyty. Dro arall nid oedd y fferyllfa yn stocio’r eitem |
| Es i yn ôl dro arall. |
| Ni allai fy fferyllfa arferol ddarparu'r feddyginiaeth felly roedd yn rhaid imi fynd i rywle arall |
| Nid yw fy fferyllfa ar agor ar fore Sadwrn |
| Rwy'n 35 oed a chefais hysterectomi y llynedd ac rwy'n dibynnu ar HRT. Rydw i wedi bod yn cael trafferth ei gael a dim ond dos 2 wythnos y byddai'r Meddyg Teulu yn ei ragnodi. Es i fferyllfa arall ac nid oedd ganddyn nhw gyflenwad chwaith. Bu'n rhaid imi fynd heb y feddyginiaeth am wythnosau. |
| Aros y tu allan am dros 2:30awr yn [fferyllfa] gyda phresgripsiwn ond doedd y ciw prin yn symud. Gadewais yn y pen draw heb feddyginiaeth ac nid oedd mewn stoc mewn fferyllfeydd eraill. |
| Arhosais nes bod ganddyn nhw well rheolaeth ar eu prosesau |
| Roedd yn rhaid imi deithio i Loegr i gael Prawf PCR COVID-19 mewn [fferyllfa] - roedd yn daith 5 awr nad yw'n ddefnydd da o fy amser blaenorol |

| |
|---|
| Methu dod o hyd i eitemau o'r fferyllfa arferol |
| Yn ystod y pandemig mae'r fferyllfa'n mynd â phresgripsiynau i siop bentref i'w codi |
| Gofalu am fy ngwraig |
| Defnyddiais y gwasanaeth wecs [Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru] a chefais y presgripsiwn a roesant imi gan y fferyllydd agosaf at yr optegwyr |
| Roedd fy ffrind yn sâl ac yn methu eu casglu |
| Roedd yn rhaid imi fynd heb fy mhresgripsiwn nes imi allu mynd |
| Ddim yn hapus gyda'r staff yn [fferyllfa]. Araf yn prosesu presgripsiynau |
| Roeddwn i'n hunan ynysu |
| Pan oeddwn i'n sâl. |
| Aeth rhywun arall ar fy rhan. |
| Ar gychwyn y Cyfnod Clo fe aeth gwirfoddolwyr i nôl fy mhresgripsiwn. |
| Fe ffoniais y Fferyllfa i wirio eu bod ar agor |

**C7. A allech chi ddweud wrthym a ydych chi yn:**

| | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Defnyddio’r un fferyllfa bob amser | 444 |
| Defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond mae'n well gen i ymweld ag un fel arfer? | 69 |
| Defnyddio gwahanol fferyllfeydd bob amser? | 4 |
| Anaml fyddai’n defnyddio fferyllfa | 7 |
| Fyddai byth yn defnyddio fferyllfa | 4 |
| Dewis peidio ag ateb | 8 |

**C8. A allech chi ddweud wrthym pam rydych chi'n defnyddio'r fferyllfa hon?**

| **Rheswm** | **Nifer yr ymatebwyr** |
|---|---|
| Yn agos at fy nghartref | 341 |
| Yn agos at fy meddyg | 245 |
| Mae'n hawdd cyrraedd lleoliad y fferyllfa | 236 |
| Mae gen i hyer yn y staff sy'n gweithio yno | 190 |
| Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf | 159 |
| Fel rheol mae ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arna i mewn stoc | 159 |
| Mae'n hawdd parcio yn y fferyllfa | 157 |
| Y gwasanaeth cwsmer | 152 |
| Mae gan y fferyllfa oriau agor da | 145 |
| Mae'r fferyllfa'n darparu cyngor a gwybodaeth dda | 142 |
| Mae yna ardal breifat os bydd angen imi siarad â'r fferyllydd | 141 |
| Mae'r gwasanaeth yn gyflym | 130 |
| Rwy'n hoffi'r fferyllfa | 117 |

| | |
|---|---|
| Yn agos at siopau eraill | 78 |
| Gallaf siarad â'r staff yn iaith ddewisol | 69 |
| Yn agos at y gwaith | 48 |
| Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn danfon fy meddyginiaethau | 41 |
| Mae'r fferyllfa'n danfon fy meddyginiaethau | 37 |
| Mae'n hygyrch iawn hy yn addas i gadeiriau olwyn / bygis babi ac ati | 36 |
| Gallaf archebu fy meddyginiaethau ailadroddus gan ddefnyddio eu ap | 28 |
| Arall | 18 |
| Argymhellwyd y fferyllfa imi | 13 |
| Rwyf wedi defnyddio'r fferyllfa hon erioed | 1 |
| Nid yw'n un o'r cadwyni mawr o fferyllfeydd | 1 |
| Nid yw'n fferyllfa ar-lein / rhyngrwyd ac felly gallaf ymweld â hi a siarad â'r staff wyneb yn wyneb | 1 |

Lle dewiswyd 'Arall' darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

| |
|---|
| Maen nhw’n archebu sgriptiau ac yn gyrru negeseuon testun imi pan mae fy meddyginiaeth yn barod |
| Mae'r fferyllydd yn hynod wybodus a chymwynasgar, cyfeillgar ond proffesiynol |
| Rwy'n cyflwyno fy mhresgripsiwn ailadroddus i'r meddyg teulu ar-lein ac yna mae'r fferyllydd yn eu dosbarthu |
| Rwyf wedi cael problemau gyda 2 fferyllfa arall yn [lleoliad] |
| Maen nhw'n casglu'r presgripsiwn o fy meddygfa |
| Rwy'n archebu ail-bresgripsiwn ar-lein, mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn o’r feddygfa ac rwy'n casglu o'r fferyllfa |
| Rwy'n cael neges destun pan fydd fy mhresgripsiwn yn barod |
| Maent yn delio yn awtomatig gyda'm meddyginiaethau ailadroddus, a holl feddyginiaeth fy nheulu. Weithiau, byddant yn siarad â fy meddygon teulu os nad yw pethau'n mynd yn esmwyth. |
| Mae'r feddygfa leol yn danfon y presgripsiwn i'r fferyllfa. |
| Mae'r feddygfa'n dosbarthu presgripsiynau ar gyfer [lleoliad] trwy [fferyllfa] |
| Rwy'n archebu fy meddyginiaethau dros y ffôn gan ddefnyddio eu rhif archebu dynodedig |
| Nhw oedd y lleiaf tebygol, yn ddiweddar, o beidio â chael fy nghyffuriau wrth fynd i'w casglu. |
| Llawer gwell na [fferyllfa] y mae eu gwasanaeth i gwsmeriaid yn wael |
| Maen nhw'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn paratoi fy meddyginiaeth ac rydw i'n galw a'i gasglu bob mis |
| Dyma'r unig un yn fy ymyl |
| Dyma'r unig un yn y dref. |
| Yr unig un yn y dref |
| Mae angen rhybudd 5 diwrnod gwaith ar fy fferyllfa agosaf (felly 9 diwrnod mewn gwirionedd) |

| |
|---|
| Wnes i ddim dewis y fferyllfa hon - newidiodd fy meddygfa fy fferyllfa trwy'r gwasanaeth ar-lein HEB ymgynghori gyda mi na’m hysbysu! |
| Gallaf ollwng fy ail bresgripsiwn yno yn lle yn y feddygfa meddyg teulu |
| Mae gan y feddygfa wasanaeth casglu gyda nhw |
| Roeddwn i'n arfer cael presgripsiynau trwy fferyllfa meddygon teulu ond dywedon nhw wrthyf eu bod nhw wedi newid hynny i'r fferyllfa hon yn y dref. Ni chefais unrhyw reswm dros hynny. |
| Rwy'n archebu presgripsiynau misol rheolaidd ar y cyfrifiadur gan fy meddyg sy'n anfon y presgripsiwn yn electronig i'r fferyllfa |
| Dim ond trwy’r fferyllfa hon y bydd fy meddygon yn gwneud fy mhresgripsiynau, byddai'n well gen i ddefnyddio un yn fy mhentref fel arall |
| Danfonir neges destun ataf pan fydd presgripsiwn yn barod i'w gasglu |
| Dewisodd y meddyg teulu'r fferyllfa hon |
| Gallaf bostio fy ail bresgripsiynau yno |
| Anfonir fy mhresgripsiwn i'r fferyllfa o feddygfa'r Meddyg imi eu casglu ond nid yw'r gwasanaeth yn dda ac ar hyn o bryd rwy'n newid i fferyllfa arall sydd ymhellach i ffwrdd |
| Yn dal ein cofnodion Rx |
| Maen nhw'n casglu oddi wrth feddyg teulu a dwi'n casglu o [fferyllfa]. |
| Rhan o bractis meddyg teulu |
| Gwasanaeth mwy personol |
| Mae fy meddyg teulu yn anfon presgripsiynau i'r fferyllfa hon |
| Gallaf ail-archebu drwyddynt. |
| Anfonir yn awtomatig o'r meddyg teulu i'r fferyllfa felly does gennych chi ddim dewis |
| Mae'r Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yn fy meddygfa yn cysylltu â'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio gan amlaf. Os ydyn nhw'n rhoi presgripsiwn am rywbeth nad oes gan fy meddyg mewn stoc, maen nhw'n trefnu i'r presgripsiwn gael ei gasglu o'r fferyllfa, |
| Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ar gyfer fy nghasgliad dilynol. |
| Defnyddio fy meddygfa a chael meddyginiaethau wedi'u danfon |
| Maen nhw'n ail-archebu fy mhresgripsiwn |
| Maen nhw'n archebu fy meddyginiaeth gan fy meddyg teulu. Nhw yw'r unig fferyllfa leol sy'n darparu brand penodol o feddyginiaeth sydd ei angen arnaf. Maen nhw ar agor ddydd Sadwrn a than yn hwyr yn ystod yr wythnos |
| Gallaf eu ffonio ac maen nhw'n gofyn am bresgripsiwn ailadroddus gan fy meddyg teulu |
| Mae Meddygfa fy Meddyg Teulu yn dweud wrthych fod eich presgripsiwn wedi'i anfon i'r feddygfa benodol hon |
| Mae'r fferyllfa ym meddygfa fy meddyg |
| Mae gan fferyllfa gysylltiadau â’m meddyg teulu felly gallant archebu meddyginiaeth ailadroddus yn uniongyrchol |
| Gallaf ffonio ac archebu fy mhresgripsiwn a byddant yn ei anfon at fy meddyg teulu a'i gasglu eto imi |
| Mae meddyg teulu drws nesaf ac mae'r fferyllfa yn eu casglu ac yn ein hysbysu pan fyddant yn barod i'w casglu |
| Maen nhw'n ail-archebu fy mhresgripsiwn bob 4 wythnos ac yn rhoi gwybod imi pan fydd yn barod, bob amser yn gyfeillgar ac yn barod i helpu. |

| |
|---|
| Gwneir presgripsiynau ailadroddus ar-lein a phan gânt eu cymeradwyo gan y meddyg, fe'u hanfonir i'r fferyllfa. Rwy'n eu casglu pan fyddaf yn derbyn neges destun gan y fferyllfa yn dweud wrthyf eu bod yn barod. |
| Mae yn fy meddygfa meddyg teulu |
| Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn o'r feddygfa ac rwy'n casglu'r feddyginiaeth o'r fferyllfa |
| Fferyllfa'r Meddyg Teulu - does gen i ddim dewis |
| Cofrestrais gyda'u gwasanaeth ail-bresgripsiwn, ond rwy'n cael problemau'n rheolaidd wrth gasglu ac rwy'n ystyried newid i fferyllfa arall! |
| Gallwch adael ffurflenni presgripsiwn ailadroddus gyda nhw ac maen nhw'n eu sortio gyda'r meddyg teulu |
| Mae'r fferyllfa'n rheoli'r presgripsiwn ailadroddus ac yn eu casglu o'r feddygfa. |
| Mae meddyg teulu yn dosbarthu ein presgripsiynau |
| Gallaf archebu fy ail bresgripsiwn ar-lein ac mae'r fferyllfa yn ei gasglu gan y meddyg teulu |
| Dyma'r unig un |
| Fferyllydd rhagnodi rhagorol. Cymwynasgar iawn |
| Cyfeiriwyd fi atynt heb ddewis gan fy meddyg teulu. |

**C9. A oes fferyllfa fwy cyfleus a / neu agosach nad ydych yn ei defnyddio?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Oes | 159 |
| Nagoes | 350 |
| Ddim yn gwybod | 17 |
| Dewis peidio ag ateb | 10 |

**C10.... ac os ydych wedi ateb oes i gwestiwn 9, a allech ddweud wrthym pam nad ydych yn defnyddio'r fferyllfa honno?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Arall | 56 |
| Rwyf wedi cael profiad gwael yn y gorffennol | 26 |
| Mae'r gwasanaeth yn rhy araf | 24 |
| Nid yw'n hawdd parcio yn y fferyllfa | 23 |
| Nid oes ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arna i mewn stoc | 10 |
| Nid yw'r fferyllfa'n dosbarthu meddyginiaethau | 5 |
| Nid yw'n agored pan fydd ei angen arnaf | 5 |
| Nid oes digon o breifatrwydd | 4 |
| Nid yw'r staff yn fy adnabod | 3 |
| Mae'r staff bob amser yn newid | 2 |
| Rwy'n adnabod y staff a byddai'n well gennyf pe na baent yn gwybod pa feddyginiaethau yr wyf yn eu cymryd | 2 |

Lle dewiswyd 'Arall' darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

| |
|---|
| Dim ond rhan o fy mhresgripsiwn a gafodd ei ddosbarthu gan feio'r feddygfa. Pan oedd yn rhaid imi ail-archebu codwyd cwestiwn fod y meddyg teulu yn gor-archebu ond bai'r fferyllfa oedd hynny! Roedd y fferyllfa'n iawn nes eu bod wedi cael eu rhoi i gontractwyr allanol o gwmni arall. |
| Ni chawsom ddewis, dywedodd ein meddyg teulu wrthym am fynd i'r arall. |
| Gorfod newid fferyllfa gan fod fy fferyllfa reolaidd yn rhoi'r feddyginiaeth anghywir imi |
| Rwy'n heneiddio bellach ac mae cerdded o [lleoliadau] yn dod yn anoddach yn y gaeaf ac rwy'n credu y bydd angen imi newid yn fuan i fferyllfa'r pentref |
| Defnyddio Fferyllfa Meddygon Teulu |
| Nid yw yn yr un pentref â fy meddygfa Meddyg Teulu |
| Defnyddio fferyllfa ynghlwm wrth feddygfa fy Meddyg Teulu |
| Gwasanaeth araf, mae staff bob amser yn newid, yn colli presgripsiynau trwy'r amser, staff anghwrtais, a does ganddyn nhw byth fy meddyginiaethau i mewn stoc. |
| Mae'r ddau [fferyllfa] BOB AMSER yn darparu gwasanaeth gwael. Staff [fferyllfa] yn anghwrtais, yn sarhaus ac yn ddiog. Presgripsiwn yn cael ei "Golli" bron bob mis. [Fferyllfa] bob amser yn hwyr - hyd at 2 wythnos yn hwyr! Does ganddyn nhw byth popeth mewn stoc. Maen nhw'n gwneud ichi aros bob amser, ac aros, ac aros. Nid yw'r naill fferyllfa na'r llall yn cyflogi fferyllwyr sy'n gallu rhagnodi. Felly er bod gen i drafferthion gyda fy symudedd, rwy'n teithio ar y bws i [fferyllfa] - lle mae'r gwasanaeth y tu hwnt i ragorol, ym mhob ffordd! |
| Gorfod ciwio a phan gyrhaeddwch dydy'r presgripsiwn ddim yn barod a gorfod ciwio drannoeth, ar ôl rhoi wythnos ers archebu. |
| Mae'n well gen i fy Fferyllfa arferol |
| Mae'n gadwyn |
| Mae rhybudd 5 diwrnod gwaith yn rhy hir ac yn anghyfleus |
| Fel uchod - anfonodd fy meddygfa fi i [fferyllfa] yn lle fy newis ar ddechrau'r cyfnod clo. Wedi'i wneud ar Fy Iechyd Ar-lein |
| Mae 'r feddygfa'n darparu presgripsiwn yno ac mae'n agos at fy meddygfa |
| Gwasanaeth gwael. Yn aml mae'r staff yn ddifater, araf, a heb yr hyn sydd ei angen arnaf. |
| Er gwaethaf bod yn eiddo i'r un cwmni, [fferyllfa], nid yw lefel y gwasanaeth cystal â'r un rwy'n ei ddefnyddio. |
| Yn rhy fach ac os oes angen imi brynu eitemau maen nhw ychydig yn ddrytach na [fferyllfa] |
| Byddaf yn symud i'r fferyllfa agosaf oherwydd eu bod yn danfon. |
| Mae fy un i yn agosach at y feddygfa ond rwy'n ei ddefnyddio weithiau ar gyfer eitemau heblaw presgripsiwn |
| Mae'n gyfleus mynd i'r fferyllfa ger y meddyg teulu a chasglu'r presgripsiwn pan rydych eisoes wedi parcio |
| Does ganddyn nhw byth yr eitemau mewn stoc ac mae ganddynt agwedd ddi-hid |
| [Fferyllfa] |
| Mae'r fferyllfa meddygon teulu yn fwy cyfleus gan fod meddyginiaethau fy mhartner yn cael eu casglu oddi yno. Ni chawsom ddewis. |

| |
|---|
| gallai newid fferyllfa achosi problemau gyda fy mhresgripsiwn - dyna ddigwyddodd y tro diwethaf |
| Mae fy Meddygon yn y dref. Rwy'n byw mewn pentref bach felly ni fyddant yn defnyddio fy fferyllfa leol. Mae'n rhaid imi deithio mewn car i'r dref i gasglu. |
| Nid wyf yn gymwys i ddefnyddio'r fferyllfa yn y feddygfa |
| Roeddwn i'n defnyddio fferyllfa yn rheolaidd ac yna'n symud ty ond fe wnes i barhau i ddefnyddio'r un honno achos roeddwn i'n ei hoffi ac roedden nhw'n dal fy holl wybodaeth |
| Mae'n well gen i ddefnyddio fy fferyllydd arferol. |
| Dewis mynd i fferyllfa fwy |
| MAE'R FFERYLLFA RWY'N EI DEFNYDDIO YN RHAGOROL |
| Gwasanaeth yn anfoddhaol iawn - anfonir presgripsiynau i [lleoliad] i'w gwneud sy’n cymryd hyd at wythnos cyn y gallaf eu casglu - ac yna'n amlach na pheidio nid ydyn nhw'n iawn - ond yna dywedir wrthyf mai fy mai i neu’r Feddygfa yw hynny – byth nhw eu hunain !! |
| Mae’r adeilad yn llai felly mae gofyn i bobl giwio y tu allan yn ystod cyfyngiadau COVID. |
| Roedd y fferyllfa ynghlwm wrth fy mhractis meddyg teulu. Roeddwn yn defnyddio fferyllfa arall yn y pentref ond symudodd yr un presennol ac roedd hynny’n golygu safle mwy hygyrch ac o fewn meddygfa’r meddygon teulu |
| Nid yw ar agor ddydd Sadwrn, pan fyddai angen casglu fy meddyginiaeth weithiau |
| Mae bob amser yn rhy brysur gyda phobl yn ciwio y tu allan |
| Haws cael fy meddyginiaeth yn fy hoff fferyllfa. |
| Ddim yn agos at fy meddyg teulu |
| Mae’r fferyllfa yn y practis meddyg teulu ac os ydych chi'n byw gerllaw ni chaniateir i chi ei ddefnyddio !!! |
| Dim rheswm dim ond fod yn well gen i'r un rwy'n ei ddefnyddio |
| Mae'n gadwyn fawr |
| Mae ychydig ymhellach i ffwrdd o fy nghartref |
| Rwy’n adnabod y staff yn fy fferyllydd arferol |
| Rwyf wastad wedi defnyddio fy fferyllydd cyfredol ac mae gen i reswm i newid. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddwy fferyllfa yn fychan. |
| Mae'n well gen i ddefnyddio fferyllydd cymunedol annibynnol bach lleol nad yw ynghlwm wrth bractis meddygol |
| Mae'n well gen i'r un arall |
| Fel y soniais eisoes mae’r meddyg teulu yn nodi fod y presgripsiwn yn cael ei anfon i fferyllfa benodol |
| Nid yw ynghlwm wrth fy meddygfa |
| Nid wyf yn gwybod a oes 1 arall |
| Gwasanaeth mwy cyfeillgar, mwy personol |
| Ciw hir bob amser os oes defnyddwyr cyffuriau y tu allan a’r tu mewn ac mae’n ymddangos eu bod yn cael ffafriaeth trwy neidio ciw heb ymbellhau cymdeithasol. |
| Fferyllfa’r Meddyg Teulu |
| [Fferyllfa] - rhy ddrud. |
| Ddim yn hapus gyda'r staff yn [fferyllfa]. Araf yn prosesu presgripsiynau |
| Pan fu angen imi ymweld â'r meddyg teulu, mae Fferyllfa ynghlwm wrth y feddygfa, ond yn aml nid oes ganddyn nhw'r eitemau ar y presgripsiwn ac mae hynny'n golygu taith arall i gasglu'r eitem (au). Gan ei fod yn bellach o fy nghartref na'r |

| |
|---|
| fferyllfa leol, rydw i'n stopio ar y ffordd adref o fod gyda'r meddyg teulu yn fy fferyllfa leol i gael unrhyw bresgripsiwn ac rydw i nawr yn gofyn am i bresgripsiynau ailadroddus gael eu hanfon drwodd i'r fferyllfa ger fy nghartref ac sydd fel arfer yn ddim yn fy siomi. |
| Mae fferyllfa bob amser yn brysur o'i chymharu â'r un rydw i'n mynd iddi. |
| Rwy'n defnyddio'r un yn agosach i gael pethau eraill. |
| Dim rheswm, rydw i bob amser yn mynd i'r un sy'n agosach at feddygfa'r meddyg |
| [Fferyllfa], gwasanaeth araf, presgripsiynau ddim bob amser yn barod ac weithiau'n anghywir, hefyd doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel yno ar ddechrau'r pandemig |
| Hefyd, yn y bore mae tua 10/15 o ddefnyddwyr cyffuriau, yn cael eu meddyginiaeth. Mae hyn yn gwbl annerbyniol, gan yfed yn y fferyllfa ac ati. Dylai fod man ar wahân lle gall defnyddwyr cyffuriau'r dref fynd i gael eu meddyginiaeth - mae'n warthus !!! |
| Mae fy meddygfa y tu allan i'r dref |
| Mae gen i bresgripsiwn rheolaidd y credaf y byddwn i'n ei chael hi'n anodd ei gael. |

**C11. Os ewch chi i'r fferyllfa ar eich pen eich hun neu gyda rhywun arall, sut ydych chi fel arfer yn mynd yno?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Yn y car | 359 |
| Ar droed | 134 |
| Dim ymateb | 21 |
| Ar fws | 9 |
| Arall | 9 |
| Ar feic | 3 |

Os dewiswyd 'Arall' darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

| |
|---|
| Mab yn casglu |
| Mewn cadair olwyn |
| Cerdded neu mewn car - yn dibynnu ar y tywydd |
| Fel rheol, rydw i'n gollwng y presgripsiwn ar droed oherwydd fy mod i'n gallu ei bostio trwy'r drws wrth gerdded fy nghi ond dwi'n casglu mewn car |
| Yn ystod Covid19 mae'r fferyllfa'n danfon fy mhresgripsiwn |
| Cael lifft. Ni allaf yrru ar hyn o bryd ac mae'n rhy bell i gerdded gyda'm cyflwr corfforol cyfredol [cyflwr] |
| Mae rhywun arall yn mynd ar fy rhan |
| Ffrind yn casglu fy mhresgripsiwn |
| Mae fy Mhresgripsiwn yn cael ei ddanfon ataf. |

**C12. ... a pha mor hir mae'n ei gymryd fel arfer i gyrraedd yno?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Llai na 5 munud | 155 |
| Rhwng 5 a 15 munud | 275 |
| Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud | 56 |

| | |
|---|---|
| Mwy nag 20 munud | 29 |
| Dewis peidio ag ateb | 21 |

**C13. A fyddech chi'n dweud eich bod chi'n cael anhawster cyrraedd y fferyllfa?**

| | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Ydw | 65 |
| Na | 446 |
| Dewis peidio ag ateb | 25 |

**C14. Os ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa, eglurwch pam.**

| |
|---|
| Cefais anhawster tra’n cysgodi |
| Oherwydd fy mod i'n gweithio'n llawn amser, yn aml mae'r fferyllfa'n cau cyn imi allu cyrraedd yno neu mae'n rhaid imi aros am amser i ffwrdd i fynd |
| Iechyd gwael |
| Methu sefyll yn y ciw gan fod gen i Glefyd ar y Rhydweli |
| Mae'n rhaid inni ddibynnu ar berthynas gan fod fy ngŵr yn gaeth i'w gartref ac mae gen i broblemau symudedd |
| Heneiddio |
| Nid yw'r amseroedd agor yn addas ac mae'r gwasanaeth yn warthus. |
| Angen bod gartref i ofalu am bartner yn dilyn strôc |
| Symudedd gwael |
| Mae gen i symudedd cyfyngedig (am nifer o resymau). Erbyn imi gyrraedd adref gyda fy meddyginiaeth, rydw i mewn poen dirdynnol, yn colli fy ngwynt fel trên stêm, ac wedi blino'n llwyr. Ond, fel cymaint o bobl, dwi’n ei chael yn anodd ymdopi gyda fy nerfau oherwydd y gofal cwsmer anghwrtais iawn a chyson gan staff [fferyllfa 1] a [fferyllfa 2]. I fod yn deg â staff [fferyllfa 1], nid eu bai nhw yw hynny ond bai uwch reolwyr. |
| Ar hyn o bryd mae trafferthion parcio ac rwy’n ceisio mynd pan nad oes gen i'r plant gyda mi oherwydd cyfyngiadau Cofid ac mae ceisio mynd â phlant i unrhyw le ar hyn o bryd yn achosi straen |
| Problemau symudedd |
| Nid yw fy ngŵr yn gallu cyrraedd y fferyllfa i gael ei bresgripsiynau, ond rydw i’n gallu. |
| Oherwydd fy mod i'n gaeth i'r tŷ. |
| Rwy'n dod yn fwyfwy anabl. |
| Fferylliaeth yn casglu presgripsiwn o'r feddygfa |
| Mae parcio gerllaw yn broblem |
| Gan fod fy ngŵr a minnau bellach yn 80 oed, nid ydym yn mynd allan os yw'r tywydd yn wael |
| Ar hyn o bryd yn ynysu - yn aros am gamau |
| Problemau symudedd. |
| Heb gar byddai'n daith gerdded 20 munud neu 2 siwrnai bws |
| Weithiau o dan gyfyngiadau cyfredol Covid os bydd gormod o bobl yn y siop, ac mae’r maes parcio weithiau'n llawn. |

| |
|---|
| Materion parcio (mae bywyd gwaith / teulu prysur hefyd yn golygu bod gorfod ymweld bob mis i gael ail-bresgripsiwn yn straen) |
| Mae'r oriau agor wedi newid ac ni allaf fynd yno bellach cyn mynd i'r gwaith. |
| Nid oes unrhyw fysiau o’r pentref a chan fod fy mhartner yn gweithio sifftiau mae’n rhaid imi aros nes bod car ar gael |
| Gofalwr unigol ar gyfer person bregus. |
| Mae gen i osteoporosis / arthritis a llawer mwy, ac felly nid yw cerdded yn dda. |
| Byddai'n rhy bell i gerdded adref felly rhaid defnyddio fy nghar. |
| Nid yw'r fferyllfa ar agor pan fyddaf yn gadael am y gwaith ac mae ar gau pan ddychwelaf adref, ond dyma'r unig fferyllfa yn y pentref ac felly nid oes gennyf unrhyw ddewis heblaw ei ddefnyddio a gofyn i eraill gasglu fy meddyginiaeth. Gallaf ffonio ac archebu fy meddyginiaeth. |
| Dwi ddim yn mynd allan oherwydd Covid. Ar adegau eraill, mae hanner fy rhestr ar goll weithiau neu rannau ohono yn [fferyllfa 1] a rhywfaint yn [fferyllfa 2]. Hefyd o'r blaen os gofynnwn i gasglu presgripsiwn yn [fferyllfa 2], mae’r presgripsiwn yn [fferyllfa 1] sydd tua 6 milltir ymhellach. Byddai'n gymaint haws pe bawn i'n gallu defnyddio fferyllydd sy'n danfon at fy nrws. Er bod fferyllfa'r feddygfa wedi danfon presgipsiynnau yn ystod covid, nododd un aelod o staff yn glir nad oedd hi'n cymeradwyo hyn a gwrthododd un arall fi. Roedd hynny'n straen mawr imi. |
| Dwi ddim yn gyrru a dim bysiau yn pasio’r fferyllfa |
| Nid yw fy symudedd cystal ag y bu bellach |
| Mae gen i broblemau symudedd a dwi ddim yn gyrru felly rwy’n ddibynnol ar rywun arall i fynd â fi neu i gasglu presgripsiwn ar fy rhan. |
| Rwy'n anabl |
| Dwi ddim, ond dim ond oherwydd bod gen i gar. |
| Pe na bai gen i lifft byddwn yn ei chael hi'n anodd |
| Fe fyddwn yn cael trafferth pe bai'n rhaid imi gerdded |
| Methu cerdded yno |
| Mae fy nghefn yn dechrau brifo ac mae’n rhaid imi stopio ar y ffordd |
| Mae symudedd fy nghoesau yn wan |
| Mae'n rhaid imi gerdded ac mae gen i COPD |
| Materion symudedd, ni allaf gerdded yn bell a dwi methu gyrru ond dwi methu cael y presgripsiwn wedi ei ddanfon. |
| Mae gen i gyflyrau iechyd meddwl difrifol ac o ganlyniad i'r pandemig rhaid sefyll y tu allan am oddeutu 20-30 munud i giwio oherwydd trefn ‘un mewn un allan’. |
| Mae'n daith gerdded hir o'r maes parcio i'r ganolfan siopa ac yna trwy'r siop. |
| Mewn lleoliad gwael gyda pharcio gwael |
| Yn byw y tu allan i [lleoliad] i fyny Dyffryn Conwy |
| Mae fy nghyflyrau iechyd yn cyfyngu ar faint y gallaf fynd allan |
| Yn syml, dwi’n ei chael yn anoddach i symud.. |
| Ciwiau |
| Fy nghyflwr meddygol |
| Mae gweithio gartref nawr yn golygu bod yn rhaid imi wneud taith benodol i’r fferyllfa yn hytrach na mynd yno ar fy ffordd adref |
| Methu gyrru a chyflwr meddygol. |
| Fy iechyd |
| Hunan ynysu ac oriau gwaith |

| |
|---|
| Mae'r amseroedd agor yn gyfyngedig iawn |
| Ni allaf wneud hynny oherwydd fy anawsterau symudedd. Mae fy meddyginiaeth yn cael ei ddanfon. |
| Problemau Symudedd ac nid yw'r fferyllfa yn fy mhentref. |
| Weithiau rhaid cerdded i lawr. |
| Mae’n rhaid talu am barcio y tu allan i'r Fferyllydd |
| Mae hyn oherwydd bod yn rhaid imi yrru ac ambell ddiwnrod rwy'n sâl ac yn methu â gadael y tŷ. |
| Anhawster cerdded. |
| Gorfod ciwio gyda defnyddwyr cyffuriau yn hollol annerbyniol |
| Ddim ar agor ar y penwythnosau |
| Heb gar, ni allwn wneud y daith. Mae fferyllfa i fod i gael ei rhedeg gan fy meddygfa yn y pentref lle rwy'n byw, ond dydyn nhw byth yn troi fyny. |

**C15. Os yw'ch meddygfa yn darparu eich meddyginiaeth ichi, sut ydych chi fel arfer yn cyrraedd eich practis i nôl eich meddyginiaethau?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Dewis peidio ag ateb | 364 |
| Yn y car | 110 |
| Ar droed | 32 |
| Arall | 24 |
| Ar fws | 4 |
| Ar feic | 1 |
| Mewn tacsi | 1 |

Lle dewiswyd 'Arall' darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

| |
|---|
| Danfonir gan y meddyg teulu yn syth i'r fferyllfa |
| Mae fy ngŵr yn gaeth i'r tŷ ac mae gen i broblemau symudedd |
| Fferyllfa |
| Meddygfa meddygon teulu a fferyllfa gerllaw |
| Rwy'n mynd â fy mhresgripsiwn ailadroddus at fy fferyllydd lleol ac maen nhw'n mynd â hwnnw i'r feddygfa imi |
| Wedi eu danfon |
| Defnyddio 'Fy Iechyd Ar-lein' gartref |
| O dan yr amgylchiadau presennol, rwy'n e-bostio'r presgripsiwn i'r practis ac maen nhw'n ei anfon ymlaen at fy hoff fferyllfa |
| Danfon i'm cartref |
| Does gen i ddim presgripsiwn ailadroddus. |
| Ni fydd ein Meddyg Teulu’n gadael inni ddefnyddio'r fferyllfa practis i adael i bobl sy'n byw y tu allan i [leoliad] ei ddefnyddio. Fe ddylen ni allu ei ddefnyddio oherwydd mae'n llawer haws. |
| Danfonir fy mhresgripsiwn ailadroddus i'r fferyllfa ond os oes angen rhywbeth gwahanol arnaf, rwy'n ei gasglu oddi wrth fy meddyg teulu i fynd ag ef i'r fferyllfa. Gall hyn fod yn niwsans ond rhaid ei gasglu gan fod aros i feddyg teulu ei anfon i'r |

| |
|---|
| fferyllfa ac aros i'r fferyllfa ei sortio yn cymryd hyd at 10 diwrnod gwaith nad yw'n ddigon effeithlon. |
| Danfonir fy meddyginiaeth |
| Ffrind. |
| Danfon |
| Mae fy meddyginiaeth yn cael ei ddanfon. |
| Nid yw'r meddyg teulu yn dosbarthu meddyginiaeth. |

**C16.... a pha mor hir mae'n ei gymryd fel arfer i gyrraedd yno?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Llai na 5 munud | 37 |
| Rhwng 5 a 15 munud | 91 |
| Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud | 24 |
| Mwy nag 20 munud | 13 |
| Dewis peidio ag ateb | 371 |

**C17. A fyddech chi'n dweud eich bod chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa eich meddyg teulu, hy yr ardal yn adeilad eich meddygfa lle mae cyffuriau'n cael eu dosbarthu?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Ydw | 28 |
| Na | 143 |
| Dewis peidio ag ateb | 365 |

**C18. Os ydych chi'n cael anhawster cyrraedd fferyllfa eich meddyg teulu, dywedwch wrthym pam.**

| |
|---|
| Problemau symudedd |
| Yn ystod y gaeaf yn enwedig mewn tywydd gwael |
| Dim gwybodaeth am y fferyllfa yn y feddygfa. |
| Nid yw'r gangen leol o fy mhractis wedi bod ar gael ers y Cyfnod Clo |
| Parcio |
| Pe na bai gen i gar yna byddai'n lletchwith |
| Ciw bob amser ac yn brysur iawn |
| Maes parcio dan ddŵr yn aml. Hefyd bob amser yn llawn ceir - rhai yn mynd i siopau ar y Stryd Fawr nid i'r Feddygfa. |
| Nid yw'r bws yn pasio'n uniongyrchol, felly os wyf yn sâl, oherwydd natur fy salwch ni allaf yrru. |
| Mae'n rhaid imi gael y car allan a gyrru yno. Ac yn aml mae pethau ar goll felly mae'n rhaid imi fynd eto - mae hynny cyn Covid. |
| Mae'n daith hir mewn tywydd gwael |
| Oherwydd nad yw fy symudedd cystal â hynny bellach |
| Mae gen i broblemau symudedd a dwi ddim yn gyrru felly dwi'n ddibynnol ar rywun arall i fynd â fi neu gasglu fy mhresgripsiwn imi. |

| |
|---|
| Parcio |
| Pe na bai gen i lifft |
| Fel uchod. Mae grisiau yn y feddygfa yn achosi problem |
| Rwy'n ei chael hi'n anodd cerdded |
| Yn cymryd gormod o amser i brosesu presgripsiynau ailadroddus. |
| Nid yw fferyllfa fy Meddyg Teulu'n cynnig dosbarthu fy meddyginiaeth gan fy mod i'n byw o fewn milltir. |
| Cyfyngiadau Covid |
| Y rheswm am hyn yw nad wyf yn byw ger fy Meddygfa ar hyn o bryd. |
| Lleoliad. |
| Parcio |

**C19. Hoffem wybod sut rydych chi'n canfod gwybodaeth am fferyllfa megis amseroedd agor neu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.**

| | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Byddwn yn eu ffonio | 201 |
| Byddwn yn chwilio ar y rhyngrwyd | 157 |
| Edrych yn y ffenestr | 122 |
| Byddwn yn galw heibio a gofyn iddyn nhw | 113 |
| Byddwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol | 54 |
| Byddwn yn gofyn i ffrind | 42 |
| Ddim yn berthnasol | 20 |
| Byddwn yn defnyddio gwefan GIG 111 Cymru | 16 |
| Dewis peidio ag ateb | 11 |
| Arall | 8 |
| Byddwn i'n ffonio NHS Direct Wales neu NHS 111 Cymru | 7 |
| Byddwn yn darganfod trwy ddarllen y papur newydd neu'r cylchgrawn lleol | 5 |

Lle dewiswyd 'Arall' darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

| |
|---|
| Google |
| Roedd taflen wedi'i phostio trwy'r drws gyda gwybodaeth berthnasol arno a oedd yn ddefnyddiol iawn. |
| Byddaf yn darllen yr arwydd wrth siopa |
| Mae'r ddwy gangen [fferyllfa] yn hunllef. Mae'r peiriant ffacs ymlaen yr un yn y Stryd Fawr bob amser felly ni ellir cael trwodd atynt ac mae'r llall wedi dosbarthu fy meddyginiaeth yn anghywir ar ddau achlysur. Nid yw'n bosib cael trwodd ar eu llinell gwynion cenedlaethol. |
| Defnyddio eu llinell ail-archebu sy'n rhoi unrhyw amrywiad i wasanaethau arferol |

| |
|---|
| Does dim angen arnaf gan fod gan fferyllfa fy meddygon teulu wasanaeth sylfaenol yn [lleoliad] |
| Ar-lein |
| Byddwn yn gofyn i'r person sy'n danfon fy meddyginiaeth |
| Mae pawb yn gwybod gan ein bod ni'n adnabod y staff. |
| Canolfan Iechyd Meddygon Teulu. |

**C20. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n gallu siarad am rywbeth preifat / sensitif gyda fferyllydd?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Ydw | 294 |
| Na | 76 |
| Dwi erioed wedi bod angen gwneud hynny | 135 |
| Ddim yn gwybod | 20 |
| Dewis peidio ag ateb | 11 |

**C21. Ydych chi'n ymwybodol y gallwch chi gael mynediad at y gwasanaethau canlynol o fferyllfeydd fel rhan o'r GIG?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Brechiadau ffliw (ar gyfer y rhai sydd yn un o'r grwpiau sydd mewn perygl) | 432 |
| Cynllun anhwylderau cyffredin - gall fferyllwyr roi cyngor a thriniaeth am ddim ichi ar gyfer mân afiechydon ac anhwylderau fel nad oes angen i chi weld meddyg teulu. | 388 |
| Gwasanaeth adolygu defnydd meddyginiaethau - mae hwn yn gyfle i chi eistedd i lawr gyda'r fferyllydd a thrafod yr holl feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd i'ch helpu chi i gael y budd mwyaf ohonyn nhw. | 272 |
| Help i roi'r gorau i ysmygu | 214 |
| Atal cenhedlu hormonaidd brys, y cyfeirir ato hefyd fel y 'bilsen bore wedyn' | 188 |
| Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth gael eich rhyddhau o'r ysbyty - mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl y mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad yn yr ysbyty, i'w helpu i ddeall y newidiadau a wnaed ac i sicrhau bod presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir. | 107 |
| Gwasanaeth adolygu defnydd offer - mae hwn yn gyfle i drafod offer fel y rhai ar gyfer stomas a colostomau gyda fferyllydd neu nyrs arbenigol i sicrhau bod eich offer yn gwneud yr hyn sydd angen ar eich cyfer. | 56 |

| | |
|---|---|
| Dewis peidio ag ateb | 55 |

**C22. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am eich profiad o'ch fferyllfa leol neu wasanaethau dosbarthu meddygon teulu?**

| |
|---|
| Cymerodd y fferyllfa dros 5 diwrnod i gael fy mhresgripsiwn ailadroddus diwethaf ac fe wnes i redeg allan o inswlin a bu'n rhaid imi ffonio'r meddygon i gael rhywfaint. Fe wnaethant geisio dweud mai dim ond dau ddiwrnod ynghynt yr oeddwn wedi rhoi'r presgripsiwn mewn ond doedd hynny ddim yn wir ac fe wnaeth hynny fy ypsetio. |
| Gwasanaeth defnyddiol iawn sydd ei angen yn fawr yn y maes hwn |
| Maent yn gweithio'n galed iawn ac mae'n rhaid ei bod wedi bod yn anodd iawn iddynt yn ystod y Cyfnod Clo |
| Ffantastig ac yn haws o lawer na cheisio cael apwyntiad Meddyg Teulu sy'n erchyll |
| Mae fy fferyllfa leol yn fach iawn, a dim lle hyd yn oed cyn Covid i fwy na 3 o bobl. Ni fyddwn yn teimlo'n gyffyrddus yn gofyn am gyngor gan y byddai cleifion eraill yn gallu clywed. Hefyd, nid wyf yn hoffi darllen fy nghyfeiriad yn uchel i bobl ei glywed. |
| Roedd ciwiau hir iawn yn y Gwanwyn, ond ers hynny mae wedi bod yn well. Gallwn giwio y tu allan os oes 2 berson y tu mewn eisoes. Rwy'n cael neges destun i ddweud wrthyf pryd mae'r presgripsiwn yn barod, ond nid wyf wedi gallu cael fy meddyginiaeth wedi'i ddanfon. Rwy'n teimlo'n nerfus wrth fynd at y fferyllydd. |
| Rheolau COVID 19 sy'n golygu mai dim ond 1 i mewn ar y tro, ond mae'r fferyllfa yn ddigon mawr i ddal o leiaf 2. Llawer o henoed yn aros y tu allan yn y gaeaf. Dydyn nhw ddim y rhai cyflymaf ac rwyf wedi bod yn aros am 34 munud unwaith yn yr oerfel a'r glaw. |
| Mae gan [fferyllfa] wasanaeth gwael iawn, ciwiau hir a hyd yn oed cyn amser Covid roedd y ciw am 1 awr. Yn aml ddim yn archebu presgripsiwn ailadroddus mewn pryd neu yn methu eu ffeindio. |
| Mae [fferyllfa] mor barod i helpu. |
| Mae presgripsiynau fel arfer yn mynd o'r Meddyg i'r fferyllfa o fewn dau ddiwrnod ond gall gymryd hyd at 10 diwrnod iddynt roi'r feddyginiaeth. Mae'n rhaid inni eu ffonio i'w hatgoffa a'u casglu drannoeth. |
| Maen nhw'n rhy brysur hyd yn oed i lenwi'ch presgripsiwn heb son am gael sgwrs. |
| Yn cymryd gormod o amser. Mae'r ciw wedi bod hyd at 3 awr y tu allan yn ystod covid. Fel rheol, rydw i'n treulio rhwng 10 munud a 25 munud yn cael y presgripsiynau ar ôl imi gyrraedd blaen y ciw a chael fy ngwasanaethu. Rhoddais gynnig ar y gwasanaeth a reolir ond rai misoedd fe wnaethant anghofio ei brosesu. Rwyf wedi cael eitemau ar goll weithiau ac rwyf wedi gorfod mynd yn ôl i'w datrys. Rwy'n gweithio'n llawn amser ac mae gen i blant ifanc, rwy'n casau casglu'r presgripsiynau oherwydd yr amser ciwio a'r amser mae'n ei gymryd i'r staff basio'r presgripsiynau imi, yn enwedig os oes rhywbeth ar goll hefyd. |
| Bob amser yn gymwynasgar iawn |
| Yn yr "hinsawdd" bresennol mae fy fferyllfa leol wedi bod yn rhagorol |
| Maent yn hollol wych. |
| Rydym wedi profi oedi cyson cyn derbyn y presgripsiynau am resymau megis fod angen i'r meddyg gynnal adolygiad, ac yna mae'r meddyg yn anghofio cofnodi'r adolygiad felly ar ôl ceisio sawl gwaith i gasglu'r presgripsiwn, roedd yn rhaid ffonio'r meddyg yn y pen draw (sy'n cymryd amser i fynd trwy'r negeseuon ffôn) |

| |
|---|
| Roedd y meddyg wedi anghofio cofnodi'r adolygiad felly roedd yn rhaid iddo wneud yr adolygiad eto. Dro arall gwnaeth y meddyg yr adolygiad ond yna anghofiodd argraffu'r presgripsiynau, ac unwaith eto dim ond ar ôl ceisio casglu'r presgripsiynau ac yna gorfod ffonio'r meddygon i ddarganfod beth oedd wedi digwydd y deallwyd hynny. Mae'r presgripsiynau hefyd wedi cael eu hanfon i'r fferyllfa anghywir, ac unwaith eto dim ond ar ôl ciwio am beth amser yn y fferyllfa y cawsom wybod hyn, a dywedwyd wrthym am fynd i'r fferyllfa arall ac ar ôl ciwio eto doedd ddim yno chwaith, felly yna roedd yn rhaid iddynt ffonio'r meddyg i ddarganfod nad oedd wedi cael ei argraffu. Mae wedi mynd i'r fferyllfa anghywir cwpl o weithiau. Hefyd, nid oedd gan y fferyllfa eitemau mewn stoc unwaith felly roedd yn rhaid i ni giwio eto drannoeth. Rydyn ni hefyd wedi ffonio'r meddygon i ofyn iddyn nhw argraffu'r presgripsiynau, ac yna pan rydw i wedi mynd i'w casglu, does dim cofnod imi ffonio a gofyn iddyn nhw gael eu hargraffu. Mae'r fferyllfa hefyd yn eu hanfon i ffwrdd i brosesu ac felly mae oedi cyn casglu'r presgripsiynau ar ôl gofyn iddynt gael eu hargraffu ychydig ddyddiau ymlaen llaw. |
| Mae'r staff yn hyfryd! |
| Gwasanaeth cwsmeriaid gwych gan staff sy'n gweithio'n galed |
| Gwasanaeth cyfeillgar o'r radd flaenaf |
| Pan yn ciwio, mae angen iddynt gael ardal dan do wrth giwio y tu allan oherwydd dim ond 1 person ar y tro a gaiff fynd i [fferyllfa], yn enwedig mewn tywydd gwael oherwydd weithiau gallwch fod yno am sbel gan fod y gwasanaeth yn eithaf araf yn gyffredinol. Efallai y byddai'n syniad cael ffenestr gasglu a mynd y tu mewn i gael cyngor ac ati – er mwyn cyflymu pethau. |
| Na |
| Gwneir gormod o gamgymeriadau. Yn amlach na pheidio nid yw rhywbeth yn cael ei gynnwys sy'n golygu taith arall i'w nol. Anfonwyd meddyginiaeth y diwrnod o'r blaen i feddygfa arall yn y grŵp! Nid yw'r meddyginiaethau na'r pwynt casglu wedi newid mewn 6 blynedd. |
| Fyddai fy mhresgripsiwn byth ar gael mewn un fferyllfa a ddefnyddiwn, a threuliwn fwy o amser yn mynd yn ôl ac ymlaen er bod fy meddygon wedi ei anfon drosodd mewn pryd. Newidiais yn y diwedd. Gwasanaeth gwael iawn. Dywedwyd fod hynny oherwydd prinder staff. |
| Rwyf hefyd yn casglu meddyginiaeth arall trwy [fferyllfa] a fydd ond yn danfon i'm cartref neu [fferyllfa] sydd ddim yn fferyllfa leol imi. |
| Defnyddir meddyginiaeth generig a newidiwyd fy anadlwyr a achosodd broblemau gyda fy Asthma. |
| Rwy'n defnyddio [fferyllfa] gan eu bod yn llawer gwell na'r 2 arall yn [lleoliad] |
| Rydym yn defnyddio 'My Health On Line' i archebu ail-bresgripsiynau. Nid wyf yn deall pam mae'r fferyllfa'n mynnu ein bod ni'n archebu wythnos ymlaen llaw. |
| Mae [fferyllfa] wedi bod yn esgeulus yn eu gwasanaeth. |
| Yn methu'n fwyfwy aml â darparu eitemau - gan fod y rhan fwyaf o feddyginiaethau rheolaidd ar ail-bresgripsiynau, ni allaf fynd â nhw i rywle arall felly mae'n rhaid imi ofyn am bresgripsiynau ychwanegol gan feddyg teulu i fynd i fferyllfa wahanol. |
| Fel rheol, dwi'n gweld bod unrhyw broblemau'n deillio o fy meddygfa ac yna'r fferyllfeydd yw'r rhai sy'n gorfod datrys y problemau. Efallai bod angen gwneud yr un arolwg ar gyfer meddygfeydd |
| Mae'r gwasanaeth [fferyllfa] yn frawychus! Mae presgripsiwn ailadroddus yn cymryd o leiaf wythnos. Mae'n rhaid trio o leiaf 4 gwaith ar amseroedd gwahanol i'w |

| |
|---|
| gasglu. Mae mor ddrwg nad wyf yn eu defnyddio mwyach ac mae fy rhieni yn ei gasglu imi mewn ardal wahanol. |
| Nid oes digon o staff yn y fferyllfa ac mae'r amseroedd aros yn chwerthinllyd |
| Yn hynod o brysur, ac mae meddyginiaeth wastad allan o stoc |
| Mae'r ddwy siop fferyllfa leol wedi bod o gymorth mawr cyn ac yn ystod y pandemig. |
| Ciwiau hir ofnadwy a gorfod aros y tu allan, a gorfod dychwelyd ar ddiwrnodiau eraill. |
| Wastad yn amyneddgar, cyfeillgar a charedig. Nid oes unrhyw beth yn ormod o drafferth ac mae ganddyn nhw agwedd ragweithiol tuag at ddatrys problemau. |
| Mae fy fferyllfa'n anobeithiol - bob amser yn colli presgripsiynau / ddim yn barod neu ddim yn gallu dod o hyd i'm meddyginiaeth - mae'r staff gan gynnwys y fferyllydd bob amser yn newid a does ganddyn nhw byth yr un broses pan fydd y tîm staff yn newid - mae'n anhrefn yno |
| Mae'r fferyllfa'n rhy fach, dim ond un cwsmer ar y tro sy'n cael mynd mewn. Nid yw sefyll y tu allan mewn ciw gyda 9 o bobl o fy mlaen, pan mae hi’n tywallt y glaw yn gwneud dim i hwyliau rhywun. Rwy’n siŵr fod ffordd well o gael gafael ar bresgripsiynau, ond dyma'r drefn ers mis Mawrth. |
| Mae staff yn hynod o gymwynasgar a gwybodus ond, weithiau, maent yn brysur iawn ac nid yw presgripsiynau bob amser yn barod sy’n golygu aros o gwmpas am 15/20 munud. |
| Ddim bob amser yn barod eu cymorth. Wedi colli rhai presgripsiynau, ciw mawr, dim ond gadael 2 mewn ar y tro, ond maen nhw’n gadael i unigolion eraill sydd angen methadon neidio’r ciw |
| Dim meddyginiaethau ar gael yn gyson, ein presgripsiwn ddim yn barod a gofyn inni ddychwelyd ar ddiwrnod arall |
| Mae fy meddyg teulu a'r fferyllfa gysylltiedig yn rhagorol. Mae [fferyllfa] yn gwbl warthus. |
| Yn ddiweddar, mae’r fferyllfa wedi bod yn dosbarthu rhywfaint o fy mhresgripsiwn oddi ar y safle sy'n ychwanegu at yr oedi rhwng archebu ar-lein ac argaeledd i'w gasglu |
| Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn effeithlon.[Fferyllfa] |
| Byth yn gwybod a fydd presgripsiwn yn cael ei ddanfon ai peidio, yn anodd iawn cysylltu dros y ffôn ac yn aml yn y pen draw maen nhw wedi rhedeg allan neu'n isel iawn ar feddyginiaethau. |
| Gwasanaeth gwych, staff ymroddedig sy’n barod i helpu. |
| Mae [fferyllfa] yn rhagorol ym mhob ffordd. Weithiau, byddaf yn defnyddio [Fferylliaeth]. Unwaith eto, da iawn - ond ddim mor gyfleus i mi (ar draws ffordd brysur, a dim lle i giwio y tu mewn yn ystod Covid.) |
| Fferyllfa yn methu ymdopi â chynnydd mewn trefn ddanfon i gartrefi lleol yn ystod Covid, yn anodd i rai ar feddyginiaethau rheolaidd sy’n cysgodi. Rydw i wedi bod yn casglu presgripsiynau ar gyfer unigolion sy’n cysgodi. Ni ychwanegwyd unrhyw slotiau dosbarthu ychwanegol i leddfu'r broblem hon. |
| Nid ydynt yn hawdd eu defnyddio ac mae ciw bob amser. Nid yw'n breifat ac yn gyfrinachol chwaith. Mae ganddynt gwsmeriaid parod gan eu bod drws nesaf i feddygfa'r meddygon ond mae’r ffordd maen nhw'n trin eu cwsmeriaid yn annheg! |
| Yn ffodus i gael fferyllfa mor rhagorol gyda staff mor barod i helpu |

| |
|---|
| Ers C19 mae gwasanaethau lleol wedi bod yn ofnadwy. Oriau agor byrrach tra bod pobl o bob oed yn ciwio yn yr oerfel a'r glaw. Yn hollol annynol ac fel y trydydd byd. |
| Mae [fferyllfa] yn cynnig gwasanaeth cyfeillgar rhagorol. Nid oes unrhyw beth yn ormod o drafferth byth iddyn nhw. |
| Erioed wedi cael problem gyda staff cyfeillgar [Fferylliaeth] a chyngor da bob amser pan fo angen |
| Cynnig gwasanaeth da bob amser |
| Oherwydd covid mae'n anodd iawn cael presgripsiwn mewn modd amserol. Mae'r fferyllfa leol wedi cael trafferth gyda diffyg staff ac mae hyn yn effeithio ar gwsmeriaid. Mae ciwiau wedi bod yn erchyll ac wedi cymryd 30 munud i gael gwybod nad yw'r eitem wedi'i dosbarthu er eu bod wedi cael presgripsiwn am wythnos. Nid yw'n gweithio. |
| Ciwiau hir y tu allan heb unrhyw gysgod mae angen iddynt godi strwythur dros dro fel nad yw pobl yn gwlychu yn y glaw |
| Mae fferyllfa newydd rwy'n ei defnyddio yn wych |
| Maent yn wych, maent yn datrys y camgymeriadau a wneir gan y feddygfa o ran anfon presgripsiynau. Yn aml, mae'r person sy'n ysgrifennu'r ail-sgriptiau i ffwrdd ac mae'n rhaid aros nes iddynt ddychwelyd o'u habsenoldeb. Mae'r fferyllydd yn cysylltu i ofyn iddynt sortio pethau. |
| Yr holl staff yn gwrtais a chyfeillgar. Bob amser yn mynd allan o'u ffordd i helpu |
| Pam mae [Fferyllfa] yn cymryd 5 diwrnod i brosesu presgripsiwn? Pan nad oes gan fferyllfeydd eraill ar yr ynys y polisi hwn! |
| Fferyllfa effeithlon a defnyddiol iawn |
| Mae'r feddygfa'n rhoi'r holl wybodaeth uchod yn rhif 22 ar ei gwasanaeth ateb |
| Gwasanaeth rhagorol |
| Cyfeillgar a gwybodus . |
| Fe wnaethant ddechrau danfon ac yna stopio ac rydym yn ffonio i gael presgripsiwn ailadroddus nawr. Ni allwn ffonio ac felly mae’n rhaid mynd a’r presgripsiwn yno (taith 10 milltir) ac yn aml iawn nid yw’r feddyginiaeth yno felly rydym yn gorfod gwneud 2 siwrnai. Hefyd aros yn hir iawn am wasanaeth hyd yn oed cyn yr epidemig. |
| Cymerodd 55 ymgais i gysylltu â fy [Fferyllfa] i ail-archebu fy meddyginiaeth ... dros y ffôn. Aros mewn ciwiau hir y tu allan gan mai dim ond un a ganiateir y tu mewn. Sefyllfa gwbl annerbyniol. Angen sortio. |
| Yn fy marn i nid oes digon o staff yn fy fferyllfa. Ni ddylai gymryd 5 diwrnod i'm presgripsiwn gael ei wneud. |
| Nid yw wedi bod yn dda yn ystod ac ar ôl y Cyfnodau Clo. |
| Symudais yn ddiweddar i gael fy mhresgripsiynau o Hwb yn Lloegr . Mae hyn bellach yn cael ei ddanfon mewn bagiau plastig ac yn cymryd wythnos o rybudd. |
| Symudais yn ddiweddar o Loegr a chefais fy synnu bod fy meddyginiaethau'n cael eu dosbarthu bob mis ... Roeddwn i wedi arfer cael cyflenwad dau fis sy'n siŵr o arbed amser meddyg teulu |
| Maent yn darparu gwasanaeth rhagorol |
| Yn rhy aml nid oes cyffuriau ar gael yn y fferyllfa ac ar ôl dychwelyd, maent 'newydd gyrraedd' neu 'maent yn cael eu paratoi / gwirio', dim ots faint o ddiwrnodiau y mae rhywun yn aros cyn dychwelyd. |
| Ddim yn siŵr os oes gwasanaeth meddyg teulu |

| |
|---|
| Wedi canfod fod ein fferyllfa meddyg teulu lleol yn llawer gwell na'n [fferyllfa] ym mhob ffordd |
| Mae'n cymryd gormod o amser i sgriptiau ailadroddus gael eu prosesu gan y meddyg teulu trwy'r fferyllfa ac i'r claf sy'n cymryd hyd at wythnos. Tan yr wythnos doedd dim cynllunio ymlaen llaw ar gyfer ailadrodd sgriptiau. Yn fwyaf sydyn mae hyn wedi cael ei sortio er hynny. |
| Dylai presgripsiynau ar gyfer meddyginiaethau cronig tymor hir fod yn ddilys am fwy nag 1 mis. Mae'n faich gwaith a chost ddiangen bod yn rhaid i'm cais ailadroddus fynd i'r feddygfa i'w gymeradwyo bob mis. Byddai bob chwe mis yn caniatáu rheolaeth ac adolygiad. Mae'r polisi cyfredol yn aneffeithlon |
| Hoffwn ganmol eu hamynedd a'u heffeithlonrwydd |
| Yn ddiweddar, mae fy ngŵr a minnau wedi cael eitem ar goll yn ein presgripsiynau ailadroddus rheolaidd a ddim yn siŵr ai bai'r fferyllfa neu feddygfa yw hyn. Gofynnir am bresgripsiynau ailadroddus ar-lein o'r fferyllfa |
| Mae fferyllfa wedi bod yn drefnus iawn o ystyried yr anawsterau gyda COVID-19. Yn dda gydag ymbellhau cymdeithasol a di-heintwyr dwylo. |
| Nid yw meddygon yn ddigon parod i ddosbarthu presgripsiynau mewn dull defnyddiol ac maent yn hynod anghymwynasgar felly nid wyf yn eu defnyddio. Mae [fferyllfa] yn ofnadwy yn ystod y cyfnod COVID hwn, ciwiau hir, dim marciau pellhau cymdeithasol ar y llawr dim awyru a berwedig o boeth. |
| Rwy'n teimlo bod staff y fferyllfa ac yn enwedig y prif fferyllydd, yn wybodus ac yn rhoi cyngor defnyddiol. Mae'r fferyllfa yn y Feddygfa Meddyg Teulu wedi helpu'n dda yn y gorffennol.. |
| Roedd fy fferyllfa leol byth a hefyd yn dosbarthu Rx anghyflawn sydd yn golygu mwy nag un ymweliad a dyna pam y gwnes i newid |
| Mae'r fferyllfeydd lleol yn gweithio'n araf ac yn ei chael hi'n anodd delio â chapasiti. Mae'n anodd dod o hyd i fferyllfa a all roi presgripsiwn ar unwaith heb aros am 30 munud. A phan ddewch yn ôl os byddwch yn ei adael yna mae'n rhaid i chi aros unwaith eto. |
| Ymddengys eu bod yn brin o staff. Yn aml dim ond dau aelod o staff sy'n gweithio mewn [fferyllfa] brysur |
| Rwy'n wirioneddol anhapus fod fy meddygfa yn gallu newid fy fferyllfa ddewisol ar-lein (My Health Online) i un nad yw mor gyfleus, ymhellach i ffwrdd ac mewn archfarchnad brysur felly gyda risg uwch imi. Roeddwn i yn mynd at fferyllfa breifat fach am 5 mlynedd cyn hyn! Gwnaethpwyd hyn ym mis Mawrth yn ystod y Cyfnod Clo. |
| Rwy'n siomedig bod yr unig fferyllfa yn y dref agosaf ataf i a meddygfa'r Meddyg Teulu wedi penderfynu awtomeiddio presgripsiynau arferol / ailadroddus o storfa yn Lloegr ac mae'n golygu bod wythnos o leiaf cyn bod y presgripsiwn yn barod i'w gasglu ar ôl cais gan feddyg teulu . |
| Popeth yn dda |
| Gwasanaethau rhagorol a ddarperir gan y fferyllfa leol |
| Nid oes yr un ohonynt yn arbennig o hawdd mynd atynt nac o gymorth. Mae preifatrwydd yn broblemus ynddynt i gyd. Nid yw'r gofal yn canolbwyntio ar y claf - mwy o ganolbwyntio ar y staff yn gyffredinol. Ychydig iawn o dystiolaeth o ymwybyddiaeth o anableddau ac yn aml nid oes ganddynt sgiliau gwasanaeth cwsmer. |
| Bob amser yn barod eu cymorth |

| |
|---|
| Roedd y fferyllfa yn ei chael yn anodd delio â'r gofynion a wnaed arnynt yn ystod misoedd cynnar y pandemig a gwelais staff yn ei chael hi'n anodd cuddio'u hemosiynau pan roedd cwsmeriaid yn cwyno am bethau bach. Fe wellodd y sefyllfa dros amser ond rwy'n credu bod angen rhoi cynllun ar waith i gynnig gwell cefnogaeth i fferyllfeydd sy'n brwydro i helpu pawb ac nad ydyn nhw'n derbyn fawr o ddiolch. |
| Mae fy fferyllydd lleol a'r staff yno yn wych ond bu'n rhaid inni addasu i arosiadau hir iawn oherwydd nad yw pob meddyginiaeth yn cael ei ddosbarthu yn yr adeilad. Mae [Fferyllfa] erbyn hyn yn cael meddyginiaethau wedi'u danfon o'r tu allan i'r ardal. Cyn hyn byddwn yn cael fy mhresgripsiwn mewn 2 ddiwrnod ond nawr mae'n rhaid imi aros hyd at wythnos a hanner. |
| Mae staff y fferyllfa yn [lleoliad] yn wych |
| Rwy'n defnyddio'r fferyllfa allan o ddau ddewis yn fy nhref. Nid yw'r naill na'r llall yn effeithlon, yn aml heb stoc o'r feddyginiaeth, ac ati, ond dyma'r gorau o'r ddau. Nid oes gennyf unrhyw broblem gyda'r fferyllydd ond mae rhai o'r staff yn anghwrtais, yn analluog i ddelio'n dda â phobl â phroblemau iechyd meddwl ac yn trin pobl fel pe baent yn gwastraffu eu hamser. |
| Mae nifer y cwsmeriaid bellach wedi cynyddu ac yn ei gwneud hi'n anoddach ac weithiau'n amhosibl cael presgripsiynau. |
| Weithiau nid oes ganddyn nhw eitemau mewn stoc ac mae cwpl o ddiwrnodau o aros. Roedd yn rhaid imi fynd i fferyllfa wahanol i gael fy mrechlyn ffliw |
| Rwy'n gweithio'n llawn amser ac mewn tref arall. Mae cyrraedd y fferyllfa yn ystod yr wythnos, ar gyfer fy mhresgripsiynau ailadroddus yn anodd, ac mae'n rhaid imi adael y gwaith yn gynnar, neu gyrraedd yn hwyr. Mae gen i gyflyrau meddygol sy'n gofyn am bresgripsiynau rheolaidd. Felly byddai gwasanaeth tan 6.30 un diwrnod o'r wythnos yr wythnos mor ddefnyddiol. |
| Roeddwn i'n arfer defnyddio cangen fferyllfa genedlaethol am nifer o flynyddoedd. Newidiodd y cwmni ei bolisi ar gyfer hyfforddiant rheolwr cangen gan arwain at drosiant uchel ac ansawdd rheolwyr, Yn waeth byth - pe byddech chi'n gofyn am gael siarad â rheolwr y fferyllfa, fe'ch cyfeiriwyd at reolwr y siop nad oedd ganddo unrhyw hyfforddiant fferyllol ar wahân i ofal cwsmer cyffredinol. gofal. Fe newidiais fy fferyllfa. |
| Mae presgripsiynau ailadroddus yn |
| Gwasanaeth rhagorol - dim cwynion |
| Bob amser yn barod i helpu |
| Gyda'r fferyllfa yn [lleoliad] mae angen inni bellach aros o leiaf 5 diwrnod i gael presgripsiynau ar ôl eu gadael yn y feddygfa. Maent bellach yn dod mewn bagiau plastig gwastraffus ac nid oes modd eu hailgylchu. |
| Maen nhw'n gweithio'n galed iawn |
| Nid oes dim yn peri trafferth iddyn nhw, mae'n nhw'n barod eu cymorth y tu hwnt i eiriau, ni allwn eu canmol ddigon, ac mae popeth sydd ei angen arnaf yno bob amser. |
| O'r amser pan roir y sgript i mewn, mae'n cymryd bron i 10 diwrnod i'r holl eitemau fod ar gael i'w casglu. Rwyf wedi bod 3 gwaith i gasglu'r eitemau fy mhresgripsiwn diweddaraf ond nid ydyn nhw byth yn barod. Pam na allant anfon nodyn atgoffa syml i ddweud bod eitemau'n barod i'w casglu er mwyn arbed yr holl deithiau diangen hyn? Maen nhw'n dweud wrthych chi am beidio â ffonio gan eu bod nhw'n rhy brysur i ateb y ffonau. |

| |
|---|
| Mae ein tîm fferylliaeth lleol wedi gweithio’n ddiflino ers mis Mawrth 2020 i gynnig gwasanaeth rhagorol yn ein pentref [lleoliad] ac mae fy nheulu yn hynod ddiolchgar iddynt am hyn. |
| Mae [fferyllfa] yn agosach ataf ond mae'r diffyg staff ac arafwch y staff sydd yno yn golygu y gallech fod yn aros hyd at awr i gasglu'ch presgripsiwn - yn hollol anobeithiol! |
| Nid yw'r cyfathrebu rhwng y gwasanaeth dosbarthu gan y meddygon teulu a'r fferyllfa leol / fi bob amser yn dda. |
| Bob amser yn barod eu cymorth ac yn effeithlon iawn |
| Mae ciw mawr bob amser ac mae'n cymryd oes iddyn nhw ddod o hyd i'r ail bresgripsiwn - yn aml mae'n rhaid imi gysylltu â'r practis meddyg teulu |
| Maen nhw wedi bod yn rhagorol yn ystod Covid / Y Cyfnod Clo ac maen nhw bellach yn danfon fy mhresgripsiynau / meddyginiaeth felly does dim rhaid imi fynd allan a mynd i mewn i'r siop |
| Dywedodd fy fferyllydd wrthyf ei fod wedi derbyn hyfforddiant i ddelio ag ystod eang o faterion iechyd felly byddwn yn dewis mynd yno yn hytrach nac at fy meddyg teulu |
| Dwi ddim yn meddwl fod gorfod codi presgripsiwn sydd wedi'i ragnodi ers bron i 20 mlynedd yn ddefnydd gwych o amser y fferyllydd. Pam na allwn ni gael presgripsiwn 3 mis, yn hytrach nag yn fisol? |
| Mae [fferyllfa] yn fferyllfa hyfryd ond fe hoffwn i’r oriau agor fod 9-5.30 fel yr oedd o’r blaen ac nid 10-1 a 3-5pm gan na allaf gyrraedd yno oherwydd ymrwymiadau gwaith |
| Mae'n bositif ar y cyfan er eu bod wedi cael trafferth cael rhai meddyginiaethau presgripsiwn ar brydiau. |
| Byddwn yn meddwl y byddai gymaint yn well pe gallech gael eich presgripsiwn yn y fferyllfa agosaf i'ch cyfeiriad cartref |
| Fferyllfa ardderchog gyda’r staff i gyd yn barod i helpu ac yn feddylgar. Gwasanaeth dosbarthu gwych a fferyllydd gwybodus sy'n gymwynasgar ac yn amyneddgar. Ynghyd â [gwasanaeth] sy'n golygu 2 wasanaeth gwych mewn un adeilad. |
| Bob amser yn hynod gymwynasgar ac effeithlon |
| Mae meddygon teulu a fferyllfeydd yn cysylltu, rwy'n archebu presgripsiwn ailadroddus ar-lein ac mae fferyllfa yn ei gasglu ac yn ei wneud yn wasanaeth pentref nodweddiadol i ni. |
| Hynod o araf |
| Maen nhw bob amser yn cael pethau'n anghywir ac yn beio'r meddygon |
| Os yw eitem allan o stoc ac wedi'i rhagnodi wythnos neu ddwy yn hwyrach, mae'n wedyn yn wahanol i drefn eich meddyginiaethau ailadroddus misol arferol hy mae'n rhaid i chi gofio archebu dau bresgripsiwn y mis |
| Rwyf wastad wedi archebu trwy wefan archebu meddyginiaeth ar-lein sy'n gyfleus ac yn ddibynadwy. Fodd bynnag, dros y misoedd diwethaf, mae'r broses archebu meddyginiaeth wedi newid. Rwy'n parhau i archebu rhai eitemau ar-lein ond ar gyfer gweddill yr eitemau mae'n rhaid imi dicio'r blychau ar y slip presgripsiwn gwyrdd a'u gollwng yn y fferyllfa. Gan fod gen i ddau gyflwr cronig mae'n rhaid imi archebu fy meddyginiaeth yn rheolaidd. Pan euthum i nôl fy meddyginiaeth yr wythnos hon roedd yr archeb a wnes i ei roi ar lein wedi'i gwblhau ond nid oedd archeb gyda'r fferyllfa wedi'i gwblhau oherwydd maint y Presgripsiwn. Roedd yn |

| |
|---|
| rhaid imi ddychwelyd ar yr un diwrnod i gasglu. Rwy'n teimlo bod archebu presgripsiynau wedi dirywio gan fod gen i 2 broses ar wahân i'w dilyn bellach ac mae'n rhaid imi wneud 1 ymweliad ychwanegol i ollwng y presgripsiwn. Y mis hwn, rwyf wedi ymweld 3 gwaith. Rwyf hefyd yn dilyn yr un broses ar gyfer presgripsiwn fy mam felly rwy'n ymweld 5 gwaith. |
| Bob amser yn wasanaeth da gan fy fferyllfa leol a meddyg teulu |
| Gall fod ychydig yn araf weithiau |
| Mae'r fferyllfa'n lleol, mae'r staff yn broffesiynol iawn, yn wybodus, yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar. |
| Yn ddefnyddiol iawn – maen nhw'n fy ffonio i os oes problem gyda'r presgripsiwn |
| Rwy'n defnyddio'r gwasanaeth 'iechyd ar-lein' ar gyfer presgripsiynau ailadroddus ac mae'n wych |
| Mae fy fferyllfa leol yn anhygoel ac yn gwasanaethu ein cymuned yn wych |
| Mae angen i'r fferyllfa fod ar agor yn hwyrach gyda'r nos neu mae angen iddi agor ar benwythnosau. Mae'n hurt, gan mai dim ond un fferyllfa a dim cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol sydd gennym, nad yw pobl yn gallu mynd i'r fferyllydd, sydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau eraill fel yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys gyda'r nos ac ar benwythnosau. |
| Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, cyfeillgar ac effeithlon |
| Anaml y bydd fy meddyginiaeth mewn stoc. Amserau aros hir. |
| RWYF WASTAD WEDI CAEL GWASANAETH RHAGOROL GAN STAFF CAREDIG, HWYLIOG A GOFALUS IAWN [Fferyllfa] |
| Mae bob amser yn rhy araf |
| Weithiau nid yw'r gwasanaeth rhwng y feddygfa yn esmwyth. Dwi angen prawf gwaed ar gyfer fy meddyginiaeth, dwi'n ysgrifennu ar bresgripsiwn pan fydd wedi'i wneud, ond yn aml iawn yn dod yn ôl gyda nodyn yn dweud fod angen prawf gwaed, pan mae wedi'i wneud ac ar gael. Eitemau ar goll yn y pecyn. Yn fwy diweddar yn ystod y 3 mis diwethaf, mae'n ymddangos bod pethau'n llawer mwy llyfn yn ystod covid, ac mae presgripsiynau ailadroddus yn help gyda neges destun i'r perwyl hwnnw. |
| Does gen i ond canmoliaeth i'r feddygfa a Fferyllfa sydd yn barod iawn eu cymorth ac rydw i'n teimlo y galla i ddibynnu arnyn nhw |
| Rwy'n casglu fy nhabledi i a rhai fy ngŵr yn fisol. Rwyf wedi cael llawer o achosion pan nad yw tabledi wedi bod yn barod, er fy mod wedi caniatáu 7 diwrnod gwaith, rhwng rhoi'r presgripsiwn yn y blwch yn y fferyllfa, a chodi'r tabledi. Ar un achlysur roedd yn rhaid i'm gŵr wneud heb ei dabledi pwysedd gwaed a'i bigiadau ar gyfer diabetes am sawl diwrnod, nes bod modd trefnu presgripsiwn newydd a'i ddosbarthu i'r fferyllfa. Ar y pryd, roedd y fferyllfa yn beio'r feddygfa, ac roedd y feddygfa'n beio'r fferyllfa, ac nid oedd y naill na'r llall yn helpu sefyllfa fy ngŵr. |
| Na, heblaw dweud fy mod ar y cyfan wedi derbyn gofal da. |
| Fferyllydd yn sicrhau gwasanaeth da bob amser |
| Roeddwn i eisiau archebu pigiadau ffliw imi fy hun a fy mab anabl ond dywedwyd fod yn rhaid imi fynd ar-lein eleni a doedd dim apwyntiadau ar gael ar-lein. Nid oes meddyginiaeth ar gael ar brydiau ac ni chynigir opsiynau eraill. |

| |
|---|
| A oes fferyllydd yn lleol sy'n danfon at fy nrws? |
| Roedd gwasanaeth rhagorol bob amser |
| Rwyf wedi gofyn i'm fferyllydd am gyngor ar sawl achlysur ond nid yw'n ymrwymo ei hun. Mae bob amser yn dweud wrthyf am ofyn i'r meddyg. |
| Staff gwych er bod llawer o bresgripsiynau wedi'u newid i opsiynau rhatach ers Covid. |
| Teimlaf fod fferyllfeydd lleol yn cynnig gwasanaeth rhagorol |
| Weithiau mae wedi cau gan nad oes fferyllydd ar gael. Mae’n rhwystredig iawn gan na allaf gael fy mhresgripsiwn na gollwng un. Nid oes byth rybudd o hyn - dim ond cau. |
| Mae'n cymryd gormod o amser i gael presgripsiwn ailadroddus i'w dosbarthu. Dim ond ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ac yn cau amser cinio. |
| Y fferyllfa yn [lleoliad] yw’r fwyaf defnyddiol |
| Mae [fferyllfa] yn y pentref yn araf iawn yn paratoi presgripsiynau, maen nhw'n gofyn am wythnos! Yn aml ni allant ddod o hyd i'r presgripsiwn pan fyddant wedi tecstio i ddweud ei fod yn barod, ac maen nhw’n aneffeithlon iawn! |
| Maen nhw'n anfon neges destun ataf pan fydd fy mhresgripsiwn wedi cyrraedd. |
| Wedi'i reoli'n wael a diffyg trefniadaeth. |
| Rwy'n defnyddio [Fferyllfa] i gasglu meddyginiaethau fy mam ond nid imi fy hun gan nad oes ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arna i yn aml. Rwy'n defnyddio'r Fferyllfa mewn [lleoliad] gan fod ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arnaf bob amser, maen nhw’n argymell dewisiadau amgen pan fydd prinder cenedlaethol ee HRT ac yn groesawgar a pharod iawn eu cymorth. Maent yn hyfryd iawn yno ac os oes cyfle i drosglwyddo hyn, gwnewch hynny plîs. Eu gwasanaeth cwsmer yw'r gorau rydw i wedi'i gael mewn fferyllfa. |
| Yn fodlon â'r gwasanaeth |
| Weithiau byddwch yn aros yn hir y tu allan i gasglu presgripsiynau sydd ddim yn beth da mewn tywydd oer a gwlyb. Does unman i eistedd ac aros ar hyn o bryd. Ddim yn dda ar gyfer pobl sâl a'r henoed. Weithiau nid yw meddyginiaethau ar bresgripsiwn ar gael |
| O dan yr amgylchiadau presennol, mae'n cymryd tua 3 diwrnod gwaith i'r presgripsiwn fynd o'r Feddygfa i'r Fferyllfa, yna hyd at wythnos arall ar gyfer eu dosbarthu. |
| Maent bob amser yn barod eu cymorth a byddant yn danfon os na allaf gasglu fy mhresgripsiwn, ac fe wnaethant ddanfon tra roeddwn i'n cysgodi. |
| Ymddangos yn aneffeithlon iawn. Rydyn ni'n gollwng y presgripsiwn yn y fferyllfa ac mae'n rhaid iddyn nhw ei anfon i feddygfa'r meddyg ac yna aros iddo gael ei ddychwelyd atynt. Mae’n aml yn mynd ar goll 'ar y ffordd'. |
| Mae’r staff fferyllol yn mynd allan o'u ffordd i fod o gymorth - does dim byd yn ormod o drafferth. Gall fod ychydig yn araf mae’n werth aros |
| Mae'n ymddangos eu bod yn newid fferyllwyr yn rheolaidd felly mae'n eithaf anodd dod i'w hadnabod mewn gwirionedd. |
| Fel arfer yn iawn ond unwaith neu ddwy rwyf wedi cael y feddyginiaeth anghywir |
| Yn anffodus mae'r fferyllfa ar gau ar benwythnosau |
| Staff cymwynasgar |
| Yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth rwy'n ei dderbyn gan fy fferyllfa leol. |
| Rwy'n byw mewn ardal wledig. Pe na bai gen i gar, byddai'n anodd iawn cyrraedd unrhyw fferyllfa o gwbl. |

| |
|---|
| Dryswch rhwng Y Meddyg Teulu a'r fferyllfa gyda phresgripsiwn ailadroddus |
| Na – MAEN NHW I GYD YN WYCH |
| Maen nhw'n cael fy mhresgripsiynau yn anghywir bron bob tro. Newidiais fferyllfa yn ystod y Cyfnod Clo oherwydd eu bod yn danfon |
| Rwy'n hoffi bod yr un staff wedi bod yno ers amser maith. Mae dwy fferyllfa yn fy ardal ac rwy'n dewis yr un sydd orau gennyf oherwydd fy mod i'n adnabod y staff. |
| Pryder ynghylch faint o amser mae hi'n cymryd i ddosbarthu meddyginiaethau |
| Mae'r fferyllfa fwyaf cyfleus imi, drws nesaf i feddygfeydd 2 x meddyg teulu, fodd bynnag, oherwydd eu bod yn cael cymaint o fusnes oddi yno rwy'n credu nad ydyn nhw'n ceisio helpu gyda materion yn ymwneud gyda sgriptiau. O'r herwydd, rwy'n teithio i un a fydd yn archebu'r brand meddyginiaeth sydd ei angen arnaf. Y broblem gyda hyn yw nad yw'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio yn danfon felly cefais fy ngorfodi i adael fy nhŷ yn ystod cyfnod o ynysu am 14 diwrnod oherwydd COVID i gasglu ail-bresgripsiwn hanfodol. Ffoniais y fferyllfa yn gyntaf ond doedd ganddyn nhw ddim gwasanaeth cludo. |
| Mae oriau agor wedi newid yn y fferyllfa rydw i'n ei defnyddio fel arfer - ddim bellach yn addas ar gyfer pobl sydd â swyddi amser llawn. Mae'r gwasanaeth yn eithriadol o wael y dyddiau hyn, anaml y mae presgripsiwn yn barod ac rydw i wedi mynd heb feddyginiaeth oherwydd hyn. Mae mynd i gasglu fy mhresgripsiwn wedi dod yn boen go iawn a byddwn i'n newid fferyllfa heblaw nad oes gan y lleill oriau agor addas chwaith. |
| Mae ciwio yn yr oerfel yn ofnadwy, mae'r fferyllfa ar gau am gyfnodau hir, mae'r amseroedd yn anghywir ar-lein, ac mae angen slotiau codi |
| Cyn COVID roedd bob amser yn iawn |
| [Da iawn] |
| Gwasanaeth gwael iawn gan y ddau fferyllydd yn [lleoliad], y ddau yn cael eu rhedeg gan [fferyllfa]. |
| Gwasanaeth rhagorol, diolch |
| Staff cymwynasgar a chyfeillgar iawn, a hynod wybodus |
| Gall gwasanaethau dosbarthu meddygon teulu fod yn wael iawn. Bron bob mis mae ganddyn nhw eitemau ar goll ar sgriptiau ailadroddus. Maent yn trin hyn fel rhywbeth derbyniol ac yn disgwyl ichi ddod yn ôl yn hawdd ond tydi hi ddim yn hawdd os ydych chi'n byw yn bell, ag incwm cyfyngedig i dalu am deithio, neu ddim angen y feddyginiaeth gan eich bod wedi rhedeg allan. Bron bob mis mae'n rhaid imi sefyll yn y dderbynfa gyhoeddus i drafod fy meddyginiaethau preifat gyda nhw. Mae ganddyn nhw wasanaeth cwsmer gwael a gallant fod yn eithaf anghwrtais, ac mae'n broblem i mi pan nad yw'r sgript yn barod. Yn aml nid ydyn nhw wedi gallu cael meddyginiaeth benodol ond gall y fferyllfa yn yr un pentref gael y feddyginiaeth heb unrhyw broblem. Yn aml, mae fferyllfa'r Meddyg Teulu yn tynnu eitemau o'r sgript yn rheolaidd heb eich hysbysu ymlaen llaw. Mae hyn wedyn yn golygu mwy o straen a chymryd amser diangen y Meddyg Teulu i roi trefn ar bethau. Rhaid cyfaddef fod fy mhrofiad o wasanaethau dosbarthu'r Meddyg Teulu wedi bod yn wael iawn. Mae rheolwyr practis hefyd wedi dweud celwydd wrthyf gan ddweud wrthyf na allaf symud i fferyllfa breifat. Rhoi pwysau fel eu bod yn cadw cyllid? Dyna sut mae'n teimlo. Rwyf hefyd wedi cael problemau mawr wrth ddefnyddio'r cynllun anhwylderau cyffredin. Mewn fferyllfeydd pentrefi bach, dywedwyd wrthyf ddwywaith bod y cynllun ar gyfer "pobl dlawd" yn unig, tra mewn [fferyllfa] a oedd yn arddangos taflenni am y cynllun nid oedd y fferyllwyr yn hollol |

| |
|---|
| ymwybodol o'r cynllun na sut yr oedd yn gweithio, a throdd cais syml yn apwyntiad awr lle bu'n rhaid imi eu dysgu am y cynllun a dangos iddynt sut i ddod o hyd i wybodaeth a llenwi manylion yn eu system ar-lein. Yna dywedon nhw wrtha i ei fod ar gyfer pobl dlawd yn unig. Bydd hyn yn atal pobl rhag gofyn ac nid yw'n ennyn hyder. |
| Nid oes pigiadau ffliw ar gael. Gyda chynllun anhwylderau cyffredin rwyf yn gweld fod staff yn gwneud unrhyw esgus i BEIDIO â rhoi meddyginiaeth heb bresgripsiwn ee. Diferion llygaid, llindag, hyd yn oed i blant. Rwy'n teimlo eu bod yn amharod iawn pan fyddwch chi'n son am y 'cynllun anhwylderau cyffredin' |
| Ddim ar hyn o bryd. |
| Maent yn wael iawn yn dosbarthu ail-bresgripsiynau |
| Hoffwn ddiolch i'm Fferyllfa am y gofal a'r sylw yn ystod y Pandemig a'r Gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu |
| Mae fy fferyllfa leol yn gwneud gwaith gwych o dan amodau gwael ac amodau staff gwael sy’n gweld mwy o gleifion nac y mae'r meddygon teulu wedi ei wneud yn ystod y 12 mis diwethaf |
| Nid yw fferyllwyr bob amser ar gael i siarad, ac nid ydynt yn fy nghyfeirio at y meddyg teulu fel arfer. |
| Staff gofalgar rhagorol. |
| Oherwydd nifer fawr o brofion Covid (PCR a “llif ochrol” cyflym) rwy’n teimlo’n rhwystredig iawn nad yw [fferyllfa] yn ei gweld yn angenrheidiol cynnig y gwasanaeth hwn yng Ngogledd Cymru o gwbl. Diolch i harbwr fferi Caergybi mae gennym lawer o deithwyr yng Ngogledd Cymru - ac rwy'n argyhoeddedig, y gallai'r firws gael ei gadw dan reolaeth yn well pe bai mwy o brofion ar gael (oherwydd bod holl gyfleusterau profi gyrru i mewn y GIG ar gyfer pobl â symptomau) |
| Ydw. Rwy'n gwybod bod covid wedi gwneud pethau'n arafach ond rwy'n codi fy mhresgripsiwn o [fferyllfa] yn [lleoliad] yn fisol ac nid yw byth yn barod sy’n golygu fy mod yn aros o 1 i 2 awr. Pam? |
| Nid oes digon o le, yn rhy fach i nifer y cleifion, yn gorfod ciwio y tu allan heb gysgod |
| Angen rhagnodi electronig yng Nghymru. Cawsom broblem pan arhosodd perthynas oedrannus o Loegr gyda ni a rhedeg allan o feddyginiaeth. Ni allai'r feddygfa feddyg teulu yn Lloegr anfon sgript frys i'm fferyllfa leol yn electronig ac nid oedd ganddo ffacs mwyach. Yn ffodus, gwnaeth y fferyllydd lleol ailadroddiad brys 7 diwrnod ond yna byddai wedi gorfod mynd ar ôl y fferyllfa yn Lloegr am sgript. Fel rhagnodydd fy hun yn Lloegr cyn imi symud yma, rwy'n gwybod beth yw manteision rhagnodi electronig ar gyfer cleifion, teulu a gofalwyr, fferyllwyr, a rhagnodwyr ac mae'r Byrddau Iechyd / CCGs. Yn methu credu nad yw ar gael o hyd yng Nghymru. |
| Ciwiau ofnadwy, dim digon o staff. Presgripsiwn ailadroddus coll. Staff anghwrtais |
| Mae'n llawer gwell nawr bod y pandemig drosodd. Gorfod sefyll mewn ciwiau hir am amseroedd maith o'r blaen. Weithiau roedd yn rhaid mynd yn ôl eto. Neu i fferyllfa arall. |

| |
|---|
| Gwasanaeth rhagorol, fferyllydd a staff cyfeillgar, gwasanaeth llawer cyflymach nag o'r feddygfa feddyg teulu. Mae ceisiadau am bresgripsiwn yn cymryd oes o'r feddygfa i gyrraedd y fferyllfa ond unwaith y byddant yn cyrraedd byddant yn cael eu sortio ar unwaith. Ni fyddwn yn defnyddio'r gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu gan fy mod yn credu nad yw'r staff yn gymwys i wneud gwaith o'r fath. Yn hytrach byddaf yn defnyddio'r staff cymwys yn y fferyllfa |
| Mae eleni wedi bod yn gyfnod anodd, maen nhw wedi parhau i fod yn broffesiynol a chymwynasgar iawn yn ogystal â chadw pawb yn ddiogel. |
| Dim ond 2 Fferyllfa sydd, 5 milltir i ffwrdd neu 8 milltir i ffwrdd a'r un [fferyllfa] felly nid oes dewis. Mae [fferyllfa] wedi cyflwyno polisi sy'n golygu bod yn rhaid archebu presgripsiynau o leiaf 7 diwrnod ymlaen llaw sy'n gam yn ôl yn y cyfnod hwn pan fo' pethau'n tueddu i fod yn gyflymach ac nid yn arafach. Credaf fod [Fferylliaeth] wedi gwneud hyn i gynyddu elw gan ei fod yn rhyddhau eu Fferyllydd i weld cleifion y maent yn cael eu talu amdanynt sydd yn ei dro yn golygu llai o feddygon teulu felly hefyd yn preifateiddio'r GIG. Rwy'n credu y dylai person sâl allu gweld meddyg teulu a phan fydd angen meddyginiaeth arnynt, yna mynd i weld Fferyllydd. |
| Maen nhw'n eich gadael chi'n sefyll yn aros am oesoedd heb hyd yn oed eich cydnabod! Casáu mynd, ond methu cael presgripsiynau ar-lein felly dim dewis |
| Maent yn darparu gwasanaeth da, yn enwedig yn ystod y pandemig |
| Bob amser yn gymwynasgar. |
| Pan brofodd fy mhartner a minnau'n bositif i Covid a chael meddyginiaeth ar bresgripsiwn gan y meddygon teulu, roedd yn rhaid i ffrindiau a theulu hunan-ynysu eu hunain ac nid oedd gennym unrhyw un i gael y feddyginiaeth o'r fferyllfa. Fe wnaethon ni geisio ffonio'r fferyllfa i ofyn a allen nhw dan yr amgylchiadau ddanfon ond ni atebwyd y ffôn a oedd yn peri gofid mawr. Hefyd wrth fynd i godi presgripsiwn gall y ciwiau fod yn hir y tu allan i'r fferyllfa ac nid yw'n braf gorfod aros y tu allan yn yr oerfel a'r glaw |
| Ardderchog. |
| Hoffwn archebu mwy nag 1 mis ar y tro ar gyfer fy meddyginiaeth tymor hir |
| Gwasanaeth gwych nawr bod y presgripsiynau'n cael eu cludo i'n siop bentref lleol i'w casglu |
| Mae staff yn eich cadw'n aros am amser hir neu nid yw'r presgripsiwn yn barod pan fydd yn cael ei ailadrodd |
| Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gwrando arnom ac mae ganddynt agwedd gyfeillgar iawn. |
| Gwasanaeth gwych gan y feddygfa. Nid oes dim yn ormod o drafferth. Cefnogol, cymwynasgar, cyfeillgar. |
| Mae'r staff yn ddymunol iawn |
| Nid oes gan staff y cownter unrhyw amynedd |
| Mae'n rhaid inni aros mewn ciw y tu allan am weithiau hyd at awr i archebu ein presgripsiynau ailadroddus ac yna eto i'w casglu. Yn aml nid yw'r meddyginiaethau mewn stoc. Rydym wedi newid fferyllfeydd ond mae'r ciwio yn dal i fod yn annerbyniol yn enwedig ar gyfer pobl 80 oed yn y gaeaf! |
| Rwyf wedi gofyn 6 gwaith (bob mis am 6 mis) iddynt ddosbarthu fy meddyginiaeth ar ddydd Llun gan fy mod yn rhedeg allan o feddyginiaeth ar fore Llun ac angen cymryd y dos nesaf fore Mawrth. Bob tro maen nhw'n dweud y byddan nhw'n ceisio danfon ar y dydd Llun, ond dydyn nhw byth yn gwneud, felly mae'n rhaid imi |

| |
|---|
| gymryd fy meddyginiaeth ar ôl imi gyrraedd adref o'r gwaith ar y dydd Mawrth (y cyfarwyddiadau yw ei gymryd yn y bore ar stumog wag). |
| Gwasanaeth rhagorol |
| Ers CoVID mae ciw hir bob amser i fynd i mewn i'r fferyllfa. Mae'n cymryd llawer mwy o amser i staff ddod o hyd i'm presgripsiwn. Ni allaf ddeall pam – doedd hi ddim fel hyn o'r blaen. Efallai y byddai rhybudd yn fuddiol mewn fferyllfeydd i egluro pam mae pethau'n cymryd yn hirach bellach. |
| Gwasanaeth rhagorol a ddarperir gan fy fferyllfa ers Covid 19, nid oes angen mynd at feddyg teulu dim ond y fferyllfa bob mis i gasglu meddyginiaeth |
| Maen nhw'n colli'ch presgripsiwn weithiau ac mae'n achosi oedi cyn derbyn fy meddyginiaeth. |
| Mae fy ngŵr a minnau'n cael ein meddyginiaethau. Daw'r fferyllfa 3 amser gwahanol mewn mis ac er mwyn arbed petrol ac ar gyfer yr amgylchedd gallent symleiddio eu hamserlen ddosbarthu |
| Mae fferyllfa'r Meddyg Teulu mewn [lleoliad] yn lletheirio gofal iechyd yn yr ardal gan na all fferyllydd annibynnol agor yn yr ardal. Mae fferyllydd annibynnol yn tueddu i gynnig llawer o wasanaethau hawdd eu cyrchu a chyfleus. Mae gan fferyllydd meddygon teulu oriau agor cyfyngedig. Mae'r gwasanaeth presennol yn fonopoli a’r feddygfa a chyflogau Meddygon Teulu sy’n elwa. |
| Rwy'n gobeithio bod fy atebion yn dweud y cyfan. |
| Ddim yn ddefnyddiol. |
| Gorfod aros 7 diwrnod am bresgripsiwn ailadroddus oherwydd ei fod yn cael ei ddosbarthu o ddepo canolog, er ei bod yn gwbl amlwg nad yw hynny’n gweithio, oherwydd wrth eu derbyn rwy'n casglu 2 fag o feddyginiaeth ac mae 1 ohonynt wedi'i bostio i'r fferyllfa leol. Angen dychwelyd yn ôl i'r system flaenorol. |
| Maen nhw'n ddefnyddiol iawn. |
| [Ymarfer] - gwasanaeth o'r radd flaenaf. |
| Rwyf wedi cael anhawster gyda fy meddyginiaeth yn cael ei danfon yr wythnos diwethaf, roeddent yn hwyr yn danfon ac ni chefais y feddyginiaeth tan drannoeth. Mae hyn wedyn yn effeithio ar fy wythnos ganlynol o feddyginiaeth gan nad oes gennyf unrhyw feddyginiaeth i'w chymryd heddiw (dydd Llun) Mae hyn yn destun pryder cyson imi ac yn digwydd yn rheolaidd. |
| Mae meddyg teulu yn anfon fy sgript ailadroddus i'm fferyllfa leol bob 28 diwrnod ac mae'r fferyllfa'n danfon i'm cartref |
| Methu cyrchu danfon cartref |
| Na, bob amser ar amser ac yn ddefnyddiol. |
| Mae gan [fferyllfa] wasanaeth rhagorol |
| Na, rydym yn gwerthfawrogi'r sefyllfa. Peth anhawster a throeon trwstan ond y staff yn rhesymol. |
| Yn eithaf aml mae fy mhresgripsiwn misol yn fyr gyda nodyn yn dweud ei fod i ddilyn. Nid yw hyn yn cael ei amlygu wrth gasglu ac nid wyf yn cael fy hysbysu pan fydd y feddyginiaeth yn ôl mewn stoc. Dim ond ar ddydd Sadwrn yr ydym ar gael i gasglu presgripsiynau misol ond mae ganddynt amseroedd agor cyfyngedig ac yn aml iawn nid yw eitemau'n barod i'w casglu hyd yn oed pan fyddant wedi cael y sgript ers dyddiau. |
| Hapus iawn gyda'r gwasanaeth. |

| |
|---|
| Mae'r fferyllfa mewn [lleoliad] yn ardderchog. Fferyllydd a staff parod eu cymorth. |
| Weithiau nid yw'r feddyginiaeth yn barod pan fyddaf yn mynd yno ac yna mae’n rhaid aros am amser hir. |
| Mae popeth yn iawn. |
| Rwyf wedi rhoi fy rhif i lawr i dderbyn negeseuon testun i ddweud pan fydd fy mhresgripsiwn yn barod ond fyddai byth yn cael neges destun i'w ddweud. |
| Yn fodlon â'r gwasanaeth. |
| Rwy'n hapus gyda'r gwasanaeth. |
| Hapus gyda'r gwasanaeth |
| Mae'r gwasanaeth yn erchyll ar y gorau nawr bod y presgripsiynau'n cael eu creu oddi ar y safle. Bellach mae'n cymryd o leiaf wythnos i bresgripsiynau fod yn barod. Sut y gall hyn fod yn welliant? Nid oes gennyf unrhyw ddewis gan na allaf godi fy mhresgripsiwn o'r feddygfa a mynd i rywle arall. Y feddyginiaeth a roddir yw'r opsiwn rhataf bob amser, nid yw hyn yn dda. Nid yw pob meddyginiaeth yn gweithio'r un peth. Rwyf wedi cael trafferth i gael brand / math generig gwahanol. Nid oes unrhyw beth gwaeth na chasglu'ch presgripsiynau ac mae'ch calon yn suddo oherwydd eich bod chi'n gwybod nad yw'r fersiwn generig benodol honno'n gweithio i chi. Mae'r gwasanaeth wedi chwalu'n bendant |
| Fferyllydd cyfeillgar, sy'n gallu trafod materion a cheir cyngor da ganddo. |
| Mae'r fferyllfa rydw i'n ei defnyddio nawr [fferyllfa] yn dda iawn ac yn diwallu fy anghenion, hoffwn iddyn nhw gynnig gwasanaeth neges destun imi gael gwybod pan fydd fy mhresgripsiwn yn barod |
| Mae ein Fferyllydd lleol yn rhagorol |
| Hapus gyda'r gwasanaeth. |
| Hoffem weld mwy o Feddygon yn y feddygfa |
| Wedi cael profiad gwych hyd yn hyn gyda'r fferyllfa. |
| Gall fod yn araf iawn weithiau |
| Maent bob amser wedi bod yn gymwynasgar a charedig iawn. |
| Fel uchod, defnyddwyr cyffuriau yn y ciw, yn aml gyda phobl oedrannus agored i niwed sy'n aml yn teimlo'n ofnus oherwydd eu harferion yfed, rhegi ac ati. Mae angen mynd i'r afael â hyn. |
| Yn aml yn cael problemau gyda fy fferyllydd [fferyllfa] yn peidio â chael fy meddyginiaeth yn barod pan fo angen a / neu'n anghofio archebu |
| Na ond maen nhw'n barod iawn i helpu. |
| Mae fferyllfa leol bellach yn tecstio i ddweud pan fydd presgripsiwn y gofynnir amdano ar-lein yn barod i'w gasglu. Gwasanaeth / arloesedd rhagorol. |
| Gwasanaeth personol gwych |
| Gwasanaeth cyfeillgar ac effeithlon iawn |
| Rwy'n aros 10 diwrnod yn aml am fy meddyginiaeth ac yn rhy aml nid ydynt wedi cynnwys rhai meddyginiaethau |
| Mae’r fferyllfa yn darparu gwasanaeth cyfeillgar gwych |
| Dylai fod ar agor tan ar ôl i feddygfeydd meddygon teulu gau ac ar benwythnosau |
| Y cyfathrebu rhwng y meddyg teulu a'r fferyllfa angen gwella. Systemau TG i siarad â'i gilydd. ee os nad yw'r fferyllfa wedi derbyn presgripsiwn gallent wirio gyda'r meddyg teulu a gofyn amdano yn hytrach na fy mod yn gorfod ffonio'r Meddyg Teulu i weld ble mae fy sgript. |

| |
|---|
| Y Fferyllfa bob amser yn rhedeg yn hwyr gyda dosbarthu. Ymddengys bod oediad mawr. |
| Bob amser yn gyfeillgar ac yn barod i helpu |
| Mae'n ymddangos bod y staff yn anghofio eu bod yn rhoi gwasanaeth - yn annymunol ar brydiau. |
| Fferyllfa wych - fferyllydd proffesiynol, cwrtais a staff cwrtais |

**C23. A oes unrhyw rwystrau sy'n golygu na allwch gyrchu gwasanaethau yn eich fferyllfa neu fferyllfa eich meddyg teulu ac nad ydych wedi sôn amdanynt?**

| |
|---|
| "Na" neu "dim" neu "Amherthnasol" - 111 o bobl |
| Ciwiau hir |
| Dim ond y staff |
| Aros hir yn yr oerfel a'r glaw ar brydiau oherwydd rheolau Covid. Roedd aros bob amser yn ddigon drwg ond nawr rydych chi'n rhewi hefyd. |
| Oriau agor. Staff lletchwith yn y fferyllfa. |
| Fel uchod. Yn ogystal, mae'r fferyllfa yn aml yn colli presgripsiynau |
| Aros am amser hir yn y ciw |
| Bob tro y mae angen casglu ein presgripsiynau mae'n costio arian petrol a pharcio inni, ac nid oes unrhyw sicrwydd y byddwn yn cael ein meddyginiaeth o fewn awr, felly mae'n rhaid talu am ddwy awr bob tro. |
| Mae fy fferyllfa yn rhannu adeilad gyda [gwasanaeth]. Mae hyn wedi bod yn niwsans yn arbennig yn ystod yr epidemig presennol gan fod y ciwiau i fynd i mewn i'r fferyllfa wedi bod yn hir iawn weithiau - yn arbennig o rwystredig wrth orfod ciwio y tu allan mewn glaw trwm. |
| Methu cael apwyntiad meddyg teulu |
| Ar gau amser cinio |
| Mae'r Fferyllfa bob amser yn groesawgar ac yn barod i helpu. Mae'r feddygfa fel torri i mewn i Fort Knox. |
| Gweler uchod |
| Methu mynd i mewn gyda chadair olwyn |
| Mae ffôn yn y fferyllfa yn mynd i beiriant ateb a gofynnir i chi ofyn iddynt ffonio yn ôl ... ac wedyn codi tâl am y gwasanaeth! 55 ymgais dros y ffôn cyn i rywun ateb y ffôn. Aros 40 munud yn y ciw wrth dywallt y glaw y tu allan i gasglu. Wedi digalonni. |
| Dim digon o staff yn y fferyllfa |
| Mae derbynfa'r meddygon teulu yn erchyll! |
| Pam na all fferyllfa'r meddygon teulu ddosbarthu meddyginiaethau? |
| Byddai'n well pe bawn i'n gallu codi presgripsiynau cyn / ar ôl gwaith, nid rhwng 9-5 yn unig |
| Yn teimlo fel fy mod yn rhoi pwysau ar staff sy'n amlwg yn gorweithio ac yn brin o staff. |
| Oes, nid wyf am fynd i mewn i archfarchnad fawr pan nad wyf ond eisiau casglu fy mhresgripsiwn |
| Agwedd anhyblyg tuag at oriau agor, ansensitif i anghenion amrywiol grwpiau poblogaeth ac opsiynau cyfathrebu beichus / cyfyngol i unrhyw un sy'n dymuno trafod eu meddyginiaeth |

| |
|---|
| Nid ydynt byth yn agor ar amser. Staff bob amser yn anystyriol. |
| Mae maint y datblygiadau newydd a ganiateir gan Gynulliad Cymru wedi cynyddu yr angen am feddyg teulu a fferyllydd gan fod y datblygiad diweddaraf yn [lleoliad] yn 99 o dai ac yn ychwanegu hynny at ystâd enfawr arall ar waith. Mae'r Meddyg Teulu a fferyllydd ar eu gliniau. Mae'r fferyllydd a staff yn fendigedig ond mae covid wedi golygu nad yw mor hawdd cael mynediad ychwaith |
| Mae llefydd parcio yn aml yn brin. Mae'r fferyllydd yn cau amser cinio ac nid yw ar agor ar benwythnosau. Yr unig reswm y gallaf fynd yw oherwydd fy mod yn gyrru ac y gallaf gyrraedd yno ar ôl gwaith heb orfod gadael y gwaith yn gynharach. Byddai agor ar foreau Sadwrn yn dda - neu agor yn hwyr y nos un noson yr wythnos. |
| Dim ond penwythnos gan nad ydyn nhw ar agor. Yn ddiweddar bu'n rhaid mynd 10 milltir i gael y feddyginiaeth benodol oedd ei angen. |
| Mae'n fferyllfa fach felly mae'n rhaid inni aros y tu allan a chiwio 2 fetr ar wahân. Roedd hyn yn iawn yn yr haf ond nid nawr yn y gaeaf. Mae ciw bob amser gan mai dim ond un aelod o staff sy'n gweithio ar y cownter. |
| Mae [fferyllfa] yn hunllef – gan amlaf mae ganddyn nhw broblem dod o hyd i'm hail bresgripsiwn. Mae angen system gyfrifiadurol well arnyn nhw yn lle defnyddio blychau hufen iâ i storio presgripsiynau !! |
| Amseroedd agor |
| Oes, yr amharodrwydd i anfon y presgripsiwn i'm fferyllfa leol |
| Hyd yn oed os yw'r' fferyllfa meddygon teulu ar gael mae'r maes parcio yn aml dan ddŵr ac yn ddieithriad hefyd yn llawn ceir wrth i breswylwyr fynd i siopa yn y Stryd Fawr. |
| Dim ond nad ydyn nhw'n agor ar ddydd Sadwrn |
| Mae agwedd y staff weithiau'n eithaf cas |
| Fel uchod |
| Argaeledd meddygon teulu. Gwerthfawrogaf eu bod yn brysur yn ystod y cyfnod hwn - ond roeddent yn brysur cyn y pandemig - anhawster cyrchu Gwasanaethau Meddygon Teulu gan mai dim ond oriau craidd o 8-6pm Llun-Gwener sydd ganddynt. Mae angen iddynt fod yn fwy hygyrch y tu allan i oriau gwaith arferol a byddai rhywfaint o argaeledd dros benwythnosau yn ddefnyddiol |
| Rwy'n gweithio gartref felly nid oes gennyf unrhyw broblemau ynghylch oriau agor oherwydd gallaf gymryd hoe a cherdded ar unrhyw adeg yn ystod y dydd. Yn flaenorol, byddai'n rhaid imi adael y gwaith yn gynnar a stopio ar y ffordd adref o'r swyddfa. |
| Bydd yr oriau agor yn broblem imi unwaith y byddaf yn dychwelyd i'r gwaith. |
| Mae'n rhaid imi yrru neu gael rhywun arall i gasglu ar fy rhan. |
| Roedd yn rhaid imi wneud apwyntiad i weld y meddyg teulu, a chefais fy annog i lenwi holiadur ar-lein, ond gan nad oedd fy symptom ar yr holiadur ni fyddai'r ffurflen ar-lein yn gadael imi fynd ymlaen nes imi roi ateb priodol. Yn y diwedd, ffoniais y feddygfa am apwyntiad a bu'n rhaid imi ddal am 40 munud, nes fy mod wedi fy nghysylltu â derbynnydd. Cafodd fy ngŵr yr un broblem, pan geisiodd wneud apwyntiad ar gyfer ei bigiad ffliw. |
| Dim preifatrwydd i drafod unrhyw beth |
| Rwy'n ofalwr amser llawn i rywun sy'n gaeth i'w wely, ac rwy'n ei chael hi'n anodd iawn mynd allan oherwydd byddai'n rhaid imi adael y person rwy'n gofalu amdano ar ei ben ei hun |

| |
|---|
| Ar hyn o bryd fel y nodwyd, y pandemig |
| Gorfod ciwio y tu allan |
| Ni fyddwn yn gofyn cyngor am unrhyw beth personol gan nad yw'r lleoliad yn breifat o gwbl |
| Roedd yr adran ar yr amseroedd a ffefrir yn anodd i'w ateb.Nid yw fy fferyllfa leol ar agor ddydd Sadwrn ac mae diwrnod arall pan maen nhw'n cau yn gynnar. Byddai'n ddefnyddiol pe bai ar agor 7 diwrnod llawn yr wythnos. Byddai'r atebion hyn wedi bod yn wahanol cyn Covid. Rwy'n gweithio gartref bellach. Mae'n gwneud gwahaniaeth mawr. |
| Lleoliad |
| DDIM WIR |
| PRYSUR IAWN |
| Dim ffenestr a dim ond oriau agor cyfyngedig |
| Ydy, mae trafferth gwirioneddol gyda ffonio meddygon teulu a'r fferyllfa pan fydd problem? Mae wedi cymryd 3 diwrnod o alwadau ffôn dro ar ôl tro i gael ateb (ffonio ar frys) yn [fferyllfa] ac mae'n amhosibl cael unrhyw wybodaeth ar y ffôn gan feddygon teulu'r dyddiau yma, gyda gwasanaethau 'ar-lein' - dydy hynny ddim yn wasanaeth o gwbl. |
| Mae fy ngŵr a minnau'n casglu o wahanol fferyllfeydd gan fod y ddau ohonom angen pethau gwahanol. Mae hyn yn ei gwneud yn daith hirach i un ohonom gasglu'r presgripsiynau misol. Nid wyf yn deall pam na allwn gasglu presgripsiynau am 2 neu 3 mis ar y tro yn enwedig gan ein bod ni'n dau ar feddyginiaethau tymor hir. |
| Parcio gwael, amseroedd agor, mynediad a gorfod sefyll o gwmpas am gyfnodau hir allan yn yr oerfel |
| Ddim ar agor ar y penwythnos |
| Methu mynd trwodd ar y ffôn. |
| Yr unig rwystrau rhag defnyddio'r fferyllfa yw cyrraedd y siop ers Covid oherwydd y ciwiau. |
| Gwasanaeth anhygoel o COVID 19 neu beidio. |
| Dim cyfleuster ar-lein |
| Rwy'n casglu meddyginiaeth fy ngŵr gan ei fod yn gaeth i'r tŷ. Danfonir peth o'r feddyginiaeth. Weithiau mae pethau'n cael eu cymysgu. |
| Na, dim problemau gyda defnyddio'r fferyllfa |
| Mae amser ac argaeledd y fferyllydd, yn enwedig yn ystod y pandemig hwn- mae'r adnoddau'n brin iawn |
| Dim byd. Nid wyf erioed wedi cael unrhyw broblemau - i'r gwrthwyneb mewn gwirionedd. Dim ond canmoliaeth. |
| Dim ond yr oedi. Wrth ofyn am bresgripsiwn ailadroddus gan feddyg teulu i gasglu, mae'n cymryd hyd at 10 diwrnod sy'n annerbyniol yn fy marn i ond dyna'r hyn y sydd disgwyl inni aros. |
| Oriau agor. Rhaid dosbarthu Rx Ysbyty [presgripsiynau] o fferyllfa arall. |
| Oriau agor |
| Hygyrchedd fel defnyddiwr cadair olwyn |
| Mae'n rhaid imi roi fy mhresgripsiwn mewn 7 diwrnod cyn bod ei angen arnaf ac mae hyn wedi bod yn anodd oherwydd fy mod i yn yr ysbyty ac yn hunan-ynysu ynysig. |
| Ni fyddwn yn teimlo'n gyffyrddus yn trafod materion preifat gyda'r staff. |

| |
|---|
| Lleoliad |
| Wedi cwtogi eu horiau agor ar ddydd Sadwrn |
| Oes, fel uchod. Rwy'n gyrru 30 munud i gael fy mhresgripsiwn oherwydd yr uchod. |
| Nid yw fferyllfa’r meddygon teulu ar agor ar benwythnosau, weithiau'n gorfod mynd 2 ddiwrnod heb fy meddyginiaeth os yn anghofio casglu ar ddydd Gwener |
| Dim bellach gan y gallaf archebu fy mhresgripsiwn ailadroddus ar-lein |
| Byddai agor ar ddydd Sadwrn trwy’r dydd yn fwy buddiol gan fy mod yn gweithio'n llawn amser - yn ei gwneud hi'n anodd casglu sgript. |
| Y practis lleol yn dosbarthu. |

**C24. A dderbynioch chi lythyr yn eich cynghori i gysgodi?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Do | 95 |
| Na | 428 |
| Dim ymateb | 13 |

**C25. Os gwnaethoch chi ateb do i gwestiwn 24, a allwch chi ddweud wrthym o ble y cawsoch chi eich meddyginiaeth (a gallai hyn gynnwys ffrind, aelod o'r teulu neu wirfoddolwr)?**

| | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Fferyllfa | 78 |
| Fy meddygfa | 17 |

**C26. Os gwnaethoch chi ateb do i gwestiwn 24, a allwch chi ddweud wrthym am eich profiad o gael eich meddyginiaethau tra roeddech chi'n cysgodi?**

| |
|---|
| Byddai fy ngwraig yn mynd ac aros am hyd at awr a hanner gan gasglu i gymdogion hefyd |
| Mae’n wych fod y tîm fferyllol wedi dod â'r feddyginiaeth a'r gorchuddion i'm cartref |
| DRWG |
| Mae fy ngofalwr yn casglu |
| Roedd y fferyllfa yn ardderchog ac fe wnes i gael fy ychwanegu at eu gwasanaeth cludo cartref. |
| Dim problem gan fod perthynas yn eu cael |
| Dim problem |
| Teulu wedi'i casglu |
| Dim problem gydag aelodau o’r teulu yn eu casglu |
| Mae'n anodd iawn, ac yn anodd iawn cysylltu â nhw dros y ffôn yn aml gan gymryd dyddiau i fynd trwyddo |
| Rhai eitemau nad ydyn nhw mewn stoc er bod gen i bresgripsiwn ailadroddus misol oedd wedyn yn golygu ymweld drannoeth i gasglu'r eitem oedd eu hangen. Yn rhwystredig iawn. |
| Fe wnaeth fy merch gysgodi er na chyrhaeddodd ei llythyr gan y GIG o gwbl (dim ond llythyr o'r archfarchnad leol yn dweud wrthi ei bod hi'n flaenoriaeth.) Yn ffodus mae hi'n dal i fyw gyda ni ac roeddwn i'n gallu cael popeth oedd ei angen arni. |

| |
|---|
| Byddai rhywun arall yn mynd i [fferyllfa] imi. Trawmatig bob amser - cyffuriau anghywir, neu allan o stoc, a chiwiau hir, hir. Ond o leiaf mae'r staff yn gwrtais, hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi'u hyfforddi ac yn cael eu rheoli’n eithriadol o wael. |
| Gofynnwyd i'm holl feddyginiaeth gael ei dosbarthu ar yr un pryd (er bod “y system” wedi dweud nad oedd un ohonynt yn ddyledus) i gwtogi ar yr angen am ymweliadau â'r fferyllfa. |
| Gwasanaeth annynol ac ofnadwy. Ciwio yn yr oerfel a glaw trwm. Pam? Maent wedi cael wyth mis i sortio hyn ac wedi methu. |
| Defnyddio car, y gyrrwr oedd y person oedd yn cysgodi felly nid oedd yn dod allan. Fe wnes i gasglu ein meddyginiaeth o'r fferyllfa |
| Nid oedd unrhyw faterion gan fod aelod o'r teulu yn gallu casglu’r presgripsiwn |
| Roedd [fferyllfa] yn ardderchog bob amser ac ni fu'n rhaid imi aros am unrhyw un o'm presgripsiynau |
| Gofynnwyd am lythyr gen i (heb ei anfon yn awtomatig) at ddibenion gofyn am ddosbarthu bwyd o archfarchnad. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw opsiwn i'w ddefnyddio i gael slot ar eu gwefan, felly cyfunais amrywiaeth o siopa ar-lein a theithio i siopa. Hefyd yn parhau i fynd i'r fferyllfa ar gyfer fy nghyffuriau, ond fel arall yn aros gartref. |
| Gwasanaeth rhagorol (ond gwael o [fferyllfa]) |
| Cefais apwyntiad wythnosol cyson a chafodd nyrs fy meddyginiaeth imi. |
| Trefnais i gasglu fy meddyginiaeth o stepen drws y fferyllfa trwy eu ffonio o'm cerbyd y tro cyntaf, ond es i mewn ar ôl hynny gan nad oeddwn yn hynod o fregus yn glinigol |
| Casglodd fy ffrind fy mhresgripsiwn yn fisol |
| Gwr yn codi fy meddyginiaeth |
| Dim problem |
| Casglodd fy mhartner nhw. |
| Dim problem - teulu wedi'i gasglu |
| Mwy o waith papur gan y meddyg teulu er eu bod yn feddyginiaethau arferol yr wyf wedi bod arnynt ers amser maith. |
| Roedd cwmni bysiau lleol yn eu casglu a'u dosbarthu |
| Ni chefais unrhyw broblemau cael fy meddyginiaethau o fy fferyllfa arferol. |
| Codais fy meddyginiaethau yn bersonol |
| Roedd yn rhaid imi giwio yn y fferyllfa o hyd ac ni chynigiwyd gwasanaeth dosbarthu imi. Ceisiais gasglu yn y bore gan ei fod yn dawelach ond yn aml nid oedd fy mhresgripsiwn ar gael tan y prynhawn. |
| Wedi gwirfoddoli i gasglu |
| Ar y cychwyn roedd y gwasanaeth yn amrywiol. Yn fwy diweddar bu’n llawer gwell. |
| Mae gen i Glefyd Parkinsons a nifer o gyflyrau eraill. Cefais e-byst o wahanol archfarchnadoedd yn dweud wrthyf fod fy enw ar restr i allu cael slotiau cylchol oherwydd fy mhroblemau meddygol a thrafodais gyda'r ymgynghorydd a nyrs Parkinson's. |
| Roedd fy meddyginiaethau yn cael eu danfon |
| Nid oedd unrhyw broblemau gyda chael eu dosbarthu |
| Rhoddodd fy fferyllfa feddyginiaeth imi |
| Casglodd fy merch fy mhresgripsiwn |
| Presgripsiwn yn cael ei gasglu gan aelodau o’r teulu |

| |
|---|
| Doedd hyn ddim yn broblem. Nid oedd yn bosibl aros gartref trwy'r amser felly cadwais fy mhellter wrth fynd allan. |
| Roedd fferyllfa leol ar gau am ychydig fisoedd oherwydd diffyg fferyllydd ac roedd yn rhaid i'm gŵr fynd yr holl ffordd ar draws y dref. Mae o law cynigwyd gwasanaeth cludo ond dim ond am 2 fis olaf y cyfnod clo cyntaf. |
| Hawdd |
| Rwy'n mynd mewn car i gasglu ar gyfer fy ngŵr |
| Anodd iawn am y 5-6 mis cyntaf oherwydd trafferthion cyfathrebu rhwng y Feddygfa a'r Fferyllfa. Bellach yn iawn. |
| Casglodd fy ngŵr nhw ar fy nghyfer |
| Casglodd fy mhartner fy mhresgripsiynau. |
| Anodd oherwydd cyflenwad gwael |
| Ei gasglu fel arfer. Dim ond cysgodi cyn ac ar ôl llawdriniaeth oeddwn i. |
| Cafodd perthnasau nhw imi |
| Gwasanaeth rhagorol. |
| Ni chefais unrhyw broblemau gyda fy meddyginiaeth |
| Aeth y teulu i gael fy meddyginiaeth |
| Gorfod aros yn hirach |
| Aeth y gwirfoddolwr i'w nôl |
| DOSBARTHWYD |
| Merch yn ei gasglu |
| Codais feddyginiaeth fy ngwraig yn ystod yr amser hwn gan nad oedd gennyf unrhyw un o dri phrif symptom COVID 19. |
| Dosbarthodd ffrind fy meddyginiaeth |
| Aeth y gwirfoddolwr i gael fy meddyginiaethau |
| Yn wirioneddol anodd, yn enwedig pan ddigwyddodd cymysgu. Roeddwn i'n gallu mynd ddyddiau heb feddyginiaeth cyn iddo gael ei osod |
| Wedi'i gasglu gan berson arall ac ailadrodd presgripsiynau a adawyd yn y fferyllfa sy'n cysylltu â Meddygfa Meddygon Teulu |
| Dim problem |
| Hunllef am y rhesymau uchod. |
| Pawb yn eithaf syml. |
| Yn ofnadwy |
| Dosbarthwyd |
| Iawn - roedd yn rhaid imi fynd i Feddygfa Meddygon Teulu beth bynnag |
| Cefais fy meddyginiaeth wedi'i dosbarthu a oedd yn wych. |
| Dim problem |
| Gorfod dibynnu ar rywun i gael meddyginiaethau imi |
| Yn ystod cysgodi roedd y gwasanaeth yn dda, ac roeddent yn danfon y feddyginiaeth bob mis ar y dydd Llun. |
| Trefnwyd gyda'r staff ac roeddynt yn dod â fy meddyginiaeth i faes parcio'r fferyllfa. |
| Yn ôl yr arfer - gwneud dau ymweliad â'r feddygfa / fferyllfa ac aros 7 diwrnod. |
| Dim byd |
| Nid oeddwn yn gallu cyrchu fy mhresgripsiwn |
| Ni newidiodd unrhyw beth yn ystod covid, roeddent yn cael eu danfon fel arfer. |
| Ddim yn llyfn, problemau'n codi'n aml ond maen nhw fel arfer yn cael eu sortio yn y diwedd. |

| |
|---|
| Derbyniais fy meddyginiaeth ar amser. |
| Roeddwn yn hapus gyda'r gwasanaeth a gefais. |
| Gwasanaeth rhagorol |
| Ni chefais unrhyw anawsterau. |
| Roedd y gwasanaeth yn dda iawn. |
| Byddwn yn eu codi o'r fferyllfa. |
| Yn hawdd iawn gyda fy merch yn eu casglu ac roedd y fferyllydd o gymorth mawr |
| Casglai fy mab neu ferch fy mhresgripsiwn. |
| Gorfod aros y tu allan i'r fferyllfa am dros awr bob ymweliad. |
| Gorfod mynychu i gasglu |
| Roedd yn rhaid imi giwio y tu allan i'r siop a dim ond dau berson oedd yn cael mynd i mewn ar unwaith. |
| Dim problemau, aeth fy ngwraig a daethpwyd â nhw allan i'r maes parcio, cawsant eu rhoi ar y llawr ac yna gellid eu casglu, felly dim cyswllt! |
| Dim problemau |
| Anodd, gan fy mod i neu fy mhartner neu ferch wedi gorfod ciwio y tu allan. Cynigiwyd danfon i'm cartref, ond dim ond unwaith y digwyddodd hynny. |
| Dim trafferthion. Naill ai fi neu fy mab sy'n eu casglu. |

**C27. Os nad oeddech chi'n glaf oedd yn cysgodi, a allwch chi ddweud wrthym am eich profiad o gael eich meddyginiaethau yn ystod Cyfnod Clo pandemig COVID 19?**

| |
|---|
| Mae'r amser prosesu wedi cynyddu. Roedd yn arfer bod yn ddau ddiwrnod ar gyfer presgripsiynau ailadroddus ond bellach nid yw 5 diwrnod yn ddigon o amser ac fe wnes i redeg allan o inswlin. |
| Dim ond fod presgripsiynau ailadroddus yn cymryd mwy o amser |
| Cwtogwyd yr oriau agor ond fe wnaethant archebu yn gynharach gan y meddyg teulu felly heblaw am giwio doedd dim mwy o oedi |
| Roedd fy meddyg teulu yn poeni nad oeddwn yn cysgodi gan ei fod yn teimlo y dylwn fod wedi derbyn llythyr .... roedd yn rhaid i'm gŵr gasglu meddyginiaeth a archebwyd ar-lein |
| Dim gwir drafferthion, dim ond aros ychydig yn hirach |
| Chefais i ddim problem cael fy meddyginiaethau. |
| Byddwn yn ffonio i ddweud yr hyn yr oeddwn ei angen a byddent yn delio gyda'm cais. |
| Danfonwyd fy meddyginiaethau. |
| Nid oedd unrhyw drafferthion o gwbl ac roedd y fferyllfa yn wych - yn wahanol i'r meddyg teulu a oedd yn anodd iawn |
| Mae wedi bod yn brysur iawn gyda chiwio y tu allan ond iawn. |
| Yn anodd iawn, mae ciwiau enfawr, hyd yn oed yn hwyrach yn y dydd pan gyrhaeddaf yno. |
| Ciwiau hir iawn, y rhan fwyaf o'r amser nid oedd y presgripsiwn ailadroddus ar gael ar y dyddiad a roddwyd felly roedd yn rhaid mynd yno eto i'w gael - afresymol. Roedd y bobl ar fethadon yn cael neidio'r ciw oedd yn anheg iawn |
| Roedd yn hunllef llwyr ceisio cael pecynnau 'blister' misol fy Mam. |

| |
|---|
| Mae fy mhrofiad i wedi bod yn iawn, ond mae ciwiau hirach, ac mae methu â thicio'r hyn sydd ei angen ar y presgripsiynau nesaf wedi arwain at beidio â chael y meddyginiaethau cywir, neu gael meddyginiaethau anghywir. |
| Casglodd gweithiwr cymorth o'r tîm iechyd meddwl. |
| Fel uchod, rwy'n teimlo'n nerfus iawn oherwydd fy mod yn fregus pe bawn i'n dal Covid. Yn y gwanwyn, gofynnais i wirfoddolwr a gyrrwr tacsi gasglu fy mhresgripsiwn. Er na chefais lythyr cysgodi, dywedodd fy meddyg teulu wrthyf y dylwn fod yn ofalus iawn oherwydd problemau iechyd sylfaenol |
| Aros yn hir, ac ar brydiau presgripsiynau ailadroddus ddim i gyd yn barod. |
| Gorfod ciwio am amser eithaf hir |
| Gwych |
| Fe wnes i archebu gan y meddyg ar-lein a chasglu o'r fferyllfa. |
| Nid yw wedi bod yn broblem fawr, ar wahân i'r manylion uchod. |
| Yn gyffredinol, aeth yn dda. Roeddent yn brysur ac roedd rhaid caniatáu mwy o amser rhwng archebu'r feddyginiaeth o bractis fy meddyg teulu a'i godi yn y fferyllfa. Bu'n rhaid aros yn hirach i gael gwasanaeth oherwydd y cyfyngiadau sy'n deillio o'r pandemig. Ond roeddwn yn gwerthfawrogi pam a hefyd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a gefais. |
| Ychydig yn hirach yn aros ac angen ciwio ond heblaw am hyn dim byd mawr mewn gwirionedd. |
| Gweler cwestiwn 22 am yr ateb hwn, yn erchyll, yn araf, yn boenus, yn gwastraffu amser, yn wael iawn. Nid wyf yn beio'r staff o gwbl gan fy mod yn credu eu bod yn gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn trio eu gorau glas, ond mae'r broses yn wael iawn ac wedi dyddio. Gallaf gasglu pethau o siopau masnachol yn llawer mwy effeithlon, cyflym a diogel. Mae angen addasu a diweddaru'r broses gyfan i ymdopi â'r galw. |
| Dim problem |
| Dosbarthwyd gan wirfoddolwyr i'm cartref |
| Mae fy meddyginiaethau ar sgript ailadroddus. Rwy'n derbyn neges destun gan y fferyllfa i ddweud bod fy meddyginiaethau'n barod. Cefais fy adnabod fel person bregus, rwy'n tybio oherwydd fy oedran |
| Gostyngwyd oriau agor y fferyllfa yn fy meddygfa ond doedd hyn ddim yn broblem .... Es i pan oeddent ar agor. |
| Roedd ciwiau hir |
| Mae'n cymryd cymaint o amser. Cymaint o amser i giwio, aros wrth eu dosbarthu, cymaint o broblemau wrth gael y presgripsiynau gan y meddygon i'r fferyllfa yn barod i'w casglu. Mor anodd ffitio i mewn o gwmpas gweithio'n llawn amser a bod yn rhiant. |
| Aros ychydig yn hwy ond mae hynny'n ddealladwy. Amgylchedd glan a diogel. |
| Mae fy ngŵr wedi bod yn ynysu ers 3 Mawrth gan ei fod yn dioddef o Ataxia, ac rydym yn dibynnu ar fy chwaer ond byddai'n well gennym dderbyn meddyginiaeth trwy'r post |
| Gorfod ail-ymweld sawl gwaith gan fod y ciwiau yn rhy hir |
| Dim problemau |
| Anfonwyd sgript drwodd o'r Feddygfa Meddygon Teulu fel arfer, ciwio a chael gwasanaeth. Cymrodd fwy o amser oherwydd y sefyllfa bresennol ond doedd hynny ddim yn broblem. |
| Wedi aros awr yn y ciw |
| Roedd gan fy fferyllfa wirfoddolwyr a oedd yn danfon |

| | |
|---|---|
| | Dim problemau. Y Fferyllydd yn cadw at ganllawiau ymbellhau cymdeithasol. |
| | Iawn ond mwy o waith aros |
| | Yr un gwallau. |
| | Gorfod ciwio bob tro weithiau am 30 munud ond nid bai'r fferyllydd oedd hynny. Dim ond 5 a ganiateir ar y tro. |
| | Roedd ciwiau yn erchyll felly allwn i ddim mynd ac aros. Hefyd mae'r [fferyllfa] yn gorfodi gyrrwr i aros hefyd i ddosbarthu fy meddyginiaeth i'r fferyllfa. Roedd ciwiau yn fy fferyllfa leol yn ofnadwy hefyd |
| | Mae'r ciwiau'n ofnadwy ac wedi aros mwy na 30 munud ar brydiau. Nid oes cysgod pan fydd y tywydd yn wael a theimlaf y gallai hyn achosi problemau i bobl hŷn. |
| | Dim problemau |
| | Fel uchod dim problem |
| | Rwy'n credu bod fy fferyllfa wedi bod yn wych, mae’n rhaid aros mwy wrth reswm ond mae'r mesurau a roddwyd mewn lle oherwydd y pandemig wedi bod yn gall ac wedi cyfrannu tuag at deimlo'n fwy diogel |
| | Fel y dywedwyd yn 23 gall fod aros hir yn yr oerfel a'r glaw wrth aros am bresgripsiynau. Ar un achlysur arhosais 40 munud yn y glaw. Pan gyrhaeddais yn y diwedd darganfyddais nad oedd pob meddyginiaeth wedi'i darparu a bod yn rhaid imi ddychwelyd drannoeth i giwio eto. Rhaid cael system well. |
| | Aeth [fferyllfa] uwchlaw a thu hwnt i sicrhau bod cleifion bregus yn derbyn eu meddyginiaeth yn ystod y cyfnod clo. Mae angen eu canmol am eu gwaith caled. |
| | Wedi parhau i gasglu presgripsiynau o feddygfa meddygon teulu (y tu allan) ac wedi mynd â nhw i'r fferyllfa. Mae’n rhaid imi archebu un eitem bob tro. Rwy'n casglu cwpl o ddiwrnodau yn ddiweddarach ar drip siopa. Ar gwpl o achlysuron, casglodd aelod o'r teulu imi yn fy lle wrth fynd allan unwaith yr wythnos yn unig |
| | Cyfyngodd fy fferyllydd fynediad i ddau gwsmer ar y tro a rhoi system unffordd ar waith, darparu deinheintwyr dwylo, sgriniau, a chynyddu eu gwasanaeth dosbarthu ar gyfer cleifion oedd yn cysgodi. |
| | Staff hunllefus, dan straen ac anodd sydd i fod i fod yn ofalgar ac yn broffesiynol. |
| | Yn yr un modd â phob fferyllydd / fferyllfa roedd yn rhaid ichi giwio ac aros ond roedd y staff yn anhygoel ac o gymorth. Roedd yn straen mawr iddyn nhw ac maen nhw'n haeddu canmoliaeth uchel am y ffordd maen nhw'n trin rhai pobl anodd. |
| | Ciwiau mawr y tu allan |
| | Dim ond ar gyfer aelodau eraill o'r teulu y bu'n rhaid imi gael presgripsiynau. |
| | Cymryd llawer hirach yn y Cyfnod Clo cyntaf a chiwio y tu allan am 45 munud ar 2 achlysur ond nawr mae'r system yn rhedeg yn esmwyth ac anaml y bydd yn rhaid aros am fwy nag 20 munud. |
| | Dylwn i fod wedi bod yn glaf oedd yn cysgodi yn ôl fy asesiad risg gwaith ond mae fy meddygfa mor sâl na wnaethant drafferthu - nawr mae angen pigiad ffliw arnaf ac maen nhw wedi rhedeg allan i'r rhai dan 65 oed - mae fel byw mewn gwlad yn y trydydd byd. |
| | Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, roeddem yn gallu cael meddyginiaethau wedi'u dosbarthu am ddim gan gwmni tacsi lleol. Ers i hynny orffen gyda diwedd y cyfnod cloi cyntaf, rydym yn gweld bod y ciwio y tu allan i'r feddygfa yn heriol tu hwnt. Cyn covid ni chawsom ein cadw’n aros o gwbl, ac nid oedd y fferyllfa byth yn rhy brysur. |
| | Dim problem o gwbl |
| | Yn gynnar yn y cyfnod clo cyntaf, roedd yn ymddangos bod fy fferyllfa dan ormod o straen, ond bu gwelliant yn eithaf cyflym. |

| |
|---|
| Dim materion, fel cyn y Cyfnod Clo |
| Dim problem |
| Rwy'n archebu unrhyw bresgripsiynau ailadroddus ar wefan y feddygfa, roedd yn rhaid imi aros dros 5 diwrnod o leiaf weithiau. Dyna pam rydw i nawr yn archebu'r feddyginiaeth o leiaf wythnos ymlaen llaw |
| Yn ddealladwy, roedd pethau ychydig yn arafach nag y byddent fel arfer. Ni yrrwyd y negeseuon testun i hysbysu bod presgripsiwn yn barod. |
| Dim problemau heblaw'r hyn a nodwyd uchod, hy fferyllfa yn gorfod rhannu'r adeilad gyda [gwasanaeth]. |
| Dim newid ar wahân i ddilyn rheolau'r fferyllfa hy dim ond 3 yn y siop ar un adeg a defnyddio system un ffordd |
| Dim problemau |
| Yn ofnadwy. Ciwiau hir y tu allan yn y glaw a'r oerfel, fel arfer rhwng 30 a 60 munud. Yna byddant yn dweud eu bod yn cau heb rybudd am resymau megis eu bod yn rhy brysur ac yn dweud wrthych am ddod yn ôl. Gwrthodwyd Paracetamol dros y cownter gan eu bod yn rhy brysur ac eisiau cau. Aros dros 7 diwrnod cyn bod y presgripsiwn yn barod. |
| Weithiau mae'n rhaid aros yn hir y tu allan ond mae hyn i'w ddisgwyl felly ceisiais ymweld ar adegau llai prysur - a gwisgo cot. Methu canmol y Fferyllfa leol ddigon am eu hymdrechion a'u gofal yn ystod y Cyfnod Clo |
| Dim gwahaniaeth amlwg – os oeddwn wedi archebu ar-lein mewn da bryd |
| Trefnwyd i wasanaeth bws lleol godi ein presgripsiynau gan ein bod ni'n hunan ynysu |
| Dirwy, ar wahân i'r fferyllfa sy'n gweithredu oriau agor cyfyngedig |
| Heb sylwi ar unrhyw newid heblaw masgiau a phellter cymdeithasol |
| Ar wahân i giwio, ymbellhau a gwisgo mwgwd, dim gwahaniaeth. Mae'r fferyllfa rwy'n eu defnyddio wedi bod yn rhagorol. |
| Es i i'r fferyllfa |
| Rwyf wedi bod yn casglu presgripsiynau ar gyfer cymdogion sy'n cysgodi gan nad yw eu fferyllfa wedi cynyddu slotiau dosbarthu i ymdopi â'r galw cynyddol am gyflenwadau yn ystod Covid. Mae'r gadwyn fawr rwy'n ei defnyddio'n bersonol yn cau am ginio, ond gall hyn amrywio o ddydd i ddydd. |
| Yn straen oherwydd ni chefais fy nghynghori ynghylch sut yr oeddwn yn mynd i gael fy mhresgripsiynau. |
| Mae'r gwasanaeth wedi aros yr un peth: dim problemau |
| https://www.google.com/amp/s/www.bbc.co.uk/news/amp/uk-wales-54807878 |
| Dim problem. |
| Dim gwahaniaeth. Gwasanaeth ac argaeledd rhagorol |
| Mae wedi bod yn anodd. Er enghraifft, cael neges destun i ddweud bod fy meddyginiaeth yn barod i'w gasglu ar ddyddiad penodol. Cynllunio fy niwrnod o amgylch yr ymweliad fferyllol hwnnw (oherwydd fy mod yn ceisio gallu mynd yno heb y plant). Ac wedyn wedi cyrraedd y fferyllfa, cael gwybod nid yn unig nad yw fy meddyginiaeth yn barod ond nad yw'r presgripsiwn yno hyd yn oed. Yna'n sydyn ychydig ddyddiau'n ddiweddarach byddwch chi'n mynd yn ôl ac mae'r presgripsiwn wedi ymddangos fel petai trwy hud a lledrith. Mae wedi digwydd cwpl o weithiau yn ystod y pandemig hwn. Mae hyn oherwydd diffyg cyfathrebu llwyr, a does dim esgus gan mai system gyfrifiadurol yw hi. Os yw eu dosbarthu yn rhedeg ychydig |

| |
|---|
| ddyddiau yn hwyr yr oll sydd angen iddynt ei wneud yw dweud a byddai'n osgoi gwastraffu amser a rhwystredigaeth. |
| Mae'n broses hirach i gael eich meddyginiaeth gan ei bod yn amlwg bod y staff dan bwysau enfawr, roedd pobl yn ciwio am amser hir a gwelais staff yn derbyn llawer o anghwrteisi, roedd y staff druan yn ceisio eu gorau ond dwi ddim yn meddwl y gallen nhw gadw i fyny â’r galw cynyddol. |
| Dim trafferthion go iawn heblaw gwisgo mwgwd a chyfyngiadau oddi mewn, ond dim problemau â hyn |
| Hunllef. Mae’r Meddyg Teulu yn anfon at y fferyllfa yn uniongyrchol felly mae'n rhaid mynd yno ond maen nhw wedi bod yn dioddef oherwydd diffyg staff a materion technegol eraill felly mae'n rhaid bob amser imi giwio y tu allan am 30 munud neu fwy ac yna nid yw bob amser yn barod er gwaethaf rhoi 7 diwrnod o rybudd. Mae'n draed moch |
| Rwy'n deall bod yn rhaid i ni giwio y tu allan ond does dim cysgod ac mae'n rhaid i bobl oedrannus a bregus sefyll yn yr oerfel a'r glaw |
| Mae'r amseroedd aros ychydig yn hirach ond mae'r gwasanaeth yn dal yn dda iawn |
| Rwy’n defnyddio fferyllydd lleol bob amser mewn [lleoliad]. Yna wedi dyfodiad y Cyfnod Clo ni allai’r fferyllfa ymdopi. Nid eu bai nhw ac roedd y staff yn hyfryd. Ciwio am bresgripsiynau oedd ddim yn barod ar ôl rhoi wythnos o rybudd. Dywedodd fy ngŵr a minnau wrth ein meddygfa leol i symud ein presgripsiynau i fferyllydd ar [lleoliad]. Y peth gorau wnaethon ni. Maent yn ail-archebu presgripsiynau ar ein cyfer o'n meddygfa yn [lleoliad]. Yr unig beth yw bod yn rhaid inni deithio mewn car ac roeddem yn gallu cerdded at y fferyllydd lleol. |
| Roedd ein car oddi ar y ffordd oherwydd damwain a danfonodd y fferyllfa, mewn tywydd gwael iawn, heb imi orfod gofyn iddyn nhw. Yn falch iawn gyda'r gwasanaeth rhagorol hwnnw. |
| Gorfod ciwio y tu allan mewn tywydd gwael ddim yn ddelfrydol ond dealladwy |
| Dim problem o gwbl |
| Y fferyllfa oedd yn gyfrifol am bresgripsiwn fy ngŵr, felly gallai fy ngŵr archebu tabledi trwyddynt (maen nhw'n gweithio gyda’r feddygfa leol) |
| Mae’r gwasanaeth wedi parhau fel o'r blaen. |
| Dim materion i’w codi. Wedi parhau fel arfer. |
| Dim problemau o gwbl |
| Dim problem |
| Nid ydyn nhw bellach yn danfon ac nid ydym yn gallu ffonio i ailadrodd ac mae'n rhaid teithio 10 milltir at y blwch gollwng a dychwelyd wythnos yn ddiweddarach, ac yn aml nid yw yno wedyn neu mae rhywbeth ar goll. |
| Gollwng ail-bresgripsiynau yn y blwch post y tu allan i ddrws y feddygfa, ac yna derbyn neges destun ychydig ddyddiau'n ddiweddarach pan fyddant yn barod i'w casglu |
| Anodd iawn |
| Mae'n cymryd llawer mwy o amser i'm meddyginiaethau fod yn barod |
| Pawb yn iawn |
| Gwr yn cysgodi felly roedd gan y ddau ohonom feddyginiaethau wedi'u dosbarthu ar ôl ffonio, a oedd yn ardderchog |
| Anodd ac mae'n cymryd amser hir yn ciwio. Yn gyffredinol, mae'n cymryd dros wythnos o'u harchebu iddyn nhw fod ar gael. |

| |
|---|
| Dim problemau |
| Dim ond un person a ganiateir yn y fferyllfa ar y tro. Ciwiau hir i gasglu meddyginiaeth, weithiau mewn tywydd garw. Dim ffordd o ollwng presgripsiwn a chasglu yn nes ymlaen oes ciw wedi ffurfio. |
| Nid oedd y tro cyntaf yn hawdd (ciwiau hir) ond fe ddatblygwyd y system yn fuan i fod yn wasanaeth rhagorol gyda'r holl ragofalon COVID yn eu lle |
| Dim problemau o gwbl |
| Roeddwn i'n teimlo'n nerfus yn aros y tu allan yn y ciw. Roeddwn i'n gwybod ei bod yn fwy diogel y ffordd honno! Pe bai'n rhy brysur y tu allan byddwn yn mynd yn ôl eto! Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. |
| Gofynnwyd i dderbynfa meddygon teulu anfon presgripsiwn i [fferyllfa]. Dywedodd y dderbynfa meddygon teulu y byddai'r broses hon yn cymryd wythnosau! |
| Yr un gwasanaeth da pan oedd ei angen. |
| Yn anodd cael rhai meddygon teulu i ffacsio presgripsiynau i'r fferyllfa fel y gellir eu dosbarthu'r diwrnod hwnnw, tra byddai eraill yn ei wneud ar unwaith. |
| Dylai fod wedi cael llythyr mae'n debyg ond heb gael un oherwydd LLAWER o ddryswch yn y feddygfa Meddygon Teulu. Mae perthynas wedi bod yn gwneud fy siopa ac yn mynd rhwng y feddygfa a’r fferyllfa. Llawer orfod mynd a dod ond o'r diwedd y mis hwn (Tach) i gyd wedi sortio. |
| Yr unig broblem oedd ei bod yn cymryd llawer mwy o amser i'r meddyginiaethau gael eu dosbarthu |
| Rwyf wedi ei chael yn hawdd cyflwyno ceisiadau am bresgripsiwn ailadroddus ar-lein i'm meddygfa. Fe'i trosglwyddir yn uniongyrchol i'r fferyllfa ac rwy'n derbyn neges destun gan y fferyllfa pan fydd yn barod i'w gasglu. |
| Fe'u danfonwyd gan y fferyllfa |
| Dim problemau, dim ond 2 a ganiateir yn y siop ar un adeg, angen gwisgo mygydau a sgriniau yn eu lle gyda smotiau i arddangos ymbellhau cymdeithasol. |
| Roedd yn rhaid imi hunan-ynysu ar ôl dychwelyd o Sbaen. Ffoniais y Fferyllfa a chyflwyno fy mhresgripsiwn ailadroddus Ers hynny, gallaf ei gasglu fy hun o'r Fferyllfa |
| Yn anhrefnus, gydag eitemau ar goll |
| Ar y dechrau, pan oedd pawb yn ansicr a phellter cymdeithasol yn beth newydd, roedd staff y fferyllfa ychydig yn flin yn dweud wrth y cwsmeriaid ble i sefyll a beth i'w wneud, ond wrth i amser fynd yn ei flaen mae hyn wedi bod yn llai o broblem. Maent i gyd fel arfer yn gwrtais a chyfeillgar. |
| Amherthnasol |
| Nid yw fferyllfa’r feddygfa ar agor yn ddigon aml i allu dosbarthu presgripsiynau yn ddefnyddiol ac a does dim cymorth i’w gael ganddynt felly nid wyf yn eu defnyddio. Mae [fferyllfa] yn [lleoliad] yn ofnadwy ac mae’r gwasanaeth wedi bod yn araf yn ystod COVID gyda chiwiau hir, dim llawer o farciau pellhau cymdeithasol ar y llawr, dim awyru a berwedig o boeth. |
| Nid oes angen meddyginiaeth arnaf |
| Tipyn o hunllef. Wedi ceisio ymweld ar wahanol adegau o'r dydd ond roedd ciw hir (y tu allan) bob amser. Ddim yn rhy ddrwg yn ystod misoedd yr haf ond yn hollol wahanol nawr ei fod yn oer ac yn eithaf gwlyb yn aml! |
| Dim gwahanol |
| Mae'r gwasanaeth danfon fel arfer yn ddibynadwy iawn ac fe'i cynigiwyd i ni ar ddechrau'r broses cloi. Rydym yn ddiolchgar iawn amdano, |

| |
|---|
| Ddim yn gyffyrddus o gwbl yn gorfod sefyll mewn ciwiau y tu allan ym mhob tywydd yn ystod y pandemig - yn teimlo'n bryderus iawn bod mewn ciw. |
| Ni chafwyd unrhyw broblemau |
| Yn hawdd a hysbysiad trwy neges destun o'r fferyllfa. |
| Defnyddiais y gwasanaeth danfon gan fy mod newydd gael llawdriniaeth i osod clun newydd, ac roedd yn ddefnyddiol iawn. |
| Dosberthir gan y fferyllfa, ni ofynnwyd am hyn. |
| Roedd yn anoddach cael gafael ar fy meddyginiaethau gan fod y fferyllfa'n hynod o brysur ar y pryd |
| Roedd y fferyllfa'n wych, yn hawdd mynd iddi. Yn methu mynd at y meddyg teulu na chael profion i weld a oedd angen meddyginiaeth. |
| Fel uchod, newidiodd y feddygfa fy fferyllfa i archfarchnad fawr - rwyf dros 70 a mewn categori risg uchel. Ddim yn hapus. |
| Dosbarthodd y fferyllfa bresgripsiynau i'm cartref, ac er fy mod yn gwerthfawrogi roeddwn yn teimlo fy mod yn gwneud defnydd diangen o wirfoddolwyr |
| Dim i'w adrodd |
| Trefn a threfniadaeth ragorol |
| Dosbarthwyd gartref |
| Heb unrhyw broblemau o gwbl |
| Yn hollol iawn |
| Gwasanaeth effeithlon iawn yn darparu meddyginiaeth trwy gydol cyfnod Covid hyd at ddiwedd mis Awst. Ddim ar gael mwyach. |
| Weithiau mae'n rhaid ciwio, y tu allan ym mhob tywydd. Gall hyn gymryd amser hir. |
| Dim problem, profiad cadarnhaol, gwisgo masgiau, dim ond 2 berson i mewn ar unrhyw adeg, staff yn cuddio y tu ôl i sgrin, glanhawr dwylo ar gael. |
| Cefais fy meddyginiaeth mewn pryd. Nid oedd unrhyw broblemau. |
| Roedd ciwiau ar gyfer y fferyllfa yn hir ac roeddent yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r galw cynyddol. Nid oedd yn ymddangos bod digon o staff banc ar gael i roi cyfle i bawb gael seibiant heb effeithio ar y gwasanaeth. Achosodd hyn lawer o ddicter a drwgdeimlad ymhlith cwsmeriaid a oedd yn poeni ac yn ofni'r hyn oedd yn digwydd o'u cwmpas. Roedd hyn yn ei dro yn golygu bod y staff yn aml yn delio ag anghwrteisi geiriol wrth geisio rhwystro pobl rhag cynhyrfu ac er mwyn iddynt gael y feddyginiaeth yr oedd ei hangen arnynt. |
| Roedd yn rhaid aros 2 wythnos i ailadrodd meddyginiaethau ar un adeg. Rhedais allan o ganlyniad. Nid oedd hyn yn unrhyw beth y gallai'r fferyllydd ei reoli, mae'n wych ond mae'r ffaith bod y meddyginiaethau'n cael eu paratoi mewn man arall ychydig yn rhy araf. Mae gen i deulu sy'n cyflwyno ceisiadau cyson mewn man arall ac mae eu meddyginiaethau yn cael eu danfon i'r tŷ'r un diwrnod, neu weithiau drannoeth |
| Dim newid |
| Roeddwn i'n prynu'r hyn y gallwn i ddod o hyd iddo o'r rhyngrwyd hyd yn oed o wledydd eraill. Dim ond yn ddiweddar yr wyf wedi darganfod y gallwch e-bostio presgripsiwn i mewn at y meddyg teulu. Fodd bynnag, mae casglu o'r fferyllfa drws nesaf yn ofnadwy ar adegau gyda chiwiau mawr a does unman i barcio. Nid wyf yn gwybod sut i drefnu fferyllfa arall ar gyfer casglu.. |
| Dim problem |
| Yr un peth ag arfer. Wedi mynd a’r presgripsiwn yn gynharach i sicrhau ei fod yn barod mewn pryd. |

| |
|---|
| Wrth imi archebu trwy'r fferyllfa a chasglu yno, ni phrofais unrhyw newid ar wahân i amseroedd aros hirach. |
| Mae wedi bod yn hawdd, mae practis meddygon teulu wedi postio fy mhresgripsiwn er mwyn osgoi gorfod casglu |
| Iawn - fel arfer. Ond ni allem gael pigiad ffliw oherwydd nad oeddent yn gallu cael y stociau o frechlynnau. (Rwy'n feichiog felly roedd angen un arnaf) felly es i at fy meddyg teulu yn lle. |
| Nid ydym wedi cael unrhyw broblemau gyda'n fferyllfa. Mae'r holl staff wedi bod yn wych. Fodd bynnag, mae ein gwasanaeth meddygon teulu wedi bod yn hunllef.[Ymarfer]. |
| Rwy'n casglu meddyginiaethau ar gyfer fy nain sy'n oedrannus. Rwyf wedi darganfod yn ystod y pandemig nad yw'r fferyllwyr ar gael ac mae'r gloch i ganu ar eu cyfer wedi'i hatal oherwydd covid. Mae hyn yn ei gwneud yn broses llawer hirach. |
| Roedd oriau agor cyfyngedig |
| Yr un peth ag arfer |
| Roedd yr amseroedd aros ychydig yn hirach ond dim materion eraill. |
| Er nad wyf wedi bod yn cysgodi mae fy nghyflwr yn fy ngwneud yn agored i niwed. Casglodd ffrind nhw ar fy nghyfer a gadael eitemau ar stepen fy nrws. |
| Yn eithaf hawdd, fe'i danfonwyd fel arfer |
| Dim problem |
| Er nad oedd gen i lythyr, oherwydd fy mod yn gwella ar ôl tynnu fy Aren a chael Sepsis fe wnes i gysgodi, ac wrth lwc, gallai fy merch gael fy mhresgripsiynau ar fy nghyfer |
| System hawdd ar waith - yr unig fater oedd gyda defnyddwyr gwasanaeth ddim yn cadw at y rheolau ad rheoliadau ynghylch pellhau cymdeithasol neu ddarllen yr arwyddion a osodwyd yn y siop !! |
| Ddim yn broblem - dim newid. |
| Trwy ymweld â'r fferyllfa gan fod yr holl ragofalon ar waith |
| Roedd fy mhrofiad yn bositif iawn, gydag arwyddion ar y ffenestr yn cynghori gwisgo masgiau a faint a ganiatawyd i mewn ar un adeg. Wnes i ddim ciwio am hir ac roedd pawb yn y ciw yn cadw pellter cymdeithasol |
| Ciwiau hir ac oherwydd bod ein fferyllfa'n fach iawn, roedd ciwio y tu allan. |
| Yn ôl yr arfer - mynd i'r feddygfa a chasglu o'r fferyllfa. Cwtogwyd presgripsiwn 56 diwrnod i 28 felly nawr mae angen i chi fynd yn amlach |
| Dim problemau |
| Gofynnir am bresgripsiynau ailadroddus trwy bostio'r cais trwy ddrws y Feddygfa ac yna roedd presgripsiwn ar gael yn y fferyllfa imi ei gasglu wythnos yn ddiweddarach |
| Mae wedi bod yn iawn, maen nhw'n ceisio eu gorau i geisio ei wneud yn effeithlon. Efallai y gallai fod system archebu i ddweud pryd y byddwch yn casglu'r presgripsiwn, hy dydd ac am neu pm fel y gallant fod ychydig yn fwy parod a gwneud eu bywydau yn haws. |
| Nid oedd yr arwyddion yn ffenestr y dderbynfa yn arbennig o glir am beth i'w wneud na ble i fynd. Maent wedi gwella yn ystod yr ail Gyfnod Clo. |
| Gofynnais i'r Meddyg a chefais y llythyr |

| |
|---|
| Mae'n fferyllfa fach felly mae'n rhaid aros y tu allan a chiwio 2 fetr ar wahân. Roedd hyn yn iawn yn yr haf ond nid nawr yn y gaeaf. Mae ciw bob amser gan mai dim ond un aelod o staff sy'n gweithio ar y cownter. |
| Parhaodd ein fferyllfa i ddosbarthu yn ôl yr arfer a sefydlodd y practis meddygon teulu wasanaeth presgripsiwn ailadroddus ar-lein. Mae hyn wedi gweithio'n dda iawn. |
| Roedd ciw y tu allan a oedd yn iawn |
| Ni chafwyd unrhyw broblemau |
| Roedd gan [fferyllfa] giw enfawr yn gyson ac yn aml iawn pan gyrhaeddwn i flaen y ciw roedd problem gyda nhw yn dod o hyd i'r ail-bresgripsiwn neu heb fy meddyginiaeth mewn stoc - roeddwn i'n casáu gorfod cael fy mhresgripsiwn gan ei fod yn ymddangos bob tro fel drama fawr. |
| Maen nhw wedi bod yn rhagorol yn ystod Covid / Y Cyfnod Clo ac maen nhw bellach yn danfon fy mhresgripsiynau / meddyginiaeth felly does dim rhaid imi fynd allan a mynd i mewn i'r siop |
| Bob amser yn brysur a chiw bob amser. Roeddwn i'n teimlo nad oedd y fferyllwyr yn gallu cadw ar ben ail-bresgripsiynau ac yn aml roedd yn rhaid ichi aros wrth iddo gael ei baratoi ar ôl ciwio a oedd yn rhwystredig. |
| System arferol ond rhaid ciwio y tu allan i'r siop os oes mwy na 2 o bobl yno a phawb yn gwisgo mwgwd. |
| Fe wnaethon ni lwyddo yn iawn, fodd bynnag roedd hi'n drist iawn gweld pobl hen a sâl yn gorfod aros mewn ciw hir am eu presgripsiwn. |
| Newidiodd yr oriau agor ac nid wyf wedi gallu cael fy meddyginiaeth mewn pryd ac felly rwyf wedi methu â chymryd fy nghyffuriau gwrth iselder. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn arafach naill ai o ochr y meddyg teulu neu ochr y fferyllfa |
| Dim problem, roedd cyfarwyddiadau'n hawdd eu deall |
| Mae ciwiau hir yna pan gyrhaeddwch chi yno ac nid yw'r presgripsiwn yno er eich bod chi wedi ei adael am wythnos cyn ceisio casglu. Yn well ers eu bod nhw wedi bod yn anfon neges destun atoch chi pan fydd y presgripsiwn yn barod. |
| Y gŵr yn fregus ac wedi cael strôc wanychol felly roedd meddyginiaethau'n cael eu danfon o'r fferyllfa yn ddi-ffael trwy gydol y pandemig. Ni chafwyd unrhyw broblemau o gwbl. |
| Ddim yn broblem gyda fy mhresgripsiwn ailadroddus na fy mhresgripsiwn newydd, a roddwyd gan fy meddyg teulu. |
| Yn ôl yr arfer, archebu a chasglu o'r fferyllfa |
| Roedd yn anhrefnus a rhwystredig iawn ar y dechrau ond nawr mae hynny wedi gwella ac rwyf wedi ei chael yn llawer gwell. |
| Dim problem ond byddwn wedi hoffi cael cyflenwad cwpl o fisoedd yn hytrach na chyflenwad 1 mis |
| Dim problemau |
| Dim problemau |
| Trefnodd y pentref wirfoddolwyr a byddent yn casglu presgripsiynau ac unrhyw beth arall yr oedd ei angen arnom a'u dosbarthu i ni. |
| Mae wedi bod yn anodd gan fod y ciwiau mor hir. Gan fy mod i'n ofalwr, rydw i'n dibynnu'n fawr ar eraill ac nid oes gen i amser i sefyll am 45 munud ar y tro. Weithiau, af heb feddyginiaeth gan ei bod mor anodd ei gasglu. Pe na bai ciwiau mor hir, byddai'n llawer gwell. Lle mae ciw dylid gofyn i'r person sydd wedi'i weld aros y tu allan a dod â meddyginiaeth iddyn nhw pan yn barod a byddai hyn yn helpu i gyflymu'r ciw |

| |
|---|
| Roedd popeth yn iawn ac wedi'i reoli'n dda iawn |
| Gorfod ciwio i hyd yn oed roi fy mhresgripsiwn ailadroddus i mewn ac yna aros 7 diwrnod gwaith iddo ddod yn ôl ac yna ciwio eto i'w gasglu |
| Yn anoddach pan fu'n rhaid ciwio i fynd i mewn i'r fferyllfa. Problem fach ac mae hyn yn well na bod mewn lle cyfyng gyda gormod o bobl |
| Dim ond un achlysur y bu ychydig o oedi ar un presgripsiwn |
| Dim problemau gyda chael fy meddyginiaeth |
| Mewn grŵp bregus felly roeddynt yn cael eu danfon |
| Mae fy ngŵr wedi nôl fy mhresgripsiynau wrth imi hunan ynysu ers misoedd, mae'n dal i gasglu fy mhresgripsiynau |
| Dim gwaeth na'r arfer |
| Casglwyd yn y fferyllfa leol |
| Dim anhawster imi fy hun na fy nhad. |
| Hawdd. Apwyntiad ffôn gyda meddyg teulu a phresgripsiwn ar gael yn y fferyllfa. Ar un achlysur nid oedd y feddyginiaeth benodol ar gael, ond siaradodd y fferyllfa â’r feddygfa a chael presgripsiwn arall |
| Dim ond 2 berson a ganiateir y tu mewn ar unrhyw adeg. |
| DIM PROBLEM |
| Gorfod ciwio, ond nid oedd hyn yn drafferth, ac yn teimlo fel bod y fferyllfa yn amddiffyn ei gwsmeriaid trwy osod rheolau o fewn y fferyllfa ei hun - dim mwy na dau y tu mewn ar unrhyw adeg, yn dal i fod yn wasanaeth cyflym a chyfeillgar. Yn aml, byddaf yn mynd i’r fferyllfa i gael cyngor gan eu bod yn wybodus iawn. Credaf y dylid cyfeirio mwy o bobl at y fferyllfa yn lle meddygon teulu ac er y bu ymgyrchoedd i annog hyn, gellid codi mwy o ymwybyddiaeth o'r ystod neu'r gwasanaethau a'r cyngor anhygoel y gall fferyllwyr eu cynnig. Mae meddygon teulu wedi'u llethu gan apwyntiadau ar gyfer anhwylderau cyffredin a allai cael eu datrys yn effeithiol ac yn effeithlon trwy ymweld â fferyllydd / fferyllfa |
| Cymerodd fwy o amser nag arfer, ond gweithiodd y fferyllfa’n galed i sefydlu system newydd sy'n gweithio'n dda |
| Maent wedi bod mor barod i helpu |
| Rhagnododd meddyg teulu ddeufis o feddyginiaeth ar y tro, llawer gwell. |
| Roeddwn i'n ei chael hi'n anodd oherwydd amseroedd aros. Dywedwyd wrthyf y byddai'n cymryd 7 diwrnod pan arferai fod yn 48 awr. Yna dywedwyd wrthyf fy mod wedi rhoi fy mhresgripsiwn i mewn yn rhy gynnar ac fe gafodd ei ganslo (roedd yn gynnar o 2 ddiwrnod). Nawr mae'r Meddyg Teulu wedi cytuno i roi adolygiad chwe mis imi felly mae yn y Fferyllfa bob pedair wythnos. Llawer gwell imi. |
| Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel wrth fynd i mewn, gan ddilyn yr holl ganllawiau |
| Archebwyd trwy wefan y feddygfa, danfonwyd presgripsiwn i'r fferyllfa a chefais neges destun pan oedd yn barod |
| Rwy'n teithio o Gymru i fferyllfa yn Lloegr oherwydd mae ganddo fy meddyginiaeth mewn stoc bob amser, yn wahanol i fferyllfa leol. |
| Dim problem o gwbl. Gorfod ciwio, ond fe wnaeth staff yn y fferyllfa symleiddio eu gweithdrefnau ar gyfer casglu presgripsiynau yn gyflym iawn. |
| DIM MATERION O GWBL |
| Dim gwahaniaeth. |
| Gofyn am ddanfon |

| | |
|---|---|
| | Heblaw am y problemau cychwynnol pan na throsglwyddwyd cofnodion yn effeithiol o [fferyllfa] i [fferyllfa] a oedd yn golygu bwlch o 2-3 diwrnod heb feddyginiaeth, bu oedi pellach wrth ddosbarthu Rxs ailadroddus mewn pryd. Dywedwyd wrthyf fod hyn oherwydd oedi cyn derbyn yr Rx o'n meddygfa. |
| | Hyd yn oed yn arafach na'r arfer, yn ciwio y tu allan heb fawr o arwydd o bryd roedd hi'n iawn mynd i mewn heblaw am rywun arall yn cerdded allan. Staff yn ymgysylltu'n llai na'r arfer |
| | HUNLLEF !! Yn brysur iawn ac heb system dda i ddechrau. Addaswyd wrth fynd ymlaen ond roedd aros 1 - 2 awr dda ar brydiau! |
| | DERBYNIOL- DIM MATERION O GWBL |
| | Roeddwn yn hunan-gysgodi oherwydd fy oedran ac ymwelodd fy mhlant â'r fferyllfa nid oedd ganddynt unrhyw broblem yn casglu fy meddyginiaethau |
| | Trosglwyddais o'r fferyllfa y byddwn fel arfer yn ei defnyddio gan fy mod yn gweithio gartref, a byddai mynd i'r fferyllfa mewn [lleoliad] yn golygu amser i ffwrdd o'r gwaith tra bo'r fferyllfa yn agosach at fy nghartref y gallaf gerdded iddi |
| | Ni chefais unrhyw broblemau, ond cafodd fy ngŵr drafferthion. Ni ddaeth ei bresgripsiwn i'r fferyllfa, ac ni allem fynd drwodd i'r feddygfa i esbonio'r sefyllfa. Ar ôl gadael i'r ffôn ganu am dros awr, llwyddais i gysylltu â derbynnydd, a drefnodd i ailgyflwyno presgripsiwn fy ngŵr, a godwyd gennym tua diwrnod yn ddiweddarach. Yn y cyfamser bu'n rhaid iddo wneud heb feddyginiaeth am gwpl o ddiwrnodau. |
| | Rhyfeddol - mae popeth wedi parhau fel arfer - diolch! |
| | Danfonir yn brydlon bob mis. |
| | Roedd y fferyllfa ar gau rhwng hanner dydd a 2pm Roedd yn rhaid i bobl giwio 2 fetr ar wahân i'w gilydd (llinellau wedi'u tapio ar y llawr) |
| | Dal i'w gasglu yn y fferyllfa |
| | Roedd wedi'i drefnu'n dda iawn. |
| | Yr un peth â'r arfer, dim ond cerdded i'r fferyllfa. |
| | Ffonio'r Meddyg fel arfer ac yna casglu presgripsiwn fel arfer |
| | Dim problem, heblaw ciwio yn y glaw! |
| | Dim problemau |
| | Rwy'n credu eu bod wedi fy methu ar y rhestr o unigolion bregus. Rwy'n asthmatig ac yn ddiabetig math 2. Fe wnaethant ddosbarthu fy meddyginiaethau yn ystod covid. Ac yn garedig iawn cawsant glaf arall i ddanfon y presgripsiwn diwethaf imi. |
| | Roedd yn broblem fawr sefyll y tu allan am amser hir ym mhob tywydd |
| | Yn ystod wythnosau cyntaf y Cyfnod Clo cychwynnol, casglodd cymydog nhw ar fy nghyfer. Ers hynny rwyf wedi eu casglu fy hun. Dim problemau ar unrhyw adeg |
| | Roedd gan y feddygfa a fferyllfa meddygon teulu brosesau llym a oedd yn gwneud imi deimlo'n ddiogel i archebu a chasglu presgripsiynau. Mae gen i gyflyrau sylfaenol cronig difrifol, ac rydw i'n gweithio gartref, felly croesawyd hyn gennyf. |
| | Yn ystod COVID19 bu newid i'r drefn dosbarthu fferyllfeydd yr wyf yn teimlo y dylid fod wedi'i ohirio nes bod y Cyfnod Clo drosodd. Roedd yna lawer o ansicrwydd, diffyg cyfathrebu ac yn benodol ychydig o gyfathrebu rhwng meddygfeydd meddygon teulu a Fferyllfeydd. Gadawyd cleifion yn ansicr a oedd eu meddyginiaethau wedi'u harchebu neu'n anghofio gan adael y rhai mwyaf agored i niwed a'r henoed yn bryderus ar adeg pan roedd ansicrwydd mawr eisoes. |
| | Proses anodd ac araf iawn |
| | Dim problemau o gwbl. Mae fferyllfa yn effeithlon iawn |
| | Dim problem |

| |
|---|
| Byddwn wedi hoffi presgripsiynau dwbl fell na fyddai rhaid imi ymweld â'r fferyllydd mor aml |
| Ddim yn angenrheidiol |
| Dim ond cyfyngiadau ar amseroedd agor a chiwiau |
| Rwy'n dal i gysgodi ond gan fod gen i Inswlin a CD's mae'n rhaid imi godi fy meddyginiaethau fy hun |
| Heb unrhyw broblem o gwbl heblaw sicrhau fy mod yn cyflwyno fy ail-bresgripsiynau ymhell cyn y gofyn hy 7 diwrnod |
| Dim problem |
| Byddwn yn archebu ar-lein ac yn mynd i'w godi |
| Dim problem |
| Yr un fath â bob amser |
| Casglodd fy wyres nhw ar fy nghyfer. |
| Anodd oherwydd trefn wael yn y fferyllfa |
| Weithiau roedd yn anodd gwneud tri ymweliad un wythnos ond mae hyn wedi gwella, maen nhw bellach yn tecstio pan maen nhw'n barod |
| Gorfod ciwio am y fferyllfa yn yr un ciw i weld meddyg teulu. Mae'n ymddangos bod pellter cymdeithasol yn cael ei anwybyddu wrth aros yn y ciw. |
| Rwy'n archebu fy mhresgripsiwn ar-lein ac mae'n cael ei ddanfon i'r Fferyllfa drws nesaf. Fel rheol, rydw i'n cael neges destun i roi gwybod imi fod y presgripsiwn yn barod. Nid yw hyn wedi digwydd yn ddiweddar ac rwy'n cymryd siawns bod fy eitemau ar gael. Gall fod yn broses hir aros y tu allan, pan fyddaf yn ansicr y bydd fy meddyginiaeth yn barod. |
| Dim materion. Peth ciwio yn y dyddiau cynnar ond mae'n ymddangos bod hyn wedi tawelu. |
| Dim problem |
| Weithiau ciwiau hir y tu allan, ddim yn ddelfrydol ar gyfer rhai sâl neu oedrannus. Ni chafodd fy mherthynas lythyr cysgodi er ei fod yn 85 oed gyda chyflyrau meddygol sylfaenol. |
| Newydd dderbyn presgripsiynau ailadroddus heb unrhyw adolygiad meddyg teulu sy'n anghyffredin |
| Bu ein fferyllfa leol ar gau am gyfnod a chawsom ein dargyfeirio i un arall yr ochr draw i'r dref. |
| Yr un fath ag o'r blaen |
| Dim problem - ei archebu a'i godi ar ôl ciwio y tu allan i'r fferyllfa |
| Fe wnes i gais ar-lein am fy ail bresgripsiynau ac anfonodd fy meddygfa'r presgripsiwn i'r fferyllfa a ffefrir gennyf. Yna caniateais tua 5 i 7 diwrnod cyn mynd i gasglu fy mhresgripsiwn. Pe bawn i'n mynd yn gynharach, byddai'n tueddu i beidio â bod yn barod. Nid oedd hyn yn broblem imi o ystyried y sefyllfa. |
| Mae'r fferyllfa'n archebu fy meddyginiaeth, ac rwyf yn ei gasglu. |
| Nid oedd yn syml, ac roedd yn rhaid aros yn hirach |
| Wedi ceisio dewis amser tawelach i fynd i'r fferyllfa gan eu bod yn eithriadol o brysur. |
| Mynd i'r fferyllfa yn ystod amseroedd tawelach ac roedd y systemau sydd mewn lle ar gyfer aros yn rhagorol |
| Gorfod aros mewn ciw hir iawn yn y glaw / oerfel y tu allan, staff ddim yn rhoi llawer o amser i chi, yn anodd iawn gorfod aros eich tro gyda llawer o bobl yn aros. |
| Rwy'n cysgodi gyda fy ngŵr felly casglodd perthynas ein meddyginiaeth |

| |
|---|
| Mae mesurau diogelwch yn y fferyllfa yn rhagorol, ar wahân i'r person sy'n danfon nwyddau fferyllol a wthiodd heibio i bawb yn y fferyllfa, gan sefyll ysgwydd wrth ysgwydd gyda'r fferyllydd. Roedd hyn ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf. |
| Dim problemau ar wahân i orfod ciwio am oesoedd |
| Roedd gen i ddigon gadw fi fynd. |
| Dim problem ac aeth fy ffrind ar fy rhan |
| Roedd ychydig o oedi ond roedd hyn yn y feddygfa ac nid yn y fferyllfa. Ymholodd y fferyllfa a datryswyd y broblem yn gyflym. |
| Ddim yn berthnasol |
| Dosbarthwyd |
| Roeddwn i'n arfer eu casglu ond roeddwn i angen fferyllfa a allai ddanfon er mwyn cysgodi aelodau eraill yn fy nghartref |
| Gwasanaeth dosbarthu cartref yn cael ei gynnig |
| Yn ôl yr hyn a ddeallaf, roedd yn dderbyniol ymweld â fferyllfa / meddyg teulu yn ystod y cyfnod clo gan ei fod yn cael ei ganiatáu am “resymau iechyd”.Bob amser ar yr amod nad oedd gen i symptomau COVID 19. |
| Danfonwyd i'm cartref gan y feddygfa |
| Mae'r Fferyllydd yn danfon ein meddyginiaethau. |
| Dim problemau |
| Wedi bod yn iawn. Er cyflymdra, rwy'n dewis casglu'r sgript gan fy meddyg teulu a'i gludo i'r fferyllfa, yn hytrach na dibynnu ar y gwasanaeth casglu. Bu achlysuron lle bu’n rhaid imi giwio y tu allan am gryn amser, ond fy hoff fferyllfa yw [gwasanaeth] hefyd ac felly roedd nifer uchel o gwsmeriaid, ac yn ddealladwy mae’n rhaid iddyn nhw gyfyngu ar gwsmeriaid y tu mewn i’r adeilad. Rwy'n teimlo bod fy hoff fferyllfa wedi'i rheoli'n dda iawn trwy'r pandemig. |
| Dim gwir newid. Mae’r fferyllfa’n cyfyngu ar nifer y cwsmeriaid ar unrhyw un adeg sydd weithiau'n arwain at giwiau byr y tu allan, ond nid yw hynny'n anghyfleustra mewn gwirionedd. |
| Yn ofnadwy, mae'n rhaid imi giwio. Rwyf wedi ciwio am hyd at 45 munud. |
| Dim trafferthion. Es i ddiwedd y prynhawn. Cydymffurfiais gyda’r rheol un mewn un allan. |
| Yn teimlo'n ddiogel iawn ac mae’r meddyginiaethau ar gael bob amser |
| Amser aros araf a hir iawn yn gorfod sefyll y tu allan ym mhob tywydd cyn gallu mynd i mewn i'r siop |
| Yn ystod y cyfnod clo roedd y meddyg teulu yn ysgrifennu'r sgriptiau am 2 fis ond dim ond bob mis y mae'r fferyllfeydd yn caniatáu eu casglu - felly mae pobl fel ni sy'n agored i niwed meddygol yn gorfod gadael y tŷ sawl gwaith bob mis, ni fydd y meddyg teulu hefyd yn cyfuno’r holl feddyginiaethau i'w casglu ar yr un diwrnod. Roedd yn rhaid imi adael cartref hefyd i gasglu fy nhabledi yn ystod cyfnod o 14 diwrnod o hunan-ynysu (roedd aelod o fy nheulu yn sâl) oherwydd nad oes gan y fferyllfa wasanaeth cludo - er imi ddweud wrthynt fy mod yn ynysu. |
| Ffoniodd y fferyllfa |
| Mae'n ymddangos nad yw'r fferyllfa'n gallu ymdopi â'r cleifion / presgripsiynau. Nid oedd y gwasanaeth erioed yn arbennig o wych ond mae wedi bod yn syfrdanol o wael eleni. |
| Yn ddibynadwy tan yn ddiweddar. Nid oedd fy mhresgripsiwn yn cael ei ddanfon ac roedd yn ofynnol ffonio'r fferyllfa a'r feddygfa. |

| |
|---|
| Gorfod ciwio hyd at awr weithiau, ac er eu bod wedi anfon neges destun ataf i ddweud bod fy mhresgripsiwn yn barod, nid oedd yno. Roedd yn rhaid imi dal aros hyd yn oed pan oedd fy nhro i |
| Anodd. Caewyd fy fferyllfa arferol oherwydd materion staffio. Ciwiau hir mewn fferyllfa amgen a oedd hefyd wedi lleihau oriau agor. Gorfod ciwio dros 90 munud i gasglu ail-bresgripsiynau ddiwedd Ebrill a Mai |
| Dim newid - mynediad trefnus a strwythuredig. |
| Dim problem |
| Dim problem, archebais feddyginiaethau ailadroddus dros y ffôn a'u casglu wythnos yn ddiweddarach, yn ddiogel, gyda'r holl ragofalon ymbellhau cymdeithasol mewn lle |
| Defnyddio dosbarthu gan y meddyg teulu fel arfer, ond ni roddwyd system go iawn ar waith. Roedd disgwyl i bobl ddyfalu bod yn rhaid ichi sefyll wrth ymyl ffenestr oedd yn agor o'r gwaelod ac yna gweiddi fel y gallai rhywun glywed eich bod yn aros. Nid oeddynt wedi trafferthu ffitio ffenestr newydd i'w gwneud hi'n haws i'r cyhoedd. Yn ogystal â dim arwyddion go iawn yn dweud wrthych beth i'w wneud ble i fynd ac ati. Roedd fferyllfeydd arferol yn y dref yn iawn ac yn drefnus. |
| Yn brysur iawn, ond yn ddisgwyliedig gan i bawb archebu eu meddyginiaeth ar yr un pryd. Mewn panig |
| Hunllef! Ciwio dros 2: 30awr y tu allan i'r fferyllfa. Prin y symudodd y ciw. Es i adref heb wrthfiotigau gan fy mod i'n teimlo'n rhy sâl i aros mwy. Fe gymerodd ffrind a oedd yn y ciw fy mhresgripsiwn a chesglais ef 2 ddiwrnod yn ddiweddarach. |
| Roedd y feddyginiaeth yn anodd iawn ei gael, roedd angen 3 ymgais weithiau, ac yna cefais feddyginiaeth anghywir !! |
| Nid wyf wedi cael unrhyw broblem |
| Mae fy fferyllfa yn trio eu gorau i gael fy meddyginiaeth ac os na allant wneud hynny byddant yn ffonio o amgylch eu siopau eraill i weld a oes ganddynt y feddyginiaeth ac yna cynnig ei ddanfon |
| Fe'u dosbarthwyd imi trwy gydol y cyfnod clo cyntaf. |
| Dim problemau o gwbl. Danfonwyd hwy am ychydig o fisoedd oherwydd llawdriniaeth i osod clun newydd. |
| Hynod o hawdd. Gwasanaeth gwych gan y ddwy fferyllfa yr wyf i a fy nheulu estynedig yn ei ddefnyddio. |
| Ciwio y tu allan yn y glaw am amser hir. Gellid bod wedi gwneud hyn yn fwy cyfforddus. |
| Ciw hir ar adegau yn y fferyllfa ger ein cartref - ar hyd palmant mewn ardal brysur. Penderfynais beidio â'i defnyddio a defnyddio un ger meddygfa'r meddyg teulu felly ciwio mewn cwad y tu allan i'r fferyllfa. |
| Rwyf wedi defnyddio adran fferylliaeth / meddyginiaethau fy archfarchnad leol gan fod cyfyngiadau a chiwiau yn y fferyllfa agosaf. |
| Dim problem |
| Mae'n peri cryn bryder imi na allaf gael fy ngweld gan feddyg (meddyg teulu) o gwbl a bod yn rhaid imi yn llythrennol fod yn marw er mwyn cael fy ngweld gan feddyg mewn ysbyty. |
| Ofnadwy iawn gorfod aros i gael presgripsiwn yn barod er bod gen i un ailadroddus. Rwy'n gwastraffu 1 i 2 awr yn aros amdano yn [fferyllfa] yn [lleoliad] sydd ddim yn iawn. Rhowch sylw i hyn - diolch |
| Dim problem ar wahân i giwio |

| |
|---|
| Roedd oriau llai'r fferyllfa yn golygu na allwn godi fy mhresgripsiwn ar ddiwrnod gwaith gan olygu bod yn rhaid imi wneud taith ychwanegol allan ar y penwythnos |
| Bydd angen i fferyllfa ddarparu rhywfaint o gysgod rhag tywydd gwael |
| Parhaodd fy fferyllfa i ddosbarthu fy mhresgripsiynau fel arfer |
| Ciwiau hyd yn oed i ollwng sgript. Byddai'n ddefnyddiol pe bai staff yn dod allan i'w casglu. |
| Ciwiau enfawr, meddyginiaeth ddim bob amser yn barod, gorfod mynd i fferyllfa arall, |
| Dim problem |
| Ni fu unrhyw broblem o'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio. Rwy'n deall bod y fferyllfa arall yn y dref wedi cael problemau |
| Dim problem, wedi casglu o'r fferyllfa. |
| Dim problem |
| Mae'r feddygfa'n cymryd oes i ddelio gyda'ch cais am bresgripsiwn |
| Mae cwsmeriaid a staff wedi cydweithio'n dda, o giwio, i wisgo masgiau a defnyddio di-heintwyr dwylo, ac nid wyf wedi clywed unrhyw un yn cwyno o gwbl. |
| Yn ôl yr arfer ond mynediad cyfyngedig i'r Fferyllfa a gwisgo masgiau. |
| Ciwiau hir hir yn yr oerfel a'r glaw |
| Rwy'n rhoi mwy o rybudd ar gyfer fy ail-bresgripsiynau gan ei bod bellach yn cymryd tua wythnos iddyn nhw fod yn barod |
| Er nad wyf yn hynod fregus, rwy'n glinigol agored i niwed ac yn cysgodi beth bynnag. Casglodd y gŵr fy mhresgripsiynau. Byddai wedi bod o gymorth enfawr pe gallai meddyginiaethau'r rhai sy'n agored i niwed yn glinigol fod wedi cael eu danfon yn y Cyfnod Clo. |
| Parhad fel arfer. |
| Ciwiau hir a meddyginiaeth ddim yn barod oherwydd galw mawr |
| Ychydig yn lletchwith gan fod meddyg teulu wedi anfon presgripsiynau i'r fferyllfa ymhellach i ffwrdd ac roedd hyn yn anghyfleus iawn imi. |
| Effeithlon. Grŵp cefnogi pentref. |
| Yr un peth ag arfer. |
| Dim ond rhwng 2-5pm y caniateir casglu meddyginiaeth a rhaid canu'r gloch ac aros y tu allan o dan loches. |
| Da |
| Gellir casglu presgripsiynau o siop y pentref lleol |
| Casglwyd o'r fferyllfa |
| Wedi'i ddanfon at y drws. |
| Cyhoeddodd y practis meddygon teulu gyfarwyddiadau clir a chryno. Dim effaith andwyol ar gael meddyginiaethau. |
| Gan mai dim ond bach yw'r fferyllfa a bod cyfyngiadau bellach ar nifer y cwsmeriaid a ganiateir mewn, mae cwsmeriaid eraill yn gorfod ciwio y tu allan yn y tywydd gwael. |
| Ar ddechrau'r cyfnod clo, aeth y gwasanaeth hyd yn oed yn arafach ar gyfer presgripsiynau y casglwyd ond erbyn hyn mae'n rhedeg ychydig yn llyfnach. |
| System giwio yn rhy hir |
| Anodd iawn fel y nodwyd yng nghwestiwn 22 |
| Hawdd a dim gwahaniaeth |

| |
|---|
| Bob amser ciw hir i fynd i mewn i fferyllfa - cymerodd lawer mwy o amser nag arfer am ryw reswm |
| Fel y dywedwyd eisoes yn yr holiadur. Gwellodd y gwasanaeth wedi'r pandemig yn fawr |
| Fe wnes i gysgodi a chasglodd fy merch fy meddyginiaeth. |
| Weithiau roedd ciwiau yn y fferyllfa a naill ai roeddwn i'n aros neu'n dychwelyd ar amser llai prysur |
| Ddim yn dda gorfod sefyll y tu allan ym mhob tywydd gyda rhai sydd yno i gymryd cyffuriau, sy'n ymddwyn mewn modd anghymdeithasol |
| Dim newid a chefais bob meddyginiaeth |
| Yn ôl yr arfer |
| Dim newid ac eithrio ymbellhau cymdeithasol yn y siop |
| Yn ôl yr arfer |
| Dim problem - roedd y feddygfa wedi rhoi trefn synhwyrol. |
| Y fferyllfa yn darparu meddyginiaethau bob 28 diwrnod |
| Weithiau, peth oedi am bresgripsiwn i gael ei ddosbarthu, 2 neu 3 diwrnod. Anhawster ciwio yn y gwynt a'r glaw hefyd |
| Mae'r gwasanaeth wedi bod yn normal |
| Nid oeddwn yn gallu cael fy mhresgripsiwn |
| DIM ANGEN |
| Ar wahân i'r ffaith nad yw'r meddyginiaethau'n barod i'w casglu am amryw resymau, yr anghyfleustra o orfod aros am gyfnodau hir tra bod y staff yn datrys eu haneffeithlonrwydd! Bob amser yn hwyr yn gwirio'r eitemau neu'n anghofio yn llwyr i ail-archebu!, Rydw i nawr yn eu ffonio i'w cynghori y byddaf yn casglu'r presgripsiynau'r diwrnod cynt! Rwyf hefyd yn eu cynghori y byddaf yn newid y fferyllfa os bydd yn digwydd eto! Wedi cael llond fy mol gyda nhw. |
| Ymwelwyd â [fferyllfa], yn teimlo'n ddiogel iawn gan fod yr holl reoliadau ynghylch covid yn cael eu cadw hefyd |
| Anhawster mawr oherwydd eu bod wedi lleihau amseroedd agor ac yn methu â chysylltu â nhw i wirio bod y sgript yn barod oherwydd bod y ffôn yn brysur. Yn rheolaidd ddim yn cael presgripsiwn misol wedi'u dosbarthu'n llawn |
| Mae stoc weithiau'n isel, ond fel arfer yno'r diwrnod wedyn |
| Rwy'n mynd â phresgripsiynau ailadroddus i'r fferyllfa, ac maen nhw'n cysylltu â'r meddyg teulu. Yn gyffredinol, mae hyn yn gweithio'n dda. |
| Roeddwn yn cael cefnogaeth gyda chasglu fy meddyginiaeth. |
| Roeddwn yn hapus gyda gwasanaeth y meddyg teulu a'r Fferyllfa oedd yn barod iawn eu cymorth. |
| Dim problemau. |
| Fe wnes i barhau fel arfer. |
| Cymerodd lawer mwy o amser i dderbyn y feddyginiaeth gan fod y presgripsiwn yn cael ei anfon yn awtomatig yn uniongyrchol i'r fferyllfa ac yna'r feddyginiaeth yn barod ymhen wythnos |
| Ni chawsom unrhyw broblem o gwbl. |
| Da iawn ar y cyfan er imi symud Fferyllfeydd am y rhesymau a nodir yng Nghwestiwn 10 |
| Dim problemau |
| Nid oeddwn yn cytuno ar ddechrau'r pandemig bod yn rhaid i bobl giwio i fynd i'w fferyllfa ac nid oedd rhai pobl yn gwisgo mwgwd. |

| |
|---|
| Yn dal i fod yn wasanaeth gwych. Roeddwn i'n arfer ffonio i archebu fy mhresgripsiwn ac roeddwn bob amser yn cael gwasanaeth eithaf cyflym. |
| Roedd y practis wedi anfon sgriptiau am 3 mis a heb ddweud wrthym. Wedi codi n mis ac yna ymddangosodd y tri mis ar ôl hynny, ond roeddwn ni wedi archebu ein hunain ac fe'u rhoddwyd hefyd !! |
| Roedd y fferyllfa'n dda iawn yn ystod y cyfnod clo. Fe wnaethant ddosbarthu'r holl feddyginiaeth trwy wirfoddolwyr lleol. |
| Dosbarthwyd fy meddyginiaeth imi gan y fferyllydd, sydd wedi bod yn wasanaeth anhygoel |
| Mae gwirfoddolwyr wedi bod yn fy helpu i gyflwyno fy mhresgripsiwn. |
| Yn hollol annerbyniol, |
| Casglodd fy mab gan fy mod yn dal i weithio ac ar ddechrau'r cyfnod clo roedd ciw yn aml ond fe wellodd hyn yn ystod y cyfnod clo. Erbyn hyn, rydw i'n casglu fy hun ar ôl gwaith ac yn gweld nad oes ciw fel arfer. Mae'r fferyllfa wedi'i threfnu'n dda iawn ac yn Covid ddiogel. |
| Roedd y gwasanaeth dosbarthu o'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio yn RHAGOROL. |
| Rwy'n archebu ar-lein ond heb gael unrhyw broblemau |
| Rwy'n archebu gan y meddyg ar-lein nawr. Mae'n anfon y presgripsiwn at y fferyllydd. Dim ymgysylltiad â'r feddygfa mwyach. |
| Amherthnasol |
| Dim gwir broblemau rhai yn ciwio y tu allan ond dim byd problemus |
| Yn casglu o feddygfa'r meddygon teulu fel arfer ond gyda mesurau diogelwch Covid mewn lle, dim newid i ansawdd y gwasanaeth |
| Bu oedi cyn cael presgripsiynau oherwydd ymbellhau cymdeithasol a chynnydd yn y galw yn y Fferyllfa - ond doedd dim ots gen i aros gan fy mod yn deall y sefyllfa. Newidiodd y Fferyllfa eu hamseroedd agor ychydig - ond fe wnes i addasu i'r newid. Roedd y fferyllfa a'r staff yn gymwynasgar a chyfeillgar iawn o ystyried y pwysau yr oeddent yn ei brofi a chredaf i'r sefyllfa gael ei thrin yn dda iawn ac mae'n parhau o ran y cyfyngiadau a'r rheolau ymbellhau cymdeithasol sydd ar waith |
| Ciwiau yn achosi straen, yn hir, ac nid oes stoc ar gael |
| Ddim mor hawdd ag yr oedd ac ymddangos bod rhai problemau gyda'r feddygfa yn rhoi presgripsiwn i'r fferyllfa a rhai weithiau'n archebu'r peth anghywir ac yn anghofio un rhai o'm cyffuriau |
| Heb gael unrhyw drafferth, gollwng presgripsiwn mewn blwch y tu allan a'i godi 2 ddiwrnod yn ddiweddarach |
| Ddim yn broblem - archebu presgripsiwn ailadroddus ar-lein a'i gasglu gan fferyllfa a oedd â mesurau diogelwch da ar waith |
| Yr un peth â'r arfer a chiw hirach yn unig |
| Nid oedd y fferyllfa leol yn arddangos rheolau ynghylch nifer y bobl a ganiatawyd yn yr adeilad nes eich bod y tu mewn sy'n dda i ddim - dylid arddangos y wybodaeth hon ar y ffenestr y tu allan. Amseroedd aros hirach am bresgripsiwn i fod yn barod. |
| Llawer o eitemau allan o stoc. Gwrthfiotigau cyffredinol allan o stoc. Meddyginiaethau a ddylai fod yno allan o stoc. Ansicr pam. |
| Yn ffodus ychydig iawn o broblem |
| Dim problem |
| Meddygfa wedi'i danfon i'm tŷ |

| |
|---|
| Roedd yn iawn. Ychydig o fan broblemau lle bu'n rhaid imi aros tan drannoeth oherwydd nad oedd y fferyllydd yno |
| Dim problemau - system unffordd yn y siop a 2 berson ar y tro |

**Monitro cydraddoldeb**

| **Nodwch eich ystod oedran trwy ddewis yr opsiwn perthnasol:** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| 0-15 oed | 0 |
| 16-24 oed | 3 |
| 25-34 oed | 19 |
| 35-44 oed | 53 |
| 45-54 oed | 91 |
| 55-64 oed | 148 |
| 65-74 oed | 163 |
| 75 ac uwch | 54 |
| Dewis peidio ag ateb | 5 |

| **Rhyw** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Gwryw | 135 |
| Benyw | 381 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 11 |
| Arall | 2 |
| Dewis peidio ag ateb | 7 |

| **Grŵp ethnig** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 236 |
| Saesneg Gwyn | 48 |
| Gwyn Gogledd Iwerddon | 1 |
| Albanaidd Gwyn | 2 |
| Cymraeg Gwyn | 225 |
| Gwyddeleg Gwyn | 3 |
| Sipsiwn Gwyn neu Wyddeleg | |
| Teithiwr Gwyn | |
| Gwyn arall | 2 |
| Caribî Du / Du Prydeinig | 1 |
| Du / Du Prydeinig Affricanaidd | |
| Du / Du Prydeinig unrhyw gefndir Du arall | 1 |
| Indiaidd Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 1 |
| Bangladeshaidd Asiaidd / Asiaidd Prydain | |
| Pacistanaidd Prydeinig Asiaidd / Asiaidd | |
| Tsieineaidd Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig Asiaidd arall | 1 |
| Caribïaidd Gwyn / Du Cymysg / Cymysg Prydeinig | 2 |
| Gwyn / Du Affricanaidd Cymysg / Cymysg | |
| Gwyn / Asiaidd Prydeinig Cymysg / Cymysg | 2 |

| | |
|---|---|
| Prydeinig Cymysg / Cymysg unrhyw gefndir Cymysg arall | |
| Arall / Arabaidd Prydeinig Arall | |
| Arall / Prydeinig arall (nodwch os oes angen) | Wrecsam - 1<br>Malai Prydeinig / Indiaidd / Tsieineaidd - 1 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 4 |
| Dewis peidio ag ateb | 5 |

| **Cyfeiriadedd rhywiol: pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun?** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Heterorywiol | 478 |
| Dyn hoyw | 5 |
| Menyw hoyw / lesbiaidd | 3 |
| Deurywiol | 1 |
| Arall (nodwch os dymunir) | 5 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 23 |
| Dewis peidio ag ateb | 21 |

Pan ddewiswyd "arall" darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

- "Dwi ddim yn gweld perthnasedd hyn byth. Rwy'n digwydd bod yn hetrorywiol."

| **Statws priodasol: a ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw?** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Ydw | 330 |
| Na | 161 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 28 |
| Dewis peidio ag ateb | 17 |

| **Crefydd neu gred: beth yw eich crefydd?** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Cristion (pob enwad) | 324 |
| Bwdhaidd | 1 |
| Hindw | |
| Mwslim | |
| Sikh | |
| Iddewig | 2 |
| Anffyddiwr | 13 |
| Dim crefydd | 123 |
| Arall (nodwch) | 8 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 34 |
| Dewis peidio ag ateb | 31 |

**Pan ddewiswyd "arall" darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:**

- Bedyddiwr Albanaidd
- Bwdhaidd
- Undodaidd
- Crynwr
- Cristion
- Paganaidd - Gwrach
- Methodist

| **Anabledd: mae adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan berson anabledd pan:<br>a) Mae gan y person hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a<br>b) Mae'r nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.<br>Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Ydw | 113 |
| Na | 380 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 14 |
| Dewis peidio ag ateb | 29 |

| **Hunaniaeth rhyw: a yw eich hunaniaeth rhyw wedi newid o'r hyn a neilltuwyd adeg genedigaeth?** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Ydi | 12 |
| Na | 480 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 13 |
| Dewis peidio ag ateb | 31 |

| **Cyfrifoldebau gofalu: a ydych chi'n gofalu am neu'n rhoi help neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd naill ai:<br>• Salwch / anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir, neu<br>• Problemau yn ymwneud â henaint?** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Ydw | 172 |
| Na | 334 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 10 |
| Dewis peidio ag ateb | 20 |

Hyrwyddwyd yr holiadur ar dudalen Facebook y Bwrdd Iechyd a gadawyd y sylwadau canlynol ar y neges. Yn yr un modd â'r ymatebion i'r holiadur, mae'r holl sylwadau air am air ac nid ydynt wedi'u golygu heblaw i wneud fferyllfeydd, meddygfeydd teulu, pobl a lleoliadau yn anhysbys.

| Sylw | Nifer y "Likes" |
|---|---|
| Wedi'i wneud ond yn gwrthwynebu'n gryf i [Fferyllfa] hysbysebu Vypes ........ | 1 |
| Yn onest ddim yn gwybod beth fyddem ni'n ei wneud heb [Fferyllfa], [lleoliad] ... maen nhw'n haeddu cydnabyddiaeth am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu! Staff gofalgar rhagorol, caredig! | 4 |
| [Fferyllfa] [lleoliad] | 1 |
| Mae [fferyllfa], [lleoliad] wedi rhoi gwasanaeth rhagorol trwy gydol y pandemig hwn. | 6 |
| Diolch yn fawr iawn [Fferyllfa], [lleoliad] a diolch arbennig i [enwau] xx | 10 |
| Mae fy Ngŵr yn Fferyllydd ac i fod yn hollol onest nid yw staff fferyllfeydd wedi cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu am weithio'n ddiflino am 60+ awr dim ond i ddarparu Gwasanaeth Rhagorol i bobl agored i niwed sy'n ofnus. | 26 |
| Diolch i [Fferyllfa], [lleoliad] yn gweithio mor galed bob amser ond bob amser gyda gwên | 8 |
| Mae [fferyllfa], [lleoliad] yn dda iawn x | 4 |
| [Fferyllfa], [lleoliad], gwasanaeth gwych. Ac yn ofalgar iawn | 1 |
| [Fferyllfa], [lleoliad] | 2 |
| Mae [fferyllfa] yn [lleoliad] yn ofnadwy, byddwn i wrth fy modd yn gallu defnyddio'r feddygfa. | 0 |
| [Fferyllfa], [lleoliad] 👍👍 | 3 |
| [Fferyllfa], [lleoliad] | 4 |
| Mae [fferyllfa] yn [lleoliad] yn wych mae'r staff mor ddymunol a chymwynasgar x | 5 |
| [Fferyllfa], [lleoliad] gwych | 1 |
| Uh | 1 |
| [Enw] pawb yn gwneud gwaith gwych 👏👏 [Fferyllfa], [lleoliad] bob amser yn dda | 2 |
| Methu cytuno mwy | 1 |
| [Enw] yn gwneud gwaith y meddygon teulu ... Dim ond dweud 🙄 | 6 |
| Rwy'n cael fy un i gan [meddygfa]. Rwy'n llongyfarch pob fferyllydd sy'n helpu i gadw pethau i fynd. 👏 | 1 |
| Byddai'n wych pe gallai fferyllfeydd a meddygon o Gymru ddal i fyny a Lloegr a defnyddio'r EPS [gwasanaeth presgripsiwn electronig] cymaint yn well na trefn ara deg [presgripsiynau] FP10 | 4 |
| Mae [fferyllfa] wedi bod yn hollol wych ac mae'r staff wedi bod mor barod i helpu o dan amgylchiadau anodd a dirdynnol 🤩 | 3 |
| Mae [fferyllfa], [lleoliad] wedi bod yn hollol wych | 4 |
| Diolch yn fawr am yr holl fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru. Mae eich staff wedi gwneud gwaith anhygoel. Gwerthfawrogir yn fawr. | 7 |
| Cymerodd [enw] eiriau allan o gegau pobl !! | 3 |
| [Fferyllfa], [lleoliad], gwych xx Diolch 👏👏 | 3 |
| [Enw] diolch xx | 2 |

| | |
|---|---|
| Deintyddiaeth y broblem fawr mae angen i BIPBC [Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr] ei datrys gyda pheth brys | 7 |
| Mae [fferyllfa] yn wych, yn gymwynasgar, yn gyfeillgar ac yn effeithlon. Maen nhw'n gweithio mor galed i helpu. Diolch | 4 |
| [Fferyllfa], [lleoliad], diolch | 5 |
| Maent yn gwneud gwaith rhagorol ond yn cael eu gorlwytho â gwaith. Felly, anfonwch rai o'ch uwch staff i helpu ???? (Dysgwch beth yw bywyd go iawn) | 2 |
| Roedd [fferyllfa] yn [lleoliad] yn Fach ond nerthol! | 1 |
| [Enwau]. (Gobeithio na fethais neb!) 👏👏 | 2 |
| Mae [fferyllfa] mewn [lleoliad] bob amser yn mynd uwchlaw a thu hwnt, ac maen nhw wedi gweithio'n ddiflino trwy’r cyfan. | 1 |
| Mae’r fferyllydd yn [lleoliad] yn wych 👍 | 2 |
| Gwasanaeth rhagorol gan y ddau [lleoliad] a [lleoliad] | 1 |
| Yn enwedig [enw] a'r tîm yn [fferyllfa] yn y [lleoliad], | 1 |
| Mae [fferyllfa] yn [lleoliad] yn anhygoel ac wedi bod yn wych trwy'r pandemig hwn. | 4 |
| Mae [fferyllfa] yn gymwynasgar iawn ac yn amyneddgar🌈 yn [lleoliad] | 1 |
| [Fferyllfa] mewn [lleoliad] yn enwedig [enw]. Byddai'n mynd uwchlaw a thu hwnt i'ch helpu chi. 🌈 | 2 |
| [Fferylliaeth] yn [lleoliad] rydych chi wedi bod yn wych, diolch. | 1 |
| Mae [enwau] yn [fferyllfa] wedi bod yn anhygoel erioed, rydych chi bob amser yn dod oddi yno yn teimlo'n well. Da iawn ferched 😘 | 0 |
| Da iawn, hynny yw, os ydych chi'n hoffi sefyll ar y palmant am awr gyda phobl wael eraill.<br><br>Archebu ar-lein yw'r dyfodol. | 1 |
| Mae [fferyllfa] [lleoliad] wedi bod yn achubwyr bywyd, yn gwneud popeth o fewn eu gallu i dawelu meddwl a chynorthwyo cleifion.Rwy'n ymddiried ynddynt yn fwy na fy meddygfa! Diolch i bawb. 😇😇 | 0 |
| Mae [Fferyllfa] mewn [lleoliad] a [Fferylliaeth] mewn [lleoliad] yn rhagorol, bob amser yn gyfeillgar ac yn effeithlon | 1 |
| Diolch yn fawr iawn i [fferyllfa] maen nhw wedi bod yn amhrisiadwy yn yr amseroedd anodd hyn | 0 |
| Ardderchog ... mae gan ein practis ddarpariaeth fewnol. Mae gan y fferyllydd agosaf fesurau diogelwch da ar waith. Diolch GIG👍 | 0 |
| [Fferyllfa] [lleoliad] gwasanaeth rhagorol a bob amser yn barod iawn eu cymorth. | 4 |
| Gwasanaeth rhagorol gan [fferyllfa] yn [lleoliad] ond hoffwn pe byddent yn rhoi rhyw fath o strwythur dros dro i bobl sy'n ciwio yn yr oerfel a glaw gan fod llawer o bobl oedrannus yn sefyll y tu allan yn fferru! | 6 |
| Mae [fferyllfa] mewn [lleoliad] yn wych | 1 |
| Mae'r ddau fferyllydd mewn [lleoliad] dan bwysau, amser ciw rhwng 1/2 i 1 awr, ddim yn dda wrth i'r tywydd waethygu | 1 |

| | |
|---|---|
| Mae [fferyllfa] mewn [lleoliad] yn well na rhagorol. Ni allaf eu canmol ddigon. Ond mae'r ddau [fferyllfa] mewn [lleoliad] yn ofnadwy o ddrwg, ym mhob ffordd. | 0 |
| Hoffwn ddiolch i staff [Fferylliaeth], [lleoliad], sydd wedi bod yn gefnogaeth wych yn ystod yr amser llawn straen hwn. Maen nhw'n cymryd amser i helpu a datrys unrhyw broblemau. Ffurflen wedi'i chwblhau. | 2 |
| [Fferyllfa] [lleoliad] gwasanaeth rhagorol | 0 |
| Mae [fferyllfa] yn fferyllfa ddefnyddiol iawn, mae'r Staff yn fendigedig Wn i ddim beth y byddem ni yn y pentref yn ei wneud oni bai ei fod yno inni gyd ei ddefnyddio Ardderchog | 2 |
| Mae [fferyllfa] yn cael 10/10 gen i, ac mae [enw] yn wych. | 3 |
| Mae staff yn [Fferyllfa] [lleoliad] yn wych | 0 |
| Boddhaol iawn. [Lleoliadau]. Mae'r staff yn [meddygfa] yn haeddu canmoliaeth fawr. | 0 |
| Mae [fferyllfa] bob amser yn gymwynasgar iawn a does dim byd yn ormod na thrafferth | 2 |
| [Fferyllfa] yn [lleoliad]. Mae'r staff dan gymaint o bwysau ynghlwm wrth 2 feddygfa ond ceir gwên a chroeso bob amser | 3 |
| [Enw] Rwy'n eilio hynny, lle hapus gwych a staff gwybodus | 1 |
| Mae [fferyllfa] yn [lleoliad] yn anhygoel ac mae [enw] eu cynorthwyydd yn wych xxxx | 0 |
| [Fferyllfa] yn ddrwg iawn yn [lleoliad] | 0 |
| Rwy'n cytuno ag [enw], diolch | 1 |
| Ardderchog - rwy'n archebu ar-lein ac yn cael ei ddanfon o fewn 2 ddiwrnod o [lleoliad] hyfryd | 0 |
| [Fferyllfa] wedi'i stocio'n wael iawn. Methu â chael llawer o eitemau rheolaidd, ddim mewn stoc. | 0 |
| Mae [Enw] yn gweld ei eisiau o hyd bechod. Gobeithio cadw'n oce | 1 |
| Mae [fferyllfa] yn [lleoliad] wedi bod yn wych | 0 |
| [Enw] Mor wir! Maent wedi bod yn wych. Rwy'n un o'r bobl ofnus sy'n agored i niwed ac sydd wedi cael gofal cystal gan ein staff fferylliaeth lleol. | 1 |
| Cymraeg? | 0 |
| Yn erchyll - aros yn y glaw trwm, mynd i mewn yno i ddarganfod nad ydyn nhw wedi gallu cael eich sgript gyfan, mynd yn ôl ar y dyddiad hwnnw, 4 diwrnod yn ddiweddarach, unwaith eto aros yn y glaw, i ganfod fod 3 o eitemau nad oes ganddynt a 2 o’r eitemau coll yw'r pwysicaf oll - tabledi pwysedd gwaed, mynd yn ôl eto aros am yr eitem hon yn yr oerfel, a darganfod na allant gael y tabledi, ac ni fyddant yn ysgrifennu sgript, felly nôl ar y ffôn at y meddyg teulu am sgript arall, awr yn ddiweddarach mae'r derbynnydd meddyg teulu yn ffonio yn ôl i ddweud ei bod wedi siarad â'r fferyllydd gwreiddiol a byddant yn creu sgript .. erbyn hyn nid ydych wedi cael tabledi pwysedd gwaed am 9 diwrnod. , mynd i'r fferyllydd aros yn y glaw i fynd i mewn eto, dadlau gyda'r fferyllydd ffonio'r meddygon teulu, cael sgript o'r diwedd a dechrau'r broses mewn fferyllfa arall a oedd yn gorfod archebu'r meddyginiaethau i mewn - 3 diwrnod yn | 0 |

| | |
|---|---|
| ddiweddarach rydych chi'n aros eto yn y glaw casglu eich meddyginiaethau ac ar ôl 10 diwrnod eich pwysedd gwaed sydd wedi yn rhy uchel am 12 diwrnod yn dechrau dod i lawr yn araf ...<br><br>Gyda brexit ar y gorwel mae'n debyg y bydd fy mhrofiad yn cael ei brofi'n eang gyda phrinder meddyginiaeth, efallai y dylai fferyllfeydd ddechrau cydgysylltu ag eraill a dechrau rhannu meddyginiaethau fel nad oes amseroedd aros hir? Yn nes ymlaen, Wrth siarad â [fferyllfa] am fy mhrofiad dywedon nhw fod ganddyn nhw stoc o'r feddyginiaeth roeddwn i'n ysu amdanyn nhw trwy'r amser, mae'r fferyllydd a wnaeth imi aros yn llai na 5 munud i ffwrdd ar droed ... siaradwch â'ch gilydd. | |
| Canmoliaeth uchel i [Fferyllfa], [lleoliad]. Staff cymwynasgar iawn. Bob amser yn hawdd siarad â nhw a chael cefnogaeth gydag eitemau yn y siop hefyd a meddyginiaeth ac ati. | 0 |
| Ni ellid gwella [fferyllfa] yn [lleoliad], diolch | 0 |
| Mae [fferyllfa] mewn [lleoliad] yn wych. Maent yn casglu ein presgripsiynau ac yn eu danfon yn rheolaidd. Rydym yn gwerthfawrogi eu gwasanaeth rhyfeddol yn fawr. | 1 |
| Diolch enfawr, mor lwcus ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr | 0 |
| [Fferyllfa] [lleoliad]. GWYCH !! | 0 |
| [Fferyllfa] yn [lleoliad] da iawn | 0 |
| Mae [fferyllfa] [lleoliad] wedi bod yn wych. Da iawn. | 0 |
| Cefais fy ngwahardd o fy [fferyllfa] leol ar ôl i berson ar y cownter fygwth rhoi'r gorau iddi ar ôl i'm meddyg fy rhoi yn ôl ar ofal hunanladdiad a gorfod codi fy mhresgripsiwn dair gwaith yr wythnos. Fe wnaeth yr aelod o staff ledaenu si hefyd fy mod i'n gwerthu fy meddyginiaeth (bupenorffin) pan roeddwn i mewn gwirionedd yn cael chwistrelliad misol o Buvidal. Y cyfan oherwydd sylw ar gyfryngau cymdeithasol am fater cwbl anghysylltiedig.<br>Rwyf wedi fy nghywilyddio gan hyn, yn ogystal â fy meddyg ac rydw i nawr yn ceisio cyngor cyfreithiol gan nad ydw i erioed wedi cael fy ngwahardd o unrhyw le yn fy 58 mlynedd ar y ddaear. | 0 |
| Mae [fferyllfa] [lleoliad] yn hollol wych | 1 |
| Mae ein fferyllfa yn [lleoliad] yn wych. Fe wnaethant gasglu ein meddyginiaeth ac yn ystod y Cyfnod clo dosbarthwyd ein meddyginiaeth i'n cartref. Diolch i'r holl fferyllwyr. | 0 |
| Rwy'n defnyddio'r fferyllfa yn Meddygfa fy Meddygon Teulu yn [lleoliad] ac weithiau [Fferyllfa] yn [lleoliad].Gwasanaeth rhagorol yn y ddau. | 0 |
| [Fferyllfa] yn [lleoliad] Am dîm gwych sydd ganddyn nhw yno. Bob amser yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar hyd yn oed o dan bwysau aruthrol sefyllfa bresennol Covid.<br>Diolch yn fawr.<br>Diolch byth am bobl fel nhw | 0 |
| Methu canmol [Fferyllfa] yn [lleoliad] ddigon. Maent bob amser yn barod eu cymorth, cyfeillgar ac effeithlon. Mae'n rhaid eu bod nhw wedi gweithio i'r eithaf yn ystod y pandemig hwn ond byth yn cwyno dim ond bwrw ymlaen â'r swydd dan sylw. Roeddent yn wych cyn y | 0 |

| | |
|---|---|
| firws ac wedi cynnal eu safon uchel iawn o gefnogaeth a gwaith er gwaethaf y pwysau ychwanegol y maent yn ei brofi. | |
| Cytuno’n llwyr. Gwasanaeth anhygoel o dda iawn i'r tîm [enw] !! | 0 |
| Diolch i [fferyllfa] bob amser yn dda iawn ac mor garedig a chyfeillgar hyd yn oed yng nghanol yr holl bwysau ... | 0 |
| Mae [fferyllfa] yn [lleoliad] yn haeddu sylw. | 1 |
| Mae [fferyllfa] [lleoliad] yn staff cynorthwyol cariadus hollol wych bob amser gyda gwên xx | 0 |
| Rwy'n meddwl tybed beth yn union sydd y tu ôl i'r arolygon hyn, mae Cadwaladr yn ei ddweud? | 0 |
| Diolch yn fawr i'r holl staff yn ein fferyllfa fach a chyfeillgar yn [lleoliad]. Bob amser yn ddefnyddiol ac yn rhoi cyngor da pan fo angen.<br>Gwasanaeth amhrisiadwy yn ystod blwyddyn anodd 👍 | 0 |
| [Fferyllfa] [lleoliad] ... hollol wych ... staff gofalu proffesiynol ... nid yw unrhyw beth yn ormod o drafferth ... ac maen ein cadw ni i gyd yn ddiogel .. diolch cymaint i chi ..x | 0 |
| [Fferyllfa] mewn [lleoliad] a [lleoliad], rhagorol | 1 |
| [Fferyllfa], [lleoliad] | 0 |
| Mae [fferyllfa] mewn [lleoliad] wedi gweithio'n galed iawn i'n helpu ni i gyd. | 0 |
| [Fferyllfa] yn [lleoliad], mae'r staff yn anhygoel | 0 |
| [Fferyllfa] bob amser yno i chi. | 0 |
| [Fferyllfa] [lleoliad] gwasanaeth rhagorol, pawb mor barod i helpu. | 1 |

## Atodiad I – holiadur contractwyr fferyllol

### Manylion y Safle

| | |
|---|---|
| Cod contractwr (cod ODS) | |
| Enw'r contractwr (h.y. enw'r unigolyn, y bartneriaeth neu'r cwmni sy'n berchen ar y busnes fferyllol) | |
| Enw masnachu | |
| Cyfeiriad y fferyllfa | |
| | |
| | |
| | |
| Cyfeiriad e-bost y fferyllfa | |
| Rhif ffôn y fferyllfa | |
| Rhif ffacs y fferyllfa (os yw'n berthnasol) | |
| Cyfeiriad gwefan y fferyllfa (os yw'n berthnasol) | |
| A all y bwrdd iechyd gadw'r wybodaeth uchod a'i defnyddio i gysylltu â chi? | ☐ Gall ☐ Na |

### Cyfleusterau ymgynghori

A yw'r safle'n hygyrch ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn? Ydy / Nac ydy

Mae yna ardal ymgynghori (ticiwch fel y bo'n briodol)

| | |
|---|---|
| Na, neu | ☐ |
| Ar gael (gan gynnwys mynediad i gadeiriau olwyn), neu | ☐ |
| Ar gael (heb fynediad i gadeiriau olwyn), neu | ☐ |
| Wedi'i chynllunio o fewn y 12 mis nesaf, neu | ☐ |
| Arall (nodwch) | |

| | |
|---|---|
| Lle ceir ardal ymgynghori; | |
| Yw hi’n ystafell gaeedig? | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |
| A yw'n ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd? | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |
| A yw'r claf a'r fferyllydd yn gallu siarad ar lefel arferol heb gael eu clywed gan staff y fferyllfa neu ymwelwyr â'r fferyllfa? | ☐ Ydynt ☐ Nac ydynt |
| A yw wedi'i ddynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa? | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |
| Os nad oes ardal ymgynghori a oes trefniadau amgen ar gyfer trafodaethau cyfrinachol? | ☐ Oes ☐ Nac oes |

| | |
|---|---|
| Ieithoedd a siaredir (yn ogystal â Saesneg) | |

**Gwasanaethau**

A yw'r fferyllfa'n dosbarthu cyfarpar?

| | |
|---|---|
| Ydy – Pob math, neu | ☐ |
| Ydy, ac eithrio offer stoma, neu | ☐ |
| Ydy, ac eithrio offer anymataliaeth, neu | ☐ |
| Ydy, ac eithrio offer stoma ac anymataliaeth, neu | ☐ |
| Ydy, dim ond gorchuddion, neu | ☐ |
| Arall [nodwch] | |
| Dim | ☐ |

**Gwasanaethau heb eu Comisiynu**

A yw'r fferyllfa'n darparu unrhyw un o'r canlynol?

| | |
|---|---|
| Casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu | ☐ |
| Darparu meddyginiaethau fferyllol – Am ddim ar gais | ☐ |
| Darparu meddyginiaethau fferyllol – Grwpiau cleifion dethol (rhestrwch y meini prawf) | |
| Darparu meddyginiaethau fferyllol – Ardaloedd dethol (rhestrwch yr ardaloedd) | |
| Darparu meddyginiaethau fferyllol - Codir tâl | ☐ |

| | |
|---|---|
| Yn eich barn chi, a oes gofyniad am wasanaeth ychwanegol sydd eisoes yn bodoli nad yw'n cael ei ddarparu yn eich ardal chi ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham. | |
| Yn eich barn chi, a oes gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham. | |

**Capasiti**

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol yn gyffredinol yn cynyddu. Gan feddwl am eich fferyllfa chi:

| | √ |
|---|---|
| Oes gennych ddigon o gapasiti yn eich safle presennol ac o ran eich lefelau staffio i reoli'r cynnydd yn y galw yn eich ardal? | |
| Nid oes gennych ddigon o le na digon o gapasiti staffio ar hyn o bryd ond gellir gwneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw yn eich ardal? | |
| Nid oes gennych ddigon o le na chapasiti staffio a byddai'n anodd rheoli cynnydd yn y galw? | |

(Ticiwch un opsiwn)

**Datblygu busnes**

A oes gennych unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eich safle neu ddarpariaeth gwasanaeth? Oes / Nac oes

| |
|---|
| Os oes, rhowch fanylion yma. |

**Manylion y person sy'n cwblhau'r ffurflen hon:**

| Enw cyswllt y person sy'n cwblhau'r holiadur, os bydd cwestiynau'n codi | Rhif ffôn cyswllt |
|---|---|
| | |

## Atodiad J – holiadur arferion dosbarthu

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn paratoi ei asesiad anghenion fferyllol cyntaf, sydd i'w gyhoeddi erbyn 1 Hydref 2021 ac y mae arnom angen eich help i gasglu peth gwybodaeth i gefnogi ei ddatblygiad.

Wrth ddatblygu'r holiadur, gofyn yn unig yr ydym am wybodaeth sy'n angenrheidiol ond nad yw'n cael ei gadw na'i gasglu fel mater o drefn. Fel y gwelwch, rydym wedi cadw'r holiadur mor fyr ag sydd modd.

Er y bydd ar gael tan 11 Tachwedd 2020 fe fuasem yn eich annog i lenwi'r holiadur yn awr.

Am ymholiadau ynghylch y wybodaeth y gofynnir amdano neu'r atebion sydd eu hangen, e-bostiwch charlotte.goodson@pcc.nhs.uk gyda theitl y testun 'arolwg arferion dosbarthu 'PNA' BIPBC'.

Rhowch enw'r practis yr ydych yn llenwi'r holiadur ar ei ran:

| |
|---|
| |

Rhowch gyfeiriad neu gyfeiriadau'r eiddo y mae gan y practis ganiatâd eiddo i ddosbarthu ohono:

| |
|---|
| |

**1 Llenwch y tabl isod o ran yr amseroedd pryd mae'r fferyllfa ar agor, gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.**

| | **Cyfeiriad -** | **Cyfeiriad –** |
|---|---|---|
| **Llun** | | |
| **Mawrth** | | |
| **Mercher** | | |
| **Iau** | | |
| **Gwener** | | |
| **Sadwrn** | | |
| **Sul** | | |

**2 A yw teclynnau'n cael eu dosbarthu o'r eiddo?**

| **Ystod o declynnau: un ateb 'ydynt' yn unig** | **YDYNT** |
|---|---|
| Ydynt – Pob math, neu | |
| Ydynt, ac eithrio am declynnau stoma, neu | |
| Ydynt, ac eithrio am declynnau anymatal, neu | |
| Ydynt, ac eithrio am declynnau stoma ac anymatal, neu | |
| Ydynt, dim ond gorchuddion clwyfau, neu | |
| Dim | |

**3 Cludo eitemau a ddosbarthwyd**

A yw'r fferyllfa yn darparu unrhyw rai o'r isod?

| | |
|---|---|
| Cludo meddyginiaethau a ddosbarthwyd – Am ddim o wneud cais | ☐ |
| Cludo meddyginiaethau a ddosbarthwyd – Grwpiau dethol o gleifion (rhestrwch y meini prawf) | |
| Cludo meddyginiaethau a ddosbarthwyd - Ardaloedd dethol (rhestrwch yr ardaloedd) | |
| Cludo meddyginiaethau a ddosbarthwyd – Codi tâl | ☐ |

**4 Pa ieithoedd sydd ar gael i gleifion gan y staff yn yr eiddo bob dydd– rhestrwch y prif ieithoedd a siaredir**

| **Rhestr o ieithoedd a siaredir:** |
|---|
| |

**5 Gallu**

Mae'r galw am wasanaethau iechyd yn gyffredinol ar gynnydd. O feddwl am eich gwasanaeth dosbarthu yn unig, pa rai o'r isod sy'n wir:

| | **IE** |
|---|---|
| Digon o le a gallu yn eich eiddo a'ch lefelau staffio presennol i reoli'r cynnydd yn y galw yn eich ardal. | |
| Heb ddigon o eiddo na gallu staffio ar hyn o bryd, ond mae modd gwneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn eich ardal. | |
| Heb ddigon o le na gallu staffio ac yn ei chael yn anodd rheoli cynnydd yn y galw. | |

(Ticiwch un dewis)

**6 Gwasanaethau eraill yn ymwneud â dosbarthu**

A fyddwch cystal â rhoi manylion unrhyw weithgareddau eraill yr ydych yn eu darparu yng nghyswllt eich gwasanaeth dosbarthu, er enghraifft, siartiau MARs, pecynnau 'jest rhag ofn' a nodwyddau i gleifion.

| |
|---|
| |

**7 Darparu gwasanaethau wedi Covid-19**

Rydym yn sylweddoli y byddwch wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd mae eich gwasanaeth dosbarthu yn cael ei ddarparu o ganlyniad i Covid-19. A fedrwch roi gwybodaeth i ni am y newidiadau hynny y byddwch yn eu cario ymlaen i'r 'normal newydd'?

| |
|---|
| |

**8 Rhowch eich manylion cyswllt.**

**Enw:**

**Teitl swydd:**

**Ebost:**

**Rhif teliffon:**

## Atodiad K – adroddiad ymgynghori

### 1 Cyflwyniad

Fel rhan o'r broses asesu anghenion fferyllol mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gynnal ymgynghoriad o leiaf 60 diwrnod gyda rhai sefydliadau. Pwrpas yr ymgynghoriad yw sefydlu a yw'r darparwyr fferyllol a'r gwasanaethau sy'n cefnogi poblogaeth ardal y Bwrdd Iechyd yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y ddogfen asesu anghenion fferyllol terfynol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ystyriaethau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn disgrifio'r broses gyffredinol o gynnal yr ymgynghoriad.

### 2 Proses ymgynghori

Er mwyn cwblhau'r broses hon, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgynghori â'r partïon hynny a nodwyd o dan reoliad 7 o Reoliadau 2020 y GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru), i sefydlu a yw'r asesiad anghenion fferyllol drafft (yr Asesiad - draft pharmaceutical needs assessment ) yn mynd i'r afael â materion yr oeddent yn eu hystyried yn berthnasol ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol:

- Fferylliaeth Cymunedol Cymru
- Pwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru
- Contractwyr wedi'u cynnwys ar y rhestr fferyllol
- Meddygon teulu wedi'u cynnwys yn y rhestr meddygon dosbarthu
- Meddygfeydd teulu
- Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Dinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Fforwm Gofal Cymru
- Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru
- Defnyddwyr Gwasanaeth Trawsnewid Gwasanaethau Canser
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
- Mantell Gwynedd
- Medrwn Môn
- Keep the Beats
- Age Connects
- Newcis
- Canolfan Golwg a Sain
- Croes Goch Prydain

- Ymddiriedolaeth Gofalwyr
- Hearing Loss UK
- Cymdeithas Alzheimer
- Ymddiriedolaeth Iau Prydain
- Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych
- Mind
- Llinell Gymorth Help
- Cymdeithas Sglerosis Ymledol
- Grŵp Mynediad i'r Anabl Conwy
- Canolfan Iechyd Plas Menai
- Heddlu Gogledd Cymru
- Golygfa Gwydyr
- Canolfan Gydweithredol Cymru
- BAWSO
- Versus Arthritis
- Digital Health Pocket Medic
- Carers Oureach
- Cyngor Iechyd Cymunedol
- ActifWoodsGwynedd;
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Crossroads Gogledd Cymru
- Cyfranogiad Gofalwyr Cenedlaethol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- rsbc.org.uk.
- lifestorynetwork
- Grŵp Cynefin
- Gisda
- Adran Gwaith a Phensiynau Gwynedd ac Ynys Môn
- Elusen Shine
- Prifysgol Bangor
- Gweithredu ar golli clyw Cymru
- Sefydliad y Galon Prydain
- Macmillan
- Shelter Cymru
- Amcan Cymru
- Citizens Online
- Y Gwasanaeth Tân
- Gofalwyr Cymru
- Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol
- Cymdeithas Deafblind
- Caniad
- Gorwel
- Building Community Trust
- Cymdeithas Strôc
- Ctauk
- Groundwork North Cymru
- Epilepsy action

- Strategaeth Dinas y Rhyl Ymddiriedolaeth Iau Prydain
- Fferylliaeth Cymunedol Cymru
- Rhaglen Ymgysylltu Cymru BAME (Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig)
- Hosbis Dewi Sant
- Tros Gynnal Plant
- Ddrws i Ddrws - Grŵp Cludiant Cymunedol
- Canolfan Lles Tan Y Maen
- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Cyngor ar Bopeth Gwynedd ac Ynys Môn
- Hafan Cymru
- Cymunedau Digidol Cymru
- CAIS
- Cyngor Hil Cymru a Dispora Portiwgaleg
- Gwasanaeth Aelodau o'r Corff Artiffisial a Chyfarpar Gogledd Cymru
- Aura Cymru - Llyfrgelloedd a Hamdden
- Tai Clwyd Alyn
- Dynamic, Wrecsam
- Prifysgol Glyndwr
- Crossroads Gogledd Cymru
- Grŵp Sgiliau Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddodol BAME Wrecsam
- Coleg Cambria
- Book of You
- Croes Goch Prydain
- Asiantau Cymunedol Wrecsam
- Fferyllfeydd Rowlands
- Groundwork Gogledd Cymru
- Canolfan Enfys, Penley
- Canolfan Gymunedol Parkfields
- Grŵp Dros Bumdeg Wrecsam
- Grŵp Gweithredu 50+, Sir y Fflint
- Barnardos
- Mencap
- Adnoddau Naturiol Cymru
- Alzheimers
- Stroke UK
- Ymddiriedolaeth Afu Prydain
- Tai Pennaf
- Wales Co-op
- Wales Bowls
- Grŵp Canser y Coluddyn Gogledd Cymru
- Grŵp Cydlynwyr Gweithgareddau Cartrefi Gofal, Wrecsam
- Shine UK (Spinabifida)
- Yr Adran Waith a Phensiynau
- Travelling Ahead
- Gofal a Thrwsio
- KIM Inspire, Wrecsam a Sir y Fflint

Anfonwyd e-bost at y sefydliadau uchod, yn eu gwahodd i gyflwyno eu barn ar yr asesiad o anghenion fferyllol. Cynhwyswyd dolenni gwe i'r asesiad anghenion fferyllol, ynghyd â'r crynodeb gweithredol a'r holiadur yn yr e-bost. Yn ogystal, hyrwyddwyd yr ymgynghoriad trwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Bwrdd Iechyd.

Rhoddwyd cyfle i ymateb trwy gwblhau set o gwestiynau a / neu gyflwyno sylwadau ychwanegol. Gwnaethpwyd hyn trwy gwblhau'r cwestiynau ar-lein. Roedd yr asesiad o anghenion fferyllol a'r cwestiynau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cafwyd un ymateb yn y Gymraeg.

Gofynnwyd y cwestiynau er mwyn asesu'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol, rhoi sylw i unrhyw amgylchiadau penodol yn y dyfodol lle gallasai'r sefyllfa bresennol newid yn sylweddol, a nodi unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 4 Mehefin a 4 Awst 2021.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ystyriaethau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Dylid nodi nad oedd yn ofynnol i gyfranogwyr yr ymgynghoriad ateb pob cwestiwn.

Derbyniodd yr ymgynghoriad 15 ymateb, fel a ganlyn.

| **Dewisiadau ateb** | **Canran yr ymatebion** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|
| Ar ran contractwr fferyllfa / offer dosbarthu / practis dosbarthu | 47 % | 7 |
| Ar ran sefydliad | 27 % | 4 |
| Ymateb personol | 20 % | 3 |
| Dewis peidio ag ateb | 7 % | 1 |
| | **Nifer a atebodd** | **15** |


Yn ogystal, derbyniwyd un ymateb na chafodd ei chynnwys yn y system gan Fferylliaeth Cymunedol Cymru wnaeth sylwadau ar y cwestiynau ymgynghori, a dau gontractwr a wnaeth sylwadau ar yr angen am fferyllfa ym Metws-y-Coed.

## 3 Crynodeb o'r cwestiynau ar-lein, ymatebion ac ystyriaethau'r Bwrdd Iechyd

Mae'r holl sylwadau a wneir fel rhan o'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys air am air yn y Saesneg (cyfieithiadau isod).

Wrth ofyn "A eglurwyd pwrpas yr asesiad o anghenion fferyllol", mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi bod 13 o bobl wedi dweud "Do".

**Ffigur 36 - A eglurwyd pwrpas yr asesiad o anghenion fferyllol?**





Ni roddwyd sylwadau gan y person a ddywedodd “Na” yn ei ymateb. Gwnaethpwyd chwe sylw gan y rhai a ddywedodd “Do”.

- Rwyf wedi darllen crynodeb o'r asesiad o anghenion fferyllol a ddarparwyd gan [enw] (BIPBC - Gweithlu a Datblygu Sefydliadol) trwy e-bost.
- Anfonwyd manylion gyda'r ddolen hon ond roedd yn or-eiriog
- Rydym yn cwblhau pob blwyddyn ac yn gyfarwydd â'r gofynion.
- Rhoddwyd esboniad clir.
- Rydym yn pryderu am yr iaith a ddefnyddir trwy'r Asesiad. Un enghraifft yw'r ymadrodd “yn gyffredinol, rhaid i'w cais gynnig ddiwallu angen a nodir yn yr Asesiad”. Rhaid i geisiadau am fferyllfeydd newydd o dan y rheoliadau yng Nghymru gael eu gwneud i lenwi bwlch yn yr anghenion a amlygir yn yr Asesiad neu ddatganiad atodol dilynol; mae defnyddio “yn gyffredinol” yn awgrymu llwybrau eraill i'w defnyddio fel y broses ymgeisio ar sail buddion anrhagweladwy a welir yn Lloegr nad yw ar gael yng Nghymru. Awgrymwn y dylai’r adran hon gael ei harall eirio er mwyn cael gwared ar y goblygiadau hyn.
- Rwyf wedi darllen y ddogfen
- Mae'r crynodeb gweithredol yn crynhoi pwrpas yr asesiad a'r prif ganfyddiadau.

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r sylw ynghylch y defnydd o “yn gyffredinol, mae’n rhaid i’w cais fodloni angen sydd wedi’i amlinellu yn asesiad anghenion fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw” ac mae wedi newid y ddogfen i gadarnhau mai dim ond dau eithriad sydd yna i’r rheol hon ar gyfer fferyllfeydd, sef newidiadau mewn perchnogaeth ac adeoli am resymau busnes.

Gofynnodd y cwestiwn nesaf “A yw'r asesiad anghenion fferyllol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol yn eich ardal chi?" ac mae’r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi mai dim ond dau berson a ddywedodd “Na”.

**Ffigur 37- A yw'r asesiad anghenion fferyllol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol yn eich ardal chi?**




Gwnaed chwe sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

- Mae gan Maesgeirchen boblogaeth o bron i 4000 o bobl a dim fferyllfa. Mae'n ardal ble nad oes llawer yn berchen car, ble mae teuluoedd mwy a chostau trafnidiaeth gyhoeddus uchel (£1 yr un, bob ffordd i mewn i Fangor, ac yn aml angen dod â theuluoedd mawr gyda nhw) yn ogystal ag anghydraddoldebau iechyd sy'n ei gwneud hi'n anodd i rai gerdded ac mae'n ardal o amddifadedd uchel. Mae'r angen am fferyllfa gymunedol ar y stad yn aml yn codi mewn trafodaethau cymunedol.
- Ddim yn gwybod – wedi'u lleoli yn Wrecsam
- Ydy - Mae'r wybodaeth yn fanwl ac yn drylwyr iawn
- Nac ydy - Nid yw [fferyllfa yn Wrecsam] … a… [fferyllfa yn Wrecsam, DDIM ANGEN BOD AR AGOR AR DDYDD SADWRN. Gwnaethom ddadansoddiad Cost a Budd a chanfuwyd, oherwydd diffyg angen, NAD oedd agor ar fore Sadwrn yn HYFYW. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus bob blwyddyn.
- Ddim yn gwybod - Mae absenoldeb unrhyw ddata gan gontractwr yn yr Asesiad drafft yn golygu ei bod yn anodd cadarnhau hyn. Rydym yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd iddynt gan ddefnyddio'r holiaduron AWPD a chontractwyr. Felly mae'n rhaid ymddiried bod y data hwn wedi'i gyflenwi'n gywir a'i ddadansoddi'n briodol.
- Fodd bynnag, rydym wedi sylwi ar rai anghysondebau yn y data. Er enghraifft ar dudalen 6 dywedir bod 37 practis dosbarthu yn gweithredu allan o 46 safle. Ac eto ar dudalen 12 dywedir bod 40 practis dosbarthu ac ar dudalen 32 bod 39 practis dosbarthu. Mae gwallau o'r fath yn peri inni gwestiynu a yw'r Asesiad drafft yn adlewyrchu'r gwir anghenion fferyllol ac felly a yw'r casgliadau y deuir iddynt yn ddilys.
- Na - Roedd [fferyllfa] wedi cofrestru i ddarparu gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2 ar 10/5/2021.

Mewn perthynas â Maesgeirchen, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi fod cais i agor fferyllfa ar y stad dai hon wedi'i wrthod ym mis Mawrth 2011. Roedd y rheswm am hyn fel a ganlyn.

"Nodwyd fod Bangor yn cynnwys pum meddygfa meddyg teulu a phum fferyllfa gymunedol. Nodwyd nad oedd darpariaeth gwasanaethau meddygol cyffredin na gwasanaethau fferyllol o fewn y gymdogaeth diffiniedig. Cytunodd y Pwyllgor fod y gwasanaethau fferyllol yn hygyrch yn y cymdogaethau cyfagos, gyda gwasanaethau bws rheolaidd yn rhedeg o Faesgeirchen i Fangor bob pymtheg munud yn ystod yr wythnos tan 4.30pm, a bob tri deg munud wedi hynny. Hefyd, nodwyd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi derbyn unrhyw adroddiadau o anawsterau gan gleifion mewn perthynas â chael mynediad at wasanaethau fferyllol yn y gymdogaeth. Roedd y Pwyllgor yn fodlon nad oedd tystiolaeth wedi'i gyflwyno i awgrymu fod y gwasanaethau fferyllol yn y gymdogaeth yn annigonol.

Felly gwrthodwyd y cais ar y sail nad oedd yn angenrheidiol nac yn ddymunol er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau fferyllol yn y gymdogaeth".

Nodwyd hefyd fod ystod gyfyngedig o gyfleusterau o fewn y stad ac felly bydd preswylwyr yn teithio'n rheolaidd y tu allan iddo ar gyfer gwaith, addysg a phwrpasau hamdden, a hefyd i gael mynediad at Feddyg Teulu a gwasanaethau iechyd eraill. Ni ddynodwyd yr angen am fferyllfa o fewn yr arolwg ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, ac mae'r bwrdd iechyd yn fodlon nad oes gofyniad i newid yr asesiad anghenion fferyllol er mwyn nodi'r angen am fferyllfa ar y stad.

Nid yw'r dadansoddiad budd cost a ymgymerwyd gan ddwy fferyllfa wedi cael ei ddarparu i'r bwrdd iechyd, fodd bynnag mae'r penderfyniad masnachol o ran peidio agor wedi cael ei nodi tra'n cydnabod nad yw hyn yn nodi nad oes angen am wasanaethau fferyllol ar Sadyrnau. Dangosodd dadansoddiad o'r deg prif reswm dros bobl yn cysylltu â'r gwasanaeth MT y tu allan i oriau ym mis Gorffennaf ac Awst 2021, mai ceisiadau am feddyginiaethau ailadroddus oedd yr ail reswm mwyaf poblogaidd.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi fod ganddo dri opsiwn o ran oriau agor fferyllfa estynedig:

- Comisiynu gwasanaeth uwch y tu allan i oriau gan fferyllfeydd presennol,
- Rhoi cyfarwyddyd i fferyllfa neu fferyllfeydd i agor yn hirach, neu
- Adnabod angen o fewn yr asesiad anghenion fferyllol.


Gan gymryd hyn i ystyriaeth, a'r sylwadau eraill sydd wedi'u derbyn mewn perthynas ag oriau agor estynedig fferyllfeydd, mae'r bwrdd iechyd wedi penderfynu mai'r ffordd fwyaf priodol o fodloni anghenion cleifion y tu allan i oriau agor arferol fferyllfa fyddai i gomisiynu gwasanaeth uwch y tu allan i oriau. Byddai hyn wedyn yn darparu'r wybodaeth ofynnol ar y lefel o alw ar gyfer gwasanaethau fferyllol y tu allan i oriau agor arferol fferyllfeydd er mwyn hysbysu fersiwn yn y dyfodol o'r asesiad anghenion fferyllol i'w ddarparu yn ystod oriau estynedig. O ganlyniad, mae'r asesiad anghenion fferyllol wedi cael ei newid i dynnu'r anghenion dynodedig ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol am hyd at dair awr ar y penwythnos neu gyda'r nosau yn ystod yr wythnos.

Mae’r bwrdd iechyd yn cydnabod yr anghysondebau yn y nifer o fferyllfeydd sy’n dosbarthu. Roedd hyn oherwydd data anghywir i ddechrau a rhai fferyllfeydd yn cau tra roedd yr asesiad anghenion fferyllol yn cael ei ddrafftio, ond mae hyn nawr wedi’i gywiro a gellir cadarnhau fod 37 fferyllfa sy’n dosbarthu gan ddarparu gwasanaethau fferyllol mewn 46 adeilad.

Mewn perthynas â’r sylw olaf, mae’r asesiad anghenion fferyllol wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu darpariaeth gwasanaethau uwch yn 2021/22. Mae anghenion dynodedig ar gyfer gwasanaethau uwch wedi cael eu newid lle mae fferyllfa bresennol wedi arwyddo i ddarparu’r gwasanaeth uwch perthnasol.

Pan ofynnwyd “A oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth; hy pryd, ble a pha wasanaethau sydd ar gael nad ydynt wedi'u nodi yn yr asesiad o anghenion fferyllol? Cytunodd pum ymatebwr".

**Ffigur 38- A oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth; hy pryd, ble a pha wasanaethau sydd ar gael nad ydynt wedi'u nodi yn yr asesiad o anghenion fferyllol?**




Gwnaed pum sylw mewn ymateb.

- Mae prinder fferyllfeydd sy'n barod i ddarparu meddyginiaethau mewn cymhorthion (pecynnau pothell) yn ardal yr Wyddgrug sy'n golygu gwastraffu amser yn "ffonio o gwmpas" i ddod o hyd i un â lle a chan arwain at ganlyniadau gwaeth i gleifion gan nad oes yr un ohonynt yn barod i'w derbyn. Mae rhai fferyllfeydd yn nodi eu bod yn "llawn" neu na fyddant yn derbyn cleifion newydd heb bresgripsiynau wythnosol p'un a yw'r meddyg angen meddyginiaethau yn wythnosol neu'n fisol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol treialu gwasanaeth "cymhorthion" ychwanegol i gydnabod yr amser ychwanegol a'r baich sefydliadol y mae'r cleifion hyn yn ei roi ar fferyllfeydd. O

ystyried y galw yn y boblogaeth sy'n heneiddio, ni fydd y galw am y rhain ond yn cynyddu.


- Mae'r asesiad yn tynnu sylw at faterion iechyd sy'n effeithio ar bobl ag anableddau dysgu. Nid yw'n rhoi manylion am unrhyw addasiadau rhesymol sy'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth i'w wneud yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau dysgu. A yw'n ofynnol i fferyllfeydd ddarparu gwybodaeth a llythyrau am feddyginiaeth mewn fformat hawdd ei ddarllen i bobl sydd ar gofrestr anableddau dysgu'r gwasanaethau cymdeithasol? Rwy'n arbennig o bryderus am bobl a allai fod yn ddigon annibynnol i fyw i ffwrdd o gartref a theulu ac nad ydynt yn cael cymorth hy byw ar eu pennau eu hunain heb lawer o gefnogaeth allanol, os o gwbl. Efallai y bydd pobl o'r fath yn abl iawn mewn sawl agwedd o'u bywydau. Fodd bynnag, efallai na fyddant yn gallu deall cyfarwyddiadau ar feddyginiaethau a sut i'w gymryd, na sut i ddarllen unrhyw ganllawiau eraill ynghylch defnyddio fferyllfa os nad yw ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen, naill ai mewn taflenni neu ar-lein.
- Mae trafnidiaeth bob amser yn broblem y tu allan i oriau ac er y gallai darpariaeth fod ar gael, mae'n parhau i fod yn anodd (mynediad) ac yn gostus i rai preswylwyr deithio
- Mae [Fferyllfa] yn darparu (1) Gwasanaethau fferyllol estynedig – hy 9:00 - 22:00 bob dydd, 7 diwrnod yr wythnos gan gynnwys yr holl wyliau banc, (2) Hwb Meddyginiaethau Diwedd Oes.
- Nid yw'r asesiad yn nodi sut y bydd unigolion sy'n gaeth i'r tŷ a heb deulu yn cael meddyginiaethau o'r fferyllfa.
- Rydym yn ymwybodol bod gan nifer o feddygfeydd wasanaeth cludo ond mae llawer wedi dod i ben mewn sawl ardal heb asesu sut y bydd pobl yn cael gafael ar feddyginiaethau. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau 3ydd sector a gofal yr All (Awdurdod Lleol)
- Nid oes cyfeiriad at ddosbarthu pecynnau pothell ac ati i'w rhoi i gleifion nad ydynt yn gallu gwneud hynny drostynt eu hunain. Mae'r gwasanaeth hwn wedi dod i ben mewn nifer o fferyllfeydd yn ddiweddar. Mae hyn yn cynyddu'r pwysau ar staff gofal cartref gan y disgwylir iddynt weinyddu meddyginiaethau heb y sgiliau a'r wybodaeth i wneud hynny.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i fferyllfeydd wneud addasiadau rhesymol i'w gwasanaeth, ac mae elfen o gyllid ar gyfer hyn o fewn y lwfans misol a elwir yn daliad practis sy'n cael ei dalu i fferyllfeydd. Fodd bynnag, pan fydd claf neu eu cynrychiolydd yn gwneud cais am ddarpariaeth meddyginiaeth fel cymorth cydymffurfiaeth er hwylustod, neu am reswm sy'n syrthio y tu allan i ddarpariaethau'r Ddeddf, yna nid yw'n ofynnol i'r fferyllfeydd ddarparu hyn o dan y Ddeddf ac mae'n wasanaeth preifat ar gyfer yr hyn y bydd ffi yn cael ei godi. Mae'r rhai gydag anabledd dysgu hefyd yn cael eu gorchuddio gan y Ddeddf ac mae nifer o daflenni hawdd eu darllen ar gael ar wefan GIG 111 Cymru.
Mae meddygfeydd MT o dan yr un rhwymedigaeth statudol a dylent felly ystyried y cyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y presgripsiwn.

Mae'r gwasanaeth MT y tu allan i oriau yn gallu darparu cwrs o feddyginiaeth lle mae angen i glaf ddechrau cymryd y feddyginiaeth cyn iddo gael ei ddarparu gan fferyllfa. Mae hyn felly yn gostwng yr angen i rywun deithio i fferyllfa ar ôl cael eu gweld gan y gwasanaeth MT y tu allan i oriau.

Pan ofynnwyd a yw'r ddogfen yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth cytunodd saith o bobl ond anghytunodd chwech.

**Ffigur 39- A yw'r asesiad anghenion fferyllol drafft yn adlewyrchu anghenion poblogaeth eich ardal?**




Gwnaed wyth sylw mewn ymateb.

- Na - Os bydd fferyllfa’n agor ym Metws y Coed bydd y feddygfa yn cau gan y bydd yn anhyfyw. Bydd problem fawr heb unrhyw ofal meddygol cyffredinol yn yr ardal.
- Na - gweler yr ateb blaenorol [mewn perthynas â phobl ag anableddau dysgu, uchod]
- Ydi - gellid gwneud mwy o ddefnydd o fferyllfeydd fel safleoedd brechlyn ffliw ac ati
- Na- [fferyllfa yn Wrecsam a… [fferyllfa yn Wrecsam] DDIM ANGEN BOD AR AGOR AR DDYDD SADWRN. Gwnaethom ddadansoddiad Cost a Budd a chanfuwyd, oherwydd diffyg angen, NAD oedd agor ar fore Sadwrn yn HYFYW. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus bob blwyddyn.
- Na - Mae'r Adolygiad drafft yn dod i nifer o gasgliadau ynghylch mân “anghenion” ar gyfer darpariaeth. Credwn fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud camgymeriad sylfaenol yn y ffordd y mae wedi drafftio’r Adolygiad yn hyn o beth. Mae llawer o'r “anghenion” a nodwyd yn ddyheadau am wasanaeth estynedig ac nid “anghenion” fel y bwriadwyd gan reoliadau’r Adolygiad sydd wedi'u cynllunio'n bennaf at ddibenion mynediad i'r farchnad. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ofyn a ddewisodd y contractwyr yn y lleoliadau hynny beidio â llenwi'r “angen” hwnnw ac a yw'r Bwrdd Iechyd yn wirioneddol barod i droi at agor fferyllfa arall yn y lleoliad hwnnw? Yn ôl diffiniad, os na chaiff “angen” ei ddiwallu mae'n creu “bwlch” ac mae'n gwahodd cais am fferyllfa newydd. Gallai hyn arwain at ddwy fferyllfa an-hyfyw yn y pen draw, ac arwain at golli gwasanaethau fferyllol yn llwyr mewn rhai ardaloedd.

Nodwn fod “anghenion” wedi'u nodi ar gyfer oriau estynedig ac agor yn yr haf. Byddai hyn yn costio llawer i gontractwyr. Pe bai'n economaidd ymarferol i gontractwr agor am oriau estynedig yna byddai'r achos busnes yn gadarn a byddai'r fferyllfa'n agor; gan nad ydynt yn agor, y rheswm yw nad oes achos busnes yn bodoli. Yn wir, nid yw’r Adolygiad yn son am dystiolaeth a ddefnyddir i nodi'r “anghenion” hyn. Os yw'n bodoli, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd nodi, yn glir, yr achos busnes y tu ôl i'r casgliad hwn.

Yn ogystal, os bydd y Bwrdd Iechyd yn gofyn am agor fel hyn yna bydd angen rhoi cyfarwyddyd am yr oriau agor hyn ac, o ganlyniad, talu am hynny trwy'r broses rota arferol. Mae'n annerbyniol (ac, yn ein barn ni, yn groes i bwerau’r Bwrdd Iechyd) i fygwth contractwyr, i bob pwrpas, â chais gan fferyllfa arall er mwyn eu cael i ariannu gwasanaeth ar fympwy'r Bwrdd Iechyd, pan nad oes tystiolaeth o'r angen (oni bai am y 6 person ar draws ardal gyfan y Bwrdd Iechyd a awgrymodd fod oriau agor yn anghyfleus).

Mae'r camddefnydd o bwerau'r Bwrdd Iechyd yma hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn datganiadau fel “Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi, pe bai unrhyw oriau agor atodol yn cael eu cwtogi ar ddydd Sadwrn o 1 Ebrill 2021, bydd angen tair awr agor craidd ar ddydd Sadwrn yn y dyfodol yn y trefi lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi cymryd lle, rhwng 09.00 a 17.00 ”.Mae'r datganiad hwn yn cyfyngu ar y gallu i gontractwyr reoli costau hyd yn oed pe bai data'n cadarnhau nad oes angen yr oriau agor estynedig hynny.

Oherwydd yr uchod, credwn, os bydd yr Asesiad terfynol yn cynnwys hyn, y gallai'r Bwrdd Iechyd dderbyn her gyfreithiol i'r Asesiad.

Nodir nifer o “anghenion” oriau estynedig ar gyfer Ynys Môn. Mae’n syndod inni fod y Bwrdd Iechyd wedi nodi hyn oherwydd, tan ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd rota hirach mewn lle ar gyfer nifer o'r lleoliadau hyn a ostyngwyd gan y Bwrdd Iechyd gan ei bod yn “hawdd i gleifion gael mynediad at wasanaethau oriau estynedig yng Nghaergybi a Bangor ”. Mae'r rota gyfredol yn Amlwch, Beaumaris, Benllech a Bae Cemaes rhwng 17.30 a 18.00. Rydym yn cymryd mai’r bwriad yw gwyrdroi'r gostyngiad i’r rota a ddaeth i rym yn 2013 trwy nodi'r “angen” hwn a bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud darpariaeth i ymestyn y taliad rota? Mae disgwyl i gontractwyr ariannu rhywbeth y penderfynodd y Bwrdd Iechyd yn gymharol ddiweddar nad oedd ei angen yn benderfyniad hurt. Ym mhellach, nid yw'r Asesiad yn darparu unrhyw dystiolaeth bod angen yr oriau estynedig hyn nac unrhyw awgrym faint o angen sydd ei eisiau, a allai ei gwneud yn hyfyw yn ariannol i gontractwr agor am yr oriau estynedig hyn gyda'r Bwrdd Iechyd yn eu hariannu. Gwaethaf oll, trwy ddatgan y rhain fel “anghenion”, mae'r Bwrdd Iechyd, fel y nodwyd uchod, yn gwahodd ceisiadau am gontractau pe na bai'r “anghenion” hyn yn cael eu diwallu, hyd yn oed gyda chyllid gan y Bwrdd Iechyd. Mae hyn hefyd yn wir am yr “angen” i agor ar ddydd Sul yn yr haf; ble mae'r dystiolaeth bod angen hyn a sut y bydd yn cael ei ariannu? Mae'n ymddangos i ni ei fod wedi'i seilio'n llwyr ar dybiaeth y byddai'n 'beth da'.

Nodwn fod y Bwrdd Iechyd wedi defnyddio amser teithio safonol o 20 munud trwy'r Asesiad. Credwn y gallai hyn fod wedi arwain at rai o'r casgliadau amheus ynghylch oriau agor estynedig mewn ardaloedd gwledig. Mae trigolion ardaloedd gwledig wedi arfer â theithio ymhellach am wasanaethau, a byddent yn disgwyl hynny. Er y gallai 20 munud fod yn briodol ar gyfer ardaloedd trefol credwn y byddai amser teithio o 30 munud yn fwy priodol ar gyfer ardaloedd gwledig; yn aml mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn byw yno i fod yn bellach oddi wrth ganolfannau poblog. Defnyddiwyd amser teithio 30 munud wrth ddylunio'r Gwasanaeth Gofal Diwedd Oes felly nid yw'n eglur pam y dewiswyd amser byrrach ar gyfer yr Asesiad hwn.

Mae geiriad yn nifer o’r adrannau megis “Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi pe bai darpariaeth yn cael ei cholli ar gyfer gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd brys mewn fferyllfa sydd wedi’i lleoli y tu allan i Fangor a Chaernarfon, byddai angen y gwasanaeth yma yn y dyfodol i gynnig darpariaeth am o leiaf yr un faint o oriau agor craidd ac atodol â'r fferyllfa sy’n rhoi’r gorau i ddarparu’r gwasanaethau ”. Mae'r datganiadau hyn (ac eraill) yn dyfalu’r sefyllfa. A yw'r Bwrdd Iechyd yn awgrymu mewn gwirionedd, pe bai'r sefyllfa hon yn digwydd, y byddai'n gwahodd fferyllfa ychwanegol i agor, dim ond oherwydd nad oedd y gwasanaeth ar gael? Yn ogystal, ni chyfeirir a oes angen i hon fod yn sefyllfa barhaol neu'n un dros dro. Gellir colli gwasanaeth os yw fferyllydd yn mynd ar absenoldeb salwch estynedig ac na all y locwm (au) ddarparu'r gwasanaeth; a fyddai hynny wir yn gwarantu cais am gontract arall? Beth sy'n digwydd pan ddaw'r fferyllydd yn ôl ac erbyn hyn mae dwy fferyllfa'n cystadlu am yr un cleifion ac yr oedd un fferyllfa o'r blaen yn eu gwasanaethu? Nid yw'r datganiad ychwaith yn ystyried darparwyr eraill y gwasanaeth yn yr ardal; er enghraifft, meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol sy'n darparu mynediad i Atal Cenhedlu Brys. Ni ystyrir yn llawn y sefyllfa sy'n bodoli ar yr adeg y collir y gwasanaeth a sut y gallai defnyddwyr gyrchu'r gwasanaeth hwnnw trwy fferyllfeydd a darparwyr eraill (yn ogystal ag unrhyw newidiadau demograffig) . Mae datganiad cyffredinol o'r fath yn amhriodol.

Ymhellach, mae canllawiau anstatudol Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn nodi: Dim ond anghenion y mae angen eu diwallu ar unwaith neu a fydd yn codi o fewn oes yr Asesiad sydd i'w cynnwys yn yr Asesiad. Mae datganiadau damcaniaethol gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn yn cyfleu dyheadau a dylid eu tynnu o'r Asesiad.

Er ein bod yn cytuno y dylai cymaint o fferyllfeydd â phosibl gynnig cymaint o wasanaethau â phosibl cyhyd ag y bo modd, mae'r defnydd o'r Asesiad i fwlio contractwyr i'w cynnig yn amhriodol pan ei bod yn amlwg fod ystyriaethau economaidd ehangach angen eu hystyried . Credwn, felly, y dylid nodi mwyafrif yr “anghenion” hyn fel cyfleoedd y bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio arnynt gyda'r rhwydwaith gyfredol o gontractwyr er mwyn asesu angen a hyfywedd. Yn y modd hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn lleihau problemau yn y dyfodol.

Ar dudalen 9/10 mae'r datganiad “mewn perthynas â'r gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan rai meddygfeydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi pe bai meddyg teulu yn rhoi’r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo hawl i ddarparu amlinellol ar ei gyfer, bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra ei fod yn parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa ”. Rydym yn bryderus iawn am y datganiad hwn gan y byddai rhoi gwasanaeth yr un fath yn ei le, heb ailasesu’r sefyllfa wledig, demograffeg gyffredinol a heb asesu a fyddai contract fferyllfa yn hyfyw yn ymddangos yn anghywir ac yn colli cyfle. Yn union fel fferyllfeydd, nid oes gan Feddygon Dosbarthu hawl awtomatig i fodoli.

Gwneir y datganiad canlynol mewn sawl lle o fewn yr Asesiad drafft: “Gan fod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti gan gontractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud yn y penodau sy’n trafod ardaloedd penodol ”. Mae'n ymddangos bod y datganiad hwn yn croes ddweud ei hun; naill ai mae capasiti neu nid oes capasiti.

Yn adran Canol Wrecsam, mae pennawd o dan para 20.6 “Bylchau mewn Darpariaeth”. Fodd bynnag, mae'r adran hon wedyn yn mynd ymlaen i gyfeirio at fferyllfa nad yw'n cael ei gweithredu gan y GIG ac a weithredir ym Mharc Manwerthu Plas Coch. Credwn ei bod yn gwbl amhriodol tynnu sylw at y fferyllfa hon yn yr adran hon o'r Asesiad; dylid cael adran ar wahân yn yr Asesiad drafft a / neu ardal Canol Wrecsam lle cyfeirir at y fferyllfa hon a darpariaethau eraill nad ydynt yn cael eu darparu gan y GIG / preifat.

Yn olaf, hoffem dynnu sylw at y ffaith bod nifer o'r mapiau gofynnol ar goll o'r Asesiad drafft (ee tudalennau 95 a 97) neu o ansawdd arbennig o wael (ee tudalen 265). Yn ogystal, cyfeirir mewn rhai adrannau ardal at fferyllfeydd nad ydynt yn ymddangos ar fapiau'r adran honno (ee mae Caerwys wedi'i chynnwys ar fapiau Sir y Fflint ond trafodir gwasanaethau o'r fferyllfa yng Nghanolbarth a De Sir Ddinbych).

- Na - "Oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y tymor gwyliau mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi angen yn y dyfodol i ddarparu rhai gwasanaethau gwell ar ddydd Sul yn y lleoliadau a ganlyn rhwng 1 Ebrill 2022 a Hydref: Amlwch, Benllech, Llangefni a Rhosneigr. "

- Na - Ar draws Conwy cydnabyddir nad oes digon o ddarpariaeth yng nghefn gwlad a byddwn yn cytuno gyda’r datganiad hwn. Hefyd y Gwasanaethau Cymraeg - dim ymrwymiad i hyfforddiant yn Nwyrain Conwy, ac er enghraifft mae gan 3 o 12 fferyllfa fynediad at siaradwr Cymraeg. (25% er y cydnabyddir fod 37% o'r boblogaeth oedolion yn siarad Cymraeg). Hoffem weld ymrwymiad i wersi Cymraeg / yr iaith Gymraeg yn yr asesiad.

- Ddim yn gwybod - Anodd gwybod a yw'r asesiad yn diwallu anghenion Gwynedd gan i'r asesiad diwethaf gael ei chynnal yn 2017 felly efallai na fydd yn adlewyrchu sefyllfa 2021.
  Nid oes unrhyw sôn am Covid na'r cyfnod clo yn yr asesiad ac effaith hyn ar boblogaeth yr ardal. Mae'r pandemig wedi newid anghenion y boblogaeth i raddau helaeth ac felly mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i hyn.
  Hefyd mae'n debygol y bydd nifer o faterion yr ydym yn eu nodi yn dod yn fwy amlwg dros y blynyddoedd i ddod gyda'r cynnydd yn y boblogaeth hŷn yn ogystal â mwy o bobl â mwy o anghenion yn derbyn gofal gartref.

Mae’r bwrdd iechyd wedi ymateb i’r angen am fferyllfa ym Metws y Coed yn adran 4 isod.

Mewn perthynas â’r materion newydd a godwyd mewn ymateb i’r cwestiwn hwn, mae’r asesiad anghenion fferyllol yn gosod allan dyheadau’r bwrdd iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol. Nid yw’r data ar gael ar lefel ardal leol ac felly ni ellir ei gynnwys, fodd bynnag, gan edrych ar y gwasanaethau uwch ar gyfer atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng mae’r bwrdd iechyd yn gwybod y bydd preswylwyr benywaidd angen y gwasanaeth hwn ac felly mae’n rhaid iddo fod yn hygyrch. Hefyd, mae ysmygwyr yn byw ym mhob rhan o ardal y bwrdd iechyd, a chan mai rhoi’r gorau i ysmygu yw’r ffordd orau o wella iechyd rhywun yna mae’n rhaid i’r gwasanaeth uwch rhoi’r gorau i ysmygu fod yn hygyrch hefyd.
Byddai’n well gan y bwrdd iechyd petai fferyllfeydd presennol yn darparu’r gwasanaethau uwch hyn a bydd yn gweithio gyda’r rhai sydd ddim yn darparu’r gwasanaethau ar hyn o bryd i ddeall pam. Mae’r bwrdd iechyd felly wedi newid yr anghenion dynodedig ar gyfer y gwasanaethau uwch penodol canlynol i adlewyrchu hyn:

- Rhoi’r gorau i ysmygu lefelau 2 a 3,
- Gwasanaeth cyflenwad meddyginiaethau mewn argyfwng
- Gwasanaeth cyflyrau cyffredin, a
- Atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng

Fodd bynnag, petai bylchau o hyd yn narpariaeth y gwasanaethau hynny erbyn 1 Ebrill 2023, yna byddai’r rhain yn anghenion dynodedig ar gyfer y dyfodol.

Mewn perthynas â’r gwasanaeth cyfnewid nodwyddau a chwistrellwyr, mae mwy o gontractwyr wedi dod ymlaen i ddarparu’r gwasanaeth hwn. Felly mae’r anghenion dynodedig ar gyfer y gwasanaeth hwn mewn pedwar o’r ardaloedd lleol wedi cael eu tynnu allan o’r asesiad anghenion fferyllol gan fod y bwrdd iechyd mawr yn hyderus, unwaith y bydd yr adolygiad gwasanaeth wedi’i gwblhau, y gellir comisiynu digon o safleoedd i fynd i’r afael â’r anghenion ar gyfer y gwasanaeth.

Mae’r bwrdd iechyd yn cydnabod y sylw a wnaed ynghylch meddyg rhagnodi yn rhoi’r gorau i ragnodi i ardal neu ardaloedd penodol. Tra mae’r rhan fwyaf o’r ardaloedd y mae meddygon yn rhagnodi iddynt yn wledig gyda phoblogaeth isel, nid dyma’r achos bob amser ac fe all fferyllfa allu gweithredu yno. Mae’r asesiad anghenion fferyllol felly wedi cael ei newid i ddweud:

“Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi petai practis MT angen rhoi’r gorau i ragnodi i ardal ar gyfer yr hyn y mae ganddo gydsyniad amlinellol, yna bydd angen yn y dyfodol ar gyfer naill ai:

- Gwasanaeth rhagnodi MT i gael ei ddarparu i’r ardal honno tra mae’n parhau i fod yn ardal reoledig a’i bod yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa,
- Fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener fel isafswm i ddarparu:
    - yr holl wasanaethau hanfodol, a
    - dull atal cenhedlu hormonaidd brys, gwasanaeth anhwylderau cyffredin, rhoi’r gorau i ysmygu lefel 2, helpa fi stopio @ fferyllfa, a gwasanaeth ategol cyflenwadau meddyginiaethau brys”

Mewn perthynas â’r mapiau coll, yr unig fap sydd ei angen ar y rheoliadau yw map yn dangos lleoliadau lle darperir gwasanaethau fferyllol. Felly nid oes “mapiau gofynnol” ar goll. Tra roedd y bwrdd iechyd wedi bwriadu cynnwys mapiau ym mhennod 5 yn dangos y lleoliadau lle darperir y gwasanaethau amrywiol, nid oedd y rhain ar gael ac felly mae’r cyfeiriad wedi’i ddileu.


O ran y sylw am y Gymraeg, mae hwn y tu allan i gyfrifoldeb yr asesiad anghenion fferyllol ac mae’r bwrdd iechyd felly yn fodlon nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau. Mae rhai gofynion o fewn yr amodau gwasanaeth fferyllfa mewn perthynas â’r Gymraeg ac mae’r rhain yn cynnwys:

- Lle bydd arwydd neu hysbysiad newydd yn cael ei arddangos mewn perthynas â gwasanaeth fferyllol, mae’n rhaid i’r testun fod yn Gymraeg a Saesneg, ac fe all y contractwr ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu’r bwrdd iechyd ar gyfer y pwrpas hwn;
- Lle mae staff yn gallu siarad Cymraeg, mae angen i gontractwyr eu hannog i wisgo bathodyn, a ddarperir gan y bwrdd iechyd, i hysbysu pobl o hynny; ac
- Anogir staff i ddefnyddio gwybodaeth a/neu fynychu cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau a ddarperir gan y bwrdd iechyd fel y gallent, er enghraifft, ddatblygu dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio’r Gymraeg mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau fferyllol.

Gan nad oes gwybodaeth wedi’i ddarparu o ran sut mae’r pandemig wedi newid anghenion y boblogaeth yn benodol yn ymwneud â gwasanaethau fferyllol, nid yw’r bwrdd iechyd wedi gallu ystyried pa newidiadau allai fod angen i’r asesiad anghenion fferyllol.

Yna gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ynghylch a yw'r asesiad anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth i lywio penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â cheisiadau am fferyllfeydd newydd a safle contractwyr dosbarthu offer, a cheisiadau gan feddygon i ddosbarthu meddyginiaeth. Nodir gan y Bwrdd Iechyd mai dim ond un person ddywedodd "Na", er bod pump o bobl wedi ateb nad oeddent yn gwybod .

**Ffigur 40- A yw'r asesiad anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth i lywio penderfyniadau mynediad i'r farchnad hy penderfyniadau ar geisiadau am fferyllfeydd newydd a safleoedd i gontractwyr ddosbarthu offer?**




Ymhelaethodd pedwar ar eu hymatebion.

- Ydy - Ond mae hwn yn gamgymeriad yn achos Betws y Coed. Nid yw wedi ystyried bod y boblogaeth eisoes yn cael gwasanaethau dosbarthu trwy'r Feddygfa Teulu - a fyddai'n gorfod cau os byddai fferyllfa'n agor.
- Ddim yn gwybod - ydych chi'n disgwyl ateb!
- Ydy - Casgliadau clir iawn ar gyfer pob maes
- Na - Fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 4 rydym yn hynod bryderus ynghylch y ffordd y mae'r Asesiad hwn wedi'i eirio. Credwn, trwy nodi anghenion bach heb dystiolaeth yn yr Asesiad drafft a fyddai i gyd yn costio i'r contractwyr (gan nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi yn yr Asesiad drafft y byddent yn barod i dalu am estyniadau i oriau agor trwy nodi'r angen i ymestyn oriau neu rotas) mae'r Bwrdd Iechyd yn gwahodd anarchiaeth i'r broses Mynediad i'r Farchnad. Mae hefyd yn creu sefyllfa a fydd yn golygu gwrthdaro sylweddol â chontractwyr ac o bosibl hyd yn oed her gyfreithiol y gellid / a fydd i gyd yn gallu cael eu hosgoi pe cymerid mwy o ofal gyda'r geiriad. Byddai nodi'r hyn sy'n ofynnol yn gywir (ee fferyllfeydd newydd) a beth yw 'pethau byddai'n braf eu cael' (ee mân estyniadau i oriau agor) yn dileu'r rhan fwyaf o'r anghytundebau hyn.

Gan fod yr Asesiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, os nad yw contractwr yn cydymffurfio â'r anghenion mwyaf pitw a nodir, yna byddai cyfle newydd i wneud cais am gontract yn cael ei sbarduno. Nid ydym yn credu mai dyma yw bwriad y Bwrdd Iechyd (na Llywodraeth Cymru) ac felly rydym yn awgrymu y dylid ail-ddrafftio geiriad sylfaenol yr Asesiad drafft.

Rydym yn argymell bod yr Asesiad yn cael ei aralleirio i adlewyrchu'r angen i ddarparwyr gwasanaethau fferyllol presennol a'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'i

gilydd i gynyddu argaeledd a defnydd o’r gwasanaethau, yn hytrach na nodi yn ffurfiol fod “bwlch yn y ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol”. Mae'r Asesiad yn ddogfen swyddogol i sefydlu rheolaeth ar drefniadau mynediad at wasanaethau. Ni chafodd ei gynllunio i fod yn broses i 'fwlio' contractwyr i wella'r modd y darperir gwasanaethau ac nid yw'n briodol ei ddefnyddio felly. Mae hyn yn cefnogi ein honiad ymhellach (yng nghwestiwn 4) mewn ymateb i'r datganiad bod colli practis dosbarthu yn sbarduno'r angen am wasanaeth ‘yr un fath’ yn awtomatig.

Mae gan ardal y Bwrdd Iechyd hefyd rai ardaloedd gwledig dros ben. Rydym wedi ein synnu nad oes unrhyw fapiau sy'n nodi ardaloedd rheoledig yn yr Asesiad drafft. Heb gynnwys mapiau o ardaloedd rheoledig nid oes sicrwydd bod cleifion sy'n derbyn gwasanaethau fferyllol gan eu meddyg yn byw mewn ardaloedd rheoledig sydd wedi’u pennu’n briodol (ac mae cryn anesmwythyd ynglŷn â hyn eisoes). Ar ben hynny, bu llawer o ddatblygiadau ar gyrion trefi gwledig a gall ardaloedd yr hystyriwyd hwy fel ardaloedd rheoledig beidio â bod mwyach.

Yn ogystal, oni bai bod y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu tystiolaeth trwy fap wedi’i farcio o'r ardaloedd rheoledig, ni fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu cymryd unrhyw gamau ar unrhyw gais y mae'n ei dderbyn nes penderfynu bod y cais mewn ardal reoledig neu peidio. O ystyried y posibilrwydd penodol o geisiadau newydd oherwydd yr Asesiad drafft, mae hyn yn debygol o fod yn ofynnol yn y dyfodol agos ac mewn llawer iawn o ardaloedd.

Mae'r Asesiad drafft yn awgrymu bod angen fferyllfa ym Metws-y-coed. Pe bai'r argymhelliad hwn yn ymddangos yn yr Asesiad terfynol, byddai’n gwahodd ceisiadau. Bydd angen pennu pa mor wledig yw’r ardal (ynghyd â mapiau). Byddem wedi meddwl y dylai hyn fod wedi digwydd ochr yn ochr â'r awgrym o fwlch, ac y dylid nodi canlyniad y penderfyniad hwnnw yn yr Asesiad. Nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw ailddiffinio ardaloedd gweledig o'r fath wedi digwydd.

Rydym hefyd yn cwestiynu'r angen am fferyllfa yn Nhowyn. Mae'r Asesiad drafft yn nodi “… mae'n debygol y bydd nifer sylweddol o breswylwyr carafanau tymor hir..”. Mae’n syndod inni, heb unrhyw ddata cadarn ac ar sail tybiaeth, bod bwlch wedi'i nodi yn y lleoliad hwn. Yn hyn o beth, mae preswylwyr dros dro, yn ôl eu diffiniad, yn symudol a fyddai'n caniatáu iddynt gael mynediad at wasanaethau gerllaw. Ar gyfer unrhyw breswylwyr tymor hir nad ydynt yn arbennig o symudol, mae'n annhebygol iawn na fyddent wedi cofrestru gyda meddygfeydd cyfagos neu’n derbyn gwasanaethau o bell (ee trwy ddarparu meddyginiaethau o Fferyllfa Gwerthu o Bell trwy eu meddyg teulu yn Lloegr). Unwaith eto nid oes unrhyw ddata yn yr Asesiad drafft a fyddai'n helpu i benderfynu ar hyn. Fel o'r blaen, mae absenoldeb data ac achos busnes yn golygu bod sail yr angen hwn yn 'sigledig' ar y gorau.

Mae’r bwrdd iechyd wedi ymateb i nifer o’r pwyntiau hyn uchod.

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r cyfarwyddyd anstatudol sy’n nodi y dylid (yn hytrach na rhaid) cynnwys mapiau o leoliadau rheoledig yn yr asesiad anghenion fferyllol.


Nodwyd nad yw’n ofyniad statudol i wneud hynny. Gan y bydd yr asesiad anghenion fferyllol yng ngolwg y cyhoedd am hyd at bum mlynedd, ac ni ellir diweddaru adrannau fel bydd angen, mae yna risg y bydd cynnwys mapiau lleoliadau rheoledig cyfredol yn golygu y byddant yn parhau i fod yng ngolwg y cyhoedd hyd yn oed os byddant yn cael eu newid yn dilyn penderfyniad o dan reoliad 13(2) o Reoliadau’r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Nid yw’r asesiad anghenion fferyllol yn offeryn i’w ddefnyddio i sefydlu a yw meddygfeydd yn rhagnodi i gleifion cymwys yn unig. Os oes pryderon ynghylch y mater hwn, dylent gael eu codi gyda’r bwrdd iechyd ar wahân.

O ran y sylw “ni fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu gweithredu ar unrhyw gais a dderbynnir nes bydd wedi penderfynu fod y cais mewn ardal reoledig neu beidio”, nodir nad yw hyn yn wahanol i’r sefyllfa oedd yn bodoli cyn i’r rheoliadau newydd ddod i rym. Nid yw’n briodol gwneud penderfyniadau ardaloedd lleol rheoledig ar hap yn y gobaith y bydd ceisiadau yn cael eu gwneud. Nodir mai’r profiad yn Lloegr yw y gall ceisiadau gael eu cyflwyno hyd yn oed os nad oes angen wedi’i ddynodi yn yr asesiad anghenion fferyllol gan fod yr ymgeisydd wedi camddeall y sail ar gyfer mynediad i’r farchnad. Mae’r bwrdd iechyd o’r farn ei fod yn fwy priodol ymgymryd â phenderfyniadau ardaloedd lleol rheoledig pan fydd (os bydd) ceisiadau yn dod i mewn ar gyfer adeiladau newydd.

Mae’r bwrdd iechyd wedi ymateb i’r angen am fferyllfeydd newydd yn adran 4 isod. Nesaf, gofynnodd yr arolwg a yw'r ddogfen wedi darparu gwybodaeth i lywio sut y gellir comisiynu gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod wyth o bobl wedi cytuno.

**Ffigur 41- A yw'r asesiad anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth i lywio sut y gellir comisiynu gwasanaethau fferyllol yn y byrddau iechyd yn y dyfodol?**




Ymhelaethodd y person a anghytunodd ar ei ateb.

- Yn adrannau 5.1.18 a 19 mae datganiad bod y cartrefi gofal a'r gwasanaethau STTT [sore throat test and treat] wedi'u hatal oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, ni roddir unrhyw arwydd o ran maint yr uchelgais ar gyfer y gwasanaethau hyn ar ôl codi cyfyngiadau'r pandemig.

Er na nodwyd yn benodol yn yr Aesiad drafft, rydym yn ymwybodol o'r awydd yn y Bwrdd Iechyd i'r gwasanaethau fferylliaeth cymunedol ddosbarthu mwy o bresgripsiynau cleifion allanol. Os mai bwriad y Bwrdd Iechyd yw dargyfeirio eitemau presgripsiwn fel hyn, dylid cyfeirio at hyn. Er hynny, mae hefyd angen ystyried y nifer cynyddol o eitemau a fyddai'n cael eu dosbarthu gan y gwasanaeth fferylliaeth cymunedol ar adeg pan mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried cynigion i leihau nifer y presgripsiynau, i greu capasiti i ddarparu gwasanaethau; rhywbeth y mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn amlwg ei eisiau.


Rydym yn ymwybodol o rai trafodaethau cynnar ynghylch darparu Proffylacsis Cyn-Datguddio (Pre-Exposure Prophylaxis) ar gyfer HIV (PrEP) gan fferyllfeydd cymunedol. Os bydd hyn yn mynd yn ei flaen, efallai y gallai hyn ddod yn realiti yn ystod oes yr Asesiad ac rydym yn awgrymu cyfeirio at hyn fel rhan o'r strategaeth iechyd rhywiol.

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir pryd bydd y gwasanaethau cartref gofal a'r gwasanaethau profi a thrin dolur gwddf yn cael eu hailgomisiynu'n llawn, ond gall y bwrdd iechyd gadarnhau y byddant yn cael eu comisiynu o fewn oes yr asesiad anghenion fferyllol hwn.

Hefyd, nid oes cynlluniau wedi'u cadarnhau ar gyfer mwy o bresgripsiynau cleifion allanol i gael eu rhagnodi o fewn gofal cychwynnol nac ar gyfer darpariaeth proffylacsis cyn-datguddiad ar gyfer y firws imiwnoddiffygiant dynol. Felly mae'r bwrdd iechyd yn fodlon nad oes angen newid i'r asesiad anghenion fferyllol.

Gan droi at p'un a yw'r asesiad anghenion fferyllol wedi darparu digon o wybodaeth i gontractwyr gynllunio darpariaeth gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod tri o bobl wedi dweud 'Na'.

**Ffigur 42- A yw'r asesiad anghenion fferyllol wedi darparu digon o wybodaeth i lywio darpariaeth gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer fferyllfeydd a chontractwyr dosbarthu offer?**




Gwnaed tri sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.


- Dim gwybodaeth am gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer meddygfeydd sy'n dosbarthu
- [Fferyllfa yn Wrecsam a [Fferyllfa yn Wrecsam] DDIM ANGEN BOD AR AGOR AR DDYDD SADWRN. Gwnaethom ddadansoddiad Cost a Budd a chanfuwyd, oherwydd diffyg angen, NAD oedd agor ar fore Sadwrn yn HYFYW. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus bob blwyddyn.
- Mae'r Asesiad drafft i raddau helaeth yn ddatganiad o'r presennol a'r dyfodol agos. Nid oes unrhyw ddyheadau tymor hwy yn yr Asesiad (ee datblygiadau ar gyfer blynyddoedd 3, 4 neu 5) a fyddai'n galluogi contractwyr (presennol a newydd) i ddeall cyfeiriad ac uchelgais y Bwrdd Iechyd.

Gall y bwrdd iechyd gadarnhau nad ydyw wedi nodi unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaeth rhagnodi MT ar hyn o bryd. Yn wahanol i'r fferyllfeydd, y gwasanaeth rhagnodi yw'r unig wasanaeth a ddarperir gan rai o'r meddygfeydd MT sy'n syrthio o fewn diffiniad cyfreithiol gwasanaethau fferyllol.

O ran dyheadau'r bwrdd iechyd ar gyfer y tymor hirach, bydd yn rhain yn rhannol ddibynnol ar esblygiad y fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol. Gan fod hwn yn destun trafodaethau cenedlaethol bob blwyddyn, nid yw'n bosibl rhagweld pa wasanaethau newydd hanfodol, uwch neu ychwanegol a fydd yn cael eu hychwanegu at y fframwaith, a ph'un ai fydd unrhyw wasanaethau yn symud o fod yn wasanaethau ychwanegol i fod yn wasanaethau uwch, neu uwch i hanfodol. Cyfeiriad teithio ar gyfer y bwrdd iechyd ar hyn o bryd yw sicrhau fod ystod graidd o wasanaethau uwch yn cael eu darparu mewn lleoliadau hygyrch ar amseroedd sy'n bodloni anghenion cleifion a defnyddwyr tebygol eraill y fferyllfeydd.

Yna gofynnodd yr ymgynghoriad a oes unrhyw wasanaethau fferyllol y gallai fferyllfeydd eu cynnig yn y dyfodol nad ydynt wedi eu cynnwys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un wedi nodi unrhyw wasanaethau o'r fath.

**Ffigur 43- A oes unrhyw wasanaethau fferyllol y gellid eu darparu yn y lleoliad fferylliaeth gymunedol yn y dyfodol na chawsant eu hamlygu?**




Awgrymwyd y gwasanaethau fferyllol canlynol.

- Gweler cwestiwn 3 [cymhorthion cydymffurfio yn ardal yr Wyddgrug]
- Pob un o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, ond gyda gwybodaeth ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen.
- mewn ardaloedd lle nad yw fferyllfeydd ynghlwm wrth bractis meddyg teulu, dylid defnyddio mwy o glinigau lloeren fferyllol / nyrs hy ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn rhai brys
- Ar dudalennau 30 a 31, mae contractwyr wedi rhoi nifer o awgrymiadau mewn ymateb i'r Bwrdd Iechyd ynghylch gwasanaethau newydd neu estynedig. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad drafft yn cynnwys unrhyw ystyriaeth o'r awgrymiadau hyn nac unrhyw arwydd os gellid comisiynu unrhyw rai yn ystod oes yr Asesiad.

Nodwn yr ystadegau ynghylch mynychder cynyddol gordewdra ac yfed alcohol gormodol. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad yn trafod unrhyw wasanaethau y gellid eu cynllunio i ganiatáu i'r gwasanaethau fferylliaeth cymunedol gyfrannu at arafu a, gobeithio, gwrthdroi'r tueddiadau hyn.

Yn Nwyrain Conwy trafodir pecynnau pothell o fewn yr ymatebion fferyllol ond nid fel gweithred. Mae hyn o fudd nid yn unig i'r boblogaeth oedrannus ond i bobl ag anghenion ychwanegol a dylid ystyried os gellir ailgyflwyno'r gwasanaeth hwn.

Pobl ddigartref a Chyn-filwyr - amlygir y ddau yn y dadansoddiad o anghenion ond ni lwyddais i weld sut yr eir i'r afael â'r anghenion hynny'n benodol na chydnabyddiaeth y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt.

Oriau meddygon teulu - yn cydnabod bod angen oriau estynedig mewn rhai ardaloedd gan gynnwys Betws y Coed ond tybed a yw hyn i fodloni darpariaeth dwristiaidd yn hytrach na darpariaeth leol. Gellid ystyried edrych ar bob ardal wledig, oherwydd yn aml mae lleoliadau a gaiff eu rhannu ac ati, ac mae hyn yn cyfyngu ar oriau agor a hygyrchedd yn ardaloedd gweledig Cymru.

Mewn perthynas â gwasanaethau ar-lein, yn aml mae set wahanol o reolau i bob fferyllfa a tybed a gollwyd cyfle yma i osod set ofynnol o safonau mewn perthynas â hyn. Teimlir fod hyn yn ehangu ar wasanaethau fferyllol traddodiadol yn hytrach na'i foderneiddio. Fel y sonnir, oherwydd COVID mae pethau wedi newid a gallai ymgorffori gwasanaethau ar-lein fod yn fwy cost effeithiol yn y dyfodol.

Cysylltu cyngor gan fferyllfeydd â gwasanaethau atal mewn awdurdodau lleol fel teleofal

Ni chyfeirir at www.dewis.wales fel yr adnodd i gymunedau lywio gwasanaethau

Dim cyfeiriad at deleiechyd na thelefeddygaeth, na chwaith at gynhwysiant digidol - byddai archebu ar-lein neu ddelio gyda sgriptiau felly yn helpu gyda dosbarthu meddyginiaethau mewn pecynau di-bothell awtomataidd.

- Angen ystyried dosbarthu meddyginiaethau i ofalwyr, ond gallai hyn ddigwydd eisoes os ydyn nhw'n gaeth i'w cartrefi. O ran adolygu'r defnydd o feddyginiaethau, mae'r gwasanaeth hwn yn bwysig iawn i ofalwyr a bydd yn dda pan fydd fferyllfeydd yn ail-gychwyn darparu’r gwasanaeth yma. Noder fod rhai fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth cyntaf yn unig, er eu bod yn gallu darparu'r ail.

  Mae'n bwysig cael rota ym mhob ardal i sicrhau bod fferyllfa ar agor ar ddydd Sul a gwyliau Banc.

Mae’r bwrdd iechyd wedi ymateb i rai o’r sylwadau hyn uchod.

Mewn perthynas â’r gwasanaethau a gynigiwyd gan fferyllfeydd fel rhan o’r holiadur contractwr, bydd y rhain yn cael eu hystyried gan y bwrdd iechyd, ond ar hyn o bryd nid oedd cynlluniau i’w comisiynu.

Mae’r rheoliadau yn gofyn i’r asesiad anghenion fferyllol ystyried anghenion y preswylwyr yn ogystal â’r boblogaeth sy’n ymweld.


Nid oes gofyniad o fewn amodau gwasanaeth fferyllfeydd ar gyfer darpariaeth gwasanaethau fferyllol ar lein. Felly nid yw'n bosibl i'r bwrdd iechyd osod set isafswm o safonau ar gyfer darpariaeth o'r fath.

Nid oes gan y bwrdd iechyd gynlluniau ar hyn o bryd i gomisiynu pecynnau pothell na gwasanaeth danfon, er mae wedi nodi y gallai'r rhain gael eu cynnig fel gwasanaethau preifat gan ran fferyllfeydd.

Gall y bwrdd iechyd gadarnhau bod naill ai rota penwythnos ym mhob ardal leol neu fferyllfeydd sydd ar agor ar y Sul. Cydnabyddir nad oes fferyllfa ar agor ym mhob tref ar ddydd Sul ac mae hyn oherwydd diffyg tystiolaeth gref o lefel y galw.

Er mwyn sicrhau bod yr asesiad anghenion fferyllol wedi nodi unrhyw anghenion a allai godi o fewn y bum mlynedd y bydd yn weithredol, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd unrhyw ddatblygiadau, er enghraifft datblygiadau tai, prosiectau adfywio neu adeiladau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau'r GIG, wedi'u methu o fewn yr Asesiad. Nodwyd gan y Bwrdd Iechyd fod tri o bobl wedi dweud "Oes".

**Ffigur 44- A oes unrhyw ddatblygiadau yn ystod oes yr asesiad anghenion fferyllol na chawsant eu nodi?**




- Mae [fferyllfa] wedi bod yn ceisio adleoli i adeilad newydd oherwydd yr angen am ystafell ymgynghori i ddarparu gwasanaethau hanfodol fel atal cenhedlu hormonaidd brys, brechu rhag y ffliw a gwasanaeth anhwylderau cyffredin; ac ni ellir darparu'r gwasanaeth hwn oherwydd nad oes ystafell ymgynghori yn y siop bresennol. Ar hyn o bryd nid oes eiddo ar gael i'w phrynu ym Modelwyddan, ond mae'r negodi'n parhau a gobeithir y gellir datrys y mater o fewn 6 mis ac y gall y fferyllfa ddarparu'r 3 gwasanaeth hanfodol a restrir uchod.
- Ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Conwy, mae'r cynllun anghenion yn cyfeirio at ddatblygiad preswyl a gynigir trwy'r CDLl - Cynllun Datblygu Lleol Olynnol ar safleoedd a ddyrannwyd yn Strategol yn unig. Mae ffynonellau ychwanegol o gyflenwadau tir ar gyfer tai yn yr ardal. Yn ogystal, ni fydd

y Cynllun Datblygu Tir Gwledig (RLDP) yn cael ei fabwysiadu tan 2023/24 ac mae rhai o'r safleoedd hyn yn cael eu cyflwyno'n raddol yn ddiweddarach yng nghyfnod y cynllun.

Mae astudiaeth 2019 ar gael yma (https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Strategic-Planning-Policy/Joint-housing-land-availability-studies-JHLAS.aspx ac mae'n dangos yr holl ffynonellau cyflenwad tir ar gyfer tai y rhagwelir y byddant yn cael eu datblygu yn y cyfnod 2019-24. Ers yr astudiaeth hon, mae safleoedd eraill wedi cael caniatâd.

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n diweddaru ein cronfa ddata cyflenwi tir ar gyfer tai. Astudiaeth flynyddol yw hon fel rheol, fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau Covid fis Ebrill diwethaf, ni chafodd ei diweddaru. Mae'r astudiaeth ddiwethaf wedi ei chynnal yn 2019, ond dyma'r ddiweddaraf sydd gennym ar hyn o bryd. Cyhoeddir y diweddariad ar ein gwefan unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Mae'n werth nodi hefyd nad yw'r Cynllun Datblygu Tir Gwledig ond yn cynnwys ardaloedd o Gyngor Bwrdeistref Conwy sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, gan fod gand y Parc eu CDLl a'u hawdurdod cynllunio eu hunain.

- Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Penygroes
  Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bangor
  Tai gofal ychwanegol Pwllheli
  Cartref gofal ym Mhenrhos Pwllheli.
  Yn ychwanegol at yr uchod mae'n bwysig ymgynghori â chymdeithasau tai gan y bydd ganddyn nhw gynlluniau datblygu tymor hir hefyd.

  Mae CDLlau Gwynedd ac Ynys Môn yn cael eu hadolygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a chytunwyd ar y cynllun cyfredol yn 2017. Mae angen i'r rhanddeiliaid gyfrannu i'r ymgynghoriad hwn.


  Mae data CDLl yn cael ei gasglu bob blwyddyn. Byddai cael gwybodaeth gan gymdeithasau tai am eu hamserlen ddatblygu yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch datblygiadau penodol.

  Os oes angen mwy o fanylion am ddatblygiadau mewn unrhyw faes, byddai ffordd o'i gael.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cymryd i ystyriaeth y cynlluniau datblygu lleol cyfredol ac mae'n nodi y bydd y rhan fwyaf yn cael eu hadolygu yn ystod oes yr asesiad anghenion fferyllol.

Yna gofynnodd yr ymgynghoriad os oedd yr ymatebwyr yn cytuno â chasgliadau'r asesiad anghenion fferyllol. Nododd y Bwrdd Iechyd bod chwech eu bod a phump ddim.

**Ffigur 45- A ydych chi'n cytuno â chasgliadau'r asesiad o anghenion fferyllol?**




- Am y rhesymau a grybwyllwyd uchod - os bydd fferyllydd yn agor ym Metws, bydd y practis meddyg teulu yn dod yn anhyfyw gan ei fod yn dibynnu ar yr incwm. Bydd yr ardal yn wynebu cau'r practis a dim meddygfa teulu gyffredinol ar gyfer ei phoblogaeth leol.
- [Fferyllfa yn Wrecsam] a [Fferyllfa yn Wrecsam] DDIM ANGEN BOD AR AGOR AR DDYDD SADWRN. Gwnaethom ddadansoddiad Cost a Budd a chanfuwyd, oherwydd diffyg angen, NAD oedd agor ar fore Sadwrn yn HYFYW. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus bob blwyddyn.
- Fel y nodwyd mewn man arall yn yr ymateb hwn, nid ydym yn credu bod yr Asesiad drafft hwn yn addas at y diben:
    - Mae gennym bryderon difrifol ynghylch defnyddio'r gair “anghenion” yn yr Asesiad drafft. Nid oes tystiolaeth o'r mwyafrif o'r “anghenion” hyn y sonnir amdanynt ac maent yn ddyheadau. Yn hyn o beth, i'r mwyafrif, byddai'n ymddangos yn rhyfedd iawn dosbarthu'r rhain fel “anghenion” oherwydd, yn yr ystyr reoleiddiol, byddai hyn yn gwahodd ceisiadau pe na baent yn cael eu diwallu; a yw'r BILI wir eisiau ceisiadau fferyllol os nad yw fferyllfa'n agor am 30 munud ychwanegol y dydd, a chan beryglu’r rhwydwaith fferyllfeydd yn ei chyfanrwydd?
    - Mae'r geiriad sy'n ymwneud â'r awgrym bod angen i bob fferyllfa ddarparu EHC, CAS ac Atal Ysmygu yn ei hanfod yn gwneud y gwasanaethau hyn yn Wasanaethau Hanfodol. NID dyma sut maen nhw'n cael eu comisiynu. Er y gallai fod yn ddymunol bod pob fferyllfa'n cynnig y gwasanaethau hyn (a byddem yn cytuno), mae mandadu hyn trwy'r Asesiad, i bob pwrpas, yn newid y Fframwaith Cytundebol ac yn gamddefnydd pellach o bŵer os caiff ei gyhoeddi'n ysgrifenedig
- Mae [Fferyllfa] yn bwriadu darparu'r tri gwasanaeth hanfodol sydd eu hangen ar ôl cael ystafell ymgynghori, felly nid oes unrhyw ofyniad am fferyllfa newydd ar gyfer yr ardal.
- Gweler yr ateb uchod i gwestiwn 4. [Angen yn y dyfodol am rai gwasanaethau gwell ar ddydd Sul mewn rhai lleoliadau gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2022 rhwng Ebrill a Hydref - Rhosneigr.]

Mewn ymateb i'r materion newydd a godwyd, mae'r bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r goblygiadau o ddynodi anghenion ar gyfer gwasanaethau ac mae'n croesawu'r cyfle i allu dylanwadu ar leoliad fferyllfeydd newydd a darpariaeth gwasanaeth yn hytrach na'r system o reoli mynediad sydd wedi bod yn ei le hyd yma.Yn olaf, gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach. Gwnaeth saith o bobl sylwadau.

- Camgymeriad mawr fyddai caniatáu i fferyllydd agor ym Metws - bydd yn arwain at gau'r Feddygfa Teulu yno.
- Bydd angen llawer o waith i drosglwyddo darpariaeth gofal ar gyfer cyflyrau cronig i fferyllfeydd ee mynediad at gofnodion, cymhwysedd fferyllol. Mae cael staff clinigol yn y feddygfa yn darparu adolygiadau meddyginiaeth yn caniatáu gofal mwy cynhwysfawr a chyfannol, yn ogystal â mwy o gysondeb.
- [Fferyllfa yn Wrecsam] a [Fferyllfa yn Wrecsam] DDIM ANGEN BOD AR AGOR AR DDYDD SADWRN. Gwnaethom ddadansoddiad Cost a Budd a chanfuwyd, oherwydd diffyg angen, NAD oedd agor ar fore Sadwrn yn HYFYW. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus bob blwyddyn.
- Ar ôl ystyried yr Adolygiad yn Lloegr a rhai o'r adolygiadau eraill yng Nghymru, mae'r 'ymadroddeg' (phraseology) yn y drafft hwn yn beryglus. Nid ydym yn credu bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i oblygiadau'r hyn y maent wedi'i ysgrifennu a'r effaith y bydd yn ei gael ar y rhwydwaith presennol sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd yn ariannol; mae ceisio ychwanegu costau sylweddol eraill ar y rhwydwaith oherwydd y bygythiad o geisiadau fferyllol newydd yn anghyfrifol iawn.
- Oherwydd oriau agor estynedig [Fferyllfa], mae'r angen am leoliad mwy a gwell yn flaenoriaeth, ond gyda phandemig covid 19 yn yr 16 mis diwethaf, mae hyn wedi gwneud adleoli yn amhosibl. Bydd [Fferyllfa] yn darparu pob un o'r tri gwasanaeth hanfodol cyn gynted ag y gallwn sefydlu ystafell ymgynghori a gobeithio y bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried nad oes angen fferyllfa newydd yn yr ardal.
- Nid oedd pob cwestiwn yn berthnasol i'm rôl yn CBSC [Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy] ac felly maent wedi'u gadael yn wag.

  Mae'r ddogfen yn oddefol yn hytrach nag yn flaengar - byddem wedi tybio y byddai'n disgrifio cyfleoedd ar gyfer datblygu.

  Gan fod llawer o fapiau ar goll ac nad oes troshaeniad yn dangos sut y gall y gwasanaethau fod yn fwy dwys mewn un gwasanaeth nac un arall mae'n anodd deall sut mae'r gwasanaethau'n gorgyffwrdd neu sut y gall pobl gael mynediad atynt.

Mae gofalwyr yn crybwyll problemau cyson cael cyffuriau anghywir neu ddarganfod nad yw mynychu fferyllfa'n bosibl. Nid yw dod yn ôl yfory bob amser yn opsiwn, a phrun bynnag yn gwneud bywyd yn anos.

> Nododd un gofalwr eu bod wedi newid fferyllfa oherwydd hyn ond nid yw hyn bob amser yn opsiwn.

Mae angen ystyried beth sy'n bwysig i ofalwyr ee
Fferyllfa hygyrch
Amseroedd agor sy'n gyson â'r feddygfa
Gwasanaeth cludo ar gael
Mynediad haws i ailadrodd presgripsiwn
System mewn lle ar gyfer presgripsiwn brys, ee wedi anghofio, gadael allan ac ati

Hefyd mae angen holiadur haws ei ddarllen ar gyfer cleientiaid gydag anableddau dysgu.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r sylw am gymharu'r asesiad anghenion fferyllol hwn ac eraill. Nid yw'n credu ei fod yn briodol ei gymharu gydag asesiad anghenion fferyllol Lloegr oherwydd:

- Y nifer o wahaniaethau yn y ddau set o reoliadau,
- Y ffaith fod ystod culach o wasanaethau uwch yn cael eu comisiynu gan GIG Lloegr a Gwelliannau GIG, ac
- Mae gan Loegr y math o gais 'budd anrhagweledig' sy'n golygu y gallai cais am fferyllfa gael ei gytuno hyd yn oed os na fydd asesiad anghenion fferyllol yn nodi'r angen am un. O'r herwydd, os bydd yr unig fferyllfa mewn ardal yn cau, nid oes yr un pwysau i gynhyrchu'r asesiad anghenion fferyllol nesaf er mwyn nodi'r angen am fferyllfa newydd sy'n darparu ystod benodol o wasanaethau. Yng Nghymru, os bydd fferyllfa'n cau, byddai'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynhyrchu ei asesiad anghenion fferyllol nesaf, ymgynghori arno am 60 niwrnod, ystyried unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud, ei gyhoeddi ac yna aros am geisiadau, gyda'r cyfan yn cymryd sawl mis. O'r herwydd, teimlodd y bwrdd iechyd ei fod yn briodol ceisio diogelu'r asesiad anghenion fferyllol hwn at y dyfodol gymaint â phosib er mwyn lleihau'r amser rhwng fferyllfa'n cau ac un newydd yn gallu cyflwyno cais.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn ymwybodol fod rhai asesiadau anghenion fferyllol yn Lloger wedi adnabod angen am oriau agor estynedig, er gwaethaf y ffaith nad yw oriau agor yn wasanaeth fferyllol.

Bydd yr asesiad anghenion fferyllol yn cael ei ddefnyddio gan gontractwyr presennol a newydd yn hytrach nag aelodau'r cyhoedd ac am y rheswm hwn ni fydd fersiwn hawdd ei ddarllen yn cael ei gynhyrchu.

## 4 Ymatebion oddi ar y system

Cyflwynodd Meddygfa sylwadau ar un elfen benodol, sef yr angen a nodwyd am fferyllfa ym Metws-y-Coed. Mae eu sylwadau wedi'u cynnwys air am air (yn y Saesneg – cyfieithiad isod).

"Gweler ein sylwadau ynghylch asesiad o anghenion Fferyllol Betws-y-coed. Nid yw'r rhain wedi newid ers i Boots UK Ltd wneud cais yn 2013.

Mae ein sylwadau yn seiliedig ar y ffaith nad oes angen gwasanaeth dosbarthu pellach ac nad yw'n debygol o fod o fudd i ofal cleifion. Yn wir, bydd yn niweidiol i'r ddarpariaeth gofal cychwynnol presennol ym Metws y Coed.

Ar hyn o bryd rydym yn dosbarthu i 90% o'n rhestr o 2,703 o gleifion. Mae'r cleifion nad ydym yn eu dosbarthu iddynt ar hyn o bryd yn byw o fewn milltir i'r fferyllfa yn Llanrwst. Ar hyn o bryd rydym yn dosbarthu i bob claf sy'n byw yn y gymdogaeth a nodwyd yn y fferyllfa arfaethedig.

Yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth gyfredol pe bai'r fferyllfa'n agor ym Metws y Coed byddem yn colli'r hawl i ddosbarthu i gyfran sylweddol o'n cleifion, a byddai hyn wrth gwrs yn arwain at ostyngiad yn incwm y practis. Fodd bynnag, er mwyn parhau i ddosbarthu yn ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol i'r cleifion sy'n weddill, byddai angen inni gynnal y lefelau staff presennol (rhaid i ddau aelod o staff hyfforddedig fod ar gael bob amser i wirio gweithdrefnau). Mae'n bosibl rhagweld sefyllfa lle na fyddai'n ymarferol yn ariannol parhau i ddarparu gwasanaethau dosbarthu. Byddai hyn yn arwain at golli gwasanaethau i bob claf.

Ni fyddai'r incwm a gynhyrchir ar gyfer gwasanaethau dosbarthu os collid hwy, wedyn ar gael i'w ail-fuddsoddi yn y feddygfa. Mae'r incwm hwn yn caniatáu i Feddygfa Gyffredinol fechan ddarparu gwasanaeth rhagorol sydd wedi'i raddio'n uchel gan gleifion, y Cyngor Iechyd Cymunedol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader [sic] ymhlith eraill.

Ni fyddem yn gallu parhau i gyflogi llawer o'n staff. Mae rhai o'r staff hyn nid yn unig yn gweithio yn y Fferyllfa ond hefyd mewn meysydd eraill fel Cymorth Gofal Iechyd. Felly, byddai gwasanaethau i bob claf yn dioddef.

Yn ddiweddar rydym wedi cyflogi meddyg teulu cyflogedig ychwanegol i gynyddu nifer yr apwyntiadau Meddygon sydd ar gael. Efallai y byddai’n rhaid gwrthdroi’r penderfyniad hwn hefyd. Disgwylir i'r cyllid canolog i Feddygfeydd Cyffredinol ostwng yn ystod yn y blynyddoedd nesaf oherwydd y bwriad i roi’r gorau i dalu arian gwarant isafswm incwm practis yn ôl, ac mae hyn yn wyneb llwyth gwaith sy'n codi a disgwyliadau cynyddol gan gleifion. Y realiti yw y byddai colli incwm pellach dosbarthu meddyginiaethau’n peryglu hyfywedd y Feddygfa Gyffredinol ym Metws y Coed yn ddifrifol.

Byddem yn dadlau'n gryf y byddai colli'r Gwasanaethau Dosbarthu yn y practis yn niweidiol i ofal cleifion yn gyffredinol. Ar hyn o bryd rydym yn darparu gwasanaeth diogel ac economaidd effeithlon, rhagorol i'n cleifion. Mae'r practis yn rhagnodi'n effeithlon ac yn ddiogel fel y dangosir gan ein cyfranogiad yn yr uwch wasanaeth rhagnodi lleol a'r uwch wasanaethau dosbarthu. Rydym yn rhagnodi ac yn dosbarthu o fewn y gyllideb ac yn cynilo yn ôl yr angen flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rydym bob amser yn cwrdd â'r holl dargedau a osodwyd gan y Tîm Rhagnodi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader, sy'n canmol gwasanaeth y Feddygfa. Yn bwysicaf oll, mae'r cleifion yn derbyn gwasanaeth rhagorol ac amserol oherwydd ein bod ni'n “Siop Un Stop”. Mae presgripsiynau a roddir mewn ymgynghoriadau yn cael eu dosbarthu i'r mwyafrif o gleifion ar unwaith heb fod angen taith bellach; parcio car ac ati (mae gan y practis ddarpariaeth ragorol ar gyfer parcio gyda Maes Parcio mawr).

Mae ymholiadau a godir gan gleifion yn cael eu hateb ar unwaith gan fod y Meddygon ar y safle a gellir datrys unrhyw anghysondebau mewn modd amserol. Mae'n hawdd iawn gweld sefyllfa, lle, pe na bai meddygfa ar gael, y byddai'n rhaid i glaf deithio cyn belled ag ASDA yn Llandudno i gael meddyginiaeth frys. Oherwydd y cyswllt agos rhwng rhagnodi a dosbarthu rydym yn darparu Gwasanaeth Rhagnodi Ailadroddus effeithlon a diogel iawn. Dau ddiwrnod gwaith yw'r cyfnod ar gyfer ceisiadau am feddyginiaeth ailadroddus. Rydym yn sicrhau trwy'r cyswllt agos hwn mai dim ond y feddyginiaeth sydd ei angen y bydd cleifion yn ei gael yn hytrach na derbyn popeth ar eu rhestr ail-feddyginiaeth. Mae hyn yn arwain at ragnodi'n ddiogel gyda chyn lleied o wastraff â phosibl. Rydym yn ymwybodol nad yw hyn bob amser yn wir lle mae fferyllfeydd masnachol yn gwneud y gwaith.

Mae Staff y Feddygfa'n adnabod y cleifion yn dda iawn, rhywbeth na all staff locwm a ddefnyddir yn aml mewn fferyllfeydd masnachol lleol fanteisio arno. Mae'r wybodaeth yma am gleifion yn arwain at well gwasanaeth i gleifion ac yn aml at ragnodi'n fwy diogel, yn arbennig ar gyfer cleifion bregus yn y Gymuned. Mae'r practis yn darparu gwasanaeth cludo am ddim ar gyfer presgripsiynau i'r Fferyllfa yn Llanrwst ar gyfer cleifion nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth Dosbarthu, yn ogystal â meddyginiaeth i gleifion oedrannus a chleifion sy'n gaeth i'w cartrefi. Byddai hyn dan fygythiad pe byddem yn colli cyllid y fferyllfa.

Mae ein fferyllfa ar agor yn llawn rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, nid ydym yn cau am ginio, a gellir dosbarthu meddyginiaethau bob amser yn ystod yr oriau hynny. Gall cleifion archebu presgripsiynau ailadroddus yn bersonol, ar-lein, a thrwy'r post, E-bost neu ffacs. Byddem yn dadlau y dylid gosod unrhyw fantais y fod fferyllfa yn agor am oriau hirach, yn enwedig ar benwythnosau, yn erbyn y ffaith y byddai'n rhaid yn ôl y gyfraith i unrhyw Fferyllydd sy'n gweithio yn y Fferyllfa Boots gael egwyl ginio am awr pan na fyddai modd dosbarthu. Mae'n debygol y byddai'r oriau gwirioneddol pan fyddai dosbarthu ar gael mewn Fferyllfa Fasnachol yn llai na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd gan y Practis.

Byddai angen presgripsiwn ar y rhai sydd ar eu gwyliau ar gyfer unrhyw beth heblaw symiau bach iawn o gyflenwadau brys ac felly byddai angen iddynt ymweld â'r feddygfa i gael presgripsiwn. Mae meddyginiaethau sylfaenol dros y cownter eisoes ar gael yn eang yn y pentref saith diwrnod yr wythnos.

Mae llawer o'r gwasanaethau eisoes ar gael am ddim yn y Feddygfa, er enghraifft Gwiriadau Iechyd, Cyngor Rhoi'r Gorau i Ysmygu, Cyngor Atal Cenhedlu ac ati, a chan ein bod ar hyn o bryd yn gallu darparu mynediad hawdd yr un diwrnod i naill ai Meddyg neu Nyrs Rhagnodi, byddem yn dadlau na fyddai unrhyw wasanaeth arall yn darparu fawr o fantais i'r boblogaeth leol. Mae'n ymddangos nad oes angen darparu gwasanaethau o'r fath ymhellach gan fenter Fasnachol ac y byddai yn amharu ar y Gwasanaethau Meddygon Teulu ym Metws y Coed yn ei gyfanrwydd.

I grynhoi, rydym yn dadlau nad oes angen gwasanaethau gan fferyllfa ychwanegol ym Metws-y-Coed. Mae'r gwasanaethau hyn eisoes yn cael eu darparu gan bractis modern, cyfleus, hygyrch sy'n canolbwyntio ar y claf. Byddai rhoi caniatâd ar gyfer Fferyllfa yn golygu y byddai'r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol yn gwaethygu ac yn arwain at dranc y Gwasanaethau Gofal Cychwynnol ym Metws-y-Coed, neu ar y

gorau yn gadael y practis yn brwydro i oroesi ac ond yn gallu darparu gwasanaethau cyfyngedig i gleifion."

Gwnaeth contractwr fferylliaeth sylw ar y pwynt hwn.

"Rydym yn credu y bydd Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad ar ran yr holl gontractwyr fferylliaeth yn ardal y Bwrdd Iechyd a chodi unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r holl gontractwyr. Fodd bynnag, rydym yn dymuno cymryd y cyfle i gyflwyno sylwadau penodol o ran yr angen a nodwyd o fewn y PNA drafft ar gyfer fferylliaeth o fewn pentref Betws-y-Coed yn ardal Gorllewin Conwy.

Mae'r map ar dudalen 219 o'r PNA drafft yn dangos y practis rhagnodi ym Metws-y-Coed a'r fferyllfa agosaf sef Fferyllfa Boots yn Llanrwst. Mae'r fferyllfa yn Llanrwst ar agor drwy'r dydd, chwe diwrnod yr wythnos ac mae'n darparu ystod eang o wasanaethau i fodloni anghenion y preswylwyr a'r boblogaeth sy'n ymweld fel a ddangosir ar y mapiau ar dudalennau dilynol y PNA. Mae gan Lanrwst boblogaeth o oddeutu 3,300 sydd o dan y cyfartaledd cenedlaethol o gleifion i bob fferyllfa.

O ystyried presenoldeb practis sy'n rhagnodi ym mhentref Betws-y-Coed, credwn fod ardal ehangach Betws-y-Coed wedi cael ei ddosbarthu yn flaenorol fel ardal leol reoledig, a chan fod poblogaeth y pentref ei hun yn 560 o bobl yn unig, fe all gael ei ystyried yn lleoliad neilltuedig. Deallwn na ddylai cais mewn lleoliad neilltuedig fod yn destun 'prawf rhagfarn' sy'n berthnasol mewn lleoliadau rheoledig (Rheoliad 16(3)).

Tra rydym yn gwerthfawrogi mai'r blaenoriaeth ar gyfer y BILI yw bodloni anghenion cleifion yn yr ardal, rydym yn credu y gallai caniatau cais ym Metws-y-Coed gael effaith ar ddarpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol yn yr ardal yn y tymor hir.

I grynhoi, rydym yn gofyn yn barchus wrth adolygu'r asesiad anghenion fferyllol drafft, fod y BILI yn ystyried p'un ai y gall caniatáu cais fferyllfa newydd ym Metws-y-Coed achosi rhagfarn yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol gan y darparwyr agosaf nes y gallai arwain at ostyngiad mewn mynediad at wasanaethau fferyllol i gleifion yn yr ardal ehangach rhyw bryd yn y dyfodol."

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r holl sylwadau a dderbyniwyd ynghylch yr angen dynodedig am fferyllfa ym Metws-y-Coed sy'n darparu ystod o wasanaethau penodol, saith niwrnod yr wythnos. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ar ddarpariaeth un gwasanaeth, sef y gwasanaeth rhagnodi. Fodd bynnag, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r angen am ystod ehangach o wasanaethau i gael eu darparu i'r preswylwyr a'r boblogaeth sy'n ymweld, yn enwedig ar adegau pan fydd y practis ar gau. Fel y cyfryw, byddai'r fferyllfa yn ychwanegu at yn hytrach na disodli'r holl neu ran o'r ystod o wasanaethau a ddarperir gan y feddygfa.

Petai cais yn cael ei dderbyn yna mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ystyried p'un ai yw mewn lleoliad neilltuedig gan fod Betws y Coed yn rhan o leoliad reoledig fwy. Os penderfynir fod y fferyllfa o fewn lleoliad neilltuedig, bod y cais yn cael ei ganiatáu a'r fferyllfa yn agor, yna bydd y rhai sy'n byw o fewn 1.6km yn parhau i fod yn gleifion rhagnodi a byddai'n bosib parhau i ragnodi iddo gan eu meddygfa MT. Os penderfynir nad oedd fferyllfa o fewn lleoliad neilltuedig yna byddai'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried prawf rhagfarn, ac yn seiliedig ar yr wybodaeth o'i flaen, penderfynu

p’un ai fyddai caniatau’r cais yn niweidiol i ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol, gwasanaethau meddygol cychwynnol a’r gwasanaeth rhagnodi MT. Petai’r bwrdd iechyd o’r farn y byddai caniatau cais yn achosi niwed yna byddai’n derbyn cyfarwyddyd i wrthod y cais. Felly’n nid yw’n fater petai cais yn cael ei dderbyn y byddai’r practis yn bendant yn colli unrhyw gleifion rhagnodi, nac y byddai’r cais yn cael ei ganiatau.

Rhoddodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW) ymateb cynhwysfawr i gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae eu sylwadau wedi'u cynnwys air am air yn y Saesneg (cyfieithiad isod).

**4.1 A eglurwyd pwrpas yr asesiad o anghenion fferyllol?**

Yn y cyflwyniad yn 1.1 Pwrpas yr Asesiad Anghenion Fferyllol dywedir: “*Yn gyffredinol, rhaid i'w cais gynnig diwallu angen a nodir yn Asesiad y Bwrdd Iechyd* ”.

Gellid camddehongli'r geiriau “yn gyffredinol” i olygu bod senario eithriadol a allai ganiatáu i rywun wneud cais am fferyllfa newydd; yn debyg i'r Budd Annisgwyl yn Lloegr, lle hyd yn oed os nad yw’r Asesiad yn nodi angen cyfredol neu yn y dyfodol am fferyllfa newydd gellir gwneud cais i sicrhau gwelliannau neu fynediad gwell at wasanaethau.

Efallai y byddai'n fuddiol amlinellu ym Mhennod 1 y mathau o geisiadau a ystyrir yn yr Asesiad er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

Nid yw cais am newidiadau mewn perchnogaeth ac adleoli am resymau busnes eu natur (ee prydles wedi dod i ben ac angen adeilad newydd) o dan Reoliad 15 (1) 9b) (ii) yn cael eu penderfynu yn erbyn yr Asesiad felly gallai fod yn werth egluro hyn.

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r sylw hwn ac wedi newid yr asesiad anghenion fferyllol yn unol â hynny.

**4.2 A yw'r asesiad anghenion fferyllol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol yn eich ardal chi?**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi defnyddio'r wybodaeth a gyflwynwyd gan gontractwyr fferyllfeydd fel rhan o ymarfer Cronfa Ddata Fferylliaeth Cymru Gyfan (AWPD) a gwblhawyd y llynedd i bennu'r ddarpariaeth fferylliaeth gymunedol gyfredol. Er nad yw'r manylion os yw contractwr fferyllol yn darparu pob un o'r gwasanaethau Uwch a Gwell wedi'u cynnwys yn yr Asesiad, hyderwn fod BIPBC wedi dadansoddi'r data yn gadarn ac yn diweddaru unrhyw newidiadau cyn eu cyhoeddi.

Mae’r bwrdd iechyd yn cadarnhau fod y ddogfen wedi’i diweddaru i gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau i’r oriau agor a chomisiynu gwasanaethau uwch sydd wedi digwydd ers i’r fersiwn ymgynghori gael ei ddrafftio. Mae gwybodaeth ar y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i’w gweld yn adran 7 isod.

**4.3 A oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth, hy pryd, ble a pha wasanaethau nad ydynt ar gael nad ydynt wedi'u nodi yn yr asesiad o anghenion fferyllol?**

Mae'r amseroedd (hy oriau agor), ble (lleoliad y fferyllfeydd, contractwyr offer a meddygon dosbarthu) a pha wasanaethau y maent yn eu darparu wedi'u nodi gan BIPBC at ddibenion yr Asesiad gan ddefnyddio data sydd ar gael o amrywiol ffynonellau yn cynnwys yr AWPD. Nid yw CPW mewn sefyllfa i wirio'r wybodaeth hon.

**4.4 A yw'r asesiad anghenion fferyllol drafft yn adlewyrchu anghenion poblogaeth eich ardal?**

Mae BIPBC wedi nodi anghenion nas diwallwyd mewn perthynas â'r canlynol:

- Darpariaeth gyfredol o Wasanaethau Hanfodol ar adegau penodol o'r dydd neu ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos
- Darpariaeth gyfredol rhai Gwasanaethau Gwell mewn rhai ardaloedd yn ystod oriau agor arferol ac oriau estynedig, gan gynnwys penwythnosau; Atal Cenhedlu Hormonaidd Brys yn bennaf (EHC), Gwasanaeth Cyflyrau Cyffredin (CAS) a Chyflenwad Meddygaeth Frys (EMS), er bod anghenion cyfredol ar gyfer rhoi’r gorau i ysmygu, brechu rhag y ffliw, a gwasanaethau cyfnewid chwistrelli a nodwyddau hefyd wedi’u hadnabod.
- Darparu Gwasanaethau Hanfodol a Gwell yn y dyfodol ar rai adegau o'r dydd neu ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos neu yn ystod rhai misoedd o'r flwyddyn

Mae BIPBC hefyd wedi gwneud datganiadau rhagdybiaethol mewn perthynas â’r anghenion isod:

- Gwasanaethau Hanfodol ar rai diwrnodau o'r wythnos oherwydd newidiadau i oriau atodol.
- Gwasanaethau Hanfodol oherwydd cau fferyllfeydd y tu allan i drefi penodol.
- Gwasanaethau Gwell oherwydd cau fferyllfeydd y tu allan i drefi penodol.
- Gwasanaethau Dosbarthu Meddygon

Mae CPW yn rhoi sylwadau manylach ar yr anghenion a nodwyd uchod ac anghenion y’i rhagdybir.

Yn gyntaf, fel egwyddor drosfwaol, mae CPW yn teimlo ei bod yn bwysig bod y Bwrdd Iechyd, wrth ddod i gasgliad ar yr angen am unrhyw un o'r gwasanaethau fferyllol uchod, yn cyfeirio at wasanaethau angenrheidiol yn hytrach na dymunol.

Er ei bod yn hwylus a dymunol sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu ym mhob fferyllfa, gan gynnwys y tu allan i oriau arferol, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried o ddifrif a oes angen cael gwasanaeth penodol mewn ardal ar amser penodol. Mae ei nodi fel angen nas diwallwyd yn creu bwlch a gwahoddiadau dilynol i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

Pan nodir angen nas diwallwyd, dylid cynnwys tystiolaeth gadarn ar gyfer yr angen hwnnw yn yr Asesiad a dylid ystyried y rhesymau dros fethiant y contractwyr fferyllfeydd presennol i ddarparu'r gwasanaeth.

a) DARPARIAETH BRESENNOL GWASANAETHAU HANFODOL AR AMSERAU PENODOL YN Y DYDD NEU AR DDYDDIAU PENODOL O'R WYTHNOS

Mewn nifer o'r ardaloedd mae BIPBC wedi nodi bod angen i rai fferyllfeydd fod ar agor i ddarparu gwasanaethau hanfodol o ddydd Llun i ddydd Gwener tan 18:30; ac ar ddydd Sadwrn am 3 awr neu ar ddydd Sul am 3 awr.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dewis amser teithio o 20 munud mewn car fel safon mynediad briodol, waeth pa mor wledig yw'r ardal na pha bynnag ddiwrnod yr wythnos. Mewn ardaloedd gwledig fel Meirionnydd mae pobl wedi arfer ag, ac yn disgwyl, teithio cryn bellter i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau fel archfarchnadoedd, canolfannau hamdden a hyd yn oed gwasanaethau meddygol. Mewn ardaloedd poblog iawn fel Sir y Fflint, mae'r boblogaeth yn gyfarwydd â chael mynediad cyfleus i wasanaethau yn agos at adref yn ystod oriau arferol; fodd bynnag, ar benwythnosau, unwaith eto byddai'n dderbyniol i'r mwyafrif deithio am gyfnod hirach er mwyn cael mynediad at rai gwasanaethau. Mewn ardaloedd gwledig rhwng 9 am-5pm ar ddydd Sadwrn efallai na fyddai yn afresymol i 90% o'r boblogaeth gael mynediad i fferyllfa o fewn amser teithio gyrru o 30 munud; yn hwy o bosibl ar ddydd Sul. Mae'n anodd deall pam, mewn ardal sydd â daearyddiaeth mor amrywiol, yn amrywio o rai o rannau mwyaf gwledig y DU i ardaloedd trefol diwydiannol iawn, fod yr un safon mynediad amser teithio wedi'i ddefnyddio.

Pwyntiau eraill i'w nodi:

- Yn ystod datblygiad y gwasanaeth Gofal Diwedd Oes cytunwyd ar amser gyrru o 30 munud a;
- Nid yw'n eglur a yw mynediad at feddygon dosbarthu wedi'i fapio. Os na, pam hynny?

Os nodir bwlch yn y ddarpariaeth, atgoffir y Bwrdd Iechyd bod darpariaeth ar gael i sicrhau'r oriau ychwanegol sy'n ofynnol trwy gomisiynu Gwasanaeth Gwell trwy Rota; lle nad yw hyn yn opsiwn, gall y Bwrdd Iechyd roi cyfarwyddyd ar oriau agor.

Nodir bod nifer o rotas yn gweithredu ar hyn o bryd, gan gynnwys mewn sawl safle yn Ynys Môn, rhwng 17:30 a 18:00; yn y lleoliadau hyn os oes angen oriau ychwanegol tan 18:30, byddai angen ymestyn y Gwasanaeth Rota tan yr amser hwnnw.

Deallir bod Gwasanaeth Rota yn y gorffennol yn gweithredu mewn nifer o'r ardaloedd y nodwyd eu bod bellach angen oriau ychwanegol. Datgomisiynwyd llawer o'r Gwasanaethau Rota Nosweithiol a Rota Dydd Sul yn dilyn archwiliad gweithgaredd gan fferyllfeydd ac adolygiad o'r gwasanaeth gan y Bwrdd Iechyd yn 2013. Erbyn hyn mae'n ymddangos bod y Bwrdd Iechyd yn gwrthdroi'r penderfyniad heb fod wedi cynnal unrhyw fath o archwiliad neu adolygiad o'r gwasanaeth i sefydlu beth sydd wedi newid ers yr adolygiad diwethaf. Nodir mai dim ond chwe chlaf ar

draws yr ardal gyfan a gwynodd am ddiffyg mynediad i fferyllfeydd oherwydd amseroedd agor.

Byddai angen cynnal adolygiad cadarn o'r sefyllfa bresennol cyn nodi'r angen am oriau ychwanegol. Os, yn dilyn adolygiad, y sefydlir bod angen oriau ychwanegol, byddai'n briodol ail-gomisiynu'r Gwasanaeth Rota a dylid cynnwys tystiolaeth o'r hyn sydd wedi newid yn y cyfnod ers i'r gwasanaeth gael ei ddatgomisiynu o fewn yr Asesiad.

**Mae CPW yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei safonau amser teithio mewn cerbyd, yn cynnal adolygiad cadarn o'r angen am oriau ychwanegol ac yn aralleirio'r Asesiad i adlewyrchu lle mae unrhyw angen am oriau ychwanegol yn cael ei nodi y tu allan i oriau craidd fferyllfa, y dylid yn y lle cyntaf dylid addasu'r Rota. Bydd Gwasanaeth Gwell yn cael ei gomisiynu gan ddefnyddio'r mecanweithiau comisiynu gwasanaethau gwell arferol. Lle nad yw hyn yn bosibl gellir rhoi cyfarwyddyd i ymestyn yr oriau hyn.**

b) DARPARIAETH GWASANAETHAU 'MWY' PRESENNOL A DDARPERIR MEWN RHAI LLEOLIADAU YN YSTOD ORIAU AGOR NORMAL AC ORIAU ESTYNEDIG, GAN GYNNWYS PENWYTHNOSAU; ATAL CENHEDLU HORMONAIDD BRYS (EHC), GWASANAETH CYFLYRAU CYFFREDIN (CAS) A CHYFLENWAD MEDDYGINIAETH BRYS (EMS), ER BOD ANGEN PRESENNOL AR GYFER ATAL YSMYGU, BRECHIADAU FFLIW, A CHYFNEWID NODWYDDAU WEDI CAEL EU HADNABOD.

Teimlir nad yw'r dystiolaeth a'r rhesymu yn yr Asesiad yn ddigon cadarn i gefnogi adnabod angen sydd heb ei ddiwallu. Er enghraifft:

Yn adran 15.6.6 (tudalen 306)

*Atal cenhedlu hormonaidd brys: Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:*

- *Comisiynwyd chwe fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Nid oes unrhyw fferyllfa sy'n darparu'r gwasanaeth yng ngogledd yr ardal.*
- *Darperir y gwasanaeth hefyd gan feddygfeydd teulu a chlinigau iechyd rhywiol*
- *Mae ffocws cynyddol ar atal cenhedlu gwrthdroadwy hir-weithredol ar gyfer cymwys benywod.*
- *Cadarnhaodd saith o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le o fewn eu hadeiladau a lefelau staffio presennol digonol i reoli cynnydd yn y galw*
- *307 am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Nid ydynt ond gellid gwneud addasiadau i wneud hynny.*

*Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod angen presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn yng Nghaerwys a Llanelwy, o ddydd Llun i ddydd Gwener o leiaf.*

Mae CPW yn gwneud nifer o sylwadau mewn perthynas â'r uchod:

- Nid yw'r fferyllfa yng Nghaerwys wedi'i nodi ar *Fap 101 - lleoliad fferyllfeydd a safle meddyg dosbarthu* nac unrhyw un o'r mapiau dilynol.

- *Nodir* "*Darperir y gwasanaeth hefyd gan feddygfeydd teulu a chlinigau iechyd rhywiol".* Yn Adran 15.4 - Gwasanaethau eraill y GIG – dywedir *"Mae'r meddygfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol: Darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys".* Mae'n anodd barnu bod absenoldeb gwasanaeth estynedig penodol yn gadael angen nas diwallwyd pan fydd darparwyr eraill ar gyfer y gwasanaeth; dim ond lle nad oes darpariaeth y dylid nodi angen.
- Nid oes unrhyw arwydd o'r amseroedd teithio ar gyfer gyrru i fferyllfeydd eraill a allai ddarparu gwasanaeth Atalgenhedlu brys gan gynnwys fferyllfeydd y tu allan i'r ardal fel y rhai yn yr Wyddgrug a'r Rhyl.
- Nid oes unrhyw fanylion am boblogaethau penodol Caerwys na Llanelwy. Beth yw'r ddemograffeg oedran? Er y dywedir mai'r ardal hon sydd â'r gyfradd beichiogrwydd uchaf ymhith yr arddegau, a yw'r ystadegyn hwn yn trosglwyddo i'r llefydd penodol hyn? A fyddai pobl ifanc yn eu harddegau yn defnyddio eu fferyllfa leol mewn pentref bach iawn i gael atal cenhedlu brys?

Dim ond un enghraifft yw'r uchod. Wrth ystyried anghenion, awgrymir bod y Bwrdd Iechyd o leiaf yn dadansoddi ac yn rhoi tystiolaeth am:

- Y darparwyr eraill sy'n cynnig y gwasanaeth gan gynnwys meddygon teulu, clinigau arbenigol a'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ac ati. Mae'n anodd barnu bod absenoldeb gwasanaeth mwy penodol yn gadael angen nas diwallwyd pan fydd darparwyr eraill yn cynnig y gwasanaeth; dim ond lle nad oes darpariaeth y dylid nodi angen o fewn amser teithio rhesymol.
- Yr amser teithio mewn cerbyd i fferyllfeydd eraill a darparwyr eraill y gwasanaeth yn yr ardal a'r tu allan iddi: Os gall 90% o boblogaeth gael mynediad at wasanaeth o fewn 20 munud o amser teithio mewn cerbyd yn ystod oriau gwaith arferol mae'n anodd dweud bod angen. Byddai disgwyl i'r amser teithio mewn ardal wledig a thu allan i oriau gwaith arferol fod yn hirach ee 30 munud.
- Demograffeg y boblogaeth a'r angen i unrhyw grŵp cleifion penodol fanteisio ar y gwasanaeth o leoliad penodol iawn.

Er bod CPW yn annog pob contractwr fferyllol i ddarparu'r gwasanaethau hyn lle bynnag y bo modd, mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn deall pam nad yw contractwyr presennol o bosibl yn darparu'r gwasanaeth. Gall rhesymau posibl gynnwys: nad yw'r gwasanaeth yn ariannol hyfyw gan nad oes galw lleol amdano; dim digon o atgyfeiriadau at y gwasanaeth; materion gweithlu ac ati.

Mae rhai o'r anghenion am wasanaethau mwy wedi'u nodi fel rhai sy'n ofynnol y tu allan i oriau arferol ee ar ddydd Sul. Unwaith eto, rhaid cael tystiolaeth gadarn o'r angen am y gwasanaethau hyn, a lle profir bod angen, gall Gwasanaeth Rota gael ei gomisiynu fel y soniwyd ym mhwynt a) uchod.

O gofio'r pwyntiau uchod, rydym yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn ailasesu'r angen am Wasanaethau Gwell a lle mae angen yn cael ei nodi y tu hwnt i amheuaeth, dylid rhoi tystiolaeth gadarn o hyn yn yr Asesiad**.**

Er bod CPW yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd yn ei uchelgais i gael yr holl Wasanaethau Gwell allweddol gan bob fferyllfa ac yn dymuno gweithio gyda chontractwyr a BIPBC i gyflawni hyn, atgoffir y Bwrdd Iechyd fod yr Asesiad **yn ddogfen swyddogol i sefydlu trefniadau Mynediad i'r Farchnad** ; Ni chafodd ei gynllunio i fod yn broses i 'annog' contractwyr i wella'r modd y darperir gwasanaethau ac nid yw'n briodol ei defnyddio felly.

**Byddem yn awgrymu bod yr Asesiad yn cael ei aralleirio i adlewyrchu'r angen i ddarparwyr gwasanaethau fferyllol presennol a'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'i gilydd i gynyddu argaeledd a derbyniad y gwasanaeth, yn hytrach na nodi "bwlch ffurfiol yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol".**

c) DARPARIAETH YN Y DYFODOL GWASANAETHAU HANFODOL AC AILGYLCHU AR DDYDDIAU PENODOL O'R WYTHNOS YN YSTOD MISOEDD PENODOL O'R FLWYDDYN

Mae BIPBC wedi nodi bod angen i fferyllfa yn Llangefni ddarparu gwasanaethau hanfodol ar brynhawn Sul rhwng Ebrill a Hydref bob blwyddyn o'r 1af o Ebrill 2022, oherwydd cynnydd yn y boblogaeth yn ystod tymor y gwyliau.

Mae anghenion hefyd wedi'u nodi yn Amlwch, Benllech, Llangefni a Rhosneigr ar ddydd Sul rhwng Ebrill a Hydref, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2022, ar gyfer Atal Cenhedlu Hormonaidd Brys, Gwasanaeth Cyflyrau Cyffredin, a Meddygaeth Frys oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y tymor gwyliau.

Unwaith eto, fel yr amlinellwyd ym mhwyntiau a) a b) uchod, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddangos yr angen am y gwasanaethau hyn, ac ar ben hynny dystiolaethu'r rhesymau bod y boblogaeth wyliau yn gofyn yn benodol am wasanaeth prynhawn Sul (ee cynnydd yn nifer yr achosion y tu allan i oriau ceisiadau am gyflenwadau meddyginiaethau brys) pryd y bydd disgwyl i'r boblogaeth breswyl reoli heb un rhwng Tachwedd a Mawrth.

Os nodir bwlch yn y ddarpariaeth yna atgoffir y Bwrdd Iechyd bod posib sicrhau'r oriau ychwanegol sy'n ofynnol trwy gomisiynu Gwasanaeth Gwell Rota; os nad yw hyn yn opsiwn gall y Bwrdd Iechyd roi cyfarwyddyd ar oriau agor.

**Mae CPW yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei safonau amser teithio gyrru, yn cynnal adolygiad cadarn o'r angen am oriau a gwasanaethau ychwanegol yn ystod y cyfnod gwyliau, ac yn aralleirio'r Asesiad i adlewyrchu lle mae unrhyw angen am oriau ychwanegol yn cael ei nodi y tu allan i oriau craidd fferyllfa., yn y lle cyntaf, y bydd Gwasanaeth Gwell Rota yn cael ei gomisiynu gan ddefnyddio'r mecanweithiau comisiynu gwasanaethau gwell arferol. Lle nad yw hyn yn bosibl gellir rhoi cyfarwyddyd penodol ar oriau.**

d) MAE BIPBC WEDI GWNEUD DATGANIADAU DYHEADOL YNGHYLCH COLLI GWASANAETHAU HANFODOL AR DDYDDIAU PENODOL O'R WYTHNOS OHERWYDD NEWIDIADAU I ORIAU ATODOL; GWASANAETHAU HANFODOL AC OHERWYDD CAU FFERYLLFEYDD Y TU ALLAN I DREFI PENODOL;

GWASANAETHAU MWY OHERWYDD CAU FFERYLLFEYDD Y TU ALLAN I DREFI PENODOL a GWASANAETHAU DARPARU GAN FEDDYFEYDD.

Fel rhan o'i asesiad o angen yn y dyfodol, mae BIPBC wedi ystyried yn ddyfaliadol ar effaith colli oriau atodol; colli gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau gwell a,rhoi'r gorau i Wasanaethau Dosbarthu gan Feddygfeydd, a gwneud y datganiadau canlynol:

- *Colli oriau agor atodol mewn unrhyw ardal ar ddydd Sadwrn o 1 Ebrill 2021 - Bydd angen tair awr agor craidd yn y dyfodol ar ddydd Sadwrn yn y dref / pentref lle mae'r gostyngiad mewn oriau agor atodol wedi digwydd, rhwng 09.00 a 17.00.*
- *Colli gwasanaethau hanfodol oherwydd cau fferyllfa y tu allan i drefi penodol - Bydd angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd yn yr un dref / pentref gan ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod, o leiaf, yr un oriau agor craidd ac atodol â'r fferyllfa sydd wedi cau.*
- *Colli darpariaeth atal cenhedlu hormonaidd brys, y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, a meddyginiaethau brys o fewn y gwasanaethau gwell gan fferyllfa mewn tref / pentref sydd y tu allan i drefi penodol - Bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaethau gwell hyn gael eu darparu yn yr un dref / pentref yn ystod, o leiaf, yr un oriau agor craidd ac atodol â'r fferyllfa sydd wedi peidio â'u darparu.*
- *Pe bai meddygfa yn peidio â dosbarthu i ardal y mae ganddo gydsyniad amlinellol ar ei chyfer, bydd angen yn y dyfodol i'r gwasanaeth dosbarthu meddygon teulu gael ei ddarparu i'r ardal honno tra bydd yn parhau i fod yn ardal reoledig ac yn fwy na 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa*

Mae canllawiau anstatudol Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn nodi:

***Dim ond anghenion y mae angen eu diwallu ar unwaith neu a fydd yn codi o fewn oes yr Asesiad a ddylid eu cynnwys yn yr Asesiad.***

**Mae datganiadau'r Bwrdd Iechyd yn ddamcaniaethol a dylid eu tynnu o'r Asesiad.** Yn ogystal, mae'r canllawiau anstatudol yn nodi:

*Os oes newidiadau naill ai i'r anghenion am wasanaethau fferyllol neu i argaeledd gwasanaethau fferyllol o fewn y cylch pum mlynedd, a bod y newidiadau hynny'n berthnasol i geisiadau mynediad i'r farchnad, bydd angen i'r BILl ystyried a ddylid mynd trwy'r broses o adolygu'r Asesiad ai peidio. Fodd bynnag, nid oes angen i'r BILl fynd trwy'r broses honno, pe bai gwneud hynny'n ymateb anghymesur i'r newidiadau. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw ar gymesuredd, bydd angen i'r BILl ystyried y ffaith, os yw'r newidiadau i anghenion, na fydd gan y BILl opsiwn i gael datganiad atodol, ond os yw'r newidiadau i argaeledd gwasanaethau, bydd gan y BILl yr opsiwn hwnnw.*

**Os bydd unrhyw un o'r newidiadau uchod yn digwydd, ar adeg y digwyddiad bydd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd asesu'r newid mewn amgylchiadau a phenderfynu a oes angen asesiad diwygiedig neu ddatganiad atodol.**

e) GWASANAETHAU DARPARU GAN FEDDYG YN DOD I BEN

Mae adran 10.6.17 yn nodi *"pe bai meddyg teulu yn rhoi'r gorau i ddosbarthu i ardal y mae ganddo gytundeb amlinellol ar ei gyfer, bydd angen i feddyg teulu ddosbarthu yn y dyfodol ....*" Nid yw CPW yn credu y dylid rhoi "cymeradwyaeth" awtomatig i Feddyg Dosbarthu ddosbarthu yn yr un ardal. **Dylid ymgymryd â phroses o asesu unrhyw newidiadau i'r ardal reoledig ac anghenion fferyllol, a allai bennu mai fferyllfa fyddai'n gallu diwallu'r anghenion fferyllol orau.**

f) GWASANAETHAU NAD YDYNT YN CAEL EU DARPARU GAN Y GIG

Yn Adran 20.6 Bylchau yn y Ddarpariaeth:

Dywed y Bwrdd Iechyd y nodir bod *fferyllfa breifat ym Mharc Manwerthu Plas Coch. Er na fydd yn darparu gwasanaethau fferyllol, bydd yn gallu darparu cefnogaeth ar gyfer hunanofal a gwerthu meddyginiaethau i'r rhai sy'n ceisio cyngor. Mae gan y fferyllfa ystafell ymgynghori ac mae'n darparu ystod o wasanaethau preifat gan gynnwys brechiadau (arferol a theithio), atal cenhedlu brys, ac archebu presgripsiynau'r GIG.*

Nid yw'r rheswm dros berthnasedd y fferyllfa nad yw o dan Gontract y GIG wedi'i egluro'n llawn ac nid yw'n glir pam y cyfeirir ati mewn adran ar Fylchau Mewn Darpariaeth. Efallai y bydd Byrddau Iechyd yn ystyried gwasanaethau eraill a fydd, er eu bod y tu allan i ddiffiniadau gwasanaethau fferyllol a gwasanaethau eraill y GIG, yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol yn eu hardal. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal wrth roi gormod o bwysau ar wasanaethau o'r fath gan y gellir eu tynnu'n ôl ar unrhyw adeg ac nad oes sicrywdd cytundeb ar eu cyfer. Gellir dweud yr un peth am wasanaethau cyflenwi. Efallai y byddai'n well manylu ar y gwasanaethau hyn mewn adran o'r enw Gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y GIG

g) MAE BIPBC WEDI NODI ANGEN AM FFERYLLFEYDD NEWYDD I DDARPARU YSTOD O WASANAETHAU FFERYLLOL
Mae'r Asesiad drafft wedi nodi angen yn y dyfodol am fferyllfa newydd i ddarparu gwasanaethau fferyllol ym Metws-y-Coed a Thowyn (nodir nad yw Towyn yn ymddangos yn y Crynodeb Gweithredol).

**Betws-y-coed**

Mae Betws-y-coed yn ardal wledig iawn. Yn unol â chyngor canllaw anstatudol Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020:

*….oni bai bod y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu tystiolaeth trwy fap wedi'i amlinellu o'u hardaloedd rheoledig ni fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu cymryd unrhyw gamau ar unrhyw gais y mae'n ei dderbyn nes iddo gael ei benderfynu bod y cais mewn ardal reoledig ai peidio. …*

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth y gallai fod angen fferyllfa ym Metws-y-coed a byddem yn ymddiried bod y rheoliadau sylfaenol wedi'u dilyn; gan gynnwys yr angen

i benderfynu ar ardal reoledig wedi’i dangos ar fap wedi'i ddiffinio a gedwir gan y Bwrdd Iechyd. Os nad yw hyn wedi digwydd, byddai cynnwys y mater hwn yn yr Asesiad wedi bod yn gynamserol.

**Towyn**

Mae Adran 13.6.1 Gwasanaethau Hanfodol yn nodi *bod angen cyfredol am fferyllfa yn Nhowyn i fod ar agor chwe diwrnod yr wythnos gydag o leiaf tair awr agor craidd ar naill ai dydd Sadwrn neu ddydd Sul*.

Yn y pwyntiau blaenorol ar dudalen 256 yr unig ddatganiad a wnaed a allai gefnogi hyn yw:

*Mae poblogaeth yr ardal yn cynyddu yn ystod y gwyliau oherwydd mewnlifiad o ymwelwyr a thwristiaid*

Mewn Pennod gynharach, sonnir am *Breswylwyr Dros Dro*. Yn *Adran 2.3.1 Trigolion Carafanau Hirdymor* dywedir:

*Mae crynodiad uchel o safleoedd carafanau ar lain arfordirol Gogledd Cymru, yn bennaf o amgylch Bae Kinmel a Thowyn. Mae'n debygol y bydd nifer sylweddol o breswylwyr carafanau tymor hir yng Ngogledd Cymru sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd lleol.*

Mae CPW yn gwneud y sylwadau canlynol mewn perthynas â'r uchod:

- Mae'n ymddangos bod dau fath o drigolion parc carafanau; y rhai sy'n mynd ar wyliau byr a'r rhai sy'n breswylwyr tymor hir. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i awgrymu bod y naill na'r llall o'r poblogaethau hyn yn cynyddu'r galw am wasanaethau fferyllol.
- Mae llawer o breswylwyr carafanau (tymor hir a thymor byr) yn rhan o boblogaethau dros dro ac yn debygol o fod yn symudol ac yn gallu cyrchu gwasanaethau yn hawdd ar hyd yr arfordir ee ym Mae Kinmel neu ymhellach i ffwrdd pan fo angen.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagdybio, yn seiliedig ar astudiaeth yn Swydd Lincoln, fod nifer sylweddol o breswylwyr carafán yn breswylwyr tymor hir ac nad yw'r boblogaeth hon yn ymddangos yn unrhyw ddata'r cyfrifiad ac ati felly nid oes syniad da o faint o bobl all fod angen gwasanaethau iechyd. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod hyn yn wir yn Nhowyn. Pe bai preswylwyr y carafanau hyn yn aros yno yn y tymor hir byddai CPW yn disgwyl y byddent yn cael eu cofrestru gyda'r meddyg teulu lleol a dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'r Bwrdd Iechyd. Os nad ydyn nhw wedi cofrestru gyda meddyg teulu lleol maen nhw'n debygol o fod yn breswylwyr tymor byrrach ac wedi cofrestru gyda meddyg teulu yn rhywle arall ac efallai yn gallu cael gwasanaethau fferyllol o bell**.**
- Mae fferyllfa ym Mae Kinmel sydd bellter o 1.1 milltir i ffwrdd; taith 5 munud mewn cerbyd neu daith gerdded o 22 munud ar draws tir gwastad, o ganol Towyn. Mae hefyd ar lwybr bws gyda bysiau'n pasio bob 15 munud.

- Mae CPW yn ymwybodol fod fferyllfa wedi cau yn Nhowyn ym mis Ionawr 2020 a bod meddygfa gangen meddygon teulu wedi cau rywbryd cyn hyn. Mae hyn yn codi' cwestiwn am hyfywedd unrhyw fferyllfa yma.

**Nid yw'n ymddangos bod y ffactorau uchod na'r diffyg tystiolaeth ddemograffig a gyflwynir yn yr Asesiad drafft yn ddigon cryf i gefnogi'r achos dros fferyllfa yn Nhowyn.**

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried yr holl sylwadau a wnaed ynghylch yr anghenion dynodedig ac wedi newid neu dynnu nifer ohonyn nhw yn unol â hynny.

O ran yr angen dynodedig ar gyfer fferyllfa yn Nhowyn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi fod yna gynnydd mawr yn y boblogaeth yn ystod tymor y gwyliau oherwydd nifer yr ymwelwyr â'r ardal. Hefyd, y fferyllfeydd ym Mae Cinmel yw'r trydydd a'r bedwaredd fferyllfa brysuraf mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth uwch cyflenwad meddyginiaeth mewn argyfwng. Fel gyda'r angen dynodedig ar gyfer fferyllfa ym Metws y Coed, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r angen ar gyfer fferyllfa yn Nhowyn sy'n darparu ystod eang o wasanaethau ac nid gwasanaeth rhagnodi yn unig.
Mewn perthynas â'r pwyntiau eraill a wnaed:

- Nid yw'r fferyllfa yng Nghaerwys wedi'i gynnwys ym map 101 ond mae wedi'i gynnwys ym map 113. Nodwyd y dylai'r anghenion a nodwyd yng Nghaerwys fod yn ardal leol Gogledd Orllewin Sir y Fflint, yn hytrach nag ardal leol Canol a De Sir Ddinbych ac mae hyn wedi'i gywiro.
- Mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau eraill megis atal cenhedlu hormonaidd mewn argyfwng, mae gan fferyllfeydd yn aml oriau agor hirach ac felly fe fydd cyfnodau pan fydd fferyllfeydd ar agor ond darparwyr eraill ar gau.
- Nid yw'r holl ddata gofynnol ar gael ar y lefel a awgrymwyd. Fodd bynnag, disgwylir y bydd pobl angen mynediad at y gwasanaethau uwch ledled ardal y bwrdd iechyd, ac mewn perthynas â rhai o'r gwasanaethau, mae'r bwrdd iechyd o'r farn bod angen iddynt fod yn hygyrch.
- Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r sylw y dylid ail-eirio'r asesiad anghenion fferyllol fel ei fod yn adlewyrchu'r angen i'r fferyllfeydd a'r bwrdd iechyd weithio gyda'i gilydd i gynyddu argaeledd gwasanaethau. Nodwyd hefyd fod rhai fferyllfeydd nawr wedi arwyddo i ddarparu gwasanaethau newydd. Mae'r bwrdd iechyd o'r farn nad oes angen newid yr asesiad anghenion fferyllol y ffordd hon, ac mae wedi gwneud nodyn o'r agwedd a fabwysiadwyd yn Lloegr gan 'NHS Resolution' lle mae'n penderfynu apeliadau ar geisiadau i'w cynnwys mewn rhestr fferyllol.
  I grynhoi, mae 'NHS Resolution' o'r farn os yw asesiad anghenion fferyllol yn cynnwys datganiadau megis "nid oes angen fferyllfa newydd", nid yw hyn yn golygu'n awtomatig y dylid gwrthod unrhyw gais yn cynnig bodloni'r angen dynodedig.
  Tra bo'n well gan y bwrdd iechyd i'r fferyllfeydd presennol ddarparu'r gwasanaethau dynodedig mae'n ymwybodol y gall fferyllfeydd ddewis, am amryw o resymau, i beidio â gwneud hynny.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r sylw ynghylch y fferyllfa breifat ym mharc manwerthu Plas Coch ac mae'r awgrym wedi'i gynnwys mewn adran yn dwyn y teitl

gwasanaethau heb fod yn rhai GIG. Nid yw’r bwrdd iechyd wedi’i berswadio fod hynny’n angenrheidiol, ond mae wedi symud y paragraff ynghylch y fferyllfa hon i’r adran flaenorol. Gall ond cadarnhau nad yw wedi rhoi unrhyw bwysau ar leoliad y fferyllfa hon ac mae wedi’i gynnwys o ran cyflawnrwydd, yn yr un ffordd ag y mae wedi cynnwys rhai o’r gwasanaethau preifat a ddarperir gan fferyllfeydd a meddygon rhagnodi.

**4.5 A yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth i lywio penderfyniadau mynediad i'r farchnad hy penderfyniadau ar geisiadau am fferyllfeydd newydd a chontractwr dosbarthu offer, a cheisiadau gan feddygon i ddosbarthu?**

a) Fel yr amlinellwyd yng Nghwestiwn 4, ni welwyd tystiolaeth gadarn o'r anghenion a nodwyd, ac o'r herwydd mae cwestiwn a yw'r rhain yn anghenion o ran Mynediad i'r Farchnad. Mae cyfeirio at beidio â darparu gwasanaeth fel angen heb ei ddiwallu yn creu bwlch a gwahoddiadau wedyn am geisiadau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.
Rydym yn argymell bod yr Asesiad yn cael ei aralleirio i adlewyrchu'r angen i ddarparwyr gwasanaethau fferyllol presennol a'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'i gilydd i gynyddu argaeledd a darpariaeth o’r gwasanaethau, yn hytrach na nodi bwlch ffurfiol yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol. Mae'r Asesiad yn ddogfen swyddogol i sefydlu rheolaeth ar drefniadau mynediad. Ni chafodd ei chynllunio i fod yn broses i 'annog' contractwyr i wella'r modd y darperir gwasanaethau ac nid yw'n briodol iddo gael ei ddefnyddio felly.

b) Mae angen i'r Asesiad gynnwys copïau o fapiau ar gyfer ardaloedd rheoledig dynodedig os yw am fodloni'r gofyniad hwn. O ystyried natur wledig rhannau helaeth o ardal BIPBC, mae CPW yn synnu nad yw'r rhain wedi'u cynnwys.

Mae Canllawiau anstatudol Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn nodi:

Tudalen 15 **Darpariaeth Gwasanaethau Fferyllol gan feddygon teulu** - *O fewn eu Hasesiad, bydd angen i Fyrddau Iechyd Lleol gynnwys gwybodaeth am yr ardal neu ardaloedd y mae gan eu meddygon dosbarthu ganiatâd amlinellol i ddarparu ar ei gyfer, ynghyd â gwybodaeth am ba safleoedd y mae gan y meddygon hynny gymeradwyaeth ar eu cyfer. Awgrymir bod BILl naill ai'n cynnwys mapiau o'u hardaloedd rheoledig yn eu Hasesiad neu'n darparu dolen we (URL) i'r man lle maent yn cael eu cyhoeddi ar wefan y BILl.*

Tudalen 36 **Mapiau o Ardaloedd Rheoledig** - *O dan baragraff 7 o Atodlen 3 y Rheoliadau, mae gan Fyrddau Iechyd Lleol dal ddyletswydd i ddarlunio ffiniau unrhyw ardal a reolir sy'n cael ei bennu ar fap, neu i gael gwared ar y ffin amlinellol o ardal sydd wedi peidio â bod yn ardal reoledig. Bydd mapiau o'r fath ar gael i'w harchwilio a dylid eu cynnwys yn Asesiad y BILl. Mae'n bwysig bod ffiniau ardaloedd rheoledig wedi'u marcio'n glir, gan ddefnyddio marcwyr daearyddol priodol, er enghraifft afonydd, nid dim ond y marciau grid sgwâr sydd wedi'u printio ar ben mapiau'r Arolwg Ordnans. Dylent hefyd fod ar lefel yn ddigon manwl i alluogi unrhyw*

*ymholwr i ddweud a yw unrhyw leoliad penodol yn dod o fewn ardal reoledig ai peidio.*

Tudalen 36 **Penderfyniad bod ardal yn ardal reoledig**

Gall newidiadau gymryd lle mewn perthynas â dynodi ardaloedd, yn enwedig lle mae ardal drefol yn ehangu i'r wlad o gwmpas, neu lle caniatawyd datblygiad sylweddol mewn ardal a fu tan hynny’n ardal reoledig. Mae'r gwrthwyneb yn llawer prinnach ond gall ddigwydd, er enghraifft, lle mae ardal ddiwydiannol wledig (er enghraifft chwarel) yn cau.

Heb gynnwys mapiau o ardaloedd rheoledig nid oes sicrwydd bod cleifion sy'n derbyn gwasanaethau fferyllol gan eu meddyg, yn byw mewn ardaloedd rheoledig a bennir yn briodol; bu llawer o ddatblygiadau ar gyrion trefi gwledig ac, efallai na fydd ardaloedd y credwyd eu bod yn ardaloedd rheoledig bellach o fewn y ffiniau. Yn ogystal, **oni bai bod y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu tystiolaeth trwy fap wedi'i amlinellu o'u hardaloedd rheoledig ni fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu cymryd unrhyw gamau ar unrhyw gais y mae'n ei dderbyn nes iddo gael ei benderfynu bod y cais mewn ardal reoledig ai peidio; mae hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd mae'n bosibl y bydd cais am fferyllfeydd newydd ym Metws-y-coed a Thywyn.**

Mae CPW yn cadw'r hawl i archwilio mapiau o ardaloedd rheoledig yn unol â Pharagraff 7 o Atodlen 3 o'r Rheoliadau ac i ofyn am benderfyniad ynghylch a yw ardal yn cael ei rheoli yn unol â Rheoliad 13 (2) ai peidio.

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi y cyfarwyddyd anstatudol sy’n nodi y dylai (yn hytrach na rhaid) i’r mapiau ardaloedd rheoledig gael eu cynnwys yn yr asesiad anghenion fferyllol. Nodwyd nad yw’n ofyniad statudol i wneud hynny. Gan y bydd yr asesiad anghenion fferyllol yng ngolwg y cyhoedd am hyd at bum mlynedd, ac ni ellir diweddaru adrannau fel bydd angen, mae yna risg y bydd cynnwys mapiau lleoliadau rheoledig cyfredol yn golygu y byddant yn parhau i fod yng ngolwg y cyhoedd hyd yn oed os byddant yn cael eu newid yn dilyn penderfyniad o dan reoliad 13(2) o Reoliadau’r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Petai angen copiau o’r mapiau adraloedd rheoledig, gall y bwrdd iechyd eu darparu

**4.6 A yw'r asesiad anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth i lywio sut y gellir comisiynu gwasanaethau fferyllol yn ardal y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol?**

Pwrpas yr Asesiad yw asesu a nodi sut y gall darparu gwasanaethau fferyllol ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth ardal y Bwrdd Iechyd am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn yr Asesiad i edrych y tu hwnt i gyfnod o bum mlynedd.
Fel yr amlinellwyd yng Nghwestiwn 4 mae pryderon mewn perthynas â'r anghenion presennol ac anghenion y dyfodol a nodwyd

Nid yw'n eglur a fydd camau cadarn yn cael eu cymryd i gyd-fynd â'r cyfleoedd sylweddol i ddiwallu anghenion iechyd cleifion lleol, yn ogystal â defnyddio'r cyfleusterau a gaiff eu tanddefnyddio yn y rhwydwaith fferylliaeth gymunedol leol.

Mae'r bwrdd iechyd yn falch o nodi fod capasiti heb ei ddefnyddio gan y fferyllfeydd.

**4.7 A yw'r asesiad anghenion fferyllol wedi darparu digon o wybodaeth i lywio darpariaeth gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer fferyllfeydd, contractwyr dosbarthu offer a meddygon dosbarthu?**

a) Yn adran 1.5.4 P32, mae'r Asesiad wedi asesu gallu contractwyr fferyllol i gynyddu capasiti pe bai cynnydd yn y galw am wasanaethau fferyllol trwy'r holiadur contractwr fferyllfa (ymarfer AWPD). Cadarnhaodd yr ymarfer fod 124 o fferyllfeydd (82%) wedi dweud bod ganddyn nhw ddigon o gapasiti yn eu hadeiladau presennol a lefelau staffio digonol i gwrdd â chynnydd yn y galw, gydag 20 fferyllfa ychwanegol (13%) yn dweud nad oeddynt ar hyn o bryd ond y gallen nhw wneud addasiadau i'w trefniadau ar gyfer hyn. Roedd hefyd yn braf nodi bod rhan sylweddol o'r rhwydwaith hefyd yn buddsoddi yn y dyfodol gyda 13 fferyllfa â chynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu hadeilad neu eu darpariaeth gwasanaethau. Dylai'r niferoedd uchel iawn yma roi'r hyder i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu'r cyfraniadau a wneir gan eu rhwydwaith fferylliol.

b) Nodir nas ymatebodd pob meddyg dosbarthu i'r holiadur meddygon dosbarthu. Mae absenoldeb atebion i'r holiadur Meddygon Dosbarthu yn arwain at hiatws yn y ddealltwriaeth o'r: opsiynau dosbarthu sydd ar gael gan feddygon dosbarthu; gallu i ymdopi â galw ychwanegol ac argaeledd gwasanaethau dosbarthu eraill mewn rhai meysydd

Adran 5.1.1 (tudalen 91) Ymddengys hefyd nad yw mynediad at feddygfeydd dosbarthu yng nghyd-destun amser teithio mewn cerbyd am 20 munud wedi'i asesu.

c) Mae'r Asesiad yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau newydd a chynlluniau Datblygu Lleol lle bo hynny'n berthnasol. Mae uno meddygfeydd Meddygon Teulu ac adleoli hefyd wedi'u hystyried. Ar adeg drafftio, nodir nad oedd gwybodaeth am unrhyw uno nac adleoli meddygfeydd teulu arfaethedig yn hysbys, er y rhagwelir y bydd hyn yn digwydd o fewn oes y ddogfen

d) Os bydd unrhyw uno neu adleoli yn codi yn ystod oes yr Asesiad, mae'n rhaid archwilio eu heffaith ar yr angen am wasanaethau fferyllol

Nododd y bwrdd iechyd y sylwadau hyn.

**4.8 A oes unrhyw wasanaethau fferyllol y gellid eu darparu mewn fferyllfeydd yn y dyfodol na chawsant eu hamlygu?**

Mae'r Asesiad yn adolygu darpariaeth Gwasanaethau Hanfodol, Uwch a Gwell ym mhob un o'r 14 ardal. Fodd bynnag, cynhaliwyd yr adolygiad o wasanaethau gwell gan gyfeirio at y rhestr gyfredol o wasanaethau a gomisiynwyd ac nid yw wedi

edrych yn ehangach ar y gwasanaethau hynny y gellid eu rhoi ar waith i ddiwallu'r anghenion poblogaeth a nodwyd.
Yn Adran 7, P113 mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau fod ' *pob ymweliad iechyd â fferyllfa yn rhoi cyfle gwerthfawr i gefnogi newid ymddygiad trwy wneud i bob un o'r ymweliadau hyn gyfrif. Gallai gwneud dewisiadau iach fel rhoi'r gorau i ysmygu, gwella diet a maeth, cynyddu gweithgaredd corfforol, colli pwysau a lleihau faint o alcohol a yfir wneud cyfraniad sylweddol at ostwng y risg o glefydau, gwella canlyniadau iechyd i'r rheini â chyflyrau tymor hir, lleihau marwolaethau cynamserol a gwella lles meddyliol. Mae fferyllfeydd mewn sefyllfa ddelfrydol i annog a chefnogi pobl i wneud y dewisiadau iach hyn fel rhan o ddarparu gwasanaethau fferyllol '.*

Mae hyn yn awgrymu uchelgais ehangach ar gyfer anghenion y boblogaeth ac yn nodi cyflyrau y gellid cynnig darpariaeth ar eu cyfer yn effeithiol ac yn gymwys gan y rhwydwaith fferylliaeth gymunedol, a'u trin fel 'gwasanaethau fferyllol'. Mae CPW yn rhannu'r weledigaeth ehangach hon a byddai'n annog y Bwrdd Iechyd i edrych eto ar anghenion iechyd a lles y boblogaeth y gallai'r gwasanaethau fferylliaeth cymunedol eu diwallu.

Er enghraifft yn Adran 3.8, P71, cydnabyddir bod yfed gormod o alcohol yn un o brif achosion marwolaethau a salwch. Ar draws ardal BIPBC cadarnhawyd bod 57.7% o oedolion yn yfwyr cymedrol, 15.2% fel yfwyr mewn perygl a 2.7% yn yfwyr niweidiol. Felly mae lleihau'r alcohol a yfir yn amlwg yn gyfle sylweddol i wella iechyd y boblogaeth.

Yn ogystal, yn Adran 3.9 tudalennau 72-3, mae'r Asesiad yn nodi mai bod dros bwysau ynghyd, a diffyg symud corfforol yw trydydd a phedwerydd prif achos afiechyd, gyda dros hanner y boblogaeth (55.4%) o oedolion yng Ngogledd Cymru wedi'u categoreiddio fel dros bwysau neu'n ordew. Mae hwn yn amlwg yn faes arall sy'n cynnig cyfleoedd, a ble gall gwell dewisiadau ffordd o fyw gael effaith gadarnhaol uniongyrchol a sylweddol ar wella iechyd a lleihau gwariant ar iechyd.

Mae helpu rhywun i leihau eu defnydd o alcohol, colli pwysau a chynyddu gweithgaredd corfforol yn rhan o reoli newid ac nid yw'n wahanol i helpu rhywun i roi'r gorau i ysmygu. Dros nifer o flynyddoedd mae'r fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru wedi dangos eu gallu i newid ymddygiad ysmygwyr ac eto nid yw sgiliau'r rhwydwaith a hygyrchedd y rhwydwaith wedi'u defnyddio i wella dewisiadau ffordd o fyw. Yn adran 1.5.4 lle gofynnwyd i fferyllfeydd cymunedol nodi cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau yn seiliedig ar alw lleol gwybyddus, roedd gwasanaethau rheoli pwysau ac alcohol ymhlith y rhai a gyflwynwyd.

Mewn perthynas â chlefydau anadlol, mae Adran 3.6 yn nodi mai clefydau anadlol yng Ngogledd Cymru oedd trydydd prif achos marwolaeth uchaf 2018 gyda Sir Ddinbych â chyfradd uwch na chyfartaledd Cymru. Ysmygu yw un o achosion allweddol clefyd anadlol ac mae'n achos pryder mawr gan fod y gyfradd ysmygu yng Ngogledd Cymru unwaith eto yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae cyfle sylweddol i fferyllfeydd cymunedol, sef y gwasanaeth mwyaf hygyrch sy'n cynnig gofal iechyd o fewn BIPBC, i barhau i ostwng cyfraddau ysmygu a gwella rheolaeth asthma a COPD. Adroddwyd yn yr Asesiad bod darparu Meddyginiaethau Achub Anadlol a

Gwasanaeth Stopio Ysmygu Varenicline yn feysydd sy’n cynnig cyfleoedd o fewn o fferyllfeydd cymunedol.

Mae Adran 3.7, P70 yn nodi '*yn 2017, cyfradd beichiogrwydd yr arddegau fesul 100,000 o ferched o dan 18 oed yng Nghymru oedd 20.2. Gwynedd sydd â'r gyfradd isaf (19.5) o'r holl Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru a dyma'r unig le y mae ei gyfradd yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Sir Ddinbych sydd â'r gyfradd uchaf, sef 26.9, ac yna Wrecsam yn agos at 26.6.* ' Yn eu hymateb mewn perthynas â chyfleoedd i fferyllfeydd cymunedol, dywedwyd y dylid cymryd rhan fwy mewn profi am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs) a darparu gwasanaethau atal cenhedlu.

Er bod yr anghenion hyn yn weddol debyg ledled Gogledd Cymru mae'n ddiddorol nodi, yn Adran 4.9, P83, bod yr Asesiad yn nodi mai sgrinio ar gyfer, a thrin heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ynghyd â rhoi'r gorau i ysmygu yw'r ddau angen iechyd pennaf ar gyfer y poblogaethau myfyrwyr yn y ddwy brifysgol ym Mangor a Wrecsam.
Mae'r uchod yn rhai enghreifftiau yn unig o anghenion iechyd y gellir eu diwallu'n effeithiol trwy ddefnyddio mwy ar y rhwydwaith fferylliaeth gymunedol. Gan fod fferyllfeydd wedi cadarnhau eu gallu i ymgymryd â mwy o wasanaethau, mae CPW yn teimlo na ddylid colli cyfle i ddefnyddio'r gwaith rhagorol a wnaed wrth gynnal yr Asesiad er mwyn datblygu rhestr gynhwysfawr o wasanaethau lleol i'w cyflwyno yn y blynyddoedd i ddod, fel y gellir alinio capasiti fferyllfeydd ag anghenion y boblogaeth leol yn well
Bydd y bwrdd iechyd yn parhau i ddatblygu’r ystod o wasanaethau y mae’n eu comisiynu gan fferyllfeydd a bydd yn ystyried y gwasanaethau a awgrymwyd gan gontractwyr.

**4.9 A oes unrhyw ddatblygiadau a fydd yn codi yn ystod oes yr asesiadau anghenion fferyllol na chawsant eu nodi?**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau a allai godi o fewn oes yr Asesiad nad yw eisoes o fewn yr Asesiad. Fodd bynnag, gall contractwyr fferyllfeydd unigol, aelodau'r cyhoedd ac eraill sydd â gwybodaeth leol rybuddio'r Bwrdd Iechyd am unrhyw ddatblygiadau y maent yn ymwybodol ohonynt.

Mae’r bwrdd iechyd yn falch o nodi nad yw Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau sydd wedi’u methu.

**4.10 A ydych chi'n cytuno â chasgliadau'r asesiad anghenion fferyllol?**

Ni all CPW gytuno â chasgliadau'r anghenion fferyllol oherwydd teimlir nad yw anghenion nas diwallwyd wedi'u dangos yn ddigonol am y rhesymau a amlinellir yng Nghwestiwn 4.

Rydym yn argymell bod yr Asesiad yn cael ei aralleirio i adlewyrchu'r angen er mwyn i’r darparwyr gwasanaethau fferyllol presennol a'r Bwrdd Iechyd allu gweithio gyda'i gilydd i gynyddu argaeledd a darpariaeth gwasanaethau, yn hytrach na nodi “bwlch’ ffurfiol yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol”.

Atgoffir BIPBC fod nodi angen nas diwallwyd yn creu bwlch, ac o ganlyniad ceisiadau posibl i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Gall nifer uchel o geisiadau godi mewn ymateb i bob angen a bydd hyn yn creu llwyth gwaith sylweddol i'r Bwrdd Iechyd wrth ymateb i'r ceisiadau hyn.

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi sefyllfa Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac wedi aileirio a newid rhai o’r anghenion dynodedig.

**4.11 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?**

a) Penodau Ardaloedd - byddai'n ddefnyddiol i'r darllenydd pe bai rhestr o'r fferyllfeydd a'u cyfeiriadau wedi'u cynnwys ym mhennod pob ardal.

b) Nid yw llawer o'r mapiau yn hawdd eu hadnabod ac mae rhai o'r fferyllfeydd, trefi a phentrefi ee Nefyn a Caerwys heb eu cynnwys. Yn ogystal, mae adrannau sy'n nodi [Mewnosod map] sy'n nodi bod mapiau ar goll.

Mae anghysondebau data hefyd ac felly mae nifer y meddygon sy’n dosbarthu yn newid sawl gwaith fewn y ddogfen. Awgrymir bod BIPBC yn gwirio cywirdeb a chysondeb data cyn ei gyhoeddi.

c) Adran 10.6.15 - Tudalen 188 - cyfeirir at y gwasanaeth IP yn Dwyfor fel “gwasanaeth newydd”. Mae 3 o'r 9 fferyllfa yn Nwyfor yn cynnig gwasanaeth IP llawn - hynny yw argaeledd o 33%. Mae CPW yn chwilfrydig pam y gelwir y gwasanaeth hwn yn “newydd”.

ch) Yn adran 1.5.3, Tudalen 25 nodir 'pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn ymwybodol o'r gwasanaethau eraill y mae fferyllfeydd yn eu darparu fel rhan o'r GIG, roedd yr ymwybyddiaeth o wasanaethau ffliw yn dda gyda dros 80% yn gwybod, ond roedd llai na 40% yn ymwybodol o'r gefnogaeth stopio ysmygu sydd ar gael mewn fferyllfeydd cymunedol ac nid oedd 65% o'r boblogaeth yn ymwybodol y gallent gael mynediad at y bilsen bore wedyn yn eu fferyllfa leol.

Gan nad oes cymaint o ymwybyddiaeth o wasanaethau fferylliaeth cymunedol ag y gallai fod, byddai’r Asesiad yn awgrymu bod hyn yn arwydd fod cynyddu cyfathrebu a marchnata yn ardal y Bwrdd Iechyd, ac os trosglwyddwyd y gwaith i ffwrdd o feddygfeydd teulu, a darparwyr llai priodol eraill i'w gyflawni. Byddai CPW yn annog y Bwrdd Iechyd i gychwyn ar ymgyrch farchnata a chodi ymwybyddiaeth leol i annog y boblogaeth leol i Ddewis yn Dda.

Mae’r bwrdd iechyd yn ymateb i’r sylwadau hyn fel a ganlyn.

a) Mae’r wybodaeth hon ar gael yn atodiad L.
b) Mae hyn rhannol oherwydd y meddalwedd mapio ac ni ellir ei ddatrys. Fodd bynnag, mae’r mapiau wedi cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn adlewyrchu lle mae, neu lle’r oedd gwasanaethau yn cael eu darparu.
c) Defnyddir y gair ‘fledgling’ i ddisgrifio gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn anaeddfed a heb ei ddatblygu gan ei fod yn eithaf newydd ac yn dal i gael ei ymestyn a’i fewnosod ar draws ardal y bwrdd iechyd.

d) Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r sylw hwn. Rhan o’r sialens i hyrwyddo gwasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd yw’r amrywiad yn y galw am wasanaethau ac am y rheswm hwn yn rhannol yr hoffai’r bwrdd iechyd weld ystod graidd o wasanaethau uwch yn cael eu darparu gan bob fferyllfa. Nodir, fel rhan o’r system llywodraethu clinigol, ei bod yn ofynnol i fferyllfeydd gyhoeddi gwasanaethau’r GIG sydd ar gael yn neu gan eu hadeiladau.

**4.12 Casgliad**

Mae CPW yn cydnabod y gwaith a wnaed gan BIPBC i gynhyrchu eu hasesiad Anghenion Fferyllol cyntaf.

Mae CPW yn pryderu bod y ddogfen yn adlewyrchu awydd am wasanaethau unffurf cyfleus yn hytrach na nodi gwir anghenion y boblogaeth ar gyfer rhai o'r gwasanaethau sy'n cael eu hystyried.

Pan nodir bwlch, dylid cynnwys tystiolaeth gadarn ar gyfer yr angen hwnnw yn yr Asesiad a dylid archwilio i mewn i’r rhesymau dros fethiant y contractwyr fferyllfa presennol i ddarparu'r gwasanaeth. Ni ddylid cynnwys anghenion ar fympwy yn yr Asesiad PNA.

Mae nodi angen nas diwallwyd yn creu bwlch ac o’r herwydd yn gwahodd ceisiadau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Gall nifer uchel o geisiadau godi mewn ymateb i bob angen a bydd hyn yn creu llwyth gwaith sylweddol i'r Bwrdd Iechyd wrth ymateb i'r ceisiadau hyn.

Bydd CPW yn gweithio gyda chontractwyr a'r Bwrdd Iechyd i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau a bydd yn ceisio helpu fferyllfeydd nad ydynt wedi'u comisiynu i gael eu comisiynu. Pan fydd fferyllfeydd yn cael eu comisiynu ond heb ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol, bydd CPW yn ceisio sefydlu beth yw’r rhwystrau / rhesymau dros beidio â darparu.

Rydym yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn ailedrych ar bob un o'rGgwasanaethau Gwell a nodwyd fel angen nas diwallwyd ac yn archwilio'r Asesiad gan ei ail-eirio i adlewyrchu'r angen i ddarparwyr gwasanaethau fferyllol presennol a'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'i gilydd i gynyddu argaeledd a defnydd o’r gwasanaethau, yn hytrach na nodi “bwlch ffurfiol yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol”.

Mae'r Aesiad yn ddogfen swyddogol i sefydlu rheolaeth ar drefniadau mynediad. Ni chafodd ei gynllunio i fod yn broses i annog contractwyr i wella'r modd y darperir gwasanaethau ac nid yw'n briodol ei ddefnyddio felly. Gan fod y gofynion yn yr Asesiad wedi'u gosod yn benodol mewn deddfwriaeth, yna mae gwyro o'r fframwaith deddfwriaethol gan y Bwrdd Iechyd yn arwain at risg y caiff ei herio trwy adolygiad barnwrol.

Byddai CPW yn annog y Bwrdd Iechyd i fanteisio ar y gwaith a wnaed, trwy ddefnyddio'r data iechyd ac anghenion yn yr Asesiad i lywio datblygiad y rhwydwaith fferylliaeth gymunedol wrth symud ymlaen.

## 5 Casgliadau cryno

Mae’r bwrdd iechyd yn nodi fod nifer o bryderon wedi’u nodi o ran yr anghenion dynodedig ac mae wedi cymryd y sylwadau i ystyriaeth. Gyda golwg ar hyn mae wedi newid nifer o’r anghenion ac wedi tynnu rhai eraill lle mae’r fferyllfeydd presennol wedi arwyddo i ddarparu’r gwasanaethau dynodedig.

## 6 Monitro cydraddoldebau

Daeth tri o'r 15 ymateb gan aelodau'r cyhoedd. O'r rhain:

- Nododd dau mai eu hiaith ddewisol wrth gael gwasanaethau mewn fferyllfa neu feddygfa yw Cymraeg, gydag un yn nodi Saesneg.
- Mae un yn 25 i 44 oed, ac mae dau yn 55 i 64 oed.
- Mae dau yn ddynion ac un yn fenyw.
- Mae un yn disgrifio'u hunain fel Prydeinwyr, un fel Cymraeg ac roedd yn well gan un beidio â dweud.
- O ran cyfeiriadedd rhywiol, dywedodd y tri eu bod yn heterorywiol.
- Mae'r tri yn briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw.
- O ran crefydd, dywedodd un eu bod yn Gristion (pob enwad, dywedodd un nad oedd ganddyn nhw grefydd ac roedd yn well gan un beidio â dweud.
- Dywedodd y tri nad yw eu hunaniaeth rhyw wedi newid o'r hyn a neilltuwyd iddynt adeg genedigaeth.
- Dywedodd dau eu bod yn gofalu am neu'n rhoi help neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd naill ai anabledd salwch corfforol neu feddyliol tymor hir neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint. Dywedodd un nad oeddynt.

## 7 Diwygiadau

Gwnaed y diwygiadau canlynol i'r asesiad o anghenion fferyllol:

- Camgymeriadau argraffu cyffredinol wedi’u cywiro fel sydd angen.
- Cyfeiriadau at y nifer o fferyllfeydd wedi’u diweddaru i’r sefyllfa fel ar Awst 2021. Mae’r cyfanswm yn parhau i fod yr un fath ar 152. Gwybodaeth ar y nifer o eitemau a ragnodwyd gan fferyllfeydd neu wedi’u dosbarthu’n bersonol gan feddygfeydd wedi’u hychwanegu ar gyfer 2020/21 yn yr adrannau perthnasol.
- Gwybodaeth am y nifer a chanran y bobl y mae eu MT yn rhagnodi iddynt o Fai 2021 wedi’i ychwanegu i’r adrannau perthnasol yn lle’r wybodaeth flaenorol o Ionawr 2021.
- Crynodeb gweithredol wedi’i ddiweddaru i adlewyrchu’r newidiadau a wnaed i’r anghenion dynodedig.
- Adran 1.1 wedi’i newid i egluro mai dim ond dau fath o gais sydd ddim yn seiliedig ar anghenion wedi’u dynodi yn yr asesiad anghenion fferyllol.
- Adran 1.2 a thudalen 32 wedi’u cywiro i adlewyrchu’r ffaith fod 37 practis sy’n rhagnodi.
- Adran 1.5.6 ac atodiad K wedi’u diweddaru i adlewyrchu’r ffaith fod yr adroddiad ar yr ymgynghoriad wedi’i ychwanegu i atodiad K.

- Adran 5.1.2 a phenodau ardaloedd lleol wedi'u newid i adlewyrchu oriau agor fel ar Awst 2021.
- Adran 5.1.3 wedi'i newid i adlewyrchu'r ffaith fod y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn parhau i fod wedi'i wahardd dros dro.
- Adrannau 5.1.4 i 5.1.6 a'r penodau ardaloedd lleol wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa alldro ar gyfer y gwasanaethau uwch yn 2020/21.
- Pennod 5 a'r penodau ardaloedd lleol wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa alldro ar gyfer y nifer o fferyllfeydd sy'n darparu bob un o'r gwasanaethau uwch yn 2020/21, a'r nifer sydd wedi'u comisiynu i ddarparu bob gwasanaeth yn 2021/22.
- Adran 5.2.1 wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r nifer o eitemau a ragnodwyd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd yn 2021/22.
- Adran 5.3 wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r nifer o fferyllfeydd yng Nghymru sydd wedi rhagnodi presgripsiynau ysgrifenedig yn ardal y bwrdd iechyd.
- Pennod 6 wedi'i ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth ar y nifer o eitemau a ragnodwyd yn 2020/21 a lle y cawsant eu rhagnodi.
- Mae'r anghenion cyfredol ar gyfer agor yn ychwanegol min nos yn ystod yr wythnos, wedi'i dynnu o'r penodau ardaloedd lleol perthnasol.
- Mae'r anghenion ar gyfer agor yn ychwanegol ar y penwythnosau yn y dyfodol wedi'i dynnu o'r penodau ardaloedd lleol perthnasol.
- Mae'r bennod yn ymwneud â'r angen yn y dyfodol i gau fferyllfa y tu allan i drefi a phentrefi penodol ym mhob ardal leol wedi'i newid i egluro fod hyn yn cyfeirio at y sefyllfa lle bydd fferyllfa yn tynnu'n ôl o'r rhestr fferyllol.
- Mae'r bennod yn ymwneud â'r angen yn codi yn y dyfodol oherwydd colli oriau agor ychwanegol ar Sadyrnau o 1 Ebrill 2021 ym mhob ardal leol wedi'i newid fel bod angen yn y dyfodol dim ond yn codi os bydd gostyngiad mewn oriau agor ychwanegol yn arwain at lai na thair awr o ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn y dref neu'r pentref lle mae'r golled yn digwydd
- Mae'r angen ar gyfer y dyfodol sy'n codi pan fydd practis sy'n rhagnodi yn rhoi'r gorau i ragnodi i ardal ar gyfer yr hyn y mae ganddo gydsyniad amlinellol, wedi cael ei newid ym mhob pennod ardal leol. Yr angen, petai'r sefyllfa'n codi, yw am wasanaeth MT sy'n rhagnodi neu fferyllfa sy'n darparu ystod o wasanaethau penodol.
- Mae'r angen cyfredol ar gyfer gwasanaethau uwch penodol mewn rhai ardaloedd lleol wedi'i newid gan ei fod yn well gan y bwrdd iechyd i'r fferyllfeydd presennol ddarparu ystod graidd o wasanaethau uwch. Bydd y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfa neu'r fferyllfeydd presennol sydd ddim yn darparu'r gwasanaethau penodedig ar hyn o bryd i ddeall y rheswm dros beidio â darparu. Fodd bynnag, pe na bai'r bwlch yn cau, yna o 1 Ebrill 2021 fe fydd angen yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth neu'r gwasanaethau.
- Mae'r angen dynodedig ar gyfer y gwasanaeth cyfnewid chwistrellau a nodwyddau mewn rhai ardaloedd lleol wedi cael ei dynnu gan fod fferyllfeydd presennol wedi dod ymlaen i ddarparu'r gwasanaeth.
- Mae'r angen dynodedig ar gyfer gwasanaethau uwch penodol i gael eu darparu yn ardaloedd lleol Ynys Môn a Dwyfor o'r 1af Ebrill 2022 wedi'i newid i ddarllen o 1 Ebrill 2023 i ddarparu cysondeb mewn perthynas â'r holl anghenion dynodedig ar gyfer y dyfodol ar gyfer gwasanaethau uwch.
- Mae'r angen dynodedig yn adran 14.6.7 wedi cael ei dynnu gan ei fod nawr wedi'i fodloni.

- Mae cyfeiriadau at anghenion dynodedig yng Nghaerwys wedi cael eu symud o bennod 15 i bennod 16 gan ei fod yn ardal Gogledd Orllewin Sir y Fflint ac nid Canol a De Sir Ddinbych. Mae cyfeiriadau at gyfanswm y nifer o fferyllfeydd yn y ddwy ardal leol wedi cael eu newid, yn ogystal â'r nifer o fferyllfeydd sy'n darparu bob gwasanaeth.
- Mae cyfeiriad at y fferyllfa breifat yn adran 20.6 wedi cael ei symud i adran 20.5.
- Mae'r angen dynodedig yn adran 21.6.7 mewn perthynas â Rhiwabon ac Owrtyn wedi cael ei dynnu gan ei fod nawr wedi'i fodloni.
- Mae Pennod 22 wedi cael ei newid yng ngoleuni'r newidiadau uchod i anghenion dynodedig.

## Atodiad L – oriau agor

Atodiad L v2.xlsx